...fer o flaen darllain yr ...thyr lân.

O ...rglwydd, yr hwn a beraiſt fod ...rythyr lân yn ſgrifenedig er mwyn ...naeth a'n h... ...od i mi yn ...yniyw fodd ...chain ...hwilio, a'i ...igu, ac ...newi... ...am- mynedd a ...oheid- iwyddiac yn ...ol ...ufudgaid obaith ...yddol, yr hon a roddaiſt i ni yn ein ... ...au Grist. *Amen.*

I Gorēi am yr ail Sul yn Adfent.

...fer o flaen darllain yr ...thyr lân.

O ...rglwydd, yr hwn a beraiſt fod ...rythyr lân yn ſgrifenedig er mwyn ...naeth a'n h... ...od i mi yn ...yniyw fodd ...chain ...hwilio, a'i ...igu, ac ...newi... ...am- mynedd a ...oheid- iwyddiac yn ...ol ...ufudgaid obaith ...yddol, yr hon a roddaiſt i ni yn ein ... ...au Grist. *Amen.*

I Gorēi am yr ail Sul yn Adfent.

K. Litwrgiol - Engl. - Cym. 1

LLYFR

Gweddi Gyffredin,

A Gweinidogaeth y

SACRAMENTAU,

A

Chynheddfau a Seremoniau eraill yr Eglwys,

Yn ôl arfer

EGLWYS LOEGR;

Ynghŷd a'r

SALLWYR neu SALMAU

DAFYDD,

Wedi eu Nodi megis ag y maent i'w Canu neu i'w Dywedyd mewn Eglwyfydd:

A'R

Ffurf neu Ddull Gwneuthur, Urddo, a Chyſſegru

ESGOBION, OFFEIRIAID, a DIACONIAID.

CAER-GRAWNT:

Printiedig gan JOSEPH BENTHAM, Printiwr i'r Brîf-Yſgol.

M.DCC.XLVI.

BRITISH MUSEUM

Bannau 'r Llyfr hwn.

YR *Actau am Unffurfiad Gweddi Gyffredin.*
Y Rhagymadrodd.
Am Wasanaeth yr Eglwys.
Am Seremoniau.
Y Drefn pa wèdd yr appwyntir y Sallwyr i'w ddarllain.
Y Drefn pa wèdd yr appwyntir y Rhannau eraill o'r 'Sgrythur Lân i'w darllain.
Tablau o'r Llithiau a'r Salmau prŷd.
Y Calendar, gyd â Thabl y Llithiau.
Tabl o'r Gŵyliau symmudol, wedi ei gylchu dros ddeugain Mlynedd.
I gael y Pâsg dros fyth.
Tablau, a Rheolau am y Gŵyliau a'r Ymprydiau trwy 'r flwyddyn.
Y Drefn am Weddi Foreuol.
Y Drefn am Brydnhawnol Weddi.
Credo S. Athanasius.
Y Litani.
Gweddïau, a Diolch ar amryw achosion.
Y Colectau, yr Epistolau, a'r Efengylau a arferir wrth Finistriad y Cymmun bendigedig, trwy 'r flwyddyn.
Trefn Ministriad y Cymmun bendigaid.
Trefn Bedydd Cyhoedd a Neilldnol.
Trefn Bedydd rhai mewn oedran addfedach.
Y Catecism, gyd â Threfn Confirmiad Plant.
Trefn Priodas.
Gofwy a Chymmun y Clâf.
Trefn Claddedigaeth y Marw.
Diolch Gwragedd yn ôl esgor plant.
Comminasiwn, neu Cyhoeddiad Ilidiowgrwydd a Barnedigaethau Duw yn erbyn Pechaduriaid.
Y Sallwyr.
Trefn Gweddïau i'w harfer ar y Môr.
Ffurf Gweddi i'r Pummed dydd o Dachwedd.
Ffurf Gweddi i'r Degfed ar bugain o Jonawr.
Ffurf Gweddi i'r Nawfed ar bugain o Fai.
Ffurf Gweddi i'r unfed ardâlg o Fehefin.
Y Drefn a'r mâdd i Ordeinio Esgobion, Offeiriaid, a Diaconiaid.
Y XXXIX. *Erthyglau Crefydd, a'u Tabl.*
Canonau 'r Eglwys, a'u Tabl.
Y Graddau gwaharddedig i briodi.
Y Salmau cân.
Yr Hymnau, Te Deum, *&c.*

ACT am Unffurfiad Gweddi Gyffredin, a Gwasanaeth yn yr EGLWYS, a Gweinidogaeth y SACRAMENTAU.

I. ELIZABETH.

LLE 'r ydoedd ar farwolaeth ein diweddar Arddercho Arglwydd Frenhin *Edward* y Chweched, unffunud drefn ar gyffredin Wasanaeth a Gweddi, a gweinidogaeth y Sacramentau, Cynheddfau, a Seremoniau, yn aros yn Eglwys *Loegr*, yr hon drefn a osodafid allan yn un Llyfr, a elwid, *Llyfr Gweddi gyffredin a gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynheddfau a Seremoniau eraill yn Eglwys* Loegr: wedi eu hawdurdodi trwy Act Parliament a gynhaliwyd yn y Bummed a'r Chweched Flwyddyn o'n dywededig Arddercho Arglwydd Frenhin *Edward* y Chweched, tituledig, *Act am Unffurfiad Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau*; yr hon a ddiddymmwyd ac a gymmerwyd ymaith trwy Act Parliament yn y Flwyddyn gyntaf o Deyrnafiad ein Hardderchog Arglwyddes Frenhines *Mari*, i fawr adfail dyledus Anrhydedd Duw, ac anghyffur i broffeswŷr Gwirionedd Crefydd Grift.

Enactier gan hynny trwy awdurdod y Parliament presennol hwn, Fod y ddywededig Statut o Ddirymmiad, a phob dim cynnwysedig ynddi, o ran y dywededig Lyfr yn unig, a'r Gwasanaeth, a Gweinidogaeth y Sacramentau, Cynheddfau, a Seremoniau cynnwysedig neu osodedig yn, neu gan y dywededig Lyfr, yn ofer ac yn ddirym, yn ôl, a chwedi Gŵyl Genedigaeth S. *Joan Fedyddiwr*, nesaf i ddyfod: A bod y dywededig Lyfr, a Threfn y Gwasanaeth, a Gweinidogaeth y Sacramentau, Cynheddfau a Seremoniau ynghŷd â'r Cyfnewidion, a'r Anghwanegion a anghwanegwyd ynddo, ac a osodwyd trwy 'r Ordinhâd hon, yn sefyll, ac yn bod, yn ôl, a chwedi 'r ddywededig Gŵyl Genedigaeth S. *Joan Fedyddiwr*, mewn cyflawn rym a nerth, yn ôl dull a gallu 'r Statut hon: Er dim y fydd yn y ddywededig Statut o Ddirymmiad i'r gwrthwyneb.

A phellach enactier gan Fawrhydi 'r Frenhines, ynghŷd a chŷdfynniad yr Arglwyddi a'r Cyffredin fydd wedi ymgynnull yn y Parliament presennol hwn, a chan awdurdod yr unrhyw, fod pob un, a chwbl o'r Gweinidogion ym mhob Eglwys Gadeiriol, a Phlwyfol, neu mewn lle arall o fewn y Deyrnas hon o *Loegr*, *Cymru*, a'i Hardaloedd, neu eraill o Arglwyddiaethau 'r Frenhines, yn ôl, a chwedi Gŵyl Genedigaeth S. *Joan Fedyddiwr* nesaf i ddyfod, yn rhwymedig i ddywedyd ac i arfer y Plygain, Gosber, Gweinidogaeth Swpper yr Arglwydd, ac Adminiftriad pob un o'r Sacramentau, a'r holl Weddïau cyffredin, a chyhoedd, eraill, yn y cyfryw Drefn a Ffurf ag a adroddir yn y dywededig Lyfr, felly wedi ei awdurdodi gan Barliament yn y ddywededig Bummed a'r Chweched Flwyddyn o Deyrnafiad Brenhin *Edward* y Chweched; gyd ag un Newidiad neu Anghwanegiad o ryw Lithiau i'w harfer ar bob *Sul* yn y Flwyddyn, Ffurf y Litani wedi ei newidio a'i ddiwygio, a dŵy fentens yn unig wedi eu anghwanegu wrth roddi 'r Sacrament i'r Cymmunwŷr, ac nid arall, neu ym môdd amgen: Ac o bydd i neb rhyw Berfon, Ficer, neu arall pa Weinidog bynnag, a ddylai, neu a fydd iddo ganu, neu ddywedyd y Weddi gyffredin, a gofiäwyd yn y dywededig Lyfr, neu wafanaethu 'r Sacramentau, yn ôl, a chwedi Gŵyl Genedigaeth S. *Joan Fetyddiwr* nefaf i ddyfod, wrthod arferu 'r dywededig weddïau cyffredin, neu wafanaethu 'r Sacramentau, yn y cyfryw Eglwys Gadeiriol, neu Eglwys blwyfol, neu leoedd eraill, ag y dylai efe eu gwafanaethu yn y cyfryw Ffurf a Threfn ag a adroddir, ac a ddadgenir yn y dywededig Lyfr, neu o'i wirfodd, neu o anhydynder (gan fefyll yn hynny) arferu o ryw Gynheddfau, a Seremoniau eraill, Trefn, Ffurf, neu Wèdd ar weinidogaeth Swpper yr Arglwydd, ar gyhoedd, neu yn ddirgel, neu Blygain, Gosber, Adminiftriad y Sacramentau, neu Weddïau eraill ar ofteg, amgen nag a adroddir ac a ofodir allan yn y dywededig Lyfr [*Gweddi ar ofteg yn, a thrwy yr holl Act hon, a ddeallir y gweddi fydd i eraill ddyfod iddi, neu i'w gwrando, mewn Eglwysfydd cyffredin, neu Gapelau dirgel, neu Oratoriau, yr hon a elwir yn gyffredin Gwasanaeth yr Eglwys*] neu bregethu, dadgan, neu lefaru dim oll er diftadlu neu amherchi y dywededig Lyfr, neu ddim a'r y fydd ynddo, neu ryw barth o hono, a bod o hynny 'n gyfreithlawn wedi ei farnu, yn ôl Cyfreithiau 'r Deyrnas hon, trwy Farn Deuddengwr, neu trwy ei Gyffes ei hun, neu trwy hynod Eglurdeb y Weithred; efe a gyll, ac a fforffettia i Uchelder y Frenhines, ei Hetifeddion, a'i Gwrthddrychiaid, am ei Gamwedd cyntaf, Fuddiant ei holl Fywiolïaethau ysbrydol neu Ddyrchafiaethau, yn dyfod, neu yn cyfodi mewn un Flwyddyn gyfan nefaf ar ôl ei farnu: A bod hefyd i'r neb a farner felly, am yr unrhyw Gamwedd, ddioddef Carchar dros Ysbaid chwe Mis, heb na Meichiau na Mainpris. A bod i'r cyfryw un ag a farner unwaith am un camwedd herwydd y pethau a grybwyllwyd, o'u bydd iddo gwedi ei Farnedigaeth gyntaf, drachefn drofeddu a bod o hynny yn y Ffurf ddywededig yn gyfreithlawn wedi ei euog-farnu; Yna bod i'r unrhyw Ddŷn am ei ail Gamwedd ddïoddef Carchar dros ysbaid un Flwyddyn gyfan, a hefyd bod ei ddifuddio *Ipfo facto*, o'i holl Ddyrchafiaethau Ysbrydol; A bodyn gyfreithlawn i bob Tadog, neu Roddwr cwbl, a phob un o'r Dyrchafiaethau ysbrydol hynny, neu neb un o honynt, brefentio, neu gyflëu i'r unrhyw, megis pe byddai 'r neb un, neu 'r neb rhai a drofeddo felly wedi marw. Ac o bydd i neb un, neu i neb rhai, yn ol ei euog-farnu ddwywaith yn y Ffurf ragddywededig, drofeddu yn

erbyn neb un o'r rhag-grybwylledigion y drydedd waith, a bod o hynny yn y Ffurf ragddywededig yn gyfreithlawn wedi ei euog-farnu; yna 'r neb a drofeddo felly, ac a euog-farner y drydedd waith, a ddifuddir *Ipfo facto*, o'i holl Ddyrchafiaethau ysbrydol, ac hefyd a ddïoddef Garchar tra fyddo byw. Ac o's bydd y neb a drofeddo, ac a euog-farner yn y Ffurf ragddywededig, oblegid yr un o'r pethau a grybwyllwyd, heb Rent iddo, ac heb ganddo Ddyrchafiaethau ysbrydol: Yna bod i'r unrhyw Wr hwnnw a drofeddo felly, ac a euog-farner, ani y Trofedd cyntaf, ddïoddef Carchar dros y Flwyddyn gyfan nefaf ar ôl ei ddywededig Farnedigaeth, heb na Meichiau na Mainpris: Ac o's y cyfryw un, heb iddo ddim Dyrchafiaethau ysbrydol wedi ei Farnedigaeth gyntaf, a drofedda dracheſn mewn dim oblegid y pethau a grybwyllwyd, ac yn y Ffurf ddywededig yn gyfreithlawn a euog-farner o hynny, yna bod i'r cyfryw un hwnnw, am ei ail Drofedd ddïoddef Carchar tra fyddo byw.

Ac fe ordeiniwyd, ac a enactiwyd trwy yr Awdurdod a ddywedpwyd uchod, o bydd i ryw un, neu ryw ral, pwy bynnag fônt, wedi 'r ddywededig Wyl o Enedigaeth S. *Joan Fedyddiwr* nefaf i ddyfod, mewn un rhyw Enterlud, Chwareon, Caniadau, Rhimynnau neu trwy Eiriau eglur eraill ddadgan neu ddywedyd dim rhyw beth er diſtadlu, dïyſtyru a dirmygu yr unrhyw Lyfr, neu ddim a gynhwyſir ynddo, neu neb rhan o hono, neu trwy Lafur amlwg, Gweithred, neu trwy Fygythion amlwg, gymmell neu beri, neu ryw fôdd arall fynnu neu gynnal neb Perſon, Ficer, neu Weinidog arall, mewn un Eglwys Gadeiriol, neu Blwyfol, neu mewn Capel, neu mewn un lle arall, i ganu, neu i ddywedyd Gweddi gyffredin neu gyhoedd, neu weini un Sacrament, yn amgenach, neu mewn Gwêdd a Ffurf amgen, nag a ofodwyd yn y dywededig Lyfr; neu trwy yr un o'r dywededig foddion, yn anghyfreithlawn rwyſtro, neu luddias i neb Perſon, Ficer neu Weinidog arall, mewn un Eglwys Gadeiriol, neu Blwyfol, Capel, neu mewn un lle arall, i ganu neu ddywedyd Gweddi gyffredin neu gyhoedd, neu weini 'r Sacramentau, neu neb un o honynt, yn y cyfryw Wêdd a Ffurf ag a grybwyllwyd yn y dywededig Lyfr: Yna bod i bob rhyw un, wedi yn gyfreithlawn ei euog-farnu o hynny, yn y Ffurf ddywededig, fforffettio i'r Frenhines ein Goruchel Arglwyddes, ei Hetifeddion, a'i Gwrthddrychiaid, am y Trofedd cyntaf, Gan Morc. Ac o's bydd i ryw un, neu i ryw rai, a euog-farnwyd un waith am y cyfryw Drofedd, drofeddu dracheſn yn erbyn neb un o'r Trofeddion diweddaf a adroddwyd, ac iddynt fod yn y Ffurf ddywededig yn gyfreithlawn wedi eu heuog-farnu, Yna bod i'r uhrhyw un felly yn trofeddu ac yn euog-farnedig, am yr ail Drofedd fforffettio i'n Goruchel Arglwyddes Frenhines, ei Hetifeddion, a'i Gwrthddrychiaid Bedwar cant o Forciau. Ac o bydd i neb, wedi iddo yn y Ffurf ddywededig fod ddwywaith yn euog-farnedig o neb Trofedd yn perthynu i'r Trofeddion diweddaf a adroddwyd, drofeddu 'r drydedd waith, a bod o hynny, yn y Ffurf uchod, yn gyfreithus wedi ei euog-farnu; bod yna i bob un yn trofeidu felly ac yn euog-farnedig, am ei drydydd Trofedd fforffettio i'n Goruchel Arglwyddes Frenhines ei holl Dda a'i Gateloedd, a ddïoddef Carchar yn ei fyw, Ac o bydd i ryw un, neu i ryw rai, yr hwn am ei Drofedd cyntaf o herwydd y pethau a grybwyllwyd, gael ei euog-farnu yn y Ffurf ddywededig, na thalo 'r Swm taladwy o Rym ei Farnedigaeth, yn y cyfryw Wêdd a Ffurf ag y dirper talu 'r unrhyw, o fewn Chwêch Wythnos nefaf, yn ôl ei Farnedigaeth; bod yna i bob un a euog-farner felly, ac heb dalu 'r unrhyw, am y Trofedd cyntaf yn lle 'r Swm dywededig, ddïoddef ei garcharu dros Ysbaid Chwê-mis, heb na Meichiau na Mainpris. Ac o bydd i ryw un, neu i ryw rai, yr hwn am yr ail Drofedd o herwydd y pethau a grybwyllwyd, a euog-farner yn y Ffurf ddywededig, na thalo 'r Swm dywededig, taladwy trwy Rym ei Farnedigaeth, a'r Statut hon, yn y cyfryw wêdd a Ffurf ag y dylir talu yr unrhyw, o fewn y chwêch Wythnos cyntaf ar ôl ei ail Farnedigaeth: bod yna i bob rhyw un felly a euog-farnwyd, ac heb felly dalu yr unrhyw, am yr unrhyw ail Drofedd, yn lle 'r dywededig Swm, gael dïoddef ei garcharu dros Ysbaid deuddeng Mis, heb na Meichiau na Mainpris. Ac yn ôl a chwedi 'r ddywededig Wyl Genedigaeth S. *Joan Fedyddiwr* nefaf i ddyfod, fod i bawb ôll yn gwbl ag y fydd yn preſwylio o fewn y Deyrnas hon, neu le arall o arglwyddiaethau Mawredd y Frenhines, yn ddïefgeulus, ac yn ffyddlawn, oddi eithr bod Eſgus cyfreithiol a rheſymmol i fod ymaith, wneuthur eu goreu ar gyrchu i'w Heglwys blwyf, neu Gapel defodedig, neu o fan Rhwyſtr rheſymmol rhag hynny, i ryw fan arferedig, lle y byddo Gweddi gyffredin, a chyfryw Waſanaeth Duw yn arferedig, yn y cyfryw amſer rhwyſtr, ar bob Sul a Dyddiau eraill ordeiniedig ac arferedig i'w cadw megis yn Wyliau, ac yna ac yno aros yn dreſtus, ac yn bwyllog ar hŷd amſer y Weddi gyffredin, Pregethau neu Waſanaeth arall Duw a arferer neu a weiner yno, dan boen Coſpedigaeth gan Farnedigaethau 'r Eglwys; a hefyd dan boen, fôd i bob un yn troſeddu felly, fforffettio am bob cyfryw Drofedd ddeuddeg ceiniog, i'w codi gan Wardeniaid y Plwyf y gweler y cyfryw Drofedd ynddo, i fwyniant tlodion yr unrhyw Blwyf, o Ddâ, Tiroedd, a Thyddynnau y cyfryw Droſeddwr, trwy attafael.

Ac er mwyn cyflawni 'r pethau hyn yn jawn, y mae Rhagorol Fawredd y Frenhines, yr Arglwyddi Tymhorol, a'r holl Gyffredin cynnulledig yn y Parliament preſennol, yn Enw Duw yn ddifrifol yn erchi, ac yn gorchymmyn i'r holl Arch-Eſgobion, Eſgobion, ac eraill Ordinariaid, ar iddynt ymoſod hyd eithaf eu gwybodaeth, ar fod dyledus a gwîr gyflawni 'r pethau hyn yn gwbl trwy eu holl Eſgobaethau, a'u Curiau, fel y byddo iddynt atteb ger bron Duw am gyfryw Ddrygau a Phlâau, ag y gallo yr hollgyfoethog Dduw yn gyhawn boeni ei bobl am ddirmygu ei ddaionus a'i jachus Gyfraith. Ac er mwyn bod Awdurdod yn yr achos hyn, Bydded ym mhellâch yn Enactiedig gan y ddywededig Awdurdod, fod i bawb oll o'r Arch-Eſgobion, Eſgobion, a phawb eraill o'u Swyddogion hwy, yn arferu Awdurdod Eglwyſig, yn gyſtal mewn lleoedd rhŷdd a rhwym o fewn eu Heſgobaethau, gael llawn Feddiant ac Awdurdod gan yr Act hon i adffurfio, cosbi, a phoeni wrth Farnedigaethau 'r Eglwys, oll a phob Dŷn a droſeddo o fewn yr un o'u Swyddogaethau, neu o'u Heſgobaethau hwynt, wedi y ddywededig Wyl Genedigaeth S. *Joan Fedyddiwr* nefaf i ddyfod, yn erbyn yr Act a'r Statut hon: Er neb arall Gyfraith, Statut, Rhagorfraint, Rhydd-did, neu Ragbarotoad, cyn nâ hyn wedi ei wneuthur neu ei ddïoddef i'r gwrthwyneb, yn ddiwrthladd.

Ac fe a ordeiniwyd ac a enactiwyd gan y rhagddywededig Awdurdod, bod i bawb oll o'r Juſtuſiaid *Oyer a Determiner*, neu o Juſtuſiaid Affiſ, gael cwbl Feddiant ac Awdurdod ym mhob un o'u hagored, a'u cyffredin Seſſiynau, i ymofyn, gwrando, a therfynu pob rhyw Droſedd a wneler yngwrthwyneb i un Pwngc a gynhwyſir yn yr Act gyndrychiol hon, o fewn Terfynau 'r Commiſſiwn a roddir iddynt, a gwneuthur Cŵyn i gyflawni 'r unrhyw, megis ag y gallent wneuthur am neb un a enditier ger eu bron hwy am farhaad, neu yn gyfreithlawn a euog-farnwyd o hynny.

Darparer yn waſtad, ac enactier gan yr Awdurdod ddywededig, fod i bawb ôll a phob un o'r Arch-Eſgobion, a'r Eſgobion, allu bob amſer ac amſerau wrth ei rydd-did a'i fôdd, ymwaſgu ac ymgyflyltu, trwy rym yr Act hon, â'r dywededig Juſtuſiaid o *Oyer* a *Determiner*, neu â'r dywededig Juſtuſiaid o Affiſ, ym mhob un o'r dywededig agored a Chyffredin Seſſiynau a gynhalier mewn neb rhyw le o'i Eſgobaeth, er mwyn ac i ymofyn, gwrando, a therfynu 'r Camweddau dywededig.

Darparer hefyd, ac enactier trwy 'r Awdurdod ragddywededig, bod y Llyfrau a fo o'r dywededig Waſanaeth, ar Goſt a Thraul Plwyfolion pob Plwyf ac Eglwyſydd Cadeiriol, wedi eu darparu a'u caffael cyn y ddywededig Wyl Genedigaeth S. *Joan Fedyddiwr* nefaf yn canlyn; a bod i'r holl gyfryw Blwyfau ac Eglwyſi Cadeiriol neu leoedd eraill, lle y darparer, ac y caffer y dywededig Lyfrau cyn Gŵyl Genedigaeth S. *Joan Fedyddiwr*, o fewn tair Wythnos wedi darpar a chaffael y dywededig Lyfrau, ymarfer â'r dywededig Waſanaeth a chyrchu iddo yn ôl yr Act hon,

Ac enactier ym mhellach wrth yr Awdurdod ddywededig, na byddo un amſer rhag llaw, rwyſtro neb un, neu neb rhai, nac ym môdd arall ei flino, o ran neu am neb o'r Camweddau a gofiwyd uchod, a gyflawner neu a wneler rhag llaw, yngwrthwyneb i'r Act hon, oddi eithr iddo ef, neu hwynt yn troſeddu felly, fod o hynny yn enditiedig yn y Seſſiwn cyffredin nefaf, a gynhalier ger bron y cyfryw Juſtuſiaid o *Oyer* a *Determiner*, neu Juſtuſiaid o Affiſ, yn nefaf yn ôl gwneuthur un rhyw Droſedd yngwrthwyneb i ddull yr Act hon.

Darparer yn waſtad, ac ordeinier, ac enacter trwy yr Awdurdod ragddywededig, am gwbl oll o Arglwyddi 'r Parliament, am y trydydd Troſedd a gofiwyd uchod, bod eu treio hwy trwy eu Gogyfurdd.

Darparer hefyd, ac ordeinier, ac enacter gan yr Awdurdod ragddywededig, fod i Faer *Llundain*, ac i bob Maer arall, Bailïaid, a Phenſwyddogion eraill, o bawb ôll o'r Dinaſoedd, Borwcheu, a Threfi corphoredig o fewn y deyrnas hon, *Cymru*, a Chyffiniau 'r unrhyw, i'r rhai nid yw Juſtuſiaid Affiſ yn cyrchu 'n gyffredin, gaffael cwbl Feddiant ac Awdurdod trwy rym yr Act hon,

hon, i ymofyn, i wrando a therfynu 'r Troſeddau a ddywedpwyd uchod, a phob un o honynt bob Blwyddyn o fewn pymtheng Niwrnod wedi Gwŷl y *Pâſg*, a S. *Mihangel* Archangel, yn y cyfryw Fôdd, a Ffurf ag y mae 'r *Juſtuſiaid* Affiſ, ac *Oyer* a *Determiner* yn gallu gwneuthur.

Darparer yn waſtad, ac ordeinier, ac enacter trwy 'r rhagddywededig Awdurdod, fod i gwbl, ac i bob un o'r Arch-Eſgobion a'r Eſgobion, a phob un o'u Canghellorion, Commiſſariaid, Archdiaconiaid, ac Ordiniaid eraill, y rhai ſy iddynt wahanredawl Swyddogaeth Eglwyſig, gael cwbl Feddiant ac Awdurdod trwy Rym yr Act hon, yn gyſtal i ymofyn yn eu Hymweliad, Seneddau, neu mewn lle arall o fewn eu Swyddogaeth, ar ryw amſer arall a lle, i gymmeryd Cyhuddiadau a Hyſbyſiadau am ôll, a chwbl a goſtawyd uchod, a wnaethpwyd, a gommittiwyd neu a gyflawnwyd o fewn Terfynau eu Swyddogaethau, a'u Hawdurdod, ac i gosbi 'r unrhyw trwy Gynghorion, Yſgymmundod, Gorfodogaeth, neu Ddiſuddiad, a Barnedigaethau eraill, a phroſeſau, yn y cyfryw Ffurf ag a arferwyd ym mlaen llaw yn y cyffelyb Achoſion gan Gyfreithiau Eglwyſig y Frenhines.

Darparer hefyd yn waſtad ac enacter, bod i bwy bynnag a droſeddo yn y pethau a grybwyllwyd, ac yn gyntaf a dderbynio Gosbedigaeth gan yr Ordinari, a thyſtiolaeth ganddô o hynny dan ſel y dywededig Ordinari, Na byddo am yr un Droſedd ei ail farnu ger bron yr Juſtuſiaid. A'r un môdd, ac eſe wedi derbyn Côsb am y dywededig Droſedd yn gyntaf gan yr Juſtuſiaid, ni bydd iddo am yr un Troſedd cyntaf ail dderbyn Côsp gan yr Ordinari: er dim a gynhwyſir yn yr Act hon i'r gwrthwyneb.

Darparer yn waſtad a bid yn actiedig, bod cyfryw Addurnau yr Eglwys a'i Gweinidogion, i'w cynnal a'u harfer fel yr oeddynt yn yr Eglwys hon o *Loegr* trwy awdurdod Parliament yn yr ail flwyddyn o deyrnaſiad Brenhin *Edward* y Chweched, hyd oni chymmerer trefn arall yn hynny gan Awdurdod Mawredd y Frenhines, ynghŷd â Chyngor ei Chomiſſionariaid, goſodedig ac awdurdodedig dan Sêl fawr *Loegr*, am achoſion Eglwyſig, neu Sêl Arch-Eſgob y Deyrnas hon: A hefyd o damwain arferu rhyw ddirmyg neu ammarch yn Seremoniau neu Gynheddfau 'r Eglwys, gan gamarfer y Trefnau a oſodwyd yn y Llyfr hwn: bod i Oruchelder y Frenhines, allu trwy Gyngor y dywededig Gommiſſionariaid, neu 'r Arch-Eſgob, ordeinio, a chyhoeddi 'r cyfryw Seremoniau neu Gynheddfau yn 'chwaneg ag a fyddo fwyaf er dyrchafu Gogoniant Duw, adeiladu ei Eglwys, a dyledus berchi ſanctaidd Ddirgeledigaethau Criſt, a'i Sacramentau.

Ac ym mhellach enactier gan yr Awdurdod ragddywededig, fod yr holl Gyfreithiau, Statutau, ac Ordinhadau, yn y rhai neu trwy y rhai y mae rhyw fath arall ar Waſanaeth, Gweinidogaeth y Sacramentau, neu Weddi Gyffredin, wedi eu terfynu, eu cadarnhâu, neu eu goſod allan i'w harferu o fewn y Deyrnas hon, neu un arall o Arglwyddiaethau, neu Wledydd y Frenhines, o hyn allan yn llwyr ofer, ac yn ddirym.

ACT am Unffurfiad Gweddiau Cyhoedd, a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynheddfau a Seremoniau eraill: Ac am ſefydlu y Ffurf ar Wneuthur, Urddo, a Chyſſegru Eſgobion, Offeiriaid a Diaconiaid yn Eglwys Loegr.

XIV. SIARLES II.

YN gymmaint a bod yn y Flwyddyn Gyntaf i'r ddiweddar Frenhines *Elizabeth*, un unffurfiol Drefn ar Waſanaeth a Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynheddfau a Seremoniau yn Eglwys *Loegr*, (gyffon â Gair Duw, ac arfer y Brîſ-Eglwys gynt) gwedi ei chyfeilio gan yr Anrhydeddus Eſgobion a'r Eglwyſwŷr, yr hon a oſodwyd allan mewn un Llyfr, a elwid, *Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynheddfau, a Seremoniau eraill yn Eglwys* Loegr: Ac a orchymmynnwyd eu harfer trwy Act Parliament a gynhaliwyd, yn y ddywededig Flwyddyn gyntaf i'r ddywededig ddiweddar Frenhines, yr hon a elwid, *Act am Unffurfiad Gweddi Gyffredin, a Gwaſanaeth yn yr Eglwys, a Gweinidogaeth y Sacramentau*, tra diddanol i bawb oll a chwennychent fyw mewn Buchedd Griſtianogol, a thra buddiol i Stâd y Deyrnas hon, ar yr hon ni thywelldir Trugaredd, Grâs, a Bendith yr Hollalluog Dduw, mewn un môdd mor rhwydd ac ehelaeth, a thrwy Weddiau Cyffredin, a dyledus arfer y Sacramentau, a mynych bregethu yr Efengyl, gyd â Defoſiwn y Gwrandawŷr. Ac er hyn i gyd, y mae etto o fewn amrafael fannau o'r Deyrnas hon Liaws mawr o Bobl trwy ddilyn eu Trachwantau, a byw heb Wybodaeth a gwir Ofn Duw, o'u gwirfodd a thrwy ymbleidio yn ymattal ac yn gwrthod dyfod i'w Heglwyſydd plwyfol, ac i Fannau cyhoedd eraill, lle yr arferir Gweddi Gyffredin, Gweinidogaeth y Sacramentau, a phregethiad Gair Duw ar y Suliau, a Dyddiau eraill, a ordeiniwyd eu cadw a'u cynnal yn Wyliau: Ac o herwydd codi a chynhyrchu llawer anfad Gynddrygedd ac Anwaſtadfod tra bu Amſeroedd y diweddar anffawdus Flinderau, trwy ddirfawr a thramgwyddus Eſgeuluſdra Gweinidogion yn y ddywededig Drefn Gwaſanaeth, neu Lityrgi cyhoeddedig, a gorchymmynedig megis y dywedpwyd uchod; A llawer oedd a dywyſwyd i Ymranniadau a Siſmau, i fawr Adfail ac Anair diwygiedig Grefydd Eglwys *Loegr*, ac Enbydrwydd eirif o Eneidiau: Fel na bo ſelly rhag llaw, a thu ag at ſefydlu Heddwch yr Eglwys, a daroſtwng yr Anhymherau preſennol a ddigwyddaſant arnom trwy Amhwynt yr Amſeroedd, Caniatâodd Mawrhydi 'r Brenhin (yn ôl ei Ddeclaraſiwn ar y pummed ar hugain o Fis Hydref, Un Mil chwê chant a thri-ugain) ei Gommiſſiwn dan Sêl fawr *Loegr* i amrafael Eſgobion a Diſnyddion eraill, i fwrw golwg o newydd ar y Llyfr Gweddi Gyffredin, ac i barotôi y cyfryw Newidiad ac Arddodiad a farnent yn gymmwys i'w cyflwyno; a chwedi hyn, a'r Cymanfaoedd o'r ddwy Dalaith, Caer *Gaint* a Chaer *Efrog* wedi eu gwyſio a'u cynnull (ac yn eiſtedd) rhyngodd bodd i'w Fawrhydi ef awdurdodi a gorchymmyn i Raglawiaid y Seneddau hynny, ac i eraill Eſgobion ac Eglwyſwŷr fwrw ail Sylliad ar y dywededig Lyfr Gweddi Gyffredin, a Llyfr Ffurf a Gwêdd Urddo, a Chyſſegru Eſgobion, Offeiriaid a Diaconiaid; a bod iddynt ar ôl dwys Yſtyriaeth, anghwanegu a newid ym mhob un o'r ddau Lyfr y cyfryw bethau fel y gwelent yn gymmwys a chymheſur, a dwyn a chyflwyno yr unrhyw yn yſgrifennedig ger bron ei Fawrhydi ef, o ran cael ym mheliach eu cymmeradwyo a'u cadarnhâu ganddo ef; A chwedi hyn, y Rhaglawiaid, Eſgobion a'r Eglwyſwŷr hynny o'r ddwy Dalaith, ar ôl dwys a chyflawn Fyfyrdod, a ſwriaſant ddichlyn Olwg ar y dywededig Lyfrau, ac a newidiaſant ryw bethau a farnent yn gymmwys i'w dodi ynddynt, ac a anghwaneg-aſant ymbell Weddi at y dywededig Lyfr Gweddi Gyffredin, i'w harfer ar ryw achoſion priodol ac angenrheidiol a ddigwyddent, ac a gyflwynaſant yr unrhyw yn yſgrifennedig ger bron ei Fawrhydi ef, mewn un Llyfr, a gyfenwir, *Llyfr Gweddi Gyffredin a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynheddfau a Seremoniau eraill yr Eglwys, yn ôl arfer Eglwys* Loegr; *ynghŷd a'r Sallwyr, neu Salmau* Dafydd, *wedi eu nodi megis y maent i'w canu, neu i'w dywedyd mewn Eglwysydd, a'r Ffurf neu Dull Gwneuthur, Urddo, a Chyſſegru Eſgobion, Offeiriaid a Diaconiaid:* Yr hyn oll pan yſtyriaſai Grâs y Brenhin yn ddyledus, a fu gymmeradwy a boddlon ganddo, ac a orchymmynnodd i'r Parliament preſennol y dywededig Lyfr Gweddi Gyffredin, Ffurf Urddiad a Chyſſegriad Eſgobion Offeiriaid a Diaconiaid, gyd â'r Newidiadau a'r Anghwanegion a wnaethwyd ac a breſentiwyd felly i'w Fawrhydi gan y dywededig Seneddau, i fod yr Unig Lyfr a Bwyntir i'w arfer gan bawb a weiniant ym mhob Eglwys Gadeiriol a Chollegol, a Chapelau. ac ym mhôb Capel, Collegau, a Neuaddau o'r ddwy Brîſ-yſgol, ac yng Ngholllegau *Eton* a *Chaer-wynt*, ac ym mhob Eglwys Blwyfol a Chapel o fewn Teyrnas *Loegr*, Arglwyddiaeth *Cymru*, a Thref *Berwig* ar *Dwid*, a chan bawb a wnânt neu a gyſlegrant Eſgobion, Offeiriaid, neu Ddiaconiaid, o fewn neb un o'r dywededig Leoedd, dan y cyfryw Gyfraith, a Phoen a farno Dau-Dŷ y Parliament yn gymmwys. Ac yn awr o herwydd nad oes dim fuddiolach tu ag at ſefydlu heddwch y Deyrnas hon (yr hyn a ddymuna pob Dŷn da) nac at barch ein Crefydd, a'i Hamlhaad, nâ Chyttundeb cyffredinol yng Ngwaſanaeth Cyhoedd yr Hollalluog Dduw; ac fel y gallo pob Dŷn o fewn y Deyrnas hon wybod yn ſicr y Rheol, yr

hon a ddylai ei dfryn yn y Gwaſanaeth Cyhoedd, a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynheddfau a Seremoniau eraill Eglwys *Loegr*, a'r modd a chan bwy y Gwnair ac y dylid Gwneuthur, Urddo a Chyſſegru Eſgobion, Offeiriaid a Diaconiaid;

Enacter gan odidoccaf Fawrhydi 'r Brenhin, trwy Gyngor a chyd â Chydſynniad yr Arglwyddi Ysbrydol a Llygawl, a'r Cyffredin ymgynnulledig yn y Parliament preſennol, a thrwy Awdurdod yr unrhyw, Bod yr holl Weinidogion Eglwyſig a phob un o honynt ym mhob Eglwys Gadeiriol a Chollegol, a Phlwyfol, ac ym mhob Capel, a phob lle Gwaſanaeth Cyhoedd arall o fewn Teyrnas *Loegr*, Arglwyddiaeth *Cymru*, a Thref *Berwic* ar *Dwid*, yn rhwymedig i ddywedyd ac i arfer y Weddi Foreuol, y Weddi Brydnhawnol, Gweinidogaeth a Miniſtriad y Ddau Sacrament, a phob Gwaſanaeth arall Cyhoedd a Chyffredin yn y cyfryw Drefn a Ffurf ag a grybwyllir yn y dywededig Lyfr, Arddodedig a Chyſſyllteding â'r Act preſennol, ac a elwir, *Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynheddfau a Seremoniau eraill yr Eglwys yn ôl arfer Eglwys Loegr; gyd â'r Sallwyr neu Salmau* Dafydd, *wedi eu nodi megis ag y maent i'w canu, neu i'w dywedyd mewn Eglwyſydd; a'r Ffurf neu Ddull Gwneuthur, Urddo, a Chyſſegru Eſgobion, Offeiriaid, a Diaconiaid*; A bod darllain yn gyhoedd ac ar oſteg, y Gweddïau Boreuol a Phrydnhawnol a gynhwyſir ynddo, ar bob dydd yr Arglwydd, ac ar bob Dydd arall ac Achlyſur, ac ar bob Prŷd pwyntiedig ynddo, gan bawb a phob Gweinidog neu Gurad ym mhob Eglwys, Capel, a phob rhyw Le Gwaſanaeth Cyhoedd o fewn y Deyrnas hon o *Loegr*, a'r Lleoedd dywededig.

Ac er mwyn cyflym gyflawni 'r Unffurfiad ar Cyhoedd Waſanaeth Duw (y ſydd mor ddeifyfiedig) ym mhellach Enacter trwy 'r Awdurdod ragddywededig, fod i bob Perſon, Ficer, a phob rhyw Weinidog pwy bynnag y ſydd yr awr hon yn dal ac yn mwynhau un Rhent neu Ddyrchafiaeth o fewn Teyrnas *Loegr*, a'r Lleoedd rhagddywededig, Ddarllain yn gyhoedd, yn bublic, ac ar oſteg yn yr Eglwys, Capel, neu Le Gwaſanaeth Cyhoedd yn perthyn i'w Rent neu i'w Dyrchafiaeth, ar ryw Ddydd yr Arglwydd o flaen Gŵyl S. *Bartholomëus*, yr hon a ſydd ym Mlwyddyn ein Harglwydd Dduw, Mil, a Chwe-chant a dŵy a Thri-ugain, y Weddi Foreuol a Phrydnhawnol, bwyntiedig i'w darllain, wrth ac yn ol y dywededig Lyfr Gweddi Gyffredin, ar yr amſeroedd pwyntiedig ynddo; Ac ar ol eu darllain felly yn gyhoedd ac ar oſteg, Ddeclario yngŵydd y Gynnulleidfa ymgynnulledig yno, ei ddiffuant Gydſyniad, a'i Gymmodlonedd i arferu pob peth cynhwyſedig a gorchymmynedig yn y dywededig Lyfr, yn y geiriau hyn ac nid eraill:

" YR wyfi *A. B.* yn declario yma fy niffuant Gydſyn-
" iad a'm Cymmodlonedd i'r pethau oll a phob
" peth cynnwyſedig a gorchymmynedig yn, a chan y
" Llyfr a elwir, *Llyfr Gweddi Gyffredin a Gweinidog-*
" *aeth y Sacramentau, a Chynheddfau a Seremoniau*
" *eraill yr Eglwys, yn ôl arfer Eglwys* Loegr; *gyd â'r*
" *Sallwyr neu Salmau* Dafydd, *wedi eu nodi megis ag y*
" *maent i'w canu neu i'w dywedyd mewn Eglwyſydd*;
" *a'r Ffurf neu Ddull Gwneuthur, Urddo, a Chyſſegru*
" *Eſgobion, Offeiriaid, a Diaconiaid.*

A bod i bawb a phob rhyw un, a eſgeuluſo neu a wrthodo wneuthur hyn o fewn y rhagddywededig amſer (oddi eithr bod Rhwyſtr cyfreithlon yngolwg a ſynniad Ordinari 'r lle) neu (o's y cyfryw Rwyſtr a ddigwydd) o fewn un Mis ar ol ſymmud y cyfryw Rwyſtr, ei ddifuddio (*Ipſo facto*) o'i holl Ddyrchafiaethau Ysbrydol, A bod yn gyfreithlawn o hynny allan, i bob Tadog a Rhoddwr y cwbl, a phob un o'r dywededig Ddyrchafiaethau Ysbrydol yn ôl Hawl a Thitl pob un, Breſentio neu Gyflëu i'r unrhyw megis pe bai yr hwn, neu y rhai a gamweddant neu a eſgeuluſant felly, wedi marw.

Ac Enacter ym mhellach gan yr Awdurdod ddywededig, fod i bob un yr hwn o hyn allan a breſentir, neu a gyflëir neu a ddodir mewn nëb rhyw Rent Eglwyſig, neu Ddyrchafiaeth o fewn Teyrnas *Loegr*, a'r Lleoedd rhagddywededig, Ddarllain yn gyhoedd, ac ar oſteg, yn yr Eglwys, Capel, neu Le Gwaſanaeth Cyhoedd yn perthyn i'w ddywededig Rent neu Ddyrchafiaeth, ar ryw ddydd yr Arglwydd o fewn y Ddau fis neſaf ar ôl y byddo wir feddiannol o'r dywededig Rent neu Ddyrchafiaeth Eglwyſig, y Gweddïau Boreuol a Phrydnhawnol pwyntiedig i'w darllain yn, ac yn ôl y dywededig Lyfr Gweddi Gyffredin, ar yr amſeroedd pwyntiedig ynddo, ac wedi eu darllain felly, ddeclario yn gyhoedd ac ar oſteg ger bron y Gynnulleidfa cyd-gyſſyllteding yno, ei ddiffuant Gydſyniad a'i Ymgymmodlonedd i arferu 'r holl bethau a gynhwyſir ac a orchymmynnir ynddo yn ol y Ffurf ragbwyntiedig: A bod i bawb ac i bob un o'r cyfryw a eſgeuluſo (oddi eithr bod Rhwyſtr cyfreithlon yngolwg a barn Ordinari 'r fan) neu a wrthodo wneuthur hyn o fewn yr amſer rhagddywededig, neu (o's digwydd y cyfryw Rwyſtr) o fewn un Mis ar ol ſymmud y cyfryw Rwyſtr, ei ddifuddio (*Ipſo facto*) o'i holl Fywioliaethau Eglwyſig a'i Ddyrchafiaethau dywededig: A bod yn Gyfreithlon o hynny allan i bob Tadog a Rhoddwr, oll a phob un o'r dywededig Fywioliaethau Eglwyſig a Dyrchafiaethau neu ryw un o honynt (fel y bo Hawl a Thitl pob un) Breſentio a Chyflëu i'r unrhyw megis pe bai yr hwn neu y rhai a gamweddant neu a eſgeuluſant felly, wedi marw.

Ac Enactier ymhellach trwy 'r Awdurdod ragddywededig, Am bob Lleoedd lle bo Perchen Prïodol rhyw Berſoniaeth neu Ficeriaeth neu rent a Chur yn preſwyliq ar ei rent, ac yn cadw Curad dano, Rhaid yw i'r Perchen ei hun (oni bydd Rhwyſtr Cyfreithlon arno ym marn Ordinari y fan) ddarllain yn gyhoedd ac ar oſteg unwaith (o'r lleiaf) bob Mis, y Gweddïau Cyffredin a'r Gwaſanaeth gorchymmynnedig, yn, a thrwy y Llyfr dywededig, ac (o bydd achos) waſnaethu pob un o'r Ddau Sacrament, ac eraill Gynheddfau 'r Eglwys, yn yr Eglwys Blwyf, neu Gapel a berthyn i'r unrhyw Berſoniaeth, Ficeriaeth, neu Fywioliaeth yn y cyfryw, Ddull, Mŏdd a Ffurf a bwyntir yn, ac wrth y Llyfr dywededig, dan boen anrhaith oddef Swm pûm Punt am bob Camwedd i Raid Tlodion y Plwyf, pan yr argyhoedder ef trwy ei Gyffes ei hun, neu trwy Brawf dau Dyſt credadwy ar eu Llŵ ger bron dau Juſtus heddwch y Sir, y Ddinas, neu Drêf Freiniol lle gwneler y Camwedd (yr hwn Lŵ y mae yr Act hon yn Awdurdodi yr Juſtuſiaid dywededig i'w ſiniſtrio). Ac yn niffyg Taledigaeth cyn pen dêg niwrnod, i'w godi trwy Attafael a gwerthu Da a Chattelau y Troſeddwr, trwy Warant y dywededig Juſtuſiaid, gan Wardeniaid yr Eglwys neu Olygwŷr Tlodion y Plwyf dywededig, gan adferu 'r Olbris i'r Perchennog.

Ac Enacter ymhellach, trwy 'r Awdurdod Ragddywededig, bod i bob Deon, Canon, a Phrebendari pob Eglwys Gadeiriol neu Gollegol, a phob Meiſtr, a Phen arall, Brawd, pob Caplan a Thŵtor o, ac ymhôb Colleg, Neuadd, Yſgoldy, neu Eluſendy, a phob Proffeſſor Cyhoedd a Darlienydd ymhôb un o'r Ddŵy Brif-yſgol, ac ym mhob Colleg mewn man arall, a phob Perſon, Ficer, Curad, Lecturwr, a phob un arall mewn Urddau Cyffegrol, a phob Meiſtr Yſgol, yn cadw Yſgol, Gyhoedd neu Ddirgel, a phob un yn dyſgu ac yn athrawu neb rhyw Jeuenctid mewn un Tŷ neu Deulu Dirgel, megis Tiwtor neu Feiſtr yſgol, yr hwn a'r dydd cyntaf o *Fai* a ſydd ym Mlwyddyn ein Harglwydd Duw, Mil, chwê chant a dŵy a thri-ugain, neu a fyddo ryw amſer yn ôl hynny Berchennog neu Feddiannol o neb ryw Ddeoniaeth, Canoniaeth, Prebendiaeth, Meiſtryddiaeth, Pennaethyddiaeth, Brodoriaeth, lle Proffeſor neu Ddarllenydd, Perſoniaeth, Ficeriaeth neu ryw Oruchafiaeth Eglwyſig, neu Ddyrchafiaeth arall, neu ar un lle Curad, Lecturr, Yſgol, neu a ddyſgo, neu a Athrawiaetho neb rhyw Jeuenctid, mal Tiwtor neu Feiſtr yſgol, Roddi ei Lâw wrth y Declaraſiwn neu 'r Cydnabyddiaeth iſod, a hyn cyn Dŷdd Gŵyl S. *Bartholomëus* a fyddo ym Mlwyddyn ein Harglwydd, Mil, chwê-chant, a dŵy a thri-ugain, neu ar, neu o flaen ei ddderbyn i fod yn Berchen neu i gael meddiant ar neb rhyw Ddyrchafiaeth a grybwyllir uchod.

" YR wyfi, *A. B.* yn declario nad yw gyfreithlon ar
" un Eſgus pwy bynnag, godi arfau yn erbyn
" y Brenhin; a bod yn flaidd gennyf yr Athrawiaeth
" fradychus honno, am godi Arfau trwy ei Awdurdod
" ef yn ef erbyn ei hun, neu yn erbyn y cyfryw rai a
" Awdurdodir ganddo; ac y cwbl-ddilynaf Liturgi Eg-
" lwys *Loegr*, megis y mae 'n oſodedig y prŷd hyn trwy
" gyfraith: Ac yr wyf yn declario fy mod yn dal nad
" oes dim rhwym arnaſi, nac ar neb arall oddi wrth y
" Llŵ a elwir yn Gyffredin, *The Solemn League and*
" *Covenant*, i argeiſio nebrhyw Gyfnewid neu Arallia
" Llywodraeth yn yr Eglwys nac yn y 'Stâd, ac mai
" llŵ anghyfreithlon ynddo ei hun ydoedd, a'i gym-
" mell ar Ddeiliaid y Frenhiniaeth hon yngwrthwyneb
" i adnabyddus Gyfreithiau a Breiniau 'r Deyrnas hon.

A phob un o'r dywededig Feiſtriaid, ac eraill Bennau, Brodyr, Caplaniaid, a Thiwtoriaid o, neu ym mhob Colleg, Neuadd, neu Ysgoldy, a phob Proffeſydd a Darllenydd Cyhoedd o fewn un o'r ddŵy Brif-yſgol, a ddŷd ei Lâw wrth y dywededig Ddeclaraſiwn a Chydnabyddiaeth ger bron y Rhag-Ganghellor o'r ddwylyw Brif-yſgol, a fo y prŷd hwnnw, neu ger bron ei Ddepiwti ef; a phob un arall a orchymmynnir i roi ei Lâw wrth

y Decla

y Declarafiwn a'r Cydnabyddiaeth uchod, a ddŷd ei lâw wrtho ger bron ei Arch-Eſgob, Eſgob, neu Ordinari 'r Eſgobaeth, dan boen bod i bwy un bynnag o'r rhagddywededig Ddynion na ddodo ei Lâw yn y cyfryw ſŏdd, golli a ſforffetio ei Ddeoniaeth, Canoniaeth, Prebendiaeth, Meiſtroliaeth, Pennaethiaeth, Brodoriaeth, Proffeſſoriaeth, Darlleniyddiaeth, Perſoniaeth. Ficeriaeth, Goruchafiaeth neu Ddyrchafiaeth Eglwyſig, Curadiaeth, Lecturiaeth, ac Yſgol, a bod o hono yn llwyr-anolo, a difreinier ef *Ipſo facto* o'r unrhyw; a bydded pob rhyw un Ddeoniaeth, Canoniaeth, Prebendiaeth, Meiſtroliaeth, Pennaethyddiaeth, Brodoriaeth, Proffeſſoriaeth, Darlleniyddiaeth, Perſonoliaeth, Ficeriaeth, Goruwchafiaeth neu Ddyrchafiaeth Eglwyſig, Curadiaeth, Lecturiaeth, ac Yſgol yn wâg, megis pe bai yr hwn ni ddododdeiLâw felly wedi marw a threngu.

Ac o's bydd i neb un Meiſtr-Yſgol na neb arall yn dyſgu neu yn Athrawiaethu Jeuenctid mewn rhyw Dŷ, neu Deulu Dirgel, megis Tiwtor neu Feiſtr-Yſgol, cyn taffael Cennad gan ei Arch-Eſgob, Eſgob, neu Ordinari yr Eſgobaeth, yn ôl Cyfreithiau a Statutau 'r Deyrnas hon (am yr hon Gennad, nid rhaid iddo dalu uwch law ſwllt) a Chyn iddo roddi ei Lâw a gwneuthur y cyfryw Gydnabyddiaeth megis y Rhagddywedwyd; yna bid i bob cyfryw Feiſtr Yſgol neu arall yn dyſgu, neu yn Athrawiaethu megis uchod, ddïoddef Carchar dri Mis am y Troſedd cyntaf, heb na Mechnïaeth na Mainpris: Ac am bob ail ac arall Droſedd efe a ddïoddef Dri Mis o Garchar heb na Mechnïaeth na Mainpris, ac a ddirwyir hefyd mewn pùm Punt i Râs y Brenhin.

Ac wedi y dodo pob rhyw Berſon, Ficer, Curad, a Lecturydd ei Lâw yn y cyfryw ſodd, rhaid iddo ſynnu Hyſpyſrwydd dan lâw a ſêl ei Arch-Eſgob, Eſgob, neu Ordinari yr Eſgobaeth (a Ordeinir trwy hyn, ac a Orchymmynnir i wneuthur a rhoddi yr unrhyw i'r neb a'i gofynno) a rhaid iddo ei darllain yn gyhoedd ac ar oſteg, ynghŷd â'r Declarafiwn neu Gydnabyddiaeth uchod, ar ryw Dŷdd yr Arglwydd o ſewn y tri Mis neſaf, yn ei Eglwys Blwyf, y bo yn Gweini ynddi o fiaen y Gynnulleidfa ymgynnulledig yno ar brŷd Gwaſanaeth Duw, dan boen bod i bob un ni wnelo hynny golli ei gyfryw Berſoniaeth, Ficeriaeth neu Rent, Curadiaeth neu Lecturiaeth yn llwyr anolo, ac a'i difeddiennir *ipſo facto* o'r unrhyw; A bod y cyfryw Berſoniaeth, Ficeriaeth neu Rent, Curadiaeth neu Lecturiaeth yn wâg, megis pe bai eſe wedi marw.

Darparet yn waſtad ado heibio ar ol y pummed Dŷdd ar hugain o Fawrth a fydd yn Oedran ein Harglwydd Ddiw, Mil chwê-chant a dŵy a phedwar-ugain, yn y Declarafiwn neu Gydnabyddiaeth uchod, a ddylid dodi dwylaw wrtho a'i ddarllain felly, y Geiriau hyn ſy yn canlyn, *nid amgen*,

" AC yr wyſi yn declario ſy mod yn dàl nad oes dim " Rhwymedigaeth arnaſi nac ar neb arall oddi " wrth y Llŵ a elwir yn gyffredin, *The Solemn League* " *and Covenant* i argeiño neb ryw Gyfnewid neu aralliad " Llywodraeth yn yr Eglwys, nac yn y Stâd: Ac mai " llŵ anghyfreithlon ynddo ei hun ydoedd, a'i gym- " meil ar Ddeiliaid y frenhiniaeth hon yngwrthwyneb i " eglur Gyfreithiau a Breiniau 't Deyrnas hon;

Fel na bo neb un o'r rhai rhagddywededig yn rhwym o hynny allan i roi ei Lâw wrth neu ddarllain y rhan honno o'r Declarafiwn neu Gydnabyddiaeth uchod.

Darparer yn waſtad a bid Actiedig, na bo i neb ar ôl Gŵyl S. *Bartholomius* yr hon a fydd ym Mlwyddyn Oedran ein Harglwydd, Mil chwê-chant a dŵy a thri ugain, yr hwn y ſydd yr awr hon Berchen, ac yn mwynhau Perſoniaeth, Ficeriaeth neu Fywioliaeth, ac nad yw eiſoes mewn Urddau Sanctol, trwy Urddiad Eſgob, neu na Urdder cyn y dywededig Wyl S. *Bartholomius* yn Offeiriad neu 'n Ddiacon yn ol Ffurf Urddiad Eſgobawl, feddu, dàl, neu fwynhâu y cyfryw Berſoniaeth, Ficeriaeth, Fywioliaeth a Chur, neu Ddyrchafiaeth Eglwyſig arall o ſewn Teyrnas *Lo-gr*, neu Arglwyddiaeth *Cymru*, neu Dref *Berwig* ar *Dwid*, eithr efe a lwyr ddiſwyddir ac a ddifuddir *Ipſo facto* o'r unfhyw, a'i holl Leodd Eglwyſig a fyddant weiglon, un Wedd a phe bai efe wedi trengu a marw.

Ac Enactier ym mhellach trwy 'r Awdurdod ragddywedodig, na allo neb pwy bynnag fyddo, o hynny allan gael ei ddwyn i neb-rhyw Berſoniaeth, Ficeriaeth, Fywioliaeth, neu Ddyrchafiaeth, neu Oruchafiaeth Eglwyſig arall beth-bynnag: Ac na feiddied neb Gyſſegru a Gweini 'r Sacrament Bendigedig, hyd pan Urdder ef yn Offeiriad yn ôl y Ffurf a'r Modd pwyntiedig yn, ac wrth y Llyfr dywededig, oddi eithr ei fod o'r blaen wedi ei wneuthur yn Offeiriad trwy Urddiad Eſgob, dan boen forffetio am bob Troſedd ſwm Can punt, ſy naill hanner i Fawredd y Brenhin, a'r hanner arall i'w rannu yn gyfiawn rhwng Tlodion y Plwyf, lle gwneler y Troſedd. A phwy bynnag un neu ychwaneg a holo am yr unrhyw trwy Gwyn-Dyled, Bil, neu Informafiwn yn un o Lyfoedd Record Grâs y Brenhin, yn yr hwn ni Chaniateir nac Aſiwyn, na Nawdd nac Ymwyſtiad Cyfraith, A chael ei ddifreinio mal na aller ei gymmeryd na'i dderbyn i Urdd Offeiriad dros Dymp un Flwyddyn gyfan neſaf yn canlyn.

Darparer na chyrhaeddo 'r Poenau yn yr Act yma, i Alldudion a Dieithriaid o'r Eglwyſydd atgyweiriedig tramor, cynnifer ag ydynt, neu a fyddant Gymmeredig gan ein Harglwydd Frenhin, ei Etifeddion a'i Wrthddrychiaid yn *Lloegr*.

Darparer yn waſtad na thyfo Titl i neb Rol neu Breſentio trwy Gwymp ar un Gweili neu Ddiſwyniant *ipſo facto*, trwy Rym y Statut yma, namyn ym mhen chwê-mis ar ôl derbyn o'r Tadog rybudd o'r cyfryw Weili neu Ddiſwyniant oddi wrth yr Ordinari, neu ar ôl darllain yn gyhoedd ac ar oſteg y cyfryw Farn Diſwyniant yn Eglwys Blwyf y Rhent, Perſoniaeth, neu Ficeriaeth a wneler yn wâg, neu y diſwynhaer y Perchen o honi trwy Rym yr Act breſennol.

Ac Enacter ym mhellach trwy 'r Awdurdod ragddywededig na arferer un Ffurf neu Drefn Gweddiau Cyffredin, Gweinidogaeth y Sacramentau, Cynheddfau, neu Seremoniau, yn gyhoedd mewn un Eglwys, Capel, neu le Cyhoedd arall o ſewn un Colleg neu Neuadd o ſewn yr un o'r Ddŵy Brif-yſgol, neu Gollegau *Weſtminſter*, *Caerwŷnt*, ac *Eton*, nac o ſewn un o honynt, amgen nag a Ordeinir ac a Appwyntir eu harferu yn, a thrwy 'r Llyfr dywededig. A bod i bob Llywodraethwr neu Ben preſennol ar bob Colleg neu Neuadd yn y Ddŵy Brif-yſgol, ac ar Gollegau *Weſtminſter*, *Caerwŷnt*, ac *Eton*, o fewn un Mis ar ôl Gŵyl S. *Bartholomius*, a fydd ym Mlwyddyn Oedran ein Harglwydd, Un mil Chwê-chant a Dŵy a Thri-ugain: Ac i bob Llywodraethwr a Phen Pob un o'r Collegau neu 'r Neuaddau dywededig a ddewiſir, neu a appwyntir rhag llaw o fewn un mis neſaf ar ol ei Ddewis neu ei gyfleu, neu ei dderbyn i'r unrhyw Lywodraeth neu Bennaethyddiaeth, ddodi ei Lâw yn amlwg ac yn gyhoedd yn yr Eglwys, Capel, neu le Cyhoedd arall o'r unrhyw Golleg neu Neuadd, ac yngwŷdd y Brodorion a'r Yſgolheigion o'r unrhyw, neu 'r nifer mwyaf o honynt a fo 'n trigo yno 'r prŷd hwnnw, wrth y namyn un deugain Erthyglau creſydd, a grybwyllir yn y Statut a wnaethpwyd yn y drydedd Flwyddyn ar ddêg o Deyrnaſiad y ddiweddar Frenhines *Elizabeth*, ac wrth y Llyfr dywededig, a declario ei ddiffiant Gŷdundeb, Gŷd-ſynniad a'i Gymmodlonedd i'r dywededig Erthyglau, ac i'r unrhyw Lyfr, ac i ymarfer â'r holl Weddiau, Cynheddfau, Seremoniau, Ffurfiau, a Threfnau a appwyntir ac a gynhwyſir yn y Llyfr dywededig yn ôl y Ffurf ddywededig: A bod i bawb o'r cyfryw Lywodraethwŷr, a Phennau 'r cyfryw Gollegau a Neuaddau, ac i bob un o honynt y ſydd, neu a fyddo mewn Urddau Sanctol, ddarllain unwaith (o leiaſ) bob Chwarter blwyddyn (oni bydd Rhwyſtr cyfreithlon) yn Gyhoedd ac ar oſteg, y Weddi a Gwaſanaeth Boreuol pwyntiedig yn y dywededig Lyfr i'w darllain yn Eglwys, Capel neu le Cyhoedd arall o'r unrhyw Golleg neu Neuadd dan boen colli, a'i orfodogi o gwbl ſydd ar ei helw yn perthyn i'r unrhyw Lywodraeth, neu Bennaethyddiaeth dros chwê Mis gan Ymwelwr neu Ymwelwŷr yr unrhyw Golleg neu Neuadd. Ac o's rhyw Lywodraethwr neu Bennaethydd rhyw Golleg neu Neuadd a orfodogwyd am na ddodaſai ei Lâw wrth yr unrhyw Erthyglau a Llyfr, neu am na ddarllenaſai y Weddi a'r Gwaſanaeth Boreuol megis y rhagddywedwyd, ni ddŷd ei Lâw wrth yr Erthyglau a'r Llyfr dywededig, ac ni ddeclaria ei Gymmodlonrwydd iddynt megis y rhagddywedwyd, ac ni ddarllyn y foreuol Weddi a Gwaſanaeth, megis y rhagddywedwŷd ar neu cyn pen y chwê mis neſaf ar ôl y cyfryw ei orfodogaeth, yna Bid y cyfryw Lywodraeth neu Bennaethyddiaeth *Ipſo facto* yn wâg a diddymmedig.

Darparer yn waſtad, y bydd cyfreithlawn arfer y Weddi Foreuol a Phrydnhawnol, a'r holl Weddïau eraill a Gwaſanaeth pwyntiedig yn, a thrwy 'r Llyfr dywededig yng Nghapelau neu Leoedd Cyhoedd eraill o Gollegau a Neuaddau 'r Ddŵy Brif-yſgol, yng Nghollegau *Weſtminſter*, *Caerwŷnt*, ac *Eton*, ac yn *Seneddau Eglwyſwŷr*, y Ddŵy Dalaith, yn *Lladin*, er dim a gynhwyſir yn yr Act hon yn y gwrthwyneb.

Ac Enacter ym mhellach trwy 'r Awdurdod Ragddywededig, na fydded ac na dderbynier neb megis Lecturwr, ac na chynhwyſer, ac na oddefer, ac na chaniataer i neb Bregethu megis Lecturwr, neu i Bregethu neu ddarllain un Bregeth neu Lectur mewn un Eglwys, Capel, neu le Gwaſanaeth Cyhoedd arall o ſewn y Deyrnas hon o *Lo-gr*, neu Arglwyddiaeth *Cymrŭ*, a

Thrêf *Berwig* ar *Dwid*, oddi eithr iddo yn gyntaf, gael Cymmeradwyaeth a Thrwydded Arch-Eſgob y Dalaith neu Eſgob yr Eſgobaeth neu (o's bydd Gwâg yr Eſgobaeth) Gwarcheidwad yr Yſprydolion dan ei sêl, a darllain yngwŷdd yr unrhyw Arch-eſgob, Eſgob, neu 'r Gwarcheidwad, y namyn un deugainErthyglau Crefydd a grybwyllir yn y Statut y drydedd flwyddyn ar ddêg i'r ddiweddar Frenhines *Elizabeth*, ynghŷd a'r Declarasiwn o'i ddiffuant gydſynniad â'r unrhyw. A bod i bawb a phob un, yr hwn yn awr y ſydd, neu a fyddo rhag llaw wedi ei genhadu, ei oſod, ei bwyntio, neu ei dderbyn megis Lecturwr, i bregethu ar ryw ddŷddgwaith o'r wythnos o ſewn un Eglwys, Capel, neu le Gwaſanaeth Cyhoedd o fewn y Deyrnas hon o *Loegr*, neu 'r Lleoedd rhagddywededig, ar yr amſer cyntaf y pregetho, ddarllain (o flaen ei Bregeth) yn amlwg, ar oſteg, a thrwy barch, y Gweddïau cyffredin, a'r Gwaſanaeth, pwyntiedig yn, a thrwy 'r Llyfr dywededig i'w ddarllain, ar y prŷd hwnnw o'r dŷdd, ac yn y prŷd a'r man hwnnw ddeclario ei Gŷdſynniad a'i Gymmodlonedd i'r Llyfr dywededig, ac i arfer yr holl Weddïau, Cynheddfau, Seremoniau, Ffurfiau, a Threſnau cynnwyſedig ac appwyntiedig ynddo, yn ôl y Ffurf ragbwyntiedig yn yr Act hon: Ac hefyd ddarllain ar y dŷdd Lecturcyntaf o bob mis yn canlyn, tra 'r arhoſo yn Lecturwr, neu 'n Bregethwr yno, yn y lle pwyntiedig i'r cyfryw Lecturneu Bregeth o flaen ei ddywededig Lecturneu Bregeth, yn amlwg, ar oſteg, a thrwy barch, y Gweiddïau Cyffredin, a'r Gwaſanaeth pwyntiedig yn, a thrwy 'r Llyfr dywededig i'w ddarllain ar y prŷd hwnnw o'r Dŷdd, y bo pregethu yr unrhyw Lecturneu Bregeth arno: Ac yn ôl eu darllain ſelly, bod iddo ddeclario yn yr amlwg, ac ar oſteg yngwŷdd y Gynnulleidfa ymgynnulledig yno, ei ddiffuant Gŷdſynniad, Gyſſwyn a 'i Gymmodlonedd i'r Llyfr dywededig, ac i arferu 'r holl Weddïau, Cynheddfau a Seremoniau, Ffurfiau a Threſniadau gofodedig a chynnwyſedig ynddo, yn ôl y Dull rhagddywededig: A bôd i bawb ac i bob un, a eſgeuluſo neu a ommeddo wneuthur ſelly, gael ei anghymhwyſo i bregethu 'r Lecturneu 'r Bregeth honno, nac yr un arall, yn honno nac yr un Eglwys arall, Capel, neu le Gwaſanaeth Cyhoedd hyd pan ddarlleno yn yr amlwg, ar oſteg, a thrwy barch y Gweddïau Cyffredin, a'r Gwaſanaeth pwyntiedig trwy 'r Llyfr dywededig a Chŷdymffurfio ym mhôb pwnc â'r pethau pwyntiedig a Gorchymmynedig ynddo, yn ôl perwyl gwir ofeg, a dirnadaeth yr Act hon.

Darparer yn waſtad, o's mewn rhyw Eglwys neu Capel Cadeiriol neu Gollegol y pregethir neu y darllenir y Bregeth, neu Lecturddywededig, digon fydd i'r Lecturwr dywededig, Ddeclario ar oſteg ar yr amſer rhagddywededig, ei Gŷdſynniad a'i Gyſſoneb i 'r cwbl a gynhwyſir yn y Llyfr dywededig, yn ol y Dull rhagddywededig,

Ac Enactier ym mhellach trwy'r Awdurdod ragddywededig, O's bydd i neb, a anghymhwyſwyd trwy'r Act hon i bregethu un Lecturneu Bregeth, tra y trigo ac yr arhoſo yn anghymmwyſedig, bregethu un Lecturneu Bregeth; yna pawb a phob un a droſeddo ſelly, a ddïodder am bob cyfryw Droſedd, Garchar dri Mis yn y Carchar cyffredin, heb na Mâch na Mainpris: Ac ſe all dau Juſtus heddwch o bob Sîr o'r Deyrnas hon a'r lleoedd rhagddywededig, pob Maer neu Benſwyddog arall o bob Dinas, neu Drêf freiniol o fewn yr unrhyw, ar Hyſpyſrwydd Ordinari y lle iddo ef neu hwynt-hwy, am y Troſedd a wnaed, a Gorchymmynnir yma iddynt, yn gyfattebol roddi 'r cyfryw Droſeddwr neu Droſeddwŷr i Garchar y Sîr, y Ddinas, neu Drêf freiniol.

Darparer yn waſtad ac Enactier ymmhellach trwy 'r Awdurdod ragddywededig, Am gynnifer gwaith ag y bo pregethu un bregeth neu Lecturneu Bregeth yn Eglwys neu Gapel Cyffredin a'r Gwaſanaeth pwyntiedig yn, a thrwy 'r Llyfr dywededig i'w darllain, ar y Prŷd hwnnw o'r dŷdd, yn Gyhoedd ar oſteg a thrwy barch gan ryw Offeiriad neu Ddiacon, yn yr Eglwys, Capel neu le Gwaſanaeth Cyhoedd lle pregethir y ddywededig Bregeth neu Lecturneu Bregeth, cyn pregethu 'r cyfryw Bregeth neu Lecturneu; A bod o'r Lecturwr, a fo i bregethu y prŷd hwnnw, yn breſennol wrth eu darllain.

Darparer eiſioes, na chyraedd yr Act hon i un Eglwys-Prîf-yſgol o fewn y Deyrnas hon, pan a chynniſer gwaith ag y pregether neu y darllener un Bregeth neu Lecturyn yr unrhyw Eglwyſi nac yn yr un o honynt, ſef megis pregeth neu Lecturneu Gyhoedd y Brif yſgol, nad aller pregethu a darllain y Pregethau a'r Lecturau hynny, yn y cyfryw ddefod a môdd ag y pregethid ac y darllenid yr unrhyw gynt; Er yr Act hon, ac er dim a gynhwyſir ynddi, ar ddim-ryw fodd yn y gwrthwyneb.

Ac Enactier ym mhellach trwy 'r Awdurdod Ragddywededig, y bydd yr amrafael Gyfreithiau da, a Statutau 'r Deyrnas hon, a wnaethpwyd o'r blaen, ac a ŷnt hyd yn hyn, mewn Grym am Unffurfiad Gweddi a Gweinidogaeth y Sacramentau, o fewn y Deyrnas hon o *Loegr*, a'r Lleoedd rhagddywededig, mewn llawn Rym a Nerth i bob rhyw Berwyl a Diben pwy bynnag, er ſefydlu a chadarnhâu 'r Llyfr dywededig, a elwir, *Llyfr Gweddi Cyffredin a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynhebddfau a Seremoniau eraill yr Eglwys, yn ôl arfer Eglwys* Loegr, *gyd a'r Sallwyr neu Salmau* Dafydd *wedi cu nodi megis ag y maent i'w canu neu i'w dywedyd mewn Eglwyſydd: a Ffurf neu Ddull Gwneuthur, Uridо, a Chyſſegru Eſgobion, Offeiriaid, a Diaconiaid*; a grybwyllir yma ym mlaenllaw i'w Cyfyllitu a'u harddodi at yr Act hon; A hwy a gymhwyſir, a arferir, ac a wneir defnydd o honynt er cosbi pob Camwedd yn erbyn y Cyfreithiau dywededig ymhlegid y Llyfr rhagddywededig, ac nid arall.

Darparer yn waſtad, ac Enactier ym mhellach trwy 'r Awdurdod ragddywededig, bod yn yr holl Weddïau, Litaniau, a Cholectau, y ſy'n perthyn i'r Brenhin, y Frenhines, neu 'r Brenhinol Eppil, cyfnewidio ac arallu yr Enwau o amſer bwygilydd, a'u cymhwyſo at yr Achlyſur preſennol, yn ol cyfarwyddiad Awdurdod cyfreithlawn.

Darparer hefyd, ac Enactier trwy 'r Awdurdod ragddywededig, Bod caffael a meddu, ar Gôſt a thraul Plwyfolion pob Eglwys Blŵyf a Chapel, Eglwys Gadeiriol, Colleg neu Neuadd, un Copi wedi ei gywir Brintio o'r Llyfr dywededig, a enwir, *Llyfr Gweddi Cyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau a Chynheddfau a Seremoniau eraill yr Eglwys, yn ôl arfer Eglwys* Loegr; *gyd â'r Sallwyr neu Salmau* Dafydd, *wedi eu nodi megis ag y maent i'w canu neu i'w dywedyd mewn Eglwyſydd. A ffurf neu Ddull Gwneuthur, Uridо, a Chyſſegru Eſgobion, Offeiriaid, a Diaconiaid*, cyn dŷdd Gŵyl S. *Bartholomëus* ym Mlwyddyn Oedran ein Harglwydd, Mil Chwê-chant a Dŵy a Thri-ugain, dan boen ſforffettio Tair punt bôb mis tra bônt heb eu cael, gan bôb Plwyf neu Gapelaniaeth, Eglwys Gadeiriol, Colleg a Neuadd a eſgeuluſant hynny.

Darparer yn waſtad, ac Enactier trwy 'r Awdurdod ragddywededig, bod i Eſgobion *Hemfordd, Dewi, Llan-Elwy, Bangor* a *Llan-Daf* a'u Gwrthrychiaid, Dreſnyddio yn eu plith eu hunain(er jechydEnaid i'r preiddiau a orchymmynnwyd dan eu gofal yng *Nghymru*) Gyfeithu 'r Llyfr a gŷdglymmir â'r Act hon yn gywir, ac yn gyfrdo i Jaith y *Brutaniaid* ſef y *Cymru*, a bod printio 'r unrhyw wedi ei Gyfeithu ſelly, ac wedi ei olygu, ei chwilio, a'i gymmeradwyo ganddynt, o leiaf gan ryw Dri o honynt i jawn gyfryw rifedi, módd y galler cael un o'r Llyfrau dywededig wedi ei gyfeithu a'i brintio ſelly, i bob Eglwys Gadeiriol, Gollegol a phlwyfol, ac i bob Capel anwes o ſewn pob un o'r Eſgobaethau dywededig, lleoedd yng *Nghymru* lle y mae 'r Jaith *Gymraeg* yn gynnefin ac yn gyffredin, cyn Calan Mai, Mil Chwê-chant a phump a Thri-Ugain. A chwedi printio a chyhoeddi 'r Llyfr dywededig wedi ei gyfeithu ſelly, Bod i'r Gweinidogion a'r Curadiaid trwy holl *Gymru*, o ſewn yr Eſgobaethau dywededig lle mae 'r Jaith *Gymraeg* yn gyffredin, arfer a dywedyd cyſan Waſanaeth Duw, yn y *Frutaniaith* neu 'r *Gymraeg*, yn y cyfryw Ddull a Ffurf ag a Orchymmynnir yn ol y Llyfr a gyſſyllitir a'r Act hon i'w harferu yn y *Saiſonaeg*, heb amgenu dim mewn un Dreſn neu Ffurf oddi wrth y Llyfr *Saiſonaeg* dywededig: Am yr hwn Lyfr wedi ei gyfeithu a'i Brintio ſelly, Wardeniaid pob un o'r Plwyfau dywededig a dalant allan o Arian y Plŵyf yn eu llâw, tu ag at Waſanaeth pob rhyw Eglwyſydd, a chaniatêir iddynt yr unrhyw ar eu cyfrif: A bod i'r Eſgobion dywededig, ac i'w Gwrthddrychiaid, neu o leiaf i ryw dri o honynt oſod, ac appwyntio 'r pris, ar yr hyn y gwerthir y Llyfr dywededig. A bod prynu a chael ym mhob Eglwys trwy *Gymru*, y bo cael Llyfr Gweddi Gyffredin yn *Gymraeg*, trwy Rym yr Act hon, un Llyfr Gweddi gyffredin arall yn *Saiſonaeg* cyn dŷdd calan Mai, Mil Chwê-chant a phedair a Thri-ugain, A'r un Llyfr i aros yn waſtadol, mewn rhyw Leoedd cymheſur yn yr Eglwyſydd dywededig, môdd y gallo cynnifer ag a'u deallant gyrchu attynt, ar bob amſer tymherus, i ddarllain a chwilio 'r unrhyw, ſel y gallo hefyd y Sawl nad ŷnt yn deall yr Jaith ddywededig, wrth gŷd-yſtyried y ddŵy Jaith ddyfod yn haws i ddeall y *Saiſonaeg*; er dim yn yr Act hon i'r gwrthwyneb. Ac nes y galler danfon a chael Copïau printiedig o'r Llyfr dywededig yn gyfeithiol ſel uchod, Arferer y ffurf Gweddi Gyffredin a ſefydlwyd trwy Barliament cyn gwneuthur yr Act yma, mal cyn hyn ynghyfryw leoedd o *Gymru* lle na ddeallir y *Saiſonaeg* yn gyffredinol.

Ac ſel y cadwer yn ddïogel, ac y cynhalier byth

Gopïau

Copïau cywir a pherffaith o'r Act hon ac o'r Llyfr cyffyllteding gyd â hi, ac er ymgadw oddi wrth bob Ymreſymmau rhag llaw; Am hynny Enacter trwy 'r Awdurdod ragddywededig, Fod i bob Deon a Siapter pob Eglwys Gadeiriol a Chollegawl o fewn *Lloegr* a *Chymru*, gaffael dan Sêl Fawr *Loegr* ar eu côſt a'u traul eu hunain un Copi cywir a pherffaith o'r Act hon, ac o'r Llyfr dywededig cyn y pummed dŷdd ar hugain o fis Rhagfyr, mil Chwê chant a Dŵy a Thri-ugain; i'w gadw ac i'w gynnal gan y Deoniaid a'u Siapterau dywededig, a'u Gwrthrychiaid yn ddïogel dros byth. Ac hefyd i'w ddwyn allan, a'i ddangos ym mhob Llŷs Record, cyniſer gwaith ag y gelwir arnynt i hynny trwy Gyfraith. Rhodder hefyd Copïau cywir a pherffaith o'r Act hon ac o'r unrhyw Lyfr, i bob un o'r Llyſoedd yn *Weſtminſter*, ac i'r Tŵr Gwynn yn *Llundain*, i'w cadw a'u cynnal byth, gyd â Recordau 'r Llyſoedd dywededig, a chyd â Recordau 'r Tŵr Gwynn, i'w dwyn hefyd i olwg ac i'w dangos ym mhob Llŷs lle bo'r achos yn gofyn. A'r Llyfrau dywededig hyn a engreffir dan Sêl Fawr *Loegr*, a holir gan y cyfryw Wŷr a appwyntio Grâs y Brenin i hynny dan Sêl Fawr *Loegr*, ac a gymharir â'r LlyfrGwreiddiol arddodedig iſod, a bid iddynt allu i ddiwygio a Chyweiriotrwy yſgrifen bob bai trwy gamgymmeraid y Printiwr wrth Brintio yr unrhyw Lyfr, a phôb peth cynhwyſedig ynddo; A hwy a ſicrhânt mewn yſgrifen dan eu llâw a'u Sêl, neu dan Lâw a Sêl rhyw dri o honynt, yn niwedd yr un Llyfr, holi a chymharu o honynt y Llyfr hwnnw, a'u bôd yn canſod ei ſod ef yn Gopi cywir a pherffaith: A'r Llyfrau dywededig, a phob un o honynt a engraffwyd ſel hyn dan Sêl Fawr *Lloegr*, megis y rhagddywedwyd, a gyfrifir, a gymmerir, a fernir ac a eſponir eu bod yn dda ac yn ddigonol yn y Gyfraith i bob rhyw Ddibennau a Pherwylion beth bynnag, ac a gyfrifir yn Recordau da, megis y Llyfr hwn ei hun arddodedig iſod; Er neb ryw Gyfraith neu Ddefod ar neb ryw fodd yn y gwrthwyneb.

Darparer hefyd na bydd yr Act hon na dim cynhwyſedig ynddi yn argyweddus neu niweidiol i ſrenhinol Broffeſor y Gyfraith ymhrif-Yſgol *Rhydychen*, am a berthyno i Brebendiaeth *Shipton*, yn Eglwys Gadeiriol *Sarum*, unedig a Chyſſylltedig at le yr un Brenhinol Broffeſor o amſer bwygilydd, gan y diweddar Frenin *Jago* o Goffadwriaeth wynfydedig.

Darparer yn waſtad, lle mae yr unfed Erthygl ar Bymtheg ar hugain, o'r namyn un deugain Erthyglau y cyttunwyd arnynt gan Arch-Eſgobion ac Eſgobion y Ddŵy Dalaith, a'r holl Eglwyſwŷr yn y Gymanfa a gynhaliwyd yn *Llundain*, ym Mlwyddyn ein Harglwydd, Mil pum Cant a dŵy a Thri-ugain, er mwyn cadarnhau Cyſſondeb yn y wir Grefydd, yn y Geiriau hyn ſy yn canlyn, ſef,

Bod llyfr Cyſſegriad Arch-Eſgobion ac Eſgobion, ac Urddiad Offeiriaid a Diaconiaid a oſodwyd allan yn ddiweddar yn amſer Edward *y Chweched, ac a gadarnhäwyd yr un amſer trwy awdurdod* Parliament, *yn cynnwys ynddo bob peth angenrheidiol i gyfryw Gyſſegriad ac Urddiad; ac nad oes ynddo ddim ag ydd o hono ei hun yn ofergoelus, neu yn annuwiol. Ac am hynny, pwy bynnag a gyſſegrwyd neu a urddwyd yn ôl cynnheddfau 'r llyfr hwnnw, er yr ail flwyddyn o'r unrhyw Frenin* Edward *hyd yr amſer yma, neu yn ol hyn a gyſſegrer neu a urdder yn ol yr unrhyw gynheddfau, yr ydym ni yn ordeinio bod y cyfryw rai oll wedi eu cyſſegru a'u hurddo yn jawn, yn drefnus, ac yn gyfreithlawn.*

O herwydd pa ham Enacter, A bid Enactiedig trwy 'r Awdurdod ragddywededig, Bod pob Dodiad dwylaw a rodder neu a wneler o hyn allan wrth y dywededig Erthyglau gan bob Diacon, Offeiriad, neu Eglwyſwr, neu un arall pwybynnag a gymhellir trwy 'r Act hon neu ryw Gyfraith arall y ſy'n awr mewn grym, i ddodi ei Lâw wrth yr Erthyglau dywededig, a ddirnedir ac a gymmerir i gyrhaeddyd, ac a gyfodrych (hyd a berthyno i'r dywededig Unfed Erthygl ar bymtheg ar hugain) at y Llyfr a gynnwys Ffurf a Dull Gwneuthur, Urddo, a Chyſſegru Eſgobion, Offeiriaid a Diaconiaid a grybwyllir yn yr Act hon, yn yr unrhyw Fôdd a Dull ag y cyrhaeddai cyn hyn i'r Llyfr a oſodafid allan yn amſer Brenhin *Edward* y Chweched, yr hwn a grybwyllir yn y dywededig unfed Erthygl ar bymtheg ar hugain; Er dim yn y dywededig Erthygl, neu yn neb un Statut, Act, neu Ganon arall a ydoedd neu a wnaethpwyd o'r blaen, mewn un môdd yn y gwrthwyneb.

Darparer hefyd, Bod arferu a chadw ar droed ette yn Eglwys *Loegr* y Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynheddfau a Seremoniau eraill yr Eglwys hon o *Loegr*, ynghŷd â Ffurf a Dull Urddo a Chyſſegru Eſgobion, Offeiriaid a Diaconiaid, yr hwn a fu yn arferedig hyd yn hyn, ac yn ei herwydd a ſefydlwyd trwy Act Parliament yn y gyntaf ac yn yr wythfed flwyddyn i'r Frenhines *Elizabeth*, hyd Ddŷdd gŵyl *S. Bartholomëus* a ſydd ym Mlwyddyn ein Harglwydd Duw, Mil, Chwê-chant a dŵy a Thri-ugain.

¶ *Y RHAGYMADRODD.*

DOethineb Eglwys *Loegr* ydoedd, er pan gyntaf y lluniwyd iddi Liturgi Cyhoedd, Cadw Cyfrwng y ddau Eithaf, na byddai rŷ ſyth i wrthod, na rhŷ hyblyg i oddef Cyfnewid arno. Canys megis o'r naill du y mae Prawf ſathredig yn dangos, dyſu o amrafael Anghymmwyſderau, lle y cyfnewidiwyd (heb fod Angenrhaid eglur yn peri) y pethau trwy Bwyll da a ſefydliafid; A'r rhai hynny gan mwyaf yn amlach, a dwyſach nâ'r Drygau a amcanwyd eu diwygio drwy y cyfryw Newidiad. Felly, o'r tu arall, yn gymmaint a bod Ffurfiau goſodedig o Waſanaeth Duw; a'r Cynheddfau, a'r Seremoniau pwyntiedig i'w harſer ynddo yn bethau rheſymol, a newidiadwy, ag a gyffeſir eu bod felly; Rheſwm yw eu newid a'u hail weddu ar ddwys a phwyſawr Yſtyr, yn ôl ag y bo amryw Angen yr Amſeroedd a'r Achlyſurau yn gofyn, môdd y gwelo Gwŷr o Awdurdod o amſer bwygilydd ſod yn rheidiol neu yn fuddiol. Fel hyn y gwelwn ganiatâu o'r Eglwys yn Nheyrnaſiad amrafael Dywyſogion o Goffadwriaeth bendigedig, er pan ddechreuodd yr Adgyweiriad, ar jawn a dwys yſtyriau yn ei chymmell i hynny, wneuthur y cyfryw Newidiadau mewn rhyw bethau ag a farnwyd yn eu prïod Amſeroedd yn gymmwys: Eithr fel y bu yn waſtad ſafadwy yr holl Rannau cyfannol a hanfodol o hoſi yn un hyd heddyw, (yn gyſtal yn y Defnyddiau pennaf, ag yn ei lluniaethiad a'i Threfn) Ac y ſafant etto yn gadarn ac yn ddïyſgog, er holl Anturiau ofer, a Rhuthrau rhychwyllt a wnaed i'w herbyn gan rai anwaſtad, a ddangoſafant bob amſer ychwaneg o Serch i'w Hewyllys a'u Helw prïod, nag o'r Ddyled ſydd arnynt i'r Cyffredin.

Trwy ba Foddion anaddas, ac i ba Ddibenion trŵch, y daeth bwrw heibio arfer y Liturgi (er ei bod yn orchymmynedig trwy Gyfreithiau 'r Deyrnas, y cyfryw na ddiddymmwyd erioed etto) dros Amſeroedd y dïweddar Helbul trŵch anhappus, rhŷ hyſhys yw i'r Bŷd, ac nid oes gennym Ewyllys yma i'w hadgoffâu. Eithr pan, ar ddedwydd Edfrydiad Grâs y Brenhin, yr oedd tebygol ymhlith pethau eraill y dychwelai hefyd ar un-waith Arfer y Liturgi (canys erioed ni ddiddymmwyd hi trwy gyfraith) oni wnaid Cais cyflym i'w rhagflaenu hi; y rhai a'i gwnaethant yn fwyaf rhann o'u gorchwyl dan y Gamrwyſg ddiweddar i ddwyn y Gwerin i ddiflaſu arni hi, a ganſuant y perthynai iddynt am y dalai eu Cymmeriad da, a'u Helw (oddieithr iddynt rwydd-gydnabod eu Hamryſuſedd, yr hyn beth anhawdd jawn dwyn y cyfryw Wŷr i'w wneuthur) a'u llawn egni wrthladd ei dwyn hi i fewn eilwaith. A thu ag at hynny y taened ar lêd liaws o Lyfrau bâch yn erbyn y Llyfr *Gweddi Gyffredin*, yr adrifwyd yr hên Wrthreſymmau, ac yr arddodwyd rhai o newydd ychwaneg nag a wnaethid o'r blaen, ſel yr ai yn unchwydi eu nifer. Ar fyrr, llawer Taer-ymgais a wnaethpwyd at Râs a Mawredd y Brenhin, am gael adchwilio 'r Lyfr dywededig, a chael newid ynddo, ac ychwanegu atto 'r cyfryw bethau a dybygid yn gymmwys er eſmwythdra i dyner Gydwybodau (y Gweiniaid:) yr hyn beth ein Harglwydd Frenhin, o'i ddiwiol Duedd i roddi Bodlonrwydd (cyn-belled a thrwy Reſwm y gellid diſgwyl) i'w Ddeiliaid oll, o ba Hygoeledd bynnag, yn rhwydd-raſol a ganiatao.id.

Yn yr hon ail Olygiad ni a ymroeſom i gadw yr unrhyw ardymmer a welwn ei harſeru ar y cyffelyb achos yn y cynamſeroedd. Am hynny, o'r amrafael Newidiau a ddygwyd ger ein bron, bwriaſom heibio gynnifer oll yn gyſtal a dywyſent Aſlwydd ar eu hêl (megis yn dirgel daro ar ryw Athrawiaeth oſodedig, new ryw Ddefod ganmoladwy yn Eglwys *Loegr*, neu

yn hytrach holl Eglwys Gatholig Criſt,) a'r cyfryw na arwyddocâent ddim, eithr oeddynt lwyr-wagſaw a gorwag. Ond y cyfryw Newidiadau a ddygwyd attom (gan bwy bynnag, dan ba Rith, neu i ba Berwyl bynnag) a welem ar ryw Feſur yn lleſol a buddiol, nyni o wir Barodrwydd Ewyllys a ymfodlonaſom ynddynt: nid o herwydd ein cymmell trwy nerth dadl i hynny, i'n hargyhoeddi y gorfyddai gwneuthur y Newidiadau dywededig: Canys llawn ddiogel yw gennym yn ein Meddyliau (ac wele ni yma yn proffeſu hynny i'r Bŷd oll) nad yw 'r Llyfr, megis yr ydoedd o'r blaen wedi ei ſefydlu trwy gyfraith, yn cynnwys ynddo ddim yngwrthwyneb i Air Duw, nac i Athrawiaeth jachus, na dim na allo Gŵr duwiol â chydwybod dda ei arfer ac ymddaroſtwng iddo, ac na ellir ei jawn-amddiffyn yn erbyn pwy bynnag a'i gwrthwynebo; o's caniateir iddo Gymmeriad cyfiawn a hygar, y cyfryw o wir Jawnder cyffredin ag a ddylid ei roddi i bob Yſgrifenadau Dynion, yn enwedig y cyfrywa oſodir allan trwy Awdurdod, ac yn gyfartal â'r cyfeithiadau rhagoraf o'r Yſgrythur lân ei hun. Am hynny ein Diben cyffredinol ni yn hyn o waith ydoedd, nid boddloni nac un Blaid nac arall yn neb rhyw un o'u Gofynnion anrheſymmol; ond gwneuthur yr hyn i'r eithaf o'n Dealldwriaeth ni, a ddirnadaſom a dueddai fwyafat Ddiffynniad Heddwch ac Undeb yn yr Eglwys, i beri Parch ac i annog i Dduwioldeb a Deſoſiwn yng nghyhoedd Waſanaeth Duw; ac i dorri ymaith Achlyſur oddiwrth y ſawl a geiſiant Ganllaw i wrthddadleu, a chynhennu yn erbyn Liturgi 'r Eglwys. Ac am a berthyn i'r Amrywiadau oddi wrth y Llyfr cyntaf, pa un bynnag ai trwy Gyfnewidiad, Anghwanegiad neu ſodd arall: gwaſanaethed hyn o gyfrif yn gyffredinol; Gwnaethpwyd y rhan fwyaf o'r Cyfnewidiadau, naill ai yn gyntaf er manylach gyfarwyddo 'r Gweinidogion ar bob rhan o Waſanaeth Duw; a hyn a wnair yn bennaf yn y Calendar a'r Rubric: Neu yn ail, er adrodd yn briodolach ryw Eiriau neu Ddywediadau a arferwyd gynt, trwy leferydd cyffonach i Daſodiaith yr amſerau preſennol, ac er mwyn eglurd yn amiyccach ryw Eiriau a Dywediadau eraill a ddygent Arwyddocâd amwys, neu a oeddynt hylithr i Gamgymmeriad. Neu yn drydydd, er adrodd yn rhuglach y cyfryw Rannau o'r Yſgrythur lân, a ddoded o fewn y Liturgi, y rhai yn awr a drefnwyd i'w darllain; yn enwedig yn yr Epiſtolau a'r Efengylau, ac amrafael leoedd eraill, yn ôl Cyfeithiad diweddaf y Bibl. A barnwyd yn gymheſur anghwanegu yn eu gweddus leoedd, ryw Weddïau, a Ffurfiau o Ddiolwch wedi eu cymhwyſo i Achlyſurau prïodol; yn bennodol, i'r ſawl y ſy' ar y Môr, gyd â Gwaſanaeth am Fedydd y ſawl ſydd o Oedran addfedach; yr hwn er nad oedd mor angenrheidiol pan luniwyd y Llyfr cyntaf, er hynny o herwydd Cynnyddiad Anabaptiſm, a ymluſgodd i'n mŷſg ni trwy Benrhydd-der yr Amſeroedd diweddar, a aeth yr awr hon yn angenrheidiol, ac a all fod yn ſuddiol rhag llaw i fedyddio Prïodorion yn ein Plann-wledydd tramor, ac eraill a droer i'r Ffŷdd. Od oes a ddeiſyfio Gyfrif hysbyſach o bob Cyfnewidiad yn un rhan o'r Liturgi, cymmered y Boen i gŷd-gymharu 'r Llyfr hwn â'r cyntaf: nid oes ammau na chaiff weled yn eglur yr achos a oedd o'r Cyfnewid.

A chan i ni ymegnïo fel hyn i dalu ein Dyledſwydd yn hyn o Orchwyl pwyſawr, megis dan Olwg Duw, ac i gymmeradwyo ein purdeb yn y peth (hyd a oedd ynom) i Gydwybodau pawb oll; er bod yn hysbys i ni mai amhoſſibl yw boddloni pawb (pan fo'r fath Amrywiaeth o Athrylith, o Ffanſi, ac o brïod Elw yn y Bŷd;) ac nad allwn ddiſgwyl y bydd i Wŷr o Yſpryd-oedd terfyſgus, gorphwyllus a chyndynniog ymfodloni i ddim o'r dull yma, a ellir ei wneuthur gan neb arall ond ganddynt hwy eu hunain: er hynny i gyd y mae gennym obaith da am a gyflwynir yma, ac a holwyd yn ddiwyd jawn ac a ddiheurwyd gan Gymanfeydd y ddŵy Dalaith, y derbynnir ef hefyd ac y cymmerir yn dda gan gynnifer oll o Feibion Eglwys *Loegr* ag ſy ſobr, heddychol, a gwir gydwybodus.

¶ *Am Waſanaeth yr* EGLWYS.

NI bu erioed ddim wedi ei ddychymmygu mor ddiball, neu wedi ei gyfnerthu mor gadarn, trwy Synwyr Dŷn, yr hwn mewn yſpaid amſer ni's llygrwyd: megis, ym' mhlith pethau eraill, y mae 'n eglur ddigon wrth y Gweddïau cyffredin yn yr Eglwys, y rhai a elwir yn ſathredig, *Gwaſanaeth Duw:* Bonedd a Dechreuad cyntaf pa rai, pes chwilid am danynt ymŷſg gwaith ein hên Dadau, fe geid gweled nad ordeiniwyd y Gwaſanaeth hwnnw, ond er Amcan daionus, ac er mawr ddyrchafiad Duwioldeb. Canys hwynt-hwy a drefnaſant y matter felly, fel y darllenid yr holl Fibl drofto (neu y rhan fwyaf o hono) unwaith yn y Flwyddyn: gan amcanu wrth hynny, fod i'r Gwŷr llên, ac yn enwedig i'r ſawl a fyddent Weinidogion y Gynnulleidfa, allu (trwy fynych ddarllain a myfyrio Gair Duw) fod wedi ymddarparu i Dduwioldeb, a bod hefyd yn aplach i annog eraill trwy Ddyſgeidiaeth jachus, i'r un peth, ac i allu gorthrechu Dadl y rhai a wrthwynebent y gwirionedd. Ac ymmhellach, fel y gallai 'r bobl (trwy glywed beunydd ddarllain yr Yſgrythur lân yn yr Eglwys) gynnyddu 'n waſtad fwyfwy mewn gwybodaeth am Dduw, a dyſod i garu 'n gynheſach ei wir Grefydd ef.

Ond er ys talm o Flynyddoedd, y darfu newidio, torri, ac eſgeuluſo 'r ddulwiol a'r weddus Drefn yma o waith yr hên Dadau, trwy blannu i mewn' yn ei lle Hiſtorïau amhëus, Legendau, lliaws o Attebion, Gwerſi, Adwerſi gweigion, Coffadwriaethau, a Seneddolion; megis yn gyffredinol pan ddechreuid un llyfr o'r Bibl, cyn darfod darllain tair neu bedair Pennod o hono, y cwbl ond hynny a adewid heb ei ddarllain. Ac yn y wedd hon y dechreuid llyfr *Eſay* yn yr *Aſfent*: a llyfr *Geneſis* yn *Septuageſima*; Eithr eu dechrau a wnaid yn unig, heb orphen eu darllain byth. A'r un ffunud yr arferid am lyfrau eraill o'r Yſgrythur Lân. A chyd â hynny, lle mynnai S. *Paul*, fod dywediyd y cyfryw Jaith wrth y bobl yn yr Eglwys, ag a allant hwy ei deall a chaffael Llesad o'i chlywed; y Gwaſanaeth yn yr Eglwys hon o *Loegr* (er ys llawer o Flynyddoedd) a ddarllenwyd yn *Lladin* i'r Bobl, yr hwn nid oeddynt hwy yn ei ddeall; ac felly yr oeddynt yn unig yn clywed a'u Cluſtiau, ond eu Calonnau, a'u Hyſpryd, a'u Meddwl oedd yn ddïadeilad oddiwrtho. Ac heb law hynny er darfod i'r hên Dadau barthu 'r Salmau yn

faith ran, a phob un o honynt a elwid *Nocturn*, yn awr er yn hwyr o amſer, ychydig o honynt a ddywedid beunydd, gan eu mynych ad-ddywedyd a gadu 'r darn arall heibio, heb yngan un gair. Gyd â hynny, Nifeiri a Chaledrwydd y Rheolau y rhai a elwid y *Pica*, ac amrafael Gyfnewidiau Gwaſanaeth, oedd yr achos, fod mor galed ac mor rhwyſtrus drol at gyfnodau 'r Llyfr yn unig; megis yn fynych o amſer y byddai mwy o drallod yn chwilio am y peth a ddarllenid, nac yn ei ddarllain wedi ei gael.

Felly wrth yſtyried yr Anghymmeſurwydd hynny, fe a oſodir yma y cyfryw Drefn, fel y diwygir yr unrhyw bethau. Ac er mwyn Parodrwydd yn y matter yma, y tynnwyd Calendar i'r unrhyw bwrpas, yr hwn ſydd eglur a hawdd ei ddeall, ym mha un (hyd y gellid) y goſodwyd allan wêdd i ddarllain yr Yſgrythur lân, fel y gwneler pob peth mewn trefn, heb wahanu un ddarn o honi oddi wrth ei gilydd. Ac o blegid hyn y torrwyd ymaith Anthemau, Reſpondau, Initatoriau, a chyfryw wâg bethau amherthynaſol, ag oedd yn torri cwrs cyfan ddarlleniad yr Yſgrythur.

Etto gan nad oes ſodd amgen, na byddo angenrheidiol bod ymbell Reol; am hynny y goſodwyd yma ryw reolau, y rhai megis nad ydynt ond ychydig o Nifer, felly y maent yn rhwydd, ac yn hawdd eu deall. Wrth hynny mae i chwi yma Ffurf ar weddïo, (tu ag at am ddarllain yr Yſgrythur lân) yn gwbl gyſſon a Meddwl ac Amcan yr hên Dadau, ac o lawer yn fwy lleſol, a chymmwys na'r un yr oeddid yn ddiweddar yn ei arfer. Y mae 'n fwy lleſol, o achos bod yma 'n gadu allan lawer o bethau, o ba ſawl y mae rhai heb fod yn wir, rhai yn amhëus, rhai yn wâg ac o ofergoel; ac nid ydys yn ordeinio darllain dim ond pur wir Air Duw, yr Yſgrythur lân, neu 'r cyfryw a ſeilir arni 'n eglur, a hynny yn y cyfryw Jaith a Threfn ag y ſydd eſmwythaf a hawſaf eu deall gan y darllenwŷr, a'r gwrandawwŷr. Y mae hefyd yn fwy cymmwynaſol, yn gyſtal o herwydd ei fyrred, ac o herwydd eglured ei Drefn, ac o herwydd bod y Rheolau yn ychydig o Nifer ac yn hawdd. A chyd â hynny, wrth y drefn hon, nid rhaid i'r Curadiaid un llyfr arall i'w Gwaſanaeth cyffredin, ond y llyfr hwn a'r Bibl. O herwydd pa ham, nid rhaid i'r bobl fyned mewn cymmaint o draul am lyfrau ag y byddent amſer a fu.

A lle bu ym mhaenllaw Amrafael mawr wrth ddywedyd a chanu yn yr Eglwyſi o fewn y Deyrnas hon, Rhai yn canlyn Arfer *Salisbury*, rhai Arfer *Hereford*, rhai Arfer *Bangor*, rhai Arfer *Eſtrawg*, a rhai eraill Arfer *Lincoln*: yn awr o hyn allan ni bydd i'r holl Deyrnas ond un Arfer. Ac o barna neb fod y Ffordd hon yn fwy poenus, o achos bod yn rhaid darllain pob peth ar y Llyfr, lle o'r blaen o herwydd mynych ddywedyd, y gwyddent lawer peth ar Dafod leferydd; o's y cyfryw rai a gŷdbwyſant eu Llafur, ynghŷd a'r Gwybodaeth a gaffant beunydd wrth Ddarllain ar y Llyfr, ni wrthodant hwy 'r Boen wrth weled maint y Budd a dŷf o hyn yma.

Ac yn gymmaint ag na ellir goſod dim allan gan mwyaf mor eglur, ag na chyfodo Petruſder wrth ymarfer o hono: I oſtegu pob cyfryw Amrafael (o chyfyd yr un) ac am Ddoſparth pob rhyw Betruſder ynghŷlch y Mŏdd a'r Wêdd y mae deall a gwneuthur, a chwblhau pob peth a gynhwyſir yn y Llyfr hwn; y cyfryw a fyddont yn ammau felly, neu a fyddont yn cymmeryd y dim mewn amrafael Foddion, a ânt at Eſgob yr Eſgobaeth, yr hwn wrth ei ddoethineb a rŷdd Dreſn, er llonyddu, a heddychu 'r ddadl, trwy na byddo 'r dreſn honno yn wrthwyneb i ddim a'r y ſydd yn y Llyfr hwn. Ac o bydd Eſgob yr Eſgobaeth mewn dim Petruſder, yna efe a all anfon am Hyſpyſrwydd at yr Arch-Eſgob.

ER bod yn oſodedig, ſod pob peth a'r a ddarllenir ac a genir yn yr Eglwys, yn yr Jaith Gymraeg, *er mwyn adeiladu 'r Gynnulleidfa: er hynny nid ydys yn meddwl pan ddywedo neb Blygain a Goſper gartref, na ddichon efe eu dywedyd ym mha Jaith bynnag a ddeallo.*

A phob Offeiriad a Diacon ſydd rwymedig i ddywedyd beunydd y Foreuol, a'r Brydnhawol Weddi, naill ai yn neillduol ai ar oſteg, oddieithr bod rhwyſtr arnynt trwy glefyd neu o ran achos arall tra-angenrheidiol.

A'r Curad, ſef y Periglor, a fo yn gwaſanaethu ym mhob Eglwys blwyf neu Gapel, ac efe gartref, heb luddias rheſymmol arno, a ddywaid y Gwaſanaeth bronnrŏ yn yr Eglwys blwyf neu 'r Capel lle y bo efe yn gwaſanaethu, ac a bair ganu clŏch iddo amſer cymheſur, cyn y dechreuo, mŏdd y gallo 'r Bobl ddyfod i wrando Gair Duw, ac i weddïo gyd ag ef.

¶ *Am Seremoniau, pa ham y diddymmwyd Rhai, ac y cedwir eraill.*

O'R Seremoniau arferedig yn yr Eglwys ag y bu eu Codiad o Ordinhâd Dŷn, dychymmygwyd Rhai ar y cyntaf o Feddwl duwiol, ac i Berwyl da; eithr tröwyd o'r diwedd i Wagedd ac Ofer-goel: Eraill a ddaethant i fewn i'r Eglwys trwy Ddefoſiwn anisbwyll, ac o Zêl heb Wybodaeth; Ac o herwydd cŷd-ddwyn â hwynt ar y cyntaf, cynnyddaſant i'w camarferu fwy-fwy beunydd, a'r rhai llyn a haeddaſant, nid yn unig o blegid eu Hafles, ond hefyd o blegid iddynt ddallu 'r Bobl yn ddirfawr, a chaddugo Gogoniant Duw, eu torri ymaith, a'u bwrw heibio 'n llwyr: Y mae eraill, y rhai er eu dychymmyg gan Ddŷn, etto gwelwyd yn dda eu cadw, er mwyn Treſn weddus yn yr Eglwys, (i'r hyn beth y dychymmygwyd hwy gyntaf) nid yn llai, nac o herwydd eu bod yn gwaſanaethu er Adeiladaeth, at yr hwn (medd yr Apoſtol) y dylid cyfeirio pob peth a wneler yn yr Eglwys.

Ar er nad yw cadw neu eſgeuluſo Seremoni, o hono ei hun, ond peth dïyſtyr; etto nid bai bychan yngolwg Duw, yw troſeddu a thorri Urdd a Rheolaeth gyfredin, trwy Gyndynrwydd a Dirmyg. *Gwneler pob peth* yn eich mŷſg (mêdd S. *Paul*) *mewn treſn weddaidd a dyladwy:* Yr hon Dreſn nid eiddo 'r Gwerin ei happwyntio; am hynny na chymmered neb arno ac na ryſyged na threſnu, na newid un Oſodedigaeth gyhoedd neu gyfredin o fewn Eglwys Griſt, ond y ſawl a elwir ac a awdurdodir yn gyfreithlawn i hynny.

A chan fod yn awr amryw feddyliau gan bobl o'n hamſer ni, hyd pan debygo Rhai yn beth pwyſfawr mewn cydwybod, ymado â'r tippyn lleiaf o'u Seremoniau, y maent felly wedi ymroddi i'w hên Ddefodau; y mae Rhai hefyd o'r tu arall, a'u Gwŷn yn gymmaint ar bob Amheuthun, ſef y chwennychent newyddu pob peth, a dirmygant yr hên cymhelled na fydd dim wrth eu bŏdd hwy, ond y ſy newyddbeth; Gwelwyd yn gymmwys, na edrychid cymmaint am foddhâu a boddloni yr un o'r ddwylyw, ag ar wneuthur wrth Fŏdd Duw, ac ar Lês pob un o honynt hwy. Ac etto fel na rwyſtrer neb, a aller ei foddloni â Rheſwm eglur, Goſodir i lawr yma Achoſion pennodol, pa ham y bwriwyd ymaith rai o'r Seremoniau gnottedig, a pha ham y cynhelir ac y cedwir eraill etto ymhellach.

Rhai a fwriwyd ymaith, O blegid cynnyddaſai eu Gorllanw a'u Hamlder yn y Dyddiau diweddaraf hyn, hyd onid aethai eu baich yn anoddef; Am y rhai y cwynodd S. *Awſtin* yn ei amſer ef, gynnyddu eu rhifedi mor ddirfawr, hyd onid oedd Stâd y bobl Griſtianogol mewn gwaeth cyflwr o'u plegid, nag oedd eiddo 'r Juddewon. Ac efe a gynghorodd fwrw ymaith y fath Jau a Baich, tra gwaſanaethai'r amſer i wneuthur hynny yn ddiſtaw heb derfyſg. Eithr beth a ddywedaſai S. *Awſtin*, pe gwelſai 'r Seremoniau a arferid yn ddiweddar yn ein plith ni; i'r rhai nid oedd y Llïaws a arferid yn ei amſer ef i'w cyſtadlu? Cymmaint oedd gorllawn Llïaws ein Seremoniau, a bagad o honynt mor dywyll, hyd pan oeddynt yn dyfyſgu ac yn tywyllu, yn hytrach nag yn mynegi, ac yn goſod allan ddaioni Criſt i ni. Heb law hyn i gyd, nid cyfraith Seremoniaidd yw Efengyl Griſt, (ſel yr oedd rhan fawr o Gyfraith *Moſes*) eithr Crefydd i waſanaethu Duw, nid yng Nghaethiwed Fïgur, neu gyſgod, eithr yn Rhydd-did yr Ysbryd; gan ymfodloni i gynnifer o Seremoniau ag a waſanaetha i Dreſn weddaidd, a Rheolaeth ddu wiol, a'r cyfryw ag a ŷnt gymmwys i gyffrôi pŵl Feddwl Dŷn i goſio ei Ddyled i Dduw, trwy ryw Arwydd eglur ac amlwg, i'w Adeiladaeth. Ymhellach etto, yr achos pwyſfawroccaf o ddiddymmu rhai Seremoniau, camarferwyd hwy cyn belled, mewn rhan o herwydd dallineb gau-grefyddol y rhai anghŷwraint ac annyſgedig; ac mewn rhan trwy annigonol gybydd-dra 'r cyfryw a geiſient eu helw a'u budd eu hunain yn hytrach nâ Gogoniant Duw; ſel nad oedd hayach ſŏdd i fymmud y Camarferau, a'r peth etto yn ſefyll.

Eithr yn awr, am y Rhai ond antur a rwyſtrir, o herwydd cadw etto rai o'r hên Seremoniau, O's yſtyriant nad yw boſſibl cynnal Treſn a rheolaeth heddychol yn yr Eglwys heb rai Seremoniau, cânt yn hawdd weled, fod achos cyfreithlawn iddynt newid eu Meddyliau. Ac o's mawr ganddynt fod yr un o'r rhai hên yn ſefyll, ac yn well ganddynt lunio 'r cwbl o newydd, eithr gan iddynt ganiatâu mai cymmwys yw cael rhyw Seremoniau, dïau, lle gellir yn dda arfer yr hên, nid oes ſŏdd iddynt wrth reſwm argyhoeddi yr hên, yn unig am eu bod yn hên, heb ddadguddio eu gwall Synwyr eu hunain: Canys o's felly y mae, hwy a ddylent roddi Pârch iddynt o herwydd eu Heneiddrwydd, o's mynnant ddangos fod yn hoffach ganddynt Undeb a Chordiad, nag Innofatiynau, a Newydd wŷniau, yr hyn (cymhelled ag y gall hynny gyttuno â goſod allan Ffydd Griſt) y ſydd bob amſer i'w ochelyd. Ym mhellach etto, i'r cyfryw ni bydd achos cyfawn i feio ar y Seremoniau a adawyd: Canys megis y bwriwyd allan y rhai a gam-arferid fwyaf, ac a oeddynt yn Faich ar Gydwybodau dynion heb achos; Felly 'r lleill a gedwir er mwyn Rheolaeth a Threſn, ac a ellir ar achoſion cyfawn eu hamgenu a'u newidio, am hynny nid ydynt i'w barnu yn un-ſri â Chyfraith Dduw. Ym mhellach dracheſn, nid ŷnt Seremoniau tywyll nac aflafar, ond a oſodir allan fel y gallo pob dŷn ddirnad beth y maent yn ei arwyddocâu, ac i ba ddeunydd y maent yn gwaſanaethu; ſel nad rhaid fawr unoſn y camarferir hwy rhag llaw, fel y lleill o'r blaen. Ac yn gwneuthur hyn, nid ym yn condemnio un Genedl arall, nac yn goſod dim, namyn i'n Cenedl ein hun; canys cymheſur yw yn ein barn ni, fod i bob Gwlâd arferu 'r cyfryw Seremoniau a welont hwy yn orau i ddyrchafu Anrhydedd a Gogoniant Duw, a thebyccaf i ddwyn eu pobl i fuchedd berffaith a duwiol, heb nac Amryfuſedd na Choel-grefydd; A dodi o honynt ymaith bethau eraill a ganfyddant o amſer bwy gllydd eu camarferu, megis yn fynych y digwydd ar amrafael foddion, mewn amrafael Wledydd yn Ordinhadau Dynion.

¶ *Y Dreſn pa wêdd yr appwyntir darllain y Sallwyr.*

Y Sallwyr a ddarllenir drosto unwaith bob Mis, fel yr appwyntir yno, ar foreuol a phrydnhawnol Weddi: Eithr yn *Chwefror* y darllenir yn unig hyd yr Wythfed ar hugain neu 'r Nawfed dŷdd ar hugain o'r Mis.

A lle y mae i *Jonawr*, *Mawrth*, *Mai*, *Gorphennaf*, *Awſt*, *Hydref*, a *Rhagfyr*, Un ar ddêg ar hugain o ddyddiau bob un, ſe a ordeiniwyd fod darllain y dŷdd diwaethaf o'r Miſoedd hynny, y Salmau a ddarllenwyd y dŷdd o'r blaen, fel y gallo 'r Salmau ddechrau drachefn y dŷdd cyntaf o'r Mis a ſyddo 'n canlyn.

A lle y cyfrennir y bedwaredd Salm ar bymtheg ar ôl cant yn ddŵy ran ar hugain, a'i hod yn rhŷ hir i'w darllain ar unwaith, ſe a drefnwyd na bo darllain uwch law pedair neu bump o'r rhannau hynny ar un amſer.

Ac ar ddiwedd pob Salm, a phob rhan o'r bedwaredd Salm ar bymtheg ar ôl cant, dyweder yr Hymn yma.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſbryd Glân,

Megis yr oedd yn y dechrau, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad yn oes oeſoedd. Amen.

Nodia, Fod y Sallwyr yn canlyn Dosbarthiad yr *Hebrëaid*, a Chyfieithiad y Bibl mawr *Saiſonaeg*, a oſodwyd allan ac a arferwyd yn amſer Brenhin *Harri* 'r Wythfed, ac *Edward* y Chweched.

¶ *Y Dreſn pa wêdd yr appwyntiwyd bod darllain y rhan arall o'r Yſgrythur Lân.*

Yr Hên Deſtament a oſodwyd yn Llithoedd cyntaf ar foreuol a phrydnhawnol Weddi, ac felly y rhan fwyaf o hono a ddarllenir unwaith bob Blwyddyn fel yr appwyntir yn y Calendar.

Y Teſtament Newydd a oſodwyd yn ail Llithoedd, ar foreuol a phrydnhawnol Weddi, ac a ddarllenir drosto mewn treſn bob Blwyddyn deirgwaith, heb law 'r Epiſtolau a'r Efengylau: oddïeithr Dadguddiad *Ioan*, o'r hwn y goſodwyd bod rhyw Lithoedd prïod ar amrafael Wyliau.

Ac i wybod pa Lithoedd a ddarllenir bob dŷdd, myn gael y Dŷdd o'r mis yn y Calendar yn canlyn, ac yno y cai ddeall y pennodau a ddarllenir yn Llithoedd ar foreuol a phrydnhawnol Weddi, oddïeithr y Gŵyliau ſymmudol yn unig, y rhai nid ŷnt yn y Calendar, a'r anſymmudol lle y gadewir Adwy ynghoſon y Llithiau. Llithiau prïod i'r holl ddyddiau hynny a gair yn Nhabl y Llithoedd prïod.

A rhaid yw nodi hyn yma, pa brŷd bynnag y byddo Salmau neu Lithoedd prïod wedi eu goſod, yna 'r Salmau a'r Llithoedd goſodedig yn y Calendar (o's amgen) a adewir heibio dros yr amſer hynny.

Rhaid yw nodi hefyd, fod y Colect, yr Epiſtol, a'r Efengyl, a oſodir ar y Sûl, yn gwaſanaethu dros yr holl Wythnos rhag llaw, lle ni's trefnwyd yn amgenach yn y Llyfr hwn.

¶ *Pennodau*

¶ *Pennodau neillduol neu briodol i'w darllain ar Foreuol a Phrydnhawnol Weddi, ar y Suliau, a Gwyliau eraill trwy 'r holl flwyddyn.*

¶ *Llithiau priod i'r Suliau.*

Suliau yr Alfent.	*Plygain.*	*Gosber.*
1	Eſay 1	Eſay 2
2	5	24
3	25	26
4	30	32
Suliau gwedi Nadolig Criſt.		
1	37	38
2	41	43
Suliau gwedi 'r Yſtwyll.		
1	44	46
2	51	53
3	55	56
4	57	58
5	59	64
6	65	66
Septuageſima.	Geneſ. 1	Geneſ. 2
Seſageſima.	3	6
Cwincwageſima.	9 hyd w. 20.	12
Y Grawys.		
Y Sul cyntaf.	19 hyd w. 30.	22
2	27	34
3	39	42
4	43	45
5	Eceſod. 3	Eceſod. 5
6		
1 Llith.	9	10
2 Lith.	Math. 26	Heb. 5 hyd (w. 11
Dydd Paſg.		
1 Llith.	Eceſod. 12	Eceſod. 14
2 Lith.	Rhuf. 6	Act. 2 hyd (w. 22
Suliau gwedi'r Paſg.		
1	Num. 16	Num. 22
2	23, 24	25
3	Deut. 4	Deut. 5
4	6	7
5	8	9
Y Sul gwedi'r Dyrchafael.	12	13
Y Sul-gwyn.	(w. 18.	
1 Llith.	Deut. 16. hyd	Eſay 11
2 Lith.	Act. 10. gw. 34.	Act. 19 hyd (w. 21
Sul y Drindod.		
1 Llith.	Geneſ. 1	Geneſ. 18
2 Lith.	Math. 3	1 Joan 5
Suliau gwedi'r Drindod.		
1	Joſua 10	Joſua 23
2	Barn. 4	Barn. 5
3	1 Sam. 2	1 Sam. 3
4	12	13
5	15	17
6	2 Sam. 12	2 Sam. 19
7	21	24
8	1 Bren. 13	1 Bren. 17
9	18	19
10	21	22
11	2 Bren. 5	2 Bren. 9
12	10	18
13	19	23
14	Jerem. 5	Jerem. 22
15	35	36
16	Ezec. 2	Ezec. 13
17	14	18
18	20	24
19	Dan. 3	Dan. 6
20	Joel 2	Mic. 6
21	Habac. 2	Diar. 1
22	Diar. 2	3
23	11	12
24	13	14
25	15	16
26	17	19

¶ *Llithiau priodol neu neillduol i bob Dydd Gwyl.*

	Plygain.	*Gosber.*
St. *Andreas.*	Diar. 20	Diar. 21
St. *Tomas* Ap.	23	24
Nadolig Criſt.		
1 Llith.	Eſay 9 hyd (w. 8.	Eſay 7 gw. 10 hyd w. 17
2 Lith.	Luc 2 hyd (w. 15.	Titus 3 gw. 4 hyd w. 9
St. *Stephan.*		
1 Llith.	Diar. 28	Preg. 4
2 Lith.	Act. 6, gw. 8. a'r 7. ben. hyd w. 30.	Act. 7 gw. 30 hyd w. 55
St. *Joan.*		
1 Llith.	Preg. 5	Preg. 6
2 Lith.	Dadg. 1	Dadg. 22
Dydd y Gwirioniaid.	Jer. 31 hyd (w. 18.	Doeth. 1
Dydd yr Enwaediad.		(12
1 Llith.	Gen. 17	Deut. 10 gw.
2 Lith.	Rhuf. 2	Coloſ. 2
Yſtwyll.		
1 Llith.	Eſay 60	Eſay 49
2 Lith.	Luc 3 hyd (w. 23.	Joan 2 hyd w. (12
Troad St. *Paul.*		
1 Llith.	Doeth. 5	Doeth. 6
2 Lith.	Act. 22 hyd (w. 22	Act. 26
Puredigaeth Mair Forwyn.	Doeth. 9	Doeth. 12
St. *Mathias.*	19	Eccles. 1
Cennadwri ein Harglwyddes.	Eccles. 2	3
Dydd Merchur cyn y Paſg.		
1 Llith.	Hoſea 13	Hoſea 14
2 Lith.	Joan 11, gw. 45.	
Dydd Iou cyn y Paſg.		
1 Llith.	Daniel 9	Jer. 31
2 Lith.	Joan 13	

Gwener y Croglith.	*Plygain.*	*Gosber.*
1 Llith.	Gen. 22 hyd (w. 20.	Eſay 53
2 Lith.	Joan 18	1 Pedr 2
Nôs Bâſg.		
1 Llith.	Zech. 9	Eſod. 13
2 Lith.	Luc 23, gw. 50	Heb. 4
Dŷdd Llun Pâſg.		
1 Llith.	Eſod. 16	Eſod. 17
2 Lith.	Math. 28	Act. 3
Dŷdd Mawrth Pâſg.		
1 Llith.	Eſod. 20	Eſod. 32
2 Lith.	Luc 24 hyd (w. 13	1 Cor. 15
St. *Marc.*	Eccles. 4	Eccles. 5
St. *Phylib a St. Jago.*		
1 Llith.	7	9
2 Lith.	Joan 1 gw. 43	
Dŷdd y Dyrchafael.		
1 Llith.	Deut. 10	2 Bren. 2
2 Lith.	Luc 24 gw. 44	Eph. 4 hyd w. (17
Dŷdd Llun y Sul-gwyn.		
1 Llith.	Gen. 11 hyd w. (10	Num. 11 gw. 16 hyd w. 30
2 Lith.	1 Cor. 12	1 Cor. 14 hyd (w. 26

Dŷdd Mawrth y Sul-gwyn.	*Plygain.*	*Gosber.*
1 Llith.	1 Sam. 19 gw. (18	Deut. 30
2 Lith.	1 Theſ 5 gw. 12 hyd w. 24	1 Joan 4 hyd (w. 14
St. *Barnabas.*		
1 Llith.	Eccles. 10	Eccles. 12
2 Lith.	Act. 14	Act. 15 hyd (w. 36
St. *Joan Fedyddiwr.*		
1 Llith.	Malach. 3	Malach. 4
2 Lith.	Math. 3	Math. 14 hyd (w. 13
St. *Pedr.*		
1 Llith.	Eccles 15	Eccles. 19
2 Lith.	Act. 3	Act. 4
St. *Jago.*	Eccles. 21	Eccles. 22
St. *Bartholomius.*	24	29
St. *Mathew.*	35	38
St. *Mihangel.*		
1 Llith.	Gen. 32	Dan. 10 gw. 5
2 Lith.	Act. 12 hyd (w. 20	Jud. gw. 6 hyd (w. 16
St. *Luc.*	Eccles. 51	Job 1
St. *Simon a St. Jud.*	Job 24, a'r 25	42
Holl Saint.	(w. 10	(w. 17
1 Llith.	Doeth. 3 hyd	Doeth. 5 hyd
2 Lith.	Heb. 11 gw. 33 a Phen. 12 hyd w. 7	Dadg. 10 hyd (w. 17

¶ *Salmau Priod ar Ddyddiau pennodol.*

	Plygain.	*Gosber.*
Dŷdd Nadolig Crist.	Salm. 19 45 85	Salm. 89 110 132
Dŷdd Marchur y Llud.	6 32 38	102 130 143
Dŷdd Gwener y Cregl.	22 40 54	69 88
Dŷdd Pâſg.	2 57 111	113 114 118
Dŷdd y Dyrchafael.	8 15 21	24 47 108
Y Sul-gwyn.	48 68	104 145

JONAWR ſydd iddo xxxi o Ddyddiau.

				BOREUOL Weddi.		PRYDNH. Weddi.	
				1 *Llith.*	2 *Llith.*	1 *Llith.*	2 *Llith.*
3	1	A	*Enwaed.*				
	2	b	*ſin*	Gen. 1	Mat. 1	Gen. 2	Rhuf. 1
11	3	c	*Hargl.*	3		4	2
	4	d		5		6	3
19	5	e		7		8	4
8	6	f	*Iſtwyll.*				
	7	g		9	5	12	5
16	8	A	Lucian.	13	6	14	6
5	9	b		15	7	16	7
	10	c		17	8	18	8
13	11	d		19	9	20	9
2	12	e		21	10	22	10
	13	f	Elian Ef.	23	11	24	11
10	14	g		25	12	26	12
	15	A		27	13	28	13
18	16	b		29	14	30	14
7	17	c		31	15	32	15
	18	d	Priſca F.	33	16	34	16
15	19	e		35	17	37	1 Cor. 1
4	20	f	Fabian. E.	38	18	39	2
	21	g	Agnes. F.	40	19	41	3
12	22	A	Vinc. Sp.	42	20	43	4
1	23	b		44	21	45	5
	24	c		46	22	47	6
9	25	d	*Troad*				
	26	e	*S. Paul.*	48	23	49	7
17	27	f		50	24	Ecſod. 1	8
6	28	g		Ecſod. 2	25	3	9
	29	A		4	26	5	10
14	30	b	Br. *Siarles*	* 6	27	7	11
3	31	c	Ferth.	8	28	9	12

Noda, y darllenir (*) *Ecſodus* 6. yn unig hyd wers 14.

CHWEFROR ſydd iddo xxviii. o Ddyddiau.

				BOREUOL Weddi.		PRYDNH. Weddi.	
				1 *Llith.*	2 *Llith.*	1 *Llith.*	2 *Llith.*
	1	d	Ympryd.	Ecſod. 10	Marc 1	Ecſod. 11	1 Cor. 13
11	2	e	*Pured.*				14
19	3	f	*y Fen.*	12	2	13	15
8	4	g	*Fair F.*	14	4	15	16
	5	A	Agatha.	16	5	17	2 Cor. 1
16	6	b		18	6	19	2
5	7	c		20	7	21	3
	8	d		22	8	23	4
13	9	e		24	9	32	5
2	10	f		33	10	34	6
	11	g		Lef. 18	11	Lef. 19	7
10	12	A		20	12	26	8
	13	b		Num. 11	13	Num. 12	9
18	14	c	Falentin.	13	14	14	10
7	15	d		16	15	17	11
	16	e		20	16	21	12
15	17	f		22	Luc * 1	23	13
4	18	g		24	1	25	Gal. 1
	19	A		27	2	30	2
12	20	b		31	3	32	3
1	21	c		35	4	36	4
	22	d		Deut. 1	5	Deut. 2	5
9	23	e	Ympryd.	3	6	4	6
	24	f	*S. Matthias.*		7		Eph. 1
17	25	g		5	8	6	2
6	26	A		7	9	8	3
	27	b		9	10	10	4
14	28	c		11	11	12	5
	29			13	Mat. 7	14	Rhuf. 12

Noda y darllenir Luc * 1 hyd w. 39 y 17 dydd, ac oddi yno hyd y diwedd ar y 18ed dydd.

Ar y Flwyddyn naid y bydd 29 o ddyddiau yn Chwefror, ac y dodir y llythyren F ar y 24 a'r 25, ac y bydd Gwyl Fathïas ar y 25.

MAWRTH ſydd iddo xxxi. o Ddyddiau.

				BOREUOL Weddi.		PRYDNH. Weddi.	
				1 *Llith.*	2 *Llith.*	1 *Llith.*	2 *Llith.*
3	1	d	*Dewi* AE.	Deut. 15	Luc 12	Deut. 16	Eph. 6
	2	e	Chad. E.	17	13	18	Phil. 1
11	3	f		19	14	20	2
	4	g		21	15	22	3
19	5	A		24	16	25	4
8	6	b		26	17	27	Col. 1
	7	c	Perpetua.	28	18	29	2
16	8	d		30	19	31	3
5	9	e		32	20	33	4
	10	f		34	21	Joſua 1	1 Theſ. 1
13	11	g	Joſua 2		22	3	2
2	12	A	Grygor.	4	23	5	3
	13	b	M. E.	6	24	7	4
10	14	c		8	Joan 1	9	5
	15	d		10	2	23	2 Theſ. 1
18	16	e		24	3	Barn. 1	2
7	17	f	Barn. 2		4	3	3
	18	g	Edw. Fr.	4	5	5	1 Tim. 1
15	19	A		6	6	7	2, 3
4	20	b		8	7	9	4
	21	c	Benedict.	10	8	11	5
12	22	d	Ab.	12	9	13	6
1	23	e		14	10	15	1 Tim. 1
	24	f	Ympryd.	16	11	17	2
9	25	g	*Cyfarch*		12		3
	26	A	*Mair.*	18	13	19	4
17	27	b		20	14	21	Tit. 1
6	28	c		Ruth 1	15	Ruth 2	2, 3
	29	d		3	16	4	Philem.
14	30	e		1 Sam. 1	17	1 Sam. 2	Heb. 1
3	31	f		3	18	4	2

EBRILL. ſydd iddo xxx. o Ddyddiau.

				BOREUOL Weddi.		PRYDNH. Weddi.	
				1 *Llith.*	2 *Llith.*	1 *Llith.*	2 *Llith.*
	1	g		1 Sam. 5	Joan 19	1 Sam. 6	Hebr. 3
11	2	A		7	20	8	4
	3	b	Rhiſ. E.	9	21	10	5
19	4	c	Ambro. E	11	Act. 1	12	6
8	5	d		13	2	14	7
16	6	e		15	3	16	8
5	7	f		17	4	18	9
	8	g		19	5	20	10
13	9	A		21	6	22	11
2	10	b		23	7	24	12
	11	c		25	8	26	13
10	12	d		27	9	28	Jago 1
	13	e		29	10	30	2
18	14	f		31	11	2 Sam. 1	3
7	15	g		2 Sam. 2	12	3	4
	16	A		4	13	5	5
15	17	b		6	14	7	1 Petr. 1
4	18	c		8	15	9	2
	19	d	Alpheg.	10	16	11	3
12	20	e	A. E.	12	17	13	4
1	21	f		14	18	15	5
	22	g		16	19	17	2 Petr. 1
9	23	A	S. Siôr.	18	20	19	2
	24	b		20	21	21	3
17	25	c	*S. Marc.*		22		1 Joan 1
6	26	d	Eſeng.	22	23	23	2
	27	e		24	24	1 Bren. 1	3
14	28	f		1 Bren. 2	25	3	4
3	29	g		4	26	5	5
	30	A		6	27	7	2, 3 Joan

MAI ſydd iddo xxxi. o Ddyddiau.

				BOREUOL Weddi.		PRYDNH. Weddi.	
				1 *Llith.*	2 *Llith.*	1 *Llith.*	2 *Llith.*
11	1	b	S. *Phylib*				Judas.
	2	c	a S. *Jago.*	1 Bren. 1	Act. 28	1 Bren. 9	Rhuf. 1
19	3	d	Caffael y	10	Mat. 1	11	2
8	4	e	Groes.	12	2	13	3
	5	f		14	3	15	4
16	6	g	Jo. Port.	16	4	17	5
5	7	A	Lat.	18	5	19	6
	8	b		20	6	21	7
13	9	c		22	7	2 Bren. 1	8
2	10	d		2 Bren. 2	8	3	9
	11	e		4	9	5	10
20	12	f		6	10	7	11
	13	g		8	11	9	12
18	14	A		10	12	11	13
7	15	b		12	13	13	14
	16	c		14	14	15	15
15	17	d		16	15	17	16
4	18	e		18	16	19	1 Cor. 1
	19	f	Dunſt.	20	17	21	2
12	20	g	A. E.	22	18	23	3
1	21	A		24	19	25	4
	22	b		Ezra 1	20	Ezra 3	5
9	23	c		4	21	5	6
	24	d		6	22	7	7
17	25	e		9	23	Neh. 1	8
6	26	f	Awſtin.	Neh. 2	24	4	9
	27	g	Beda.	5	25	6	10
14	28	A		8	26	9	11
3	29	b	*Gened.*	10	27	13	12
	30	c	*Siarles* II.	Eſth. 1	28	Eſth. 2	13
11	31	d	*a'i d.ly.*	3	Marc 1	4	14

GORPHENNAF ſydd iddo xxxi. o Ddyddiau.

				BOREUOL Weddi.		PRYDNH. Weddi.	
				1 *Llith.*	2 *Llith.*	1 *Llith.*	2 *Llith.*
19	1	g		Diar. 11	Luc 13	Diar. 12	Phil. 1
8	2	A	Ymwel.	13	14	14	2
	3	b	Mair.	15	15	16	3
16	4	c	Martin	17	16	18	4
5	5	d	Eſgob.	19	17	20	Col. 1
	6	e		21	18	22	2
13	7	f		23	19	24	3
2	8	g		25	20	26	4
	9	A		27	21	28	1 Theſ. 1
10	10	b		29	22	31	2
	11	c		Preg. 1	23	Preg. 2	3
18	12	d		3	24	4	4
7	13	e		5	Joan 1	6	5
	14	f		7	2	8	2 Theſ. 1
15	15	g	Swithin	9	3	10	2
4	16	A	Eſgob.	11	4	12	3
	17	b	Cynllo	Jerem. 1	5	Jerem. 2	1 Tim. 1
12	18	c	Frenhin.	3	6	4	2, 3
1	19	d		5	7	6	4
	20	e	Margar. F	7	8	8	5
9	21	f		9	9	10	6
	22	g	Mair Mag.	11	10	12	2 Tim. 1
17	23	A		13	11	14	2, 3
6	24	b	Ympryd.	15	12	16	3
	25	c	S. *Jago* A.		13		4
14	26	d	St. Ann.	17	14	18	Tit. 1
3	27	e		19	15	20	2, 3
	28	f		21	16	22	Philem.
11	29	g		23	17	24	Hebr. 1
	30	A		25	18	26	2
19	31	b		27	19	28	3

MEHEFIN ſydd iddo xxx. o Ddyddiau.

				BOREUOL Weddi.		PRYDNH. Weddi.	
				1 *Llith.*	2 *Llith.*	1 *Llith.*	2 *Llith.*
	1	e	Nicom.	Eſth. 5	Marc 2	Eſth. 6	1 Cor. 15
19	2	f		7	3	8	16
8	3	g		9	4	Job 1	2 Cor. 1
16	4	A		Job 2	5	3	2
5	5	b	Boniface.	4	6	5	3
	6	c		6	7	7	4
13	7	d		8	8	9	5
2	8	e		10	9	11	6
	9	f		12	10	13	7
10	10	g		14	11	15	8
	11	A	S. *Barn.*				
18	12	b	Apoſt.	16	12	17, 18	9
7	13	c		19	13	20	10
	14	d		21	14	22	11
15	15	e		23	15	24, 25	12
4	16	f	Curig.	26, 27	16	28	13
	17	g	S. Alban.	29	Luc 1	30	Gal. 1
12	18	A	Ferthyr.	31	2	32	2
1	19	b		33	3	34	3
	20	c	Edward.	35	4	36	4
9	21	d		37	5	38	5
	22	e		39	6	40	6
17	23	f	Ympryd.	41	7	42	Epheſ. 1
6	24	g	S. *Joan*				
	25	A	Fed.	Diar. 1	8	Diar. 2	2
14	26	b		3	9	4	3
3	27	c		5	10	6	4
	28	d	Ympryd.	7	11	8	5
11	29	e	S. *Pedr* A.				
	30	f		9	12	10	6

AWST ſydd iddo xxxi. o Ddyddiau.

				BOREUOL Weddi.		PRYDNH. Weddi.	
				1 *Llith.*	2 *Llith.*	1 *Llith.*	2 *Llith.*
8	1	c	Lammas.	Jer. 29	Joan 20	Jer. 30	Hebr. 4
16	2	d		31	21	32	5
5	3	e		33	Act. 1	34	6
	4	f		35	2	36	7
13	5	g		37	3	38	8
2	6	A	Ymrith.	39	4	40	9
	7	b	Enw 'r	41	5	42	10
10	8	c	Jeſu.	43	6	44	11
	9	d		45, 46	7	47	12
18	10	e	S. Lawr.	48	8	49	13
7	11	f		50	9	51	Jago 1
	12	g		52	10	Galar. 1	2
15	13	A		Galar. 2	11	3	3
4	14	b		4	12	5	4
	15	c		Ezec. 2	13	Ezec. 3	5
12	16	d		6	14	7	1 Pedr 1
1	17	e		13	15	14	2
	18	f		18	16	33	3
9	19	g		34	17	Dan. 1	4
	20	A		Dan. 2	18	3	5
17	21	b		4	19	5	2 Pedr 1
6	22	c		6	20	7	2
	23	d	Ympryd.	8	21	9	3
14	24	e	S. *Barth.*		22		1 Joan 1
3	25	f	Apoſt.	10	23	11	2
	26	g		12	24	Hoſ. 1	3
11	27	A		Hoſ. 2, 3	25	4	4
	28	b	Awſtin E	5, 6	26	7	5
19	29	c	Torri	8	27	9	2, 3 Joan
8	30	d	pen Joan	10	28	11	Judas.
	31	e	Fedydd.	12	Mat. 1	13	Rhuf. 1

MEDI ſydd iddo xxx. o Ddyddiau.

				BOREUOL Weddi.		PRYDNH. Weddi.	
				1 *Llith.*	2 *Llith.*	1 *Llith.*	2 *Llith.*
16	1	f	Silin Ab.	Hoſ. 14	Mat. 2	Joel 1	Rhuf. 2
5	2	g		Joel 2	3	3	3
	3	A		Amos 1	4	Amos 2	4
13	4	b		3	5	4	5
2	5	c		5	6	6	6
	6	d		7	7	8	7
10	7	e	Eunur. E.	9	8	Obad.	8
	8	f	Gened.	Jonah 1	9	Jon. 2, 3	9
18	9	g	Mair.	4	10	Mic. 1	10
7	10	A		Mic. 2	11	3	11
	11	b		4	12	5	12
15	12	c	Idloes.	6	13	7	13
4	13	d		Nah. 1	14	Nah. 2	14
	14	e	Groes S.	3	15	Hab. 1	15
12	15	f		Hab. 2	16	3	16
1	16	g		Seph. 1	17	Seph. 2	1 Cor. 1
	17	A	Lambert.	3	18	Hag. 1	2
9	18	b	E.	Hag. 2	19	Zec. 1	3
	19	c		Zec. 2, 3	20	4, 5	4
17	20	d	Ympryd.	6	21	7	5
6	21	e	S. *Matth.*		22		6
	22	f		8	23	9	7
14	23	g		10	24	11	8
3	24	A		12	25	13	9
	25	b		14	26	Mal. 1	10
11	26	c	S. Cypr.	Mal. 2	27	3	11
19	27	d		4	28	Tob. 1	12
	28	e		Tob. 2	Marc 1	3	13
8	29	f	S. *Mihang.*		2		14
	30	g	S. Jerom.	4	3	6	15

TACHWEDD ſydd iddo xxx. o Ddyddiau.

				BOREUOL Weddi.		PRYDNH. Weddi.	
				1 *Llith.*	2 *Llith.*	1 *Llith.*	2 *Llith.*
	1	d	*Hollſaint.*				
13	2	e		Eccl. 16	Luc 18	Eccl. 17	Coloſ. 2
2	3	f		18	19	19	3
	4	g		20	20	21	4
10	5	A	*Brâd y p.*	22	21	23	1 Theſ. 1
	6	b	Leonard.	24	22	(*a*) 25	2
18	7	c		27	23	28	3
7	8	d		29	24	(*b*) 30	4
	9	e		31	Joan 1	32	5
15	10	f		33	2	34	2 Theſ. 1
4	11	g	S. Martin.	35	3	36	2
	12	A		37	4	38	3
12	13	b	Briſus E.	39	5	40	1 Tim. 1
1	14	c		41	6	42	2, 3
	15	d	Machut.	43	7	44	4
9	16	e		45	8	(*c*) 46	5
	17	f	Huw. E.	47	9	48	6
17	18	g		49	10	50	2 Tim. 1
6	19	A		51	11	Baruc. 1	2
	20	b	Edm. Fr.	Baruc. 2	12	3	3
14	21	c		4	13	5	4
3	22	d	Cecilia F.	6	14	Hi. Su.	Tit. 1
	23	e	S. Clem.	Bel a'rDd.	15	Eſay 1	2, 3
11	24	f		Eſay 2	16	3	Philem.
19	25	g	Catrin. F.	4	17	5	Heb. 1
	26	A		6	18	7	2
8	27	b		8	19	9	3
	28	c		10	20	11	4
16	29	d	Ympryd.	12	21	13	5
5	30	e	S. *And.* A.		Act. 1		6

Noda, y darllenir (*a*) Eccl. 25. yn unig hyd w. 13. ac (*b*) Eccl. 30. yn unig hyd w. 18. ac (*c*) Eccl. 46. yn unig hyd w. 20.

HYDREF ſydd iddo xxxi. o Ddyddiau.

				BOREUOL Weddi.		PRYDNH. Weddi.	
				1 *Llith.*	2 *Llith.*	1 *Llith.*	2 *Llith.*
16	1	A	Remig. E.	Tobit 7	Marc 4	Tobit 8	1 Cor. 16
5	2	b		9	5	10	2 Cor. 1
13	3	c		11	6	12	2
2	4	d		13	7	14	3
	5	e		Judith 1	8	Judith 2	4
10	6	f	Ffydd. F.	3	9	4	5
	7	g		5	10	6	6
18	8	A		7	11	8	7
7	9	b	S. Denys.	9	12	10	8
	10	c		11	13	12	9
15	11	d		13	14	14	10
4	12	e		15	15	16	11
	13	f	Edw. C.	Doe. 1	16	Doe. 2	12
12	14	g		3	Luc * 1	4	13
1	15	A		5	1	6	Gal. 1
	16	b		7	2	8	2
9	17	c	Etheldr.	9	3	10	3
	18	d	S. *Luc*		4		4
17	19	e	Eſeng.	11	5	12	5
6	20	f		13	6	14	6
	21	g		15	7	16	Epheſ. 1
14	22	A		17	8	18	2
3	23	b		19	9	Eccl. 1	3
	24	c		Eccl. 2	10	3	4
11	25	d	Criſp. M.	4	11	5	5
	26	e		6	12	7	6
19	27	f	Ympryd.	8	13	9	Philip. 1
8	28	g	S. *Simon*		14		2
	29	A	1 S. *Jud.*	10	15	11	3
16	30	b		12	16	13	4
5	31	c	Ympryd.	14	17	15	Col. 1

Noda, y darllenir Luc * 1 hyd w. 39 y 14 dŷdd, ac oddi yno hyd y diwedd ar y 15ed.

RHAGFYR ſydd iddo xxxi. o Ddyddiau.

				BOREUOL Weddi.		PRYDNH. Weddi.	
				1 *Llith.*	2 *Llith.*	1 *Llith.*	2 *Llith.*
	1	f		Eſay 14	Act. 2	Eſay 15	Hebr. 7
13	2	g		16	3	17	8
2	3	A		18	4	19	9
10	4	b		20, 21	5	22	10
	5	c		23	6	24	11
18	6	d	Nicolas	25	han. 7	26	12
7	7	e	Eſgob.	27	han. 7	28	13
	8	f	Ymdd.	29	8	30	Jago 1
15	9	g	Mair.	31	9	32	2
4	10	A		33	10	34	3
	11	b		35	11	36	4
12	12	c		37	12	38	5
1	13	d	Luci F.	39	13	40	1 Pedr. 1
	14	e	a M.	41	14	42	2
9	15	f		43	15	44	3
	16	g	O Sapi-	45	16	46	4
17	17	A	entia.	47	17	48	5
6	18	b		49	18	50	2 Pedr 1
	19	c		51	19	52	2
14	20	d	Ympryd.	53	20	54	3
3	21	e	S. *Tomas*		21		1 Joan 1
	22	f	Apoſt.	55	22	56	2
11	23	g		57	23	58	3
	24	A	Ympryd.	59	24	60	4
19	25	b	*Nad. Criſt*				
8	26	c	S. *Stephan*				
	27	d	S. *Joan.*				
16	28	e	*Gwirion-*		25		5
5	29	f	*iaid.*	61	26	62	1 Joan
	30	g		63	27	64	3 Joan
13	31	A	Sylfeſtr.	65	28	66	Judas

Noda, y darllenir Act. 7. hyd w. 30. y chweched dŷdd, ac yno y dechreuir ar y 7ed dŷdd.

TABL o'r Gwylian Symmudol, wedi ei gylchu dros ddeugain Mlynedd.

Oe'dran yr Arglwydd.	Y Prif.	Yr Epact.	Lythyren y Sul.	Suliau wedi'r Ystwyll.	Sul Septuagesima.	Y dydd cyntaf o'r Grawys.	Dydd Pasg.	Sul y Gwe-ddiau.	Dydd y Dyrchafael.	Y Sul-Gwyn.	Suliau wedi'r Drindod.	Sul yr Adfent.
1746	18	18	E	2	Jonawr 26	Chwef. 12	Mawrth 30	Mai 4	Mai 8	Mai 18	26	Tach. 30
1747	19	29	D	5	Chwef. 15	Mawrth 4	Ebrill 19	24	28	Mehefin 7	23	29
1748	1	11	C B	4	7	Chwef. 24	10	15	19	Mai 29	24	27
1749	2	22	A	2	Jonawr 22	8	Mawrth 26	Ebrill 30	4	14	27	Rhag. 3
1750	3	3	G	5	Chwef. 11	28	Ebrill 15	Mai 20	24	Mehefin 3	24	2
1751	4	14	F	3	3	20	7	12	16	Mai 26	25	1
1752	5	25	E D	2	Jonawr 26	12	Mawrth 29	3	7	17	26	Tach. 29
1753	6	6	C	4	Chwef. 7	24	Ebrill 11	16	20	30	24	28
1754	7	17	B	3	Jonawr 30	16	3	8	12	22	25	27
1755	8	28	A	6	Chwef. 19	Mawrth 8	23	28	Mehefin 1	Mehefin 11	23	Rhag. 3
1756	9	9	G F	5	11	Chwef. 28	14	19	Mai 23	2	24	2
1757	10	20	E	2	Jonawr 26	12	Mawrth 30	4	8	Mai 18	26	Tach. 30
1758	11	1	D	5	Chwef. 15	Mawrth 4	Ebrill 19	23	28	Mehefin 7	23	29
1759	12	12	C	4	7	Chwef. 24	11	16	20	Mai 30	24	28
1760	13	23	B A	2	Jonawr 23	9	Mawrth 26	Ebrill 30	4	14	27	Rhag. 3
1761	14	4	G	5	Chwef. 11	28	Ebrill 15	Mai 20	24	Mehefin 3	24	2
1762	15	15	F	3	3	20	7	12	16	Mai 26	25	1
1763	16	26	E	1	Jonawr 19	5	Mawrth 23	Ebrill 27	1	11	27	Tach. 30
1764	17	7	D C	4	Chwef. 8	25	Ebrill 11	Mai 16	20	30	24	28
1765	18	18	B	3	Jonawr 30	16	3	8	12	22	25	27
1766	19	29	A	6	Chwef. 19	Mawrth 8	23	28	Mehefin 1	Mehefin 11	23	Rhag. 3
1767	1	11	G	4	4	Chwef. 21	8	13	Mai 17	Mai 27	25	2
1768	2	22	F E	2	Jonawr 27	13	Mawrth 30	4	8	18	26	Tach. 30
1769	3	3	D	5	Chwef. 15	Mawrth 4	Ebrill 19	24	28	Mehefin 7	23	29
1770	4	14	C	3	Jonawr 31	Chwef. 17	4	9	13	Mai 23	25	28
1771	5	25	B	2	23	9	Mawrth 27	1	5	15	26	27
1772	6	6	A G	5	Chwef. 12	29	Ebrill 15	20	24	Mehefin 3	24	Rhag. 2
1773	7	17	F	2	Jonawr 27	13	Mawrth 31	5	9	Mai 19	26	1
1774	8	28	E	5	Chwef. 16	Mawrth. 5	Ebrill 20	25	29	Mehefin 8	23	Tach. 30
1775	9	9	D	4	8	Chwef. 25	12	17	21	Mai 31	24	29
1776	10	20	C B	3	Jonawr 31	17	3	8	12	22	25	27
1777	11	1	A	5	Chwef. 12	Mawrth 1	16	21	25	Mehefin 4	24	Rhag. 3
1778	12	12	G	4	4	Chwef. 21	8	13	17	Mai 27	25	2
1779	13	23	F	2	Jonawr 27	13	Mawrth 31	5	9	19	26	1
1780	14	4	E D	5	Chwef. 16	Mawrth 4	Ebrill 19	24	28	Mehefin 7	23	Tach. 29
1781	15	15	C	3	Jonawr 31	Chwef. 17	4	9	13	Mai 23	25	28
1782	16	26	B	2	23	9	Mawrth 27	1	5	15	26	27
1783	17	7	A	5	Chwef. 12	29	Ebrill 16	21	25	Mehefin 4	24	Rhag. 3
1784	18	18	G F	3	Jonawr 28	14	Mawrth 31	5	9	Mai 19	26	1
1785	19	29	E	5	Chwef. 16	Mawrth 5	Ebrill 20	25	29	Mehefin 8	23	Tach. 30

Noda, Fod cyfrifolaeth Blwyddyn ein Hargfwdd, yn Eglwys *Loegr*, yn dechreu 'r Pummed dydd ar hugain o Fawrth.

¶ I gael y PASG dros fyth.

Y Prif.	A	B	C	D	E	F	G
I	Ebrill 9	10	11	12	6	7	8
II	Mawrth 26	27	28	29	30	31	Ebrill 1
III	Ebrill 16	17	18	19	20	14	15
IV	Ebrill 9	3	4	5	6	7	8
V	Mawrth 26	27	28	29	23	24	25
VI	Ebrill 16	17	11	12	13	14	15
VII	Ebrill 2	3	4	5	6	Mawrth 31	Ebrill 1
VIII	Ebrill 23	24	25	19	20	21	22
IX	Ebrill 9	10	11	12	13	14	8
X	Ebrill 2	3	Mawrth 28	29	30	31	Ebrill 1
XI	Ebrill 16	17	18	19	20	21	22
XII	Ebrill 9	10	11	5	6	7	8
XIII	Mawrth 26	27	28	29	30	31	25
XIV	Ebrill 16	17	18	19	13	14	15
XV	Ebrill 2	3	4	5	6	7	8
XVI	Mawrth 26	27	28	22	23	24	25
XVII	Ebrill 16	10	11	12	13	14	15
XVIII	Ebrill 2	3	4	5	Mawrth 30	31	Ebrill 1
XIX	Ebrill 23	24	18	19	20	21	22

¶ PAN gaffoch chwi Lythyren y Sul yn y llin uchaf, eynheliwch eich llygad tu a'r isder oddi wrth yr unrhyw, hyd oni ddelôch yn gymmwys gyferbyn a'r Prif; ac yno mae 'n dangos pa Fis, a pha ddydd o'r Mis y digwydd y Pasg y flwyddyn honno. Ond nodwch, fod enw'r Mis gwedi ei ofod ar y Llaw aswy, neu yn union gŷd-gyfer a'r ffigur, ac ni chanlyn, fel mewn Tablau eraill, trwy ddilygynniad, ond trwy gŷd-gyferbyniad.

TABLAU a THREFNAU y Gŵyliau Symmudol a Diſsymmudol; Ynghŷd â'r Dyddiau Ympryd ac Arbedrwydd, trwy'r holl flwyddyn.

TREFN i wybod pa brŷd y mae'r Gŵyliau Symmudol yn dechreu.

Dydd Paſg (ar ba un y mae 'r lleill yn ſefyll) yw bob amſer y *Sul* cyntaf wedi'r *Ilawn Lleuad* a ſyrthio neſaf ar ôl yr Unfed dŷdd ar hugain o *Fawrth*. Ac o's digwydd y *Llawn Lleuad* ar *Ddydd Sul*, *Dydd Paſg* yw y *Sul* ar ôl.

Sul yr *Adfent* yw bob amſer y Sul neſaf at Wyl S. *Andreas*, pa un bynnag ai cyn ai gwedi.

Sul *Septuageſima* ſydd Nâw wythnos
Sul *Secſageſima* ſydd Wyth wythnos
Sul *Cwincwageſima* ſydd Saith wythnos } cyn y *Paſg*.
Sul *Cwadrageſima* ſydd Chwêch wythnos
Sul y *Gweddïau* ſydd Bùm wythnos
Dŷdd y *Dyrchafael* ſydd Ddeugain nŷdd } gwedi'r *Paſg*.
Y *Sul-gwyn* ſydd Iaith wythnos
Sul y *Drindod* ſydd Wyth wythnos

Tabl o'r holl Wyliau y ſydd i'w cadw yn Eglwys Loegr trwy'r flwyddyn.

YR holl Suliau yn y flwyddyn.

Dŷdd Gŵyl:
- Enwaediad ein Harglwydd *Jeſu Criſt*.
- Yr Yſtwyll.
- Troad S. *Paul*.
- Puredigaeth y Fendigedig Forŵyn.
- S. *Matthias* yr Apoſtol.
- Cennadwri y Fendigedig Forŵyn.
- S. *Marc* yr Efengylwr.
- S. *Phylip* a S. *Jago* yr Apoſtolion.
- Dyrchafael ein Harglwydd *Jeſu Criſt*.
- S. *Barnabas*.
- Genedigaeth S. *Joan Fedyddiwr*.
- S. *Pedr* yr Apoſtol.

Dŷdd Gŵyl:
- S. *Jago* yr Apoſtol.
- S. *Bartholomeus* yr Apoſtol.
- S. *Mathew* yr Apoſtol.
- S. *Michangel* a'r holl Angylion.
- S. *Luc* yr Efengylwyr.
- S. *Simon* a S. *Jud* yr Apoſtolion.
- Yr Holl Saint.
- S. *Andreas* yr Apoſtol.
- S. *Tomas* yr Apoſtol.
- Nadolig ein Harglwydd.
- S. *Stephan* y Merthyr.
- St. *Joan* yr Efengylwr.
- y Sanctteiddlan Wirioniaid.

Dŷdd-Llûn a Dŷdd-Mawrth *Paſg*. Dŷdd-Llûn a Dŷdd-Mawrth *Sul-gwyn*.

Tabl o'r Nôs-Wyliau, a'r Dyddiau-Ympryd ac Arbedrwydd, i'w cadw yn y flwyddyn.

Y nôs-ŵyl cyn:
- NAdolig ein Harglwydd.
- Puredigaeth y Fendigedig *Fair* Forŵyn.
- Cennadwri y Fendigedig *Fair* Forŵyn.
- Dŷdd *Paſg*.
- Dydd y *Dyrchafael*.
- Y Sulgwyn.
- S. *Matthias*.

Y nôs-ŵyl cyn:
- S. *Joan Fedyddiwr*.
- S. *Pedr*.
- S. *Jago*.
- S. *Bartholomeus*.
- S. *Mathew*.
- S. *Simon* a S. *Jud*.
- S. *Andreas*.
- S. *Tomas*.
- Yr Holl Saint.

Noda, *O's ſyrth rhwy un o'r dyddiau gŵyliau hyn ar ddŷdd llun, yna 'r Nos-ŵyl neu 'r Ympryd a gedwir ar ddŷdd Sadwrn, ac nid ar y Sul neſaf o'i flaen.*

Dyddiau Ympryd, neu Arbedrwydd.

I. YDeugein-nŷdd Grawys.

II. Dyddiau y Cŷd-goriau ar y pedwar amſer, y rhai ŷnt Ddŷdd Merchur, Dŷdd Gwener, a Dŷdd Sadwrn ar ôl y Sul cyntaf o'r Grawys, Gŵyl y Sulgwyn, y 14 o *Fedi*, a'r 13 o *Ragfyr*.

III. Tridiau y Gweddïau, y rhai yw Dŷdd llun, Dŷdd mawrth, a Dŷdd merchur o flaen Sanctaidd Ddŷdd Jou, neu Ddyrchafael ein Harglwydd.

IV. Pob Dŷdd gwener yn y flwyddyn, ond Dŷdd Nadolig Criſt.

Rhyw Ddyddiau arbennig, i'r rhai y trefnwyd Gweinidogaeth neillduol.

I. YPummed Dŷdd o *Dachwedd*, ſef Dŷdd Cŷd-Frâd y Papiſtiaid.

II. Y degfed Dŷdd ar hugain o *Jonawr*, ſef Dŷdd Merthyrolaeth Brenhin *Siarles* I.

III. Y Nawfed Dŷdd ar hugain o *Fai*, ſef Dŷdd Genedigaeth a Dychweliad y Brenhin a'r Brenhinol Deulu, ac Adferiad y Llywodraeth wedi hîr flynyddoedd o Rwyſtr.

IV. Yr unfed Dŷdd ar ddeg o Fehefin, ſef y Dŷdd y dechreuodd dedwŷddol Deyrnaſiad ei Fawrhydi.

Y DREFN am

Foreuol a Phrydnhawnol

WEDDI,

I'w dywedyd beunydd a'i harferu trwy'r flwyddyn.

Y Foreuol a'r Brydnhawnol Weddi a arferir yn y mann cynefinol o'r Eglwys, Capel, neu Gangell; Oddi eithr i Ordinari 'r lle farnu yn amgenach. A'r Canghellau a gânt ſefyll yn y môdd yr oeddynt o'r blaen.

Ac yma noder, fod yn rhaid cadw a chynnal Addurniadau 'r Eglwys a'i Gweinidogion ar bob amſer o'u Gweinidogaeth, yn un wêdd ag yr oeddynt yn Eglwys *LOEGR* trwy Awdurdod y Parliament, yn yr ail flwyddyn o deyrnaſiad Brenhin *Edward* y Chweched.

Y DREFN am

WEDDI FOREUOL,

Bob dŷdd trwy'r Flwyddyn.

¶ *A'r ddechreu 'r Weddi Foreuol, darllened y Gweinidog â llêf uchel, yrw un neu chwaneg o'r Synhwyrau hyn o'r Yſgrythur Lân, y rhai ſydd yn canlyn. Ac yno dyweded yr hyn ſydd yſgrifennedig ar ôl yr unrhyw Synhwyrau.*

PAN ddychwelo 'r annuwiol oddi wrth ei ddrygioni yr hwn a wnaeth, a gwneuthur barn a chyfiawnder, hwnnw a geidw yn fyw ei enaid. *Ezec.* 18. 27.

Yr ŵyf yn cydnabod fy nghamweddau, a'm pechod ſydd yn waſtad ger fy mron. *Sal.* 51. 3.

Cuddia dy ŵyneb oddi wrth fy mhechodau, a dilêa fy holl anwireddau. *Sal.* 51. 9.

Aberthau Duw ydynt yſbryd drylliedig: càlon ddrylliog, gyſtuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi. *Sal.* 51. 17.

Rhwygwch eich càlon ac nid eich dillad; ac ymchwelwch at yr Arglwydd eich Duw: O herwŷdd graſlawn a thrugarog yw efe, hwyrfrydig i ddigoſaint, a mawr ei drugaredd, ac edifeiriol am ddrŵg. *Joel* 2. 13.

Gan yr Arglwydd ein Duw y mae trugareddau a maddeuant, er gwrthryfelu o honom i'w erbyn; Ni wrandawſom chwaith ar lais yr Arglwydd ein Duw, i rodio yn ei gyfreithiau ef, y rhai a roddodd efe o'n blaen ni. *Dan.* 9. 9, 10.

Coſba fi, Arglwydd, etto mewn barn, nid yn dy lîd, rhag it' fy ngwneuthur yn ddiddym. *Jer.* 10. 24. *Sal.* 6. 1.

Edifarhêwch, canys neſaodd teyrnas nefoedd. *Mat.* 3. 2.

Mi a godaf, ac a âf at fy nhâd, ac a ddywedaf wrtho, Fy Nhâd, pechais yn erbyn y Nêf ac o'th flaen dithau; ac mwyach nid ydwyf deilwng i'm galw yn Fâb i ti. *Luc* 15. 18, 19.

Arglwydd, na ddôs i farn â'th wâs, o herwŷdd ni chyfiawnhëir neb byw yn dy olwg di. *Sal.* 143. 2.

O's dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom. O's cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac i'n glanhao oddi wrth bob anghyfiawnder. 1 *Joan* 1. 8, 9.

FY anwyl gariadus frodyr, y mae 'r Yſgrythur Lân yn ein cynhyrfu mewn amrafael fannau, i gydnabod, ac i gyffeſu ein haml bechodau a'n hanwiredd, ac na wnelem na'u cuddio, na'u celu yngŵydd yr Hollalluog Dduw ein Tâd nefol, eithr eu cyffeſu â goſtyngedig, iſel, edifarus, ac uſudd gàlon, er mwyn caffael o honom faddeuant am danynt, trwy ei anfeidrol ddaioni a'i drugaredd ef. A chyd dylem ni bob amſer addef yn oſtyngedig ein pechodau ger bron Duw; Etto ni a ddylem yn bennaf wneuthur hynny pan ymgynhullom i gŷd-gyfarfod, i dalu dïolch am yr aml ddaioni a dderbyniaſom ar ei lâw ef, i ddadgan ei haeddediccaf foliant, i wrando ei ſanctteiddiaf air ef, ac i erchi y cyfryw bethau ag a fyddo cymmwys ac angenrheidiol, yn gyſtal ar lês y corph a'r enaid. O herwŷdd pa ham myfi a erfyniaf ac a attolygaf i chwi, cynnifer ag y ſydd yma 'n breſennol, gŷddynnu â myfi â chàlon bur, ac â lleferydd oſtyngedig, hyd yngorſeddfa 'r nefol râd, gan ddywedyd ar fy ôl i.

¶ *Cyfes gyffredin i'w dywedyd gan yr holl Gynnulleidfa ar ôl y Gweinidog, gan oſtwng ar eu gliniau oll.*

HOll-alluog Dduw a thrugaroccaf Dâd; Nyni a aethom ar gyfeiliorn allan o'th ffyrdd di, fel defaid ar gyfrgoll. Nyni a ddilynaſom ormod ar amcanion a chwantau ein calonnau ein hunain. Nyni a wnaethom yn erbyn dy ſanctteiddiol gyfreithiau. Nyni a adawſom heb wneuthur y pethau a ddyleſym eu gwneuthur; ac a wnaethom y pethau ni ddyleſym eu gwneuthur. Ac nid oes iechyd ynom. Eithr tydi, O Arglwydd, cymmer drugaredd arnom ddrŵg weithredwŷr truain. Arbed di hwynt-hwy, O Dduw, y rhai ſy'n cyffeſu eu beiau. Cyweiria di 'r ſawl ſydd yn edifarus; Yn ôl dy addewidion a hyſbyſwyd i ddŷn yng Nghriſt Jeſu ein Harglwydd. A chaniatâ, drugaroccaf Dâd, er ei fwyn ef, fyw o honom rhag llaw mewn duwiol, union, a ſobr fuchedd, i ogoniant dy ſanctteiddiol Enw. *Amen.*

¶ *Y Gollyngdod neu Faddeuant pechodau, i'w dadgan gan yr Offeiriad yn unig, yn ei ſefyll; a'r bobl etto ar eu gliniau.*

YR Holl-alluog Dduw, Tâd ein Harglwydd Jeſu Griſt, yr hwn ni ddeiſyt farwolaeth pechadur, eithr yn hytrach ymchwelyd o hono oddi wrth ei anwiredd a byw: ac a roddes allu a gorchymmyn i'w weinidogion, i ddadgan ac i ſynegi i'w bobl ſydd yn edifarus, ollyngdod a maddeuant am eu pechodau: Efe a bardyna ac a ollwng y rhai oll ſy wîr edifeiriol, ac yn ddiffuant yn credu i'w ſanctteiddiol Efengyl ef. O herwŷdd pa ham attolygwn ni iddo ganiatâu i ni wir edifeirwch, a'i Yſbryd glân, fel y byddo boddlon ganddo 'r pethau yr ydym y prŷd hyn yn eu gwneuthur, a bod y rhan arall o'n bywyd rhag llaw yn bur ac yn ſanctteiddiol, megis y delom o'r diwedd i'w lawenydd tragywyddol, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd.

¶ *Attebed y bobl yma, ac ar ddiwedd pob un o'r Gweddïau eraill,* Amen.

¶ *Yna y goſtwng y Gweinidog ar ei liniau, ac a ddywed Weddi 'r Arglwydd â llâf uchel, a'r bobl beſyd ar eu gliniau yn ei dywedyd gyd ag eſ, yn y fan yma, ac ym mhâ le bynnag arall yr arferir bi yng Ngwaſanaeth Duw.*

EIn Tâd yr hwn ŵyt yn y neſoedd, Sancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y neſoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drŵg: Canys eiddot ti yw 'r Deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Yna y dywâid eſe yn yr un mâdd.*

Arglwydd, agor ein gwefuſau.
Atteb. A'n genau a fynega dy foliant.
Ofeiriad. Duw bryſia i'n cynnorthwyo.
Atteb. Arglwydd, pryſura i'n cymmorth.

¶ *Yna, a phawb yn eu ſefyll, yr Ofeiriad a ddywaid,*

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd glân;
Atteb. Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*
Ofeiriad. Molwch yr Arglwydd.
Atteb. Moliannus ſyddo Enw'r Arglwydd.

¶ *Yna y dywedir neu y cenir y Salm hon ſy'n canlyn: Oddieithr ar Ddŷdd Paſg, ar yr hwn y mae Anthem arall gwedi ei happwyntio; ac ar y namyn un ugeinfed dŷdd o bob mis, ni ddarllenir mo honi yn y fan hon, ond yn arferol gylch y Salmau.*

Venite, exultemus Domino. Sal. 95.

DEuwch, canwn i'r Arglwydd: ymlawenhâwn yn nerth ein hiechyd.
Deuwn ger ei fron ef â diolch: canwn yn llafar iddo â Salmau.
Canys yr Arglwydd ſydd Dduw mawr: a Brenhin mawr ar yr holl dduwiau.
O blegid yn ei lâw ef y mae gorddyfnderau 'r ddaear: ac eſe biâu uchelder y mynyddoedd.
Y môr ſydd eiddo, canys eſe a'i gwnaeth: a'i ddwylaw a luniaſant y ſychdir.
Deuwch, addolwn, a fyrthiwn i lawr: a goſtyngwn ger bron yr Arglwydd ein gwneuthurwr.
Canys eſe yw ein Duw ni: a ninnau ŷm bobl ei borfa ef, a defaid ei ddwylaw.
Heddyw o gwrandewch ar ei leferydd, na chaledwch eich calonnau: megis yn yr ymryſonfa, fel yn nŷdd profedigaeth yn yr anialwch.
Lle y temtiodd eich tadau fi: y profaſant fi, a gwelſant fy ngweithredoedd.
Deugain mlynedd yr ymryſonais â'r genhedlaeth hon, a dywedais: Pobl gyfeiliornus yn eu calonnau ydynt hwy, canys nid adnabuant fy ffyrdd.
Wrth y rhai y tyngais yn fy ſlid: na ddelent i'm gorphwyſfa.
Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd glân;
Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſocdd. *Amen.*

¶ *Yn ôl hyn y dilyn y Salmau mewn trefn, megis yr appwyntiwyd. Ac ar ddiwedd pob Salm trwy 'r ſuyddyn, â'r un mâdd ar ddiwedd y* Benedicite, Benedictus, Magnificat, *a* Nunc dimittis, *y dywedir*,

Gogoniant, i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd glân;
Atteb. Megis yr oedd yn yn dechreu, y mae y rawr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Yna y darllenir yn llawn llythyr, â lleferydd uchel y Llith kyntaf, wedi ei ciymmeryd allan o'r hên Deſtament; megis ag yr appwyntiwyd wrth y Calender, oddieithr bod llithiau priod goſodedig i'r dŷdd hwnnw. Yr gweinidog a ddarlleno ſaſed ac ymchweled, megis y galler ei glywed yn oreu gan bawb oll a'r a ſo yn breſennol. Ac yn ôl hynny y dywedir neu y cenir yn Gymraeg yr Hymn a elwir* Te Deum laudamus, *beunydd trwy 'r holl ſuyddyn.*

¶ *O flaen pob llith y Gweinidog a ddywaid,* Yma y mae yn dechreu y cyfryw Bennod, neu adnod o'r cyfryw Bennod o'r Llyfr a'r llyfr. *Ac ar ôl pob llith,* Yma y terfyn y Llith Gyntaf, neu 'r Ail.

Te Deum laudamus.

TI Dduw a folwn: ti a gydnabyddwn yn Arglwydd.
Yr holl ddaear a'th fawl di: y Tâd tragywyddol.
Arnat ti y llefa 'r holl Angylion: y neſoedd a'r holl nerthoedd o'u mewn.
Arnat ti y llefa Cerubin, a Seraphin: â lleferydd ddibaid.
Sanct, Sanct, Sanct: Arglwydd Dduw Saboth.
Neſoedd a Daear ſydd yn llawn: o'th ogoniant.
Gogoneddus gôr yr Apoſtolion: a'th fawl di.
Moliannus nifer y Prophwydi: a'th fawl di.
Ardderchog lu y Merthyri: a'th fawl di.
Yr Eglwys lân trwy 'r holl fŷd: a'th addef di;
Y Tâd: o anfeidrol fawredd;
Dy anrhydeddus, wîr: ac unig Fâb;
Hefyd yr Yſbryd glân: y diddanwr.
Ti, Criſt: yw Brenhin y gogoniant.
Ti yw tragywyddol Fâb: y Tâd.
Pan gymmeraiſt arnat waredu dŷn: ni ddïyſtyraiſt fru y Wŷryf.
Pan orchfygaiſt holl nerth angau: yr agoraiſt deyrnas nêf i bawb a gredant.
Ti ſydd yn eiſtedd ar ddeheulaw Dduw: yngogoniant y Tâd.
Yr ŷm ni yn credu mai tydi a ddâw: yn farnwr arnom.
Gan hynny yr attolygwn i ti gynnorthwyo dy weiſion: y rhai a brynaiſt â'th werthfawr waed.
Pâr iddynt gael eu cyfrif gyd â'th Saint: yn y gogoniant tragywyddol.
Arglwydd cadw dy bobl: a bendithia dy etifeddiaeth.
Llywia hwy: a dyrcha hwy yn dragywydd.
Beunydd ac fyth: y clodforwn dydi.
Ac anrhydeddwn dy Enw: byth ac yn oes oeſoedd.
Teilynga, Arglwydd: ein cadw y dŷdd hwn yn ddibechod.
Arglwydd, trugarhâ wrthym: trugarhâ wrthym.
Arglwydd poed dy drugaredd a ddêl arnom: megis yr ŷm yn ymddiried ynot.
Arglwydd ynot yr ymddiriedais: na'm gwaradwydder yn dragywydd.

¶ *Neu 'r caniad hwn,* Benedicite, omnia opera Domini.

CHwychwi holl Weithredoedd yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch, a mawrhêwch ef yn dragywydd.
Chwychwi Angylion yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.
Chwychwi Neſoedd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.
Chwychwi 'r Dyfroedd ſydd uwch ben y ffurfafen, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.
Chwychwi holl Nerthoedd yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.
Chwychwi Haul a Lleuad, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.
Chwychwi Sêr y neſoedd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi

Chwychwi Gawodau a gwlith, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Wyntoedd Duw, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Dân a Gwrês, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Auaf a Hâf, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Wlithoedd a Rhewoedd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Rêw ac Oerfel, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Ja ac Eira, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Nosau a Dyddiau, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Oleuni a Thywyllwch, bendithiwch yr Arglwydd: molwch, a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Fêllt a Chymmylau, bendithiwch yr Arglwydd: molwch, a mawrhewch ef yn dragywydd.

Bendithied y Ddaear yr Arglwydd: moled a mawrhêed ef yn dragywydd.

Chwychwi Fynyddoedd a Brynniau, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi holl wŷrddion Bethau ar y ddaear, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Ffynhonnau, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Foroedd, a Llifeiriaint, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Forfilod, ac oll ag ſydd yn ymſymmud yn y dyfroedd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi holl Adar yr awyr, bendithiwch yr Arglwydd: molwch, a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi holl Anifeiliaid ac Yſgrubliaid, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Blant dynion, bendithiwch yr Arglwydd: molwch, a mawrhewch ef yn dragywydd.

Bendithied Iſrael yr Arglwydd: moled a mawrhêed ef yn dragywydd.

Chwychwi Offeiriaid yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Waſanaethwŷr yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch, a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Yſbrydion, ac Eneidiau 'r cyfiawn, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi y rhai ſanctaidd a goſtyngedig o gâlon, bendithiwch yr Arglwydd: molwch, a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi Ananïas, Azarïas, a Miſaël, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd glân;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Yna y darllenir yn yr un môdd yr Ail Litb, gwedi ei chymmeryd allan o'r Teſtament Newŷdd. Ac wedi hynny yr Hymn ſy'n canlyn: oddieithr pan ddigŵyddo i'w darllen ym mhennod y Dŷdd, neu yn yr Efengyl ar ddŷdd S.* Joan Fedyddiwr.

Benedictus. Luc 1. 68.

BEndigedig fyddo Arglwydd Dduw Iſrael: canys efe a ymwelodd, ac a brynodd ei bobl.

Ac a ddyrchafodd iechydwriaeth nerthol i ni: yn nhŷ Ddafydd ei waſanaethwr.

Megis y dywedodd trwy enau ei ſanctaidd brophwydi: y rhai oedd o ddechreuad y byd.

Yr anfonai efe i ni ymwared rhag ein gelynion: ac oddi wrth ddwylaw pawb o'n digaſogion.

Y gwnâi efe drugaredd â'n tadau: ac y cofiai ei ſanctaidd gyfammod:

A'r llŵ yr hwn a dyngodd efe wrth ein Tâd Abraham: ſef bod iddo ganiatâu i ni, gwedi ein ymwared oddi wrth ddwylaw ein gelynion, al'u ei waſanaethu ef yn ddïofn.

Mewn ſancteiddrwydd a chyfiawnder ger ei fron ef: holl ddyddiau ein bywyd.

A thithau fâb a elwir yn brophwyd i'r Goruchaf: canys ti a ai o flaen ŵyneb yr Arglwydd, i barotôi ei ffyrdd ef,

Ac i roddi gŵybodaeth iechydwriaeth i'w bobl ef; gan faddeu eu pechodau.

O herwydd tiriondeb trugaredd ein Duw: trwy yr hon yr ymwelodd â ni godiad haul o'r uchelder:

I roddi llewyrch i'r rhai ſy' yn eiſtedd mewn tywyllwch a chyſgod angau: ac i gyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd.

Gogoniant i'r Tâb, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd glân;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Neu y Salm hon.*

Jubilate Deo. Salm 100.

CEnwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaear: gwaſanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd, deuwch yn ei wydd ef mewn garfoledd.

Gŵybyddwch mai yr Arglwydd ſydd Dduw: efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain, ei bobl ef ydym, a defaid ei borfa.

Ewch i mewn i'w byrth ef â diolch, ac i'w lyſoedd â moliant gennych: diolchwch iddo, a chlodforwch ei Enw.

Canys daionus yw yr Arglwydd, a'i drugaredd ſydd yn dragywydd: a'i wirionedd a bery o genhedlaeth i genhedlaeth byth.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd glân;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Yna y cenir, neu y dywedir Credo 'r Apoſtlion, gan y Gweinidog a'r bobl yn eu ſefyll. Oddieithr y dyddiau hynny yn unig ar y rhai yr appwyntiwyd Credo S.* Athanaſius *i'w ddarllen.*

CRedaf yn Nuw Dâd, Holl-gyfoethog, Creawdr nêf a daear:

Ac yn Jeſu Griſt ei un Mâb ef, ein Harglwydd ni: yr hwn a gaed trwy 'r Yſbryd glân, a aned o Fair forŵyn: a ddioddefodd dan Bontius Pilatus, a groes-hoeliwyd, a fu farw ac a gladdwyd, a ddiſgynnodd i uffern; y trydydd dŷdd y cyfododd o feirw: a eſgynnodd i'r nefoedd, ac y mae yn eiſtedd ar ddeheulaw Dduw Dâd holl-gyfoethog; Oddi yno y daw i farnu byw a meirw.

Credaf yn yr Yſbryd Glân; yr Eglwys Lân Gatholig: Cymmun y Saint; Maddeuant pechodau; Adgyfodiad y cnawd, a'r bywyd tragywyddol. *Amen.*

¶ *Ac yn ôl hynny, y Gweddïau hyn ſy'n canlyn, a phawb yn goſtwng yn ddefoſiynol ar eu gliniau, y Gweinidog yn gyntaf a lefara â llêf uchel,*

Yr Arglwydd a ſo gyd â chwi.

Atteb. A chyd â'th Yſbryd dithau.

Gweinidog. ¶ Gweddïwn.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Criſt, trugarhâ wrthym.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

¶ *Yna 'r Gweinidog, yr Ygolheigion, a'r Bobl, a ddywedant Weddi 'r Arglwydd â lleferydd uchel.*

EIn Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, Sanctaiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd.

Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth: Eithr gwared ni rhag drŵg. *Amen.*

¶ *Yna y Gweinidog yn ei ſefyll a ddywaid.*

Arglwydd, dangos dy drugaredd arnom.

Atteb. A chaniatâ i ni dy iechydwriaeth.

Offeiriad. Arglwydd, cadw y Brenhin.

Atteb. A gwrando ni yn drugarog pan alwom arnat.

Offeiriad. Gwiſg dy Weinidogion ag iawnder.

Atteb. A gwnâ dy ddewiſol bobl yn llawen.

Offeiriad. Arglwydd, cadw dy bobl.

Atteb. A bendithia dy etifeddiaeth.

Offeiriad. Arglwydd, dyro dangnefedd yn ein dyddiau.

Atteb. Gan nad oes neb arall a ymladd droſom, ond tydi Dduw yn unig.

Offeiriad. Duw, glanhâ 'n calonnau ynom.

Atteb. Ac na chymmer dy Yſbryd Glân oddi wrthym.

¶ *Yna y canlyn tri Cholect; Y cyntaf o'r Dŷdd, yr hwn a fydd yr un ag a appwyntir ar y Cymmun; yr ail, am Dangnefedd; Y trydydd am Râs i fyw yn dda. A'r ddau Golect diweddaf ni chyfnewidir byth; ond eu dywedyd beunydd ar y Foreuol Weddi trwy 'r holl ſwyddyn, fel y canlyn; a phawb ar eu gliniau.*

¶ *Yr ail Golect am Dangnefedd.*

DUw, yr hwn ŵyt Awdur tangnefedd, a charwr cyttundeb, yr hwn o'th iawn adnabod y mae 'n buchedd dragywydd yn ſefyll arno, a'th waſanaeth yw gwîr fraint: Amddiffyn nyni dy oſtyngedig weiſion, rhag holl ruthrau ein gelynion; fel trwy gwbl ymddiried yn dy amddiffyn di, nac ofnom allu neb gwrthwynebwŷr, trwy nerth Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Y trydydd Golect am gael Râs.*

OArglwydd nefol Dâd, Holl-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn a'n cedwaiſt yn ddiangol hyd ddechreu 'r dŷdd heddyw; amddiffyn nyni ynddo â'th gadarn allu, a chaniatâ na ſyrthiom y dŷdd hwn mewn un pechod, ac nad elom mewn neb rhyw berygl, eithr bod ein holl weithredoedd wedi eu trefnu a'u llywiaw wrth dy lywodraeth, i wneuthur yn waſtad y peth ſydd gyſiawn yn dy olwg di, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Mewn Corau, a Mannau lle 'r arferont ganu, yma y canlyn yr Anthem.*

¶ *Yna y pûm Gweddi hyn ſy'n canlyn a ddarllenir yma, oddieithr pan ddarllenir y Litani; Ac yna y ddŵy olaf yn unig a ddarllenir fel y maent gwedi eu cyſiu yno.*

¶ *Gweddi dros Fawrhydi 'r Brenhin.*

OArglwydd, ein Tâd nefol, goruchel a galluog, Brenhin y brenhinoedd, Arglwydd yr arglwyddi, unig Lywiawdwr y tywyſogion, yr hwn ŵyt o'th eiſteddle yn edrych ar holl drigolion y ddaear; Ni a attolygwn ac a erfyniwn i ti, edrych o honot yn ddardodus ar ein graſuſaf ddaionus Arglwydd Frenhin *SIOR*, ac felly ei gyflawni ef o râs dy ſanctaidd Yſbryd, fel y bo iddo yn waſdadol bwyſo at dy feddwl, a rhodio yn dy ffordd; Cynnyſgaedda ef yn helaeth â doniau nefol, caniatâ iddo mewn llwyddiant ac iechyd hîr hoedl, nertha ef môdd y gallo oreſgyn a gorchfygu ei holl elynion, ac o'r diwedd yn ôl y fuchedd hon, bod iddo fwynhâu llawenydd a dedwŷddyd tragywyddol, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Gweddi dros y Brenbinol Deulu.*

HOll-alluog Dduw, ffynnon pob daioni, yr ydym ni yn oſtyngedig yn attolwg i ti ſendithio Brenhinol Uchelder *FFREDERIG* Tywyſog *Cymru*, Tywyſoges *Cymru*, y Duwc, y Tywyſogeſau, Eppil Tywyſog a Thywyſoges *Cymru*, a'r holl Frenhinol Deulu: Cynnyſgaedda hwy â'th Yſbryd glân, cyſoethoga hwy â'th nefol râs, llwydda hwy â phob dedwŷddwch, a dŵg hwy i'th dragywyddol deyrnas, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Gweddi dros yr Eglwyſwŷr, a'r Bobl.*

HOll-gyfoethog a thragywyddol Dduw, yr hwn ŵyt yn unig yn gwneuthur rhyfeddodau, danfon i lawr ar ein Heſgobion a'n Curadiaid, a'r holl gynnulleidfaon a orchymynnwyd dan eu gofal hwynt, iachol Yſbryd dy râs, ac fel y gallont wîr ryngu bôdd i ti, tywallt arnynt ddyfal wlîth dy ſendith: Caniatâ hyn, Arglwydd, er anrhydedd ein Dadleuwr a'n Cyfryngwr Jeſu Griſt. *Amen.*

¶ *Gweddi o waith S.* Cryſoſtom.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a roddaiſt i ni râs y prŷd hyn, trwy gyfundeb a chŷd-gyfarch i weddio arnat, ac ŵyt yn addaw pan ymgynhullo dau neu dri yn dy Enw, bod i ti ganiatâu eu gofynnion: cyflawna yr awr hon, O Arglwydd, ddymuniad a deiſyfiad dy weiſion, fel y bo mwyaf buddiol iddynt, gan ganiatâu i ni yn y bŷd hwn ŵybodaeth am dy wirionedd, ac yn y bŷd a ddaw, bywyd tragywyddol. *Amen.*

2 *Cor.* 13. 13.

GRâs ein Harglwydd Jeſu Griſt, a chariad Duw, a chymdeithas yr Yſbryd Glân, a ſyddo gyd â ni oll byth bythoedd. *Amen.*

¶ *Yma y diwedd Trefn y Foreuol Weddi trwy 'r Flwyddyn.*

Y DREFN

Y DREFN am

WEDDI BRYDNHAWNOL,

Bob dŷdd trwy'r Flwyddyn.

¶ *A'r ddechreu 'r Weddi Brydnhawnol, darllened y Gweinidog â llêf uchel, ryw un neu chwaneg o'r Synbwyrau hyn o'r Ysgrythur Lân, y rhai sydd yn canlyn. Ac yno dyweded yr hyn sydd ysgrifennedig ar ôl yr unrhyw Synbwyrau.*

PAN ddychwelo 'r annuwiol oddi wrth ei ddrygioni yr hwn a wnaeth, a gwneuthur barn a chyfiawnder, hwnnw a geidw yn fyw ei enaid. *Ezec.* 18. 27.

Yr ŵyf yn cydnabod fy nghamweddau, a'm pechod sydd yn wastad ger fy mron, *Sal.* 51. 3.

Cuddia dy ŵyneb oddi wrth fy mhechodau, a dilea fy holl anwireddau. *Sal.* 51. 9.

Aberthau Duw ydynt ysbryd drylliedig: calon ddrylliog, gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi. *Sal.* 51. 17.

Rhwygwch eich calon ac nid eich dillad; ac ymchwelwch at yr Arglwydd eich Duw: o herwŷdd grasawn a thrugarog yw efe, hwyrfrydig i ddigofaint, a mawr ei drugaredd, ac edifeiriol am ddrŵg. *Joel* 2. 13.

Can yr Arglwydd ein Duw y mae trugareddau a maddeuant, er gwrthryfelu o honom i'w erbyn; Ni wrandawsom chwaith ar lais yr Arglwydd ein Duw, i rodio yn ei gyfreithiau ef, y rhai a roddodd efe o'n blaen ni. *Dan.* 9. 9, 10.

Cosba fi, Arglwydd, etto mewn barn, nid yn dy lid, rhag it' fy ngwneuthur yn ddiddym. *Jer.* 10. 24. *Sal.* 6. 1.

Edifarhêwch, canys nesaodd teyrnas nefoedd. *Mat.* 3. 2.

Mi a godaf, ac a âf at fy nhâd, ac a ddywedaf wrtho, Fy Nhâd, pechais yn erbyn y Nêf ac o'th flaen dithau; ac mwyach nid ydwyf deilwng i'm galw yn Fâb i ti. *Luc* 15. 18, 19.

Arglwydd, na ddôs i farn â'th wâs, o herwŷd ni chyfiawnhêir neb byw yn dy olwg di. *Sal.* 143. 2.

O's dywedwn, nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom. O's cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac i'n glanhao oddi wrth bob anghyfiawnder. 1 *Joan* 1. 8, 9.

FY anwyl gariadus frodyr, y mae 'r Ysgrythur Lân yn ein cynhyrfu mewn amrafael fannau, i gydnabod, ac i gyffesu ein haml bechodau a'n hanwiredd, ac na wnelem na'u cuddio, na'u celu yngŵydd yr Holl-alluog Dduw ein Tâd nefol, eithr eu cyffesu â gostyngedig, isel, edifarus, ac ufudd galon, er mwyn caffael o honom faddeuant am danynt, trwy ei anfeidrol ddaioni a'i drugaredd ef. A chyd dylem ni bob amser addef yn ostyngedig ein pechodau ger bron Duw; Etto ni a ddylem yn bennaf wneuthur hynny pan ymgynhullom i gŷd-gyfarfod, i dalu diolch am yr aml ddaioni a dderbyniasom ar ei lâw ef, i ddadgan ei haeddediccaf foliant, i wrando ei sancteiddiaf air ef, ac i erchi y cyfryw bethau ag a fyddo cymmŵys ac angenrheidiol, yn gystal ar lês y corph a'r enaid. O herwŷdd pa ham myfi a erfyniaf ac a attolygaf i chwi, cynnifer ag y sydd yma yn bresennol, gyddynnu â myfi â chalon bur, ac â lleferydd ostyngedig, hyd yngorseddfa 'r nefol râd, gan ddywedyd ar fy ôl i.

¶ *Cyffes cyffredin i'w dywedyd gan yr holl Gynnulleidfa ar ôl y Gweinidog, gan ostwng ar eu gliniau oll.*

HOll-alluog Dduw a thrugaroccaf Dâd; Nyni a aethom ar gyfeiliorn allan o'th ffyrdd di, fel defaid ar gyfrgoll. Nyni a ddilynasom ormod ar amcanion a chwantau ein calonnau ein hunain. Nyni a wnaethom yn erbyn dy sancteiddiol gyfreithiau. Nyni a adawsom heb wneuthur y pethau a ddylesym eu gwneuthur; ac a wnaethom y pethau ni ddylesym eu gwneuthur. Ac nid oes iechyd ynom. Eithr tydi, O Arglwydd, cymmer drugaredd arnom ddrŵg weithredwŷr truain. Arbed di hwynt-hwy, O Dduw, y rhai sy'n cyffesu eu beiau. Cyweiria di 'r sawl sydd yn edifarus; Yn ôl dy addewidion a hysbysswyd i ddŷn yng Nghrist Jesu ein Harglwydd. A chaniatâ drugaroccaf Dâd, er ei swyn ef, fyw o honom rhag llaw mewn duwiol, union, a sobr fuchedd, i ogoniant dy sancteiddiol Enw. *Amen.*

¶ *Y gollyngdod neu Faddeuant pechodau, i'w dadgan gan yr Offeiriad yn unig, yn ei sefyll; a'r bobl etto ar eu gliniau.*

YR Holl-alluog Dduw, Tâd ein Harglwydd Jesu Grist, yr hwn ni ddeisyf farwolaeth pechadur, eithr yn hytrach ymchwelyd o hono oddi wrth ei anwiredd a byw: ac a roddes allu a gorchymmyn i'w weinidogion, i ddadgan ac i synegi i'w bobl sydd yn edifarus, ollyngdod a maddeuant am eu pechodau: Efe a bardyna ac a ollwng y rhai oll sy wîr edifeiriol, ac yn ddiffuant yn credu i'w sancteiddiol Efengyl ef. Herwŷdd pa ham attolygwn ni iddo ganiatâu i ni wîr edifeirwch, a'i Ysbryd Glân, fel y byddo bodlon ganddo 'r pethau yr ydym y pryd hyn yn eu gwneuthur, a bod y rhan arall o'n bywyd rhag llaw yn bur ac yn sancteiddiol, megis y delom o'r diwedd i'w lawenydd tragywyddol, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna y gostwng y Gweinidog ar ei liniau, ac a ddywaid Weddi 'r Arglwydd â llef uchel; a'r bobl befyd ar eu gliniau, yn ei dywedyd gyd ag ef.*

EIn Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, Sancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd.

Dyro

Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drŵg: Canys eiddot ti yw 'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. *Amen.*

¶ *Yna y dywaid ese yn yr un mŏdd,*

Arglwydd, agor ein gwefusau.
Atteb. A'n genau a fynega dy foliant.
Offeiriad. Duw bryſia i'n cynnorthwyo.
Atteb. Arglwydd pryſura i'n cymmorth.

¶ *Yna a'r bobl yn eu ſefyll, yr Offeiriad a ddywaid,*

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd glân;
Atteb. Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*
Offeiriad. Molwch yr Arglwydd.
Atteb. Moliannus fyddo Enw 'r Arglwydd.

¶ *Yna y dywedir, neu y cenir y Salmau mewn trefn, megis yr appwyntiwyd hwy. Yna Llith o'r hên Deſtament, megis ag yr appwyntiwyd. Yn ôl hynny y* Magnificat, *neu Gân y ſendigedig* Fair *Forŵyn yn Gymraeg, megis y canlyn.*

Magnificat. S. Luc 1. 46.

FY enaid a fawrhâ yr Arglwydd: a'm hysbryd a lawenychodd yn Nuw fy Jachawdwr.
Canys eſe a edrychodd: ar oſtyngeiddrwydd ei waſanaethyddes.
O hŷn allan: yr holl genhedlaethau a'm geilw yn wynfydedig.
Canys yr hwn ſydd Alluog a wnaeth i mi fawredd: a ſanctaidd yw ei Enw ef.
A'i drugaredd ſydd yn oes oeſoedd: ar y rhai a'i hofnant ef.
Eſe a ddangoſodd nerth â'i fraich: eſe a waſgarodd y rhai beilchion ym mwriadau eu calonnau.
Eſe a dynnodd i lawr y cedyrn o'u heiſteddfâu: ac a ddyrchafodd y rhai iſel radd.
Eſe a lanwodd y rhai newŷnog â phethau da: ac a anfonodd ymaith y rhai goludog mewn eiſiau.
Eſe a gynnorthwyodd ei wâs Iſrael, gan gofio ei drugaredd: fel y dywedodd wrth ein tadau, Abraham a'i hâd yn dragywydd.
Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd glân;
Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Neu ynte y Salm hon; oddieithr ar y namyn un ugeinfed dŷdd o'r mis, pan ddarllenir hi yn nhrefn gyffredin y Salmau.*

Cantate Domino. Salm 98.

CEnwch i'r Arglwydd ganiad newŷdd, canys eſe a wnaeth bethau rhyfedd: â'i ddeheulaw, ac â'i fraich ſanctaidd y parodd iddo ei hun iechydwriaeth.
Hyſbyſodd yr Arglwydd ei iechydwriaeth: a dadguddiodd ei gyfiawnder yngolwg y cenhedloedd.
Cofiodd ei drugaredd a'i wirionedd i dŷ Iſrael: a holl derfynau 'r ddaear a welſant iechydwriaeth ein Duw ni.
Cenwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaear: llefwch, ac ymlawenhêwch, a chenwch.
Cenwch i'r Arglwydd gyd â'r delyn: ſef gyd â'r delyn â llêf canmoliaeth.
Cenwch yn llafar o flaen yr Arglwydd y Brenhin: ar yr udgyrn, â ſain trwmped.
Rhued y môr, ac ſydd ynddo: y bŷd, a'r rhai a drigant o'i fewn.
Cured y llifeiriaint eu dwylaw, a chŷd-ganed y mynyddoedd o flaen yr Arglwydd: canys eſe a ddaeth i farnu 'r ddaear.
Eſe a farna 'r bŷd mewn cyfiawnder: a'r bobloedd mewn uniondeb.
Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd glân;
Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Yna Llith o'r Teſtament newŷdd, megis yr appwyntiwyd: Ac yn ôl hynny* Nunc dimittis, *neu Gân* Simeon, *yn Gymraeg, megis y canlyn.*

Nunc dimittis. S. Luc. 2. 29.

YR awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy wâs mewn tangneſedd: yn ôl dy air.
Canys fy llygaid a welſant: dy iechydwriaeth.
Yr hon a barotoaiſt: ger bron wyneb yr holl bobl;
I fod yn oleuni i oleuo 'r Cenhedloedd: ac yn ogoniant i'th bobl Iſrael.
Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd glân;
Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Neu y Salm hon; oddieithr ar y deuddegfed dŷdd o'r Mis.*

Deus miſereatur. Salm 67.

DUw a drugarhao wrthym, ac a'n bendithio: a thywynned llewyrch ei wyneb arnom, a thrugarhâed wrthym.
Fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaear: a'th iechydwriaeth ym mhlith yr holl genhedloedd.
Molianned y bobl di, O Dduw: molianned yr holl bobl dydi.
Llawenhâed y cenhedloedd, a byddant hyfryd: canys tydi a ferni 'r bobl yn uniawn, ac a lywodraethi 'r Cenhedloedd ar y ddaear.
Molianned y bobl di, O Dduw: molianned yr holl bobl dydi.
Yna 'r ddaear a rŷdd ei ffrŵyth: a Duw, ſef ein Duw ni a'n bendithia.
Duw a'n bendithia: a holl derfynau 'r ddaear a'i hofnant ef.
Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Ysbryd glân;
Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Yna y cenir neu y dywedir Credo 'r Apoſtolion gan y Gweinidog a'r bobl, yn eu ſefyll.*

CRedaf yn Nuw Dâd Holl-gyfoethog, Creawdr nêf a daear:
Ac yn Jeſu Griſt ei un Mâb ef, ein Harglwydd ni, yr hwn a gâed trwy yr Ysbryd glân, a aned o Fair forŵyn; a ddioddefodd dan Bontius Pilatus, a groeſhoeliwyd, a fu farw, ac a gladdwyd, a ddiſgynnodd i uffern; y trydydd dŷdd y cyſododd o feirw; a eſgynnodd i'r nefoedd, ac y mae yn eiſtedd ar ddeheulaw Duw Dâd holl-gyfoethog; Oddi yno y daw i farnu byw a meirw.
Credaf yn yr Ysbryd glân; yr Eglwys lân Gatholig; Cymmun y Saint; Maddeuant pechodau; Adgyfodiad y cnawd; a'r bywyd tragywyddol. *Amen.*

¶ *Ac yn ôl hynny, y Gweddïau hyn ſy yn canlyn; a phawb yn goſtwng yn ddeſoſiynol ar eu gliniau, y Gweinidog yn gyntaf a lefara â llêf uchel,*

Yr Arglwydd a fo gyd â chwi.
Atteb. A chyd â'th Yſbryd dithau.

Gweinidog. ¶ Gweddïwn,
Arglwydd trugarhâ wrthym.
Criſt trugarhâ wrthym.
Arglwydd trugarhâ wrthym.

¶ *Yna y Gweinidog, yr Yſgolheigion, a'r Bobl, a ddywedant Weddi yr Arglwydd â lleſeirydd uchel.*

EIn Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, Sanctaiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw

heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drŵg. *Amen.*

¶ Yna 'r Gweinidog, yn ei ſefyll, a ddywaid,

Arglwydd, dangos dy drugaredd arnom.

Atteb. A chaniatâ i ni dy iechydwriaeth.

Offeiriad. Arglwydd, cadw 'r Brenhin.

Atteb. A gwrando ni yn drugarog pan alwom arnat.

Offeiriad. Gwiſg dy Weinidogion ag iawnder.

Atteb. A gwnâ dy ddewiſol Bobl yn llawen.

Offeiriad. Arglwydd, cadw dy bobl.

Atteb. A bendithia dy etifeddiaeth.

Offeiriad. Arglwydd, dyro dangnefedd yn ein dyddiau.

Atteb. Gan nad oes neb arall a ymladd droſom, ond tydi Dduw, yn unig.

Offeiriad. Duw, glanhâ ein calonnau ynom.

Atteb. Ac na chymmer dy Ysbryd glân oddi wrthym.

¶ Yna y canlyn tri Cholect; Y cyntaf o'r Dŷdd; Yr ail, am Dangnefedd; Y trydydd am Gynhortbwy yn erbyn pob perygl, fel y canlyn yma rhag llaw: A'r ddau Golect diwaethaf a ddywedir bob dŷdd ar Brydnhawnol Weddi heb gyfnewid.

¶ Yr ail Golect ar y Brydnhawnol Weddi.

DUw, oddi wrth ba un y daw pob adduned ſanctaidd, pob cyngor da, a phob gweithred gyfiawn; dyro i'th waſanaeth-ddynion y rhyw dangnefedd a'r na ddichon y byd ei roddi; mŏdd y gallo ein calonnau ymrôi i ufuddhâu i'th orchymmynion; ac hefyd trwy 'n hamddiffyn ni rhag ofn ein gelynion, allu o honom dreulio ein hamſer mewn heddwch a thangnefedd, trwy haeddedigaethau Jeſu Griſt ein Hiachawdwr. *Amen.*

¶ Y trydydd Golect am Gynhortbwy yn erbyn pob perygl.

GOleua ein tywyllwch, ni a attolygwn i ti, O Arglwydd; a thrwy dy fawr drugaredd amddiffyn nyni rhag pob perygl ac enbydrwydd y nôs hon; er ſerch ar dy un Mâb ein Hiachawdwr Jeſu Griſt. *Amen.*

¶ Mewn Corau a Mawnau, lle 'r arferont ganu, yma y canlyn yr Anthem.

¶ Gweddi dros Fawrhydi 'r Brenhin.

O Arglwydd ein Tâd nefol, goruchel a galluog, Brenhin y brenhinoedd, Arglwydd yr arglwyddi, unig Lywiawdwr y tywyſogion, yr hwn wyt o'th eiſteddle yn edrych ar holl drigolion y ddaear; Ni a attolygwn, ac a erfyniwn i ti, edrych o honot yn ddarbodus ar ein graſuſaf ddaionus Arglwydd Frenhin *SIOR*, ac felly ei gyflawni ef o râs dy Sanctaidd Ysbryd, fel y bô iddo yn waſtadol bwyſo at dy feddwl, a rhodio yn dy ffordd: Cynnyſgaedda ef yn helaeth â doniau nefol, caniatâ iddo mewn llwyddiant ac iechyd hir hoedl, nertha ef mŏdd y gallo oreſgyn a gorchfygu ei holl elynion: ac o'r diwedd yn ôl y fuchedd hon, bod iddo ſwynhâu llawenydd a dedwŷddyd tragywyddol, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Gweddi dros y Brenhinol Deulu.

HOll-alluog Dduw, ffynnon pob daioni, yr ydym ni yn oſtyngedig yn attelwg i ti ſendithio Brenhinol Uchelder *FFREDERIG* Tywyſog *Cymru*, Tywyſoges *Cymru*, y Duwc, y Tywyſogeſau, Eppil Tywyſog a Thywyſoges *Cymru*, a'r holl Frenhinol Deulu: Cynnyſgaedda hwy â'th Ysbryd glân, cyfoethoga hwy â'th nefol râs, llwydda hwy â phob dedwyddwch, a dŵg hwy i'th dragywyddol deyrnas, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Gweddi dros yr Eglwyſwŷr a'r Bobl.

HOll-gyfoethog a thragywyddol Dduw, yr hwn wyt yn unig yn gwneuthur rhyfeddodau; danfon i lawr ar ein Heſgobion a'n Curadiald, a'r holl gynnulleidfaon a orchymynnwyd dan eu gofal hwynt jachol Ysbryd dy râs; ac fel y gallont wir ryngu bôdd i ti, tywallt arnynt ddyfal wlith dy fendith: Caniatâ hyn Arglwydd, er anrhydedd ein Dadleuwr, a'n Cyfryngwr Jeſu Griſt. *Amen.*

¶ Gweddi o waith S. Cryſoſtom.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a roddaiſt i ni râs y prŷd hyn, trwy gyfundeb a chŷd-gyfarch i weddio arnat, ac wŷt yn addaw pan ymgynhullo dau neu dri yn dy Enw, bod i ti ganiatâu eu gofynion: cyflawna yr awr hon, O Arglwydd, ddymuniad a deiſyfiad dy weiſion, fel y bo mwyaf buddiol iddynt; gan ganiatâu i ni yn y byd hwn wybodaeth am dy wirionedd, ac yn y byd a ddaw, bywyd tragywyddol. *Amen.*

2 Cor. 13. 13.

GRâs ein Harglwydd Jeſu Griſt, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fyddo gyd â ni oll byth bythoedd. *Amen.*

¶ Yma y diwedd Treſn y Brydnhawnol Weddi trwy 'r Flwyddyn.

Credo Sant ATHANASIWS.

¶ Ar y gŵyliau hyn ſef, dŷdd Nadolig Criſt, *dŷdd gŵyl* Yſtwyll, *dŷdd gŵyl S.* Mathïas, *dŷdd* Paſg, *y* Dyrchafael, *y* Sul-gwyn, *dŷdd gŵyl S.* Joan Fedyddiwr, *S.* Jago, *S.* Bartholomëus, *S.* Mathew, *S.* Simon *a S.* Jud, *S.* Andreas, *a* Sul *y* Drindod; *y cenir neu y dywedir ar y Foreuol Weddi, yn lle Credo 'r Apoſtolion, y Gyffes hon o'n ffydd Griſtianogol, a elwir yn gyffredin, Credo S.* Athanaſiws, *gan y Gweinidog a'r Bobl yn ſefyll.*

Quicunque vult.

PWy bynnag a fynno fod yn gadwedig: o flaen dim rhaid iddo gynnal y ffydd gatholig.

Yr hon ffydd, oni's ceidw pob dŷn yn gyfan, ac yn ddihalog: diammau y collir ef yn dragywydd.

A'r ffydd gatholig yw hon: Bod i ni addoli un Duw yn Drindod, a'r Drindod yn Undod.

Nid cymmyſgu o honom y perſonau: na gwahanu 'r ſylwedd.

Canys un perſon ſydd i'r Tâd, arall i'r Mâb: ac arall i'r Ysbryd glân.

Eithr Duwdod y Tâd, y Mâb, a'r Ysbryd glân ſydd unrhyw: gogoniant gogyfuwch, mawrhydi gogyd-tragywyddol.

Unrhyw yw 'r Tâd, unrhyw yw 'r Mâb: unrhyw yw 'r Ysbryd glân.

Digreêdig Dâd, digreêdig Fâb: digreêdig Ysbryd glân.

Anfeſuredig Dâd, anfeſuredig Fâb: anfeſuredig Ysbryd glân.

Tragywyddol Dâd, tragywyddol Fâb: tragywyddol Ysbryd glân.

Ac etto nid ydynt dri tragywyddolion: ond un tragywyddol.

Ac fel nad ŷnt dri anfeſuredigion, na thri digreêdigion: ond un digreêdig, ac un anfeſuredig.

Felly yn gyffelyb, Holl-alluog yw 'r Tâd, Holl-alluog yw 'r Mâb: Holl-alluog yw 'r Ysbryd glân,

Ac etto nid ŷnt dri Holl-alluogion: ond un Holl-alluog.

Felly y Tâd ſy Dduw, y Mâb ſy Dduw: a'r Ysbryd glân ſy Dduw.

Ac

Ac etto nid ŷnt dri Duwiau: ond un Duw.

Felly y Tâd ſydd Arglwydd, y Mâb ſydd Arglwydd: a'r Yſbryd glân ſydd Arglwydd.

Ac etto nid ŷnt dri Arglwyddi: namyn un Arglwydd.

Canys fel i'n cymhellir trwy y griſtianogaidd wirionedd: i gyfaddef bod pob perſon o hono ei hun yn Dduw ac yn Arglwydd;

Felly i'n gwaherddir trwy 'r Gatholig Greſydd: i ddywedyd, bod tri Duwiau, neu dri Arglwyddi.

Y Tâd ni wnaethpwyd gan neb: ni's crëwyd, ac ni's cenhedlwyd.

Y Mâb y ſydd o'r Tâd yn unig: heb ei wneuthur, na'i grëu, eithr wedi ei genhedlu.

Yr Yſbryd glân ſydd o'r Tâd a'r Mâb: heb ei wneuthur, na'i greu, na'i genhedlu, eithr yn deilliaw.

Wrth hynny, un Tâd y ſydd, nid tri Thâd; un Mâb, nid tri Mâb: un Yſbryd glân, nid tri o Yſbrydion glân.

Ac yn y Drindod hon, nid oes un cynt, neu gwedi eu gilydd: nid oes un mwy na llai nâ'u gilydd.

Eithr yr holl dri pherſonau ydynt ogyd-tragywyddol: a gogyfuwch.

Ac felly ym mhob peth, fel y dywedpwyd uchod: yr Undod yn y Drindod, a'r Drindod yn yr Undod ſydd i'w haddoli.

Pwy bynnag gan hynny a fynno fod yn gadwedig: ſynied felly o'r Drindod.

Y mae hefyd yn angenrhaid er mwyn tragywyddol iechydwriaeth: gredu o ddŷn yn ffyddlon am gnawdoliaeth ein Harglwydd Jeſu Griſt.

Canys yr jawn ffydd yw, credu, a chyffeſu o honom: fod ein Harglwydd ni Jeſu Griſt, Fâb Duw, yn Dduw ac yn ddŷn.

Duw o ſylwedd y Tâd, wedi ei genhedlu cyn nâ'r oeſoedd: a dŷn, o ſylwedd ei fam, wedi ei eni yn y bŷd.

Perffaith Dduw, a pherffaith ddŷn: o enaid rheſymmol, a dynol gnawd yn hanfod.

Gogyfuwch â'r Tâd o blegid ei Dduwdod: a llai nâ'r Tâd o blegid ei ddyndod,

Yr hwn er ei fod yn Dduw ac yn ddŷn: er hynny, nid yw efe ddau, ond un Criſt.

Un, nid trwy ymchwelyd y Duwdod yn gnawd: ond gan gymmeryd y dyndod at Dduw.

Un i gyd oll, nid gan gymmyſgu 'r ſylwedd: ond trwy undod perſon.

Canys fel y mae 'r enaid rheſymmol a'r cnawd yn un dŷn: felly Duw a dŷn ſydd un Criſt.

Yr hwn a ddioddefodd dros ein hiechydwriaeth: a ddiſgynnodd i uffern, a gyfododd y trydydd dŷdd o feirw.

Eſgynnodd i'r nefoedd, ac y mae yn eiſtedd ar ddeheulaw 'r Tâd, Duw holl-alluog: oddi yno y daw i farnu byw a meirw.

Ac ar ei ddyfodiad, y cyfyd pob dŷn yn eu cyrph eu hunain: ac a roddant gyfrif am eu gweithredoedd priod.

A'r rhai a wnaethant ddâ, a ânt i'r bywyd tragywyddol: a'r rhai a wnaethant ddrŵg, i'r tân tragywyddol.

Hon yw 'r ffŷdd gatholig: yr hon pwy bynnag a'r ni's cretto yn ffyddlon, ni all efe fod yn gadwedig.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Ysbryd glân;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Yma y canlyn y* LITANI, *neu ymbiliau cyffredinol, i'w canu neu i'w dywedyd ar ol y Foreuol Weddi ar y* Suliau, *y* Merchurau *a'r* Gwenerau, *ac ar amſerau erailli, pan orchymynner gan yr Ordinari.*

DUw Dâd o'r Nêf: trugarhâ wrthym wîr bechaduriaid.

Duw Dâd o'r Nêf: trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Duw Fâb, brynwr y bŷd: trugarhâ wrthym wîr bechaduriaid.

Duw Fâb, brynwr y bŷd: trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Duw Ysbryd glân, yn deilliaw oddi wrth y Tâd a'r Mâb: trugarhâ wrthym wîr bechaduriaid.

Duw Ysbryd glân, yn deilliaw oddi wrth y Tâd a'r Mâb: trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Y gogoned, lân, fendigaid Drindod, tri pherſon, ac un Duw: trugarhâ wrthym wîr bechaduriaid.

Y gogoned, lân, fendigaid Drindod, tri pherſon, ac un Duw: trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Na chofia, Arglwyddd, ein hanwiredd, nac anwiredd ein rhïeni, ac na ddyro ddïal am ein pechodau: arbed nyni Arglwydd daionus, arbed dy bobl a brynaiſt âth werthfawroccaf waed, ac na lidia wrthym yn dragywydd.

Arbed ni, Arglwydd daionus.

Oddi wrth bob drŵg ac anffawd, oddi wrth bechod, oddi wrth yſtryw a chyrch y cythraul, oddi wrth dy lid, ac oddi wrth farnedigaeth dragywyddol,

Gwared ni, Arglwydd daionus.

Oddi wrth bob dallineb câlon: oddi wrth falchder, a gwâg-ogoniant, a ffŵg ſancteiddrwydd; oddi wrth genfigen, digaſedd, a bwriad drŵg, a phob anghariadoldeb,

Gwared ni, Arglwydd daionus.

Oddi wrth anniweirdeb, a phob pechod marwol arall; ac oddi wrth holl dwyll y bŷd, y cnawd, a'r cythraul,

Gwared ni, Arglwydd daionus,

Oddi wrth fëllt a thymmeſtl; oddi wrth blâ, haint y nodau, a newŷn; oddi wrth ryfel, ac ymladd, ac oddi wrth angau diſyfyd,

Gwared ni, Arglwydd daionus.

Oddi wrth bob terfyſg, dirgel frâd, a gwrthryfel; oddi wrth bob ffals ddyſgeidiaeth, opiniwn annuwiol a ſiſm; oddi wrth galedrwydd câlon, a dirmyg ar dy air a'th orchymmyn,

Gwared ni, Arglwydd da onus.

Trwy ddirgelwch dy lân gnawdoliaeth, trwy dy ſanctaidd enedigaeth, a'th enwaediad; trwy dy fedydd, dy ympryd, a'th brofedigaeth,

Gwared ni, Arglwydd daionus.

Trwy dy ddirfawr ing, a'th chwŷs gwaedlyd; trwy dy grôg a'th ddioddefaint; trwy dy werthfawr angau a'th gladdedigaeth, trwy dy anrhydeddus gyfodiad, a'th eſgynniad; a thrwy ddyfodiad yr Ysbryd glân,

Gwared ni, Arglwydd daionus.

Yn holl amſer ein trallod, yn holl amſer ein gwynfyd; yn awr angau, ac yn nŷdd y farn,

Gwared ni, Arglwydd daionus.

Nyni bechaduriaid a attolygwn i ti ein gwrando, O Arglwydd Dduw, a theilyngu o honot gadw, rheoli, a llywodraethu dy lân Eglwys Gatholig, yn y ffordd union;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot gadw a nerthu i'th wir addoli, mewn iawnder a glendid buchedd, dy waſanaethwr SIOR ein graſuſaf Frenhin a'n Penllywydd;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot lywodraethu ei câlon yn dy flŷdd, ofn, a chariad, ac iddo ymddiried byth ynot, ac ymgais yn waſtad â'th anrhydedd a'th ogoniant;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu

Teilyngu o honot ei amddiffyn a'i gadw, gan roddi iddo fuddugoliaeth ar ei holl elynion;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot fendithio a chadw Brenhinol uchelder *FFREDERIG* Tywyſog *Cymru*, Tywyſoges *Cymru*, y Duwc, y Tywyſogeſau, Eppil Tywyſog a Thywyſoges *Cymru*, a'r holl Frenhinol Deulu;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot lewyrchu yr holl Eſgobion, Offeiriaid a Diaconiaid, ag iawn ŵybodaeth a deall dy Air, ac iddynt hwy trwy eu pregeth a'u buchedd, ei fynegi a'i ddangos yn ddyladwy;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot gynnyſgaeddu Arglwyddi 'r Cyngor, a'r holl Fonedd â grâs, doethineb, a deall;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot fendithio a chadw y Penſwyddogion, gan roddi iddynt râs i wneuthur cyfiawnder, ac i faentumio 'r gwir;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot fendithio a chadw dy holl bobl;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot roddi i bob cenhedlaeth, undeb, tangnefedd a chŷd-gordio;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot roddi i ni gàlon i'th garu ac i'th ofni, ac i fyw yn ddïeſgeulus yn ôl dy orchymmynion;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot roddi i'th holl bobl chwaneg o râs, i wrando yn ufudd dy Air, ac i'w dderbyn o bur ewyllys, ac i gynhyrchu ffrwyth yr Yſbryd;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot ddwyn i'r ffordd wîr bawb a'r a aeth ar gyfeiliorn ac a dwyllwyd;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot nerthu y rhai ſy yn ſefyll, a chonfforddio a chynnorthwyo y rhai ſy â gwan gàlon, a chyfodi 'r ſawl a ſyrthiant, ac o'r diwedd curo i lawr Satan dan ein traed;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot gymmorth, helpu, a diddanu pawb a'r y ſydd mewn perygl, angenoctid a thrwblaeth;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot gadw pawb a'r ſydd yn ymdaith ar ſôr na thir, pob gwraig wrth eſgor plant, pob clwyfus a rhai bychain, a thoſturio wrth bawb a fyddo mewn caethiwed a charchar;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot amddiffyn ac amgeleddu y plant amddifaid, a'r gwragedd gweddwon, a phawb y ſydd yn unig, ac yn goddef pwys plaid orthrech;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot drugarhâu wrth bob dŷn;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot faddeu i'n gelynion, erlynwŷr, ac yſglandrwŷr, a throi eu calonnau;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot roddî a chadw er ein llês amſerol ffrwythau 'r ddaear, môdd y caffom mewn amſer dyledus eu mwynhâu;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot roddi i ni wir ediſeirwch, a maddeu i ni ein holl bechodau, ein heſgeuluſdra, a'n hanŵybod; a'n cynnyſgaeddu â grâs dy Yſbryd glân, i wellhâu ein buchedd yn ôl dy air ſanctaidd;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

Mâb Duw, attolygwn i ti ein gwrando.

Mâb Duw, attolygwn i ti ein gwrando.

Oen Duw yr hwn ŵyt yn dilëu pechodau 'r bŷd;

Caniatâ i ni dy Dangnefedd.

Oen Duw, yr hwn ŵyt yn dilëu pechodau 'r bŷd;

Trugarhâ wrthym.

Criſt clyw nyni.

Criſt clyw nyni.

Arglwydd trugarhâ wrthym.

Arglwydd trugarhâ wrthym.

Criſt trugarhâ wrthym.

Criſt trugarhâ wrthym.

Arglwydd trugarhâ wrthym.

Arglwydd trugarhâ wrthym.

¶ *Yna y dywaid yr Offeiriad a'r Bobl gyd ag ef, Widdi 'r Arglwydd.*

EIn Tâd yr hwn ŵyt yn y nefoedd; Sancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth: Eithr gwared ni rhag drŵg. *Amen.*

Offeiriad. Arglwydd, na whâ a nyni yn ôl ein peshodau.

Atteb. Ac na obrwya ni yn ôl ein hanwireddau.

¶ Gweddïwn.

DUw Dâd trugarog, yr hwn nid ŵyt yn dirmygu uchenaid calon gyſtuddiedig, nac addûned y gorthrymmedig; cynnorthwya yn drugarog ein gweddïau, y rhai yr ŷm ni yn eu gwneuthur ger dy fron yn ein holl drallod a'n blinfyd, pa brŷd bynnag y gwaſgant arnom: a gwrando ni yn raſuſol, fel y bo i'r drygau hynny, y rhai y mae yſtryw a dichell diafol neu ddŷn yn eu gwneuthur i'n herbyn, fyned yn oſer, a thrwy ragluniaeth dy ddaioni di iddynt fod yn waſgaredig, môdd na'n briwer dy weiſion trwy erlyn neb, a gallu o honom byth ddïolch i ti yn dy lân Eglwys, trwy Jeſu Criſt ein Harglwydd.

Arglwydd, cyfod, cymmorth ni, a gwared ni er mwyn dy Enw.

ODduw, ni a glywſom â'n cluſtiau, a'n tadau a fynegaſant i ni, y gweithredoedd ardderchog a wnaethoſt yn eu dyddiau, ac yn y cynfyd o'u blaen hwy.

Arglwydd, cyfod, cymmorth ni, a gwared ni er mwyn dy anrhydedd.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd glân;

Atteb. Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

Rhag ein gelynion amddiffyn ni, O Criſt.

Yn raſol edrych ar ein poenedigaethau.

Yn doſturus yſtyria wrth drymder ein calonnau.

Yn drugarog maddeu bechodau dy bobl.

Yn garedigol gan drugaredd gwrando ein gweddïau.

Jeſu Fâb Dafydd, trugarhâ wrthym.

Yr awr hon a phob amſer teilynga ein gwrando, O Criſt.

Yn

Yn raſol clyw ni O Criſt, yn raſol clyw nyni O Arglwydd Criſt.

Offeiriad. Arglwydd, dangos dy drugaredd arnom;

Attеb. Fel yr ŷm yn ymddiried ynot.

¶ Gweddïwn.

NYni yn ufudd a attolygwn i ti, O Arglwydd Dâd, yn drugarog edrych ar ein gwendid; ac er gogoniant dy Enw, ymchwel oddi wrthym yr holl ddrygau a ddarſu i ni o wir gyfiawnder eu haeddu: a chaniatâ fod i ni yn ein holl drallod ddodi ein cyfan ymddiried a'n gobaith yn dy drugaredd, ac byth dy waſanaethu mewn ſanctеiddrwydd, a phurdeb buchedd, i'th anrhydedd a'th ogoniant trwy ein hunig Gyfryngwr a'n Dadleuwr Jeſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Gweddi o waith* S. Cryſoſtom.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a roddaiſt i ni râs y prŷd hyn, trwy gyfundeb a chŷd-gyfarch i weddio arnat, ac wyt yn addaw pan ymgynhullo dau neu dri yn dy Enw, bod i ti ganiatâu eu gofynion: cyflawna yr awr hon, O Arglwydd, ddymuniad a deiſyfiad dy weiſion, fel y bo mwyaf buddiol iddynt; gan ganiatâu i ni yn y bŷd hwn wybodaeth am dy wirionedd, ac yn y bŷd a ddaw, bywyd tragywyddol. *Amen.*

2 *Cor.* 13. 13.

GRâs ein Harglwydd Jeſu Criſt, a chariad Duw, a Chymdeithas yr Ysbryd glân, a fyddo gyd â ni ôll byth bythoedd. *Amen.*

¶ *Yma y diwedd y Litani.*

GWEDDIAU a DIOLWCH ar amryw achoſion, i'w harfer o fiaen y ddwy Weddi ddiweddâf o'r Litani, neu o'r Foreuol a'r Brydnhawnol Weddi.

GWEDDIAU.

¶ *Am wlâw.*

ODduw nefol Dâd, yr hwn trwy dy Fâb Jeſu Criſt a addewaiſt i bawb a geiſiont dy Deyrnas a'th gyfiawnder, bob peth angenrheidiol i'w cynhaliaeth corphorol: danſon i ni wrth ein hangenoctid hwn, ni a attolygwn i ti, gyfryw dywydd a chawodydd ardymherus, môdd y derbyniom ffrwythau 'r ddaear, i'n mwyniant ni, ac i'th urddunіant dithau, trwy Jeſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Am Dywydd têg.*

HOll-alluog Arglwydd Dduw, yr hwn am bechod dŷn a foddaiſt unwaith yr holl fŷd, oddi eithr wyth-nŷn o bobl, ac yn ôl hynny o'th ſawr drugaredd a addewaiſt na's diſtrywit felly byth drachefn; yn oſtyngedig ni a attolygwn i ti, er i ni am ein hanwireddau gyfiawn haeddu plâ o wlâw a dyfroedd, etto wrth ein gwîr edifeirwch, danſon i ni y cyfryw dywydd a hinon fel y derbyniom ffrwythau 'r ddaear mewn amſer dyladwy, ac y dyſgom trwy dy gosbedigaeth wellhâu ein bucheddau, ac am dy wârder roddi i ti foliant a gogoniant, trwy Jeſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Ar amſer Drudaniaeth a Newŷn.*

ODduw Dâd o'r Nêf, trwy ddawn pa un y diſgyn y gwlâw, y mae'r ddaear yn ffrwythlawn, yr hilia aniſeiliaid, ac yr amlhâ'r pyſgod; edrych, attolwg, ar adfyd dy bobl, a chaniatâ am y prinder a'r drudaniaeth (yr ŷm ni yr awr hon yn ei ddioddef yn gwbl gyfiawn am ein hanwiredd) iddynt trwy dy drugarog ddaioni di, ymchwelyd yn rhâd ac yn helaethrwydd, er cariad ar Jeſu Criſt ein Harglwydd, i'r hwn gyd â thydi a'r Ysbryd glân y bo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant yr awr hon, ac yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Neu hon.*

ODduw drugarog Dâd, yr hwn yn amſer Eliſeus y Prophwyd a droaiſt yn ddiſymmwth y prinder mawr a'r Drudaniaeth yn Samaria yn helaethrwydd a Rhâd; Cymmer drugaredd arnom, fel y bo i ni y rhai am ein pechodau a boenir yr awr hon â'r cyffelyb adfyd, dderbyn yr un fâth brydol gymmorth: Trwy dy nefol ſendith pârgynnyrch ar ffrwythau 'r ddaear; a chaniatâ fod i ni, fy'n derbyn dy haelionus lawnder, arferu 'r unrhyw i'th ogoniant di, i gymmorth eraill y fy'n dwyn eiſiau, ac i'n diddanwch ein hunain, trwy Jeſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Ar amſer Rhyfel a Therfyſgau.*

HOll-alluog Dduw, Brenhin yr holl frenhinoedd a Phen-llywiawdr pob peth, yr hwn ni ddichon neb creadur wrthladd ei nerth, i'r hwn y perthyn o gyfiawnder gosbi pechaduriaid, a bod yn drugarog wrth y rhai a fyddont wîr edifeiriol; Cadw a gwared nyni, yn oſtyngedig ni a attolygwn i ti, rhag dwylaw ein gelynion; goſtwng eu balchder, tola eu drygioni, a gwaradwydda eu bwriadau, môdd y gallom yn arfogion gan dy amddiffyn di, ſod byth yn gadwedig rhag pob perygl, i'th ogoneddu di yr hwn wyt unig roddwr pob buddugoliaeth a goruchafiaeth, trwy haeddedigaethau dy un Mâb Jeſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yn amſer Plâ cyffredin, neu Glafyd.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn yn dy lîd yn yr aniawch a anfonaiſt plâ ar dy Bobl dy hun o blegid eu gwarſythni a'u gwrthryfel yn erbyn Moſes ac Aaron, ac hefyd yn amſer y Brenhin Dafydd a leddaiſt â phlâ'r nodau ddengmil a thri-ugeinmil, ac yn y man gan gofio dy drugaredd a gedwaiſt y lleill: Trugarhâ wrthym wîr bechaduriaid, y rhai y darſu 'r awr hon i ddiriawr haint a marwolaeth ymweled â ni, fel megis y prŷd hynny y derbyniaiſt gymmodaeth, ac y gorchymynnaiſt i'r Angel dinyſtriol beidio â chosbi; felly bod yn awr yn deilwng gennyt wrthladd oddi wrthym y Blâ a'r gofidus Haint yma, trwy Jeſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yn Wythnoſau y Cŷd-goriau i'w dywedyd bob dŷdd, dros y rhai a fyddant i dderbyn Urddau Cyffredig.*

HOll-alluog Dduw, ein Tâd nefol, yr hwn a brynaiſt it' Eglwys Gyffredinol, trwy werthfawr waed dy anwyl Fâb; Edrych yn ddarbodus ar yr unrhyw, ac ar hyn o amſer cyfarwydda a llywia felly feddyliau dy weiſion yr Eſgobion a Bugeiliaid dy braidd, fel na ddodont ddwylaw yn ebrwydd ar neb, eithr bod iddynt ddewis yn ffyddlon ac yn bwyllog rai cymmwys i waſanaethu yn ſanctaidd Weinidogaeth dy Eglwys. A dyro o'th Râs a'th ſendith nefol i'r ſawl a urddir i bob Swyddyddiaeth ſanctеiddlan, fel y bo iddynt trwy eu buchedd a'u hathrawiaeth oſod allan dy ogoniant, a hyfforddio iechydwriaeth pawb ôll, trwy Jeſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Neu hon.*

HOll-alluog Dduw, rhoddwr pob dawn daionus yr hwn o'th Dduwioi ddarbodaeth a oſodaiſt amrafael Raddau yn dy Eglwys; Ni a attolygwn yn

ufudd

ufudd i ti, roddi o'th Râs i'r ſawl oll a alwer i bob Swydd a Gweinyddiaeth yn yr unrhyw; ac felly cyflawna hwynt â'th wir athrawiaeth, a chynnyſgaedda hwynt â diniweidrwydd buchedd, fel y gwaſanaethont yn ffyddlon ger dy fron i ogoniant dy ddirſawr Enw, ac er lles i'th Eglwys ſanctaidd, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Gweddi dros Oruchel Lŷs y Parliament, i'w dywedyd tra ſônt yn eiſtedd.

ODduw graſuſaf, yn ufudd attolygwn i ti megis dros y Deyrnas hon yn gyffredinol, felly yn enwedig dros yr uchel Lŷs Parliament, ymgynnulledig yr awr hon dan ein duwiolaf a'n graſuſaf Arglwydd Frenhin; deilyngu o honot lywio a llwyddo eu holl ymgynghoriadau er dyrchafiad i'th ogoniant, er daioni i'th Eglwys, ac er diogelwch, anrhydedd, a llwyddiant i'n Harglwydd Frenhin a'i Deyrnaſoedd: Trwy eu llafur hwy felly trefner a gwaſtattâer pob peth ar y ſail oreu a chadarnaf, fel y bo Heddwch a Dedwyddwch, Gwirionedd a Chyfiawnder, Ffŷdd a Duwioldeb yn ſefydlog yn ein plith trwy'r holl Genhedlaethau. Hyn a phob peth arall anghenraid iddynt hwy, i ni, ac i'th Eglwys oll, yr ŷm yn oſtyngedig yn eu herſyn yn Enw a chyfryngdod Jeſu Griſt ein Harglwydd a'n Hiachawdwr bendigedig. *Amen.*

¶ Colect neu Weddi dros bob Yſtâd o ddynion, i'w barfer pan na bo pwyntiedig dywedyd y Litani.

OArglwydd, Creawdwr a Cheidwad pob rhyw Ddŷn, yn oſtyngedig attolygwn i ti dros bob Yſtâd a grâdd o ddynion, ar fod yn wiw gennyt hysbyſu iddynt dy ffyrdd, dy iechydwriaeth i'r holl Genhedloedd. Yn bennaf erſyniwn arnat dros lwyddianus yſtâd yr Eglwys Gatholig; fel gan gael ei harwain a'i llywio gan dy Ysbryd graſuſol, y caffo pawb yn eu proffeſu ac yn eu galw eu hunain yn Griſtianogion, eu tywys ar hyd ffordd y gwirionedd, a chynnal y ffydd mewn undeb ysbryd, rhwymyn tangnefedd ac uniondeb buchedd. Yn ddiweddaf, ni a orchymynnwn i'th dadol amgeledd, y rhai oll a gyſtuddir mewn un mòdd, neu ſydd yn gyſyng arnynt mewn meddwl, corph, neu yſtâd, [* *yn enwedig y ſawl dros ba rai y dymunir ein gweddïau,*] ryngu bòdd i ti eu diddanu a'u cymmorth yn ol angenrheidiau pob un, gan roddi iddynt ammynedd dan eu dioddefiadau, a dedwŷddol ymwared o'u holl gyſtuddiau. A hyn a erſyniwn er mwyn Jeſu Griſt. *Amen.*

* *Hyn a ddywedir pan ddymuno neb wcddiau y Gynnulleidfa.*

¶ Gweddi a ellir ei dywedyd ar ôl pob un o'r rhai o'r blaen.

ODduw, yr hwn bïau o naturiaeth a phrïodoldeb, drugarhâu yn waſtad a maddeu, derbyn ein hufudd weddïau; ac er ein bod ni yn rhwym gan gaethiwed cadwynau ein pechodau, er hynny dattoder ni gan doſturi dy fawr drugaredd, er anrhydedd Jeſu Griſt, ein cyfryngwr a'n dadleuwr. *Amen.*

FFURFIAU O DALU DIOLCH.

¶ Diolch Cyffredinol.

HOll-alluog Dduw, Tâd yr holl drugareddau, yr ydym ni dy weiſion anheilwng yn rhoddi i ti ddiolch goſtyngeiddiaf a ffyddlonaf am dy holl ddaioni a'th drugareddau i ni, ac i bob dŷn, [* *yn arbennig i'r rhai y ſŷ' yr awrhon yn ewyllyſio offrymmu it' eu moliannau a'u diolch am y toſturi a rygly ddaiſt iddynt yn ddiweddar.*] Ni a'th fendithiwn am ein creadigaeth, am ein cadwraeth, ac am holl fendithion y bywyd hwn. Eithr uwch law pob dim am dy anfeidrol gariad ym mhrynedigaeth y bŷd trwy ein Harglwydd Jeſu Griſt, am foddion grâs, ac am obaith Gogoniant. Ac ni a attolygwn i ti roddi i ni y cyfryw ddwys ac iawn ymſynniad ar dy holl drugareddau, fel y bo'n calonnau yn ddiffuant yn ddiolchgar, ac fel y mynegom dy ſoliant, nid â'n gwefuſau yn unig, eithr yn ein bucheddau, trwy ymroddi i'th waſanaeth, a thrwy rodio ger dy fron mewn ſancteiddrwydd ac uniondeb dros ein holl ddyddiau, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd; i'r hwn gyd â thydi a'r Ysbryd glân bid yr holl anrhydedd a'r gogoniant, byth bythoedd. *Amen.*

* *Dyweder hyn pan ſo neb un a weddïwyd droſto yn deiſyf talu diolch.*

¶ Am gael Gwlâw.

ODduw ein Tâd neſol, yr hwn trwy dy raſol ragluniaeth wyt yn peri i'r gwlâw cynnar a'r diweddar ddiſgyn ar y ddaear, fel y dygo ffrwyth er mwyniant dŷn: yr ydym ni yn rhoi i ti oſtyngedig ddiolch, fod yn wiw gennyt wrth ein dirfawr anghenraid, ddanfon i ni o'r diwedd wlâw hyfryd ar dy etiſeddiaeth, a'i hireiddio pan oedd ſêch, i'n mawr ddiddanwch ni dy weiſion anwiw, ac i ogoniant dy ſanctaidd Enw, trwy dy drugareddau yn Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Am Dywydd tîg.

OArglwydd Dduw, yr hwn yn gyfiawn a'n daroſtyngaiſt ni trwy dy ddiweddar blâ o anfeidrol wlâw a dyfroedd, ac yn dy drugaredd a gymhorthaiſt ac a ddiddenaiſt ein heneidiau trwy y tymhoraidd a'r bendigedig gyfnewid yma ar dywydd; Nyni a foliannwn ac a ogoneddwn dy ſanctaidd Enw dros dy drugaredd hyn, ac a ddadganwn byth dy drugareddau, o genhedlaeth i genhedlaeth, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Am Helaethrwydd.

ODrugaroccaf Dâd, yr hwn o'th raſlon ddaioni a wrandewaiſt ddefoſiynol weddïau dy Eglwys, ac a droaiſt ein prinder ni a'n drudaniaeth yn rhâd ac yn helaethrwydd; yr ydym yn rhoi i ti oſtyngedig ddiolch am dy ragorol haelioni hynny, gan attolwg i ti barhâu dy garedigrwydd yma tu ag attom, fel y rhoddo ein tir i ni ei ffrwythau toreithiog i'th ogoniant di a'n diddanwch ninnau, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Am Heddwch ac Ymwared oddi wrth ein Gelynion.

HOll-alluog Dduw, yr hwn ŵyt gadarn dŵr amddiffyn i'th weiſion, rhag ŵyneb eu gelynion; yr ydym ni yn rhoddi i ti ſoliant a diolch am ein hymwared ni oddi wrth y mawr a'r amlwg beryglon oedd i'n hamgylchu: Yr ydym ni yn cydnabod mai dy ddaioni di yw na'n rhoddwyd ni i ſynu yn yſglyfaeth iddynt hwy, gan attolygu i ti yn waſtadol barhâu dy gyfryw drugareddau tu ag attom, fel y gŵypo'r holl fŷd mai tydi yw ein Hachubwr a'n cadarn waredwr ni, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Am edfryd Heddwch cyffredinol gartref.

TRagywyddol Dduw, ein Tâd neſol, yr hwn yn unig ŵyt yn gwneuthur i ddynion fod yn unfryd mewn tŷ, ac yn goſtegu cynddeiriowgrwydd y werin angerddol ac afreolus; Ni a fendithiwn dy Enw ſanctaidd, am fod yn wiw gennyt lonyddu y cythrwfl terfyſgus a gyffröwyd yn ddiweddar yn ein plith: Ac yn ufudd yr attolygwn i ti ganiatâu i bawb o honom râs, i rodio o hyn allan yn oſtyngedig i'th orchymmynion ſanctaidd, a chan fyw mewn buchedd dda ſtaw a heddychol ymhob duwioldeb ac oneſtrwydd, i offrymmu yn ddibaid i ti

ein

ein haberth o foliant a diolchgarwch am dy drugareddau hyn tu ag attom, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Am Ymwared oddi wrth blâ y Nodau, neu neb rhyw Glefyd arall.

O Arglwydd Dduw, yr hwn a'n harchollaist ni am ein pechodau, ac a'n diseaist am ein hanwireddau trwy dy ddiweddar ymweliad gorthrwm ac ofnadwy, ac etto ynghanol dy farnedigaeth a gofiaist dy drugaredd, ac a achubaist ein heneidiau allan o safn angau: yr ydym ni yn offrwm i'th dadol ddaioni ein hunain, ein heneidiau a'n cyrph, y rhai a waredaist di, i fod yn aberth bywiol i ti, gan foliannu a mawrygu yn wastadol dy drugareddau ynghanol dy Eglwys, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Neu hon.

YR ydym ni yn ostyngedig yn cyfaddef ger dy fron di, O drugaroccaf Dâd, y gallasai yr holl gosbedigaethau a fygythir yn dy Gyfraith, yn gyfiawn ddisgyn arnom ni, o herwydd ein haml droseddau a chaledwch ein calonnau: Etto gan fod yn wiw gennyt o'th dyner drugaredd, ar ein gwan a'n hannheilwng ymddarostyngiad ni, esmwythâu y blâ niweidiol, a'r hon yn ddiweddar y'n cystuddiwyd yn ddirfawr, ac edfryd llêf gorfoledd ac iechyd yn ein cyfanneddau: yr ydym ni yn offrwm i'th dduwiol Fawredd, aberth moliant a diolch, gan glodfori a mawrygu dy ogoneddus Enw, o herwydd dy amgeledd a'th ragddarbodaeth drosom, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Y COLECTAU, EPISTOLAU, a'r EFENGYLAU a arferir trwy 'r Flwyddyn.

¶ Noda, am y Colect a appwyntir i bob Sûl, neu Wyl y bo iddo Nôs-ûwyl neu Ucher-ûwyl, y dywedir ef ar y Gwasanaeth Prydnhawnol ar y Nôs-ûwyl.

¶ Y Sûl cyntaf yn Adfent.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, dyro râs i nyni i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch, ac i wisgo arfau y goleuni, yn awr yn anisr y fuchedd farwol hon, (prŷd y daeth dy Fâb Jesu Grist i ymweled â nyni mewn mawr ostyngeiddrwydd;) fel y byddo i ni yn y dŷdd diweddaf, pan ddelo efe dracheſn yn ei ogoneddus Fawredd, i farnu byw a meirw, gyfodi i'r fuchedd anfarwol trwyddo ef, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnasu gyd â thi a'r Ysbryd glân, yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

¶ Y Colect hwn a ddywedir beunydd gyd â'r Colectau eraill yn Adfent, hyd Nôs Nadolig.

Yr Epistol. Rhuf. 13. 8.

NA fyddwch yn nylêd neb o ddim, ond o garu bawb eu gilydd: Canys yr hwn ſydd yn caru arall a gyflawnodd y gyfraith, Canys hyn, Na odineba, Na lâdd, Na ladratta, Na ddŵg gam-dyſtiolaeth, Na thrachwanta; ac od oes un gorchymmyn arall, y mae wedi ei gynnwys yn gryno yn yr Ymadrodd hwn, Câr dy Gymmydog fel ti dy hun. Cariad ni wnâ ddrŵg i'w Gymmydog; am hynny cyflawnder y gyfraith yw Cariad. A hyn gan wybod yr amſer, ei bod hi weithian yn brŷd i ni i ddeffroi o gyſgu, canys yr awr hon y mae ein iechydwriaeth ni yn nês na phan gredaſom. Y nôs a gerddodd ym mhell, a'r dŷdd a neſaodd, am hynny bwriwn oddiwrthym weithredoedd y tywyllwch, a gwiſgwn arfau y goleuni. Rhodiwn yn weddus, megys wrth liw dŷdd; nid mewn cyfeddach, a meddwdod; nid mewn cŷd-orwedd ac anlladrwydd; nid mewn cynnen a chynfigen: Eithr gwiſgwch am danoch yr Arglwydd Jeſu Grist; ac na wnêwch ragddarbod tros y cnawd, er mwyn cyflawnu ei chwantau ef.

Yr Efengyl. S. Math. 21. 1.

APhan ddaethant yn gyfagos i Jeruſalem, a'u dyfod hwy i Bethphage, i fynydd yn Olewŷdd, yna yr anfonodd yr Jeſu ddau Ddiſgybl, gan ddywedyd wrthynt, Ewch i'r pentref ſydd ar eich cyfer, ac yn y mann chwi a gewch aſyn yn rhwym, ac ebol gyd â hi; Gollyngwch hwynt, a dygwch attaf: Ac os dywaid neb ddim wrthych, dywedwch, Y mae'n rhaid i'r Arglwydd wrthynt; ac yn y mann efe a'u denfyn hwynt. A hyn oll a wnaethpwyd, fel y cyflawnid yr hyn y ddywedaſid trwy 'r Prophwyd, yn dywedyd, Dywedwch i ferch Sion, Wele, dy frenhin yn dyfod i ti yn addfwyn, ac yn eiſtedd a'r aſyn, ac ebol llwdn aſyn arferol â'r iau. Y diſgyblion a aethant, ac a wnaethant fel y gorchymmynaſai 'r Jeſu iddynt. A hwy a ddygaſant yr aſyn a'r Ebol, ac a ddodaſant eu dillad arnynt, ac a'i goſodaſant ef i eiſtedd ar hynny. A thyrfa ddirfawr a daenaſant eu dillad ar y ffordd, eraill a dorraſant gangau o'r gwŷdd, ac a'u taenaſant ar hŷd y ffordd. A'r torfeydd, y rhai oedd yn myned o'r blaen, a'r rhai oedd yn dyfod ar ôl, a lefaſant gan ddywedyd, Hoſanna i Fâb Dafydd; Bendigedig yw 'r hwn ſydd yn dyfod yn enw 'r Arglwydd, Hoſanna yn y goruchafion. Ac wedi ei ddyfod ef i mewn i Jeruſalem, y ddinas oll a gynhyrfodd, gan ddywedyd, Pwy yw hwn? A'r torfeydd a ddywedaſant, Hwn yw Jeſu y Prophwyd o Nazareth yn Galilea. A'r Jeſu a aeth i mewn i deml Dduw, ac a daflodd allan bawb a'r a oedd yn gwerthu ac yn prynu yn y deml, ac a ddymchwelodd i lawr fyrddau y newidwŷr arian, a chadeiriau y rhai oedd yn gwerthu colomennod; ac a ddywedodd wrthynt, yſgrifennwyd, Tŷ Gweddi y gelwir fy Nhŷ i, eithr chwi a'i gwnaethoch yn ogof lladron.

Yr ail Sûl yn Adfent.

Y Colect.

YGwynfydedig Arglwydd, yr hwn a beraiſt fod yr holl Yſgrythur lân yn yſgrifennedig er mwyn ein hathrawiaeth a'n haddyſg ni: Caniatâ fod i ni yn y cyfryw fodd ei gwrando, ei darllen, ei chwilio, a'i dyſgu, ac i'n mewn ei mwynhâu, fel trwy ammynedd a diddanwch dy gyſſegredig Air, y cofleidiom ac yr ymgynhaliom yn waſtadol wrth fendigaid obaith y fuchedd dragywyddol, yr hon a roddaiſt i ni yn ein Hiachawdwr Jeſu Grist. *Amen.*

Yr Epistol. Rhuf. 15. 4.

PA bethau bynnag a 'Sgrifennwyd o'r blaen, er addyſg i ni yr Yſgrifennwyd hwynt; fel trwy ammynedd a diddanwch yr yſgrythurau, y gallem gael gobaith. A Duw yr ammynedd a'r diddanwch a roddo i chwi ſynnied yr un peth tu ac at eu gilydd, yn ôl Chriſt Jeſu: fel y galloch, yn un fryd, o un genau, ogoneddu Duw, a Thâd ein Harglwydd Jeſu Grist. O herwŷdd pa ham, derbyniwch eu gilydd, megys ag y derbyniodd Criſt ninnau, i ogoniant Duw. Ac yr ŵyf yn dywedyd, wneuthur Jeſu Grist yn Weinidog i'r enwaediad, er mwyn gwirionedd Duw, er mwyn cadarnhâu yr addewidion a wnaethpwyd i'r Tadau. Ac fel y byddai i'r Cenhedloedd ogoneddu Duw am ei drugaredd, fel y mae yn yſgrifennedig; Am hyn y cyffeſaf i ti ym mhlith y cenhedloedd, ac y canaf i'th enw. A thracheſn y mae yn dywedyd, Ymlawen-

wenhêwch genhedloedd, gyd â'i bobl ef. A thrachefn, molwch yr Arglwydd, yr holl genhedloedd; a chlodforwch ef yr holl bobloedd. A thrachefn y mae Eſaias yn dywedyd, Fe fydd gwreiddyn o Jeſſe, a'r hwn a gyfyd i lywodraethu 'r Cenhedloedd, ynddo ef y gobeithia 'r Cenhedloedd. A Duw 'r gobaith a'ch cyflawno o bob llawenydd a thangnefedd gan gredu, fel y cynyddoch mewn gobaith, trwy nerth yr Yſpryd glân.

Yr Eſengyl. S. Luc 21. 25.

A Bydd arwyddion yn yr Haul, a'r Lleuad, a'r Sêr; ac ar y ddaear ing Cenhedloedd, gân gyſyng-gyngor; a'r môr a'r tonnau yn rhuo; a dynion yn llewygu gan ofn, a diſgwyl am y pethau ſy 'n dyfod ar y ddaear: oblegid nerthoedd y nefoedd a yſgydwir. Ac yna y gwelant Fâb y dyn yn dyfod mewn cwmmwl, gyd â gallu a gogoniant mawr. A phan ddechreuo 'r pethau hyn ddyfod, edrychwch i fynu, a chodwch eich pennau; canys y mae eich ymwared yn nesâu. Ac eſe a ddywedodd ddammeg iddynt, Edrychwch ar y ffigysbren, a'r holl brenniau; pan ddeiliant hwy weithian, chwi a welwch ac a wyddoch o honoch eich hunain, fod yr hâf yn agos. Felly chwithau, pan weloch y pethau hyn yn digwydd, gwybyddwch fod teyrnas Dduw yn agos. Yn wir meddaf i chwi nid â yr oes hon heibio, hyd oni ddêl y cwbl i ben. Y nef a'r ddaear a ânt heibio, ond fy ngeiriau i nid ânt heibio ddim.

Y trydydd Sûl yn Adfent.

Y Colect.

O Arglwydd Ieſu Criſt, yr hwn ar dy ddyfodiad cyntaf a anfonaiſt dy genhadwr i barotôi dy ffordd o'th flaen; Caniatâ i weinidogion a goruchwilwŷr dy ddirgeledigaethau felly barotôi ac arloeſi dy ffordd, gan droi calonnau y rhai anufudd i ddoethineb y cyfiawn, fel ar dy ail ddyfodiad i farnu 'r bŷd, y'n caffer yn bobl gymmeradwy yn dy olwg di, yr hwn wyt yn byw ac yn teyrnaſu gyd â'r Tâd a'r Yſbryd glân byth yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 Cor. 4. 1.

FElly cyfrifed dŷn nyni, megis gweinidogion i Criſt, a goruchwilwŷr ar ddirgeledigaethau Duw. Am ben hyn yr ydys yn diſgwyl mewn goruchwilwŷr, gael un yn ffyddlon. Eithr gennyfi bychan iawn yw fy marnu gennych chwi, neu gan farn dŷn: ac nid wyf chwaith yn fy marnu fy hun. Canys ni wn i ddim arnaf fy hun; ond yn hyn ni'm cyfiawnhäwyd; eithr yr Arglwydd yw 'r hwn ſydd yn fy marnu. Am hynny, na fernwch ddim cyn yr amſer, hyd oni ddelo yr Arglwydd, yr hwn a oleua ddirgelion y tywyllwch, ac a eglura ewriadau y calonnau; ac yna y bydd y glôd i bob un gan Dduw.

Yr Eſengyl. S. Math. 11. 2.

AC Ioan, pan glybu yn y carchar weithredoedd Criſt, wedi danfon dau o'i ddiſgyblion, a ddywedodd wrtho, Ai tydi yw 'r hwn ſy 'n dyfod, ai un arall yr ydym yn ei ddiſgwyl? A'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, Ewch, a mynegwch i Ioan y pethau a glywch ac a welwch. Y mae'r deillion yn gweled eilwaith, a'r cloffion yn rhodio, a'r cleifion gwahanol wedi eu glanhâu, ar byddariaid yn clywed; y mae 'r meirw yn cyfodi, a'r tlodion yn cael pregethu 'r Efengyl iddynt; A dedwŷdd yw 'r hwn ni rwyſtrir ynofi. Ac a hwy yn myned ymaith, yr Ieſu a ddechreuodd ddywedyd wrth y bobloedd am Ioan, Pa beth yr aethoch allan i'r anialwch i edrych am dano? A'i corſen yn yſgwyd gan wynt? Eithr pa beth yr aethoch allan i'w weled? a'i dŷn wedi ei wiſgo â dillad eſmwyth? wele, y rhai ſy yn gwiſgo dillad eſmwyth, mewn tai Brenhinoedd y maent. Eithr pa beth yr aethoch allan i'w weled? ai prophwyd? ie, meddaf i chwi, a mwy nâ Phrophwyd. Canys hwn ydyw efe am yr hwn yr yſgrifennwyd, Wele, yr ydwyfi yn anfon fy nghennad o flaen dy wyneb, yr hwn a barottoa dy ffordd o'th flaen.

Y pedwerydd Sûl yn Adfent.

Y Colect.

DYrcha, Arglwydd, attolwg i ti, dy gadernid, a thyred i'n plith, ac â mawr nerth cymmorth ni; fel gan fod arnom, o herwŷdd ein pechodau a'n hanwireddau ddirfawr luddias a rhwyſtr i redeg yr yrfa a oſodir o'n blaen, y byddo i'th ddaioni râd di a'th drugaredd ein cymmorth a'n gwared yn ebrwydd trwy ddiwygiad dy Fâb ein Harglwydd, i'r hwn gyd â thi a'r Yſbryd glân y byddo anrhydedd a gogoniant, yn oes oeſoedd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Phil. 4. 4.

LLawenhêwch yn yr Arglwydd yn waſtadol, a thrachefn meddaf, Llawenhêwch. Bydded eich arafwch yn hyſpys i bob dŷn. Y mae 'r Arglwydd yn agos. Na ofelwch am ddim: eithr ym mhob peth mewn gweddi ac ymbil gyd â diolchgarwch, gwneler eich deiſyfiadau chwi yn hyſpys ger bron Duw. A thangnefedd Dduw yr hwn ſydd uwchlâw pob deall, a geidw eich calonnau a'ch meddyliau yng Nghriſt Ieſu.

Yr Eſengyl. S. Ioan 1. 19.

HON yw tyſtiolaeth Ioan, pan anfonodd yr Iuddewŏn o Jeruſalem Offeiriaid a Leſiaid i ofyn iddo, Pwy wyt ti? Ac efe a gyffeſſodd, ac ni wadodd, a chyffeſſodd, Nid myfi yw'r Criſt. A hwy a ofynnaſant iddo, Beth ynte? ai Elias wyt ti? Yntau a ddywedodd, Nag ê. Ai 'r Prophwyd wyt ti? Ac efe a attebodd, Nag ê. Yna y dywedaſant wrtho, Pwy wyt ti? fel y rhoddom atteb i'r rhai a'n danfonodd. Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am danat dy hun? Eb efe, Myfi yw llef un yn gwaeddi yn y diffeithwch, Uniawnwch ffordd yr Arglwydd; fel y dywedodd Eſay y Prophwyd. Ar rhai a anfonaſid oedd o'r Phariſeaid. A hwy a ofynnaſant iddo, ac a ddywedaſant wrtho, Pa ham gan hynny yr wyt ti yn bedyddio, onid ydwyt ti na'r Criſt, nac Elias, na'r Prophwyd? Ioan a attebodd iddynt, gan ddywedyd, Myfi ſy yn bedyddio â dwfr; ond y mae un yn ſefyll yn eich plith chwi, yr hwn nid adwaenoch chwi. Efe yw 'r hwn ſydd yn dyfod ar fy ôl i, yr hwn a aeth o'm blaen i; yr hwn nid ydwyfi deilwng i ddattod carrai ei eſgid. Y pethau hyn a wnaethpwyd yn Bethabara, y tu hwnt i'r Iorddonen, lle yr oedd Ioan yn bedyddio.

Genedigaeth ein Harglwydd, neu Dŷdd Nadolig Criſt.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a roddaiſt i ni dy unig-anedig Fâb i gymmeryd ein hanian arno, i'w eni ar gyfenw i'r amſer yma o Forwyn bur: Caniatâ i ni gan fod wedi ein had-genhedlu, a'n gwneuthur yn blant i ti trwy ſabwys a rhâd, beunydd ymadnewyddu trwy dy lân Yſbryd, trwy yr unrhyw ein Harglwydd Ieſu Criſt, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyd â thi, a'r unrhyw Yſbryd, byth yn un Duw yn oes oeſoedd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Heb. 1. 1.

DUW, wedi iddo lefaru lawer gwaith, a llawer mŏdd gynt wrth y Tadau trwy y Prophwydi, yn y dyddiau diweddaf hyn a lefarodd wrthym ni yn ei Fâb. Yr hwn a wnaeth efe yn etifedd pob peth, trwy'r hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd. Yr hwn ac efe yn ddiſgleirdeb ei ogo-

niant ef, ac yn wîr lun ei berſon ef, ac yn cynnal pob peth trwy air ei nerth, wedi puro ein pechodau ni trwyddo ef ei hun, a eiſteddodd ar ddeheulaw y mawredd, yn y goruwch-leoedd: wedi ei wneuthur o hynny yn well nâ'r Angylion, o gymmaint ac yr etifeddodd efe enw mwy rhagorol nâ hwynthwy. Canys wrth bwy o'r Angylion y dywedodd efe un amſer, ſy Mâb ydwyt ti, myfi heddyw a'th genhedlais di? A thracheſn, Myfi a fyddaf iddo ef yn Dâd, ac efe a fydd i mi yn Fâb: A thracheſn, pan yw yn dwyn y cyntaf-anedig i'r byd, y mae yn dywedyd, Ac addoled holl Angylion Duw ef. Ac am yr Angylion y mae yn dywedyd, Yr hwn ſydd yn gwneuthur ei Angylion yn yſprydion, a'i weinidogion yn fflam dân. Ond wrth y Mâb, Dy orſeddfaingc di, O Dduw, ſydd yn oes oeſoedd; teyrn-wialen uniondeb yw teyrn-wialen dy deyrnas di. Ti a geraiſt gyfiawnder, ac a gaſeaiſt anwiredd; am hynny y'th enneiniodd Duw, ſef dy Dduw di ac olew gorfoledd tu hwnt i'th gyfeillion. Ac, Tydi yn y dechreuad, Arglwydd, a ſylfaenaiſt y ddaear; a gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd. Hwynt-hwy a ddarfyddant; ond tydi ſydd yn parhâu; a hwynt-hwy oll fel dilledyn a heneiddiant; Ac megys gwiſg y plygi di hwynt, a hwy a newidir: ond tydi yr un ydwyt, a'th flynyddoedd ni phallant.

Yr Efengyl. S. Joan 1. 1.

YN y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyd â Duw, a Duw oedd y Gair. Hwn oedd yn y dechreuad gyd â Duw. Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd. Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd oedd oleuni dynion: A'r goleuni ſydd yn llewyrchu yn y tywyllwch, a'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred. Yr ydoedd gŵr wedi ei anfon oddiwrth Dduw, a'i enw Joan: Hwn a ddaeth yn dyſtiolaeth, ſel y tyſtiolaethai am y goleuni, ſel y credai pawb trwyddo ef. Nid efe oedd y goleuni, eithr efe a anfonaſid fel y tyſtiolaethai am y goleuni. Hwn ydoedd y gwir oleuni, yr hwn ſydd yn goleuo pob dŷn ar y ſydd yn dyfod i'r byd. Yn y byd yr oedd efe, a'r byd a wnaethpwyd trwyddo ef; a'r byd nid adnabu ef. At ei eiddo ei hun y daeth, a'i eiddo ei hun ni dderbyniaſant ef. Ond cynnifer ac a'i derbyniaſant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn Feibion i Dduw, ſef i'r ſawl a gredant yn ei enw ef: Y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gŵr, eithr o Dduw. A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, (ac ni a welſom ei ogoniant ef, gogoniant megys yr unig-anedig oddiwrth y Tâd) yn llawn grâs a gwirioneedd.

Dŷdd gŵyl Sant Stephan.

Y Colect.

GAniatâ i ni, O Arglwydd, yn ein holl ddioddefiadau yma ar y ddaear, o herwŷdd tyſtiolaeth i'th wirionedd di, edrych yn ddyfal tu a'r nêf, a thrwy ffŷdd ganfod y gogoniant a ddadguddir; ac yn llawn o'r Yſbryd glân, ddyſgu caru a bendithio ein herlidwŷr trwy eſampl dy gyn-Ferthyr Sant Stephan, yr hwn a weddiodd dros ei arteithwŷr arnat ti, O Ieſu wynfydedig, yr hwn ŵyt yn eiſtedd ar ddeheulaw Dduw i gymmorth y rhai oll y ſydd yn dioddef er dy fwyn di, ein hunig Gyfryngwr a'n Dadleuwr. *Amen.*

¶ *Yna y canlyn Colect y Nadolig, yr hwn a ddywedir yn waſtad hyd Uchel-ŵyl Dŷdd Calan.*

Yn lle yr Epiſtol. Act. 7. 55.

A Stephan yn gyflawn o'r Yſpryd glân, a edrychodd yn ddyfal tu a'r nêf, ac a welodd ogoniant Duw, a'r Ieſu yn ſefyll ar ddeheulaw Dduw. Ac efe a ddywedodd; wele, mi a welaf y neſoedd yn agored, a Mâb y Dŷn yn ſefyll a'r ddeheu-law Dduw. Yna y gwaeddaſant â llêf uchel, ac a gauaſant eu cluſtiau, ac a ruthraſant yn unfryd arno, ac a'i bwriaſant allan o'r Ddinas, ac a'i llabyddiaſant; a'r tyſtion a ddodaſant eu dillad wrth draed dŷn ieuangc, a elwid Saul. A hwy a labyddiaſant Stephan, ac efe yn galw ar Dduw, ac yn dywedyd, Arglwydd Ieſu, derbyn fy yſpryd. Ac efe a oſtyngodd ar ei liniau ac a lefodd â llêf uchel, Arglwydd, na ddôd y pechod hyn yn eu herbyn. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a hunodd.

Yr Efengyl. S. Math. 23. 34.

WEle, yr ydwyf yn danfon attoch brophwydi, a doethion, ac yſgrifennyddion; a rhai o honynt a leddwch, ac a groeſhoeliwch; a rhai o honynt a ffrewyllwch yn eich Synagogau, ac a erlidiwch o dref i dref: ſel y delo arnoch chwi yr holl waed cyfiawn a'r a ollyngwyd ar y ddaear, o waed Abel gyfiawn, hyd waed Zacharïas, fâb Barachïas, yr hwn a laddaſoch rhwng y deml a'r allor. Yn wîr meddaf i chwi, daw hyn oll ar y genhedlaeth hon. Jeruſalem, Jeruſalem, yr hon wyt yn llâdd y Prophwydi, ac yn llabyddio y rhai a ddanfonir attat; pa ſawl gwaith y mynnaſwn gaſglu dy blant ynghyd, megys y caſgl iâr ei chywion tân ei hadenydd, ac nis mynnech? Wele, yr ydys yn gadael eich tŷ i chwi yn anghyfannedd. Canys meddaf i chwi, Ni'm gwelwch yn ôl hyn, hyd oni ddywedoch, Bendigedig yw yr hwn ſydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd.

Dŷdd gŵyl Sant Joan Efengylwr.

Y Colect.

ARglwydd trugarog, ni a attolygwn i ti fwrw dy ddiſglair belydr goleuni ar dy Eglwys, fel wedi ei goleuo gan athrawiaeth dy wynŷdedig Apoſtol ac Efengylwr Sant Ioan, y gallo hi rodio ſelly yngoleuni dy wirionedd, ſel y delo hi yn y diwedd i oleuni bywyd tragywyddol, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 S. Joan 1. 1.

YR hyn oedd o'r dechreuad, yr hyn a glywſom, yr hyn a welſom â'n llygaid, yr hyn a edrychaſom arno, ac a deimlodd ein dwylaw am air y bywyd: (Canys y bywyd a eglurhawyd, ac ni a welſom, ac ydym yn tyſtiolaethu, ac yn mynegi i chwi y bywyd tragywyddol, yr hwn oedd gyd â'r Tâd, ac a eglurhawyd i ni,) Yr hyn a welſom ac a glywſom, yr ydym yn ei fynegi i chwi, ſel y caffoch chwithau hefyd gymdeithas gyd â ni: a'n cymdeithas ni yn wîr ſydd gyd â'r Tâd, a chyd â'i Fâb ef Ieſu Griſt. A'r pethau hyn yr ydym yn eu hyſgrifennu attoch, ſel y byddo eich llawenydd yn gyflawn. A hon yw'r gennadwri a glywſom ganddo ef, ac yr ydym yn ei hadrodd i chwi, mai goleuni yw Duw, ac nad oes ynddo ddim tywyllwch: O's dywedwn fod i ni gymdeithas ag ef, a rhodio yn y tywyllwch, celŵyddog ydym, ac nid ydym yn gwneuthur y gwirionedd. Eithr o's rhodiwn yn y goleuni, megys y mae efe yn y goleuni, y mae i ni gymdeithas â'n gilydd, a gwaed Ieſu Griſt ei Fâb ef ſydd yn ein glanhâu ni oddiwrth bob pechod. O's dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom. O's cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw efe, a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddiwrth bob anghyfiawnder. O's dywedwn na phechaſom, yr ydym yn ei wneuthur ef yn gelŵyddog, a'i air ef nid yw ynom.

Yr Efengyl. S. Joan 21. 19.

YR Ieſu a ddywedodd wrth Bedr, Canlyn fi. A Phedr a drôdd, ac a welodd y diſgybl yr oedd

oedd yr Ieſu yn ei garu, yn canlyn: yr hwn hefyd a bwyſaſai ar ei ddwyſron ef ar ſwpper, ac a ddywedaſai, Pwy, Arglwydd, yw yr hwn a'th fradycha di? Pan welodd Pedr hwn, efe a ddywedodd wrth yr Ieſu, Arglwydd, ond beth a wnâ hwn? Yr Ieſu a ddywedodd wrtho, O's mynnaf iddo aros hyd oni ddelwyf, beth yw hynny i ti? canlyn di fyfi. Am hynny yr aeth y gair yma allan ym mhlith y Brodyr, na fyddai y diſgybl hwnnw farw: ac ni ddywedaſai yr Ieſu wrtho, na fyddai efe farw; ond, O's mynnaf iddo aros hyd oni ddelwyf beth yw hynny i ti? Hwn yw 'r diſgybl ſydd yn tyſtiolaethu am y pethau hyn, ac a 'ſgrifennodd y pethau hyn, ac ni a ŵyddom ſod ei dyſtiolaeth ef yn wîr. Ac y mae hefyd lawer o bethau eraill a wnaeth yr Ieſu, y rhai ped yſgrifennid hwy bob yn un ac un, nid ŵyf yn tybied y cynhwyſai y bŷd y llyfrau a 'ſgrifennid.

Dŷdd gŵyl y Gwirioniaid.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn o enau plant bychain, a rhai yn ſugno a beraiſt nerth, ac a wnaethoſt i blant aflafar dy ogoneddu trwy farw; Marweiddia a llâdd bob rhyw anwiredd ynom, a nertha ni felly â'th Râs, fel trwy fuchedd ddiniwaid, a ffŷdd ddiyſgog hyd angau, y gogoneddom dy enw bendigedig, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Dadg. 14. 1.

AC mi a edrychais, ac wele Oen yn ſefyll ar fynydd Sion, a chyd ag ef bedair mîl, a ſaith ugainmil, a chanddynt enw ei Dâd ef yn yſgrifennedig yn eu talcennau. Ac mi a glywais lêf o'r nêf, fel llêf dyfroedd lawer, ac fel llêf taran fawr; ac mi a glywais lêf telynorion yn canu ar eu telynau: A hwy a ganaſant megys caniad newŷdd ger bron yr orſeddfaingc, a cher bron y pedwar anifail, a'r Henuriaid; ac ni allodd neb ddyſgu y gân, ond y pedair mîl a'r ſaith ugain mil, y rhai a brynwyd oddi ar y ddaear. Y rhai hyn yw y rhai ni halogwyd â gwragedd, canys gwyryfon ydynt: y rhai hyn yw y rhai ſy 'n dilyn yr oen, pa le bynnag yr elo; y rhai hyn a brynwyd oddiwrth ddynion, yn flaen-ffrwyth i Dduw, ac i'r Oen. Ac yn eu genau ni chaed twyll; canys difai ydynt ger bron gorſeddfaingc Duw.

Yr Efengyl. S. Math. 2. 13.

WEle Angel yr Arglwydd yn ymddangos i Joſeph mewn breuddwyd, gan ddywedyd, Cyſod, cymmer y Mâb bychan a'i Fam; a ffo i'r Aipht, a bydd yno hyd oni ddywedwyf i ti; Canys ceiſio a wnâ Herod y Mâb bychan, i'w ddifetha ef. Ag yntau pan gyfododd, a gymmerth y Mâb bychan a'i Fam o hŷd nôs, ac a giliodd i'r Aipht, ac a fu yno hyd farwolaeth Herod: fel y cyflawnid yr hyn a ddywedpwyd gan yr Arglwydd trwy 'r Prophwyd gan ddywedyd, O'r Aipht y gelwais fy Mâb. Yna Herod pan weles ei ſiommi gan y doethion, a ffrommodd yn aruthr, ac a ddanfonodd ac a laddodd yr holl fechgyn oedd yn Bethlehem, ac yn ei holl gyffiniau, o ddŵy flwydd oed a thân hynny, wrth yr amſer yr ymofynnaſai efe yn fanwl â'r doethion. Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywedaſid gan Jeremïas y Prophwyd, gan ddywedyd, Llef a glybuwyd yn Rama, galar, ac ŵylofain, ac ochain mawr: Rachel yn ŵylo am ei phlant, ac ni fynnai ei chyſſuro, am nad oeddynt.

Y Sûl gwedi'r Nadolig.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a roddaiſt i ni dy unig-anedig Fâb i gymmeryd ein hanian arno, i'w eni ar gyfenw i'r amſer yma o Forŵyn bur; Caniatâ i ni gan fod wedi ein had-genhedlu, a'n gwneuthur yn blant i ti trwy fabwys a rhâd, beunydd ymadnewyddu trwy dy lân Yſbryd, trwy yr unrhyw ein Harglwydd Ieſu Griſt, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyd â thi a'r unrhyw Yſbryd, byth yn un Duw yn oes oeſoedd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Gal. 4. 1.

AHyn yr ŵyf yn ei ddywedyd; dros gymmaint o amſer ac y mae 'r etifedd yn fachgen, nid oes dim rhagor rhyngddo a gwâs er ei fod yn Arglwydd ar y cwbl: Eithr y mae efe dan ymgeleddwŷr a llywodraethwŷr, hyd yr amſer a oſodwyd gan y Tâd. Felly ninnau hefyd, pan oeddym fechgyn, oeddym gaethion dan 'wyddorion y bŷd. Ond pan ddaeth cyflawnder yr amſer, y danfonodd Duw ei Fâb, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur tan y ddeddf; ſel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, ſel y derbyniem y mabwyſiad. Ac o herwŷdd eich bod yn feibion, yr anfonodd Duw Yſpryd ei Fâb i'ch calonnau chwi, yn lleſain, Abba, Dâd. Felly nid ŵyt ti mwy yn wâs, ond yn Fâb: ac o's Mâb, etifedd hefyd i Dduw trwy Griſt.

Yr Efengyl. S. Math. 1. 18.

AGenedigaeth yr Ieſu Griſt oedd fel hyn: wedi dyweddïo Mair ei Fam ef â Joſeph, cyn eu dyfod hwy ynghŷd, hi a gafwyd yn feichiog o'r Yſpryd glân. A Joſeph ei gŵr hi, gan ei fod yn gyfiawn, ac heb chwennych ei gwneuthur hi yn ſiampl, a ewyllyſiodd ei rhoi hi ymaith yn ddirgel. Ac efe yn meddwl y pethau hyn, wele, Angel yr Arglwydd a ymddangoſodd iddo mewn breuddwyd, gan ddywedyd, Joſeph Mâb Dafydd, nac ofna gymmeryd Mair dy wraig; oblegid yr hyn a genhedlwyd ynddi, ſydd o'r Yſpryd glân. A hi a eſgor ar Fâb, a thi a elwi ei enw ef Jeſu; oblegid efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau. (A hyn oll a wnaethpwyd, fel y cyflawnid yr hyn a ddywetpwyd gan yr Arglwydd trwy 'r Prophwyd, gan ddywedyd, Wele, Morŵyn a fydd feichiog, ac a eſgor ar Fâb, a hwy a alwant ei enw ef Emmanuel, yr hyn o'i gyfieithu, yw, Duw gyd â ni.) A Joſeph pan ddeffroes o gŵſg, a wnaeth megys y gorchymynaſai Angel yr Arglwydd iddo, ac a gymmerodd ei wraig. Ac nid adnabu efe hi, hyd oni eſgorodd hi ar ei Mâb cyntaf-anedig; a galwodd ei enw ef Ieſu.

Dŷdd Enwaediad Criſt.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a wnaethoſt i'th wynfydedig Fâb dderbyn enwaediad, a bod yn ufudd i'r Ddeddf er mwyn Dŷn: Caniatâ i ni iawn enwaediad yr Yſbryd, fel y bô i'n calonnau, a'n holl aelodau, (wedi eu marwolaethu oddi wrth bob bydol a chnawdol anwŷdau) allu ym mhob rhyw beth ufuddhâu i'th wynfydedig ewyllys, trwy 'r unrhyw dy Fâb Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Rhuf. 4. 8.

DEdwŷdd yw y gŵr nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo. A ddaeth y dedwyddwch hwn, gan hynny, ar yr enwaediad yn unig, ynte ar y dienwaediad hefyd? Canys yr ydym yn dywedyd, ddarfod cyfrif ffŷdd i Abraham yn gyfiawnder. Pa fodd gan hynny y cyfrifwyd hi? Ai pan oedd yn yr enwaediad, ynte yn y dienwaediad? Nid yn yr enwaediad, ond yn y dienwaediad. Ac efe a gymmerth arŵydd yr enwaediad, yn inſel cyfiawnder y ffŷdd, yr hon oedd ganddo yn y dienwaediad; fel y byddai efe yn dâd pawb a gredent, yn y dienwaediad; fel y cyfrifid cyfiawnder iddynt hwythau hefyd; ac yn Dâd yr enwaediad, nid i'r rhai o'r enwaediad yn unig, onid i'r ſawl hefyd a gerddant lwybrau ffŷdd Abraham

braham ein Tâd ni, yr hon oedd ganddo yn y dienwaediad. Canys nid trwy'r ddeddf y daeth yr addewid i Abraham, neu i'w hâd, y byddai efe yn etifedd y bŷd, eithr trwy gyfiawnder ffŷdd. Canys o's y rhai ſydd o'r ddeddf, yw'r etifeddion, gwnaed ffydd yn ofer, a'r addewid yn ddirym.

Yr Efengyl. S. Luc 2. 15.

A Bu, pan aeth yr Angylion ymaith oddiwrth y Bugail-ddynion i'r nêf, ddywedyd o honynt wrth eu gilydd, awn ninnau hyd Bethlehem, a gwelwn y peth hyn a wnaethpwyd, yr hwn a hyſpyſodd yr Arglwydd i ni. A hwy a ddaethant ar frys, ac a gawſant Mair a Joſeph, a'r dŷn bâch yn gorwedd yn y preſeb. A phan welſant, hwy a gyhoeddaſant y gair a ddywedaſid wrthynt am y bachgen hwn. A phawb a'r a'u clywſant, a ryfeddaſant am y pethau a ddywedaſid gan y bugeiliaid wrthynt. Eithr Mair a gadwodd y pethau hyn oll, gan eu hyſtyried yn ei chalon. A'r bugeiliaid a ddychwelaſant, gan ogoneddu a moliannu Duw am yr holl bethau a glywſent, ac a welſent, fel y dywedaſid wrthynt. A phan gyflawnŵyd ŵyth niwrnod i enwaedu ar y dŷn bâch, galwyd ei enw ef Ieſu, yr hwn a enwaſid gan yr Angel, cyn ei ymddwyn ef yn y grôth.

¶ *Yr un Colect, Epiſtol, ac Efengyl, a gaiff waſanaethu bob dydd ar ôl hyn, hyd at yr Ystwyll.*

Dydd gŵyl Ystwyll neu'r Seren-ŵyl, ſef Ymddadgudd Criſt i'r Cenhedloedd.

Y Colect.

O Dduw, yr hwn trwy dywyſiad ſeren a ddangoſaiſt dy unig-anedig Fâb i'r cenhedloedd, Caniatâ yn drugarog i ni y ſawl ydym i'th adnabod yr awr hon trwy ffydd, allu yn ôl y fuchedd hon gael mwyniant dy ogoneddus Dduwdod, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Epheſ. 3. 1.

ER mwyn hyn myfi Paul, carcharor Ieſu Griſt troſoch chwi y Cenhedloedd, o's clywſoch am oruchwyliaeth grâs Duw, yr hon a roddwyd i mi tu ag attoch chwi: mai trwy ddatguddiad yr hyſpyſodd efe i mi y dirgelwch (megys yr yſgrifennais o'r blaen ar ychydig eiriau, wrth yr hyn y gellwch pan ddarlleno chwi bŵybod fy neall i yn nirgelwch Criſt) yr hwn yn oeſoedd eraill ni's eglurwyd i feibion dynion, fel y mae'r awrhon wedi ei ddatguddio i'w ſanctaidd Apoſtolion a'i Brophwydi trwy'r Yſpryd; y byddai'r cenhedloedd yn gŷd-etifeddion, ac yn gŷd-gorph, ac yn gŷd-gyfrannogion o'i addewid ef yng Nghriſt trwy'r Efengyl: i'r hon y'm gwnaed i yn weinidog yn ôl rhôdd grâs Duw, yr hwn a roddwyd i mi yn ôl grymmus weithrediad ei allu ef. I mi, y llai nâ'r lleiaf o'r holl Saint y rhoddwyd y grâs hyn, i efengylu, ym mŷſg y Cenhedloedd, anchwiliadwy olud Criſt; ac i egluro i bawb, beth yw cymdeithas y dirgelwch, yr hwn oedd guddiedig o ddechreuad y bŷd yn Nuw, yr hwn a greodd bob peth trwy Ieſu Griſt: Fel y byddai'r awrhon yn hyſpys i'r tywyſogaethau, ac i'r awdurdodau, yn y neſolion leoedd, trwy'r Eglwys, fawr amryw ddoethineb Duw; yn ôl yr arfaeth dragywyddol yr hon a wnaeth efe yng Nghriſt Ieſu ein Harglwydd ni: yn yr hwn y mae i ni hyfdra, a dyfodfa mewn hyder trwy ei ffydd ef.

Yr Efengyl. S. Math. 2. 1.

AC wedi geni yr Ieſu yn Bethlehem Judea, yn nyddiau Herod frenhin, wele, doethion a ddaethant o'r dwyrain i Jeruſalem, gan ddywedyd, pa le y mae'r hwn a anwyd yn Frenhin yr Iuddewon? canys gwelſom ei ſeren ef yn y dwyrain, a daethom i'w addoli ef. Ond pan glybu Herod frenhin, efe a gyffröwyd, a holl Jeruſalem gyd ag ef. A chwedi dwyn ynghŷd yr holl Archoffeiriaid a'ſgrifennyddion y bobl, efe a ymofynnodd â hwynt, pa le y genid Criſt. A hwy a ddywedaſant wrtho, yn Bethlehem Judea: canys felly'r yſgrifenwyd trwy'r Prophwyd, A thithau Bethlehem tir Juda, nid lleiaf wyt ym mhlith tywyſogion Juda, canys o honot ti y daw Tywyſog yr hwn a fugeilia fy mhobl Iſrael. Yna Herod, wedi galw'r doethion yn ddirgel, a'u holodd hwynt yn fanwl am yr amſer yr ymddangoſaſai'r ſeren. Ac wedi eu danfon hwy i Bethlehem, efe a ddywedodd, Ewch, ac ymofynnwch yn fanwl am y Mâb bychan, a phan gaffoch ef, mynegwch i mi, fel y gallwyf finnau ddyfod, a'i addoli ef. Hwythau wedi clywed y Brenhin, a aethant; ac wele y ſeren a welſent yn y dwyrain, a aeth o'u blaen hwy, hyd oni ddaeth hi a ſefyll goruwch y lle yr oedd y mâb bychan. A phan welſant y ſeren, llawenhaſant â llawenydd mawr dros ben. A phan ddaethant i'r tŷ, hwy a welſant y Mâb bychan gyd â Mair ei Fam, a hwy a ſyrthiaſant i lawr, ac a'i haddolaſant ef: Ac wedi agoryd eu tryſorau, a offrymmaſant iddo anrhegion; aur, a thus, a myrr. Ac wedi eu rhybuddio hwy gan Dduw trwy freuddwyd, na ddychwelent at Herod, hwy a aethant drachefn i'w gwlâd ar hŷd ffordd arall.

Y Sûl cyntaf gwedi'r Ystwyll.

Y Colect.

O Arglwydd, nyni a attolygwn i ti dderbyn yn drugarog weddiau dy bobl ſydd yn galw arnat: a chaniatâ iddynt ddeall a gwybod yr hyn a ddylent ei wneuthur, a chael hefyd râs a gallu yn ffyddlon i wneuthur yr unrhyw, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Rhuf. 12. 1.

AM hynny yr ŵyf yn attolwg i chwi, frodyr, er trugareddau Duw, roddi o honoch eich cyrph yn aberth byw, ſanctaidd, cymmeradwy gan Dduw; yr hyn yw eich rheſymmol waſanaeth chwi. Ac na chŷd-ymffurfiwch â'r bŷd hwn; eithr ymnewidiwch trwy adnewyddiad eich meddwl, fel y profoch beth yw daionus, a chymeradwy, a pherffaith ewyllys Duw. Canys yr ŵyf yn dywedyd, trwy'r grâs a roddwyd i mi, wrth bob un ſydd yn eich plith, na byddo i nêb uchel-ſynied yn amgen nac y dylid ſynied, eithr ſynied i ſobrwydd, fel y rhannodd Duw i bob un feſur ffydd. Canys megys y mae gennym aelodau lawer mewn un corph, ac nad oes gan yr holl aelodau yr un ſwydd: Felly ninnau, a ni yn llawer, ydym un corph yng Nghriſt, a phob un yn aelodau o'n gilydd.

Yr Efengyl. S. Luc 2. 41.

RHieni yr Ieſu a aent i Jeruſalem bob blwyddyn, ar ŵyl y Paſg. A phan oedd efe yn ddeuddeng mlwydd oed, hwynt-hwy a aethant i fynu i Jeruſalem yn ôl defod yr ŵyl. Ac wedi gorphen y dyddiau, a hwy yn dychwelyd, arhoſodd y bachgen Ieſu yn Jeruſalem, ac ni ŵyddai Joſeph a'i fam ef. Eithr gan dybied ei fod ef yn y fintai, hwy a aethant daith diwrnod, ac a'i ceiſiaſant ef ymhlith eu cenedl a'u cydnabod. A phrŷd na chawſant ef, hwy a ddychwelaſant i Jeruſalem, gan ei geiſio ef. A bu, yn ôl tridiau, gael o honynt hwy ef yn y Deml, yn eiſtedd ynghanol y Doctoriaid, yn gwrando arnynt, ac yn eu holi hwynt. A ſynnu a wnaeth ar bawb ar a'i clywſant ef, o herwydd ei ddeall ef a'i attebion. A phan welſant ef, bu aruthr ganddynt: a'i fam a ddywedodd wrtho, Fy Mâb, pa ham y gwnaethoſt felly â ni? wele, dy dâd a minnau yn ofidus a'th geiſiaſom di. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa ham y ceiſiech fi? oni ŵyddech fod yn rhaid i mi

fod

ſod ynghŷlch y pethau a berthyn i'm Tâd? A hwy ni ddealliaſant y gair a ddywedaſai eſe wrthynt. Ac eſe a aeth i wared gyd â hwynt, ac a ddaeth i Nazareth, ac a fu oſtyngedig iddynt. A'i fam ef a gadwodd yr holl eiriau hyn yn ei chàlon. A'r Ieſu a gynnyddodd mewn doethineb, a chorpholaeth, a ffaſr gyd â Duw a dynion.

Yr ail Sûl gwedi'r Yſtwyll.

Y Colect.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn ŵyt yn llywiaw pob peth yn y nêf a'r ddaear; Clyw yn drugarog eirchion dy bobl, a chaniatâ i ni dy dangnefedd holl ddyddiau 'n bywyd, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Rhuf. 12. 6.

GAN fod i ni amryw ddoniau, yn ôl y grâs a roddwyd i ni, pa un bynnag ai prophwydoliaeth, prophwydwn yn ôl cyſſondeb y ffŷdd; Ai gweinidogaeth, byddwn ddyſal yn y weinidogaeth; neu 'r hwn ſydd yn athrawiaethu, yn yr athrawiaeth. Neu 'r hwn ſydd yn cynghori, yn y cyngor; yr hwn ſydd yn cyfrannu, gwnaed mewn ſymlrwydd; yr hwn ſydd yn Llywodraethu, mewn diwydrwydd; yr hwn ſydd yn trugarhâu, mewn llawenydd. Bydded cariad yn ddiragrith: caſêwch y drŵg, a glynwch wrth y dâ. Mewn cariad brawdol byddwch garedig i'ch gilydd, yn rhoddi parch, yn blaenori eich gilydd: Nid yn ddiog mewn diwydrwydd; yn wreſog yn yr yſpryd, yn gwaſanaethu yr Arglwydd; Yn llawen mewn gobaith, yn ddioddefgar mewn cyſtudd; yn dyfal barhàu mewn gweddi; yn cyfrannu i gyfreidiau 'r Saint: ac yn dilyn llettygarwch. Bendithiwch y rhai ſydd yn eich ymlid; bendithiwch ac na felldithiwch. Byddwch lawen gyd â'r rhai ſydd lawen, ac ŵylwch gyd â'r rhai ſy 'n ŵylo. Byddwch yn unfryd a'ch gilydd: heb roi eich meddwl ar uchel-bethau, eithr yn gŷdoſtyngedig â'r rhai iſel-râdd,

Yr Efengyl. S. Ioan. 2. 1.

A'R Trydydd dŷdd yr oedd priodas yn Cana Galilea, a Mam yr Ieſu oedd yno. A galwyd yr Ieſu hefyd a'i ddiſgyblion i'r briodas. A phan ballodd y gwîn, mam yr Ieſu a ddywedodd wrtho ef, Nid oes ganddynt mo'r gwîn. Ieſu a ddywedodd wrthi, Beth ſydd i mi a wnelwyf â thi, wraig? ni ddaeth fy awr i etto. Ei fam ef a ddywedodd wrth y gwaſanaethwŷr, Beth bynnag a ddywedo efe wrthych, gwnewch. Ac yr oedd yno chwêch o ddyfr-leſtri meini, wedi eu goſod, yn ôl defod puredigaeth yr Iuddewon, y rhai a ddalient bob un, ddau ffircyn neu dri. Ieſu a ddywedodd wrthynt, Llenwch y dyfr-leſtri o ddwfr. A hwy a'u llanwaſant hyd yr ymyl. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Gollyngwch yn awr, a dygwch at lywodraethwr y wlêdd. A hwy a ddygaſant. A phan brofodd llywodraethwr y wlêdd y dwfr a wnaethid yn win, (ac ni wyddai o ba le yr ydoedd, eithr y gwaſanaethwŷr, y rhai a ollyngaſent y dwfr a wyddent) llywodraethwr y wlêdd a alwodd ar y priod-fâb, ac a ddywedodd wrtho, Pob dŷn a eſyd y gwîn da yn gyntaf, ac wedi iddynt yfed yn dda, yna un a ſo gwaeth: tithau a gedwaiſt y gwîn da hyd yr awr hon. Hyn o ddechrau gwyrthiau a wnaeth yr Ieſu yn Cana Galilea, ac a eglurodd ei ogoniant, a'i ddiſgyblion a gredaſant ynddo.

Y trydydd Sûl gwedi'r Yſtwyll.

Y Colect.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, edrych yn drugarog ar ein gwendid: ac yn ein holl beryglon a'n hanghenion, eſtyn dy ddeheulaw i'n cymmorth ac i'n hamddiffyn, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Rhuf. 12. 16.

NA fyddwch ddoethion yn eich tŷb eich hunain. Na thelwch i neb ddrŵg am ddrŵg. Darperwch bethau oneſt yngolwg pob dŷn. O's yw boſſibl, hyd y mae ynoch chwi, byddwch heddychlawn â phob dŷn. Nac ymddielwch, rai anwyl, onid rhoddwch le i ddigofaint: canys y mae yn yſgrifennedig, I mi y mae dîal; myfi a dalaf, medd yr Arglwydd. Am hynny, o's dy elyn a newyna, portha ef; os ſycheda, dyro iddo ddiod: canys wrth wneuthur hyn, ti a bentyrri farwor tanllyd am ei ben ef. Na orchfyger di gan ddrygioni, eithr gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni.

Yr Efengyl. S. Math. 8. 1.

GWedi dyfod Ieſu i wared o'r mynydd, torſe-ydd lawer a'i canlynaſant ef. Ac wele, un gwahan-glwyfus a ddaeth, ac a'i haddolodd ef, gan ddywedyd, Arglwydd, o's mynni, ti a elli fy nglanhâu i. A'r Ieſu a eſtynnodd ei law, ac a gyffyrddodd ag ef, gan ddywedyd, Mynnaf, glanhâer di. Ac yn y fann ei wahan-glwyf ef a lanhâwyd. A dywedodd yr Ieſu wrtho, Gwêl na ddywedych wrth neb; eithr dôs, dangos dy hun i'r Offeiriad, ac offrymma y rhôdd a orchymmynodd Moſes, er tyſtiolaeth iddynt. Ac wedi dyfod yr Ieſu i mewn i Capernäum, daeth atto Ganwriad, gan ddeiſyfu arno, a dywedyd, Arglwydd, y mae fy ngwâs yn gorwedd gartref yn glâf o'r parlys, ac mewn poen ddirfawr. A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, Mi a ddeuaf, ac a'i hiachâf ef. A'r Canwriad a attebodd, ac a ddywedodd, Arglwydd, nid ydwyfi deilwng i ddyfod o honot tan fy nghronglwyd: eithr yn unig dywed y gair, a'm gwâs a iacheir. Canys dŷn ydwyf finnau dan awdurdod, a chennyf filwŷr danaf; a dywedaf wrth hwn cerdda, ac eſe a â; ac wrth arall, tyred, ac eſe a ddaw; ac wrth fy ngwâs, Gwnâ hyn, ac eſe a'i gwnâ. A'r Ieſu pan glybu a ryfeddodd, ac a ddywedodd wrth y rhai oedd yn canlyn, Yn wir meddaf i chwi; ni chefais gymmaint ffŷdd, na ddo yn yr Iſrael. Ac yr ydwyf yn dywedyd i chwi y daw llawer o'r dwyrain a'r gorllewin, ac a eiſteddant gyd ag Abraham, ac Iſaac, a Iacob, yn nheyrnas nefoedd: Ond plant y deyrnas a deflir i'r tywyllwch eithaf; yno y bydd ŵylofain a rhingcian dannedd. A dywedodd yr Ieſu wrth y Canwriad, dôs ymaith, ac megys y credaiſt, bydded i ti. A'i wâs a iachâwyd yn yr awr honno.

Y pedwerydd Sûl gwedi'r Yſtwyll.

Y Colect.

ODduw, yr hwn a ŵyddoſt ein bod ni wedi ein goſod mewn cymmaint a chynnifer o beryglon, fel na's gallwn o herwŷdd gwendid ein dynol anian, ſefyll bob amſer yn uniawn; caniatâ i ni y cyfryw dy nerth a'th nodded, i'n cymmorth ymhôb perygl, ac i'n harwain trwy bob profedigaeth, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Rhuf. 13. 1.

YMddaroſtynged pob enaid i'r awdurdodau goruchel; canys nid oes awdurdod onid oddiwrth Dduw: a'r awdurdodau ſydd, gan Dduw y maent wedi eu hordeinio. Am hynny, pwy bynnag ſydd yn ymoſod yn erbyn yr Awdurdod, ſydd yn gwrthwynebu ordinhâd Duw; a'r rhai a wrthwynebant, a dderbyniant farnedigaeth iddynt eu hunain. Canys tywyſogion nid ydynt ofn i weithredoedd da, eithr i'r rhai drŵg. A fynni di nad ofnech yr awdurdod? gwnâ 'r hyn ſydd dda, a thi a gai glôd ganddo. Canys gweinidog Duw ydyw efe i ti er daioni. Eithr o's gwnei ddrŵg, ofna; canys nid yw efe yn dwyn y cleddyf yn

ofer; Oblegid gweinidog Duw yw efe, dïalydd llîd i'r hwn ſydd yn gwneuthur drŵg. Herwŷdd pa ham, anghenrhaid yw ymddaroſtwng, nid yn unig o herwydd llîd, eithr o herwŷdd cydwybod hefyd. Canys am hyn yr ydych yn talu teyrn-ged hefyd; oblegid gwaſanaethwŷr Duw ydynt hwy, yn gwylied ar hyn yma. Telwch gan hynny i bawb eu dyledion; teyrn-ged i'r hwn y mae teyrn-ged yn ddyledus; toll i'r hwn y mae toll; ofn i'r hwn y mae ofn; parch i'r hwn y mae parch yn ddyledus.

Yr Efengyl. S. Math. 8. 23.

AC wedi iddo fyned i'r llong, ei ddiſgyblion a'i canlynaſant ef. Ac wele, bu gynnwrf mawr yn y môr, hyd oni chuddiwyd y llong gan y tonnau: eithr efe oedd yn cyſgu. A'i ddiſgyblion a ddaethant atto, ac a'i deffroaſant, gan ddywedyd, Arglwydd, cadw ni, darfu am danom. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa ham yr ydych yn ofnus, O chwi o ychydig ffŷdd? Yna y cododd efe, ac y ceryddodd y gwyntoedd a'r môr, a bu dawelwch mawr. A'r dynion a ryfeddaſant, gan ddywedyd, Pa ryw un yw hwn, gan fod y gwyntoedd hefyd, a'r môr yn ufuddhâu iddo? Ac wedi ei ddyfod ef i'r lann arall, i wlâd y Gergeſiaid, dau ddieflig a gyfarfuant ag ef, y rhai a ddeuent o'r beddau, yn dra ffyrnig, fel na allai neb fyned y ffordd honno. Ac wele, hwy a lefaſant, gan ddywedyd, Ieſu Fâb Duw, beth ſydd i ni a wnelom â thi? a ddaethoſt ti yma i'n poeni ni cyn yr amſer? Ac yr oedd ym mhell oddiwrthynt genfaint o fôch lawer yn pori. A'r cythreuliaid a ddeiſyfiaſant arno, gan ddywedyd, O's bwri ni allan, caniatâ i ni fyned ymaith i'r genfaint fôch. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch: A hwy wedi myned allan, a aethant i'r genfaint fôch. Ac wele, yr holl genfaint fôch a ruthrodd tros y dibyn i'r môr, ac a fuant feirw yn y dyfroedd. A'r meichiaid a ffoiſant, ac wedi eu dyfod hwy i'r ddinas, hwy a fynegaſant bob peth, a pha beth a ddarfuaſai i'r rhai dieflig. Ac wele, yr holl ddinas a ddaeth allan i gyfarfod â'r Ieſu: a phan ei gwelſant, attolygaſant iddo ymadael o'u cyffiniau hwynt.

Y pummed Sûl gwedi 'r Yſtwyll.

Y Colect.

OArglwydd, ni a attolygwn i ti gadw dy Eglwys a'th deulu yn waſtad yn dy wir grefydd, fel y gallont hwy oll y ſawl ſydd yn ymgynnal yn unig wrth obaith dy nefol râs, byth gael nawdd dy ddiogel amddiffyn, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Col. 3. 12.

MEgys etholedigion Duw, ſanctaidd ac anwyl, gwiſgwch am danoch ymmyſgaroedd trugareddau, cymmwynaſgarwch, goſtyngeiddrwydd, addfwynder, ymaros; gan gŷd-ddwyn â'ch gilydd, a maddau i'ch gilydd, os bydd gan neb gweryl yn erbyn neb: megys ac y maddeuodd Criſt i chwi, felly gwnewch chwithau. Ac am ben hyn oll, gwiſgwch gariad, yr hwn yw rhwymyn perffeithrwydd. A llywodraethed tangnefedd Dduw yn eich calonnau, i'r hwn hefyd y'ch galwyd yn un corph; a byddwch ddïolchgar. Preſwylied gair Criſt ynoch yn helaeth, ym mhob doethineb; gan ddyſgu, a rhybuddio bawb ech gilydd mewn Salmau, a hymnau ac odlau yſprydol, gan ganu trwy râs yn eich calonnau i'r Arglwydd. A pha beth bynnag a wneloch ar air, neu ar weithred, gwnewch bob peth yn enw 'r Arglwydd Ieſu, gan ddiolch i Dduw a'r Tâd trwyddo ef.

Yr Efengyl, S. Math. 13. 24.

TEyrnas nefoedd ſydd gyffelyb i ddŷn a hauodd hâd da yn ei faes. A thra yr oedd y dynion yn cyſgu, daeth ei elyn ef, ac a hauodd efrau ym mhlith y gwenith, ac a aeth ymaith. Ac wedi i'r eginyn dyfu, a dwyn ffrwyth, yna 'r ymddangoſodd yr efrau hefyd. A gweiſion gŵr y tŷ a ddaethant, ac a ddywedaſant wrtho, Arglwydd, oni hauaiſt ti hâd da yn dy faes? O ba le gan hynny y mae 'r efrau ynddo? Yntau a ddywedodd wrthynt, y gelyn ddŷn a wnaeth hyn. A'r gweiſion a ddywedaſant wrtho, a fyni di gan hynny i ni fyned, a'u caſglu hwynt? Ac efe a ddywedodd, na ſynnaf: rhag i chwi wrth gaſglu 'r efrau, ddiwreiddio 'r gwenith gyd â hwynt. Gadewch i'r ddau gŷd-tyfu hyd y cynhauaf; ac yn amſer y cynhauaf y dywedaf wrth y medelwŷr, Ceſglwch yn gyntaf yr efrau, a rhwymwch hwynt yn yſgubau i'w llwyr loſgi; ond ceſglwch y gwenith i'm hyſgubor.

Y chweched Sûl gwedi 'r Yſtwyll.

Y Colect.

ODduw, bendigedig Fâb yr hwn a ymddangoſodd, fel y dattodai weithredoedd Diafol, ac y gwnae ni yn feibion i Dduw, ac yn etifeddion bywyd tragywyddol; Caniatâ i ni, ni a attolygwn i ti, gan fod gennym y gobaith hyn, ein puro ein hunain, megis y mae yntau yn bûr; fel pan yr ymddangoſo eilwaith gyd â nerth a gogoniant mawr, y'n gwneler yn gyffelyb iddo ef yn ei dragywyddol a'i ogoneddus deyrnas; Ym mha un gyd â thi, O Dâd, a chyd â thi, O Yſbryd glân, y mae efe yn byw ac yn teyrnaſu byth yn un Duw heb drangc na gorphen. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 S. Ioan. 3. 1.

GWelwch pa fath gariad a roes y Tâd arnom, fel y'n gelwid yn Feibion i Dduw: o blegid hyn nid edwyn y bŷd chwi o blegid nad adnabu efe ef. Anwylyd, yr awrhon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd etto beth a fyddwn: eithr ni a wyddom pan ymddangoſo ef, y byddwn gyffelyb iddo; o blegid ni a gawn ei weled ef megys ag y mae. Ac y mae pob un ſydd ganddo y gobaith hyn ynddo ef, yn ei buro ei hun, megys y mae yntau yn bûr. Pob un ac ſydd yn gwneuthur pechod, ſydd hefyd yn gwneuthur anghyfraith: o blegid anghyfraith yw pechod. A chwi a wyddoch ymddangos o honaw ef, fel y dileai ein pechodau ni; ac ynddo ef nid oes bechod. Pob un ac ſydd yn aros ynddo ef, nid yw yn pechu; pob un ac ſydd yn pechu, ni's gwelodd ef, ac ni's adnabu ef. O blant bychain, na thwylled neb chwi; yr hwn ſydd yn gwneuthur cyfiawnder, ſydd gyfiawn, megys y mae yntau yn gyfiawn. Yr hwn ſydd yn gwneuthur pechod, o ddiawl y mae; canys y mae diawl yn pechu o'r dechreuad. I hyn yr ymddangoſodd Mâb Duw, fel y dattodai weithredoedd diawl.

Yr Efengyl. S. Math. 24. 23.

YNa o's dywaid neb wrthych, wele dyma Griſt, neu dyna: na chredwch. Canys cyfyd gau-Griſtiau a gau-brophwydi, ac a roddant arwyddion mawrion a rhyfeddodau; hyd oni thwyllant, pe byddai boſſibl, ïe yr etholedigion. Wele, rhag-ddywedais i chwi. Am hynny o's dywedant wrthych, Wele, y mae efe yn y diffeithwch, nac ewch allan: Wele, yn y ſtafelloedd; na chredwch. O blegid fel y daw y fellten o'r dwyrain, ac y tywynna hyd y gorllewin: felly hefyd y bydd dyfodiad Mâb y dŷn. Canys pa le bynnag y byddo y gelain, yno 'r ymgaſgl yr eryrod. Ac yn y fann, wedi gorthrymder y dyddiau hynny, y tywyllir yr haul, a'r lleuad ni rydd ei goleuni, a'r ſêr a fyrth o'r nêf, a nerthoedd y nefoedd a yſgydwir. Ac yna 'r ymddengys arwydd Mâb y dŷn ya y nêf: ac yna y galara holl lwythau 'r ddaear, a hwy a welant fâb y dŷn yn dyfod ar gymmylau 'r nêf, gyd â nerth a gogoniant mawr. Ac efe a ddenfyn ei Angylion â mawr ſain udgorn,

a

a hwy a gaſglant ei etholedigion ef ynghŷd o'r pedwar gwynt, o eithafoedd y nefoedd, hyd eu heithafoedd hwynt.

Y Sûl a elwir Septuagesima, neu y trydydd Sûl cyn y Garawys.

Y Colect.

OArglwydd, ni a attolygwn i ti wrando yn ddarbodus weddiau dy bobl, fel y byddo i ni y rhai a gofbir yn gyfiawn am ein camweddau, yn drugarog gael ein hymwared gan dy ddaioni di; er gogoniant dy Enw, trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr, yr hwn ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu gyd â thi a'r Yſbryd glân, byth yn un Duw heb drangc na gorphen, yn oes oeſoedd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 Cor. 9. 24.

ONi wyddoch chwi fod y rhai ſy yn rhedeg mewn gyrfa, i gŷd yn rhedeg, ond bod un yn derbyn y gamp? Felly rhedwch fel y caffoch afael. Ac y mae pob un a'r ſydd yn ymdrechu, yn ymgadw ym mhob peth; a hwynt-hwy yn wir, fel y derbynjont goron lygredig, eithr nyni, un anllygredig. Yr wyfi gan hynny felly yn rhedeg, nid megys ar amcan; felly yr wyf yn ymdrechu, nid fel un yn curo awyr. Ond yr wyfi yn coſpi fy nghorph, ac yn ei ddwyn yn gaeth, rhag i mi mewn un môdd, wedi i mi bregethu i eraill, fod fy hun yn anghymeradwy.

Yr Efengyl. S. Math. 20, 1.

TEyrnas nefoedd ſydd debyg i ŵr o berchen tŷ, yr hwn a aeth allan a hi yn dyddhâu, i gyflogi gweithwŷr i'w winllan. Ac wedi cyttuno, a'r gweithwŷr er ceiniog y dŷdd, efe a'u hanfonodd hwy i'w winllan. Ac efe a aeth allan ynghŷlch y drydedd awr, ac a welodd eraill yn ſefyl yn ſegur yn y farchnadfa; ac a ddywedodd wrthynt, Ewch chwithau i'r winllan, a pha beth bynnag a fyddo cyfiawn, mi a'i rhoddaf i chwi. A hwy a aethant ymaith. Ac efe a aeth allan drachefn ynghŷlch y chweched ar nawfed awr, ac a wnaeth yr un môdd, Ac efe a aeth allan ynghŷlch yr unfed awr ar ddêg, ac a gafas eraill yn ſefyll yn ſegur, ac a ddywedodd wrthynt, Pa ham y ſefwch chwi yma ar hŷd y dŷdd yn ſegur? Dywedaſant wrtho, Am na chyflogodd neb nyni. Dywedodd yntau wrthynt, Ewch chwithau i'r winllan, a pha beth bynnag a fyddo cyfiawn, chwi a'i cewch. A phan aeth hi yn hwyr, Arglwydd y winllan a ddywedodd wrth ei oruchwiliwr, Galw 'r gweithwŷr, a dyro iddynt eu cyflog, gan ddechreu o'r rhai diweddaf, hyd y rhai cyntaf. A phan ddaeth y rhai a gyflogaſid, ynghŷlch yr unfed awr ar ddêg, hwy a gawſant bob un geiniog. A phan ddaeth y rhai cyntaf, hwy a dybiaſant y caent fwy; A hwythau a gawſant bob un geiniog. Ac wedi iddynt gael, grwgnach a wnaethant yn erbyn gŵr y tŷ, gan ddywedyd, Un awr y gweithiodd y rhai olaf hyn, a thi a'u gwnaethoſt hwynt yn gyſtal a ninnau, y rhai a ddygaſom bwys y dŷdd a'r gwrês. Yntau a attebodd ac a ddywedodd wrth un o honynt, Y cyfaill, nid ydwyf yn gwneuthur cam â thi: onid er ceiniog y cyttunaiſt â mi? Cymmer yr hyn ſydd eiddot, a dos ymaith: yr ydwyf yn ewyllyſio rhoddi i'r olaf hwn megys i tithau. Ai nid cyfreithlawn i mi wneuthur a fynnwyf â'r eiddof fy hun? neu a ydyw dy lygad ti yn ddrŵg, am fy mod i yn dda? Felly y rhai olaf fyddant yn flaenaf, a'r rhai blaenaf yn olaf: canys llawer ſy wedi eu galw, ac ychydig wedi eu dewis.

Y Sul a elwir Sesagesima, neu 'r ail Sûl cyn y Garawys.

Y Colect.

OArglwydd Dduw, yr hwn a weli nad ydym ni yn ymddiried mewn un weithred a wnelom: Caniatâ yn drugarog fod i ni trwy dy nerth gael ein hamddiffyn rhag pob gwrthwyneb, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 2 Cor. 11. 19.

YR ydych yn goddef ffyliaid yn llawen, gan fôd eich hunain yn ſynhwyrol: Canys yr ydych yn goddef o's bydd un i'ch caethiwo, o's bydd un i'ch llwyr fwytta, o's bydd un yn cymmeryd gennych, o's bydd un yn ymddyrchaſu, o's bydd un yn eich taro chwi ar eich ŵyneb. Am amharch yr ydwyf yn dywedyd, megys pe buaſem ni weiniaid: eithr ym mha beth bynnag y mae nêb yn hŷ (mewn ffolineb yr ŵyf yn dywedyd) hŷ ŵyf finnau hefyd. Ai Hebreaid ydynt hwy? felly finnau. Ai Iſraëliaid ydynt hwy? felly finnau. Ai hâd Abraham ydynt hwy? felly finnau. Ai gweinidogion Criſt ydynt hwy? (yr ydwyf yn dywedyd yn ffôl) mwy wyfi. Mewn blinderau yn helaethach, mewn gwialennodiau tros feſur, mewn carcharau yn amlach, mewn marwolaethau yn fynych. Gan yr Iuddewon bûmwaith y derbyniais ddeugain gwialennod onid un. Teirgwaith y'm curwyd â gwiail; unwaith y'm llabyddiwyd; teirgwaith y torrodd llong arnaf: noſwaith a diwrnod y bûm yn y dyfn-ſor. Mewn teithiau yn fynych, ym mheryglon llif-ddyfroedd; ym mheryglon lladron; ym mheryglon ſy nghenedl fy hun; ym mheryglon gan yCenhedloedd: ym mheryglon yn y ddinas; ym mheryglon yn yr anialwch; ym mheryglon ar y môr; ym mheryglon ym mhlith brodyr gau; Mewn llafur a lludded, mewn anhunedd yn fynych; mewn newŷn a ſychedd; mewn ymprydiau yn fynych: mewn anwyd a noethni; Heb law y pethau ſy yn digŵydd oddi allan, yr ymoſod yr hwn ſydd arnaf beunydd, y gofal tros yr holl Eglwyſi. Pwy ſy wann, nad ŵyf finnau wann? pwy a dramgwyddir, nad ŵyf finnau yn lloſgi? Os rhaid ymffroſtio, mi a ymffroſtiaf am y pethau ſy yn perthyn i'm gwendid. Duw a Thâd ein Harglwydd ni Iesu Grist, yr hwn ſydd fendigedig yn oes oeſoedd, a ŵyr nad ŵyf yn dywedyd celŵydd.

Yr Efengyl. S. Luc 8. 4.

GWedi i lawer o bobl ymgynnull ynghŷd, a chyrchu atto o bob Dinas, efe a ddywedodd ar ddammeg, Yr hauwr aeth allan i hau ei hâd: ac wrth hau peth a ſyrthiodd ar ymyl y ffordd, ac a ſathrwyd, ehediad y nêf a'i bwyttaodd. A pheth arall a ſyrthiodd ar y graig, a phan eginodd, y gwywodd am nad oedd iddo wlybwr. A pheth arall a ſyrthiodd ym mŷſg drain, a'r drain a gŷd-tyfaſant, ac a'i tagaſant ef. A pheth arall a ſyrthiodd, ar dir da, ac a eginodd, ac a ddûg ffrwyth ar ei ganfed. Wrth ddywedyd y pethau hyn efe a lefodd, Y neb ſydd â chluſtiau ganddo i wrando, gwrandawêd. A'i ddiſgyblion a ofynaſant iddo, gan ddywedyd, Pa ddammeg oedd hon? Yntau a ddywedodd, I chwi y rhoddwyd gŵybod dirgeloedd teyrnas Dduw: eithr i eraill ar ddamhegion; fel yn gweled na welant, ac yn clywed na ddeallant. A dyma 'r ddammeg; Yr hâd yw gair Duw, A'r rhai ar ymyl y ffordd, ydyw y rhai ſy yn gwrando; wedi hynny y mae diawl yn dyfod, ac yn dwyn ymaith y gair o'u càlon hwynt, rhag iddynt gredu, a bod yn gadwedig, A'r rhai ar y graig yw y rhai pan glywant, a dderbyniant y gair yn llawen; a'r rhai hyn nid oes ganddynt wreiddyn, y rhai ſydd yn credu tros amſer, ac yn amſer profedigaeth yn cilio. A'r hwn a ſyrthiodd ym mŷſg drain, yw y rhai a wrandawſant, ac wedi iddynt fyned ymaith, hwy a dagwyd gan ofalon, a golud, a meluſwedd buchedd, ac nid ydynt yn dwŷn ffrŵyth i berffeithrwydd. A'r hwn ar y tir da yw y rhai hyn, y rhai â chàlon hawddgar a da, ydynt yn gwrando 'r gair ac yn ei gadw, ac yn dwyn ffrwyth trwy ammynedd.

Y Sûl a elwir Cwincwagesima, neu'r Sul nesaf o flaen y Garawys.

Y Colect.

O Arglwydd, yr hwn a'n dysgaist, na thâl dim ein holl weithredoedd a wnelom heb gariad perffaith; anfon dy Ysbryd glân, a thywallt yn ein calonnau ragorol ddawn cariad perffaith, gwir rwymyn tangneiedd, a holl rinweddau da, heb yr hwn pwy bynnag fydd yn byw, a gyfrifir yn farw ger dy fron di: Camatâ hyn er mwyn dy un Mâb Iesu Grist. *Amen.*

Yr Epistol, 1 Cor. 13. 1.

PE lleſarwn â thafodau dynion, ac Angylion, ac heb fod gennyf gariad, yr wyf fel efydd yn seinio, neu fymbal yn tingcian. A phe byddai gennyf brophwydoliaeth, a gwybod o honof y dirgelion oll, a phob gwybodaeth, a phe bai gennyf yr holl ffydd, fel y gallwn fymmudo mynyddoedd, ac heb fod gennyf gariad, nid wyfi ddim. A phe porthwn y tlodion â'm holl ddâ, a phe rhoddwn fy nghorph i'm lloſgi, ac heb gariad gennyf, nid yw ddim lleſâd i mi. Y mae cariad yn hir-ymaros, yn gymmwynaſgar; cariad nid yw yn cynfigennu, nid yw cariad yn ymffroſtio, nid yw yn ymchwyddo; nid yw yn gwneuthur yn anweddaidd; nid yw yn ceiſio yr eiddo ei hun; ni chythruddir; ni feddwl ddrwg; nid yw lawen am anghyfiawnder, onid cyd-lawenhâu y mae â'r gwirionedd: Y mae yn dioddef pob dim, yn credu pob dim, yn gobeithio pob dim, yn ymaros â phob dim. Cariad byth ni chwymp ymaith: eithr pa un bynnag ai prophwydoliaethau, hwy a ballant; ai tafodau, hwy a beidiant; ai gwybodaeth, hi a ddiflanna. Canys o rann y gwyddom, ac o rann yr ydym yn prophwydo; Eithr pan ddelo yr hyn ſydd berffaith, yna yr hyn ſydd o rann a ddileir. Pan oeddwn fachgen, fel bachgen y lleſarwn, fel bachgen deallwn, fel bachgen y meddyliwn: ond pan aethum yn wr, mi a roes heibio bethau bachgennaidd. Canys gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych mewn dammeg; Ond yna, wyneb yn wyneb; Yn awr yr adwaen o rann, ond yna yr adnabyddaf megys y'm hadwaenir. Yr awr hon y mae yn aros ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn; a'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad.

Yr Efengyl. S. Luc 18. 31.

YR Iesu a gymmerodd y deuddeg atto, ac a ddywedodd wrthynt, Wele, yr ydym ni yn myned i fynu i Jerusalem, a chyflawnir pob peth ar y ſydd yn yſgrifenedig trwy'r Prophwydi, am Fâb y dyn, canys efe a draddodir i'r Cenhedloedd, ac a watworir, ac a amherchir, ac a boerir arno: ac wedi iddynt ei fflangellu, y lladdant ef, a'r trydydd dydd efe a adgyfyd. A hwy ni ddeallaſant ddim o'r pethau hyn; a'r gair hwn oedd guddiedig oddiwrthynt, ac ni wybuant y pethau a ddywedwyd. A bu, ac efe yn neſâu at Jericho i ryw ddyn dall fod yn eiſtedd yn ymyl y ffordd yn cardotta. A phan glybu efe y dyrfa yn myned heibio, efe a ofynnodd pa beth oedd hyn. A hwy a ddywedaſant iddo, mai Iesu o Nazareth oedd yn myned heibio. Ac efe a lefodd, gan ddywedyd, Iesu, Fâb Dafydd, trugarhâ wrthyf. A'r rhai oedd yn myned o'r blaen a'i ceryddaſant ef i dewi: eithr efe a lefodd yn fwy o lawer, Mâb Dafydd trugarhâ wrthyf. A'r Iesu a ſafodd, ac a orchymmynodd ei ddwyn ef atto: a phan ddaeth yn agos, efe a ofynnodd iddo, gan ddywedyd, pa beth a fynni di i mi ei wneuthur i ti? Yntau a ddywedodd, Arglwydd, cael o honof fy ngolwg. A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Cymmer dy olwg; dy ffydd a'th iachaodd. Ac allan o law y cafodd efe ei olwg, ac a'i canlynodd ef, gan ogoneddu Duw: a'r holl bobl pan welſant, a roiſant foliant i Dduw.

Y Dydd cyntaf o'r Garawys, yr hwn a elwir yn Gyffredin, Dydd Merchur y Lludw.

Y Colect.

HOll-gyfoethog a thragywyddol Dduw, yr hwn ni chaſhâi ddim a'r a wnaethoſt, ac a faddeui bechodau pawb y ſy edifeiriol; crea a gwnâ ynom newydd a drylliedig galonnau; fel y bo i ni gan ddyledus ddolurio am ein pechodau, a chyfaddef ein trueni, gaffael gennyt, Dduw'r holl drugaredd, gwbl faddeuant a gollyngdod, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Y Colect hwn a ddarllenir bob dydd o'r Garawys, ar ôl y Colect a appwyntir i'r diwrnod.*

Yn lle yr Epistol. Ioel, 2. 12.

DYchwelwch attafi, (medd yr Arglwydd) â'ch holl galon, ag ympryd hefyd, ac ag wylofain, ac â galar. A rhwygwch eich calon, ac nid eich dillad, ac ymchwelwch at yr Arglwydd eich Duw: o herwydd graſlawn, a thrugarog yw efe, hwyrfrydig i ddigoſaint, a mawr ei drugaredd, ac edifeiriol am ddrwg. Pwy a wyr a dry efe, ac edifarhâu, a gweddill bendith ar ei ôl, ſef bwydoffrwm, a diod-offrwm i'r Arglwydd eich Duw? Cenwch udgorn yn Sion, cyſlegrwch ympryd, gelwch gymanfa, ceſglwch y bobl, cyſlegrwch y gymanfa, cynhullwch yr henuriaid, ceſglwch y plant, a'r rhai yn ſugno bronnau: deued y priodfâb allan o'i yſtafell, a'r briod-ferch allan o ſtafell ei gwely: Wyled yr offeiriaid, gweinidogion yr Arglwydd, rhwng y porth a'r allor, a dywedant, arbed dy bobl O Arglwydd, ac na ddyro dy etifeddiaeth i warth, i lywodraethu o'r cenhedloedd arnynt, pa ham y dywedent ym mhlith y bobloedd, Pa le y mae eu Duw hwynt?

Yr Efengyl. S. Math. 6. 16.

PAn ymprydioch, na fyddwch fel y rhagrithwŷr yn wyneb drift; canys anffurfio eu hwynebau y maent, fel yr ymddangoſont i ddynion eu bod yn ymprydio; yn wîr meddaf i chwi, y maent yn derbyn eu gwobr. Eithr pan ymprydiech di, enneinia dy ben, a golch dy wyneb, fel nad ymddangoſech i ddynion dy fod yn ymprydio, ond i'th Dâd yr hwn ſy yn y dirgel; a'th Dâd yr hwn ſydd yn gweled yn y dirgel, a dâl i ti yn 'r amlwg. Na thryſorwch iwch' dryſorau ar y ddaear, lle y mae gwyfyn a rhŵd yn llygru, a lle y mae lladron yn cloddio trwodd, ac yn lladratta. Eithr tryſorwch iwch' dryſorau yn y nef, lle nid oes na gwyfyn na rhŵd yn llygru, a lle ni's cloddia lladron trwodd, ac ni's lladrattânt. Canys lle y mae eich tryſor, yno y bydd eich calon hefyd.

Y Sul cyntaf yn y Garawys.

Y Colect.

O Arglwydd, yr hwn er ein mwyn a ymprydiaiſt ddeugain niwrnod, a deugain nos? dyro i ni râs i ymarfer o gyfryw ddirweſt, fel y byddo i ni gan oſtwng ein cnawd i'r Yſbryd, byth ufuddhâu i'th dduwiol annog mewn iawnder a gwîr ſancteiddrwydd, i'th anrhydedd a'th ogoniant, yr hwn wyt yn byw, ac yn teyrnaſu gyd â'r Tâd, a'r Yſbryd glân, yn un Duw heb drangc na gorphen. *Amen.*

Yr Epistol. 2 Cor. 6. 1.

NYni gan gŷd-weithio, ydym yn attolwg i chwi, na dderbynioch râs Duw yn ofer: (Canys y mae efe yn dywedyd, Mewn amſer cymmeradwy y'th wrandewais, ac ynn ŷdd iechydwriaeth y'th gynnorthwyais: wele yn awr yr amſer cymmeradwy, wele yn awr ddŷdd yr iechydwriaeth) Heb roddi dim achos tramgwydd mewn dim, fel na feier ar y weinidogaeth. Eithr gan ein dangos ein hunain ym mhob peth, fel gweinidogion Duw, mewn ammynedd mawr, mewn

cyſtuddiau,

cyſtuddiau, mewn anghenion, mewn cyſyngderau, mewn gwialenodiau, mewn terfyſgau, mewn poenau, mewn gwiliadwriaethau, mewn ympryd-iau, mewn purdeb, mewn gŵybodaeth, mewn hîr ymaros, mewn tiriondeb yn yr Yſpryd glân; mewn cariad diragrith, yngair y gwirionedd, yn nerth Duw, trwy arfau cyfiawnder ar ddehau ac ar aſſwy, trwy barch ac amharch, trwy anglod a chlôd; megys twyllwŷr, ac er hynny yn eirwir: megys anadnabyddus, ac er hynny yn adnabydd-us; megys yn meirw, ac wele byw ydym; me-gys wedi ein ceryddu, a heb ein lladd; megys we-di ein triſtâu, ond yn oeſtad yn llawen; megys yn dlodion, ond yn cyfoethogi llawer: megys heb ddim gennym, ond otto yn meddiannu pob peth.

Yr Eſengyl. S. Math. 4. 1.

YNa yr Ieſu a arweiniwyd i fynu i'r anialwch gan yr Yſpryd, i'w demtio gan ddiawl. Ac wedi iddo ymprydio ddeugain niwrnod a deugain nôs, yn ôl hynny efe a newŷnodd. A'r temtiwr pan ddaeth atto, a ddywedodd, O's mâb Duw wyt ti, arch i'r cerrig hyn fod yn fara. Ac yntau a attebodd, ac a ddywedodd, Yſgrifennwyd, Nid trwy fara yn unig y bydd byw dŷn, ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw: Yna y cym-merth diawl ef i'r ddinas ſanctaidd, ac a'i goſo-dodd ef ar binacl y demi; ac a ddywedodd wrtho, O's Mâb Duw wyt ti, bwrw dy hun i lawr; canys yſgrifennwyd, y rhŷdd efe orchymmyn i'w Ang-ylion am danat, a hwy a'th ddygant yn eu dwylaw, rhag taro o honot un amſer dy droed wrth garreg. Yr Ieſu a ddywedodd wrtho, yſgrifennwyd dra-cheſn, Na themtia yr Arglwydd dy Dduw. Tra-cheſn y cymerth diawl ef i fynydd tra uchel, ac a ddangoſodd iddo holl deyrnaſoedd y bŷd, a'u go-goniant. Ac a ddywedodd wrtho, hyn oll a rodd-af i ti, os ſyrthi i lawr a'm haddoli i. Yna yr Jeſu a ddywedodd wrtho, ymaith Satan: canys yſgrifennwyd, yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a waſanaethi. Yna y gadawŏdd diawl ef, ac wele, Angylion a ddaethant ac a weinaſant iddo.

Yr ail Sûl yn y Garawys.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn wyt yn gweled nad oes gennym ddim meddiant o'n nerth ein hunain i'n cymmorth ein hunain: cadw di ni oddi fewn ac oddi allan, ſef enaid a chorph; fel yr am-ddiffynner ni rhag pob gwrthwyneb a ddigŵyddo i'r corph, a rhag pob drŵg feddwl a wnâ niwaid na chynnwrf i'r enaid, trwy Ieſu Griſt ein Har-glwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 Theſ. 4. 1.

YM mhellach gan hynny frodyr, yr ydym yn attolwg i chwi, ac yn deiſyf yn yr Arglwydd Ieſu, megys y derbyniaſoch gennym pa fodd y dylech rodio, a boddloni Duw, ar i chwi gynnyddu fwyfwy. Canys chwi a wyddoch pa orchymmyni-on a roddaſom i chwi trwy 'r Arglwydd Ieſu. Canys hyn yw ewyllys Duw, ſef eich ſancteiddiad chwi, ar ymgadw o honoch rhag godineb; ar fe-dru o bob un o honoch feddiannu ei leſtr ei hun mewn ſancteiddrwydd, a pharch; nid mewn gwŷn trachwant, megys y Cenhedloedd, y rhai nid adwaenant Dduw. Na byddo i neb orthrym-mu na thwyllo ei frawd mewn dim; canys dialydd yw 'r Arglwydd ar y rhai hyn oll, megys y dy-wedaſom i chwi o'r blaen, ac y tyſtiaſom. Canys ni alwodd Duw nyni i aflendid, ond i ſancteiddr-wydd, Am hynny y neb fydd yn dirmygu, nid dŷn y mae yn ei ddirmygu; ond Duw, yr hwn hefyd a roddes ei Yſpryd glân i ni.

Yr Eſengyl. S. Math. 15. 21.

A'r Ieſu a aeth oddi-yno, ac a giliodd i dueddau Tyrus a Sidon. Ac wele, gwraig o Ganaan a ddaeth o'r parthau hynny, ac a lefodd, gan ddy-wedyd wrtho, Trugarhâ wrthyf, O Arglwydd, Fâb Dafydd, y mae fy merch yn ddrŵg ei hwyl gan gythraul. Eithr nid attebodd efe iddi un gair. A daeth ei ddiſgyblion atto, ac a attolygaſant iddo, gan ddywedyd, Gollwng hi ymaith, canys y mae hi yn llefain ar ein hôl. Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd, Ni'm danfonwyd i ond at ddefaid colledig tŷ Iſrael. Ond hi a ddaeth, ac a'i haddo-lodd ef gan ddywedyd, Arglwydd, cymmorth fi. Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd. Nid da cym-meryd bara 'r plant, a'i fwrw i'r cŵn. Hithau a ddywedodd, Gwir yw Arglwydd: Canys y mae 'r cŵn yn bwyta o'r briwſion ſy'n ſyrthio oddi ar fwrdd eu harglwyddi. Yna yr attebodd yr Ieſu, ac a ddywedodd wrthi, Ha wraig, mawr yw dy ffŷdd: bydded i ti fel yr ŵyt yn ewyllyſio. A'i merch a iachäwyd o'r awr honno allan.

Y trydydd Sûl yn y Garawys.

Y Colect.

NI a attolygwn i ti, Holl-alluog Dduw, edrych o honot ar ddyfal ddeiſyfiadau dy ufudd weiſion, ac eſtyn deheulaw dy Fawredd i fod yn ymwared i ni yn erbyn ein holl elynion, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Epheſ. 5. 1.

BYddwch gan hynny ddilynwŷr Duw, fel plant anwyl, a rhodiwch mewn cariad, megys y carodd Criſt ninnau, ac a'i rhoddodd ei hun tro-ſom ni, yn offrwm ac yn aberth i Dduw, o arogl peraidd. Eithr godineb, a phob aflendid, neu gy-bydd-dra, na henwer chwaith yn eich plith, me-gys y gweddai, i Saint; na ferthedd, nac ymadrodd ffôl, na choeg ddigrifwch, pethau nid ydynt weddus: eithr yn hytrach rhoddi diolch. Canys yr ydych chwi yn gŵybod hyn, am bob putteinwr, neu aflan, neu gybydd, yr hwn ſydd ddelw-addolwr, nad oes iddynt etifeddiaeth yn nheyrnas Criſt a Duw. Na thwylled neb chwi â geiriau ofer, canys o blegid y pethau hyn y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufuddod. Na fyddwch gan hynny gy-frannogion â hwynt; Canys yr oeddych chwi gynt yn dywyllwch, ond yr awrhon goleuni ydych yn yr Arglwydd: Rhodiwch fel plant y goleuni; (canys ffrwyth yr Yſpryd ſydd ym mhob daioni, a chyfiawnder, a gwirionedd) gan broſi beth ſydd gymmeradwy gan yr Arglwydd. Ac na fydded i chwi gŷd-gyfeillach â gweithredoedd anffrwyth-lawn y tywyllwch, eithr yn hytrach argy-hoeddwch hwynt. Canys brwnt yw adrodd y peth-au a wneir ganddynt hwy yn ddirgel. Eithr pob peth, wedi 'r argyhoedder, a eglurir gan y go-leuni: canys beth bynnag ſydd yn egluro, go-leuni yw. O herwŷdd pa ham y mae efe yn dyw-edyd, Deffro di yr hwn ŵyt yn cyſgu, a chyfod oddi wrth y meirw; a Chriſt a oleua i ti.

Yr Eſengyl. S. Luc 11, 14.

AC yr oedd efe yn bwrw allan gythraul, a hwnnw oedd fûd. A bu wedi i'r cythraul fyned allan, i'r mudan lefaru, a'r bobloedd a ry-feddaſant. Eithr rhai o honynt a ddywedaſant, Trwy Beelzebub pennaeth y cythreuliaid, y mae efe yn bwrw allan gythreuliaid, Ac eraill gan ei demtio, a geiſiaſant ganddo arŵydd o'r nef. Yn-tau yn gŵybod eu meddyliau hwynt, a ddywe-dodd wrthynt, Pob teyrnas wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun, a anghyfanneddir; a thŷ yn erbyn tŷ, a ſyrth. Ac o's Satan hefyd ſydd wedi ymrannu yn ei erbyn ei hun, pa fodd y ſaif ei deyrnas ef? Gan eich bod yn dywedyd, mai trwy Beelzebub yr wyfi yn bwrw allan gythreuliaid, Ac o's trwy Belzebub yr ŵyfi yn bwrw allan gythreuliaid, trwy bwy y mae eich plant chwi yn eu bwrw hwynt allan? am hynny y byddant hwy yn farn-wŷr arnoch chwi. Eithr o's myfi trwy ſys Duw,

ydwyf

ydwyf yn bwrw allan gythreuliaid, diammau ddyfod teyrnas Dduw attoch chwi. Pan fyddo un cŷf arfog yn cadw ei neuadd, y mae yr hyn fydd ganddo mewn heddwch: Ond pan dêl un cryfach nag ef arno, a'i orchfygu, efe a ddŵg ymaith ei holl arfogaeth ef, yn yr hon yr oedd yn ymddiried, ac a rann ei anrhaith ef. Y neb nid yw gyd â mi, fydd yn fy erbyn: a'r neb nid yw yn casglu gyd â mi, fydd yn gwasgaru. Pan êl yr Yſpryd aflan allan o ddŷn, efe a rodia mewn lleoedd ſychion, gan geiſio gorphwyſdra; a phrŷd na chaffo, efe a ddywaid, mi a ddychwelaf i'm tŷ o'r lle y daethum allan. A phan ddêl, y mae yn ei gael wedi ei Yſgubo a'i dreſnu. Yna yr â ef ac y cymmer atto ſaith Yſpryd eraill, gwaeth nag ef ei hun; A hwy a ânt i mewn, ac a arhoſant yno, a diwedd y dŷn hwnnw fydd gwaeth nâ'i ddechreuad. A bu fel yr oedd efe yn dywedyd hyn, rhyw Wraig o'r dyrfa a gododd ei llêf, ac a ddywedodd wrtho, Gwŷn fyd y grôth a'th ddûg di, a'r bronnau a fugnaiſt. Ond efe a ddywedodd, Yn hytrach gwŷn fyd y rhai fydd yn gwrando gair Duw, ac yn ei gadw.

Y pedwerydd Sûl yn y Garawys,

Y Colect.

CAniatâ, ni a attolygwn i ti, Holl-alluog Dduw, fod i ni y rhai a haeddaſom yn gyfiawn gael ein poeni am ein drŵg weithredoedd, trwy gonffordd dy râs di allu yn drugarog gael hawſhâd, trwy ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Ieſu Griſt *Amen.*

Yr Epiſtol. Gal. 4. 21.

DYwedwch i mi, y rhai ydych yn chwennych bod dan y ddeddf, onid ydych chwi yn clywed y ddeddf? Canys y mae yn yſgrifennedig, fod i Abraham ddau fâb; un o'r waſanaeth-ferch, ac un o'r wraig rŷdd. Eithr yr hwn oedd o'r waſanaeth-ferch, a aned yn ôl y cnawd; a'r hwn oedd o'r wraig rŷdd, trwy 'r addewid. Yr hyn bethau ydynt mewn alegori; Canys y rhai hyn yw y ddau Deſtament; un yn ddiau o fynydd Sina, yn cenhedlu i gaethiwed, yr hon yw Agar: Canys yr Agar yma, yw mynydd Sina yn Arabia, ac y mae yn cyfatteb i'r Ieruſalem ſydd yn awr, ac y mae yn gaeth hi a'i phlant. Eithr y Jeruſalem honno uchod, ſydd rŷdd, yr hon yw ein mam ni oll. Canys yſgrifennedig yw, Llawenhâ di yr amlhantadwy, yr hon nid ŵyt yn heppilio: Torr allan a lleſa yr hon nid ŵyt yn eſgor: Canys i'r unig y mae llawer mwy o blant nag i'r hon y mae iddi ŵr. A ninnau, frodyr, megys yr oedd Iſaac, ydym blant yr addewid. Eithr megys y prŷd hynny, yr hwn a anwyd yn ôl y cnawd, a erlidiai yr hwn a anwyd yn ôl yr Yſpryd: felly yr awrhon hefyd. Ond beth y mae 'r Yſgrythur yn ei ddywedyd? Bwrw allan y waſanaeth-ferch, a'i Mâb: Canys ni chaiff Mâb y waſanaeth-ferch eriſeddu gyd â Mâb y wraig rŷdd. Felly frodyr, nid plant i'r waſanaeth-ferch ydym, ond i'r wraig rŷdd.

Yr Efengyl. S. Ioan 6. 1.

YR Ieſu a aeth tros fôr Galilea, hwnnw yw môr Tiberias. A thyrfa fawr a'i canlynodd ef, canys hwy a welſent ei arŵyddion, y rhai a wnaethai efe ar y cleiſion. A'r Ieſu a aeth i fynu i'r mynydd, ac a eiſteddodd yno gyd â'i Ddiſgyblion. A'r Paſg gŵyl yr Iuddewon, oedd yn agos. Yna 'r Ieſu a ddyrchafodd ei lygaid, ac a welodd fod tyrfa fawr yn dyfod atto, ac a ddywedôdd wrth Philip, O ba le y prynnwn ni fara, fel y caffo y rhai hyn fwytta? (A hyn a ddywedodd efe i'w brofi ef: Canys efe a ŵyddai beth yr oedd efe ar fedr ei wneuthur.) Philip ai hatteb odd ef, Gwerth dau càn ceiniog o fara nid yw ddigon iddynt hwy, fel y gallo pob un o honynt gymmeryd ychydig. Un o'i ddiſgyblion a ddywedodd wrtho, Andreas brawd Simon Pedr, Y mae yma ryw fachgennyn, a chanddo bùm torth haidd, a dau byſgodyn, ond beth yw hynny rhwng cynnifer? A'r Ieſu a ddywedodd, Perwch i'r dynion eiſtedd i lawr. Ac yr oedd glaſ-wellt lawer yn y fann honno. Felly y gwŷr a eiſteddaſant i lawr, ynghŷlch pùm mil o nifer, A'r Ieſu a gymmerth y torthau, ac wedi iddo ddiolch, efe a'u rhannodd i'r Diſgyblion, a'r diſgyblion i'r rhai oedd yn eiſtedd; felly hefyd o'r pyſgod gymmaint ac a fynnaſant. Ac wedi eu digoni hwynt, efe a ddywedodd wrth ei ddiſgyblion. Ceſglwch y briw-fwyd gweddill, fel na choller dim. Am hynny hwy a'i caſglaſant, ac a lanwaſant ddeuddeg baſgedaid o'r briw-fwyd, o'r pùm torth haidd, a weddillaſai gan y rhai a fwytaſent. Yna 'r dynion; pan welſant yr arŵydd a wnaethai 'r Ieſu, a ddywedaſant, Hwn yn ddiau yw 'r Prophwyd oedd ar ddyfod i'r bŷd.

Y pummed Sûl yn y Garawys.

Y Colect.

NI a attolygwn i ti Holl-alluog Dduw, edrych o honot yn drugarog ar dy bobl: fel y bo iddynt trwy dy fawr ddaioni, gael byth eu llywodraethu a'u cadw mewn enaid a chorph, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Heb. 9. 11.

CRiſt wedi dyfod yn Arch-Offeiriad y daionus bethau a fyddent, trwy dabernacl mwy a pherffeithiach, nid o waith llâw, hynny yw, nid o'r adailadaeth yma, nid chwaith trwy waed geifr a lloi, eithr trwy ei waed ei hun yr aeth efe unwaith i mewn i'r cyſſegr, gan gael i ni dragywyddol ryddhâd. O blegid o's ydyw gwaed teirw a geifr, a lludw anner wedi ei daenellu ar y rhai a halogwyd, yn ſanctteiddio i bureiddiad y cnawd; pa faint mwy y bydd i waed Criſt, yr hwn trwy yr Yſpryd tragywyddol a'i hoffrymmodd ei hun yn ddifai i Dduw, buro eich cydwybod chwi oddi wrth weithredoedd meirwon i waſanaethu y Duw byw? Ac am hynny y mae ef yn gyfryngwr y cyfammod newŷdd, megys trwy fod marwolaeth yn ymwared oddi wrth y troſeddau oedd dan y cyfammod cyntaf, y cai y rhai a alwyd dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragywyddol.

Yr Efengyl. St. Ioan 8. 46.

IEſu a ddywedodd, pwy o honoch a'm argyhoedda i o bechod? ac od ŵyfi yn dywedyd y gwir, pa ham nad ydych yn credu i mi? Y mae yr hwn fydd o Dduw, yn gwrando geiriau Duw: am hynny nid ydych chwi yn eu gwrando, am nad ydych o Dduw. Yna 'r attebodd yr Iuddewon, ac y dywedaſant wrtho ef, Ond da yr ydym ni yn dywedyd, mai Samaritan ŵyt ti, a bod gennyf gythraul? Yr Ieſu a attebodd, Nid oes gennyf gythraul; ond yr ŵyfi yn anrhydeddu fy Nhâd, ac yr ydych chwithau yn fy ni-anrhydeddu innau, Ac nid ŵyfi yn ceiſio fy ngogoniant fy hun; y mae a'i cais ac a farn. Yn wîr, yn wir meddaf i chwi, os ceidw neb fy ymadrodd i, ni wêl efe farwolaeth yn dragywydd, Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho, Yr awrhon y gŵyddom fod gennyt gythraul: bu Abraham farw a'r Prophwydi; ac meddi di, O's ceidw neb fy ymadrodd i nid archwaetha efe farwolaeth yn dragywydd. Ai mwy ŵyt ti nag Abraham ein Tâd ni, yr hwn a fu farw? a'r Prophwydi a fuant feirw: pwy yr ŵyt ti yn dy wneuthur dy hun? Yr Ieſu a attebodd, O's wyfi yn fy ngogoneddu fy hun, fy ngogoniant i nid yw ddim: fy Nhâd yw 'r hwn fydd yn fy ngogoneddu i, yr hwn yr ydych chwi yn dywedyd mai eich Duw chwi yw; Ond nid adnabuoch chwi ef; eithr myfi a'i hadwaen ef: ac o's dywedaf nad adwaen ef, myfi a fyddaf debyg i chwi, yn gelŵyddog: ond mi a'i hadwaen ef, ac yr ŵyf yn cadw ei ymadrodd ef. Gorfoledd oedd

gan

gan eich Tâd Abraham weled fy nŷdd i, ac eſe a'i gwelodd hefyd, ac a lawenychodd. Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho, Nid ŵyt ti ddengmlwydd a deugain etto, ac a welaiſt ti Abraham? Yr Ieſu a ddywedodd wrthynt, Yn wîr, yn wîr, meddaf i chwi, Cyn bod Abraham, yr ŵyf fi. Yna, hwy a godaſant gerrig i'w taflu atto ef. A'r Ieſu a ymguddiodd, ac a aeth allan o'r Deml.

Y Sûl neſaf o ſlaen y Paſg.

Y Colect.

HOll-gyfoethog a thragywyddol Dduw, yr hwn o'th garedigol ſerch ar ddŷn, a ddanſonaiſt dy Fab ein Hiachawdwr Ieſu Criſt, i gymmeryd arno ein cnawd, ac i ddioddef angau ar y groes, fel y gallai bob rhyw ddŷn ddilyn eſampl ei fawr oſtyngeiddrwydd ef: Caniatâ o'th drugaredd fod i ni ganlyn eſampl ei ddioddefaint, a bod hefyd yn gyfrannogion o'i gyfodiad, trwy yr unrhyw Ieſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Phil, 2. 5.

BYdded ynoch y meddwl yma, yr hwn oedd hefyd yng NghriſtIeſu: yr hwn, ac eſe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyſuwch â Duw: eithr efe a'i dibriſiodd ei hun, gan gymmeryd arno agwedd gwâs, ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion; a'i gael mewn dull fel dŷn, efe a'i daroſtyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ïe angau 'r groes. O herwŷdd pa ham, Duw a'i tra-derchafodd yntau, ac a roddes iddo enw, yr hwn ſydd goruwch pob enw: fel yn enw 'r Ieſu y plygai pob glîn; o'r nefolion, a'r daearolion, a thân ddaearolion bethau; ac y cyffeſſai pob tafod fod Ieſu Criſt yn Arglwydd, er gogoniant Duw Tâd.

Yr Efengyl. S. Math. 27. 1.

APhan ddaeth y boreu, cŷd-ymgynghorodd yr holl Arch-offeiriaid a Henuriaid y bobl yn erbyn yr Ieſu, fel y rhoddent ef i farwolaeth. Ac wedi iddynt ei rwymo, hwy a'i dygaſant ef ymaith, ac a'i traddodaſant ef i Pontius Pilat y rhaglaw. Yna pan weles Judas, yr hwn a'i bradychodd ef, ddarfod ei gondemnio ef, bu edifar ganddo, ac a ddûg drachefn y dêg ar hugain arian i'r Arch-offeiriaid a'r Henuriaid, gan ddywedyd, Pechais, gan fradychu gwaed gwirion. Hwythau a ddywedaſant, Pa beth yw hynny i ni? edrych di. Ac wedi iddo daflu 'r arian yn y deml, efe ymadawodd, ac a aeth ac a ymgrogodd. A'r Arch-offeiriaid a gymmeraſant yr arian, ac a ddywedaſant, Nid cyfreithlawn ini eu bwrw hwynt yn y dryſorfa, canys gwerth gwaed ydynt. Ac wedi iddynt gŷd-ymgynghori, hwy a brynaſant â hwynt faes y crochenydd, yn gladdfa dieithriaid. Am hynny y galwyd y maes hwnnw, maes y gwaed hyd heddyw. (Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywedpwyd trwy * Jeremïas y Prophwyd, gan ddywedyd, A hwy a gymmeraſant y dêg ar hugain arian, prîs y priſiedig, yr hwn a brynaſant gan feibion Iſrael, ac a'u rhoiſant hwy am faes y crochenydd, megys y goſodes yr Arglwydd i mi.) A'r Ieſu a ſafodd ger bron y rhaglaw: a'r rhaglaw a ofynnodd iddo, gan ddywedyd, ai ti yw Brenhin yr Juddewon? A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, Yr ŵyt ti yn dywedyd. A phan gyhuddid ef gan yr Arch-offeiriaid a'r Henuriaid, nid attebodd efe ddim. Yna y dywedodd Pilat wrtho, Oni chlywi di faint o bethau y maent hwy yn eu tyſtiolaethu yn dy erbyn di? Ac nid attebodd efe iddo un gair, fel y rhyfeddodd y rhaglaw yn fawr. Ac ar yr ŵyl honno yr arferai y rhaglaw ollwng yn rhŷdd i'r bobl un carcharor, yr hwn a fynnent. Ac yna yr oedd ganddynt garcharor hynod, a elwyd Barabbas. Wedi iddynt gan hynny ymgaſglu ynghŷd, Pilat a ddywedodd wrthynt, Pa un a fynnwch i mi ei ollwng yn rhŷdd i chwi; Barrabas, ai yr Ieſu, yr hwn a elwir Criſt? Canys efe a ŵyddai mai o genfigen y traddodaſent ef. Ac efe yn eiſtedd ar yr orſeddfainge, ei wraig a ddanfonodd atto, gan ddywedyd; Na fydded i ti a wnelych â'r cyfiawn hwnnw: canys goddefais lawer heddyw mewn breuddwyd o'i achos ef. A'r Arch-offeiriaid a'r Henuriaid a berſwadiaſant y bobl, fel y gofynnent Barrabas, ac y difethent yr Ieſu. A'r rhaglaw a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, Pa un o'r ddau a fynnwch i mi ei ollwng yn rhŷdd i chwi? Hwythau a ddywedaſant, Barabbas. Pilat a ddywedodd wrthynt, Pa beth gan hynny a wnâf i'r Ieſu, yr hwn a elwir Criſt? Hwythau oll a ddywedaſant wrtho, Croeſhoelier ef. A'r rhaglaw a ddywedodd, Ond pa ddrŵg a wnaeth efe? Hwythau a leſaſant yn fwy, gan ddywedyd, Croeſhoelier ef. A Philat, pan welodd nad oedd dim yn tyccio, ond yn hytrach bod cynnwrf, a gymmerth ddwfr ac a olchodd ei ddwylaw ger bron y bobl, gan ddywedyd, Dieuog ydwyfi oddiwrth waed y cyfiawn hwn: edrychwch chwi. A'r holl bobl a attebodd, ac a ddywedodd, Bydded ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant. Yna y gollyngodd efe Barabbas yn rhŷdd iddynt; ond yr Ieſu a fflangellodd efe, ac a'i rhoddes i'w groeſhoelio. Yna milwŷr y rhaglaw a gymmeraſant yr Ieſu i'r dadleu-dŷ, ac a gynnullaſant atto yr holl fyddin. A hwy a'i dioſgaſant ef, ac a roiſant am dano fantell o ſgarlad. A chwedi iddynt blethu coron o ddrain, hwy a'i goſodaſant ar ei ben ef, a chorſen yn ei law ddehau: ac a blygaſant eu gliniau ger ei fron ef, ac ai gwatworaſant, gan ddywedyd, Henffych well, Brenhin yr Iuddewon. A hwy a boeraſant arno, ac a gymmeraſant y gorſen, ac a'i tarawſant ar ei ben. Ac wedi iddynt ei watwor, hwy a'i dioſgaſant ef o'r fantell, ac a'i gwiſgaſant a'i ddillad ei hun, ac a'i dygaſant ef ymaith i'w groeſhoelio. Ac fel yr oeddynt yn myned allan, hwy a gawſant ddŷn o Cyrene, a'i enw Simon; hwn a gymellaſant i ddwyn ei groes ef. A phan ddaethant i le a elwid Golgotha, yr hwn a elwir lle 'r benglog, Hwy a roiſant iddo i'w yfed, finegr yn gymmyſgedig â buſtl; ac wedi iddo ei brofi, ni fynnodd efe yfed. Ac wedi iddynt ei groeſhoelio ef, hwy a rannaſant ei ddillad, gan fwrw coelbren; er cyflawni 'r peth a ddywedpwyd trwy 'r prophwyd, Hwy a rannaſant fy nillad yn eu plith, ac ar fy ngwiſg y bwriaſant goelbren. A chan eiſtedd hwy a'i gwyliaſant ef yno. A goſodaſant hefyd uwch ei ben ef, ei achos yn yſgrifennedig, HWN YW IESU, BRENHIN YR IUDDEWON. Yna y croeſhoeliwyd gyd ag ef ddau leidr, un ar y llâw ddehau, ac un ar yr aſſwy. A'r rhai oedd yn myned heibio a'i cablaſant ef, gan yſgwyd eu pennau, a dywedyd, Ti yr hwn a ddiniſtri 'r deml, ac a'i hadeiledi mewn tridiau, gwared dy hun; o's ti yw Mâb Duw, diſgyn oddi ar y groes. A'r un modd yr Arch-offeiriaid hefyd, gan watwor, gyd â'r yſgrifenyddion a'r Henuriaid, a ddywedaſant, efe a waredodd eraill, ei hunan ni's gall efe ei waredu: o's Brenhin Iſrael yw, diſgynned yr awrhon oddiar y groes, ac ni a gredwn iddo. Ymddiriedodd yn Nuw: gwareded efe ef yr awrhon, o's efe a'i mynn ef; canys ef a ddywedodd, Mâb Duw ydwyf. A'r un peth hefyd a edliwiodd y lladron iddo, y rhai a groeſhoeliaſid gyd ag ef. Ac o'r chweched awr y bu tywyllwch ar yr holl Ddaear, hyd y nawfed awr. Ac ynghŷlch y nawfed awr, y llefodd yr Ieſu â llêf uchel, gan ddywedyd, *Eli, Eli, lama ſabacbthani?* hynny yw, Fy Nuw, fy Nuw, pa ham y'm gadewaiſt? A rhai o'r ſawl oedd yn ſefyll yno, pan glywſant, a ddywedaſant, Y mae hwn yn galw am Elias. Ac yn y fann un o honynt a redodd ac a gymmerth

Yſpwrn,

* *Zechariah* 11, 12, 13.

Yſpwrn, ac a'i llanwodd o finegr, ac a'i rhoddes ar gorſen. Ac a'i diododd ef. A'r llaſll a ddywedaſant, paid, edrychwn a ddaw Elias i'w waredu ef, A'r Iefu, wedi llefain dracheſn â llêf uchel, a ymadawodd â'r Yſpryd. Ac wele, llenn y deml a rwygwyd yn ddau, oddi fynu hyd i wared, a'r ddaear a grynodd, a'r main a holltwyd: A'r beddau a agorwyd; a llawer o gyrph y ſaint a hunaſent a gyfodaſant, ac a ddaethant allan o'r beddau ar ôl ei gyfodiad ef, ac a aethant i mewn i'r ddinas ſanctaidd, ac a ymddangoſaſant i lawer. Ond y Canwriad, a'r rhai oedd gyd ag ef yn gwyl-ied yr Iefu, wedi gweled y ddaear-gryn, a'r pethau a wnaethid, a ofnaſant yn fawr, gan ddywedyd, yn wîr, Mâb Duw ydoedd hwn.

Dŷdd llûn o flaen y Paſg.

Yn lle yr Epiſtol. Eſay 63. 1.

PWy yw hwn yn dyfod o Edom, yn gôch ei ddillad o Bozra? hwn ſydd hardd yn ei wiſg, yn ymdaith yn amlder ei rym? Myfi, yr hwn a lefaraf mewn cyfiawnder, ac ŵyf gadarn i iachâu. Pa ham yr ydwyt yn gôch dy ddillad, a'th wiſgoedd fel yr hwn a ſathrai mewn gwin-wryf? Sethrais y gwinwryf fy hunan, ac o'r bobl nid oedd un gyd â mi; canys mi a'u ſathraf hwynt yn fy nig, ac a'u mathraf hwynt yn fy llidiawgrwydd; a'u gwaed hwynt a daenellir ar fy nillad, a'm holl wiſgoedd a lychwinaf. Canys dŷdd dïal ſydd yn fy nghâlon, a blwyddyn fy ngwaredigion a ddaeth. Edrychais hefyd, ac nid oedd gynnorthwywr; rhyfeddais hefyd am nad oedd gynhaliwr: yna fy mraîch fy hun a'm hachubodd, a'm llidiawgrwydd a'm cynhaliodd, ac mi a ſathraf y bobl yn fy nig, ac a'u meddwaf hwynt yn fy llidiawgrwydd; A'u cadernid a ddiſgynnaf i'r llawr. Coſiaf drugareddau yr Arglwydd, a moliant Duw, yn ôl yr hyn oll a roddodd Duw i ni, ac amlder ei ddaioni i dŷ Iſrael, yr hyn a roddodd efe iddynt, yn ôl ei doſturiaethau, ac yn ôl amlder ei drugareddau. Canys efe a ddywedodd dïau fy mhobl ydynt hwy, meibion ni ddywedant gelŵydd; felly efe a aeth yn Iachawdwr iddynt. Yn eu holl gyſtudd hwynt, efe a gyſtuddiwyd, Ac Angel ei gydrychioldeb a'u hachubodd hwynt; yn ei gariad, ac yn ei drugaredd y gwaredodd efe hwynt, Efe a'u dygodd hwynt, Ac a'u harweiniodd yr holl ddyddiau gynt. Hwythau oeddynt Wrthryfelgar, ac a ofidiaſent ei Yſpryd ſanctaidd ef; Am hynny y trôdd efe yn elyn iddynt, ac yr ymladdodd yn eu herbyn. Yna y cofiodd efe y dyddiau gynt, Moſes a'i bobl, gan ddywedyd, Mae 'r hwn a'u dygodd hwynt i fynu o'r môr, gyd â bugail ei braidd? Mae 'r hwn a ofodod ei Yſpryd ſanctaidd o'i fewn ef? Yr hwn a'u tywyſodd hwynt â deheulaw Moſes, ac â'i ogoneddus fraich, gan holli 'r dyfroedd o'u blaen hwynt, i wneuthur iddo ei hun enw tragywyddol? Yr hwn a'u harweiniodd hwynt trwy y dyſinderau, fel march yn yr anialwch, fel na thramgwyddynt? Fel y diſgyn anifail i'r dyffryn, y gwnâ Yſpryd yr Arglwydd iddo orphwys: felly y tywyſaiſt dy bobl, i wneuthur it' enw gogoneddus. Edrych o'r nefoedd, a gwêl o annedd dy ſancteiddrwydd, a'th ogoniant: mae dy zêl, a'th gadernid, lliooſowgrwydd dy doſturiaethau, a'th drugareddau tu ag attafi? a ymattaliaſant? Canys ti yw ein Tâd ni, er nad edwyn Abraham ni, ac na'n cydnebydd Iſrael: ti Arglwydd, yw ein Tâd ni, ein gwaredydd; dy enw ſydd erioed. Pa ham Arglwydd y gwnaethoſt i ni gyfeiliorni allan o'th ffyrdd? ac y caledaiſt ein calonnau oddiwrth dy ofn? dychwel, er mwyn dy weiſion, llwythau dy etifeddiaeth. Tros ychydig ennyd y meddiannodd dy bobl ſanctaidd: ein gwrthwynebŵr a ſathraſant dy gyſſegr di. Nyni ydym eiddo ti, erioed ni buoſt yn arglwyddiaethu arnynt hwy, ac ni elwid dy enw arnynt.

Yr Efengyl. S. Mar. 14. 1.

AC wedi deu-ddydd yr oedd y Paſg, gŵyl y bara croyw: A'r Arch-offeiriaid a'r Yſgrifennyddion a geiſiaſant pa ſôdd y dàlient ef trwy dwyll, ac y lladdent ef. Eithr dywedaſant, Nid ar yr ŵyl, rhag bod cynnwrf ym mhlith y bobl. A phan oedd eſe yn Bethania, yn nhŷ Simon y gwahan-glwyfus, ac eſe yn eiſtedd i fwytta, daeth Gwraig a chanddi flŵch o ennaint, o nard gwlŷb gwerthfawr, a hi a dorrodd y blŵch, ac a'i tywalltodd ar ei ben ef. Ac yr oedd rhai yn anfoddlon ynddynt eu hunain, ac yn dywedyd, I ba beth y gwnaethpwyd y golled hon o'r ennaint? O blegid fe allaſid gwerthu hwn uwchlaw tri chân ceiniog, a'i roddi i'r tlodion. A hwy a ffrommaſant yn ei herbyn hi. A'r Iefu a ddywedodd, Gadewch iddi; pa ham y gwnewch flinder iddi? hi a wnaeth weithred dda arnafi. Canys bob amſer y cewch y tlodion gyd â chwi, a phan fynnoch y gellwch wneuthur da iddynt hwy: ond myfi ni chewch bob amſer. Hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth, hi a achubodd y blaen i enneinio fy nghorph erbyn y claddedigaeth. Yn wîr meddaf i chwi, pa le bynnag y pregether yr Efengyl hon, yn yr holl fŷd, yr hyn a wnaeth hon hefyd, a adroddir er coffa am dani. A Judas Iſcariot, un o'r deuddeg a aeth ymaith at yr Arch-offeiriaid, i'w fradychu ef iddynt. A phan glywſant, fe fu lawen ganddynt, ac a addawſant roi arian iddo. Yntau a geiſiodd pa ſodd y gallai yn gymmwys ei fradychu ef. A'r dydd cyntaf o ŵyl y bara croyw, pan aberthent y Paſg, dywedodd ei ddiſgyblion wrtho; I ba le yr ŵyt ti yn ewyllyſio i ni fyned i barottoi i ti, i fwytta 'r Paſg? Ac efe a anfonodd ddau o'i ddiſgyblion, ac a ddywedodd wrthynt, Ewch i'r ddinas, a chyfarfydd â chwi ddŷn yn dwyn yſtenaid o ddwfr; dilynwch ef. A pha le bynnag yr êl i mewn, dywedwch wrth ŵr y tŷ, ſod yr Athraw yn dywedyd, Pa le y mae 'r lletty, lle y gallwyf, mi a'm diſgyblion fwytta 'r Paſg? Ac efe a ddengys i chwi, oruwch yſtafell fawr wedi el thaenu yn barod: yno parottowch i ni, A'i ddiſgyblion a aethant, ac a ddaethant i'r ddinas, ac a gawſant megys y dywedaſai efe wrthynt; ac a barottoiſant y Paſg. A phan aeth hi yn hwyr, efe a ddaeth gyd â'r deuddeg. Ac fel yr oeddynt yn eiſtedd, ac yn bwytta, yr Iefu a ddywedodd, yn wîr meddaf i chwi, un o honoch, yr hwn ſydd yn bwytta gyd â myfi, a'm bradycha i. Hwythau a ddechreuaſant driſtâu, a dywedyd wrtho bob un ac un, Ai myfi? ac arall, Ai myfi? Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Un o'r deuddeg yr hwn ſydd yn gwlychu gyd â mi yn y ddyſgl yw efe. Mâb y dŷn yn wîr ſydd yn myned ymaith, fel y mae yn Yſgrifennedig am dano. Ond gwae 'r dŷn hwnnw trwy 'r hwn y bradychir mâb y dŷn: da fuaſai i'r dŷn hwnnw pe na's ganefid. Ac fel yr oeddynt yn bwytta, yr Iefu a gymmerodd fara, ac a'i bendithiodd, ac a'i torrodd, ac a'i rhoddes iddynt, ac a ddywedodd, cymmerwch, bwyttëwch; hwn yw fy nghorph. Ac wedi iddo gymmeryd y cwppan, a rhoi diolch, efe a'i rhoddes iddynt: a hwynt oll a yfaſant o honaw. Ac efe a ddywedodd wrthynt: Hwn yw fy ngwaed i o'r Teſtament newŷdd, yr hwn a dywellir tros lawer, Yn wîr yr ŵyf yn dywedyd wrthych, nad yfaf mwy o ffrwyth y winwŷdden, hyd y dŷdd hwnnw pan yfwyf ef yn newŷdd yn Nheyrnas Dduw. Ac wedi iddynt ganu mawl, hwy a aethant allan i fynydd yr olewydd. A dywedodd yr Iefu wrthynt, chwi a rwyſtrir oll o'm plegid i y nôs hon; canys yſgrifennedig yw, Tarawaf y bugail, a'r defaid a waſgerir. Eithr wedi i mi adgyfodi, mi a âf o'ch blaen chwi i Galilea. Ond Pedr a ddywedodd wrtho, Pe byddai bawb wedi eu rhwyſtro, etto ni byddaf fi. A dywedodd yr Iefu wrtho, yn wîr yr ydwyf yn dywedyd i ti, heddyw

o fewn

o ſewn y nôs hon, cyn canu o'r ceiliog ddwywaith, y gwedi ſi deir-gwaith. Ond efe a ddywedodd yn helaethach o lawer, Pe gorfyddai i mi farw gyd â thi, ni'th wadaf ddim. Ar un môdd y dywedaſant oll. A hwy a ddaethent i le yr oedd ei enw Gethſemane. Ac efe a ddywedodd wrth ei ddiſgyblion, Eiſteddwch yma, tra fyddwyf yn gweddio. Ac efe a gymmerth gyd ag ef Bedr, ac Iago, ac Ioan, ac a ddechreuodd ymofidio a thriſtâu yn ddirfawr; Ac efe a ddywedodd wrthynt, Y mae fy enaid yn athriſt hyd angau: arhoſwch yma, a gwyliwch. Ac efe a aeth ychydig ym mlaen, ac a ſyrthiodd ar y ddaear, ac a weddiodd, o bai boſſibl ar fyned yr awr hon o oddiwrtho. Ac efe a ddywedodd, Abba Dâd, pob peth ſydd boſſibl i ti; tro heibio y cwppan hwn oddiwrthyf: eithr nid y peth yr ydwyfi yn ei ewyllyſio, ond y peth yr ydwyt ti. Ac efe a ddaeth, ac a'u cafodd hwy yn cyſgu, ac a ddywedodd wrth Bedr, Simon, a'i cyſgu yr ŵyt ti? oni allit ŵylio un awr? Gwyliwch, a gweddiwch, rhag eich myned mewn profedigaeth: yr Yſpryd yn ddiau ſydd barod; ond y cnawd ſydd wann. Ac wedi iddo fyned ymaith drachefn, efe a weddiodd, gan ddywedyd yr un ymadrodd. Ac wedi iddo ddychwelyd, efe a'u cafodd hwynt drachefn yn cyſgu, (canys yr oedd eu llygaid hwynt wedi trymhâu) ac ni wyddent beth a attebent iddo. Ac efe a ddaeth y drydedd waith, ac a ddywedodd wrthynt, Cyſgwch weithian, a gorphwyſwch: digon yw, daeth yr awr; wele, yr ydys yn bradychu Mâb y dŷn i ddwylaw pechaduriaid. Cyfodwch, awn; wele, y mae yr hwn ſydd yn fy mradychu yn agos. Ac yn y mann, ac efe etto yn llefaru, daeth Judas, un o'r deuddeg, a chyd ag ef dyrfa fawr, â chleddyfau a ffynn oddiwrth yr Arch-offeiriaid, a'r Yſgrifennyddion, a'r Henuriaid. A'r hwn a'i bradychodd ef a roddaſai arŵydd iddynt, gan ddywedyd, Pwy bynnag a guſanwyf, hwnnw yw; dèliwch ef, a dygwch ymaith yn ſiccr. A phan ddaeth, yn ebrwydd, efe a aeth atto, ac a ddywedodd Rabbi, Rabbi, ac a'i cuſanodd ef. A hwythau a roiſant eu dwylaw arno, ac a'i dàliaſant ef. A rhyw un o'r rhai oedd yn ſefyll ger llâw, a dynnodd ei gleddyf, ac a darawodd wâs yr Arch-offeiriad, ac a dorrodd ymaith ei glûſt ef. A'r Iefu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, Ai megys at leidr y daethoch allan, â chleddyfau, ac â ffynn i'm dala i? Yr oeddwn i beunydd gyd â chwi yn athrawiaethu yn y deml, ac ni'm dàliaſoch: ond rhaid yw cyflawni 'r Yſgrythyrau. A hwynt oll a'i gadawſant ef, ac a ffoiſant. A rhyw ŵr ieuangc oedd yn ei ddilyn ef, wedi ymwiſgo â lliain main ar ei gorph noeth, a'r gwŷr ieuainge a'i dàliaſant ef. A hwn a adawodd y lliain, ac a ffôdd oddi wrthynt yn noeth. A hwy a ddygaſant yr Iefu at yr Arch-offeiriad: a'r holl Arch-offeiriaid, a'r Henuriaid, a'r Yſgrifennyddion, a ymgaſglaſant gyd ag ef. A Phedr a'i canlynodd ef o hirbell, hyd yn lŷs yr Arch-offeiriad: ac yr oedd efe yn eiſtedd gyd â'r gwaſanaethwŷr ac yn ymdwymno wrth y tân. A'r Arch-offeiriad, a'r holl Gyngor a geiſiaſant dyſtiolaeth yn erbyn yr Iefu i'w roi ef i farwolaeth, Ac ni chawſant. Canys llawer a ddygaſant gau dyſtiolaeth yn ei erbyn ef, eithr nid oedd eu tyſtiolaethau hwy yn gyffon. A rhai a gyfodaſent, ac a ddygaſent gam-dyſtiolaeth yn ei erbyn ef gan ddywedyd, Ni a'i clywſom ef yn dywedyd, Mi a ddiniſtriaf y Deml hon o waith dwylaw, ac mewn tridiau yr adeiladaf arall, heb ſod o waith llâw. Ac etto nid oedd eu tyſtiolaeth hwy ſelly yn gyſſon. A chyfododd yr Arch-offeiriad yn y canol, ac a ofynnodd i'r Iefu, gan ddywedyd, oni attebi di ddim? beth y mae y rhai hyn yn ei dyſtiolaethu yn dy erbyn? Ac efe a dawodd ac nid attebodd ddim. Drachefn yr Arch-offeiriad a ofynnodd iddo, ac a ddywedodd wrtho, Ai tydi yw Criſt, Mâb y Bendigedig? A'r Iefu a ddywedodd, Myfi yw: a chwi a gewch weled Mâb y dŷn yn eiſtedd ar ddeheu-law y gallu, ac yn dyfod ynghymmylau 'r nêf. Yna 'r Arch-offeiriad, gan rwygo ei ddillad, a ddywedodd, Pa raid i ni mwy wrth dyſtion? Chwi a glywſoch y gabledd: beth dybygwch chwi? A hwynt oll, a'i condemnaſent ef, ei fod yn euog o farwolaeth. A dechreuodd rhai boeri arno, a chuddio ei ŵyneb, a'i gernodio, a dywedyd wrtho, Prophwyda. A'r gweinidogion a'i tarawſant ef â chledrau eu dwylaw. Ac fel yr oedd Pedr yn y llŷs i wared, daeth un o forŵynion yr Arch-offeiriad, A phan ganfu hi Bedr yn ymdwymno, hi a edrychodd arno, Ac a dywedodd, Tithau hefyd oeddit gyd â'r Iefu o Nazareth. Ac efe a wadodd, gan ddywedyd, Nid adwaen i, Ac ni wn i beth yr ŵyt yn ei ddywedyd. Ac efe a aeth allan i'r porth, A'r ceiliog a ganodd. A phan welodd y llangces ef drachefn, hi a ddechreuodd ddywedyd wrth y rhai oedd yn ſefyll yno, Y mae hwn yn un o honynt. Ac efe a wadodd drachefn. Ac ychydig wedi, y rhai oedd yn ſefyll gerllâw a ddywedaſant wrth Bedr drachefn, Yn wîr yr ŵyt ti yn un o honynt, canys Galilead ŵyt, a'th leferydd ſydd debyg. Ond efe a ddechreuodd regu a thyngu, Nid adwaen i y dŷn yma yr ydych chwi yn dywedyd am dano. A'r ceiliog a ganodd yr ail waith. A Phedr a gofiodd y gair a ddywedaſai 'r Iefu wrtho, cyn canu o'r ceiliog ddwy waith, ti am gwedi deirgwaith. A chan yſtyried hynny efe a ŵylodd.

Dŷdd Mawrth o flaen y Paſg.

Yn lle yr Epiſtol. Eſay 50. 5.

YR Arglwydd Dduw a agorodd fy nghlûſt, a minnau ni wrthwynebais, ac ni chiliais yn fy ôl. Fy nghorph a roddais i'r curwŷr, a'm cernau i'r rhai a dynnai 'r blêw; ni chuddiais fy ŵyneb oddiwrth waradwydd, a phoeredd. O herwŷdd yr Arglwydd Dduw a'm cymmorth, am hynny ni'm cywilyddir; am hynny goſodais fy ŵyneb fel calleſtr, a gwn na'm cywilyddir. Agos yw 'r hwn a'm cyfiawnhâ: pwy a ymryſon â mi? ſafwn ynghŷd; Pwy yw fy ngwrthwynebwr? neſſaed attaf: Wele 'r Arglwydd Dduw a'm cynnorthwya; pwy yw 'r hwn a'm bwrw yn euog? wele, hwynt oll a heneiddiant fel dilledyn; y gwyfyn a'u hyſſa hwynt. Pwy yn eich mŷſg ſydd yn ofni 'r Arglwydd, yn gwrandaw ar lais ei wâs ef, yn rhodio mewn tywyllwch, ac heb lewyrch iddo? gobeithied yn enw 'r Arglwydd, ac ymddirieded yn ei Dduw. Wele chwi oll y rhai ydych yn cynneu tân, ac yn eich amgylchu eich hunain â gwreichion: rhodiwch wrth lewyrch eich tân, ac wrth y gwreichion a gynneuaſoch. O'm llâw i y bydd hyn i chwi: mewn gofid y gorweddwch.

Yr Efengyl. S. Mar. 15. 1.

AC yn y fann y boreu, yr ymgynghorodd yr Arch-offeiriaid gyd â'r Henuriaid, a'r Yſgrifenyddion, a'r holl gyngor, ac wedi iddynt rwymo 'r Iefu, hwy a'i dygaſant ef ymaith, Ac a'i traddodaſant at Bilat. A gofynnodd Pilat iddo; ai ti yw Brenhin yr Iuddewon? Yntau a attebodd, ac a ddywedodd wrtho, Yr wyt ti yn dywedyd. A'r Arch-offeiriaid a'i cyhuddaſant ef o lawer o bethau; Eithr nid attebodd efe ddim. A Philat drachefn a ofynnodd iddo, gan ddywedyd, onid attebi di ddim? wele faint o bethau y maent yn eu tyſtiolaethu yn dy erbyn. Ond yr Iefu etto nid attebodd ddim, fel y rhyfeddodd Pilat. Ac ar yr ŵyl honno y gollyngai efe yn rhŷdd iddynt un carcharor, yr hwn a ofynnent iddo. Ac yr oedd un a elwid Barabbas, yr hwn oedd yn rhwym gyd â'i gŷd-terfyſgwŷr, y rhai

yn

Yn y derfyſg a wnaethant lofruddiaeth. A'r dyrfa gan groch-leſain, a ddechreuodd ddeiſyf arno wneuthur fel y gwnaethai bob amſer iddynt. A Philat a attebodd iddynt gan ddywedyd, A Fynnwch chwi i mi ollwng yn rhŷdd i chwi Frenhin yr Iuddewon? (Canys eſe ŵyddai mai o gynfigen y traddodaſai yr Arch-offeiriaid ef) A'r Arch-offeiriaid a gynhyrfaſent y bobl, fel y gollyngai eſe yn hyttrach Barabbas yn rhŷdd iddynt. A Philat a attebodd, ac a ddywedodd dracheſn wrthynt, Beth gan hynny a fynnwch i mi ei wneuthur i'r hwn yr ydych yn ei alw, Brenhin yr Iuddewon? A hwythau a lefaſant dracheſn, Croeſhoelia ef. Yna Pilat a ddywedodd wrthynt, Ond pa ddrŵg y wnaeth eſe? a hwythau a lefaſant fwyfwy, Croeſhoelia ef. A Philat yn chwenych boddloni y bobl, a ollyngodd yn rhŷdd iddynt Barabbas; A'r Ieſu wedi iddo ei fflangellu, a draddododd eſe i'w groes-hoelio. A'r milwŷr a'i dygaſant ef i fewn y llŷs, a elwir Pretorium: a hwy a alwaſant ynghŷd yr holl fyddin. Ac a'i gwiſgaſant ef â phorphor, ac a blethaſant goron o ddrain, ac a'i dodaſant am ei ben: Ac a ddechreuaſant gyfarch iddo, Hanffych well, Brenhin yr Iuddewon. A hwy a guraſant ei ben ef â chorſen, ac a boeraſant arno, a chan ddodi eu gliniau i lawr, a'i haddolaſant ef. Ac wedi iddynt ei watwor ef, hwy a ddioſgaſant y porphor oddi am dano, ac a'i gwiſgaſant ef â'i ddillad ei hun, ac a'i dygaſant allan i'w groeſhoelio. A hwy a gymmellaſant un Simon o Cyrene, yr hwn oedd yn myned heibio, wrth ddyfod o'r wlâd, ſef Tâd Alecſander a Rufus, i ddwyn ei groes ef. A hwy a'i harweiniaſant ef i le a elwid Golgotha, yr hyn o'i gyfieithu yw, lle 'r benglog. Ac a roiſant iddo i'w yſed win myrllyd: eithr eſe ni's cymmerth. Ac wedi iddynt ei groeſhoelio, hwy a rannaſant ei ddillad ef, gan ſwrw coelbren arnynt, beth a gai bob un. A'r drydedd awr oedd hi, a hwy a'i croeſhoeliaſant ef. Ac yr oedd Yſgriſen ei achos ef wedi ei hargraphu, BRENHIN YR IUDDEWON. A hwy a groeſhoeliaſant gŷd ag ef ddau leidr, un ar y llâw ddeheu, ac un ar yr aſſwy iddo, A'r Yſgrythyr a gyflawnwyd, yr hon a ddywaid, Ac eſe a gyfriſwyd gyd â'r rhai anwir. A'r rhai oedd yn myned heibio a'i cablaſant ef, gan yſgwyd eu pennau, a dywedyd, Och, tydi yr hwn wyt yn diniſtrio 'r deml, ac yn ei hadeiladu mewn tridiau: Gwared dy hun, a diſgyn oddi ar y groes. Yr un ffunud yr Arch-offeiriaid hefyd yn gwatwor, a ddywedaſant wrth eu gilydd, gyd â'r Yſgrifenyddion, Eraill a waredodd, ei hun ni's gall ei wared. Diſgynned Criſt Brenhin yr Iſrael, yr awrhon oddi ar y groes, fel y gwelom, ac y credom. Ar rhai a groeſhoeliaſid gyd ag ef, a'i difenwaſant ef. A phan ddaeth y chweched awr, y bu tywyllwch ar yr holl ddaear, hyd y nawfed awr, Ac ar y nawfed awr y dolefodd yr Ieſu â llêf uchel, gan ddywedyd, *Eloi, Eloi, lama ſabacbthani?* yr hyn o'i gyfieithu yw, Fy Nuw, Fy Nuw, pa ham y'm gadewaiſt? A rhai o'r rhai a ſafent ger llâw, pan glywſant, a ddywedaſant. Wele, y mae eſe yn galw ar Elias. Ac un a redodd, ac a lanwodd yſpwrn yn llawn o finegr, ac a'i dododd ar gorſen, ac a'i diſododd ef, gan ddywedyd, Peidiwch; edrychwn a ddaw Elias i'w dynnu ef i lawr. A'r Ieſu a lefodd â llêf uchel, ac a ymadawôdd â'r Yſpryd. A llenn y deml a rwygwyd yn ddwy, oddi fynu hyd i wared. A phan welodd y Canwriad, yr hŵn oedd yn ſefyll ger llâw gyferbyn ag ef, ddarfod iddo yn llefain felly ymado â'r Yſpryd, eſe a ddywedodd, yn wir Mâb Duw oedd y dyn hwn.

Dŷdd Merchur o flaen y Paſg.

Yr Epiſtol. Heb. 9. 16.

LLE byddo Teſtament, rhaid yw digŵyddo marwolaeth y teſtamentwr: Canys wedi marw dynion y mae teſtament mewn grŷm: oblegid nid oes etto nerth ynddo, tra fyddo 'r teſtamentwr yn fyw. O ba achos ni chyſſegrwyd y cyntaf heb waed: Canys gwedi i Moſes adrodd yr holl orchymmyn, yn ôl y gyfraith, wrth yr holl bobl, eſe a gymmerodd waed lloi a geifr, gyd â dwfr, a gwlan porphor, ac iſop, ac a'i taenellodd ar y llyfr, a'r bobl oll; gan ddywedyd, Hwn yw gwaed y teſtament a orchymmynodd Duw i chwi. Y tabernacl hefyd, a holl leſtri y gwaſanaeth, a daenellodd eſe â gwaed, yr un môdd. A chan mwyaf trwy waed y purir pob peth wrth y gyfraith; ac heb ollwng gwaed nid oes maddeuant. Rhaid oedd gan hynny i bortreiadau y pethau ſy yn y nefoedd, gael eu puro â'r pethau hyn; a'r pethau nefol eu hunain ag aberthau gwell nâ'r rhai hyn. Canys nid i'r cyſſegr o waith llâw, portreiad y gwir gyſſegr, yr aeth Criſt i mewn, ond i'r nêf ei hun, i ymddangos yn awr ger bron Duw troſom ni; nac tel yr offrymmai ef ei hun yn fynych, megys y mae yr Arch-offeiriad yn myned i mewn i'r cyſſegr bob blwyddyn, â gwaed arall: O blegid yna rhaid ſuaſai iddo yn fynych ddioddef er dechreuad y bŷd; eithr yr awrhon unwaith yn niwedd y bŷd yr ymddangoſes efe, i ddileu pechod, trwy ei aberthu ei hun. Ac megys y goſodwyd i ddynion ſarw unwaith, ac wedi hynny bod barn: felly Criſt hefyd, wedi ei offrymmu unwaith i ddwyn ymaith bechodau llawer, a ymddengys yr ail waith heb bechod, i'r rhai ſy yn ei ddiſgwyl er iechydwriaeth.

Yr Efengyl. S. Luc 22. 1.

A Neſſodd gŵyl y bara croyw, yr hon a elwir y Paſg. A'r Arch-offeiriaid a'r Yſgrifenyddion a geiſiaſant pa fôdd y difethent ef: o blegid yr oedd arnynt ofn y bobl. A Satan a aeth i mewn i Judas, yr hwn a gyfenwid Iſcariot, yr hwn oedd o riſedi 'r deuddeg. Ac eſe a aeth ymaith, ac a ymddiddanodd â'r Arch-offeiriaid, a'r blaenoriaid, pa fôdd y bradychai eſe ef iddynt. Ac yr oedd yn llawen ganddynt, a hwy a gyttunaſant ar roddi Arian iddo. Ac eſe a addawôdd, ac a geiſiodd amſer cyfaddas i'w fradychu ef iddynt, yn abſen y bobl. A daeth dŷdd y bara croyw, ar yr hwn yr oedd rhaid lladd y Paſg. Ac eſe a anfonodd Pedr ac Ioan, gan ddywedyd, Ewch, parottôwch i ni 'r Paſg, fel y bwyttaom. A hwy a ddywedaſant wrtho, Pa le y mynni barottoi o honom? Ac eſe a ddywedodd wrthynt, Wele pan ddeloch i mewn i'r ddinas, cyferfydd â chwi ddŷn yn dwyn yſtenaid o ddwſr; canlynwch ef i'r tŷ lle yr êl eſe i mewn. A dywedwch wrth ŵr y tŷ, Y mae 'r Athraw yn dywedyd wrthyt, Pa le y mae 'r lletty, lle y gallwyf fwyta 'r Paſg gyd â'm diſgyblion? Ac eſe a ddengys i chwi oruwch-yſtafell fawr, wedi ei thaenu; yno parottôwch. A hwy a aethant, ac a gawſant fel y dywedaſai eſe wrthynt; ac a barottoiſant y Paſg. A phan ddaeth yr awr, eſe a eiſteddodd i lawr, a'r deuddeg Apoſtol gyd ag ef. Ac eſe a ddywedodd wrthynt, Mi a chwennychais yn fawr fwytta 'r Paſg hwn gyd â chwi, cyn dioddef o honof. Canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, Ni fwyttâf fi mwyach o honaw, hyd oni chyflawner yn nheyrnas Dduw. Ac wedi iddo gymmeryd y cwppan, a rhoddi diolch, eſe a ddywedodd, Cymmerwch hwn, a rhennwch yn eich plith. Canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, nad yſaf o ffrwyth y winwŷdden, hyd oni dêl teyrnas Dduw, Ac wedi iddo gymmeryd bara, a rhoi diolch, eſe a'i torrodd, ac a'i rhoddes iddynt, gan ddywedyd, Hwn yw fy nghorph, yr hwn yr ydys yn ei roddi troſoch: gwnewch hyn er cofta am danaf. Yr un môdd y cwppan hefyd wedi ſwpperu, gan ddywedyd, Y cwppan hwn yw 'r teſtament newydd yn fy ngwaed i, yr hwn yr ydys yn ei dywallt troſoch. Eithr wele

ŵw 'r hwn ſydd yn ſy mradychu. gyd â mi ar y bwrdd. Ac yn wîr, y mae Mâb y dŷn yn myned, megys y mae wedi ei luniaethu: eithr gwae 'r dŷn hwnnw, trwy 'r hwn y bradychir eſe. Hwythau a ddechreuaſant ymofyn yn eu plith eu hun, pwy o honynt oedd yr hwn a wnai hynny. A bu ymryſon yn eu plith, pwy o honynt a dybygid ei ſod yn fwyaf. Ac eſe a ddywedodd wrthynt, Y mae brenhinoedd y cenhedloedd yn arglwyddiaethu arnynt: a'r rhai ſy mewn awdurdod arnynt, a elwir yn bendefigion. Ond na fyddwch chwi felly; Eithr y mwyaf yn eich plith chwi, bydded megys yr ieuangaf; a'r pennaf megys yr hwn ſydd yn gweini. Canys pa un fwyaf, ai 'r hwn ſydd yn eiſtedd ar y bwrdd, ai 'r hwn ſydd yn gwaſanaethu? onid yr hwn ſydd yn eiſtedd ar y bwrdd? eithr yr ydwyfi yn eich mŷſg, fel un yn gwaſanaethu. A chwychwi yw y rhai a arhoſaſoch gyd â mi yn ſy mhroſeſigaethau. Ac yr ŵyfi yn ordeinio i chwi deyrnas, megys yr odeiniodd fy Nhâd i minnau; fel y bwyttaoch ac yr yfoch ar fy mwrdd i yn fy nheyrnas; ac yr eiſteddoch ar orſeddfeydd, yn barnu deuddeg llwyth Iſrael. A'r Arglwydd a ddywedodd, Simon, Simon, wele, Satan a'ch ceiſiodd chwi, i'ch nithio fel gwenith; eithr mi a weddiais troſot, na ddiffygiai dy ffŷdd di; tithau pan i'th dröer, cadarnhâ dy frodyr. Ac eſe a ddywedodd wrtho, Arglwydd yr ydwyfi yn barod i fyned gyd â thi, i garchar ac i angau. Yntau a ddywedodd, Yr ŵyf yn dywedyd i ti Pedr, Na chân y ceiliog heddyw, nes i ti wadu dair gwaith yr adwaeni fi. Ac eſe a ddywedodd wrthynt, pan y'ch anfonais heb na phwrs, na chôd, nac eſgidiau, a fu arnoch eiſiau dim? a hwy a ddywedaſant, Na ddo ddim. Yna y dywedodd wrthynt, Ond yn awr y neb ſydd ganddo hwrs, cymmered, a'r un môdd gôd: a'r neb nid oes ganddo gwerthed ei bais, a phryned gleddyf. Canys yr ŵyf yn dywedyd i chwi, fod yn rhaid etto gyflawni ynofi y peth hyn a 'ſgrifennwyd, ſef, A chyd â'r anwîr y cyfrifwyd ef: Canys y mae diben i'r pethau am danafi. A hwy a ddywedaſant, Arglwydd, wele ddau gleddyf yma. Ac eſe a ddywedodd wrthynt, Digon yw. Ac wedi iddo fyned allan, eſe a aeth, yn ôl ei arfer, i fynydd yr Olewŷdd: a'i ddiſgyblion hefyd a'i canlynaſant ef. A phan ddaeth eſe i'r fann, eſe a ddywedodd wrthynt, gweddïwch nad eloch mewn profedigaeth. Ac eſe a dynnodd oddi wrthynt tu ag ergyd carreg, ac wedi iddo fyned ar ei liniau, eſe a weddïodd, gan ddywedyd, O Dâd, os ewyllyſi droi heibio y cwppan hwn oddiwrthyf: er hynny nid fy ewyllys i, ond yr eiddot ti a wneler. Ac angel o'r nêf a ymddangoſodd iddo, yn ei nerthu ef. Ac eſe mewn ymdrech meddwl, a weddïodd yn ddyfalach; a'i chwŷs ef oedd fel defnynnau gwaed, yn diſgyn ar y ddaear. A phan gododd eſe o'i weddi, a dyfod at ei ddiſgyblion, eſe a'u caſodd hwynt yn cyſgu gan driſtwch; ac a ddywedodd wrthynt, pa ham yr ydych yn cyſgu? codwch, a gweddïwch nad eloch mewn profedigaeth. Ac eſe etto, yn lleſaru, wele dyrfa, a'r hwn a elwir Judas, un o'r deuddeg, oedd yn myned o'u blaen hwŷnt, ac a neſaodd at yr Ieſu, i'w guſanu ef. A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, Judas, ai â chuſan yr ŵyt ti yn bradychu Mâb y dŷn? A phan welodd y rhai oedd yn ei gylch ef, y peth oedd ar ddyfod, hwy a ddywedaſant wrtho, Arglwydd, a darawn ni â chleddyf? A rhyw un o honynt a darawödd wâs yr Arch-offeiriad, ac a dorrodd ymaith ei glûſt ddehau ef, a'r Ieſu a attebodd ac a ddywedodd, goddefwch hyd yn hyn, ac eſe a gyffyrddodd â'i glûſt, ac a'i iachaodd ef. A'r Jeſu a ddywedodd wrth yr Archo-ffeiriaid, a blaenoriaid y deml, a'r Henuriaid, y rhai a ddaethant atto, Ai fel at leidr y daethoch chwi allan â chleddyfau, ac â ffynn? pan oeddwn beunydd gyd â chwi yn y deml, nid eſtynnaſoch ddwylaw i'm herbyn: eithr hon yw eich awr chwi, a gallu 'r tywyllwch. a hwy a'i dàliaſant ef, ac a'i harweiniaſant, ac a'i dygaſant i mewn i dŷ 'r archoffeiriad. a Phedr a ganlynodd o hirbell. ac wedi iddynt gynneu tân ynghanol y neuadd, a chŷdeiſtedd o honynt, eiſteddodd Pedr yntau yn eu plith hwynt. a phan ganfu rhyw langces ef yn eiſtedd wrth y tân, a dal ſulw arno, hi a ddywedodd, yr oedd hwn hefyd gyd ag ef. Yntau a'i gwadodd ef, gan ddywedyd, O wraig nid adwaen i ef. ac ychydig wedi, un arall a'i gwelodd ef, ac a ddywedodd, Yr ŵyt tithau hefyd yn un o honynt: a Phedr a ddywedodd, O ddŷn, nid ydwyf. ac ar ol megys yſpaid un awr, rhyw un arall a daerodd gan ddywedyd, Mewn gwirionedd yr oedd hwn hefyd gyd ag ef, canys Galilead yw. a Phedr a ddywedodd, y dŷn, ni's gwn beth yr ŵyt yn ei ddywedyd. ac yn y mann, ac efe etto yn llefaru, canodd y ceiliog. A'r Arglwydd a drôdd, ac a edrychodd ar Bedr, a Phedr a gofiodd ymadrodd yr Arglwydd, fel y dywedaſai efe wrtho, Cyn canu o'r ceiliog, y gwedi fi deir-gwaith. A Phedr a aeth allan ac a ŵylodd yn chwerw-doſt. A'r gwŷr oedd yn dàl yr Ieſu, a'i gwatwaraſant ef, gan ei daro. Ac wedi iddynt guddio ei lygaid ef, hwy a'i tarawſant ef ar ei ŵyneb, ac a ofynnaſant iddo, gan ddywedyd, Prophwyda, pwy yw yr hwn a'th darawödd di? A llawer o bethau eraill gan gablu, a ddywedaſant yn ei erbyn ef. A phan aeth hi yn ddŷdd, ymgynullodd Henuriaid y bobl, a'r Arch-offeiriaid, a'r yſgrifenyddion, ac a'i dygaſant ef i'w cyngor hwynt, gan ddywedyd, Ai ti yw Criſt? dywaid i ni. Ac eſe a ddywedodd wrthynt, O's dywedaf i chwi, ni chredwch ddim; ac o's gofynnaf hefyd i chwi, ni'm hattebwch, ac ni'm gollyngwch ymaith, Yn ôl hyn y bydd Mâb y Dŷn yn eiſtedd ar ddeheulaw gallu Duw. A hwy oll a ddywedaſant, Ai Mâb Duw gan hynny ydwyt ti? Ac efe a ddywedodd wrthynt, yr ydych chwi yn dywedyd ſy môd. Hwythau a ddywedaſant, pa raid i ni mwyach wrth dyſtiolaeth? canys clywſom ein hunain o'i enau ef ei hun.

Dydd Iou o flaen y Paſg.

Yr Epiſtol. 1 Cor. 11. 17.

WRth ddywedyd hyn, nid ydwyf yn eich canmol; eich bod yn dyfod ynghŷd, nid er gwell, ond er gwaeth. Canys yn gyntaf, pan ddeloch ynghŷd yn yr eglwys, yr ydwyf yn clywed fod amrafaelion yn eich mŷſg chwi, ac o rann yr ŵyfi yn credu: Canys rhaid yw bod hefyd hereſiau yn eich mŷſg; fel y byddo y rhai cymmeradwy yn eglur yn eich plith chwi. Pan fyddoch chwi gan hynny yn dyfod ynghŷd i'r un lle, nid bwytta ſwpper yr Arglwydd ydyw hyn: Canys y mae pob un wrth fwytta yn cymmeryd ei ſwpper ei hun o'r blaen, ac un ſydd â newŷn arno, ac arall ſydd yn feddw. Onid oes gennych dai i fwytta ac i yfed? Ai dirmygu yr ydych chwi eglwys Dduw, a gwaradwyddo y rhai nid oes ganddynt? Pa beth a ddywedaf wrthych? a ganmolaf i chwi yn hyn? nid ŵyf yn eich canmol. Canys myfi a dderbyniais gan yr Arglwydd yr hyn hefyd a draddodais i chwi; bod i'r Arglwydd Ieſu y nôs y bradychwyd ef, gymmeryd bara; Ac wedi iddo ddïolch, eſe a'i torrodd, ac a ddywedodd, Cymmerwch, bwyttewch, hwn yw fy nghorph, yr hwn a dorrir troſoch: gwnewch hyn er coffa am danaf. Yr un môdd eſe a gymmerodd y cwppan wedi ſwpperu, gan ddywedyd, Y cwppan hwn yw 'r Teſtament newydd yn fy ngwaed; gwnewch hyn cynnifer gwaith bynnag yr yfoch, er coffa am danaf: Canys cynnifer gwaith bynnag y bwyttaoch y bara hwn, ac yr yfoch y cwppan hwn, y dangoſwch farwolaeth yr

Arglwydd

Arglwydd hyd oni ddelo. Am hynny, pwy bynnag a fwyttâo y bara hwn, neu a yfo gwppan yr Arglwydd yn anheilwng, euog fydd o gorph a gwaed yr Arglwydd. Eithr holed dŷn ef ei hun, ac felly bwyttaed o'r bara, ac yfed o'r cwppan. Canys yr hwn fydd yn bwytta, ac yn yfed yn anheilwng, fydd yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, am nad yw yn iawn farnu corph yr Arglwydd. Oblegid hyn y mae llawer yn weiniaid ac yn llêſg yn eich mŷſg, a llawer yn huno. Canys pe iawn farnem ni ein hunain, ni'n bernid. Eithr pan y'n bernir, y'n ceryddir gan yr Arglwydd, fel na'n damner gyd â'r bŷd. Am hynny, fy mrodyr, pan ddeloch ynghŷd i fwytta, arhoſwch eich gilydd. Eithr os bydd newŷn ar neb, bwyttäed gartref; fel na ddeloch ynghŷd i farnedigaeth. Ond y pethau eraill mi a'u treſnaf pan ddelwyf.

Yr Eſengyl. S. Luc 23. 1.

A'R holl lïaws o honynt, a gyfodaſant ac a'i dygaſant ef at Pilat. Ac a ddechreuaſant ei gyhuddo ef, gan ddywedyd, Ni a gawſom hwn yn gŵy-rdroi 'r bobl ac yn gwahardd rhoi teyrn-ged i Ceſar, gan ddywedyd, mai efe ei hun yw Criſt frenhin. A Philat a ofynnodd iddo, gan ddywedyd, Ai ti yw Brenhin yr Iuddewon? Ac efe a attebodd iddo ac a ddywedodd, Yr ŵyt ti yn dywedyd. A dywedodd Pilat wrth yr Arch-offeiriaid a'r bobl, Nid ŵyfi yn cael dim bai ar y dŷn hwn. A hwy a ſuant daerach, gan ddywedyd, Y mae efe yn cyffrôi 'r bobl, gan ddyſgu trwy holl Judea, wedi dechreu o Galilea hyd yma. A phan glybu Pilat ſôn am Galilea, efe a ofynnodd ai Galilead oedd y dŷn, a phan ŵybu efe ei fod ef o lywodraeth Herod, efe a'i hanſonodd ef at Herod, yr hwn oedd yntau yn Jeruſalem y dyddiau hynny. A Herod, pan welodd yr Ieſu, a lawenychodd yn fawr: canys yr oedd efe yn chwenyeh er yſtalm ei weled ef, oblegid iddo glywed llawer am dano ef. ac yr ydoedd yn gobeithio cael gweled gwneuthur rhyw arŵydd ganddo ef. Ac efe a'i holodd ef mewn llawer o eiriau: eithr efe nid attebodd ddim iddo. A'r Arch-offeiriaid a'r yſgrifennyddion a ſafaſant gan ei gyhuddo ef yn haerllug. A Herod a'i filwŷr, wedi iddo ei ddiyſtyru ef a'i watwor, a'i wiſgo â gwiſg glaerwen, a'i danfonodd ef drachefn at Bilat. A'r dwthwn hwnnw yr aeth Pilat a Herod yn gyfeillion: canys yr oeddynt o'r blaen mewn gelyniaeth a'u gilydd. A Philat, wedi galw ynghŷd yr Arch-offeiriaid, a'r llywiawdwŷr, a'r bobl, a ddywedodd wrthynt, chwi a ddygaſoch y dŷn hwn attaf, fel un a fyddai yn gŵyr-droi 'r bobl: ac wele, myfi a'i holais ef yn eich gŵydd chwi, ac ni chefais yn y dŷn hwn ddim bai o ran y pethau yr ydych chwi yn ei gyhuddo ef am danynt: na Herod chwaith; canys anfonais chwi atto ef, ac wele, dim yn haeddu marwolaeth ni's gwnaed iddo. Am hynny mi a'i ceryddaf ef, ac a'i gollyngaf ymaith. Canys yr ydoedd yn rhaid iddo ollwng un yn rhŷdd iddynt ar yr ŵyl. A'r holl lïaws a lefaſant ar unwaith gan ddywedyd, Bwrw hwn ymaith, a gollwng i ni Barabbas yn rhŷdd: (Yr hwn, am ryw derfyſg a wnelfid yn y ddinas, a lloffruddiaeth, oedd wedi ei daflu i garchar.) Am hynny Pilat a ddywedodd wrthynt drachefn, gan ewyllyſio gollwng yr Ieſu yn rhŷdd. Eithr hwy a lefaſant arno, gan ddywedyd, Croeſhoelia, croeshoelia ef. Ac efe a ddywedodd wrthynt y drydedd waith, canys pa ddrŵg a wnaeth efe? ni chefais i ddim achos marwolaeth ynddo: am hynny mi a'i ceryddaf ef, ac a'i gollyngaf yn rhŷdd. Hwythau a fuant daerion â llefau uchel, gan ddeiſyfu ei groeſhoelio ef; a'u llefau hwynt a'r Arch-offeiriaid a orfuant. A Philat a farnodd wneuthur eu deiſyfiad hwynt. Ac efe a ollyngodd yn rhŷdd iddynt, yr hwn am derfyſg a lloffruddiaeth a fwriaſid yngharchar, yr hwn a ofynnaſant: eithr yr Ieſu a draddododd efe i'w hewyllys hwynt. Ac fel yr oeddynt yn ei arwain ef ymaith, hwy a ddaliaſant un Simon o Cyrene, yn dyfod o'r wlâd, ac a ddodaſant y groes arno ef, iw dwyn ar ôl yr Ieſu. Ac yr oedd yn ei ganlyn ef lïaws mawr o bobl, ac o wragedd, y rhai hefyd oedd yn cwynfan, ac yn galaru o'i blegid ef, A'r Ieſu wedi troi attynt, a ddywedodd, Merched Jeruſalem, nac ŵylwch o'm plegid i, eithr ŵylwch o'ch plegid eich hunain, ac oblegid eich plant; Canys wele, y mae 'r dyddiau yn dyfod, yn y rhai y dywedant, Gwŷn eu bŷd y rhai amhlantadwy, a'r crothau ni heppiliaſant, a'r bronnau ni roeſant ſugn. Yna y dechreuant ddywedyd wrth y mynyddoedd, ſyrthiwch arnom; ac wrth y bryniau, cuddiwch ni. Canys o's gwnânt hyn yn y pren ir, pa beth a wneir yn y crîn? Ac arweiniwyd gyd âg ef hefyd ddau ddrŵg weithredwŷr eraill, i'w rhoi i'w marwolaeth. A phan ddaethant i'r lle a elwir Calfaria, yno y croeſhoeliaſant ef: a'r drŵg weithredwŷr, un ar y llâw ddehau, a'r llall ar yr aſſwy. A'r Ieſu a ddywedodd, O Dâd, maddau iddynt; canys n ŵyddant pa beth y maent yn ei wneuthur. A hwy a rannaſant ei ddillad ef, ac a fwriaſant goelbren. A'r bobl a ſafodd yn edrych; a'r penaethiaid hefyd gyd â hwynt a watworaſant, gan ddywedyd, Eraill a waredodd efe, gwareded ef ei hun, os hwn yw Criſt, etholedig Duw. A'r milwŷr hefyd a'i gwatworaſant ef, gan ddyfod atto, a chynnyg iddo finegr, a dywedyd, O's tydi yw Brenhin yr Iuddewon, gwared dy hun. Ac yr ydoedd hefyd arſgrifen wedi ei 'ſgrifennu uwch ei ben ef, â llythyrennau Grôeg, a Lladin, ac Ebrew, HWN YW BRENHIN YR IUDDEWON. Ac un o'r drŵg-weithredwŷr a grogaſid, a'i cablodd ef, gan ddywedyd, O's tydi yw Criſt, gwared dy hun a ninnau. Eithr y llall a attebodd ac a'i ceryddodd ef, gan ddywedyd, Onid ŵyt ti yn ofni Duw, gan dy fod dan yr un ddamnedigaeth? A nyni yn wîr yn gyfiawn; (canys yr ydym yn derbyn yr hyn a haeddai y pethau a wnaethom:) eithr hwn ni wnaeth ddim allan o'i le. Ac efe a ddywedodd wrth yr Ieſu, Arglwydd cofia fi, pan ddelych i'th deyrnas. A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, Yn wîr meddaf i ti, heddyw y byddi gyd â mi ym Mharadwys. Ac yr ydoedd hi ynghŷlch y chweched awr. A thywyllwch a fu ar yr holl ddaear, hyd y nawfed awr. A'r haul a dywyllwyd, a llenn y deml a rwygwyd yn ei chanol. A'r Ieſu gan lefain â llêf uchel a ddywedodd, O Dâd, i'th ddwylaw di y gorchymynnaf fy Yſpryd: Ac wedi iddo ddywedyd hyn efe a drengodd. A'r Canwriad pan welodd y peth a wnaethpwyd, a ogoneddodd Dduw gan ddywedyd, Yn wîr yr oedd hwn yn ŵr cyfiawn, a'r holl bobloedd, y rhai a ddaethent ynghŷd i edrych hyn, wrth weled y pethau a wnaethpwyd, a ddychwelaſant, gan guro eu dwyfronnau. A'i holl gydnabod ef a ſafaſant o hirbell, a'r gwragedd, y rhai a'i canlynaſant ef o Galilea, yn edrych ar y pethau hyn.

Dŷdd Gwener y Croglith.

Y Colectau.

HOll-alluog Dduw, ni a attolygwn i ti edrych o honot yn raſuſol ar dy deulu hwn yma, dros yr hwn y bu ſoddlon gan ein Harglwydd Ieſu Criſt gael ei fradychu, a'i roddi yn nwylaw dynion anwir, a dioddef angau ar y groes, yr hwn ſydd yn awr yn byw ac yn teyrnaſu gyd â Thydi a'r Yſbryd glân, byth yn un Duw, heb drangc na gorphen, *Amen.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, trwy Yſbryd pa un y llywodraethir ac y ſancteiddir holl gorph yr Eglwys; derbyn ein herſyniou a'n gweddïau,

ddiau, y rhai yr ydym ni yn eu hoffrwm ger dy fron di dros bob grâdd o ddynion yn dy ſanctaidd Eglwys, ſel y gallo pob aelod o honi yn ei alwedigaeth a'i waſanaeth, yn gywir, ac yn dduwiol dy waſanaethu di, trwy ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Ieſu Griſt. *Amen.*

O Drugarog Dduw, yr hwn a wnaethoſt bob dŷn, ac ni chaſei ddim a'r a wnaethoſt, ac ni ſynnit ſarwolaeth pechadur, ond yn hytrach ymchwelyd o hono a byw; trugarhâ wrth yr holl Iuddewon, Tyrciaid, Antîyddlonion, a Hereticiaid, a chymmer oddi wrthynt bob anwybodaeth, caledwch calon a dirmyg ar dy air; ac felly dŵg hwynt adref, wynſydedig Arglwydd, at dy braidd, ſel y bônt gadwedig ym mhlith gweddillion y gwîr Iſraeliaid, a bod yn un gorlan dan yr un bugail Ieſu Griſt ein Harglwydd, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyd â Thydi a'r Yſbryd glân, byth yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

Yr Epiſtol. Hebr. 10. 1.

Y Gyfraith, yr hon ſydd ganddi gyſgod daionus bethau i ddyfod, ac nid gwîr ddelw y pethau, ni's gall trwy yr aberthau hynny, y rhai y maent bob blwyddyn yn eu hoffrymmu yn waſtadol, byth berffeithio y rhai a ddêl atti. O blegid yna hwy a beidiaſent â'u hoffrymmu am na buaſai gydwybod pechod mwy gan y rhai a addolaſent, wedi eu glanhâu unwaith: Eithr yn yr aberthau hynny y mae adgoffa pechodau bob blwyddyn. Canys ammhoſſibl yw i waed teirw a geiſr dynnu ymaith bechodau: O herwŷdd pa ham y mae eſe wrth ddyfod i'r bŷd, yn dywedyd, Aberth ac offrwm ni's mynnaiſt, eithr corph a gymmhwyſaiſt i mi: Offrymmau poeth, a thros bechod, ni buoſt foddlon iddynt: Yna y dywedais, Wele fi yn dyfod (y mae yn yſgrifennedig yn nechreu y llyfr am danaf) i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw. Wedi iddo ddywedyd uchod, Aberth, ac offrwm, ac offrymmau poeth, a thros bechod ni's mynnaiſt, ac nid ymfoddlonaiſt ynddynt, y rhai yn ôl y gyfraith a offrymmir; Yna y dywedodd, Wele fi yn dyfod, i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw. Y mae yn tynnu ymaith y cyntaf, ſel y goſodai yr ail. Trwy yr hwn ewyllys yr ydym ni wedi ein ſancteiddio, trwy offrymmiad corph Ieſu Griſt unwaith. Ac y mae pob Offeiriad yn ſefyll beunydd yn gwaſanaethu, ac yn offrymmu yn fynych yr un aberthau, y rhai ni allant fyth ddileu pechodau: Eithr hwn wedi offrymmu un aberth dros bechodau, yn dragywydd a eiſteddodd ar ddeheu-lâw Dduw; O hyn allan yn diſgwyl hyd oni oſoder ei elynion ef yn droed-faingc i'w draed ef. Canys ag un offrwm y perffeithiodd efe yn dragywyddol y rhai ſy wedi eu ſanctaiddio. Ac y mae yr Yſpryd glân hefyd yn tyſtiolaethu i ni: canys wedi iddo ddywedyd o'r blaen, Dyma 'r cyfammod, yr hwn a ammodaf fi â hwynt ar ôl y dyddiau hynny, medd yr Arglwydd, Myfi a oſodaf fy nghyfreithiau yn eu calonnau, ac a'u hyſgrifennaf yn eu meddyliau: A'u pechodau, a'u hanwireddau, ni chofiaf mwyach. A lle y mae maddeuant am y rhai hyn, nid oes mwyach offrwm tros bechod. Am hynny frodyr, gan fod i ni ryddid i fyned i fewn i'r cyſſegr trwy waed Ieſu, ar hŷd ffordd newŷdd a bywiol, yr hon a gyſſegrodd efe i ni, trwy 'r llenn, ſef ei gnawd ef, A bod i ni Offeiriad mawr ar dŷ Dduw; Neſâwn a chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, wedi glanhâu ein calonnau oddiwrth gydwybod ddrŵg, a golchi ein corph â dwfr glân. Daliwn gyffes ein gobaith yn ddiſigl; (canys ffyddlon yw 'r hwn a addawodd.) A chŷd-yſtyriwn bawb a'u gilydd, i ymannog i gariad a gweithredoedd da: Heb eſgeuluſo ein cŷd-gynhulliad ein hunain, megys y mae arfer rhai; ond annog bawb eu gilydd: a hynny yn fwy, o gymmaint a'ch bod yn gweled y dŷdd yn neſau.

Yr Efengyl. S. Ioan 19. 1.

YNa gan hynny y cymmerodd Pilat yr Ieſu, ac a'i ſflangellodd ef. A'r milwŷr a blethaſant goron o ddrain, ac a'i goſodaſant ar ei ben ef, ac a roiſant wiſg o borphor am dano: Ac a ddywedaſant, Henffych well, brenhin yr Iuddewon; ac a roiſant iddo gernodiau. Pilat gan hynny a aeth allan drachefn, ac a ddywedodd wrthynt, Wele yr ŵyf yn ei ddwyn ef allan i chwi, ſel y gŵypoch nad ŵyfi yn cael ynddo ef un bai. Yna y daeth yr Ieſu allan, yn arwain y goron ddrain, a'r wiſg borphor. A Philat a ddywedodd wrthynt, Wele y dŷn. Yna yr Arch-offeiriaid a'r ſwyddogion, pan welſant ef, a leſaſant, gan ddywedyd, Croes-hoelia, croes-hoelia ef. Pilat a ddywedodd wrthynt, Cymmerwch chwi ef, a chroeſhoeliwch: canis nid ŵyfi yn cael dim bai ynddo. Yr Iuddewon a attebaſant iddo, y mae gennym ni gyfraith, ac wrth ein cyfraith ni, eſe a ddylai farw, am iddo ei wneuthur ei hun yn Fâb Duw. A phan glybu Pilat yr ymadrodd hwnnw, eſe a ofnodd yn fwy, ac a aeth drachefn i'r dadleu-dŷ, ac a ddywedodd wrth yr Ieſu, O ba le yr ŵyt ti? Ond ni roes yr Ieſu atteb iddo. Yna Pilat a ddywedodd wrtho, oni ddywedi di wrthyf fi? Oni ŵyddoſt ti fod gennyf awdurdod i'th groes-hoelio di, a bod gennyf awdurdod i'th ollwng yn rhŷdd? Yr Ieſu a attebodd, Ni byddai i ti ddim awdurdod arnafi, oni bai ei fod wedi ei roddi i ti oddi uchod: am hynny yr hwn am traddodes i ti ſydd fwy ei bechod. O hynny allan y ceiſiodd Pilat ei ollwng ef yn rhŷdd, ond yr Iuddewon a lefaſant, gan ddywedyd, O's goliyngi di hwn yn rhŷdd, nid ŵyt ti yn garedig i Cefar: pwy bynnag a'i gwnelo ei hun yn frenhin, y mae yn dywedyd yn erbyn Cefar. Yna Pilat pan glybu yr ymadrodd hwn, a ddûg allan yr Ieſu, ac a eiſteddodd ar yr orſedd faingc, yn y lle a elwir y Palmant, ac yn Hebraeg Gabbatha. A darpar-ŵyl y Pâſg oedd hi, ac ynghylch y chweched awr; ac eſe a ddywedodd wrth yr Iuddewon, Wele eich brenhin. Eithr hwy a leſaſant, Ymaith ag ef; ymaith ag ef, croes-hoelia ef. Pilat a ddywedodd wrthynt, A groes-hoeliaf fi eich brenhin chwi? A'r Arch-offeiriaid a attebaſant, Nid oes i ni frenhin ond Cefar. Yna gan hynny, eſe a'i traddodes ef iddynt i'w groes-hoelio: a hwy a gymmeraſant yr Ieſu, ac a'i dygaſant ymaith. Ac eſe gan ddwyn ei groes, a ddaeth i le a elwid lle 'r Ben-glog, ac a elwir yn Hebraeg Golgotha; lle y croes-hoeliaſant ef, a dau eraill gyd ag ef, un o bob tu, a'r Ieſu yn y canol. A Philat a ſgrifennodd ditl, ac a'i dododd ar y Groes. A'r yſgrifen oedd, IESU O NAZARETH, BRENHIN YR IUDDEWON. Y titl hwn gan hynny a ddarllenodd llawer o'r Iuddewon; oblegid agos i'r ddinas oedd y ſân lle y croes-hoeliwyd yr Ieſu: ac yr oedd wedi ei 'ſgrifennu yn Hebraeg, Groeg, a Lladin. Yna Arch-offeiriaid yr Iuddewon a ddywedaſant wrth Pilat, Na 'ſgrifenna, brenhin yr Iuddewon; eithr dywedyd o hono ef, brenhin yr Iuddewon ydwyf. Pilat a attebodd, yr hyn a 'ſgrifennais, a 'ſgrifennais. Yna 'r milwŷr wedi iddynt groes-hoelio yr Ieſu, a gymmeraſant ei ddillad ef, (ac a wnaethant bedair rhân, i bob milwr rân) a'i bais ef: a'i bais ef oedd ddiwniad, wedi ei gwau o'r cwrr uchaf trwyddi oll. Hwythau a ddywedaſant wrth eu gilydd, Na thorrwn hi, ond bwriwn goel-brennau am dani, eiddo pwy fydd hi: ſel y cyflawnid yr ſgrythur ſydd yn dywedyd, Rhannaſant fy nillad yn eu mŷſg, ac am fy mhais y bwriaſant goel-brennau. A'r milwŷr a wnaethant y pethau hyn. Ac yr oedd yn ſefyll wrth groes yr Ieſu, ei fam ef, a chwaer ei fam ef, Mair gwraig Cleophas, a Mair Magdalen.

Yr Ieſu gan hynny pan welodd ei fam, a'r diſgybl, yr hwn a garai efe, yn ſefyll ger llaw, a ddywedodd wrth ei fam. O wraig, wele dy fâb. Gwedi hynny y dywedodd wrth y diſgybl, wele dy fam: ac o'r awr honno allan y cymmerodd y diſgybl hi i'w gartref. Wedi hynny yr Ieſu yn gŵybod fod pob peth wedi ei orphen weithian, fel y cyflawnid yr yſgrythur, a ddywedodd, Y mae ſyched arnaf. Yr oedd gan hynny leſtr wedi ei oſod yn llawn o finegr; a hwy a lanwaſant yſpwng o finegr, ac a'i rhoddaſant ynghŷlch iſop, ac a'i dodaſant wrth ei enau ef. Yna pan gymmerodd yr Ieſu y finegr, efe a ddywedodd, Gorphennwyd: a chan ogŵyddo ei ben, efe a roddodd i ſynu yr Yſpryd. Yr Iuddewon gan hynny, fel nad arhoai y cyrph ar y groes ar y Sabbath, o herwŷdd ei bod yn ddarpar-ŵyl, (canys mawr oedd y dŷdd Sabbath hwnnw) a ddeiſyfiaſant ar Pilat, gael torri eu heſgeiriau hwynt, a'u tynnu i lawr. Yna y milŵyr a ddaethant, ac a dorraſant eſgeiriau y cyntaf, a'r llall, yr hwn a groes-hoeliaſid gyd ag ef. Eithr wedi iddynt ddyfod at yr Ieſu, pan welſant ef wedi marw euſys, ni thorraſant ei eſgeiriau ef. Ond un o'r milwŷr a wahanodd ei yſtlys ef â gwayw-ffon, ac yn y fân daeth allan waed a dwfr. A'r hwn a'i gwelodd a dyſtiolaethodd, a gwîr yw ei dyſtiolaeth: ac efe a ŵyr ei ſod yn dywedyd gwîr, fel y credoch chwi. Canys y pethau hyn a wnaethwyd, fel y cyflawnid yr yſgrythur, Ni thorrir aſgwrn o hono. A thracheſn, yſgrythur arall ſydd yn dywedyd, Hwy a edrychant ar yr hwn a wahanaſant.

Nôs Baſg.

Y Colect.

CAniattâ, O Arglwydd, megis y'n bedyddir i farwolaeth dy fendigedig Fâb ein Hiachawdwr Ieſu Grift, ſod i ni ſelly trwy farwolaethu yn waſtad ein gwŷniau llygredig, gael ein claddu gyd ag ef, a thrwy 'r Bêdd a phorth angau, fyned ym mlaen i'n Hadgyfodiad llawen trwy ei haeddedigaethau ef, yr hwn a fu farw, ac y gladdwyd, ac a ail-gyfododd er ein mwyn, ſef, dy Fâb Ieſu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 Pedr 3. 17.

GWell ydyw, o's ewyllys Duw a'i mynn, i chwi ddioddef yn gwneuthur daioni, nag yn gwneuthur drygioni. Oblegid Criſt hefyd unwaith a ddioddefodd tros bechodau, y cyfiawn tros yr anghyfiawn; fel y dygai ni at Dduw, wedi ei farwolaethu yn y cnawd, eithr ei fywhâu yn yr Yſpryd, Trwy 'r hwn yr aeth efe hefyd ac a bregethodd i'r Yſprydion yngharchar; y rhai a fu gynt anuſudd, pan unwaith yr oedd hir ammynedd Duw yn aros yn nyddiau Noah, tra y darperid yr Arch; yn yr hon ychydig, ſef ŵyth enaid, a achubwyd trwy ddwfr. Cyffelybiaeth cyſattebol i'r hwn ſydd yr awrhon yn ein hachub ninnau, ſef, bedydd, (nid bwrw ymaith ſudreddi y cnawd, Eithr ymatteb cydwybod dda tu ac at Dduw) trwy adgyfodiad Ieſu Grift: yr hwn ſydd ar ddeheu-law Dduw, wedi myned i'r nêf, a'r Angylion, a'r awdurdodau, a'r galluoedd, wedi eu daroſtwng iddo.

Yr Efengyl. S. Math. 27. 57.

WEdi ei myned hi yn hŵyr, daeth gŵr goludog o Arimathea, a'i enw Joſeph, yr hwn a ſuaſai yntau yn ddiſgybl i'r Ieſu: Hwn a aeth at Pilat, ac a ofynnodd gorph yr Iſu. Yna y gorchymmynodd Pilat roddi 'r corph. A Joſeph wedi cymmeryd y corph, a'i hamdôdd â llîain glân: ac a'i goſodod ef yn ei fêdd newŷdd ei hun, yr hwn a dorraſai efe yn y graig: ac a dreiglodd faen mawr wrth ddrŵs y bêdd, ac a aeth ymaith. Ac yr oedd yno Mair Magdalen, a Mair arall, yn eiſtedd gyferbyn â'r bêdd. A thrannoeth, yr hwn ſydd ar ôl y darpar-ŵyl, yr ymgynhullodd yr Arch-offeiriaid a'r Pharifeaid at Pilat, gan ddywedyd, Arglwydd, y mae yn gôf gennym ddywedyd o'r twyllwr hwnnw, ac efe etto yn fyw, Wedi tridiau y cyfodaf, Gorchymmyn gan hynny gadw y bêdd yn ddîogel hyd y trydydd dŷdd, rhag dyfod ei ddiſgyblion o hŷd nôs, a'i ladratta ef, a dywedyd wrth y bobl, Efe a gyfododd o feirw: a bydd yr amryfuſedd diweddaf yn waeth nâ 'r cyntaf. A dywedodd Pilat wrthynt, Y mae gennych wyliadwriaeth, ewch, gwnewch mòr ddîogel ac y medroch. A hwy a aethant, ac a wnaethant y bêdd yn ddîogel, ac a ſeliaſant y maen, gyd â'r wyliadwriaeth.

Dŷdd Paſg.

¶ *Ar Foreuol Weddi, yn lle 'r Salm* [Deuwch, canwn i'r Arglwydd, *&c.*] *y cenir, neu y dywedir yr Anthemau hyn.*

CRiſt ein Paſg ni a aberthwyd droſom ni: Am hynny cadwn ŵyl, nid â hên leſain, nac â leſain malais a drygioni, ond â bara croyw purdeb a gwirionedd. 1 *Cor.* 5. 7, 8.

CRiſt wedi cyfodi oddi wrth y meirw, ni bydd marw mwyach, nid arglwyddiaetha marwolaeth arno mwyach. Canys fel y bu efe farw, efe a fu farw unwaith i bechod: ac fel y mae yn byw, byw y mae i Dduw. Felly chwithau hefyd, cyfriſwch eich hunain yn feirw i bechod; eithr yn fyw i Dduw, yng Nghriſt Ieſu ein Harglwydd. *Rhuf.* 6. 9, 10, 11.

CRiſt a gyſodwyd oddi wrth y meirw, ac a wnaed yn flaen-ffrwyth y rhai a hunaſant. Canys gan fod marwolaeth trwy ddŷn, trwy ddŷn hefyd y mae adgyfodiad y meirw. O blegid, megis yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yng Nghriſt y bywheir pawb. 1 *Cor.* 15. 20, 21, 22.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd glân;

Atteb. Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn trwy dy unig-anedig Fâb Ieſu Grift, a orchfygaiſt angau, ac a agoraiſt i ni borth y bywŷd tragywyddol: yn ufudd yr attolygwn i ti, megis (trwy dy râs hyſbyſol yn ein hachub) yr ŵyt yn peri deiſyfiadau da i'n meddyliau: ſelly trwy dy ddyfal gymmorth, allu o honom eu dwyn i berffeithrwydd cyflawn, trwy Ieſu Grift ein Harglwydd, yr hwn ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu, gyd â thydi a'r Yſbryd glân, byth yn un Duw heb drangc na gorphen. *Amen.*

Yr Epiſtol. Coloſ. 3. 1.

O'S cŷd-gyfodaſoch gyd â Chriſt, ceiſiwch y pethau ſydd uchod, lle mae Criſt yn eiſtedd ar ddeheu-law Duw. Rhoddwch eich ſerch ar bethau ſydd uchod, nid ar bethau ſy ar y ddaear. Canys meirw ydych, a'ch bywyd a guddiwyd gyd â Chriſt yn Nuw. Pan ymddangoſo Criſt, ein bywyd ni, yna hefyd yr ymddangoſwch chwithau gyd ag ef mewn gogoniant. Mawrhêwch gan hynny eich aelodau, y rhai ſy ar y ddaear: godineb, aflendid, gwŷn, drygchwant, a chybyddod, yr hon ſydd eilun-addoliaeth: o achos yr hyn bethau y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod. Yn y rhai hefyd y rhodiaſoch chwithau gynt, pan oeddych yn byw ynddynt.

Yr Efengyl. S. Ioan 20. 1.

YDŷdd cyntaf o'r ŵythnos, Mair Magdalen a ddaeth y boreu, a hi etto yn dywyll, at y bêdd, ac a welodd y maen wedi ei dynnu ymaith oddi ar y bêdd. Yna y rhedodd hi, ac a ddaeth

at

at Simon Pedr, a'r diſgybl arall, yr hwn yr oedd yr Ieſu yn ei garu, ac a ddywedodd wrthynt, Hwy a ddygaſant yr Arglwydd ymaith o'r bêdd, ac ni ŵyddom ni pa le y dodaſant ef. Yna Pedr a aeth allan, a'r diſgybl arall, a hwy a ddaethant at y bêdd: ac a redaſant ill dau ynghŷd; a'r diſgybl arall, a redodd o'r blaen yn gynt nâ Phedr, ac a ddaeth yn gyntaf at y bêdd. Ac wedi iddo grymmu, eſe a ganfu y llieiniau wedi eu goſod: er hynny nid aeth eſe i mewn. Yna y daeth Simon Pedr yn ei ganlyn ef, ac a aeth i mewn, i'r bêdd, ac a ganfu y llieiniau wedi eu goſod: a'r napcyn a fuaſai am ei ben ef, wedi ei oſod, nid gyd â'r llieiniau, ond o'r nailltu, wedi ei blygu mewn lle arall. Yna yr aeth y diſgybl arall hefyd i mewn, yr hwn a ddaethai yn gyntaf at y bêdd, ac a welodd, ac a gredodd. Canys hyd yn hyn ni ŵyddent yr yſgrythur, fod yn rhaid iddo gyfodi o feirw. Yna y diſgyblion a aethant ymaith drachefn at yr eiddynt.

Dŷdd Llûn Paſg.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn trwy dy unig-anedig Fâb Ieſu Griſt, a orchfygaiſt angau, ac a agoraiſt i ni borth y bywyd tragywyddol; yn ufudd yr attolygwn i ti, megis (trwy dy râs hyſbyſol yn ein hachub) yr ŵyt yn peri deiſyfiadau da i'n meddyliau, felly trwy dy ddyfal gymmorth allu o honom eu dwyn i ben da, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyd â thydi a'r Yſbryd glân, byth yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Act. 10. 34.

PEdr a agorodd ei enau, ac a ddywedodd, Yr ŵyf yn deall mewn gwirionedd, nad ydyw Duw dderbyniwr ŵyneb. Ond ym mhob cenhedl, y neb ſydd yn ei ofni ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, ſydd gymmeradwy ganddo ef. Y gair yr hwn a anfonodd Duw i blant Iſrael, gan bregethu tangnefedd trwy Ieſu Griſt, eſe yw Arglwydd pawb oll, Chwychwi a ŵyddoch y gair a fu yn holl Judea, gan ddechreu o Galilea, wedi y bedydd a bregethodd Ioan; y môdd yr enneiniodd Duw Ieſu o Nazareth â'r Yſpryd glân, ac â nerth, yr hwn a gerddodd o amgylch gan wneuthur daioni, ac iachâu pawb a'r oedd wedi eu gorthrymmu gan ddiawl; oblegid yr oedd Duw gyd ag ef. A ninnau ydym dyſtion o'r pethau oll a wnaeth efe, yngwlâd yr Iuddewon, ac yn Jeruſalem, yr hwn a laddaſant, ac a groes-hoeliaſant ar bren: Hwn a gyfododd Duw y trydydd dŷdd, ac a'i rhoddes ef i'w wneuthur yn amlwg, nid i'r bobl oll, eithr i'r tyſtion etholedig o'r blaen gan Dduw, ſef i ni, y rhai a fwyttaſom, ac a yfaſom gyd ag ef, wedi ei adgyfodi ef o feirw. Ac efe a orchymynodd i ni bregethu i'r bobl, a thyſtiolaethu mai efe yw'r hwn a ordeiniwyd gan Dduw, yn farnwr byw a meirw. I hwn y mae'r holl brophwydi yn dwyn tyſtiolaeth, y derbyn pawb a gredo ynddo ef faddeuant pechodau, drwy ei enw ef.

Yr Efengyl. S. Luc 24. 13.

WEle, dau o honynt oedd yn myned y dŷdd hwnnw i drêf a'i henw Emmäus, yr hon oedd ynghŷlch trugain 'ſtâd oddiwrth Jeruſalem. Ac yr oeddynt hwy yn ymddiddan a'u gilydd, am yr holl bethau hyn a ddigŵyddaſent. A bu, fel yr oeddynt yn ymddiddan, ac yn ymofyn a'u gilydd, yr Ieſu ei hun hefyd a neſaodd, ac a aeth gyd â hwynt. Eithr eu llygaid hwynt a attaliwyd, fel na's adwaenent ef. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa ryw ymadroddion yw y rhai hyn yr ydych yn eu bwrw at eu gilydd, dan rodio, ac yn ŵyneb-driſt? Ac un o honynt a'i enw Cleophas gan atteb a ddywedodd wrtho, A ŵyt ti yn unig yn ymdeithydd yn Jeruſalem, ac ni ŵybuoſt y pethau a wnaethwyd ynddi hi, yn y dyddiau hyn? Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa bethau? Hwythau a ddywedaſant wrtho y pethau ynghŷlch Ieſu o Nazareth, yr hwn oedd ŵr o brophwyd galluog mewn gweithred a gair ger bron Duw a'r holl bobl: A'r môdd y traddododd yr Aroh-offeiriaid a'n llywodradthwŷr ni ef i farn marwolaeth, ac a'i croes-hoeliaſant ef. Ond yr oeddym ni yn gobeithio mai efe oedd yr hwn a waredai'r Iſrael: Ac heb law hyn oll, heddyw yw'r trydydd dŷdd, er pan wnaethwyd y pethau hyn, A hefyd rhai gwragedd o honom ni, a'n dychrynaſant ni, gwedi iddynt fod yn foreu wrth y bêdd; a phan na chawſant ei gorph ef, hwy a ddaethant, gan ddywedyd weled o honynt weledigaeth o angylion, y rhai a ddywedent ei fod efe yn fyw. A rhai o'r rhai oedd gyd â nyni, a aethant at y bêdd, ac a gawſant felly, fel y dywedaſai y gwragedd; ond ef ni's gwelſant. Ac efe a ddywedodd wrthynt, O ynfydion, a hwyrfrydig o gâlon, i gredu 'r holl bethau a ddywedodd y prophwydi! Ond oedd raid i Griſt ddioddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant? A chan ddechreu ar Moſes, a'r holl brophwydi efe a eſponiodd iddynt yn yr holl yſgrythyrau, y pethau am dano ei hun. Ac yr oeddynt yn neſâu i'r drêf lle yr oeddynt yn myned: ac yntau a gymmerth arno ei fod yn myned ym mhellach. A hwy a'i cymmellaſant ef, gan ddywedyd, Aros gyd â ni, canys y mae hi yn hwyrhâu, a'r dŷdd yn darfod. Ac efe a aeth i mewn i aros gyd â hwynt. A darfu, ag efe yn eiſtedd gyd a hwynt, efe a gymmerodd fara, ac a'i bendithiodd, ac a'i torrodd, ac a'i rhoddes iddynt. A'u llygaid hwynt a agorwyd, a hwy a'i hadnabuant ef: ac efe a ddiflannodd allan o'u golwg hwynt. A hwy a ddywedaſant wrth eu gilydd, Onid oedd ein câlon ni yn lloſgi ynom, tra 'r ydoedd efe yn ymddiddan â ni ar y ffordd, a thra 'r ydoedd efe yn agoryd i ni 'r yſgrythyrau? A hwŷ a godaſant yr awr honno, ac a ddychwelaſant i Jeruſalem, ac a gawſant yr un ar ddeg wedi ymgaſglu ynghŷd, ar ſawl oedd gyd â hwynt, yn dywedyd, Yr Arglwydd a gyfododd yn wîr, ac a ymddangoſodd i Simon. A hwythau a adroddaſant y pethau a wnaetheſid ar y ffordd, a pha fôdd yr adnabüwyd ef ganddynt, wrth dorriad y bara.

Dŷdd Mawrth Paſg.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn trwy dy unig-anedig Fâb Ieſu Griſt a orchfygaiſt angau, ac a agoraiſt i ni borth y bywyd tragywyddol: yn ufudd yr attolygwn i ti, megis (trwy dy râs hyſbyſol yn ein hachub) yr ŵyt yn peri deiſyfiadau da i'n meddyliau, felly trwy dy ddyfal gymmorth allu o honom eu dwyn i ben da, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyd â thydi a'r Yſbryd glân, byth yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Act. 13. 26.

HA wŷr frodyr, plant o genedl Abraham, a'r rhai yn eich plith ſydd yn ofni Duw, i chwi y danfonwyd gair yr iechydwriaeth hon: Canys y rhai oedd yn preſwylio yn Jeruſalem, a'u tywyſogion, heb adnabod hwn, na lleferydd y prophwydi y rhai a ddarllenid bob ſabbath, gan ei farnu ef, a'u cyflawnaſant. Ac er na chawſant ynddo ddim achos angau, hwy a ddymunaſant ar Pilat ei lâdd ef. Ac wedi iddynt gwpplâu pob peth ar a 'ſgrifennaſid am dano ef, hwy a'i diſgynnaſant ef oddiar y pren, ac a'i dodaſant mewn bêdd. Eithr Duw a'i cyfododd ef oddiwrth y meirw: Yr hwn a welwyd dros ddyddiau lawer,

gan y rhai a ddaethai i ſynu gyd ag ef o Galilea i Jeruſalem, y rhai ſydd dyſtion iddo wrth y bobl. Ac yr ydym ni yn efangylu i chwi, yr addewid a wnaed i'r tadau, ddarſod i Dduw gyflawni hwn i ni eu plant hwy, gan iddo adgyfodi 'r Iefu: Megis ac yr yſgrifenwyd yn yr ail Salm, Fy Mâb i ydwyt ti, myfi heddyw a'th genhedlais. Ac am iddo ei gyfodi ef o'r meirw, nid i ddychwelyd mwy i lygredigaeth, y dywedodd fel hyn, Rhoddaf i chwi ſier drugareddau Dafydd. Ac am hynny y mae yn dywedyd mewn Salm arall, Ni adewi i'th Sanct weled llygredigaeth. Canys Dafydd wedi iddo waſanaethu ei genhedlaeth ei hun trwy ewyllys Duw, a hunodd, ac a ddodwyd at ei dadau, ac a welodd lygredigaeth. Eithr yr hwn a gyfododd Duw, ni welodd lygredigaeth. Am hynny, bydded hyſpys i chwi, Ha wŷr frodyr, mai trwy hwn yr ydys yn pregethu i chwi faddeuant pechodau. A thrwy hwn y cyfiawnheir pob un ſydd yn credu, oddiwrth yr holl bethau y rhai ni allech drwy gyfraith Moſes, gael eich cyfiawnhâu oddiwrthynt. Gwiliwch gan hynny, na ddêl arnoch y peth a ddywedwyd yn y prophwydi, Edrychwch, O ddirmygwŷr a rhyfeddwch, a diſlennwch: canys yr ŵyf yn gwneuthur gweithred yn eich dyddiau, gwaith ni chredwch ddim, er i neb ei ddangos i chwi.

Yr Efengyl. S. Luc 24. 36.

YR Iefu ei hun a ſafodd ynghanol ei ddiſgyblion, ac a ddywedodd wrthynt, Tangnefedd i chwi. Hwythau wedi brawychu, ac ofni, a dybiaſant weled o honynt Yſpryd. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa ham y'ch trallodir, a pha ham y mae meddyliau yn codi yn eich calonnau? Edrychwch fy nwylaw a'm traed, mai myfi fy hun ydyw: Teimlwch fi, a gwelwch; canys nid oes gan yſpryd gnawd ac eſgyrn, fel y gwelwch fod gennyf fi. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddangoſodd iddynt ei ddwylaw a'i draed. Ac a hwy etto heb gredu gan lawenydd, ac yn rhyfeddu, efe a ddywedodd wrthynt, A oes gennych chwi yma ddim bwyd? A hwy a roiſant iddo ddarn o byſgodyn wedi ei roſtio, ac o ddil mêl. Yntau a'i cymmerodd, ac a'i bwyttaodd yn eu gŵydd hwynt. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Dyma 'r geiriau a ddywedais i wrthych, pan oeddwn etto gyd â chwi, bod yn rhaid cyflawnu pob peth a 'ſgrifennwyd ynghyfraith Moſes, a'r prophwydi, a'r Salmau, am danafi. Yna yr agorodd efe eu deall hwynt, fel y deallent yr Yſgrythyrau. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Felly yr yſgrifennwyd, ac felly yr oedd rhaid i Grift ddioddef, a chyfodi o feirw y trydydd dydd: A phregethu ediſeirwch, a maddeuant pechodau yn ei enw ef, ym mhlith yr holl genhedloedd, gan ddechreu yn Jeruſalem. Ac yr ydych chwi yn dyſtion o'r pethau hyn.

Yr ail Sûl ar ôl y Paſg.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a roddaiſt dy un Mâb i ni yn aberth dros bechod, ac hefyd yn eſampl o fuchedd dduwiol; dyro i ni râs fel y gallom byth yn ddiolchgar dderbyn ei anrhaethol leſhâd ef; ac hefyd beunydd ymrôi i ganlyn hendigedig lwybrau ei wîr lanaf fuchedd ef, trwy yr un Iefu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 S. Pedr 2. 19.

HYn ſydd raſol, o's yw neb o herwŷdd cydwybod i Dduw yn dwyn triſtwch, gan ddioddef ar gam. Oblegid pa glôd yw, o's pan bechoch a chael eich cernodio, y byddwch dda eich ammynedd? Eithr o's a chwi yn gwneuthur yn dda, ac yn dioddef, y byddwch dda eich ammynedd, hyn ſydd raſol ger bron Duw. Canys i hyn y'ch galwyd heſyd: Oblegid Crift yntau a ddioddefodd troſom ni, gan adael i ni eſampl, fel y canlynech ei ôl ef: Yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau: Yr hwn pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn, pan ddioddefodd ni fygythiodd; eithr rhoddodd ar y neb ſy yn barnu yn gyfiawn. Yr hwn ei hun a ddûg ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren, fel gwedi ein marw i bechodau, y byddem byw i gyfiawnder: trwy gleiſiau yr hwn yr iachäwyd chwi. Canys yr oeddych megys defaid yn myned ar gyfeiliorn: eithr yn awr chwi a ddychwelwyd at Fugail ac Eſgob eich eneidiau.

Yr Efengyl. S. Ioan 10. 11.

CRift a ddywedodd, myfi yw 'r bugail da: y bugail da ſydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid. Eithr y gwas cyflog, a'r hwn nid yw fugail, yr hwn nid eiddo y defaid; ſydd yn gweled y blaidd yn dyfod ac yn gadael y defaid, ac yn ffoi: a'r blaidd ſydd yn eu ſglyfio hwy, ac yn tarfu 'r

defaid,

Yr Sûl cyntaf gwedi'r Paſg.

Y Colect.

HOll-alluog Dâd, yr hwn a roddaiſt dy un Mâb i farw dros ein pechodau, ac i gyfodi drachefn dros ein cyfiawnhâd: Caniattâ i ni felly fwrw ymaith ſurdoes drygioni ac anwiredd, fel y gallom yn waſtad dy waſanaethu di ym mhurdeb buchedd a gwirionedd, trwy haeddedigaethau dy un Mâb Iefu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 S. Ioan 5. 4.

BEth bynnag a aned o Dduw, y mae yn gorchfygu 'r bŷd, a hon yw 'r oruchafiaeth ſydd yn gorchfygu 'r bŷd, ſef ein ffydd ni. Pwy yw 'r hwn ſydd yn gorchfygu 'r bŷd, onid yr hwn ſydd yn credu mai Iefu yw Mâb Duw? Dyma yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed, ſef Iefu Grift; nid trwy ddwfr yn unig, ond trwy ddwfr a gwaed: a'r Yſpryd yw 'r hwn ſydd yn tyſtiolaethu, oblegid yr Yſpryd ſydd wirionedd. Oblegid y mae tri yn tyſtiolaethu yn y nêf, y Tâd, y Gair, a'r Yſpryd glân: a'r tri hyn un ydynt. Ac y mae tri yn tyſtiolaethu ar y ddaear, yr Yſpryd, a'r Dwfr, a'r Gwaed: a'r tri hyn, yn un y maent yn cyttuno. O's tyſtiolaeth dynion yr ydym yn ei dderbyn, y mae tyſtiolaeth Duw yn fwy: Canys hyn yw tyſtiolaeth Duw, yr hon a dyſtiolaethodd efe am ei Fâb. Yr hwn ſydd yn credu ym Mâb Duw, ſydd ganddo y dyſtiolaeth ynddo ei hun: yr hwn nid yw yn credu i Dduw, a'i gwnaeth ef yn gelwyddog, oblegid na chredodd y dyſtiolaeth a dyſtiolaethodd Duw am ei Fâb. A hon yw 'r dyſtiolaeth, roddi o Dduw i ni fywyd tragywyddol: a'r bywyd hwn ſydd yn ei Fâb ef. Yr hwn y mae y Mâb ganddo y mae y bywyd ganddo: a'r hwn nid yw ganddo Fâb Duw, nid oes ganddo fywyd.

Yr Efengyl. S. Ioan 20. 19.

YNa, a hi yn hŵyr y dydd cyntaf hwnnw o'r wythnos, a'r dryſau yn gauad, lle yr oedd y diſgyblion wedi ymaſglu ynghŷd, rhag ofn yr Iuddewon, daeth yr Iefu, ac a ſafodd yn y canol, ac a ddywedodd wrthynt, Tangnefedd i chwi. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddangoſodd iddynt ei ddwylaw, a'i yſtlys. Yna 'r diſgyblion a lawenychaſant, pan welſant yr Arglwydd. Yna y dywedodd yr Iefu wrthynt drachefn, Tangnefedd i chwi: megis y danfonodd y Tâd fi, yr ŵyf finnau yn eich danfon chwi. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a anadlodd arnynt, ac a ddywedodd wrthynt, Derbyniwch yr Yſpryd glân, Pwy bynnag y maddeuoch eu pechodau, maddeuir iddynt; a'r eiddo pwy bynnag a attalioch, hwy a attaliwyd.

Yr ail Sûl ar ôl y Paſg.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a roddaiſt dy un Mâb i ni yn aberth dros bechod, ac hefyd yn eſampl o fuchedd dduwiol; dyro i ni râs fel y gallom byth yn ddiolchgar dderbyn ei anrhaethol leſhâd ef; ac hefyd beunydd ymrôi i ganlyn hendigedig lwybrau ei wîr lanaf fuchedd ef, trwy yr un Iefu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 S. Pedr 2. 19.

HYn ſydd raſol, o's yw neb o herwŷdd cydwybod i Dduw yn dwyn triſtwch, gan ddioddef ar gam. Oblegid pa glôd yw, o's pan bechoch a chael eich cernodio, y byddwch dda eich ammynedd? Eithr o's a chwi yn gwneuthur yn dda, ac yn dioddef, y byddwch dda eich ammynedd, hyn ſydd raſol ger bron Duw. Canys i hyn y'ch galwyd heſyd: Oblegid Crift yntau a ddioddefodd troſom ni, gan adael i ni eſampl, fel y canlynech ei ôl ef: Yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau: Yr hwn pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn, pan ddioddefodd ni fygythiodd; eithr rhoddodd ar y neb ſy yn barnu yn gyfiawn. Yr hwn ei hun a ddûg ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren, fel gwedi ein marw i bechodau, y byddem byw i gyfiawnder: trwy gleiſiau yr hwn yr iachäwyd chwi. Canys yr oeddych megys defaid yn myned ar gyfeiliorn: eithr yn awr chwi a ddychwelwyd at Fugail ac Eſgob eich eneidiau.

Yr Efengyl. S. Ioan 10. 11.

CRift a ddywedodd, myfi yw 'r bugail da: y bugail da ſydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid. Eithr y gwas cyflog, a'r hwn nid yw fugail, yr hwn nid eiddo y defaid; ſydd yn gweled y blaidd yn dyfod ac yn gadael y defaid, ac yn ffoi: a'r blaidd ſydd yn eu ſglyfio hwy, ac yn tarfu 'r

defaid,

deſaid. Y mae 'r gwâs cyflog yn ffoi, o blegid mai gwâs cyflog yw; ac nid oes ofal arno am y deſaid. Myfi yw 'r bugail da; ac a adwaen yr eiddof fi, ac a'm hadwaenir gan yr eiddof fi. Fel yr edwyn y Tâd fyfi, felly yr adwaen innau y Tâd: ac yr ydwyf yn rhoddi fy einioes dros y deſaid. A deſaid eraill ſy gennyf, y rhai nid ŷnt o'r gorlan hon: y rhai hynny hefyd ſy raid i mi eu cyrchu; a'm llais i a wrandawant, a bydd un gorlan, ac un bugail.

Y trydydd Sûl ar ôl y Paſg.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn ŵyt yn dangos i'r ſawl ſy ar gyfeiliorn lewyrch dy wirionedd, er eu dwyn i ffordd cyfiawnder; Caniattâ i bawb a dderbynier i gymdeithas Crefydd Criſt, allu o honynt ymogelyd y cyfryw bethau ag y fydd wrthwyneb i'w profeſſu, a chanlyn y ſawl bethau oll ag a ſyddo yn cyttuno â'r unrhyw, trwy ein Harglwydd Ieſu Criſt. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 S. Pedr 2. 11.

ANwylyd, yr ŵyf yn attolwg i chwi, megis dieithriaid a phererinion, ymgedwch oddiwrth chwantau cnawdol, y rhai ſy yn rhyfela yn erbyn yr enaid; gan fod a'ch ymarweddiad yn oneſt ym mŷſg y Cenhedloedd; fel, lle maent yn eich goganu megis drŵg weithredŵr, y gallont o herwŷdd eich gweithredoedd da a welant, ogoneddu Duw yn nŷdd yr ymweliad. Ymddaroſtyngwch oblegid hyn i bob dynol ordinhâd, o herwŷdd yr Arglwydd: pa un bynnag ai i'r brenhin, megis goruchaf; a'i i'r llywiawdwŷr, megis trwyddo ef wedi eu danſon; er dial ar y drŵg weithredwŷr, a mawl i'r gweithredwŷr da. Canys felly y mae ewyllys Duw, fod i chwi trwy wneuthur daioni, oſtegu anŵybodaeth dynion ffolion: Megis yn rhyddion, ac nid a rhyddid gennych megis cochl malais, eithr fel gwaſanaethwŷr Duw. Perchwch bawb. Cerwch y brawdoliaeth. Ofnwch Dduw. Anrhydeddwch y brenhin.

Yr Efengyl. S. Ioan 16. 16.

YR Ieſu a ddywedodd wrth ei ddiſgyblion, Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch: a thrachefn ychydig ennyd a chwi a'm gwelwch, am fy mod yn myned at y Tâd. Am hynny y dywedodd rhai o'i ddiſgyblion wrth eu gilydd, beth yw hyn y mae efe yn ei ddywedyd wrthym, Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch; a thrachefn, ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch: ac, Am fy mod yn myned at y Tâd. Am hynny hwy a ddywedaſant, Beth yw hyn y mae efe yn ei ddywedyd, Ychydig ennyd? ni ŵyddom ni beth y mae efe yn ei ddywedyd. Yna y gŵybu 'r Ieſu eu bod hwy yn ewyllyſio gofyn iddo, ac a ddywedodd wrthynt, Ai ymofyn yr ydych â'ch gilydd am hyn, oblegid i mi ddywedyd, Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch; a thrachefn, ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch? Yn wîr, yn wîr meddaf i chwi, chwi a ŵylwch, ac a alerwch, a'r bŷd a lawenycha: eithr chwi a fyddwch driſtion, ond eich triſtwch a droir yn llawenydd. Gwraig wrth eſgor ſydd mewn triſtwch, am ddyfod ei hawr: eithr wedi geni y plentyn, nid yw hi yn cofio ei gofid mwyach, gan lawenydd geni dŷn i'r bŷd. A chwithau am hynny ydych yr awrhon mewn triſtwch: Eithr mi a ymwelaf â chwi drachefn, a'ch câlon a lawenycha, a'ch llawenydd ni ddŵg neb oddi arnoch.

Y pedwerydd Sûl ar ôl y Paſg.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn yn unig biau llywodraethu afreolus chwantau a gwŷniau dynion pechadurus; Caniattâ i'th bobl, fod iddynt garu yr hyn yr ŵyt yn ei orchymmyn, a deiſyfu yr hyn yr ŵyt yn ei addo; fel ym mhlith anrafaelac aml ddamweiniau 'r bŷd, y gallo 'n calonnau gwbl aros yno lle y mae gwîr lawenydd i'w gaffael, trwy Ieſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. S. Iago 1. 17.

POB rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith, oddi uchod y mae, yn diſgyn oddi wrth Dâd y goleuni, gyd â'r hwn nid oes gyſnewidiad, na chyſgod tröedigaeth. O'i wîr ewyllys yr ynnillodd efe nyni, trwy air y gwirionedd, fel y byddem ryw flaen-ffrwyth o'i greaduriaid ef. O achos hyn, fy mrodyr anwyl, bydded pob dŷn eſgud i wrando, diog i leſaru, diog i ddigoſaint. Canys digoſaint gŵr, nid yw yn cyflawnu cyfiawnder Duw. O herwŷdd pa ham, rhoddwch heibio bob budreddi, a helaethrwydd malais, a thrwy addfwynder derbyniwch yr impiedig air, yr hwn a ddichon gadw eich eneidiau.

Yr Efengyl. S. Ioan 16. 5.

YR Ieſu a ddywedodd wrth ei ddiſgyblion, yn awr yr ŵyf yn myned at yr hwn am hanfonodd, ac nid yw neb o honoch yn gofyn i mi, I ba le yr ŵyt ti yn myned? eithr am i mi ddywedyd y pethau hyn i chwi, triſtwch a lanwodd eich câlon. Ond yr ŵyfi yn dywedyd gwirionedd i chwi, buddiol yw i chwi fy myned i ymaith: canys onid âf fi, ni ddaw y Diddanydd attoch: Eithr o's mi a âf, mi a'i hanſonaf ef attoch. A phan ddêl, efe a argyoedda 'r bŷd o bechod, ac o gyfiawnder, ac o farn: O bechod, am nad ydynt yn credu ynofi: o gyfiawnder, am fy môd yn myned at fy Nhâd, ac ni'm gwelwch i mwyach: O farn, oblegid tywyſog y bŷd hwn a farnwyd. Y mae gennyf etto lawer o bethau i'w dywedyd i chwi, ond ni ellwch eu dwyn yr awrhon. Ond pan ddêl efe, ſef Yſpryd y gwirionedd, efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd, canys ni leſara o hono ei hun; ond pa bethau bynnag a glywo, a leſara efe, a'r pethau ſy i ddyfod a fynega efe i chwi. Efe a'm gogonedda i: canys efe a gymmer o'r eiddof, ac a'i mynega i chwi. Yr holl bethau ſy eiddo 'r Tâd ydynt eiddofi: o herwŷdd hyn y dywedais mai o'r eiddofi y cymmer, ac y mynega i chwi.

Y pummed Sûl ar ôl y Paſg.

Y Colect.

OArglwydd, oddi wrth ba un y daw pob daioni; caniattâ i ni dy ufudd weiſion, allu o honom trwy dy ſanctaidd yſbrydoliaeth di feddwl y pethau a ſo union, a thrwy dy amgeleddus dywyſogaeth eu gwneuthur yn ddibennus, trwy ein Harglwydd Ieſu Criſt. *Amen.*

Yr Epiſtol. S. Iago 1. 22.

BYddwch wneuthurwŷr y gair, ac nid gwrandawŷr yn unig, gan eich twyllo eich hunain. Oblegid o's yw neb yn wrandâwr y gair, ac heb fod yn wneuthurwr, y mae hwn yn debyg i ŵr yn edrych ei ŵynebpryd naturiol mewn drŷch. Canys efe a'i hedrychodd ei hun, ac a aeth ymaith, ac yn y màn efe a anghofiodd pa fath ydoedd. Eithr yr hwn a edrych ar berffaith gyfraith rhyddid, ac a barhao ynddi; hwn heb fod yn wrandâwr anghofus, ond gwneuthurwr y weithred, efe a fydd dedwŷdd yn ei weithred. O's yw neb yn eich mŷſg yn cymmeryd arno fod yn grefyddol, heb attal ei dafod, ond twyllo ei câlon ei hun, ofer yw crefydd hwn. Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tâd, yw hyn, ymweled â'r ymddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddiſrycheulyd oddiwrth y bŷd.

Yr Efengyl. S. Ioan 16. 23.

YN wîr, yn wîr, meddaf i chwi, pa bethau bynnag a ofynnoch i'r Tâd, yn fy enw, efe a'u rhŷdd i chwi. Hyd yn hyn ni ofynnasoch ddim yn fy enw i: gofynnwch, a chwi a gewch, fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn. Y pethau hyn a leferais wrthych mewn damhegion: Eithr y mae yr awr yn dyfod pan na lefarwyf wrthych mewn damhegion mwyach, eithr y mynegaf i chwi yn eglur am y Tâd. Y dŷdd hwnnw y gofynnwch yn fy enw; Ac nid ŵyf yn dywedyd i chwi, y gweddiaf fi ar y Tâd trosoch; Canys y Tâd ei hun sydd yn eich caru chwi, am i chwi fy ngharu i, a chredu fy nyfod i allan oddiwrth Dduw. Mi a ddaethum allan oddiwrth y Tâd, ac a ddaethum i'r bŷd: trachefn, yr ŵyf yn gadael y bŷd, ac yn myned at y Tâd. Ei ddisgyblion a ddywedasant wrtho, Wele, yr ŵyt ti yn awr yn dywedyd yn eglur, ac nid ŵyt yn dywedyd un ddammeg. Yn awr y gŵyddom y gŵyddost bob peth, ac nad rhaid it' ymofyn o neb a thi: Wrth hyn yr ydym yn credu ddyfod o honot allan oddiwrth Dduw. Yr Iesu a'u hattebodd hwynt, A ydych chwi yn awr yn credu? Wele, y mae 'r awr yn dyfod, ac yr awrhon hi a ddaeth, y gwasgerir chwi bob un at yr eiddo, ac y gadêwch fi yn unig: ac nid ŵyf yn unig, oblegid y mae y Tâd gyd â myfi. Y pethau hyn a ddywedais wrthych, fel y caffech dangnefedd ynof. Yn y bŷd gorthrymder a gewch; eithr cymmerwch gyssur, myfi a orchfygais y bŷd.

Dŷdd Iou y Dyrchafael.

Y Colect.

CAniattâ, ni a attolygwn i ti, Holl-alluog Dduw, megis ag yr ŷm ni yn credu ddarfod i'th uniganedig Fâb ein Harglwydd Iesu Grist ddyrchafael i'r nefoedd; felly bod i ninnau â meddylfryd ein càlon ymddyrchafael yno, a thrigo yn wastadol gyd ag ef, yr hwn sy 'n byw ac yn teyrnasu gyd â thi a'r Ysbryd glân, yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

Yn lle yr Epistol. Act. 1. 1.

Y Traethawd cyntaf a wnaethum, O Theophilus, am yr holl bethau a ddechreuodd yr Iesu eu gwneuthur a'u dysgu, Hyd y dŷdd y derbyniwyd ef i fynu, wedi iddo trwy yr Ysbryd glân roddi gorchymynion i'r Apostolion a etholasai. I'r rhai hefyd yr ymddangosodd efe yn fyw wedi iddo ddioddef, trwy lawer o arŵyddion sicr, gan fod yn weledig iddynt tros ddeugain niwrnod, a dywedyd y pethau a berthynent i deyrnas Dduw. Ac wedi ymgynnull gyd â hwynt, efe a orchymynodd iddynt nad ymadawent o Jerusalem, eithr disgwyl am addewid y Tâd, yr hwn, eb efe, a glywsoch gennyfi. Oblegid Ioan yn ddiau a fedyddiodd â dwfr, ond chwi a fedyddir â'r Ysbryd glân cyn nemmawr o ddyddiau. Gan hynny wedi eu dyfod hwy ynghŷd, hwy a ofynnasant iddo, gan ddywedyd, Arglwydd, ai 'r prŷd hyn y rhoddi dracheſn y frenhiniaeth i Israel? Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ni pherthyn i chwi ŵybod yr amseroedd, na'r prydiau, y rhai a osododd y Tâd yn ei feddiant ei hun. Eithr chwi a dderbyniwch nerth yr Ysbryd glân wedi y delo efe arnoch; ac a fyddwch dystion i mi yn Jerusalem, ac yn holl Judea, a Samaria, ac hyd eithaf y ddaear. Ac wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, a hwynt-hwy yn edrŷch, efe a ddyrchafwyd i fynu; a chwmmwl a'i derbyniodd ef allan o'u golwg hwynt. Ac fel yr oeddynt yn edrych yn ddyfal tu a 'r nêf, ac efe yn myned i fynu, wele, dau ŵr a safodd ger llaw iddynt, mewn gwisg wenn. Y rhai hefyd a ddywedasant, Chwi wŷr o Galilea, pa ham y sefwch yn edrych tu a'r nêf? yr Iesu hwn, yr hwn a gymmerwyd i fynu oddiwrthych i'r nêf, a ddaw felly yn yr un môdd ac y gwelsoch ef yn myned i'r nêf.

Yr Efengyl. S. Marc 16. 14.

YR Iesu a ymddangosodd i'r un ar ddêg, a hwynt yn eistedd i fwytta, ac a ddannoddodd iddynt eu hanghrediniaeth a'u càlon galedwch, am na chredasent y rhai a'i gwelsent ei wedi adgyfodi, Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch i'r holl fŷd, a phregethwch yr Efengyl i bob creadur. Y neb a gredo, ac a fedyddier a fydd cadwedig: Eithr y neb ni chredo a gondemnir. A'r arŵyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant; Yn fy enw i y bwriant allan gythreuliaid; ac â thafodau newyddion y llefarant; seirph a godant ymaith, ac os yfant ddim marwol, ni wnâ iddynt ddim niweid; ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant iach. Ac felly yr Arglwydd, wedi llefaru wrthynt, a gymmerwyd i fynu ir nêf, ac a eisteddodd ar ddeheu-law Dduw. A hwythau a aethant allan, ac a bregethasant ym mhob màn, a'r Arglwydd yn cŷd-weithio, ac yn cadarnhâu 'r gair trwy arŵyddion y rhai oedd yn canlyn.

Y Sûl ar ôl dŷdd y Dyrchafael.

Y Colect.

ODduw, brenhin y gogoniant, yr hwn a ddyrchefaist dy un Mâb Iesu Grist â mawr oruchafiaeth i'th deyrnas yn y nefoedd; Attolwg i ti na âd ni yn anniddan; eithr danfon i ni dy Ysbryd glân i'n diddanu, a dyrcha ni i'r un fân lle yr aeth ein Hiachawdwr Crist o'r blaen, yr hwn fydd yn byw ac yn teyrnasu gyd â thi a'r Ysbryd glân, yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

Yr Epistol. 1 Pedr 4. 7.

DIwedd pob peth a nesaodd; am hynny byddwch sobr, a gwiliadwrus i weddiau. Eithr o flaen pob peth bydded gennych gariad helaeth tu ac at eich gilydd: canys cariad a guddia liaws o bechodau. Byddwch letteugar y naill i'r llall heb rwgnach. Pob un megis y derbyniodd rôdd, cyfrennwch â'ch gilydd, fel daionus oruchwylwŷr amryw râs Duw. O's llefaru a wnâ neb, llefared megis geiriau Duw, o's gweini y mae neb, gwnaed megis o'r gallu y mae Duw yn ei roddi: fel ym mhob peth y gogonedder Duw trwy Iesu Grist, i'r hwn y byddo 'r gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. *Amen.*

Yr Efengyl S. Ioan 15, 26. *a rhàn o'r* 16 *bennod.*

PAN ddêl y Diddanydd, yr hwn a anfonaf i chwi oddiwrth y Tâd, (sef Yspryd y gwirionedd, yr hwn sydd yn deilliaw oddiwrth y Tâd,) efe a dystiolaetha am danaf fi. A chwithau hefyd a dystiolaethwch gan eich bod o'r dechreuad gyd â mi. Y pethau hyn a ddywedais i chwi, fel na rwystrer chwi. Hwy a'ch bwriant chwi allan o'r synagogau: ac y mae 'r awr yn dyfod, y tybia pwy bynnag a'ch lladdo, ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw. A'r pethau hyn a wnânt i chwi, oblegid nad adnabuant y Tâd, na myfi. Eithr y pethau hyn a ddywedais i chwi, fel pan ddêl yr awr, y cofioch hwynt, ddarfod i mi ddywedyd i chwi.

Y Sûl-gwŷn.

Y Colect.

DUw, yr hwn ar gyfenw i'r amser yma a ddysgaist galonnau dy ffyddlonion, gan anfon iddynt lewyrch dy lân Ysbryd; Caniattâ i nyni trwy yr unrhyw Ysbryd ddeall yr iawn farn ym mhob peth, a byth lawenychu yn ei wynfydedig ddiddanwch ef, trwy rygliddau Iesu Grist ein Hiachawdwr, yr hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu

gyd

gyd â thi, yn undeb yr unrhyw Yſbryd, yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Act. 2. 1.

WEdi dyfod dŷdd y Pentecoſt, yr oeddynt hwy oll yn gyttûn yn yr un lle. Ac yn ddiſymmwth y daeth ſŵn o'r nêf, megis gwynt nerthol yn rhuthro, ac a lanwodd yr holl dŷ lle yr oeddynt yn eiſtedd. Ac ymddangoſodd iddynt dafodau gwahanedig, megis o dân, ac efe a eiſteddodd ar bob un o honynt, A hwy oll a lanwyd â'r Yſpryd glân, ac a ddechreuaſant lefaru â thafodau eraill, megis y rhoddes yr Yſpryd iddynt ymadrodd. Ac yr oedd yn trigo yn Jeruſalem, Iuddewon, gwŷr bucheddol o bob cenedl dan y nêf. Ac wedi myned y gair o hyn, daeth y lliaws ynghŷd, ac a drallodwyd, o herwŷdd bod pob un yn eu clywed hwy yn llefaru yn ei iaith ei hun. Synnodd hefyd ar bawb, a rhyfeddu a wnaethant, gan ddywedyd wrth eu gilydd, Wele, onid Galileaid yw y rhai hyn oll ſy yn llefaru? A pha fôdd yr ydym ni yn eu clywed hwynt, bob un yn ein hiaith ein hun, yn yr hon y'n ganed ni? Parthiaid, a Mediaid, ac Elamitiaid, a thrigolion Meſopotamia, a Judea, a Chappadocia, Pontus ac Aſia, Phrygia, a Phamphylia, yr Aipht, a pharthau Lybia, yr hon ſydd ger llaw Cyrene, a dieithraid o Ruſeinwŷr, Iuddewon a Phroſelytiaid, Cretiaid, ac Arabiaid, yr ydym ni yn eu clywed hwynt yn llefaru yn ein iaith ni fawrion weithredoedd Duw.

Yr Efengyl. S. Ioan 14. 15.

YR Ieſu a ddywedodd wrth ei ddiſgyblion, o cherwch fi, cedwch fy ngorchymynion. A mi a weddïaf ar y Tâd, ac efe a rŷdd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoſo gyd â chwi yn dragywyddol; Yſpryd y gwirionedd, yr hwn ni ddichon y bŷd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled, nac yn ei adnabod ef, ond chwi a'i hadwaenoch ef; o herwŷdd y mae yn aros gyd â chwi, ac ynoch y bydd efe. Ni's gadawaf chwi yn ymddifaid: mi a ddeuaf attoch chwi. Etto ennyd bâch, a'r byd ni'm gwêl mwy; eithr chwi a'm gwelwch canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd. Y dŷdd hwnnw y gwybyddwch fy môd i yn fy Nhâd, a chwithau ynofi, a minnau ynoch chwithau. Yr hwn ſydd a'm gorchymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw 'r hwn ſydd yn fy ngharu i; a'r hwn ſydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhâd: a minnau a'u caraf ef, ac a'm hegluraf fy hun iddo: Dywedodd Judas wrtho, (nid yr Iſcariot,) Arglwydd, pa beth yw 'r achos yr ŵyt ar fedr dy eglurhâu dy hun i ni, ac nid i'r bŷd? Yr Ieſu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, O's câr neb fi, efe a geidw fy ngair; a'm Tâd a'i câr yntau, a nyni a ddeuwn atto, ac a wnawn ein trigfa gyd ag ef. Yr hwn nid yw yn fy ngharu i, nid yw yn cadw fy ngeiriau; a'r gair yr ydych yn ei glywed, nid eiddofi ydyw, ond eiddo y Tâd am hanfonodd i. Y pethau hyn a ddywedais wrthych, a mi yn aros gyd â chwi. Eithr y Diddanydd, yr Yſpryd glân, yr hwn a enfyn y Tâd yn fy enw i, efe a ddyſg i chwi yr holl bethau, ac a ddwg ar gôf i chwi yr holl bethau a ddywedais i chwi. Yr ŵyf yn gadael i chwi dangnefedd, fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei rhoddi i chwi; nid fel y mae y bŷd yn rhoddi, yr wyfi yn rhoddi i chwi. Na thralloder eich câlon, ac nac ofned, clywſoch fel y dywedais wrthych, Yr ŵyf yn myned ymaith, ac mi a ddeuaf attoch, Pe carech fi, chwi a lawenhäech, am i mi ddywedyd, Yr ŵyf yn myned at y Tâd; canys y mae fy Nhâd yn fwy nâ myfi. Ac yr awrhon y dywedais i chwi cyn ei ddyfod, fel pan ddêl, y credoch. Nid ymddiddanaf â chwi nemmawr bellach: canys tywyſog y bŷd hwn ſydd yn dyfod, ac nid oes iddo ddim ynofi. Ond fel y gŵypo 'r bŷd fy mod i yn caru y Tâd, ac megis y gorchymynnodd y Tâd i mi, felly yr ŵyf yn gwneuthur.

Dŷdd Llûn Sûl-gwŷn.

Y Collect.

DUw, yr hwn ar gyfenw i'r amſer yma a ddyſgaiſt galonnau dy ffyddlonion, gan anfon iddynt lewyrch dy lân Yſbryd: Caniattâ i nyni trwy yr unrhyw Yſbryd, ddeall yr iawn farn yn mhob peth, a byth lawenychu yn ei wynfydedig ddiddanwch ef, trwy ryglyddau Ieſu Griſt ein Hiachawdwr, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyd â thi, yn undeb yr unrhyw Yſbryd, yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Act. 10. 34.

PEdr a agorodd ei enau, ac a ddywedodd, Yr ŵyf yn deall mewn gwirionedd, nad ydyw Duw dderbyniwr ŵyneb; Ond ym mhob cenhedl, y neb ſydd yn ei ofni ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, ſydd gymmeradwy ganddo ef. Y gair yr hwn a anfonodd Duw i blant Iſrael, gan bregethu tangnefedd trwy Ieſu Griſt (efe yw Arglwydd pawb oll.) Chwychwi a ŵyddoch y gair a fu yn holl Judea, gan ddechreu o Galilea, wedi y bedydd a bregethodd Ioan; y môdd yr enneiniodd Duw Ieſu o Nazareth â'r Yſpryd glân, ac â nerth, yr hwn a gerddodd o amgylch, gan wneuthur daioni, ac iachâu pawb a'r oedd wedi eu gorthrymmu gan ddiawl: oblegid yr oedd Duw gyd ag ef. A ninnau ydym dyſtion o'r pethau oll a wnaeth efe, yngwlâd yr Iuddewon, ac yn Jeruſalem; yr hwn a laddaſant, ac a groes-hoeliaſant ar bren, Hwn a gyfododd Duw y trydydd dŷdd, ac a'i rhoddes ef i'w wneuthur yn amlwg; nid i'r bobl oll, eithr i'r tyſtion etholedig o'r blaen gan Dduw; ſef i ni, y rhai a fwyttaſom ac a yſaſom gyd ag ef, wedi ei adgyfodi ef o feirw. Ac efe a orchymynodd i ni bregethu i'r bobl, a thyſtiolaethu mai ef yw 'r hwn a ordeiniwyd gan Dduw, yn farnwr byw a meirw. I hwn y mae 'r holl brophwydi yn dwyn tyſtiolaeth, y derbyn pawb a gredo ynddo ef faddeuant pechodau, drwy ei enw ef. A Phedr etto yn llefaru y geiriau hyn, ſyrthiodd yr Yſpryd glân ar bawb a oedd yn clywed y gair. A'r rhai o'r enwaediad a oeddynt yn credu, cynniſer ac a ddaethent gyda Phedr, a ſynnaſant, am dywallt dawn yr Yſpryd glân ar y cenhedloedd hefyd. Canys yr oeddynt yn eu clywed hwy yn llefaru â thafodau, ac yn mawrygu Duw. Yna yr attebodd Pedr, a all neb luddias dwfr, fel na fedyddier y rhai hyn, y rhai a dderbyniaſant yr Yſpryd glân, fel ninnau? Ac efe a orchymynnodd eu bedyddio hwynt yn enw yr Arglwydd. Yna y deiſyfiaſant arno aros tros ennyd o ddyddiau.

Yr Efengyl. S. Ioan 3. 16,

FElly y carodd Duw y bŷd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fâb, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, onid caffael o hono fywyd tragywyddol. Oblegid ni ddanfonodd Duw ei Fâb i'r bŷd, i ddamnio 'r bŷd, ond fel yr achubid y bŷd trwyddo ef. Yr hwn ſydd yn credu ynddo ef, ni ddemnir: eithr yr hwn nid yw yn credu, a ddamniwyd euſys; o herwŷdd na chredodd yn enw unig-anedig Fâb Duw. A hon yw'r ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r bŷd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy nâ'r goleuni; canys yr oedd eu gweithredoedd hwy yn ddrŵg. O herwŷdd pob un a'r ſydd yn gwneuthur drŵg, ſydd yn caſau y goleuni, ac nid yw yn dyfod i'r goleuni, fel nad argyoedder ei weithredoedd ef. Ond yr hwn ſydd yn gwneuthur gwirionedd, ſydd yn dyfod i'r goleuni, fel yr eglurhäer ei weithredoedd ef, mai yn Nuw y gwnaed hwynt.

Dŷdd Mawrth Sûl-gwŷn.

Y Colect.

DUw, yr hwn ar gyſenw i'r amſer yma a ddyſgaiſt galonnau dy ffyddlonion, gan anſon iddynt lewyrch dy lân Yſpryd. Caniatta i nyni trwy yr unrhyw Yſpryd, ddeall yr iawn farn ym mhob peth, a byth lawenychu yn ei wynfydedig ddiddanwch ef, trwy ryglyddau Ieſu Griſt ein Hiachawdwr, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyd â thi, yn undeb yr unrhyw Yſpryd, yn un Duw, heb drangc na gorphen, *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Act 8. 14.

PAn glybu yr Apoſtolion yn Jeruſalem, dderbyn o Samaria air Duw, hwy a anfonaſant attynt Pedr ac Ioan. Y rhai wedi eu dyfod i wared, a weddiaſant droſtynt, ar iddynt dderbyn yr Yſpryd glân. Canys etto nid oedd efe wedi ſyrthio ar neb o honynt: ond yr oeddynt yn unig wedi eu bedyddio yn enw yr Arglwydd Ieſu. Yna hwy a ddodaſant eu dwylaw arnynt, a hwy a dderbyniaſant yr Yſpryd glân.

Yr Efengyl. S. Ioan 10. 1.

YN wîr, yn wîr, meddaf i chwi, yr hwn nid yw yn myned i mewn drwy 'r drŵs i gorlan y defaid, eithr ſydd yn dringo ffordd arall, lleidr ac yſpeiliwr yw. Ond yr hwn ſydd yn myned i mewn drwy 'r drŵs, bugail y defaid ydyw. I hwn y mae y dryſor yn agoryd, ac y mae y defaid yn gwrando ar ei lais ef; ac y mae efe yn galw ei ddefaid ei hun erbyn eu henw, ac yn eu harwain hwy allan. Ac wedi iddo yrru allan ei ddefaid ei hun, y mae efe yn myned o'u blaen hwy: a'r defaid ſydd yn ei ganlyn ef, oblegid y maent yn adnabod ei lais ef. Ond y dieithr ni's canlynant, eithr ffoant oddi wrtho: oblegid nad adwaenant lais dieithriaid. Y ddammeg hon a ddywedodd yr Ieſu wrthynt: ond hwy ni ŵybuant pa bethau ydoedd y rhai yr oedd efe yn eu llefaru wrthynt. Am hynny yr Ieſu a ddywedodd wrthynt drachefn, Yn wîr, yn wîr, meddaf i chwi, myfi yw drŵs y defaid. Cynnifer oll ac a ddaethant o'm blaen i, lladron ac yſpeilwŷr ŷnt, eithr ni wrandawodd y defaid arnynt. Myfi yw y drŵs; o's â neb i mewn drwofi, efe a fydd cadwedig: ac efe a â i mewn ac allan, ac a gaiff borfa. Nid yw lleidr yn dyfod ond i ladratta, ac i lâdd, ac i ddiſtrywio: myfi a ddaethum fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach.

Sûl y Drindod.

Y Colect.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn a roddaiſt i ni dy weiſion râs gan gyffeſu ac addef y wîr ffydd, i adnabod gogoniant y dragywyddol Drindod, ac yn nerth y Dŵiol Fawredd i addoli 'r Undod: Nyni a attolygwn i ti, fod i ni trwy gadernid y ffydd hon, gael byth ein hamddiffyn oddi wrth bob gwrthwyneb, yr hwn ŵyt yn byw ac yn teyrnaſu, yn un Duw, byth heb ddiwedd. *Amên.*

Yn lle yr Epiſtol. Dadg. 4. 1.

YN ôl y pethau hyn yr edrychais, ac wele ddrŵs wedi ei agoryd yn y nêf: a'r llais cyntaf a glywais, oedd fel llais udgorn, yn ymddiddan â mi; gan ddywedyd, Dring i fynu yma, a mi a ddangoſafi ti y pethau ſy raid eu bod ar ôl hyn. Ac yn y man yr oeddwn yn yr Yſpryd: ac wele, yr oedd gorſedd-faingc wedi ei goſod yn y nêf, ac un yn eiſtedd ar yr orſedd-faingc. A'r hwn oedd yn eiſtedd, oedd yn debyg yr olwg arno i faen Jaſpis, a Sardin: ac yr oedd enfys o amgylch yr orſedd-faingc, yn debyg yr olwg arno i Smaragdus. Ac ynghŷlch yr orſedd-faingc yr oedd pedair gorſedd-faingc ar hugain: ac ar y gorſedd-feingciau y gwelais bedwar Henuriad ar hugain yn eiſtedd, wedi eu gwiſgo mewn dillad gwynnion: ac yr oedd ganddynt ar eu pennau goronau aur. Ac yr oedd yn dyfod allan o'r orſedd-faingc, fêllt, a tharanau, a lleiſiau. Ac yr oedd ſaith o lampau tân yn lloſgi ger bron yr orſedd-faingc, y rhai yw ſaith Yſpryd Duw. Ac o flaen yr orſedd-faingc yr ydoedd môr o wydr, yn debyg i gryſtal: ac ynghanol yr orſedd-faingc, ac ynghŷlch yr orſedd-faingc, yr oedd pedwar anifail yn llawn o lygaid o'r tu blaen, ac o'r tu ôl. A'r anifail cyntaf oedd debyg i lêw, a'r ail anifail yn debyg i lo, A'r trydydd anifail oedd ganddo wyneb fel dŷn, a'r pedwerydd anifail oedd debyg i eryr yn ehedeg. A'r pedwar anifail oedd ganddynt, bob un o honynt, chwêch o adenydd o'u hamgylch, ac yr oeddynt oddi fewn yn llawn llygaid: ac nid oeddynt yn gorphwys ddŷdd a nôs, gan ddywedyd, Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw Holl-alluog, yr hwn oedd, a'r hwn ſydd, a'r hwn ſydd i ddyfod. A phan fyddo yr anifeiliaid yn rhoddi gogoniant, ac anrhydedd, a diolch i'r hwn oedd yn eiſtedd ar yr orſedd-faingc, yr hwn ſydd yn byw yn oes oeſoedd, y mae y pedwar Henuriad ar hugain yn ſyrthio ger bron yr hwn oedd yn eiſtedd ar yr orſedd-faingc, ac yn addoli yr hwn ſydd yn byw yn oes oeſoedd, ac yn bwrw eu coronau ger bron yr orſedd-faingc, gan ddywedyd, Teilwng ŵyt, O Arglwydd, i dderbyn gogoniant, ac anrhydedd a gallu: canys ti a greaiſt bob peth, ac o herwŷdd dy ewyllys di y maent, ac y crëwyd hwynt.

Yr Efengyl. S. Ioan 3. 1.

YR oedd dŷn o'r Phariſeaid, a'i enw Nicodemus, pennaeth yr Iuddewon. Hwn a ddaeth at yr Ieſu liw nôs, ac a ddywedodd wrtho, Rabbi, nyni a ŵyddom mai dyſgawdwr ydwyt ti, wedi dyfod oddi wrth Dduw: canys ni allai neb wneuthur y gwyrthiau hyn yr ŵyt ti yn eu gwneuthur, oni bai fod Duw gyd ag ef. Ieſu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Yn wîr, yn wîr, meddaf i ti, oddi eithr geni dŷn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw. Nicodemus a ddywedodd wrtho, Pa fôdd y dichon dŷn ei eni, ac efe yn hên? a ddichon efe fyned i grôth ei fam eilwaith, a'i eni? Ieſu a attebodd ac a ddywedodd, Yn wîr, yn wîr meddaf i ti, oddi eithr geni dŷn o ddwfr, ac o'r Yſpryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw. Yr hyn a aned o'r cnawd, ſydd gnawd, a'r hyn a aned o'r Yſpryd, ſydd Yſpryd. Na ryfedda ddywedyd o honoſi wrthyt, Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn. Y mae 'r gwynt yn chwythu lle y mynno: a thi a glywi ei ſwn ef, ond ni ŵyddoſt o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned. Felly y mae pob un a'r a aned o'r Yſpryd. Nicodemus a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Pa fôdd y dichon y pethau hyn fod? Ieſu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, A ŵyt ti yn ddyſgawdwr yn Iſrael, ac ni ŵyddoſt y pethau hyn? Yn wîr, yn wîr, meddaf i ti, mai yr hyn a ŵyddom yr ydym yn ei lefaru, a'r hyn a welſom yr ydym yn ei dyſtiolaethu; a'n tyſtiolaeth ni nid ydych yn ei derbyn. O's dywedais i chwi bethau daearol, a chwithau nid ydych yn credu; pa fôdd, os dywedaf i chwi bethau nefol, y credwch? Ac ni eſgynnodd neb i'r nêf, oddieithr yr hwn a ddiſgynnodd o'r nêf, ſef Mâb y dŷn, yr hwn ſydd yn y nêf. Ac megis y dyrchafodd Moſes y Sarph yn y diffeithwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mâb y dŷn, fel na choller, pwy bynnag a gredo ynddo ef, onid caffael o hono fywyd tragywyddol.

Y Sûl cyntaf gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

O Dduw, yr hwn wyt wir nerth i bawb oll ag y ſy 'n ymddiried ynot, yn drugarog derbyn ein gweddiau: A chan na allwn oràn gwendid ein marwol anian wneuthur dim da hebot ti, Caniatâ i ni gymmorth dy râs, ſel y bo i ni gan gadw dy orchymynion, tyngu bôdd i ti ar ewyllys a gweithred, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 S. Ioan 4. 7.

ANwylyd, carwn ein gilydd: oblegid cariad o Dduw y mae: a phob un ac ſydd yn caru, o Dduw y ganwyd ef, ac y mae efe yn adnabod Duw. Yr hwn nid yw yn caru, nid adnabu Dduw; oblegid Duw cariad yw. Yn hyn yr eglurwyd cariad Duw tu ac attom ni, oblegid ddanfon o Dduw ei unig-anedig Fâb i'r bŷd, ſel y byddem fyw trwyddo ef. Yn hyn y mae cariad, nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef ein caru ni, ac anfon ei Fâb i fod yn iawn dros ein pechodau. Anwylyd, os felly y carodd Duw ni, ninnau hefyd a ddylem garu ein gilydd. Ni welodd neb Dduw erioed. Os carwn ni ein gilydd, y mae Duw yn trigo ynom, ac y mae ei gariad ef yn berffaith ynom. Wrth hyn y gwyddom ein bod yn trigo ynddo ef, ac yntau ynom ninnau, am ddarfod iddo roddi i ni o'i Yſpryd. A ninnau a welſom, ac ydym yn tyſtiolaethu, ddarfod i'r Tâd ddanfon y Mâb, i fod yn Iachawdwr i'r bŷd. Pwy bynnag a gyffeſo fod Ieſu yn Fâb Duw, y mae Duw yn aros ynddo ef, ac yntau yn Nuw. A nyni a adnabuom, ac a gredaſom y cariad ſydd gan Dduw tu ac attom ni. Duw cariad yw; A'r hwn ſydd yn aros mewn cariad ſydd yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau. Yn hyn y perffeithiwyd ein cariad ni, ſel y caffom hyder ddŷdd y farn: oblegid megis ac y mae efe, yr ydym ninnau hefyd yn y bŷd hwn. Nid oes ofn mewn cariad, eithr y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn; oblegid y mae i ofn boenedigaeth: a'r hwn ſydd yn ofni ni pherffeithiwyd mewn cariad. Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni. O's dywaid neb, yr wyf yn caru Duw, ac efe yn caſáu ei frawd, celwyddog yw: canys yr hwn nid yw yn caru ei frawd yr hwn a welodd, pa fôdd y gall efe garu Duw yr hwn ni's gwelodd? A'r gorchymmyn hwn ſydd gennym oddiwrtho ef, Bod i'r hwn ſydd yn caru Duw, garu ei frawd hefyd.

Yr Efengyl. S. Luc 16. 19.

YR oedd rhyw ŵr goludog, ac a wiſgid â phorphor a lliain main, ac yr oedd yn cymmeryd bŷd da yn helaethwych beunydd: Yr oedd hefyd ryw gardottyn, a'i enw Lazarus, yr hwn a fwrid wrth ei borth ef yn gornwydlyd, ac yn chwennychu cael ei borthi â'r briwſion a ſyrthiai oddiar fwrdd y gŵr cyfoethog; ond y cŵn a ddaethant, ac a lyfaſant ei gornwydydd ef. A bu, i'r cardottyn farw, a'i ddwyn gan yr Angylion i ſynwes Abraham: A'r goludog hefyd a ſu farw, ac a gladdwyd. Ac yn uffern, efe a gododd ei olwg, ac efe mewn poenau, ac a ganfu Abraham o hirbell, a Lazarus yn ei ſynwes. Ac efe a lefodd, ac a ddywedodd, O Dâd Abraham, trugarhâ wrthyf, a danfon Lazarus i drochi pen ei ſys mewn dwfr, ac i oeri ſy nhafod; canys ſe am poenir yn y fflâm hon. Ac Abraham a ddywedodd, Ha Fâb, coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy ſywyd, ac felly Lazarus ei adfyd, ac yn awr y diddenir ef, ac y poenir dithau. Ac heb law hyn oll, rhyngom ni a chwithau y ſicrhâwyd agendor mawr; ſel na allo y rhai a fynnent, dramwy oddi yma attoch chwi; na'r rhai oddi yna, drammwy attom ni. Ac efe a ddywedodd, yr wyf yn attolwg i ti gan hynny, O Dâd, danfon o honot ef i dŷ fy nhâd: Canys y mae i mi bump o frodyr, ſel y tyſtiolaetho iddynt hwy, rhag dyfod o honynt hwythau hefyd i'r lle poenus hwn. Abraham a ddywedodd wrtho, Y mae ganddynt Moſes a'r prophwydi; gwrandawant arnynt hwy. Yntau a ddywedodd, Nag ê, y Tâd Abraham; eithr os â un oddiwrth y meirw attynt, hwy a edifarhânt. Yna Abraham a ddywedodd wrtho; Oni wrandawant ar Moſes a'r prophwydi, ni chredant chwaith, pe codai un oddiwrth y meirw.

Yr ail Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

O Arglwydd, yr hwn ni phelli byth gynnorthwyo a llywodraethu y rhai yr ydwyt yn eu meithrin yn dy ddilys ofn a'th gariad; Cadw ni, ni a attolygwn i ti, dan dy ddarbodus nodded, a phâr i ni yn ddibaid ofni a charu dy Enw bendigedig, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 S. Ioan 3. 13.

NA ryfeddwch, fy mrodyr, os yw 'r bŷd yn eich caſâu chwi. Nyni a wyddom ddarfod ein ſymmud ni o farwolaeth i fywyd, oblegid ein bod yn caru y brodyr: Yr hwn nid yw yn caru ei frawd, y mae yn aros ym marwolaeth. Pob un ac ſydd yn caſâu ei frawd, lleiddiad dŷn yw: a chwi a wyddoch nad oes i un lleiddiad dŷn fywyd tragywyddol yn aros ynddo. Yn hyn yr adnabuom gariad Duw, oblegid dodi o hono ef ei einioes droſom ni; a ninnau a ddylem ddodi ein heinioes tros y brodyr. Eithr yr hwn ſydd ganddo ddâ 'r bŷd hwn, ac a welo ei frawd mewn eiſiau, ac a gauo ei doſturi oddi wrtho, pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef? Fy mhlant bychain, na charwn ar air, nac ar dafod yn unig, eithr mewn gweithred a gwirionedd. Ac wrth hyn y gwyddom ein bod o'r gwirionedd, ac y ſicrhawn em calonnau ger ei fron ef. Oblegid o's ein calon a'n condemnia, mwy yw Duw nâ'n calon, ac efe a wyr bob peth. Anwylyd, os ein calon ni'n condemnia, y mae gennym hyder ar Dduw. A pha beth bynnag a ofynnom, yr ydym yn ei dderbyn ganddo ef, oblegid ein bod yn cadw ei orchymynion ef, ac yn gwneuthur y pethau ſy yn rhyngu bodd yn ei olwg ef. A hwn yw ei orchymmyn ef, gredu o honom yn enw ei Fab ef Ieſu Griſt, a charu ein gilydd, megys y rhoddes efe orchymmyn i ni. A'r hwn ſydd yn cadw ei Orchymynion ef, ſydd yn trigo ynddo ef, ac yntau ynddo yntau: ac wrth hyn y gwyddom ei fod ef yn aros ynom, ſef o'r Yſpryd a roddes efe i ni.

Yr Efengyl. S. Luc 14. 16.

RHyw ŵr a wnaeth ſwpper mawr, ac a wahoddodd lawer: ac a ddanfonodd ei wâs brŷd ſwpper, i ddywedyd wrth y rhai a wahoddaſid, Deuwch, canys weithian y mae pob peth yn barod. A hwy oll a ddechreuaſant yn unfryd ymeſguſodi. Y cyntaf a ddywedodd wrtho, Mi a brynais dyddyn, ac y mae yn rhaid i mi fyned a'i weled: attolwg i ti, cymmer fi yn eſguſodol. Ac arall a ddywedodd, Mi a brynais bûm iau o ychen, ac yr ydwyf yn myned i'w profi hwynt: attolwg i ti, cymmer fi yn eſguſodol. Ac arall a ddywedodd, Mi a briodais wraig, ac am hynny ni's gallaf fi ddyfod. A'r gwâs hwnnw, pan ddaeth adref, a fynegodd y pethau hyn i'w Arglwydd. Yna gŵr y tŷ wedi digio, a ddywedodd wrth ei wâs, dôs allan ar frŷs i heolydd ac yſtrydoedd y ddinas, a dŵg i mewn yma y tlodion, a'r anafus, a'r cloffion, a'r deillion. A'r gwâs a ddywedodd, Arglwydd, gwnaeth hwyd fel y gorchymynnaiſt, ac etto y mae lle. A'r Arglwydd a ddywedodd wrth y gwâs, Dôs allan i'r prîf ffyrdd a'r caeau, a chymmell hwynt i ddyfod i mewn, ſel y llanwer

wer ty nhŷ. Canys yr ŵyf yn dywedyd i chwi, na chaiff yr un o'r gwŷr hynny a wahoddwyd, brofi o'm ſwpper i.

Y trydydd Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

OArglwydd, ni a attolygwn i ti yn drugarog (ein gwrando; a megis y rhoddaiſt i ni ſeddylfryd câlon i weddïo, caniattâ trwy dy fawr nerth i ni gael ein hamddiffyn a'n diddanu ym mhob perygl ac adfyd, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 S. Pedr 5. 5.

BYddwch bawb yn oſtyngedig i'ch gilydd, ac ymdrwſiwch oddi ſewn â goſtyngeiddrwydd: oblegid y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ac yn rhoddi grâs i'r rhai goſtyngedig. Ymddaroſtyngwch gan hynny tan alluog lâw Dduw, fel y'ch dyrchaſo mewn amſer cyſaddas; Gan ſwrw eich holl ofal arno ef, canys y mae efe yn gofalu troſoch chwi. Byddwch ſobr, gwyliwch: Oblegid y mae eich gwrthwynebwr diaſol, megis llêw rhuadwy, yn rhodio oddi amgylch, gan geiſio y neb a allo ei lyngcu. Yr hwn gwrthwynebwch yn gadarn yn y ffydd, gan ŵybod ſod yn cyflawnu yr un blinderau yn eich brodyr, y rhai y ſydd yn y bŷd. A Duw pob grâs, yr hwn a'ch galwodd chwi i'w dragywyddol ogoniant trwy Griſt Ieſu, wedi i chwi ddioddef ychydig, a'ch perffeithio chwi a'ch cadarnhao, a'ch cryfhao, a'ch ſefydlo. Iddo ef y byddo y gogoniant, a'r gallu, yn oes oeſoedd, *Amen.*

Yr Efengyl. S. Luc 15. 1.

AC yr oedd yr holl Bublicanod a'r pechaduriaid yn nesâu atto ef, i wrando arno. A'r Phariſeaid a'r yſgrifennyddion a rwgnachaſant, gan ddywedyd, Y mae hwn yn derbyn pechaduriaid, ac yn bwytta gyd â hwynt. Ac efe a adroddodd wrthynt y ddammeg hon, gan ddywedyd, Pa ddŷn o honoch a chanddo gant o ddefaid, ac os cŷll un o honynt, nid yw. yn gadael y namyn un pùm ugain yn yr anialwch, ac yn myned ar ôl yr hon a gollwyd, hyd oni chaffo efe hi? Ac wedi iddo ei chael, efe a'i dŷd hi ar ei yſgwyddau ei hun yn llawen. A phan ddêl adref, efe a eilw ynghŷd ei gyfeillion a'i gymmydogion, gan ddywedyd wrthynt, Llawenhêwch gyd â mi, canys cefais fy nafad a gollaſid. Yr ŵyf yn dywedyd i chwi, mai felly y bydd llawenydd yn y nêf am un pechadur a edifarhao, mwy nag am onid pùm ugain o rai cyfiawn, y rhai nid rhaid iddynt wrth edifeirwch. Neu pa wraig, a chanddi ddêg dryll o arian, o's cyll hi un dryll, ni oleu ganwyll, ac yſgubo 'r tŷ, a cheiſio yn ddyfal, hyd oni chaffo ef? Ac wedi iddi ei gael, hi a eilw ynghŷd ei chyfeilleſau, a'i chymmydogeſau gan ddywedyd, Cŷd-lawenhêwch â mi, canys cefais y dryll a gollaſwn. Felly, meddaf i chwi, y mae llawenydd yngŵydd angylion Duw, am un pechadur a edifarhao.

Y pedwerydd Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

ODduw, Noddwr pawb oll y ſydd yn ymddiried ynot, heb ba un nid oes dim nerthog, na dim ſanctaidd, chwanega ac amlhâ arnom dy drugaredd, fel y gallom (â thi yn llywiawdr ac yn dywyſog i ni) dreiddio trwy 'r pethau bydol, môdd na chollom yn llwyr y pethau tragywyddol: Caniattâ hyn, nefol Dâd, er mwyn Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Rhuf. 8. 18.

YR ydwyf yn cyfrif nad yw dioddefiadau yr amſer preſennol hwn, yn heuddu eu cyffelybu â'r gogoniant a ddatguddir i ni. Canys awŷddfryd y creadur ſydd yn diſgwyl am ddatguddiad meibion Duw. Canys y creadur ſydd wedi ei ddaroſtwng i oferedd, nid o'i ſòdd, eithr oblegid yr hwn a'i daroſtyngodd tan obaith: oblegid y rhyddhëir y creadur yntau hefyd, o gaethiwed llygredigaeth, i ryddid gogoniant plant Duw. Canys ni a ŵyddom ſod pob creadur yn cŷd-ocheneidio, ac yn cŷd-ofidio hyd y prŷd hyn. Ac nid yn unig y creadur, ond ninnau 'n hunain hefyd, y rhai ſydd gennym flaen-ffrwyth yr Yſpryd yr ydym ninnau ein hunain hefyd yn ocheneidio ynom ein hunain, gan ddiſgwyl y mabwyſiad, ſef prynedigaeth ein corph,

Yr Efengyl. S. Luc 6. 36.

BYddwch gan hynny drugarogion, megis ac y mae eich Tâd yn drugarog. Ac na fernwch, ac ni'ch bernir: Na chondemniwch, ac ni'ch condemnir: maddeuwch, a maddeuir i chwithau: rhoddwch, a rhoddir i chwi: meſur da, dwyſedig, ac wedi ei yſgwyd, ac yn myned troſodd, a roddant yn eich mynwes. Canys â'r un meſur ac y meſuroch, y meſurir i chwi drachefn. Ac efe a ddywedodd ddammeg wrthynt; A ddichon y dall dywyſo 'r dall? oni ſyrthiant ill dau yn y clawdd? Nid yw 'r diſgybl uwch law ei athraw: eithr pob un perffaith, a fydd fel ei athraw. A pha ham yr ŵyt ti yn edrych ar y brycheuyn ſydd yn llygad dy frawd, ac nad ydwyt yn yſtyried y trawſt ſydd yn dy lygad dy hun? Neu pa fòdd y gelli di ddywedyd wrth dy frawd, Fy mrawd, gâd i mi dynnu allan y brycheuyn ſydd yn dy lygad, a thithau heb weled y trawſt ſydd yn dy lygad dy hun? O ragrithiwr, bwrw allan y trawſt o'th lygad dy hun yn gyntaf, ac yna y gweli yn eglur dynnu allan y brycheuyn ſydd yn llygad dy frawd.

Y pummed Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

CAniattâ, Arglwydd, ni a attolygwn i ti, fod i chwŷl y bŷd hwn, trwy dy reoledigaeth di gael ei drefnu mor dangnefeddol, ag y gallo dy eglwys di dy waſanaethu yn llawen ym mhob duwiol heddwch, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 S. Pedr 3. 8.

BYddwch oll yn unfryd, yn cŷd-oddef a'ch gilydd, yn caru fel brodyr, yn drugarogion, yn ſwynaidd: nid yn talu drŵg am ddrŵg, neu ſen am ſen; Eithr yngwrthwyneb yn bendithio; gan ŵybod mai i hyn y'ch galwyd, fel yr etifeddoch fendith. Canys y neb a ewyllyſio hoffi bywyd, a gweled dyddiau da, attalied ei dafod oddiwrth ddrŵg, a'i wefuſau rhag adrodd twyll. Gocheled y drŵg, a gwnaed, y da: ceiſied heddwch, a dilyned ef. Canys y mae llygaid yr Arglwydd ar y rhai cyfiawn, a'i gluſtiau ef tu ac at eu gweddi hwynt: eithr y mae ŵyneb yr Arglwydd yn erbyn y rhai ſy yn gwneuthur drŵg. A phwy a'ch dryga chwi, o's byddwch yn dilyn yr hyn ſydd dda? Eithr o bydd i chwi hefyd ddioddef o herwŷdd cyfiawnder, dedwŷdd ydych; ond nac ofnwch rhag eu hofn hwynt, ac na'ch cynhyrfer; eithr ſanctaiddiwch yr Arglwydd Dduw yn eich calonnau.

Yr Efengyl. S. Luc 5. 1.

BU hefyd a'r bobl yn pwyſo atto i wrando gair Duw, yr oedd yntau yn ſefyll yn ymyl llŷn Geneſareth; Ac efe a welai ddŵy long yn ſefyll wrth y llŷn: a'r pyſgodwŷr a aethant allan o honynt, ac oeddynt yn golchi eu rhwydau. Ac efe a aeth i mewn i un o'r llongau, yr hon oedd eiddo Simon, ac a ddymunodd arno wthio ychydig oddi wrth y tîr: Ac efe a eiſteddodd, ac a ddyſgodd y bobloedd allan o'r llong. A phan beidiodd â llefaru, efe a ddywededd wrth Simon,

Gwthia

Gwthia i'r dwfn, a bwriwch eich rhwydau am helfa. A Simon a attebodd, ac a ddywedodd wrtho, O feiſtr, er i ni boeni ar hŷd y nôs, ni ddaliaſom ni ddim: etto ar dy air di, mi a fwriaf y rhwyd. Ac wedi iddynt wneuthur hynny, hwy a ddaliaſant liaws mawr o byſgod: a'u rhwyd hwynt a rwygodd. A hwy a amneidiaſant ar eu cyfeillion, oedd yn y llong arall i ddyfod i'w cynnorthwyo hwynt. A hwy a ddaethant, a llanwaſant y ddwy long, onid oeddynt hwy ar ſoddi. A Simon Pedr pan welodd hynny, a ſyrthiodd wrth liniau 'r Ieſu, gan ddywedyd, Dôs ymaith oddiwrthyf, canys dŷn pechadurus ŵyfi, O Arglwydd. Oblegid braw a ddaethai arno ef, a'r rhai oll oedd gyd ag ef, o herwŷdd yr helfa byſgod a ddaliaſent hwy: A'r un ffunud ar Iago ac Ioan hefyd, meibion Zebedëus, y rhai oedd gyfrannogion â Simon. A dywedodd yr Ieſu wrth Simon, Nac ofna: o hyn allan y dèli ddynion. Ac wedi iddynt ddwyn y llongau i dir, hwy a adawſant bob peth, ac a'i dilynaſant ef.

Y chweched Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

ODduw, yr hwn a arlwyaiſt i'r rhai a'th garant gyfryw bethau daionus ag y ſydd uwch ben pob deall dŷn, tywallt i'n calonnau gyfryw ſerch arnat, fel y byddo i ni gan dy garu uwch law pob dim, allu mwynhâu dy addewidion, y rhai ſy fwy rhagorol nâ dim a fedrom ni ei ddeiſyf, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Rhuf. 6. 3.

ONi ŵyddoch chwi am gynnifer o honom ac a fedyddiwyd i Griſt Ieſu, ein bedyddio ni i'w farwolaeth ef? Claddwyd ni gan hynny gyd ag ef trwy fedydd i farwolaeth; fel megis ac y cyfodwyd Criſt o feirw trwy ogoniant y Tâd, felly y rhodiom ninnau hefyd mewn newŷdd-deb buchedd. Canys o's gwnaed ni yn gŷd-blanhigion i gyffelybiaeth ei farwolaeth ef, felly y byddwn i gyffelybiaeth ei adgyfodiad ef. Gan ŵybod hyn ddarfod croeſ-hoelio ein hên ddŷn ni gyd ag ef, er mwyn dirymmu corph pechod, fel rhag llaw na waſanaethom bechod. Canys y mae yr hwn a fu farw, wedi ei ryddhâu oddi wrth bechod. Ac o's buom feirw gyd a Chriſt, yr ydym ni yn credu y byddwn fyw hefyd gyd ag ef. Gan ŵybod nad yw Criſt, yr hwn a gyfodwyd oddi wrth y meirw, yn marw mwyach, nad arglwyddiaetha marwolaeth arno mwyach. Canys fel y bu efe farw, efe a fu farw unwaith i bechod: ac fel y mae yn byw, byw y mae i Dduw. Felly chwithau hefyd, cyfrifwch eich hunain yn feirw i bechod, eithr yn fyw i Dduw yng Nghriſt Ieſu ein Harglwydd.

Yr Efengyl. S. Math. 5. 20.

YR Ieſu a ddywedodd wrth eu ddiſgyblion, oni bydd eich cyfiawnder yn helaethach nâ chyfiawnder y 'Sgrifennyddion, ar Phariſeaid, nid ewch i mewn i deyrnas nefoedd. Clywſoch ddywedyd gan y rhai gynt, Na lâdd: A phwy bynnag a laddo, euog fydd o farn. Eithr yr ydwyfi yn dywedyd i chwi, pob un a ddigio wrth ei frawd heb yſtyr, a fydd euog o farn: a phwy bynnag a ddywedo wrth ei frawd, Raca, a fydd euog o gyngor: a phwy bynnag a ddywedo, O ynfyd, a fydd euog o dân uffern. Gan hynny, os dygi dy rôdd i'r allor, ac yno dyfod i'th gôf fod gan dy frawd ddim yn dy erbyn; Gâd yno dy rôdd ger bron yr allor, a dôs ymaith: yn gyntaf cymmoder di â'th frawd, ac yna tyred, ac offrwm dy rôdd. Cyttuna a'th wrthwynebwr ar frŷs, tra fyddech ar y ffordd gyd ag ef: rhag un amſer i'th wrthwynebwr dy roddi di yn llâw 'r barnwr, ac i'r barnwr dy roddi at y ſwyddog, a'th daflu yng-harchar. Yn wîr meddaf i ti, ni ddeui di allan oddi yno, hyd oni thalech y ffyrling eithaf.

Y ſeithfed Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

ARglwydd yr holl nerth a'r cadernid, yr hwn ŵyt Awdur a rhoddwr pob daioni: planna yn ein calonnau gariad dy Enw; ychwanega ynom wîr grefydd; maetha nyni â phob daioni, ac o'th fawr drugaredd cadw ni yn yr unrhyw, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Rhuf. 6. 19.

YN ôl dull dynol yr ydwyf yn dywedyd, oblegid gwendid eich cnawd chwi: Canys megis ac y rhoddaſoch eich aelodau yn weiſion i afiendid ac anwiredd, i anwiredd: felly yr awr hon, rhoddwch eich aelodau yn weiſion i gyfiawnder, i ſanctеiddrwydd. Canys pan oeddych yn weiſion pechod, rhyddion oeddych oddiwrth gyfiawnder. Pa ffrwyth gan hynny, oedd i chwi y prŷd hynny o'r pethau y mae arnoch yr awr hon gywilydd o'u plegid? canys diwedd y pethau hynny yw marwolaeth. Ac yr awr hon, wedi eich rhyddhâu oddi wrth bechod, a'ch gwneuthur yn weiſion i Dduw, y mae i chwi eich ffrwyth yn ſanctеiddrwydd, a'r diwedd yn fywyd tragywyddol. Canys cyflog pechod yw marwolaeth: eithr dawn Duw, yw bywyd tragywyddol, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Efengyl. S. Marc. 8, 1.

YN y dyddiau hynny pan oedd y dyrfa yn fawr iawn, ac heb ganddynt ddim i'w fwytta, y galwodd yr Ieſu ei ddiſgyblion atto, ac a ddywedodd wrthynt, Yr ŵyfi yn toſturio wrth y dyrfa, oblegid y maent hwy dridiau weithian yn aros gyd â mi, ac nid oes ganddynt ddim iw fwytta: ac o's gollyngaf hwynt ymaith ar eu cythlwng i'w teiau eu hunain, hwy a lewygant ar y ffordd: canys rhai o honynt a ddaeth o bell. A'i ddiſgyblion ef a'i hattebaſant, O ba le y gall neb ddigoni y rhai hyn â bara, yma yn yr anialwch? Ac efe a ofynnodd iddynt, Pa faint torth ſydd gennych? A hwy a ddywedaſant, Saith. Ac efe a orchymmynodd i'r dyrfa eiſtedd ar y llawr; ac a gymmerodd y ſaith dorth, ac a ddiolchodd, ac a'u torrodd hwynt, ac a'u rhoddes i'w ddiſgyblion, fel y goſodent hwynt ger eu bronnau: a goſodaſant hwynt ger bron y bobl. Ac yr oedd ganddynt ychydig byſgod bychain; ac wedi iddo fendithio, efe a barodd ddodi y rhai hynny hefyd ger eu bronnau hwynt. A hwy a fwyttaſant, ac a ddigonwyd: a hwy a godaſant o'r briw-fwyd gweddill, ſaith faſgedaid. A'r rhai a fwyttaſent oedd ynghŷlch pedair mîl; ac efe a'u gollyngodd hwynt ymaith.

Yr ŵythfed Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

ODduw, yr hwn trwy dy ddiball ragluniaeth ŵyt yn llywodraethu pob peth yn y nêf, a'r ddaear; yn ufudd ni a attolygwn i ti fwrw oddi wrthym bob peth niweidiol, a rhoddi o honot i ni bob peth a fyddo da ar ein llês, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Rhuf. 8. 12.

YBrodyr, dyledŵr ydym, nid i'r cnawd, i fyw yn ôl y cnawd. Canys o's byw yr ydych yn ôl y cnawd, meirw fyddwch: eithr o's ydych yn marweiddio gweithredoedd y corph trwy 'r Yſpryd, byw fyddwch. Canys y ſawl a arweinir gan Yſpryd Duw, y rhai hyn ſydd blant i Dduw. Canys ni dderbyniaſoch yſpryd caethiwed drachefn i beri ofn; eithr derbyniaſoch yſpryd mabwyſiad, trwy 'r hwn yr ydym yn llefain, Abba, Dâd. Y mae yr yſpryd hwn yn cŷd-dyſtiolaethu â'n hyſpryd ni, ein bod ni yn blant i Dduw. Ac o's plant,

etifeddion

etifeddion hefyd, ſef etifeddion i Dduw, a chŷd-etifeddion â Chriſt: o's ydym yn cŷd-ddioddef gyd ag ef, fel y'n cŷd-ogonedder hefyd.

Yr Efengyl. S. Math. 7. 15.

YMogelwch rhag y gau-brophwydi, y rhai a ddeuant attoch yngwiſgoedd defaid, ond oddi mewn bleiddiaid rheibus ydynt hwy. Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt. A gaſgl rhai rawnwin oddi ar ddrain, neu ffigys oddi ar yſgall? Felly pob pren da ſydd yn dwyn ffrwythau da; ond y pren drŵg ſydd yn dwyn ffrwythau drŵg. Ni ddichon pren da ddwyn ffrwythau drŵg; na phren drŵg ddwyn ffrwythau da. Pob pren heb ddwyn ffrwyth da, a dorrir i lawr ac a deflir yn tân. O herwŷdd paham, wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt. Nid pob un ſydd yn dywedyd wrthyf, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd: ond yr hwn ſydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhâd yr hwn ſydd yn y nefoedd.

Y nawfed Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

CAniattâ i ni, Arglwydd, attolwg i ti, yr Yſbryd i feddwl ac i wneuthur byth y cyfryw bethau ag a ſo cyfiawn; fel y byddo i ni, y rhai ni allwn hebot wneuthur dim ſy dda, allu trwot ti fyw yn ôl dy ewyllys, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 Cor. 10. 1.

NI ſynnwn i chwi fod heb ŵybod, frodyr, fod ein tadau oll, tan y cwmmwl, a'u myned oll trwy y môr, a'u bedyddio hwy oll i Moſes yn y cwmmwl, ac yn y môr; a bwytta o bawb o honynt yr un bwyd yſprydol, ac yfed o bawb o honynt yr un ddiod yſprydol: (canys hwy a yfaſant o'r graig yſprydol a oedd yn canlyn; a'r graig oedd Griſt.) Eithr ni bu Dduw foddlon i'r rhan fwyaf o honynt; Canys cŵympwyd hwynt yn y diffeithwch. A'r pethau hyn a wnaed yn ſiamplau i ni, fel na chwenychem ddrygioni, megis ac y chwennychaſant hwy. Ac na fyddwch eilun-addolwyr, megys rhai o honynt hwy; fel y mae yn yſgrifennedig, Eiſteddodd y bobl i fwytta, ac i yfed; ac a gyfodaſant i chwareu. Ac na odinebwn, fel y godinebodd rhai o honynt hwy, ac y ſyrthiodd mewn un dŷdd dair mîl ar hugain. Ac na themtiwn Griſt megis ac y temtiodd rhai o honynt hwy, ac a'u diſtrywiwyd gan ſeirph. Ac na rwgnechwch, megis y grwgnachodd rhai o honynt hwy, ac a'u diſtrywiwyd gan y diniſtrydd. A'r pethau hyn oll a ddigŵyddaſant yn ſiamplau iddynt hwy, ac a 'ſgrifennwyd yn rhybudd i ninnau, ar y rhai y daeth terfynau yr oeſoedd. Am hynny, yr hwn ſydd yn tybied ei fod yn ſefyll, edryched na ſyrthio. Nid ymaflodd ynoch demtaſiwn, onid un dynol; eithr ffyddlon yw Duw, yr hwn ni âd eich temtio uwch law yr hyn a alloch: eithr a wnâ ynghŷd â'r temtaſiwn ddiangfa hefyd, ſel y galloch ei ddwyn.

Yr Efengyl. S. Luc 16. 1.

A'R Ieſu a ddywedodd wrth ei ddiſgyblion, Yr oedd rhyw ŵr goludog, yr hwn oedd ganddo oruchwiliwr, a hwn a gyhuddwyd wrtho, ei fod efe megis yn afradloni ei ddâ ef. Ac efe a'i galwodd ef, ac a ddywedodd wrtho, Pa beth yw hyn yr ŵyf yn ei glywed am danat? dyro gyfrif o'th oruchwyliaeth; Canys ni elli fod mwy yn oruchwiliwr. A'r goruchwiliwr a ddywedodd ynddo ei hun, Pa beth a wnâf? canys y mae fy Arglwydd yn dwyn yr oruchwiliaeth oddi arnaf? cloddio ni's gallaf, a chardotta ſydd gywilyddus gennyf. Mi a wn beth a wnâf, fel pan i'm bwrier allan o'r oruchwyliaeth, y derbyniont fi i'w tai. Ac wedi iddo alw atto bob un o ddyledwŷr ei Arglwydd, efe a ddywedodd wrth y cyntaf, Pa faint ſydd arnat ti o ddyled i'm hArglwydd? Ac efe a ddywedodd, Cân meſur o olew. Ac efe a ddywedodd wrtho, Cymmer dy 'ſgrifen, ac eiſtedd ar frŷs, a 'ſgrifenna ddeg a deugain. Yna y dywedodd wrth un arall, A pha faint o ddyled ſydd arnat tithau? Ac efe a ddywedodd, Cân meſur o wenith. Ac efe a ddywedodd wrtho, Cymmer dy 'ſgrifen, a 'ſgrifenna bedwar ugain. A'r Arglwydd a ganmolodd y goruchwiliwr anghyfiawn, am iddo wneuthur yn gall. Oblegid y mae plant y bŷd hwn yn gallach yn eu cenhedlaeth, na phlant y goleuni. Ac yr ŵyf yn dywedyd i chwi, gwnewch i chwi gyfeillion o'r Mammon anghyfiawn; fel pan fo eiſiau arnoch, y'ch derbyniont i'r tragywyddol bebyll.

Y degfed Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

BYdded dy drugarogion gluſtiau, O Arglwydd, yn agored i weddiau dy ufudd weiſion; ac fel y bo iddynt gael eu gofynion, gwnâ iddynt erchi y cyfryw bethau ag a ryngo bôdd i ti, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 Cor. 12. 1.

AM yſprydol ddoniau, frodyr, ni fynnwn i chwi fod heb ŵybod. Chwi a ŵyddoch mai Cenhedloedd oeddych, yn eich arwain ymaith at yr eulynnod mudion, fel y'ch tywyſid. Am hynny yr ŵyf yn yſpyſu i chwi, nad oes neb yn lleſaru trwy Yſpryd Duw, yn galw yr Ieſu yn yſgymmunbeth; ac ni all neb ddywedyd, yr Arglwydd Ieſu, eitlır trwy yr Yſpryd glân. Ac y mae amryw ddoniau, eithr yr un Yſpryd. Ac y mae amryw weinidogaethau, eithr yr un Arglwydd. Ac y mae amryw weithrediadau, ond yr un yw Duw, yr hwn ſydd yn gweithredu pob peth ym mhawb. Eithr eglurhâd yr Yſpryd a roddir i bob un er lleſhâd. Canys i un trwy yr Yſpryd y rhoddir ymadrodd doethineb; ac i arall ymadrodd gŵybodaeth, trwy yr un Yſpryd; ac i arall ffydd, trwy yr un Yſpryd; ac i arall ddawn i iachâu, trwy yr un Yſpryd; ac i arall wneuthur gwyrthiau; ac i arall brophwydoliaeth; ac i arall wahaniaeth Yſprydoedd; ac i arall amryw dafodau; ac i arall gyfieithiad tafodau. A'r holl bethau hyn y mae 'r un a'r unrhyw Yſpryd yn eu gweithredu, gan rannu i bob un o'r nailltu, megis y mae yn ewyllyſio.

Yr Efengyl. S. Luc 19. 41.

AC wedi iddo ddyfod yn agos, pan welodd efe y ddinas, efe a ŵylodd troſti, gan ddywedyd, Pe gŵybuaſit tithau, ïe yn dy ddŷdd hwn, y pethau a berthynant i'th heddwch! eithr y maent yn awr yn guddiedig oddi wrth dy lygaid. Canys daw y dyddiau arnat, a'th elynion a fwriant glawdd o'th amgylch, ac a'th amgylchant, ac a'th warchaeant o bob parth: ac a'th wnânt yn gŷd-waſtad â'r llawr, a'th blant o'th fewn: ac ni adawant ynot faen ar faen; o herwŷdd nad adnabuoſt amſer dy ymweliad. Ac efe a aeth i mewn i'r deml, ac a ddechreuodd fwrw allan y rhai oedd yn gwerthu ynddi, ac yn prynu; gan ddywedyd wrthynt, Y mae yn 'ſgrifennedig, Fy nhŷ i, tŷ gweddi yw: eithr chwi a'i gwnaethoch yn ogof lladron. Ac yr oedd efe beunydd yn athrawiaethu yn y deml.

Yr 11 Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

ODduw, yr hwn ŵyt yn egluro dy holl-alluog nerth yn bennaf gan ddangos trugaredd a thoſturi; yn drugarog dyro i ni y cyfryw feſur o'th râs, fel y bo i ni gan redeg ar hŷd ffordd dy

dy orchymynion, gyrhaeddyd dy rasol addewidion, a chael ein gwneuthur yn gyfrannogion o'th nefol dryſor, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 1 Cor. 15. 1.

YR ydwyf yn yſpyſu i chwi, frodyr, yr Efengyl a bregethais i chwi, yr hon hefyd a dderbyniaſoch, ac yn yr hon yr ydych yn ſefyll. Trwy yr hon y'ch cedwir hefyd, os ydych yn dal yn eich côf â pha ymadrodd yr efengylais i chwi, oddi eithr darfod i chwi gredu yn ofer. Canys mi a draddodais i chwi ar y cyntaf, yr hyn hefyd a dderbyniais, farw o Griſt tros ein pechodau ni, yn ôl yr yſgrythyrau; A'i gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd, yn ôl yr yſgrythyrau; A'i weled ef gan Cephas, yna gan y deuddeg. Wedi hynny y gwelwyd ef gan fwy nâ phùm cant brodyr ar unwaith, o'r rhai y mae y rhàn fwyaf yn aros hyd yr awrhon; eithr rhai a hunaſant. Wedi hynny y gwelwyd ef gan Iago, yna gan yr holl Apoſtolion. Ac yn ddiweddaf oll y gwelwyd ef gennyf finnau hefyd, megis gan un anhymmig. Canys myfi yw 'r lleiaf o'r Apoſtolion, yr hwn nid ŵyf addas i'm galw yn Apoſtol, am i mi erlid Eglwys Dduw. Eithr trwy râs Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf: a'i râs ef, yr hwn a roddwyd i mi, ni bu yn ofer; ond mi a lafuriais yn helaethach nâ hwynt oll; Ac nid myfi chwaith, ond grâs Duw yr hwn oedd gyd â mi. Am hynny pa un bynnag, ai myfi ai hwynt-hwy; felly yr ydym yn pregethu, ac felly y credaſoch chwi.

Yr Efengyl. S. Luc 18. 9.

CRiſt a ddywedodd y ddammeg hon hefyd, wrth y rhai oedd yn hyderu arnynt eu hunain eu bod yn gyfiawn, ac yn dïyſtyru eraill. Dau ŵr a aeth i ſynu i'r deml i weddio; un yn Phariſead, a'r llall yn Bublican. Y Phariſead o'i ſefyll a weddïodd rhyngddo ac ef ei hun fel hyn, O Dduw, yr ŵyf yn diolch i ti nad ŵyfi fel y mae dynion eraill, yn drawſion, yn anghyfiawn, yn odinebwŷr; neu fel y Publican hwn chwaith. Yr ŵyf yn ymprydio ddwy waith yn yr ŵythnos, yr ŵyf yn degymmu cymmaint oll ac a feddaf. A'r Publican gan ſefyll o hirbell, ni fynnai cymmaint a chodi ei olygon tu a'r nêf, eithr efe a gurodd ei ddwyfron, gan ddywedyd, O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur. Dywedaf i chwi, aeth hwn i wared i'w dŷ, wedi ei gyfiawnhâu yn fwy nâ'r llall: Canys pob un ag ſydd yn ei ddyrchafu ei hun, a oſtyngir, a phob un ag ſydd yn ei oſtwng ei hun, a ddyrchefir.

Yr 12 Sûl gwedi 'r Drindod.

Yr Colect.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn yn waſtad ŵyt barottach i wrando, nâ nyni i weddio, ac ŵyt arferol o roddi mwy nag a archom, neu a ryglyddom; tywallt arnom amlder dy drugaredd, gan faddeu i ni y cyfryw bethau ag y mae ein cydwybod yn eu hofni, a rhoddi i ni y cyfryw ddaioni bethau, nad ŷm deilwng i'w gofyn ond trwy ryglyddon a chyfryngiad Ieſu Griſt dy Fâb di, a'n Harglwydd ni. *Amen.*

Yr Epiſtol. 2 Cor. 3. 4.

Y Cyfryw hyder ſydd gennym trwy Griſt ar Dduw: nid o herwŷdd ein bod yn ddigonol o honom ein hunain, i feddwl dim megis o honom ein hunain; eithr ein digonedd ni ſydd o Dduw: Yr hwn hefyd a'n gwnaeth ni yn Weinidogion cymmwys y Teſtament newŷdd; nid i'r llythyren, ond i'r Yſpryd: Canys y mae y llythyren yn lladd, ond yr Yſpryd ſydd yn bywhâu. Ac o's bu gweinidogaeth angau, mewn llythyrennau wedi ei hargraphu ar gerrig, mewn gogoniant; fel na allai plant yr Iſrael edrych yn grâff yn wyneb Moſes gan ogoniant ei ŵynebpryd, yr hwn ogoniant a ddilëwyd; pa fodd yn hytrach na bydd gweinidogaeth yr Yſpryd mewn gogoniant? Canys o's bu gweinidogaeth damnedigaeth yn ogoniant, mwy o lawer y mae gweinidogaeth cyfiawnder yn rhagori mewn gogoniant.

Yr Efengyl. S. Marc 7. 31.

YR Ieſu a aeth drachefn ymaith o dueddau Tyrus a Sidon, ac a ddaeth hyd fôr Galilea, trwy ganol terſynau Decapolis. A hwy a ddygaſant atto un byddar ac attal dywedyd arno; ac a attolygſant iddo ddodi ei lâw arno ef. Ac wedi iddo ei gymmeryd ef o'r nailltu allan o'r dyrfa, efe a eſtynnodd ei ſyſedd yn ei gluſtiau ef, ac wedi iddo boeri, ef a gyffyrddodd â'i dafod ef; a chan edrych tu a'r nêf, efe a ocheneidiodd, ac a ddywedodd wrtho, *Ephphatha*, hynny yw, ymagor. Ac yn ebrwydd ei gluſtiau ef a agorwyd, a rhwym ei dafod a ddattodwyd, ac efe a leſarodd yn eglur. Ac efe a waharddodd iddynt ddywedyd i nêb; ond po mwyaf y gwaharddodd efe iddynt, mwy o lawer y cyhoeddaſant. A ſynnu a wnaethant yn anfeidrol, gan ddywedyd, Da y gwnaeth efe bob peth; y mae efe yn gwneuthur i'r byddair glywed, ac i'r mudion ddywedyd.

Yr 13 Sûl gwedi 'r Drindod.

Yr Colect.

HOll-alluog a thrugarog Dduw, o rôdd pa un yn unig y daw, bod i'th bobl ffyddlon dy waſanaethu yn gywir, ac yn foledig; Caniattâ, ni a erfyniwn i ti, allu o honom felly dy waſanaethu di yn y bywyd hwn, fel na phallo gennym yn y diwedd fwynhâu dy nefol addewidion, trwy haeddedigaethau Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Gal. 3. 16.

I Abraham y gwnaethwyd yr addewidion, ac i'w hâd ef. Nid yw yn dywedyd, Ac i'w hadau, megis am lawer, ond megis am un; Ac i'th hâd ti, yr hwn yw Criſt. A hyn yr ŵyf yn ei ddywedyd: am yr ammod a gadarnhäwyd o'r blaen gan Dduw yng Nghriſt, Nad yw y ddeddf oedd bedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd wedi, yn ei ddirymmu, i wneuthur yr addewid yn ofer; Canys o's o'r ddeddf y mae yr etifeddiaeth, nid yw mwyach o'r addewid: ond Duw a'i rhâd-roddodd i Abraham drwy addewid. Beth gan hynny yw 'r ddeddf? oblegid troſeddau y rhoddwyd hi yn ychwaneg, hyd oni ddelai 'r hâd, I'r hwn y gwnaethid yr addewid; a hi a drefniwyd trwy Angylion, yn llâw cyfryngwr. A chyfryngwr, nid yw i un; ond Duw ſydd un. A ydyw y ddeddf gan hynny yn erbyn addewidion Duw? Na atto Duw; Canys pe rhoiſid deddf a allaſai fywhâu, yn wîr o'r ddeddf y buaſai cyfiawnder. Eithr cydgauodd yr yſgrythur bob peth tan bechod, fel y rhoddid yr addewid trwy ffydd Ieſu Griſt, i'r rhai ſy yn credu.

Yr Efengyl. S. Luc 10. 23.

GWŷn fyd y llygaid ſy yn gweled y pethau yr ydych chwi yn eu gweled. Canys yr ŵyf yn dywedyd i chwi, ewyllyſio o lawer o brophwydi a brenhinoedd weled y pethau yr ydych chwi yn eu gweled, ac ni's gwelſant; a chlywed y pethau yr ydych chwi yn eu clywed, ac ni's clywſant. Ac wele, rhyw gyfreithiwr a gododd, gan eu demtio ef, a dywedyd, Athraw, pa beth a wnâf i gael etifeddu bywyd tragywyddol? Yntau a ddywedodd wrtho, pa beth ſydd yſgrifennedig yn y gyfraith? pa fodd y darlleni? Ac efe gan atteb a ddywedodd, Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl nerth, ac â'th holl feddwl: a'th gymmydog fel ti dy hun. Yntau a ddywedodd wrtho, Ti a attebaiſt yn uniawn: gwna hyn, a byw

byw fyddi. Eithr efe, yn ewyllyſio ei gyfiawnhâu ei hun, a ddywedodd wrth yr Ieſu, A phwy yw fy nghymmydog? a'r Ieſu gan atteb a ddywedodd, Rhyw ddŷn oedd yn myned i wared o Jeruſalem i Jericho, ac a ſyrthiodd ym mŷſg lladron; y rhai wedi ei ddïoſg ef, a'i archolli, a aethant ymaith, gan ei adael yn hanner marw. Ac ar ddamwain, rhyw Offeiriad a ddaeth i wared y ffordd honno, a phan ei gwelodd, efe a aeth o'r tu arall heibio. A'r un ffunud Lefiad hefyd, wedi dyfod i'r fân a'i weled ef, a aeth o'r tu arall heibio. Eithr rhyw Samariad wrth ymdaith, a ddaeth atto ef; a phan ei gwelodd, a doſturiodd, ac a aeth atto, ac a rwymodd ei archollion ef, gan dywallt ynddynt olew a gwîn; ac a'i goſododdef ar ei anifail ei hun, ac a'i dûg ef i'r lletty, ac a'i ymgeleddodd. A thrannoeth wrth fyned ymaith, efe a dynnodd allan ddŵy geiniog, ac a'u rhoddodd i'r llettywr, ac a ddywedodd wrtho, Cymmer ofal troſto: a pha beth bynnag a dreuliech yn ychwaneg, pan ddelwyf dracheſn mi a'i talaf i ti. Pwy gan hynny o'r tri hyn yr ydwyt ti yn tybied ei fod yn gymmydog i'r hwn a ſyrthiaſai ym mhlith y lladron? Ac efe a ddywedodd, Yr hwn a wnaeth drugaredd ag ef. A'r Ieſu am hynny a ddywedodd wrtho, Dôs a gwnâ dithau yr un mŏdd.

Y 14 *Sûl gwedi 'r Drindod.*

Y Colect.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, dyro i ni anghwaneg o ffŷdd, gobaith, a chariad perffaith: ac fel y caffom yr hyn yr ŵyt yn ei addaw, gwnâ i ni garu yr hyn yr ŵyt yn ei orchymmyn, trwy Ieſu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Gal. 5. 16.

YR ŵyf yn dywedyd, Rhodiwch yn yr Yſpryd, ac na chyflawnwch drachwant y cnawd. Canys y mae y cnawd yn chwennychu yn erbyn yr Yſpryd, a'r Yſpryd yn erbyn y cnawd, a'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd, fel na alloch wneuthur beth bynnag a ewyllyſioch. Ond o's gan yr Yſpryd y'ch arweinir, nid ydych tan y ddeddf. Hefyd amlwg yw gweithredoedd y cnawd, y rhai yw, torr-priodas, godineb, afiendid, anlladrwydd, delw-addoliaeth, ſwyn-gyfaredd, caſineb, cynhennau, gwynfydau, llîd, ymryſonau, ymbleidio, hereſiau, cynfigennau, llofruddiaeth, meddwdod, cyfeddach; a chyffelyb i'r rhai hyn: am y rhai yr ŵyfi yn rhag-ddywedyd wrthych, megis ac y rhag-ddywedais, na chaiff y rhai ſy yn gwneuthur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Dduw. Eithr ffrwyth yr Yſpryd, yw cariad, llawenydd, tangnefedd, hîr-ymaros, cymmwynaſgarwch, daioni, ffŷdd, addfwynder, dirweſt: Yn erbyn y cyfryw nid oes ddeddf. A'r rhai ſydd yn eiddo Criſt, a groes-hoeliaſant y cnawd, a'i wyniau, a'i chwantau.

Yr Efengyl. S. Luc 17. 11.

BU hefyd a'r Ieſu yn myned i Jeruſalem, fyned o hono ef trwy ganol Samaria a Galilea. A phan oedd efe yn myned i mewn i ryw drêf, cyfarfu ag ef ddeg o wŷr gwahan-gleifion, y rhai a ſafaſant o hirbell, A hwy a godaſant eu llêf, gan ddywedyd, Ieſu feiſtr, trugarhâ wrthym. A phan welodd efe hwynt, efe a ddywedodd wrthynt, Ewch a dangoſwch eich hunain i'r offeiriaid. A bu fel yr oeddynt yn myned, fe a'u glanhäwyd hwynt. Ac un o honynt, pan welodd ddarfod ei iachâu, a ddychwelodd, gan foliannu Duw â llêf uchel, Ac efe a ſyrthiodd ar ei ŵyneb wrth ei draed ef, gan ddïolch iddo; a Samariad oedd efe. A'r Ieſu gan atteb a ddywedodd, Oni lanhäwyd y deg? ond pa le y mae 'r naw? Ni chaed a ddychwelaſant i roi gogoniant i Dduw, ond yr eſtron hwn. Ac efe a ddywedodd wrtho, Cyfod, a dôs ymaith, dy ffŷdd a'th iachaodd.

Y 15 Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

CAdw, ni a attolygwn i ti, Arglwydd, dy Eglwys â'th dragywyddol drugaredd: a chan na ddichon gwendid dŷn hebot ti ond ſyrthio, cadw ni byth trwy dy borth oddi wrth bob peth niweidiol, ac arwain ni at bob peth buddiol i'n hiechydwriaeth, trwy Ieſu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Gal. 6. 11.

GWelwch cyhyd y llythyr a'ſgrifennais attoch, â'm llâw fy hun. Cynnifer ac ſy yn ewyllyſio ymdeccâu yn y cnawd, y rhai hyn ſy yn eich cymmell i'ch enwaedu, yn unig fel nad erlidier hwy oblegid croes Criſt. Canys nid yw y rhai a enwaedir, eu hunain yn cadw y ddeddf; ond ewyllyſio y maent enwaedu arnoch chwi, fel y gorfoleddont yn eich cnawd chwi. Eithr na atto Duw i mi ymffroſtio, ond ynghroes ein Harglwydd Ieſu Grift, drwy yr hwn y croes-hoeliwyd y bŷd i mi, a minnau i'r bŷd. Canys yng Nghriſt Ieſu ni ddichon enwaediad ddim, na dienwaediad, ond creadur newŷdd. A chynnifer ac a rodiant yn ôl y rheol hon, tangnefedd arnynt a thrugaredd, ac ar Iſrael Duw. O hyn allan, na flined neb fi: Canys dwyn yr ŵyfi yn fy nghorph nodau yr Arglwydd Ieſu. Gras ein Harglwydd Ieſu Grift a fyddo gyd â'ch Yſpryd chwi, frodyr. *Amen.*

Yr Efengyl. S. Math. 6. 24.

NI ddichon neb waſanaethu dau arglwydd: canys naill ai efe a gaſâ y naill, ac a gâr y llall; ai efe a ymlŷn wrth y naill, ac a eſgeuluſa 'r llall. Ni ellwch waſanaethu Duw a Mammon. Am hynny meddaf i chwi, na ofelwch am eich bywyd, pa beth a fwyttaoch, neu pa beth a yfoch; nac am eich corph, pa beth a wiſgoch: Onid yw 'r bywyd yn fwy nâ'r bwyd, a'r corph yn fwy nâ'r dillad? Edrychwch ar adar y nefoedd; oblegid nid ydynt yn hau, nac yn medi, nac yn cywain i yſguboriau; ac y mae eich Tâd nefol yn eu porthi hwy: onid ydych chwi yn rhagori llawer arnynt hwy? A phwy o honoch gan ofalu a ddichon chwanegu un cufydd at ei faintioli? A pha ham yr ydych chwi yn gofalu am ddillad? yſtyriwch lili 'r maes, pa fodd y maent yn tyfu: nid ydynt nac yn llafurio, nac yn nyddu: Eithr yr ŵyf yn dywedyd i chwi, na wiſgwyd Solomon yn ei holl ogoniant, fel un o'r rhai hyn. Am hynny os dillada Duw felly lyſieuyn y maes, yr hwn ſydd heddyw, ac y foru a fwrir i'r ffwrn; oni ddillada efe chwi yn hyttrach o lawer, O chwi o ychydig ffŷdd? Am hynny na ofelwch, gan ddywedyd, Beth a fwyttawn, neu beth a yfwn, neu a pha beth yr ymddilladwn? (Canys yr holl bethau hyn y mae y cenhedloedd yn eu ceiſio) oblegid gŵyr eich Tâd nefol fod arnoch eiſiau yr holl bethau hyn. Eithr yn gyntaf ceiſiwch deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg. Na ofelwch gan hynny tros drannoeth; canys trannoeth a ofala am ei bethau ei hun: digon i'r diwrnod ei ddrŵg ei hun.

Yr 16 Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

OArglwydd, ni a attolygwn i ti, ſod i'th waſtadol doſturi lanhâu ac amddiffyn dy Eglwys; a chan na all hi barhâu mewn diogelwch heb dy fendigedig nodded, cadw hi byth gan dy borth a'th ddaioni, trwy Ieſu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Epheſ. 3. 13.

YR ŵyf yn dymuno na lwſrhaoch oblegid fy mlinderau i troſoch, yr hyn yw eich gogoniant chw. O herwŷdd hyn yr ŵyf yn plygu fy

ngliniau

ngſiniàu at Dâd ein Harglwydd Ieſu Griſt, o'r hwn yr henwir yr holl deulu yn y nefoedd, ac ar y ddaear, ar roddi o honaw ef i chwi yn ôl cyfoeth ei ogoniant, fod wedi ymgadarnhâu mewn nerth, trwy ei Yſpryd ef, yn y dŷn oddi mewn: ar fod Criſt yn trigo trwy ffŷdd yn eich calonnau chwi; ſel y galloch wedi eich gwreiddio, a'ch ſeilio mewn cariad, amgyffred gyd â 'r holl Saint, beth yw 'r lled, a'r hŷd, a'r dyfnder, a'r uchder; a gwybod cariad Criſt, yr hwn ſydd uwch law gwybodaeth: ſel y'ch cyflawner â holl gyflawnder Duw. Ond i'r hwn a ddichon wneuthur yn dra rhagorol, y tu hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno, neu yn eu meddwl, yn ôl y nerth ſydd yn gweithredu ynom ni, iddo ef y byddo y gogoniant yn yr Eglwys trwy Griſt Ieſu, tros yr holl genhedlaethau, hyd yn oes oeſoedd. *Amen.*

Yr Efengyl. S. Luc 7. 11.

ABu drannoeth, iddo ef fyned i Ddinas a elwid Nain, a chyd ag ef yr aeth llawer o'i ddiſgyblion, a thyrfa fawr. A phan ddaeth efe yn agos at borth y ddinas, wele un marw a ddygid allan, yr hwn oedd unig fâb ei fam, a honno yn weddw: a bagad o bobl y ddinas oedd gyd â hi. A'r Arglwydd pan y gwelodd hi, a gymmerodd drugaredd arni, ac a ddywedodd wrthi, Nac wyla. A phan ddaeth attynt, efe a gyffyrddodd â'r elor; (a'r rhai oedd yn ei dwyn a ſafaſant) ac efe a ddywedodd, Y mâb ieuangc, yr wyf yn dywedyd wrthyt, cyfod. A'r marw a gyfododd yn ei eiſtedd, ac a ddechreuodd leſaru; ac efe a'i rhoddes i'w fam. Ac ofn a ddaeth ar bawb, a hwy a ogoneddaſant Ddduw, gan ddywedyd, Prophwyd mawr a gyfododd yn ein plith: ac ymwelodd Duw a'i bobl. A'r gair hwn a aeth allan am dano drwy holl Judea, a thrwy gwbl o'r wlâd oddi amgylch.

Y 17 Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

ARglwydd, ni a attolygwn i ti fod dy râs bob amſer yn ein rhagflaenu, ac yn ein dilyn; a pheri o honot i ni yn waſtad ymroddi i bob gweithred dda, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Epheſ. 4. 1.

DEiſyf gan hynny arnoch yr wyf fi y carcharor yn yr Arglwydd, ar rodio o honoch yn addas i'r alwedigaeth y'ch galwyd iddi: gyd â phob goſtyngeiddrwydd ac addfwynder, ynghŷd a hîrymaros gan oddef eich gilydd mewn cariad; gan ſod yn ddyſal i gadw undeb yr Yſpryd, ynghwlwm tangnefedd. Un corph ſydd, ac un Yſpryd, megis ac y'ch galwyd yn un gobaith eich galwedigaeth. Un Arglwydd, un ffŷdd, un bedydd: Un Duw a Thâd oll, yr hwn ſydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynoch oll.

Yr Efengyl. S. Luc 14. 1.

BU hefyd, pan ddaeth yr Ieſu i dŷ un o bennaethiaid y Phariſeaid ar y Sabbath, i fwytta bara, iddynt hwythau ei wylied ef. Ac wele, 'r oedd ger ei fron ef ryw ddŷn yn glâf o'r dropſi. A'r Ieſu gan atteb a leſarodd wrth y cyfreithwŷr, a'r Phariſeaid, gan ddywedyd, A'i rhŷdd iachàu ar y Sabbath? A thewi a wnaethant. Ac efe a'i cymmerodd atto, ac a'i iachaodd ef, ac a'i gollyngodd ymaith; ac a ddywedodd, Aſyn neu ŷch pa un o honoch a ſyrth i bwll, ac yn ebrwydd ni's tynn ef allan ar y dŷdd Sabbath? Ac ni allent roi atteb yn ei erbyn am y pethau hyn. Ac efe a ddywedodd wrth y gwahoddedigion ddammeg, pan yſtyriodd ſel yr oeddynt yn dewis yr eiſteddleoedd uchaf, gan ddywedyd wrthynt, Pan y'th wahodder gan nêb i neithior, nac eiſtedd yn y lle uchaf; rhag bod un anrhydeddusach nâ thi, wedi ei wahodd ganddo: ac i hwn a'th wahoddodd di ac yntau, ddyfod a dywedyd wrthyt, Dyro le i hwn; ac yna dechreu o honot ti trwy gywilydd gymmeryd y lle iſaf. Eithr pan y'th wahodder, dos ac eiſtedd yn y lle iſaf, ſel pan ddêl yr hwn a'th wahoddodd di, y gallo efe ddywedyd wrthyt, Y cafaill, eiſtedd yn uwch i ſynu: yna y bydd i ti glôd yngwydd y rhai a eiſteddant gyd â thi ar y bwrdd: Canys pob un a'r a'i dyrchafo ei hun, a oſtyngir; a'r hwn ſydd yn ei oſtwng ei hun, a ddyrchefir.

Y 18 Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

OArglwydd, ni a attolygwn i ti, ganiattâu i'th bobl râs i wrthladd profedigaethau 'r bŷd, y cnawd, a'r cythraul, ac à phûr galon a meddwl i'th ddilyn di yr unig Dduw, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen,*

Yr Epiſtol. 1 Cor. 1. 4.

YY ydwyf yn diolch i'm Duw bob amſer droſoch chwi, am y grâs Duw a rodded i chwi yng Nghriſt Ieſu: am eich bod ym mhob peth wedi eich cyfoethogi ynddo ef, mewn pob ymadrodd a phob gwybodaeth; megys y cadarnhâwyd tyſtiolaeth Criſt ynoch. Fel nad ydych yn ôl mewn un dawn, yn diſgwyl am ddatguddiad ein Harglwydd Ieſu Griſt; yr hwn hefyd a'ch cadarnhâ chwi hyd y diwedd yn ddi-argyhoedd, yn nŷdd ein Harglwydd Ieſu Griſt.

Yr Efengyl. St. Math. 22. 34.

GWedi clywed o'r Phariſeaid ddarfod i'r Ieſu oſtegu y Saduceaid, hwy a ymgynnullaſant ynghŷd i'r un lle. Ac un o honynt yr hwn oedd gyfreithiwr, a ofynnodd iddo gan ei demtio, a dywedyd, Athraw, pa un yw 'r gorchymmyn mawr yn y gyfraith? A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl gâlon, ac a'th holl enaid, ac â'th holl feddwl. Hwn yw 'r cyntaf, a'r gorchymmyn mawr. A'r ail ſydd gyffelyb iddo, Câr dy gymmydog fel ti dy hun. Ar y ddau orchymmyn hyn, y mae 'r holl gyfraith a'r prophwydi yn ſefyll. Ac wedi ymgaſglu o'r Phariſeaid ynghŷd, yr Ieſu a ofynnodd iddynt gan ddywedyd, Beth a dybygwch chwi am Griſt? Mâb i bwy ydyw? dywedent wrtho, Mâb Dafydd. Dywedai yntau wrthynt, Pa fôdd gan hynny y mae Dafydd yn yr Yſpryd yn ei alw ef yn Arglwydd, gan ddywedyd, Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd, Eiſtedd ar fy neheu-law, hyd oni oſodwyf dy elynion yn droed-ſaingc i'th draed ti? O's yw Dafydd gan hynny yn ei alw ef yn Arglwydd, pa fôdd y mae efe yn Fâb iddo? Ac ni allodd neb atteb gair iddo; ac ni feiddiodd neb o'r dŷdd hwnnw allan ymofyn ag ef mwyach.

Y 19 Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

ODduw gan na allwn ni hebot ti ryngu bôdd i ti; o'th drugaredd caniatâ fod i'th lân Yſbryd ym mhôb peth uniawnu a llywio ein calonnau, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Epheſ. 4. 17.

HYn gan hynny yr wyf yn ei ddywedyd, ac yn ei dyſtiolaethu yn yr Arglwydd, na rodioch chwi mwyach, fel y mae y Cenhedloedd eraill yn rhodio, yn oferedd eu meddwl; wedi tywyllu eu deall; wedi ymddieithrio oddi wrth fuchedd Dduw, drwy 'r anwybodaeth ſydd ynddynt, trwy ddalineb eu càlon: y rhai wedi diddarbodi, a ymroiſant i drythyllwch, i wneuthur pob afiendid yn un-chwant. Eithr chwychwi nid felly y dyſgaſoch Griſt; o's bu i chwi ei glywed ef, ac o's dyſ-

gwyd

gwyd chwi ynddo, megis y mae 'r gwirionedd yn yr Iesu: Dodi o honoch heibio, o ran yr ymarweddiad cyntaf, yr hên ddŷn, yr hwn ſydd lygredig yn ôl y chwantau twyllodrus; ac ymadnewyddu yn Yſpryd eich meddwl; a gwiſgo y dŷn newydd, yr hwn yn ôl Duw a grewyd mewn cyfiawnder a gwir ſancteiddrwydd. O herwydd pa ham, gan ſwrw ymaith gelwydd, dywedwch y gwir bob un wrth ei gymmydog; oblegid aelodau ydym i'n gilydd. Digiwch ac na phechwch: na fachluded yr haul ar eich digoſaint chwi: Ac na roddwch le i ddiawl. Yr hwn a ladrattaodd, na ladratted mwyach; eithr yn hyttrach cymmered boen, gan weithio â'i ddwylaw yr hyn ſydd dda, ſel y byddo ganddo beth i'w gyfrannu i'r hwn y mae angen arno. Na ddeued un ymadrodd llygredig allan o'ch genau chwi: ond y cyfryw un ac a fyddo da i adeiladu yn ſuddiol, ſel y paro râs i'r gwrandawŷr. Ac na thriſtêwch lân Yſpryd Duw, trwy 'r hwn y'ch ſeliwyd hyd ddydd prynedigaeth. Tynner ymaith oddi wrthych bob chwerwedd a llid, a dig, a lleſain, a chabledd, gyd â phob drygioni. A byddwch gymmwynaſgar i'ch gilydd, yn dofturiol, yn maddeu i'ch gilydd, megis y maddeuodd Duw er mwyn Criſt i chwithau.

Yr Eſengyl. S. Math. 9. 1.

YR Iesu a aeth i mewn i'r llong, ac a aeth trofodd, ac a ddaeth i'w ddinas ei hun. Ac wele, hwy a ddygaſant atto ŵr clâf o'r parlys, yn gorwedd mewn gwely; a'r Iesu yn gweled eu ffydd hwy, a ddywedodd wrth y clâf o'r parlys, Hâ Fâb, cymmer gyſſur, maddeuwyd i ti dy bechodau. Ac wele, rhai o'r yſgrifennyddion a ddywedaſant ynddynt eu hunain, y mae hwn yn cablu. A phan weledd yr Iesu eu meddyliau, efe a ddywedodd, Pa ham, y meddyliwch ddrŵg yn eich calonnau? Canys pa un hawſaf, ai dywedyd, maddeuwyd i ti dy bechodau, a'i dywedyd, Cyfod a rhodia? Eithr ſel y gwypoch fod awdurdod gan Fâb y dŷn ar y ddaear i faddeu pechodau, (yna y dywedodd efe wrth y clâf o'r parlys) Cyfod, cymmer dy wely i fynu, a dôs i'th dŷ. Ac efe a gyfodedd, ac a aeth ymaith i'w dŷ ei hun. A'r torfeydd pan welſant, rhyfeddu a wnaethant, a gogoneddu Duw, yr hwn a roiſai gyfryw awdurdod i ddynion.

Yr ugeinfed Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Coleſt.

HOll-gyfoethog a thrugaroccaf Dduw, o'th ragorol ddaioni cadw ni, ni a attolygwn i ti, rhag pob peth a'n dryga; ſel y byddom yn barod yn enaid a chorph, i allu â chalonnau rhyddion cyflawnu y cyfryw bethau ag a fynnit ti eu gwneuthur, trwy Iesu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Epheſ. 5. 15.

GWelwch gan hynny pa fôdd y rhodioch yn ddieſgeulus; Nid ſel annoethion; ond ſel doethion; Gan brynu 'r amſer, oblegid y dyddiau ſy ddrŵg. Am hynny na fyddwch annoethion, eithr yn deall beth yw ewyllys yr Arglwydd. Ac na feddwer chwi gan wîn, yn yr hyn y mae gormodedd; eithr llanwer chwi â'r Yſpryd; Gan leſaru wrth eich gilydd mewn Salmau, Hymnau, ac odlau yſprydol; gan ganu a phyngcio yn eich calon i'r Arglwydd; Gan ddiolch yn waſtad i Dduw a'r Tâd, am bob peth, yn enw ein Harglwydd Iesu Criſt, Gan ymddaroſtwng i'ch gilydd yn ofn Duw.

Yr Eſengyl. S. Math. 22. 1.

YR Iesu a ddywedodd wrth ei ddiſgyblion, Cyffelyb yw teyrnas Neſoedd i ryw frenhin a wnaeth briodas i'w fâb; ac a ddanfonodd ei weiſion i alw y rhai a wahoddaſid i'r briodas; ac ni fynnent hwy ddyfod. Tracheſn efe a anfonodd weiſion eraill, gan ddywedyd, Dywedwch wrth y rhai a wahoddwyd. Wele, parottoais fy nghiniaw; fy ychen a'm paſgedigion a laddwyd, a phob peth ſydd barod: deuwch i'r briodas. A hwy yn diddyſtyr ganddynt, a aethant ymaith, un i'w faes, ac arall i'w maſnach: A'r llall a ddaliaſant ei weiſion ef, ac a'u hammharchaſant ac a'u lladdaſant. A phan glybu 'r brenhin, efe a lidiodd; ac a ddanfonodd ei luoedd, ac a ddinyſtriodd y lleiddiaid hynny, ac a loſgodd eu dinas hwynt. Yna efe a ddywedodd wrth ei weiſion, Yn wir y briodas ſydd barod, ond y rhai a wahoddaſid nid oeddynt deilwng. Ewch gan hynny i'r prif-ffyrdd, a chynnifer ac a gaffoch, gwahoddwch i'r briodas. A'r gweiſion hynny a aethant allan i'r prif-ffyrdd, ac a gaſglaſant ynghyd gynnifer oll ac a gawſant, drŵg a da: a llanwyd y briodas o wahoddedigion. A phan ddaeth y brenhin i mewn i weled y gwahoddedigion, efe a ganfu yno ddŷn heb wiſg priodas am dano. Ac efe a ddywedodd wrtho, Y cyfaill pa fôdd y daethoſt i mewn yma, heb fod gennyt wiſg priodas? Ac yntau a aeth yn fûd. Yna y dywedodd y brenhin wrth y gweinidogion, Rhwymwch ei draed a'i ddwylaw, a chymmerwch ef ymaith, a theſlwch i'r tywyllwch eithaf: yno y bydd wŷlofain a rhingcian dannedd. Canys llawer ſy wedi eu galw, ac ychydig wedi eu dewis.

Yr 21 Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Coleſt.

ODrugarog Arglwydd, ni a attolygwn i ti ganiatâu i'th ffyddlawn bobl, ſaddeuant a thangneſedd, ſel y glanhaer hwynt oddiwrth eu holl beſhodau, ac y gwaſanaethont ti â meddwl heddychol, trwy Iesu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Epheſ. 6. 10.

FY mrodyr, ymnerthwch yn yr Arglwydd, ac ynghadernid ei allu ef. Gwiſgwch oll arfogaeth Duw, ſel y galloch ſefyll yn erbyn cynllwynion diawl. Oblegid nid yw ein hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd. Ond yn erbyn tywyſogaethau, yn erbyn awdurdodau, yn erbyn bydol lywiawdwŷr tywyllwch y bŷd hwn, yn erbyn drygau yſprydol yn y nefolion leoedd. Am hynny cymmerwch attoch holl arfogaeth Duw, ſel y galloch wrth-ſefyll yn y dŷdd drŵg, ac wedi gorphen pob peth, ſefyll. Seſwch gan hynny wedi amgylch wregyſu eich lwynau â gwirionedd, a gwiſgo dwyfronneg cyfiawnder; a gwiſgo am eich traed efgidiau parottoad Efengyl tangneſedd. Uwch law pob dim, wedi cymmeryd tarian y ffydd, â'r hwn y gellwch ddiffoddi holl biccellau tanllyd y ſatan. Cymmerwch hefyd helm yr iechydwriaeth, a chleddyf yr Yſpryd, yr hwn yw gair Duw: gan weddio bob amſer, â phob rhyw weddi a deiſyfiad yn yr Yſpryd, a bod yn wiliadwrus ar hyn yma trwy bob dyfal bara, a deiſyfiad tros yr holl Saint; a throſof finnau, ſel y rhodder i mi ymadrodd, drwy agoryd fy ngenau yn hŷ, i yſpyſu dirgelwch yr Efengyl: tros yr hon yr wyf yn gennad mewn cadwyn: ſel y traethwyt yn hŷ am dani fel y perthyn i mi draethu.

Yr Eſengyl. S. Ioan 4. 46.

YR oedd rhyw bendefig, yr hwn yr oedd ei fâb yn glâf yn Capernaum. Pan glybu hwn ddyfod o'r Iesu o Judea i Galilea, efe a aeth atto ef, ac a attolygodd iddo ddyfod i wared ac iachâu ei fâb ef: canys yr oedd efe ym mron marw. Yna Iesu a ddywedodd wrtho ef, Oni welwch chwi arŵyddion a rhyfeddodau, ni chredwch. Y pendefig a ddywedodd wrtho ef, O Arglwydd, tyred i wared cyn marw fy machgen. Iesu a ddywedodd wrtho ef, Dôs ymaith: y mae dy fâb yn fyw. A'r gŵr a gredodd y gair a ddywedaſai Iesu wrthoi

ac

ac efe a aeth ymaith. Ac fel yr oedd efe yr awrhon yn myned i wared, ei weiſion a gyfarſuant ag ef, ac a ſynegaſant, gan ddywedyd, Y mae dy fachgen yn fyw. Yna efe a ofynnodd iddynt yr awr y gwellhaſai arno: A hwy a ddywedaſant wrtho, Doe, y ſeithfed awr y gadawödd y crŷd ef. Yna y gŵybu 'r tâd mai yr awr honno oedd, yn yr hon y dywedaſai Ieſu wrtho ef, Y mae dy fâb yn fyw; Ac efe a gredodd, a'i holl dŷ. Yr ail arŵydd yma dracheſn a wnaeth yr Ieſu, wedi dyfod o Judea i Galilea.

Y 22 Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

ARglwydd, ni a attolygwn i ti, gadw dy deulu yr Eglwys mewn duwiolder gwaſtadol, ſel y bô trwy dy nodded di, iddi gael ei gwaredu oddi wrth bob gwrthwyneb, ac yn ddefoſiynol ymröi i'th waſanaethu di mewn gweithredoedd da, er gogoniant i'th Enw, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Phil. 1, 3.

I'M Duw yr ydwyf yn diolch, ym mhob coffa am danoch, bob amſer ym mhob deiſyfiad o'r eiddof troſoch chwi oll, gan wneuthur fy neiſyfiad gyd â llawenydd, oblegid eich cymdeithas chwi yn yr Efengyl, o'r dydd cyntaf hyd yr awr hon; gan fod yn hyderus yn hyn, y bydd i'r hwn a ddechreuodd ynoch waith da, ei orphen hyd ddŷdd Ieſu Griſt: megis y mae yn iawn i mi ſynied hyn am danoch oll, am eich bod gennyf yn fy nghalon, yn gymmaint a'ch bod chwi oll, yn gyſtal yn fy rhwymau, ac yn fy amddiffyn, a chadarnhâd yr Efengyl, yn gyfrannogion â mi o râs. Canys Duw ſydd dŷſt i mi, mòr hiraethus ŵyf am danoch oll yn ymyſgaroedd Ieſu Griſt. A hyn yr ŵyf yn ei weddio, ar amlhâu o'ch cariad chwi etto fwy-fwy, mewn gŵybodaeth a phob ſynŵyr: ſel y profoch y pethau ſy a gwahaniaeth rhyngddynt; ſel y byddoch bur a didramgwydd hyd ddŷdd Criſt; wedi eich cyflawni â ffrwythau cyfiawnder, y rhai ſydd trwy Ieſu Griſt, er gogoniant a moliant i Dduw.

Yr Efengyl. S. Math. 18, 21.

PEdr a ddywedodd wrth yr Ieſu, Arglwydd, pa ſawl gwaith y pecha fy mrawd i'm herbyn, ac y maddeuaf iddo? ai hyd ſeith-waith? Yr Ieſu a ddywedodd wrtho, Nid ydwyf yn dywedyd wrthyt, hyd ſeith-waith; onid hyd ddengwaith a thri ugain ſeith-waith. Am hynny y cyffelybir teyrnas nefoedd i ryw frenhin, a fynnai gael cyfrif gan ei weiſion. A phan ddechreuodd gyfrif, fe a ddygwyd atto un a oedd yn ei ddyled ef o ddeng mil o dalentau: A chan nad oedd ganddo ddim i dalu, gorchymynnodd ei arglwydd ei werthu ef, a'i wraig a'i blant, a chwbl ar a feddai, a thalu 'r ddyled. A'r gwâs a ſyrthiodd i lawr, ac a'i haddolodd ef gan ddywedyd, Arglwydd, bydd ymarhöus wrthyf, a mi a dalaf i ti y cwbl oll. Ac arglwydd y gwâs hwnnw a doſturiodd wrtho, ac a'i gollyngodd, ac a faddeuodd iddo y ddyled. Ac wedi myned o'r gwâs hwnnw allan, efe a gafodd un o'i gŷd-weiſion, yr hwn oedd yn ei ddyled ef o gàn ceiniog: ac efe a ymaflodd ynddo, ac a'i llindagodd, gan ddywedyd, Tâl i mi yr hyn ſydd ddyledus arnat. Yna y ſyrthiodd ei gŷd-wâs wrth ei draed ef, ac a ymbiliodd ag ef, gan ddywedyd, Bydd ymarhöus wrthyf, a mi a dalaf i ti y cwbl oll. Ac ni's gwnai efe; ond myned, a'i fwrw ef yngharchar, hyd oni thalai yr hyn oedd ddyledus. A phan welodd ei gŷd-weiſion y pethau a wnelſid, bu ddrŵg dros ben ganddynt a hwy a ddaethant, ac a fynegaſant i'w harglwydd yr holl bethau a fuaſai. Yna ei arglwydd, wedi ei alw ef atto, a ddywedodd wrtho, Ha wâs drŵg, maddeuais i ti yr holl ddyled honno, am i ti ymbil â mi: ac oni ddylefit tithau drugarhau wrth dy gŷd-wâs, megis, y trugarheais innau wrthyt ti? A'i arglwydd a ddigiodd, ac a'i rhoddes ef i'r poenwŷr, hyd oni thalai yr hyn oll oedd ddyledus iddo. Ac felly gwnâ fy Nhâd nefol i chwithau, oni faddeuwch o'ch calonnau bob un i'w frawd eu camweddau.

Y 23 Sûl gwedi 'r Drindod,

Y Colect.

ODduw, ein nodded a'n cadernid, yr hwn ŵyt Awdwr pob duwioldor; gwrando yn ebrwydd, ni a attolygwn i ti, ddefoſiynol weddiau dy Eglwys; a chaniattâ i ni am yr hyn yr ŷm yn eu herchi yn ffyddlawn, allu o honom eu cael yn gyflawn, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Phil. 3. 17.

BYddwch gŷd-ddilynwŷr i mi, frodyr, ac edrychwch ar y rhai ſy yn rhodio felly, megis yr ydym ni yn ſiampl i chwi. (Canys y mae llawer yn rhodio, am y rhai y dywedais i chwi yn fynych, ac yr ydwyf yr awrhon hefyd tan ŵylo yn dywedyd, mai gelynion croes Criſt ydynt; diwedd y rhai yw diſtryw, Duw y rhai yw eu bòl, a'u gogoniant yn eu cywilydd, y rhai ſydd yn ſynnied pethau daearol.) Canys ein hymarweddiad ni ſydd yn y nefoedd, o'r lle hefyd yr ydym yn diſgwyl yr Iachawdwr, yr Arglwydd Ieſu Griſt: yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni, fel y gwneler ef yn un ffurf â'i gorph gogoneddus ef, yn ôl y nerthol weithrediad, trwy 'r hwn y dichon efe ie ddaroſtwng pob peth iddo ei hun.

Yr Efengyl. S. Math. 22, 15.

YNa 'r aeth y Phariſeaid, ac a gymmeraſant gyngor pa fôdd y rhwydent ei yn ei ymadrodd. A hwy a ddanfonaſant atto eu diſgyblion ynghŷd-â'r Herodianiaid, gan ddywedyd, Athraw, ni a ŵyddom dy fod yn eirwir, yn dyſgu ffordd Dduw mewn gwirionedd, ac nad oes arnat ofal rhag neb: oblegid nid ŵyt ti yn edrych ar ŵyneb dynion. Dywaid i ni gan hynny, beth yr ŵyt ti yn ei dybied? A'i cyſreithlawn rhoddi teyrn-ged i Ceſar, ai nid yw? Ond yr Ieſu a ŵybu eu drygioni hwy, ac a ddywedodd, Pa ham yr ydych yn fy nhemtio i, chwi ragrithŵyr? Dangoſwch i mi arian y deyrn-ged. A hwy a ddygaſant atto geiniog. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Eiddo pwy yw y ddelw hon a'r argraph? Dywedaſant wrtho, Eiddo Ceſar: Yna y dywedodd wrthynt, Telwch chwithau yr eiddo Ceſar i Ceſar, a'r eiddo Duw i Dduw. A phan glywſant hwy hyn, rhyfeddu a wnaethant, a'i adael ef, a myned ymaith.

Y 24 Sûl gwedi 'r Drindod,

Y Colect.

OArglwydd, ni a attolygwn i ti ollwng dy bobl oddi wrth eu camweddau; fel trwy dy ddawnus drugaredd y byddom ryddion oll oddi wrth rwymedigaethau 'r pechodau hynny y rhai trwy ein cnawdol freuolder a wnaethom: Caniattâ hyn, O nefol Dâd, er cariad ar Ieſu Griſt ein Harglwydd bendigedig, a'n Hiachawdwr. *Amen.*

Yr Epiſtol. Coloſ. 1. 3.

YR ydym yn diolch i Dduw a Thâd ein Harglwydd Ieſu Griſt, gan weddio troſoch chwi yn waſtadol; Er pan glywſom am eich ffydd yng Nghriſt Ieſu, ac am y Cariad ſydd genniych tuag at yr holl Saint; Er mwyn y gobaith a roddwyd i gadw i chwi yn y nefoedd, am yr hon y clywſoch o'r blaen yngair gwirionedd yr Efengyl; Yr hon ſydd wedi dyfod attoch chwi, megis ac y mae yn yr holl fŷd; ac ſydd yn dwyn ffrwyth, megis ac yn eich plith chwithau, er y dydd y clywſoch,

ac y gŵybuoch râs Duw mewn gwirionedd. Megis ac y dyſgaſoch gan Epaphras ein hanwyl gŷdwâs, yr hwn ſydd troſoch chwi yn ffyddlon weinidog i Grîſt; yr hwn hefyd a amlygodd i ni eich cariad chwi yn yr Yſpryd. O herwŷdd hyn, ninnau hefyd, er y dŷdd y clywſom, nid ydym yn peidio a gweddio troſoch, a deiſyf eich cyflawni chwi â gŵybodaeth ei ewyllys ef, ym mhob doethineb a deall yſprydol: fel y rhodioch yn addas i'r Arglwydd, i bob rhyngu bodd, gan ddwyn ffrwyth ym mhob gweithred da, a chynnyddu yngŵybodaeth am Dduw; wedi eich nerthu â phob nerth, yn ôl ei gadernid gogoneddus ef, i bob dioddefgarwch a hir-ymaros gyd â llawenydd; gan ddiolch i'r Tâd, yr hwn a'n gwnaeth ni yn gymmwys i gael rhan o etifeddiaeth y Saint yn y goleuni.

Yr Efengyl. S. Math. 9. 18.

TRa 'r oedd yr Ieſu yn dywedyd hyn wrthynt, wele, daeth rhyw bennaeth, ac a'i haddolodd ef, gan ddywedyd, Arglwydd, Bu farw fy merch yr awrhon: eithr tyred a goſod dy lâw arni, a byw fydd hi. A'r Ieſu a gododd, ac a'i canlynodd ef, a'i ddiſgyblion. (Ac wele, gwraig y buaſai gwaedlif arni ddeuddeng mlynedd, a ddaeth o'r tu cefn iddo, ac a gyffyrddodd ag ymyl ei wiſg ef: Canys hi a ddywedaſai ynddi ei hun, Os câf yn unig gyffwrdd â'i wiſg ef, iâch fyddaf. Yna 'r Ieſu a drodd, a phan ei gwelodd hi, efe a dywedodd, Ha ferch, bydd gyſſurus, dy ffŷdd a'th iachâodd. A'r wraig a iachawyd o'r awr honno.) A phan ddaeth yr Ieſu i dŷ 'r pennaeth, a gweled y cerddorion, a'r dyrfa yn terfyſgu, Efe a ddywedodd wrthynt, Ciliwch: canys ni bu farw 'r llangces, ond cyſgu y mae hi. A hwy a'i gwatwaraſant ef. Ac wedi bwrw y dyrfa allan, efe a aeth i mewn, ac a ymaflodd yn ei llâw hi, a'r llangces a gyfododd. A'r gair o hyn a aeth tros yr holl wlâd honno.

Y 25 Sûl gwedi 'r Drindod.

Y Colect.

DEffro, Arglwydd, ni a attolygwn i ti, ewyllyſion dy ffyddloniaid, fel trwy ddwyn aml ffrwyth gweithredoedd da, y caffon gennyt ti yn ehelaeth eu gobrwyo, trwy Ieſu Grîſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Jer. 23. 5.

WEle y dyddiau yn dyfod, medd yr Arglwydd, y cyfodaf i Ddafydd flaguryn cyfiawn, a brenhin a deyrnaſa, ac a lwydda, ac a wnâ farn a chyfiawnder ar y ddaear. Yn ei ddyddiau ef yr achubir Juda, ac Iſrael a breſwylia yn ddiogel, a hyn ſydd ei enw ar yr hwn y gelwir ef, YR ARGLWYDD EIN CYFIAWNDER. Am hynny wele y dyddiau yn dyfod, medd yr Arglwydd, pryd na ddywedant mwyach, byw yw 'r Arglwydd yr hwn a ddûg feibion Iſrael i fynu o wlâd yr Aipht; eithr byw yw 'r Arglwydd, yr hwn a ddûg i fynu ac a dywyſodd hâd tŷ Iſrael o dîr y gogledd, ac o bob gwlâd lle y gyrraſwn i hwynt; a hwy gânt aros yn eu gwlâd eu hun.

Yr Efengyl. S. Ioan 6. 5.

YNa 'r Ieſu a ddyrchafodd ei lygaid, ac a welodd fod tyrfa fawr yn dyfod atto, ac a ddywedodd wrth Phylib, O ba le y prynwn ni fara fel y caffo y rhai hyn fwytta? (A hyn a ddywedodd efe i'w brofi ef: canys efe a wyddai beth yr oedd efe ar fedr ei wneuthur.) Phylib a'i hatteb odd ef, Gwerth dau can ceiniog o fara nid yw ddigon iddynt hwy, fel y gallo pob un o honynt gymmeryd ychydig. Un o'i ddiſgyblion a ddywedodd wrtho, Andreas brawd Simon Pedr, Y mae yma ryw fachgenyn, a chanddo bûm torth haidd, a dau byſgodyn: ond beth yw hynny rhwng cynnifer? A'r Ieſu a ddyw[illegible]d, Perwch i'r dynion eiſtedd i lawr. Ac yr oedd glaſwellt lawer yn y fan honno. Felly y gwŷr a eiſteddaſant i lawr, ynghŷlch pûm mîl o nifer. A'r Ieſu a gymmerth y torthau, ac wedi iddo ddiolch, efe a'u rhannodd i'r diſgyblion, a'r diſgyblion i'r rhai oedd yn eiſtedd: felly hefyd o'r pyſgod, cymmaint ac a fynnaſant. Ac wedi eu digoni hwynt, efe a ddywedodd wrth ei ddiſgyblion, Ceſglwch y briwfwyd gweddill, fel na choller dim. Am hynny hwy a'u caſglaſant, ac a lanwaſant ddeuddeg baſgeda d o'r briwfwyd, o'r pûm torth haidd, a weddillaſai gan y rhai a fwyttaſent. Yna y dynion, pan welſant yr arwŷdd a wnaethai 'r Ieſu, a ddywedaſant, Hwn yn ddiau yw y Prophwyd oedd ar ddyfod i'r bŷd.

¶ *O bydd ychwaneg o Suliau o flaen Sûl yr Adfent, cymmerer Gwaſanaeth rhai o'r Suliau a adawyd heb ddarllen ar ôl yr Yſtwyll, i gyflawni cynnifer ag y ſydd yn niffyg yma. Ac o's bydd llai, gadawer y rhai a fo dros ben: Eithr arferer y Colect, yr Epiſtol a'r Efengyl ddiweddaf yma, bob Amſer ar y Sûl neſaf o flaen yr Adfent.*

Dŷdd Sant Andreas *Apoſtol.*

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a roddaiſt gyfryw râs i'th fendigedig Apoſtol Sant Andreas, fel yr ufuddhaodd efe yn ebrwydd i alwad dy Fâb Ieſu Grîſt, ac a'i dilynodd ef yn ddirwyſtr: Caniattâ i ni oll, wedi ein galw gan dy air bendigedig, yn frau ymroddi o honom yn ufudd i gyflawni dy ſanctaidd orchymynnion, trwy yr unrhyw Ieſu Grîſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Rhuf. 10. 9.

O'S cyffeſi â'th enau yr Arglwydd Ieſu, a chredu yn dy gâlon, i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi. Canys â'r gâlon y credir i gyfiawnder, ac â'r genau y cyffeſir i iechydwriaeth. Oblegid y mae 'r yſgrythur yn dywedyd, Pwy bynnag fydd yn credu ynddo ef, ni chywilyddir. Canys nid oes gwahaniaeth rhwng Iuddew a Groegwr; oblegid yr un Arglwydd ar bawb, ſydd oludog i bawb ac ſydd yn galw arno. Canys pwy bynnag a alwo ar enw yr Arglwydd, cadwedig fydd. Pa fôdd gan hynny y galwant ar yr hwn ni chredaſant ynddo? a pha fôdd y credant yn yr hwn ni chlywſant am dano? a pha fôdd y clywant heb bregethwr? A pha fôdd y pregethant, oni's danfonir hwynt? megis y mae yn yſgrifennedig, Mòr brydferth yw traed y rhai ſy yn eſengylu tangneſedd, y rhai ſydd yn eſengylu pethau daionus! Eithr nid ufuddhaſant hwy oll i'r Eſengyl: Canys y mae Eſaias yn dywedyd, O Arglwydd, pwy a greddodd i'n hymadrodd ni? Am hynny ffŷdd ſydd trwy glywed, a chlywed trwy air Duw. Eithr meddaf, oni chlywſant hwy? Yn ddiau i'r holl ddaear yr aeth eu ſŵn hwy, a'u geiriau hyd derfynau y bŷd. Eithr meddaf, Oni wybu Iſrael? Yn gyntaf y mae Moſes yn dywedyd, Mi a baraf i chwi wynfydu trwy rai nid yw genedl, trwy genedl anneallus y'ch digiaf chwi. Eithr y mae Eſaias yn ymhyfhâu, ac yn dywedyd, Cafwyd fi gan y rhai nid oeddynt yn fy ngheiſio; a gwnaed fi yn eglur i'r rhai nid oeddynt yn ymofyn am danaf. Ac wrth yr Iſrael y mae yn dywedyd, Ar hŷd y dŷdd yr eſtynnais fy nwylaw at bobl anufudd, ac yn gwrth-ddywedyd.

Yr Efengyl. S. Math. 4. 18.

A'r Ieſu yn rhodio wrth fôr Galilea, efe a ganfu ddau frodyr, Simon yr hwn a elwir Pedr, ac Andreas ei frawd, yn bwrw rhwyd i'r môr; (canys pyſgodwŷr oeddynt.) Ac efe a ddywedodd wrthynt, Deuwch ar fy ôl i, ac mi a'ch gwnâf yn byſgodwŷr dynion. A hwy yn y fan, gan adael y rhwydau, a'i canlynaſant ef. Ac wedi myned rhagddo

rhagddo oddi yno, eſe a welodd ddau frodyr eraill, Iago ſâb Zebedeus, ac Ioan ei frawd, mewn llong gyd â Zebedeus eu tâd, yn cyweirio eu rhwydau; ac a'u galwodd hwy. Hwythau yn ebrwydd gan adael y llong a'u tâd, a'i canlynaſant eſ.

Dŷdd Sant Tomas *Apoſtol.*

Y Colect.

HOll-alluog a byth-fywiol Dduw, yr hwn, er mwy o ſicrhâwch y ffŷdd, a oddefaiſt i'th ſanctaidd Apoſtol Tomas ammau cyfodiad dy Fâb: Caniattâ i ni cyn berffeithied, ac mor gwbl ddiammau gredu yn dy Fâb Ieſu Griſt, fel na cherydder ein ffŷdd yn dy olwg byth: Gwrando arnom, O Arglwydd, trwy yr unrhyw Ieſu Griſt, i ba un gyd â thi a'r Yſbryd glân, y bo holl anrhydedd a gogoniant, yr awr hon ac yn oes oeſoedd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Epheſ. 2. 19.

WEithian gan hynny nid ydych chwi mwyach yn ddieithriaid a dyfodiaid, ond yn gŷddinaſyddion â'r Saint, ac yn deulu Duw; wedi eich goruwch adeiladu ar ſail yr Apoſtolion a'r prophwydi, ag Ieſu Griſt ei hun yn ben-congl-faen: Yn yr hwn y mae 'r holl adeilad wedi ei chymmwys gŷd-gyſſylltu, yn cynnyddu yn deml ſanctaidd yn yr Arglwydd; yn yr hwn y'ch cŷd-adeiladwyd chwithau yn breſwylfod i Dduw trwy yr Yſpryd.

Yr Efengyl. S. Ioan 20. 24.

TOmas un o'r deuddeg, yr hwn a elwir Didymus, nid oedd gyd â hwynt, pan ddaeth yr Ieſu. Y diſgyblion eraill gan hynny a ddywedaſant wrtho, Ni a welſom yr Arglwydd. Yntau a ddywedodd wrthynt, Oni châf weled yn ei ddwylaw eſ ôl yr hoelion, a dodi fy mŷs yn ôl yr hoelion, a dodi fy llâw yn ei yſtlys eſ, Ni chredaf fi. Ac wedi ŵyth niwrnod, dracheſn yr oedd ei ddiſgyblion eſ i mewn, a Thomas gyd â hwynt. Yna 'r Ieſu a ddaeth a'r dryſau yn gauad, ac a ſafodd yn y canol, ac a ddywedodd, Tangnefedd i chwi. Wedi hynny y dywedodd eſe wrth Tomas, Moes yma dy fŷs, a gwêl fy nwylaw; ac eſtyn dy lâw, a dôd yn fy yſtlys: ac na fydd anghredadyn, ond credadyn. A Thomas a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Fy Arglwydd, a'm Duw. Yr Ieſu a ddywedodd wrtho, Am i ti fy ngweled, Tomas, y credaiſt: bendigedig yw y rhai ni welſan', ac a gredaſant. A llawer hefyd o arŵyddion eraill a wnaeth yr Ieſu yngŵydd ei ddiſgyblion, y rhai nid ydynt yſgrifennedig yn y llyfr hwn. Eithr y pethau hyn a 'ſgrifennwyd, fel y credoch chwi mai yr Ieſu yw Criſt, Mâb Duw, a chan gredu y caffoch fywyd yn ei enw eſ.

Troad Sant Paul.

Y Colect.

ODduw, yr hwn trwy bregethiad y gwŷnſydedig Apoſtol Sant Paul, a beraiſt i oleuni 'r Eſengyl lewyrchu dros yr holl fŷd; Caniattâ, ni a attolygwn i ti, allu o honom ni gan ddâl ei ryfedd ymchweliad eſ mewn coffa, ddangos ein diolchgarwch i ti am yr unrhyw, trwy ddilyn y ſendigedig athrawiaeth yr hon a ddyſgodd eſe, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Act. 9. 1.

A Saul etto yn chwythu bygythiau a chelanedd yn erbyn diſgyblion yr Arglwydd, a aeth at yr Arch-offeiriad, ac a ddeiſyfodd ganddo lythyrau i Ddamaſcus at y Synagogau, fel os cai eſe neb o'r ffordd hon, na gwŷr, na gwragedd, y gallai eſe eu dwyn hwy yn rhwym i Jeruſalem. Ac fel yr oedd eſe yn ymdaith, bu iddo ddyfod yn agos i Ddamaſcus, ac yn ddiſymmwth llewyrchodd o'i amgylch, oleuni o'r nêf. Ac eſe a ſyrthiodd ar y ddaear, ac a glybu lais yn dywedyd wrtho, Saul, Saul, pa ham yr ŵyt yn fy erlid i? Yntau a ddywedodd, pwy ŵyt ti, Arglwydd? A'r Arglwydd a ddywedodd, Myfi yw Ieſu, yr hwn yr ŵyt ti yn ei erlid. Caled yw i ti wingo yn erbyn y ſymbylau. Yntau gan grynu, ac a braw arno, a ddywedodd, Arglwydd, beth a fynni di i mi ei wneuthur? A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, Cyfod, a dôs i'r ddinas, ac ſe a ddywedir i ti, pa beth ſy raid i ti ei wneuthur. A'r gwŷr oedd yn cŷd-teithio ag eſ, a ſafaſant yn fûd, gan glywed y llais, ac heb weled neb. A Saul a gyfododd oddi ar y ddaear: a phan agorwyd ei lygaid, ni welai eſe nêb; eithr hwy a'i tywyſaſant eſ erbyn ei lâw, ac a'i dygaſant eſ i mewn i Ddamaſcus. Ac eſe a fu dridiau heb weled, ac ni wnaeth na bwytta, nac yſed. Ac yr oedd rhyw ddiſgybl yn Damaſcus, a'i enw Ananïas. A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho ef mewn gweledigaeth, Ananïas; Yntau a ddywedodd, Wele fi, Arglwydd. A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, Cyfod, a dos i'r heol a elwir Uniawn, a chais yn nhŷ Judas, un a'i enw Saul, o Tarſus: canys wele, y mae yn gweddïo, Ac eſe a welodd mewn gweledigaeth ŵr a'i enw Ananïas, yn dyfod i mewn ac yn dodi ei lâw arno, fel y gwelai eilwaith. Yna yr attebodd Ananïas, O Arglwydd, mi a glywais gan lawer am y gŵr hwn, faint o ddrygau a wnaeth eſe i'th Saint di yn Jeruſalem: ac yma y mae ganddo awdurdod oddi wrth yr Arch-offeiriaid, i rwymo pawb ſy 'n galw ar dy enw di. A dywedodd yr Arglwydd wrtho, dôs ymaith; canys y mae hwn yn lleſtr etholedig i mi, i ddwyn fy enw ger bron cenhedloedd, a brenhinoedd, a phlant Iſrael. Canys myfi a ddangoſaf iddo pa bethau eu maint ſydd raid iddo eſ eu dioddef, er mwyn fy enw i. Ac Ananïas a aeth ymaith, ac a aeth i mewn i'r tŷ; ac wedi dodi ei ddwylaw arno, eſe a ddywedodd, Y brawd Saul, yr Arglwydd a'm hanfonodd i, (Ieſu 'r hwn a ymddangoſodd i ti ar y ffordd y daethoſt) fel y gwelych dracheſn, ac y'th lanwer â'r Yſpryd glân. Ac yn ebrwydd y ſyrthiodd oddi wrth ei lygaid eſ, megis cenn, ac eſe a gafodd ei olwg yn y màn; ac eſe a gyfododd, ac a ſedyddiwyd. Ac wedi iddo gymmeryd bwyd, eſe a gryfhaodd. A bu Saul gyd â 'r diſgyblion oedd yn Damaſcus, dalm o ddyddiau. Ac yn ebrwydd yn y Synagogau eſe a bregethodd Griſt, mai eſe yw Mâb Duw. A phawb a'r a'i clybu eſ, a ſynnaſant, ac a ddywedaſant, Onid hwn yw 'r un oedd yn diſetha yn Jeruſalem, y rhai a alwent ar yr enw hwn, ac a ddaeth yma er mwyn hyn, fel y dygai hwynt yn rhwym at yr Arch-offeiriaid? Eithr Saul a gynnyddodd fwy-fwy mewn nerth, ac a orchſygodd yr Iuddewon oedd yn preſwylio yn Damaſcus, gan gadarnhâu mai hwn yw 'r Criſt.

Yr Efengyl. S. Math. 19. 27.

PEdr a attebodd, ac a ddywedodd wrth yr Ieſu, Wele, nyni a adawſom bob peth, ac a'th ganlynaſom di: beth gan hynny a fydd i ni? A'r Ieſu a ddywedodd wrthynt, Yn wîr meddaf i chwi, y cewch chwi y rhai a'm canlynaſoch i, yn yr adenedigaeth, pan eiſteddo Mâb y dŷn a'r oriedd ei ogoniant, eiſtedd chwithau ar ddeuddeg gorſedd, yn barnu deuddeg llwyth Iſrael. A phob un a'r a adawodd dai, neu frodyr, neu chwiorydd, neu dâd, neu fam, neu wraig, neu blant, neu diroedd, er mwyn fy enw i, a dderbyn y cân cymmaint, a bywyd tragywyddol a etiſedda eſe. Ond llawer o'r rhai blaenaf a fyddant yn olaf, a'r rhai olaf yn flaenaf.

Cyflwyniad Criſt yn y Deml, yr hwn a elwir yn cyffredinol, Puredigaeth y Fendigedig *Fair* Forwyn.

Y Colect.

HOll-alluog a byth-fywiol Dduw, ni a attolygwn yn ufuddol i'th fawredd, megis ag ar gyfenw i heddyw y cyflwynwyd i'r deml dy unig-anedig Fâb yn ſylwedd ein cnawd ni: ſelly ganiattâu o honot ein cyflwyno i ti â chalonnau purlan, trwy yr unrhyw dy Fâb Ieſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Mal. 3. 1.

WEle fi yn anfon fy nghennad, ac efe a arloeſa 'r ffordd o'm blaen i: ac yn ddiſymmwth y daw 'r Arglwydd, yr hwn yr ydych yn ei geiſio i'w deml; ſef angel y cyfammod, yr hwn yr ydych yn ei chwennych: Wele efe yn dyfod, medd Arglwydd y lluoedd. Ond pwy a oddef ddŷdd ei ddyfodiad ef? a phwy a ſaif pan ymddangoſo efe? canys y mae efe fel tân y toddydd, ac fel ſebon y golchyddion. Ac efe a eiſtedd fel purwr, a glanhawr arian; ac efe a bura feibion Leſi, ac a'u coetha hwynt fel aur, ac fel arian; fel y byddont yn offrymmu i'r Arglwydd offrwm mewn cyfiawnder. Yna y bydd melys gan yr Arglwydd offrwm Juda a Jeruſalem, megis yn y dyddiau gynt, ac fel y blynyddoedd gynt. A mi a neſâf attoch chwi i farn, a byddaf dŷſt cyflym yn erbyn yr hudolion, ac yn erbyn y godinebwŷr, ac yn erbyn yr anudonwŷr, ac yn erbyn çam-attalwŷr cyflog y cyflogedig, a'r rhai ſy 'n gorthrymmu y weddw, a'r ymddifad, a'r dieithr, ac heb fy ofni i, medd Arglwydd y lluoedd

Yr Efengyl. S. Luc 2. 22,

WEdi cyflawni dyddiau ei phuredigaeth hi, yn ôl deddf Moſes, hwy a'i dygaſant ef i Jeruſalem i'w gyflwyno i'r Arglwydd: (Fel yr yſgrifennwyd yn neddf yr Arglwydd, Pob gwrryw cyntaf-anedig, a elwir yn ſanctaidd i'r Arglwydd.) Ac i roddi aberth yn ôl yr hyn a ddywedwyd yn neddf yr Arglwydd, pâr o durturod, neu ddau gyw colommen. Ac wele, yr oedd gŵr yn Jeruſalem, a'i enw Simeon; a'r gŵr hwn oedd gyfiawn a duwiol, yn diſgwyl am ddiddanwch yr Iſrael: a'r Yſpryd glân oedd arno. Ac yr oedd wedi ei yſpyſu iddo gan yr Yſpryd glân, na welai efe angau, cyn iddo weled Criſt yr Arglwydd. Ac efe a ddaeth trwy 'r Yſpryd i'r deml: a phan ddûg ei rieni y dŷn-bâch Ieſu, i wneuthur troſto yn ôl defod y gyfraith; yna efe a'i cymmerth ef yn ei freichiau, ac a fendithiodd Dduw, ac a ddywedodd, Yr awrhon Arglwydd, y gollyngi dy wâs mewn tangnefedd, yn ôl dy air: Canys fy llygaid a welſant dy lechydwriaeth, yr hon a barottoaiſt ger bron wyneb yr holl bobloedd: Goleuni i oleuo y Cenhedloedd, a gogoniant dy bobl Iſrael. Ac yr oedd Joſeph a'i Fam ef yn rhyfeddu am y pethau a ddywedwyd am dano ef. A Simeon a'u bendithiodd hwynt, ac add ywedodd wrth Mair ei fam ef, Wele, hwn a oſodwyd yn gwŷmp, ac yn gyfodiad i lawer yn Iſrael, ac yn arwydd yr hwn y dywedir yn ei erbyn: (A thrwy dy enaid ti dy hun hefyd yr â cleddyf) fel y datguddier meddyliau llawer o galonnau. Ac yr oedd Anna brophwydes, merch Phanuel, o lwyth Aſer; hon oedd oedrannus iawn, ac a fuaſai fyw gyd â gŵr faith mlynedd, o'i morwyndod: Ac a fuaſai yn weddw ynghŷlch pedair a phedwar ugain mlynedd; yr hon nid ai allan o'r deml, ond gwaſanaethu Duw mewn ymprydiau a gweddiau, ddydd a nôs. A hon hefyd yn yr awr honno gan ſefyll ger llaw, a foliannodd yr Arglwydd, ac a leſarodd am dano ef wrth y rhai oll oedd yn diſgwyl ymwared yn Jeruſalem. Ac wedi iddynt orphen pob peth, yn ôl deddf yr Arglwydd, hwy a ddychwelaſant i Galilea, i'w dinas eu hun Nazareth. A'r bachgen a gynnyddodd, ac a gryfhaodd yn yr Yſpryd, yn gyfiawn o ddoethineb; a grâs Duw oedd arno ef.

Dŷdd Sant Mathïas *Apoſtol.*

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn yn lle Suddas fradwr a ddetholaiſt dy ffyddlawn wâs Mathïas i ſod o nifer dy ddeuddeg Apoſtol: Caniattâ ſod i'th Eglwys, a hi bob amſer yn gadwedig oddi wrth Apoſtolion ffeilſion, gael ei threfnu a'i llywodraethu gan wîr a ffyddlawn Fugeiliaid, trwy Ieſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Act. 1. 15.

YN y dyddiau hynny Pedr a gyfododd i fyny ynghanol y diſgyblion, ac a ddywedodd, (a nifer yr enwau yn yr un màn oedd ynghŷlch ugain a chant) Ha wŷr frodyr, yr oedd yn rhaid cyflawni yr Yſgrythur yma a rag-ddywedodd yr Yſpryd glân trwy enau Dafydd, am Judas, yr hwn a fu flaenor i'r rhai a ddaliaſant yr Ieſu, canys efe a gyfrifwyd gyd â ni, ac a gawſai rân o'r weinidogaeth hon. A hwn a bwrcaſodd faes â gwobr anwiredd, ac wedi ymgrogi, a dorrodd yn ei ganol: a'i holl ymyſgaroedd ef a dywalltwyd allan. A bu hyſpys hyn i holl breſwylwŷr Jeruſalem, hyd oni elwir y maes hwnnw yn eu tafod prïodol hwy, Aceldama, hynny yw, maes y gwaed. Canys yſgrifennwyd yn llyfr y Salmau, Bydded ei drigfan ef yn ddiffeithwch, ac na bydded a drigo ynddi: a chymmered arall ei eſgobaeth ef. Am hynny mae yn rhaid, o'r gwŷr a fu yn cŷd-ymdaith â ni yr holl amſer yr aeth yr Arglwydd Ieſu i mewn ac allan yn ein plith ni, gan ddechreu o fedydd Ioan, hyd y dŷdd y cymmerwyd ef i fynu oddi wrthym ni, bod un o'r rhai hyn gyd â ni yn dŷſt o'i adgyfodiad ef. A hwy a oſodaſant ddau ger bron, Joſeph yr hwn a enwid Barſabas, ac a gyfenwid Juſtus, a Mathïas; a chan weddio, hwy a ddywedaſant, Tydi Arglwydd, yr hwn a wyddoſt galonnau pawb, dangos pa un o'r ddau hyn a etholaiſt, i dderbyn rhân o'r weinidogaeth hon, a'r Apoſtoliaeth, o'r hon y cyfeiliornodd Judas, i fyned i'w le ei hun. A hwy a fwriaſant eu coelbrennau; ac ar Mathïas y ſyrthiodd y coelbren, ac efe a gyfrifwyd gyd â'r un Apoſtol ar ddeg.

Yr Efengyl. S. Math. 11. 25.

YR amſer hynny yr attebodd yr Ieſu, ac y dywedodd, I ti yr ydwyf yn diolch, O Dad, Arglwydd nêf a daear, am i ti guddio y pethau hyn rhag y doethion a'r rhai deallus, a'u datguddio o honot i rai bychain. Ie O Dâd, canys felly y rhyngodd bôdd i ti. Pob peth a roddwyd i mi gan fy Nhâd; ac nid edwyn neb y Tâd, ond y Mâb, a'r hwn yr ewyllyſio y Mâb ei ddatguddio iddo. Deuwch attaf fi bawb ac ſydd yn flinderog, ac yn llwythog, ac mi a eſmwythâf arnoch. Cymerwch fy iau arnoch, a dyſgwch gennyf, canys addfwyn ydwyf, a goſtyngedig o gàlon: a chwi a gewch orphwyſtra i'ch eneidiau. Canys fy iau ſydd eſmwyth, a'm baich ſydd yſgafn.

Cyfarchiad neu Gennadwri Mair *Wŷryf ſendigedig.*

Y Colect.

NI a attolygwn i ti, O Arglwydd, dywalld dy râs yn ein calonnau, ſel, megis ag y gŵyddom gnawdoliaeth Ieſu Criſt dy Fâb trwy gennadwri Angel, ſelly trwy ei grôg a'i ddioddefaint, bod i ni gael ein dwyn i ogoniant ei adgyfodiad ef, trwy yr unrhyw Ieſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Eſay 7. 10.

YR Arglwydd a 'chwanegodd leſaru wrth Ahaz, gan ddywedyd, Goſyn it' arŵydd gan yr Arglwydd dy Dduw; goſyn o'r dyfnder, neu o'r uchelder oddi arnodd. Ond Ahaz a ddywedodd, ni ofynnaf, ac ni themtiaf yr Arglwydd. A dywedodd yntau, Gwrandêwch yr awrhon tŷ Ddafydd; a'i bychan gennych ſlino dynion, oni ſlinoch hefyd ſy Nuw? Am hynny yr Arglwydd ei hun a ddyry i chwi arŵydd; Wele, Morŵyn a ſydd feichiog, ac a eſgor ar Fâb, ac a eilw ei enw ef Immanuel. Ymenyn a mêl a fwytty eſe, ſel y medro ymwrthod â'r drŵg, ac ethol y da,

Yr Efengyl. S. Luc 1. 26.

AC yn y chweched mîs, yr anfonwyd yr angel Gabriel oddi wrth Dduw, i ddinas yn Galilea a'i henw Nazareth, at forŵyn wedi ei dyweddio i ŵr a'i enw Joſeph, o dŷ Ddafydd; ac enw 'r forŵyn oedd Mair. A'r angel a ddaeth i mewn atti, ac a ddywedodd, Hanffych well, yr hon a gefaiſt râs; yr Arglwydd ſydd gyd â thi; bendigaid ŵyt ym mhlith gwragedd. A hithau pan ei gwelodd, a gythryblwyd wrth ei ymadrodd ef: a meddylio a wnaeth, pa fath gyfarch oedd hwn. A dywedodd yr angel wrthi, nac ofna Mair; canys ti a gefaiſt ffafr gyd â Duw. Ac wele, ti a gei feichiogi yn dy gròth, ac a eſgori ar Fâb, ac a elwi ei enw ef Ieſu. Hwn fydd mawr, ac a elwir yn Fâb y Goruchaf, ac iddo y rhŷdd yr Arglwydd Dduw orſeddfa ei Dâd Dafydd. Ac eſe a deyrnaſa ar dŷ Jacob yn dragywydd ac ar ei frenhiniaeth ni bydd diwedd. A Mair a ddywedodd wrth yr angel, Pa fôdd y bydd hyn; gan nad adwaen i ŵr? Ar angel a attebodd, ac a ddywedodd wrthi, Yr Yſpryd glân a ddaw arnat ti, a nerth y Goruchaf a'th gyſgoda di: am hynny hefyd, y peth ſanctaidd a aner o honot ti, a elwir yn Fâb Duw. Ac wele, Eliſabeth dy gares, y mae hithau wedi beichiogi ar Fâb yn ei henaint: a hwn yw 'r chweched mîs iddi hi, yr hon a elwid yn ammhlantadwy. Canys gyd â Duw ni bydd dim yn ammhoſſibl. A dywedodd Mair, Wele, waſanaethyddes yr Arglwydd, bydded i mi yn ôl dy air di. A'r angel aeth ymaith oddi wrthi hi.

Dŷdd Sant Marc *Efengylwr.*

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a ddyſgaiſt dy ſanctaidd Eglwys â nefol athrawiaeth dy Efengylwr Sant Marc; dòd ti i ni râs, na byddom fel plant ymchweledig gan bob awel o wâg ddyſgeidiaeth; eithr bod i ni yn ffyrf ymgadarnhâu yngwirionedd dy lân Efengyl, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Epheſ. 4. 7.

I Bob un o honom y rhoed grâs, yn ôl meſur dawn Criſt. O herwŷdd pa ham y mae eſe yn dywedyd, Pan ddyrchafodd i'r uchelder, eſe a gaethiwodd gaethiwed, ac a roddes roddion i ddynion. (Eithr, Eſe a ddyrchafodd, beth yw ond darfod iddo hefyd ddiſgyn yn gyntaf i barthau iſaf y ddaear? Yr hwn a ddiſgynnodd yw yr hwn hefyd a eſgynnodd goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawnai bob peth.) Ac eſe a roddes rai yn Apoſtolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn Efengylwŷr, a rhai yn ſugeiliaid ac yn athrawon; i berffeithio 'r Saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corph Criſt; hyd oni ymgyfarfyddom oll yn undeb ffŷdd a gŵybodaeth Mâb Duw, yn ŵr perffaith, at feſur oedran cyflawnder Criſt. Fel na byddom mwyach yn blantos, yn bwhwman, ac yn ein cylch-arwain â phob awel dyſgeidiaeth, trwy hocced dynion, trwy gyfrwyſdra, i gynllwyn i dwyllo: eithr gan ſod yn gywir mewn cariad, cynnyddu o honom iddo ef ym mhob peth, yr hwn yw 'r pen, ſef Criſt: o'r hwn y mae yr holl gorph wedi ei gŷd-ymgynnull a'i gŷd-gyſylltu, trwy bob cymmal cynhaliaeth dŷn, yn ôl y nerthol weithrediad ym meſur pob rhân, yn gwneuthur cynnydd y corph, i'w adeilad ei hun mewn cariad.

Yr Efengyl. S. Ioan 15. 1.

MYfi yw y wîr winwŷdden, a'm Tâd yw 'r llafurwr. Pob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth, y mae eſe yn ei thynnu ymaith; a phob un a ddygo ffrwyth, y mae eſe yn ei glanhâu, ſel y dygo fwy o ffrwyth. Yr awrhon yr ydych chwi 'n lân, trwy 'r gair a leſerais i wrthych. Arhoſwch ynofi, a mi ynoch chwi. Megis na all y gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun, onid erys yn y winwŷdden: felly ni ellwch chwithau, onid arhoſwch ynof fi. Myfi yw 'r winwŷdden, chwithau yw 'r canghenau. Yr hwn ſydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnnw ſydd yn dwyn ffrwyth lawer, oblegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim. Onid erys un ynof fi, eſe a daflwyd allan megis cangen, ac a ŵywodd; ac y maent yn eu caſglu hwynt, ac yn eu bwrw yn tân, a hwy a loſgir. O's arhoſwch ynof fi, ac aros o'm geiriau ynoch, beth bynnag a ewyllyſioch, goſynnwch, ac fe a fydd i chwi. Yn hyn y gogoneddwyd fy Nhâd, ar dduwyn o honoch ffrwyth lawer; a diſgyblion fyddwch i mi. Fel y carodd y Tâd fi, felly y cerais innau chwithau: arhoſwch yn fy nghariad i. O's cedwch fy ngorchymynion, chwi a arhoſwch yn fy nghariad: fel y cedwais i orchymynion fy Nhâd, ac yr ŵyf yn aros yn ei gariad ef. Hyn a ddywedais wrthych; fel yr arhoſai fy llawenydd ynoch, ac y byddai eich llawenydd yn gyflawn.

Dŷdd Sant Phylib *a Sant* Iago *Apoſtolion.*

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn o'i wîr adnabod yw bywyd tragywyddol; Caniattâ i ni berffaith adnabod dy Fâb Ieſu Griſt i fod yn ffordd, yn wirionedd, ac yn fywyd, ſel gan ddilyn llwybrau dyſancteiddiol Apoſtolion Sant' Phylib a Sant Iago, y bo i ni rodio yn ddyfalar y ffordd y ſy'n arwain i fywyd tragywyddol trwy 'r unrhyw dy Fâb Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. S. Iago 1. 1.

IAgo, gwaſanaethwr Duw, a'r Arglwydd Ieſu Griſt, at y deuddeg llwyth, ſydd ar waſgar, annerch. Cyfriſwch yn bob llawenydd, fy mrodyr, pan ſyrthioch mewn amryw profedigaethau; gan wybod fod profiad eich ffydd chwi yn gweithredu ammynedd. Ond caffed ammynedd ei pherffaith waith, fel y byddoch berffaith a chyfan, heb ddiffygio mewn dim. O bydd ar neb o honoch eiſiau doethineb, gofynned gan Dduw, yr hwn ſydd yn rhoi yn haelionus i bawb, ac heb ddannod; a hi a roddir iddo ef. Eithr gofynned mewn ffŷdd, heb ammau dim. Canys yr hwn ſydd yn ammau, ſydd gyffelyb i donn y môr, a chwelir ac a deflir gan y gwynt. Canys na feddylied y dŷn hwnnw, y derbyn eſe ddim gan yr Arglwydd. Gŵr dau ddyblyg ei feddwl, ſydd anwaſtad yn ei holl ffyrdd. Y brawd o râdd iſel, llawenycched yn ei oruchafiaeth: a'r cyfoethog yn ei ddaroſtyngiad: canys megis blodeuyn y glâs-welltyn y diflanna eſe. Canys cyfododd yr haul gyd â gwres, a gŵywodd y glâs-welltyn, a'i flodeuyn a gŵymppodd, a thegwch ei brŷd ef a gollodd: felly hefyd y diflanna y cyfoethog yn ei ffyrdd. Gwyn ei fyd y gŵr ſydd yn goddef profedigaeth: canys pan fyddo profedig, eſe a dderbyn goron y bywyd, yr hon a addawodd yr Arglwydd i'r rhai a'i carant ef.

Yr Efengyl. S. Ioan 14. 1.

A'R Ieſu a ddywedodd wrth ei ddiſgyblion, Na thralloder eich càlon: yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finnau. Heſyd. Yn nhŷ fy Nhâd y mae llawer o drigfannau: a phe amgen, mi a ddywedaſwn i chwi. Yr ŵyf fi yn myned i barottôi lle i chwi. Ac o'm myfi a âf, ac a barottoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymmeraf chwi attaf fy hun; fel lle yr ŵyf fi, y byddoch chwithau hefyd. Ac i ba le yr ŵyf fi yn myned, chwi a wyddoch, a'r ffordd a wyddoch. Dywedodd Tomas wrtho, Arglwydd, ni wyddom ni i ba le yr ŵyt ti yn myned; a pha fôdd y gallwn ŵybod y ffordd? Yr Ieſu a ddywedodd wrtho ef, Myfi yw'r ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd: nid yw neb yn dyfod at y Tâd, ond trwof fi. Ped adnabuaſech fi, fy Nhâd hefyd a adnabuaſech: ac o hyn allan yr adwaenoch ef, a chwi a'i gwelſoch ef. Dywedodd Phylib wrtho, Arglwydd, dangos i ni y Tâd, a digon yw i ni. Yr Ieſu a ddywedodd wrtho, A ydwyf gyhyd o amſer gyd â chwi, ac nid adnabuoſt fi, Phylib? y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tâd; a pha fôdd yr ŵyt ti yn dywedyd, dangos i ni y Tâd? Onid wŷt ti yn credu fy mod i yn y Tâd, a'r Tâd ynof finnau? y geiriau yr ŵyf fi yn eu llefaru wrthych, nid o honof fy hun yr ŵyf fi yn eu llefaru; ond y Tâd yr hwn ſydd yn aros ynof, efe ſydd yn gwneuthur y gweithredoedd. Credwch fi, fy mod i yn y Tâd, a'r Tâd ynof finnau: ac onid ê, credwch fi er mwyn y gweithredoedd eu hun. Yn wîr yn wîr meddaf i chwi, yr hwn ſydd yn credu ynof fi, y gweithredoedd ŵyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwnâ, a mwy nâ'r rhai hyn a wnâ efe: oblegid yr ŵyf fi yn myned at fy Nhâd. A pha beth bynnag a ofynnoch yn fy enw i, hynny a wnâf; fel y gogonedder y Tâd yn y Mâb. O's gofynnwch ddim yn fy enw i, mi a'i gwnâf.

Dŷdd Sant Barnabas *Apoſtol.*

Y Colect.

O Arglwydd Dduw Holl-alluog, yr hwn a wiſgaiſt dy ſanctaidd Apoſtol Barnabas â rhagorol roddion dy Yſbryd glân; Na âd i ni, ni a attolygwn i ti, fod yn ddiffygiol o'th amryw ddoniau, nac etto o râs i'w harfer hwynt bob amſer i'th anrhydedd di a'th ogoniant, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Act. 11. 22.

A'R gair a ddaeth i gluſtiau yr Eglwys oedd yn Jeruſalem, am y pethau hyn: A hwy a anfonaſ int Barnabas i fyned hyd Antiochia. Yr hwn pan ddaeth, a gweled Grâs Duw, a fu lawen ganddo, ac a gynghorodd bawb oll, trwy lwyrfryd càlon i lynu wrth yr Arglwydd. Oblegid yr oedd efe yn ŵr da, ac yn llawn o'r Yſpryd glân, ac o ffydd: A llawer o bobl a chwanegwyd i'r Arglwydd. Yna yr aeth Barnabas i Tarſus, i geiſio Saul; ac wedi iddo ei gael, efe a'i dûg i Antiochia. A bu iddynt flwyddyn gyfan ymgynnull yn yr Eglwys, a dyſgu pobl lawer; a bod galw y diſgyblion yn Griſtianogion yn gyntaf yn Antiochia. Ac yn y dyddiau hynny, daeth Prophwydi o Jeruſalem i ware i Antiochia; Ac un o honynt, a'i enw Agabus, a gyfododd, ac a arŵyddoccaodd drwy yr Yſpryd, y byddai newŷn mawr dros yr holl fŷd, yr hwn hefyd a ſu tan Claudius Ceſar. Yna 'r diſgyblion, bob un yn ôl ei allu, a fwriadaſant anfon cymmorth i'r brodyr oedd yn preſwylio yn Judea. Yr hyn beth hefyd a wnaethant, gan ddanfon at yr Henuriaid, drwy lâw Barnabas a Saul.

Yr Efengyl. S. Ioan 15. 12.

DYma fy ngorchymmyn i, ar i chwi garu eich gilydd, fel y cerais i chwi. Cariad mwy nâ hwn nid oes gan neb, ſef bod i un roi ei einioes dros ei gyfeillion. Chwychwi yw fy nghyfeillion, o's gwnewch pa bethau bynnag yr ŵyf yn eu gorchymmyn i chwi. Nid ydwyf mwyach yn eich galw yn weiſion; oblegid y gwâs ni ŵyr beth y mae ei arglwydd yn ei wneuthur: Ond mi a'ch gelwais chwi yn gyfeillion; oblegid pob peth ar a glywais gan fy Nhâd, a yſpyſais i chwi. Nid chwi a'm dewiſaſoch i, ond myfi a'ch dewiſais chwi, ac a'ch ordeiniais chwi, fel yr elech ac y dygech ffrwyth, ac yr arhoſai eich ffrwyth; megis pa beth bynnag a ofynnoch gan y Tâd yn fy enw i, y rhoddo efe i chwi.

Dŷdd Sant Ioan *Fedyddiwr.*

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, o ragluniaeth pa un y ganed yn rhyfedd dy wâs Ioan Fedyddiwr, ac yr anfonwyd ef i arlwyo ffordd dy Fâb Ieſu Griſt ein Hiachawdwr, gan bregethu edifeirwch; gwnâ i ni felly ddilyn ei ddyſgeidiaeth a'i ſanctaidd fywyd ef, fel y gwîr edifarhaom yn ôl ei bregeth ef; ac ar ôl ei eſampl y traethom y gwirionedd yn waſtadol, y ceryddom gamwedd yn hyderus, ac y dioddefom yn ufudd er mwyn y gwirionedd, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Eſay 40. 1.

CYſſurwch, cyſſurwch fy mhobl, medd eich Duw. Dywedwch wrth fôdd càlon Jeruſalem, llefwch wrthi hi, gyflawni ei milwriaeth, ddileu ei hanwiredd; o herwŷdd derbyniodd o lâw 'r Arglwydd yn ddau ddyblyg am ei holl bechodau. Llef un yn llefain yn yr anialwch, Parottôwch ffordd yr Arglwydd, uniawnwch lwybr i'n Duw ni yn y diffeithwch. Pob pant a gyfodir, a phob mynydd a brŷn a oſtyngir; y gŵyr a wneir yn uniawn, a'r anwaſtad yn waſtadedd. A gogoniant yr Arglwydd a ddatguddir, a phob cnawd ynghŷd a'i gwel: canys genau 'r Arglwydd a lefarodd hyn. Y llef a ddywedodd, Gwaedda: Yntau a ddywedodd, beth a waeddaf? Pob cnawd ſydd wêllt, a'i holl odidowgrwydd fel blodeuyn y maes. Gŵywa y gwelltyn, ſyrth y blodeuyn; canys Yſpryd yr Arglwydd a chwythodd arno; gwêllt yn ddiau yw 'r bobl. Gŵywa y gwelltyn, ſyrth y blodeuyn, ond gair ein Duw ni a ſaif byth. Dring rhagot yr Eſengyles Sïon i fynydd uchel; dyrchafa dy lef trwy nerth, O Eſengyles Jeruſalem: dyrchafa, nac ofna; dywaid wrth ddinaſoedd Juda, wele eich Duw chwi. Wele 'r Arglwydd Dduw a ddaw yn erbyn y cadarn, a'i fraich a lywodraetha troſto: wele ei wobr gyd ag ef, a'i waith o'i flaen. Fel bugail y portha efe ei braidd, â'i fraich y caſgl ei ŵyn, ac a'u dŵg yn ei fynwes, ac a goledda y mammogiaid.

Yr Efengyl. S. Luc 1. 57.

ACh yflawnwyd tymp Eliſabeth i eſgor, a hi a eſgorodd ar fâb. A'i chymmydogion a'i chenedl a glybu fawrhâu o'r Arglwydd ei drugaredd arni; a hwy a gŷd-lawenychaſant â hi. A bu, ar yr ŵythfed dŷdd, hwy a ddaethant i enwaedu ar y dŷn-bâch; ac a'i galwaſant ef Zacharias ar ôl enw ei dâd. A'i fam a attebodd ac a ddywedodd, Nid felly: eithr Ioan y gelwir ef. Hwythau a ddywedaſant wrthi, Nid oes neb o'th genedl a elwir ar yr enw hwn. A hwy a wnaethant amnaid ar ei dâd ef, pa fôdd y mynnai efe ei henwi ef. Yntau a alwodd am argraph-lech, ac a 'ſgrifennodd, gan ddywedyd, Ioan yw ei enw ef. A rhyfeddu a wnaethant oll. Ac agorwyd ei enau ef yn ebrwydd, a'i dafod ef, ac efe a lefarodd, gan fendithio Duw. A daeth ofn ar bawb oedd yn trigo yn eu cylch hwy, a thrwy holl fynydd-dir Judea y cyhoeddwyd y geiriau hyn oll. A phawb a'r a'u clywſant, a'u goſodaſant yn eu calonnau,

gan

gan ddywedyd, Beth fydd y bachgennyn hwn? A llâw 'r Arglwydd oedd gyd ag ef. A'i dâd ef Zacharias a gyflawnwyd o'r Yſpryd glân, ac a brophwydodd, gan ddywedyd, Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Iſrael, canys efe a ymwelodd ac a wnaeth ymwared i'w bobl. Ac efe a ddyrchafodd gorn iechydwriaeth i ni yn nhŷ Ddafydd ei waſanaethwr; megis y lleſarodd trwy enau ei ſanctaidd brophwydi, y rhai oedd o ddechreuad y bŷd; fel y byddai i ni ymwared rhag ein gelynion, ac o llâw pawb o'n caſeion; I gwblhâu ei drugaredd â'n tadau, ac i gofio ei ſanctaidd gyfammod; y llŵ a dyngodd efe wrth ein Tâd Abraham, ar roddi i ni, gwedi ein rhyddhâu o llâw ein gelynion, ei waſanaethu ef yn ddiofn, mewn ſancteiddrwydd a chyfiawnder ger ei fron ef, holl ddyddiau ein bywyd. A thithau fachgennyn, a elwir yn brophwyd i'r Goruchaf; canys ti a ei o flaen ŵyneb yr Arglwydd, i barrottôi ei ffyrdd ef; i roddi gwybodaeth iechydwriaeth i'w bobl, trwy faddeuant o'u pechodau, o herwŷdd tiriondeb trugaredd ein Duw, trwy yr hon yr ymwelodd â ni godiad haul o'r uchelder; i lewyrchu i'r rhai ſy yn eiſtedd mewn tywyllwch a chyſgod angau, i gyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd. A'r bachgen a gynnyddodd, ac a gryfhäwyd yn yr Yſpryd, ac a fu yn y diffeithwch hyd y dydd yr ymddangoſodd ef i'r Iſrael.

Dŷdd Sant Pedr *Apoſtol.*

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn trwy dy Fâb Ieſu Griſt a roddaiſt i'th Apoſtol Sant Pedr lawer-oedd o ddoniau arbennig, ac a orchymynnaiſt iddo o ddifrif borthi dy braidd; gwnâ, ni a attolygwn i ti, i'r holl Eſgobion, a'r Bugeiliaid, yn ddyfal bregethu dy ſanctaidd Air; ac i'r bobl yn ufuddgar ddilyn yr unrhyw: ſel y derbynionf goron y gogoniant tragywyddol, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Act. 12. 1.

YNghŷlch y prŷd hynny yr eſtynnodd Herod frenhin ei ddwylaw, i ddrygu rhai o'r Eglwys. Ac efe a laddodd Iago brawd Ioan â'r cleddyf. A phan welodd fod yn dda gan yr Iuddewon hynny, efe a 'chwanegodd ddâla Pedr heſyd. (A dyddiau y bara croyw ydoedd hi,) Yr hwn wedi ei ddâl a roddes efe yngharchar, ac a'i traddododd at bedwar pedwariaid o filwŷr, i'w gadw, gan ewyllyſio ar ôl y Paſg ei ddwyn ef allan at y bobl. Felly Pedr a gadwyd yn y carchar; eithr gweddi ddyfal a wnaethpwyd gan yr Eglwys at Dduw droſto ef. A phan oedd Herod a'i frŷd ar ei ddwyn ef allan, y nôs honno yr oedd Pedr yn cyſgu rhwng dau filwr; wedi ei rwymo â dŵy gadwyn, a'r ceidwaid o flaen y drŵs oeddynt yn cadw y carchar. Ac wele angel yr Arglwydd a ſafodd ger llaw, a goleuni a ddiſgleiriodd yn y carchar; ac efe a darawôdd yſtlys Pedr, ac a'i cyfododd ef, gan ddywedyd, Cyfod yn fuan. A'i gadwyni ef a ſyrthiaſant oddi wrth ei ddwylaw. A dywedodd yr angel wrtho, Ymwregyſa, a rhwym dy ſandalau: ac felly y gwnaeth efe. Yna y dywedodd, bwrw dy wiſg am danat, a chanlyn fi. Ac efe a aeth allan, ac a'i canlynodd ef, ac ni's gŵybu mai gwir oedd y peth a wnaethid gan yr angel; eithr yr oedd yn tybied mai gweled gweledigaeth yr oedd. Ac wedi myned o honynt heb law y gyntaf a'r ail wyliadwriaeth, hwy a ddaethant i'r porth haiarn, yr hwn ſydd yn arwain i'r ddinas, yr hwn a ymagorodd iddynt o'i waith ei hun; ac wedi eu myned allan, hwy a aethant ar hŷd un heol: ac yn ebrwydd yr angel a aeth ymaith oddi wrtho. A Phedr, wedi dyfod atto ei hun, a ddywedodd, Yn awr y gwn yn wir anfon o'r Arglwydd ei angel, i'm gwared i allân o llâw Herod, ac oddi wrth holl ddiſgwyliad pobl yr Iuddewon.

Yr Eſengyl. S. Math. 16. 13.

WEdi dyfod yr Ieſu i dueddau Ceſarea Philippi, efe a ofynnodd i'w ddiſgyblion, gan ddywedyd, Pwy y mae dynion yn dywedyd fy mod i Mâb y Dŷn? A hwy a ddywedaſant, Rhai mai Ioan Fedyddiwr, a rhai mai Elias, ac eraill mai Jeremias, neu un o'r prophwydi. Efe a ddywedodd wrthynt, Ond pwy meddwch chwi ydwyf fi? A Simon Pedr a attebodd, ac a ddywedodd, Ti yw Criſt, Mâb y Duw byw. A'r Ieſu gan atteb, a ddywedodd wrtho, Gwyn dy fŷd ti Simon Mâb Jona: canys nid cig a gwaed a ddatguddiodd hyn i ti, ond fy Nhâd, yr hwn ſydd yn y nefoedd. Ac yr ydwyf finnau yn dywedyd i ti, mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy Eglwys; a phyrth uffern ni's gorchfygant hi. A rhoddaf i ti agoriadau teyrnas nefoedd, a pha beth bynnag a rwymech ar y ddaear, a ſydd rhwymedig yn y nefoedd; a pha beth bynnag a ryddhäech ar y ddaear, a fydd wedi ei ryddhâu yn y nefoedd.

Dŷdd Sant Iago *Apoſtol.*

Y Colect.

CAniattâ, O drugarog Dduw, megis y bu i'th wŷnfydedig Apoſtol S. Iago, gan ymado â'i Dâd, ac â chwbl a'r oedd eiddo, yn ebrwydd ufuddhâu i alwad dy Fâb Ieſu Griſt, a'i ddilyn ef: felly i ninnau gan ymwrthod â holl fydol ac â chnawdol ewyllyſion, yn dragywydd fod yn barod i ddilyn dy orchymynnion ſanctaidd, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epiſtol. Act. 11. 27.

a rhan o'r 12 *Bennod.*

YN y dyddiau hynny, daeth prophwydi o Jeruſalem i wared i Antiochia. Ac un o honynt, a'i enw Agabus, a gyfododd, ac a arwyddoccaodd drwy yr Yſpryd, y byddai newŷn mawr dros yr holl fŷd; yr hwn heſyd a ſu tan Claudius Ceſar. Yna 'r diſgyblion, bob un yn ôl ei allu, a fwriadaſant anfon cymmorth i'r brodyr oedd yn preſwylio yn Judea. Yr hyn beth heſyd a wnaethant, gan ddanfon at yr Henuriaid drwy law Barnabas a Saul. Ac ynghŷlch y prŷd hynny yr eſtynnodd Herod frenhin ei ddwylaw, i ddrygu rhai o'r Eglwys. Ac efe a laddodd Iago brawd Ioan â'r cleddyf. A phan welodd fod yn dda gan yr Iuddewon hynny, efe a 'chwanegodd ddâla Pedr heſyd.

Yr Eſengyl. S. Math. 20. 20.

YNa y daeth mam meibion Zebedeus atto, gyd â'i meibion, gan addoli, a deiſyf rhyw beth ganddo. Ac efe a ddywedodd wrthi, Pa beth a fynni? Dywedodd hithau wrtho, Dywaid am gael o'm dau fâb hyn eiſtedd, y naill ar dy law ddehau, a'r llall ar dy law aſſwy, yn dy frenhiniaeth. A'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd, Ni wyddoch chwi beth yr ydych yn ei ofyn. A ellwch chwi yfed o'r cwppan yr ydwyf fi ar yfed o hono, a'ch bedyddio â'r bedydd y bedyddir fi? Dywedaſant wrtho, Gallwn. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Dïau yr yfwch o'm cwppan, ac y'ch bedyddir â'r bedydd y'm bedyddir ag ef: eithr eiſtedd ar fy llâw ddehau ac ar fy llâw aſſwy, nid eiddof ei roddi, ond i'r ſawl y darparwyd gan fy Nhâd. A phan glybu y deg hyn, hwy a ſorraſant wrth y ddau frodyr. A'r Ieſu a'u galwodd hwynt atto, ac a ddywedodd, Chwi a wyddoch fod pennaethiaid y cenhedloedd yn tra-arglwyddiaethu arnynt, a'r rhai mawrion yn tra-awdurdodi arnynt hwy. Eithr nid felly y bydd yn eich plith chwi; ond pwy

bynnag a fynno fod yn fawr yn eich plith chwi, bydded yn weinidog ichwi; A phwy bynnag a fynno fod yn bennaf yn eich plith, bydded yn wâs i chwi: Megis na ddaeth Mâb y dŷn i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roddi ei einioes yn bridwerth dros lawer.

Dŷdd Sant Bartholomëus *Apostol.*

Y Collect.

HOll-alluog â byth barhâus Dduw, yr hwn a roddaiſt râs i'th Apoſtol Bartholomëus, i wir gredu, ac i bregethu dy air; Nyni a attolygwn i ti ganiattau i'th Eglwys gwbl garu y Gair a greddodd eſe, a phregethu a derbyn yr unrhyw, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, *Amen.*

Yn lle yr Epistol. Act. 5. 12.

TRwy ddwylaw yr Apoſtolion y gwnaed arwyddion a rhyfeddodau lawer ym mhlith y bobl, (ac yr oeddynt oll yn gyttûn ym mhorth Solomon. Eithr ni feiddiai neb o'r lleill ymgyſylltu â hwynt: ond y bobl oedd yn eu mawrhâu. A chwaneſwyd attynt rai yn credu yn yr Arglwydd, lliaws o wŷr a gwragedd hefyd.) Hyd oni ddygent y rhai cleiſion allan ar hŷd yr heolydd, a'u goſod ar welyau a glythau, ſel o'r hyn lleiaf y cyſgodai cyſgod Pedr, pan ddelai heibio, rai o honynt. A lliaws a ddaeth hefyd ynghŷd, o'r dinaſcedd o amgylch Jeruſalem, gan ddwyn rhai cleiſion, a rhai a drallodid gan yſprydion aflan, y rhai a iachäwyd oll.

Yr Efengyl. S. Luc. 22. 24.

A Bu ymryſon yn eu plith, pwy o honynt a dybygid ei fod yn fwyaf. Ac eſe a ddywedodd wrthynt, Y mae brenhinoedd y cenhedloedd yn arglwyddiaethu arnynt; a'r rhai ſy mewn awdurdod arnynt, a elwir yn bendefigion. Ond na fyddwch chwi felly: eithr y mwyaf yn eich plith chwi, bydded megis yr ieuangaf; a'r pennaf, megis yr hwn ſydd yn gweini. Canys pa un fwyaf, ai 'r hwn ſydd yn eiſtedd ar y bwrdd, ai 'r hwn ſydd yn gwaſanaethu? ond yr hwn ſydd yn eiſtedd ar y bwrdd? eithr yr ydwyf fi yn eich mŷſg, ſel un yn gwaſanaethu. A chwychwi yw y rhai a arhoſaſoch gyd â mi yn fy mhroſedigaethau. Ac yr ŵyf fi yn ordeinio i chwi deyrnas, megis yr ordeiniodd fy Nhâd i minnau; ſel y bwyttaoch ac yr yſoch ar fy mwrdd i yn fy nheyrnas, ac yr eiſteddoch ar orſeddfeydd, yn barnu deuddeg llwyth Iſrael.

Dŷdd Sant Mathew *Efengylwr.*

Y Collect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn drwy dy wŷnfyddedig Fâb a elwaiſt Mathew, o'r dollfa, i fod yn Apoſtol, ac yn Eſengylwr: Caniattâ i ni râs i ymwrthod â holl gybyddus ddeiſyfion, ac â thrachwantus ſerch golud bydol, ac i ddilyn yr unrhyw dy Fâb Ieſu Griſt, yr hwn ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu gyd â thi a'r Yſpryd glan, yn un Duw, heb drangc na gorphen, *Amen.*

Yr Epistol. 2 Cor. 4. 1.

GAn ſod i ni y weinidogaeth hon, megis y cawſom drugaredd, nid ydym yn pallu. Eithr ni a ymwrthodaſom â chuddiedig bethau cywilydd, heb rodio mewn cyfrwyſtra, na thrîn gair Duw yn dwyllodrus; eithr trwy eglurhâd y gwirioneedd, yr ydym yn ein canmol ein hunain wrth bob cydwybod dynion, yngolwg Duw. Ac o's cuddiedig yw ein Eſengyl ni, yn y rhai colledig y mae yn guddiedig: Yn y rhai y dallodd Duw y bŷd hwn feddyliau y rhai digred: ſel na thywynnai iddynt lewyrch Eſengyl gogoniant Criſt, yr hwn yw delw Dduw. Canys nid ydym yn ein pregethu ein hunain, ond Criſt Ieſu yr Arglwydd; a nin nau yn weiſion i chwi er mwyn Ieſu. Canys Duw yr hwn a orchymynnodd i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch, a lewyrchodd yn ein calonnau, i roddi goleuni gŵybodaeth gogoniant Duw, yn ŵyneb Ieſu Griſt.

Yr Efengyl. S. Math. 9. 9.

ACſel yr oedd yr Ieſu yn myned oddi yno, eſe a ganfu ŵr yn eiſtedd wrth y dollfa, a elwid Mathew, ac a ddywedodd wrtho, Canlyn fi. Ac eſe a gyfododd, ac a'i canlynodd ef. A bu ag eſe yn eiſtedd i fwytta yn y tŷ, wele hefyd, publicanod lawer a phechaduriaid a ddaethant, ac a eiſteddaſant gyd â'r Ieſu a'i ddiſgyblion. A phan welodd y Phariſeaid, hwy a ddywedaſant wrth ei ddiſgyblion ef, Pa ham y bwytty eich Athraw chwi gyd â'r Publicanod a'r pechaduriaid? A phan glybu 'r Ieſu, eſe a ddywedodd wrthynt, nid rhaid i'r rhai iâch wrth feddyg, ond i'r rhai cleiſion. Ond ewch, a dyſgwch pa beth yw hyn, Trugaredd yr ydwyf yn ei ewyllyſio, ac nid aberth, canys ni ddaethum i alw rhai cyfiawn, ond pechaduriaid i ediſeirwch.

Dŷdd Sant Mihangel *a'r holl Angylion.*

Y Collect.

ODragywyddol Dduw, yr hwn a ordeiniaiſt, ac a oſodaiſt waſanaethau 'r holl Angylion a Dynion mewn treſn ryfedd: Caniattâ yn yn drugarog megis y mae dy Angylion ſanctaidd yn waſtad yn gwneuthur i ti waſanaeth yn y nefoedd; felly bôd o honynt trwy dy dreſniad di yn borth ac yn amddiffyn i ni ar y ddaear, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epistol. Dadg. 12. 7.

A Bu rhyfel yn y nêf; Michael a'i angylion a ryfelaſant yn erbyn y ddraig, a'r ddraig a ryfelodd, a'i hangylion hithau, ac ni orſuant; a'u lle hwynt ni's cafwyd mwyach yn y nêf. A bwriwyd allan y ddraig fawr, yr hên ſarph, yr hon a elwir diawl a Satan, yr hwn ſydd yn twyllo 'r holl fŷd: eſe a fwriwyd allan i'r ddaear, a'i angylion a fwriwyd allan gyd ag ef, Ac mi a glywais lêf uchel yn dywedyd yn y nêf, Yr awrhon y daeth iechydwriaeth, a nerth, a theyrnas ein Duw ni, a gallu ei Griſt ef: canys cyhuddwr ein brodyr ni a fwriwyd i'r llawr, yr hwn oedd yn eu cyhuddo hwy ger bron ein Duw ni, ddŷdd a nôs. A hwy a'i gorchfygaſant ef trwy waed yr Oen, a thrwy air eu tyſtiolaeth hwynt; ac ni charaſant eu heinioes hyd angau. O herwŷdd hyn llawenhôwch y nefoedd, a'r rhai ydych yn trigo ynddynt. Gwae y rhai ſydd yn trigo ar y ddaear, a'r môr, canys diafol a ddiſgynnoddd attoch chwi, a chanddo lid mawr, o herwŷdd ei fod yn gŵybod nad oes iddo ond ychydig amſer.

Yr Efengyl. S. Math. 18. 1.

AR yr awr honno y daeth y diſgyblion at yr Ieſu, gan ddywedyd, Pwy ſydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd? A'r Ieſu a alwodd atto fachgennyn, ac a'i goſododd yn eu canol hwynt, ac a ddywedodd, Yn wir y dywedaf i chwi, oddieithr eich troi chwi, a'ch gwneuthur fel plant bychain, nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd. Pwy bynnag gan hynny a'i goſtyngo ei hunan fel y bachgennyn hwn, hwnnw yw 'r mwyaf yn nheyrnas nefoedd. A phwy bynnag a dderbynio gyfryw fachgennyn yn fy enw i, a'm derbyn i. A phwy bynnag a rwyſtro un o'r rhai bychain hyn a gredant ynof fi, da fyddai iddo pe crogid maen melin am ei wddf, a'i foddi yn eigion y môr. Gwae 'r bŷd oblegid rhwyſtrau: canys anghenraid yw dyfod rhwyſtrau; er hynny gwae y dŷn hwnnw drwy 'r hwn y daw y rhwyſtr. Am hynny, o's dy lâw, neu dy droed a'th rwyſtra, torr hwynt ymaith, a thafl oddiwrthyt: gwell yw i ti fyned i mewn i'r bywyd yn glôff, neu yn anafus, nag â chennyt

ddwy

ddwy lâw neu ddau droed, dy daflu i'r tân tragywyddol. Ac o's dy lygad a'th rwyſtra, tŷn ef allan, a thafl oddi wrthyt: gwell yw i ti yn un-llygeidiog fyned i mewn i'r bywyd, nag â dau lygad gennyt dy daflu i dân uffern. Edrychwch na ddirmygoch yr un o'r rhai bychain hyn: Canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, fod eu hangylion hwy yn y nefoedd, bob amſer yn gweled wŷneb fy Nhâd, yr hwn ſydd yn y nefoedd.

Dŷdd Sant Luc *Efengylwr.*

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a elwaiſt Luc y phyſygwr, yr hwn y mae ei glôd yn yr Efengyl, i fôd yn Efengylwr, a phyſygwr i'r enaid: rhynged bôdd i ti, trwy iachus ſeddyginiaeth ei ddyſgeidiaeth ef, iachâu holl heiniau ein heneidiau, trwy haeddedigaethau dy Fâb Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. 2 Tim. 4. 5.

GWylia di ym mhob peth, dioddef adfyd, gwnâ waith Efengylwr, cyflawna dy weinidogaeth. Canys myfi yr awr hon a aberthir, ac amſer fy ymddattodiad i a neſaodd. Mi a ymdrechais ymdrech dêg, mi a orphennais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffŷdd. O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rŷdd yr Arglwydd y barnwr cyfiawn, i mi yn y dŷdd hwnnw: ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangoſiad ef. Bydd ddyfal i ddyfod attaf yn ebrwydd; canys Demas a'm gadawodd, gan garu y bŷd preſennol, ac a aeth ymaith i Theſſalonica; Creſcens i Galatia, Titus i Ddalmatia. Luc yn unig ſydd gyd â mi. Cymmer Marc a dŵg gyd â thi: canys buddiol yw efe i mi i'r weinidogaeth; Tychicus hefyd a ddanfonais i Epheſus. Y cochl a adewais i yn Troas gyd â Charpus, pan ddelych dŵg gyd â thi, a'r llyfrau, yn enwedig y memrwn. Alecſander y gôf-copr a wnaeth i mi ddrygau lawer: taled yr Arglwydd iddo yn ôl ei weithredoedd. Yr hwn hefyd gochel dithau; canys efe a ſafodd yn ddirfawr yn erbyn ein hymadroddion ni.

Yr Efengyl. S Luc 10. 1.

YR Arglwydd a ordeiniodd ddeg a thriugain eraill hefyd, ac a'u danfonodd hwy bob yn ddau, o flaen ei wyneb, i bob dinas a man, lle 'roedd efe ar fedr dyfod. Am hynny efe a ddywedodd wrthynt, Y cynhauaf yn wîr ſydd fawr, ond y gweithwŷr yn anaml: gweddïwch gan hynny ar Arglwydd y cynhauaf am ddanfon allan weithwŷr i'w gynhauaf. Ewch; wele, yr wŷf fi yn eich danfon chwi fel ŵyn ym mŷſg bleiddiaid. Na ddygwch gôd, nac yſgreppan, nac eſgidiau: ac na chyferchwch well i neb ar y ffordd. Ac i ba dŷ bynnag yr eloch i mewn, yn gyntaf dywedwch, Tangnefedd i'r tŷ hwn. Ac o bydd yno fâb tangnefedd, eich tangnefedd a orphwys arno: o's amgen, hi a ddychwel attoch chwi. Ac yn y tŷ hwnnw arhoſwch, gan ſwytta ac yſed y cyſryw bethau ac a gaffoch ganddynt: canys teilwng yw i'r gweithiwr ei gyflog.

Dŷdd Sant Simon *a Sant* Judas *Apoſtolion.*

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a adeiledaiſt dy Eglwys ar ſail yr apoſtolion a'r prophwydi, ag Ieſu Griſt ei hun yn ben congl ſaen: Caniattâ i ni fôd felly wedi ein cyſylltu ynghŷd yn undeb yſbryd gan eu dyſgeidiaeth hwy, fel y'n gwneler yn ſanctaidd Deml gymmeradwy gennyt, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. S. Judas 1.

JUdas, gwaſanaethwr Ieſu Griſt, a brawd Iago, at y rhai a ſancteiddiwyd gan Dduw Tâd, ac a gadwyd yn Ieſu Griſt, ac a alwyd: Trugaredd i chwi, a thangnefedd, a chariad a lioſoger. Anwyliad, pan roddais bob diwydrwydd ar yſgrifennu attoch am yr iechydwriaeth gyffredinol, anghenrhaid oedd i mi yſgrifennu attoch, gan eich annog i ymdrech ym mhlaid y ffŷdd, yr hon a rodded unwaith i'r Saint. Canys y mae rhyw ddynion wedi ymluſgo i mewn, y rhai a rag-ordeiniwyd er ys talm i'r farnedigaeth hon; annuwiolion, yn troi grâs ein Duw ni i drythyllwch, ac yn gwadu yr unig Arglwydd Dduw, a'n Harglwydd Ieſu Griſt. Ewyllyſio gan hynny yr ydwyf eich coffâu chwi, gan eich bod unwaith yn gŵybod hyn, i'r Arglwydd wedi iddo waredu y bobl o dir yr Aipht, ddiſtrywio eilwaith y rhai ni chredaſant. Yr Angylion hefyd y rhai ni chadwaſant eu dechreuad, eithr a adawſant eu trigfa eu hun, a gadwodd ef mewn cadwynau tragywyddol tan dywyllwch, i farn y dŷdd mawr. Megis y mae Sodoma a Gomorra, a'r dinaſoedd o'u hamgylch, mewn cyffelyb fôdd a hwynt wedi puteinio, a myned ar ôl cnawd arall, wedi eu goſod yn eſampl, gan ddioddef dialedd tân tragywyddol. Yr un ffunud hefyd y mae y breuddwydwŷr hyn, yn halogi 'r cnawd, yn diyſtyru llywodraeth, ac yn cablu y rhai ſy mewn awdurdod.

Yr Efengyl. S. Ioan. 15. 17.

HYN yr wŷf yn ei orchymmyn i chwi, garu o honoch eich gilydd. Os yw 'r bŷd yn eich caſâu chwi, chwi a wyddoch gaſâu o honaw fyſi o'ch blaen chwi. Pe byddech o'r bŷd, y bŷd a garai 'r eiddo: ond oblegid nad ydych o'r bŷd, eithr i mi eich dewis allan o'r bŷd, am hynny y mae 'r bŷd yn eich caſâu chwi. Cofiwch yr ymadrodd a ddywedais i wrthych, Nid yw 'r gwâs yn fwy na'i Arglwydd: os erlidiaſant fi, hwy a'ch erlidiant chwithau; os cadwaſant fy ngair i, yr eiddoch chwithau hefyd a gadwant. Eithr hyn oll a wnânt i chwi er mwyn fy enw i, am nad adwaenant yr hwn a'm hanfonodd i. Oni bai fy nyfod a lleſaru wrthynt, ni buaſai arnynt bechod: ond yr awrhon nid oes ganddynt eſgus am eu pechod. Yr hwn ſydd yn fy nghaſâu i, ſydd yn caſâu fy Nhâd hefyd. Oni bai wneuthur o honof yn eu plith y gweithredoedd ni wnaeth neb arall, ni buaſai arnynt bechod: ond yr awrhon hwy a welſant ac a'm caſaſant i, a'm Tâd hefyd. Eithr fel y cyflawnid y gair ſydd yſgrifennedig yn eu cyfraith hwynt, Hwy a'm caſaſant yn ddi achos. Eithr pan ddêl y Diddanydd, yr hwn a anfonaf i chwi oddi wrth y Tâd, (ſef Yſpryd y gwirionedd, yr hwn ſydd yn deilliaw oddi wrth y Tâd,) efe a dyſtiolaetha am danaf fi. Chwithau hefyd a dyſtiolaethwch, am eich bod o'r dechreuad gyd â mi.

Gŵyl yr holl Saint.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a gyſylltaiſt ynghŷd dy etholedigion yn un cyfundeb a chymdeithas yn nirgeledig gorph dy Fâb Griſt ein Harglwydd: Caniattâ i ni râs felly i ganlyn dy wŷnfydedig Saint ym mhob rhinweddol a duwiol fywyd, fel y delom i'r annhraethol lawenydd hynny, a barottoaiſt i'r rhai a'th garant yn ddiffuant trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle 'r Epiſtol. Dadg. 7. 2.

WELE, mi Ioan a welais angel arall yn dyfod i fynu oddiwrth godiad haul, a ſel y Duw byw ganddo: ac efe a lefodd â llêf uchel ar y pedwar angel, i'r rhai y rhoddaſid gallu i ddrygu 'r ddaear, a'r môr, gan ddywedyd, Na ddrygwch y

ddaear,

ddaear, na'r môr, na'r prenniau, nes darfod i ni ſelio gwaſanae hwŷr tin Duw ni yn eu talcennau. Ac mi a glywais nifer y rhai a ſeliwyd; yr oedd wedi eu ſelio gant a phedair a deugain o filoedd, o holl lwythau Meibion Iſrael.

O lwyth Juda, yr oedd deuddeng mîl wedi eu ſelio.

O lwyth Reuben, yr oedd deuddeng mîl wedi eu ſelio.

O lwyth Gad, yr oedd deuddeng mîl wedi eu ſelio.

O lwyth Aſer, yr oedd deuddeng mîl wedi eu ſelio.

O lwyth Nephthali, yr oedd deuddeng mîl wedi eu ſelio.

O lwyth Manaſſes, yr oedd deuddeng mîl wedi eu ſelio.

O lwyth Simeon, yr oedd deuddeng mîl wedi eu ſelio.

O lwyth Leſi, yr oedd deuddeng mîl wedi eu ſelio.

O lwyth Iſſachar, yr oedd deuddeng mîl wedi eu ſelio.

O lwyth Zabulon, yr oedd deuddeng mîl wedi eu ſelio.

O lwyth Joſeph, yr oedd deuddeng mîl wedi eu ſelio.

O lwyth Benjamin, yr oedd deuddeng mîl wedi eu ſelio.

Wedi hyn mi a edrychais, ac wele dyrfa fawr, yr hon ni allai neb ei rhifo, o bob cenedl, a llwythau, a phobloedd, ac ieithioedd, yn ſefyll ger bron yr orſedd-faingc, a cher bron yr Oen, wedi eu gwiſgo mewn gynau gwynnion, a phalm-wŷdd yn eu dwylaw: ac yn lleſain â llêf uchel, gan ddywedyd, Iechydwriaeth i'n Duw ni, yr hwn ſydd yn eiſtedd ar yr orſedd-faingc, ac i'r Oen. A'r holl angylion a ſaſaſant o amgylch yr orſedd-faingc a'r henuriaid a'r pedwar anifail, ac a ſyrthiaſant ger bron yr orſedd-faingc ar eu hwynebau, ac a addolaſant Dduw, gan ddywedyd, Amen: Y fendith, a'r gogoniant, a'r doethineb, a'r diolch, a'r anrhydedd, a'r gallu, a'r nerth a fyddo i'n Duw ni yn oes oeſoedd. *Amen.*

Yr Efengyl. S. Math. 5. 1.

PAN welodd yr Ieſu y tyrfaoedd, eſe a eſgynnodd i'r mynydd; ac wedi iddo eiſtedd, ei ddiſgyblion a ddaethant atto. Ac eſe a agorodd ei enau, ac a'u dyſgodd hwynt, gan ddywedyd, Gwŷn eu bŷd y tlodion yn yr yſpryd; canys eiddynt yw teyrnas nefoedd. Gwŷn eu bŷd y rhai ſydd yn galaru; canys hwy a ddiddenir. Gwŷn eu bŷd y rhai addfwyn; canys hwy a etifeddant y ddaear. Gwŷn eu bŷd y rhai ſydd arnŷnt newyn a ſyched am gyfiawnder; canys hwy a ddiwellir. Gwŷn eu bŷd y rhai trugarogion; canys hwy a gânt drugaredd. Gwŷn eu bŷd y rhai pur o galon; canys hwy a welant Dduw. Gwŷn eu bŷd y tangneſeddwŷr; canys hwy a elwir yn blant i Dduw. Gwŷn eu bŷd y rhai a erlidir o achos cyfiawnder; canys eiddynt yw teyrnas nefoedd. Gwŷn eich bŷd, pan y'ch gwaradwyddant, ac y'ch erlidiant, ac y dywedant bob drygair yn eich erbyn, er ſy mwyn i, a hwy yn gelwyddog. Byddwch lawen a hyfryd, canys mawr yw eich gwobr yn y nefoedd: oblegid felly yr erlidiaſant hwy y prophwydi a fu o'ch blaen chwi.

Y Drefn am Weinidogaeth SWPPER yr ARGLWYDD, neu 'r CYMMUN bendigaid.

CYnnifer ag a ſyddo yn amcanu bod yn gyfrannogion o'r Cymmun bendigedig, a arŵyddoccânt eu benwau i'r Curad ryw amſer y diwrnod o'r blaen o'r lleiaf.

¶ *Ac o bydd un o'r rhai hynny yn ddrŵg-fucheddol cyhoedd, neu a wnaeth gam i'w gymmydog ar air, neu ar weithred; ſel y byddo eſe gwrthwynebus gan y Gynnulleidfa: Y Curad wrth gael gŵybodaeth o hynny a'i geilw ef, ac a'i cynghora, na ryſygo eſe er dim ddyfod i ſord. yr Arglwydd, hyd oni ddatgano eſe yn gyhoeddus ei fod yn wir edifeiriol, a darfod iddo wellhâu ei ddrŵg fuchedd o'r blaen, ſel y boddlaner y Gynnulleidfa wrth hynny, yr hon a rwyſtrafid o'r blaen; A darfod iddo wneuthur iawn i'r neb y gwnaethai gamwedd a hwynt; Neu o'r lleiaf, ddadgan ei fod mewn cyflawn frŷd i wneuthur felly yn gyntaf ag y gallo yn gymhedrol.*

¶ *Y drefn hon a arfer y Curad am y fawl y gŵypo eſe fod malais a chaſineb yn teyrnaſu rhyngddynt; heb ddioddef iddynt fod yn gyfrannogion o fwrdd yr Arglwydd, hyd pan ŵypo eu bod hwynt wedi cyttuno. Ac o'i un o'r pleidiau anheddychol a fydd boddlon i ſaddau o eigion ei galon gwbl ag a wnaethpwyd yn ei erbyn, ac i wneuthur iawn i bawb ag a rwyſtrodd yntau ei hunan; a'r blaid arall ni fyn ei ddwyn i ddwyniol undeb, ond ſefyll yn waſtad yn ei wrthnyſigrwydd a'i falais: Y Gweinidog yn yr achos hynny a ddylai dderbyn y dŷn edifeiriol i'r Cymmun bendigedig, ac nid y dŷn yſtyfnig anhydyn. Profidier fod pob Gweinidog felly yn troi heibio neb fel yr hyſpyſir yn hwn, neu 'r rhag-wahannod neſaf o'r blaen o'r Rubric yma, yn rhwymedig i roddi cyfrif o'r unrhyw i'r Ordinari, o fewn pedwar diwrnod ar ddeg ar ôl hynny o'r pellaf. A'r Ordinari a ddylud yn erbyn y troſeddwr yn ol y Canon.*

¶ *Y Bwrdd ar amſer Cymmun â lliain gwŷn tâg arno, a ſaif yngbêrth yr Eglwys; neu yn y Gangbell, lle byddo 'r Foreuol a'r Brydnhawnol Weddi, wedi ordeinio eu dywedyd. A'r Ofeiriad, gan ſefyll wrth yr yſtlys gogledd i'r bwrdd, a ddywaid Weddi 'r Arglwydd, a'r Colect ſydd yn canlyn, a'r Bobl ar eu gliniau.*

EIN Tâd yr hwn ŵyt yn y nefoedd, ſanctei-ddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drŵg: *Amen.*

Y Colect.

YR holl-alluog Dduw, i'r hwn y mae pob câlon yn agored, a phob deiſyf yn gydnabyddus, a rhag yr hwn nid oes dim dirgel yn guddiedig: glanhâ feddyliau 'n calonnau trwy yſbrydoliaeth dy lân Yſbryd, fel y carom dydi yn berffaith, ac y mawrhaom yn deilwng dy Enw ſanctaidd, trwy Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna yr Offeiriad gan droi at y Bobl, a dractha yn eglur y DENG AIR DEDDF oll. A'r Bobl etto ar eu gliniau, ar ôl pob un o'r Gorchymynnion, a archant drugaredd Duw am eu torri hwynt o'r blaen, a gras i gadw 'r unrhyw rhag llaw, ſel y mae 'n canlyn.*

Gweinidog.

DUW a lefarodd y geiriau hyn, ac a ddywedodd, Myfi yw 'r Arglwydd dy Dduw: Na fydded it' dduwiau eraill onid myfi.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw 'r gyfraith hon.

Gweinidog. Na wnâ it' dy hun ddelw gerfiedig, na llûn dim a'r y ſydd yn y nefoedd uchod, neu yn y ddaear iſod, nac yn y dwfr dan y ddaear. Na oſtwng iddynt, ac na addola hwynt. Canys myfi yr Arglwydd dy Dduw ydwyf Dduw eiddigus, yn ymweled â phechodau 'r tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'm casânt, ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant, ac a gadwant fy ngorchymynion.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw 'r gyfraith hon.

Gweinidog. Na chymmer Enw 'r Arglwydd dy Dduw yn ofer: canys nid gwirion gan yr Arglwydd yr hwn a gymmero ei Enw ef yn ofer.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw 'r gyfraith hon.

Gweinidog. Cofia gadw yn ſanctaidd y dŷdd Sabbath. Chwê diwrnod y gweithi, ac y gwnai dy holl waith; eithr y ſeithfed dŷdd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw: Ar y dŷdd hwnnw na wnâ ddim gwaith, tydi, na'th fâb, na'th ferch, na'th wâs, na'th forŵyn, na'th anifail, na'r dŷn dieithr a fyddo o fewn dy byrth. Canys mewn chwê diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd nêf a daear, y môr ac ol y ſydd ynddynt, ac a orphwyſodd y ſeithfed dŷdd: o herwŷdd pa ham y bendithiodd yr Arglwydd y ſeithfed dŷdd, ac a'i ſancteiddiodd ef.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw 'r gyfraith hon.

Gweinidog. Anrhydedda dy dâd a'th fam, fel yr eſtynner dy ddyddiau ar y ddaear yr hon a rŷdd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw 'r gyfraith hon.

Gweinidog. Na lâdd.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw 'r gyfraith hon.

Gweinidog. Na wnâ odineb,

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw 'r gyfraith hon.

Gweinidog. Na ladratta.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw 'r gyfraith hon.

Gweinidog. Na ddŵg gam dyſtiolaeth yn erbyn dy gymmydog.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw 'r gyfraith hon.

Gweinidog. Na chwennych dŷ dy gymmydog, na chwennych wraig dy gymmydog, na'i wâs, na'i forŵyn, na'i ŷch, na'i aſyn, na dim a'r ſydd eiddo.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, ac yſgrifenna 'r holl ddeddfau hyn yn ein calonnau, ni a attolygwn i ti.

¶ *Yna y canlyn un o'r ddau Golect hyn dros y Brenhin, a'r Offeiriad yn ei ſeſyll megis o'r blaen, ac yn dywedyd,*

Gweddïwn.

HOll-alluog Dduw, yr hwn ſydd a'i Deyrnas yn dragywyddol, a'i allu yn anfeidrol, cymmer drugaredd ar yr holl Eglwys, a rheola ſelly gàlon dy ddewiſedig waſanaethwr *Siôr* ein Brenhin a'n Llywydd, fel y gallo efe (gan ŵybod i bwy y mae yn weinidog) uwch law pob dim geiſio dy anrhydedd di a'th ogoniant; Ac fel y gallom ninnau a'i holl ddeiliaid ef (gan feddylied yn ddyledus oddi wrth bwy y mae 'r awdurdod ſydd iddo) yn ffyddlon ei waſanaethu, ei anrhydeddu, ac yn oſtyngedig ufuddhâu iddo, ynot ti, ac erot ti, yn ôl dy ſendigedig Air a'th ordinhâd, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, yr hwn gyd â thi a'r Yſbryd glân, ſydd yn byw ac yn teyrnaſu yn dragywydd, yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

¶ *Neu.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, ſe'n dyſgir gan dy air ſanctaidd, fod calonnau brenhinoedd wrth dy reolaeth a'th lywodraeth di; a'th fod di yn eu gofod hwynt ac yn eu hymchwelyd, fel y mac dy dduwiol ddoethineb yn gweled bôd yn oreu: Yr ydym ni yn oſtyngedig yn attolwg i ti felly oſod a llywodraethu calon *Siôr* dy waſanaethwr, ein Brenhin a'n Llywydd, fel y gallo efe yn ei holl feddyliau, geiriau, a gweithredoedd, yn waſtad geiſio dy anrhydedd di a'th ogoniant, a myſyrio ar gadw dy bobl arodded yn ei gadwraeth ef, mewn digonoldeb, tangnefedd, a duwioldeb: Caniattâ hyn, drugarog Dâd, er cariad ar dy anwyl Fâb Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna y dywedir Colect y Dŷdd; Ac yn neſaf ar ôl y Colect y darllen yr Offeiriad yr Epiſtol, gan ddywedyd,* Yr Epiſtol [*neu,* Y rhân o'r yſgrythur a dreſnwyd yn lle 'r Epiſtol] ſydd yn yſgrifennedig yn y---bennod o---yn dechreu ar y--wers. *Ac wedi diweddu'r Epiſtol, efe a ddywaid,* Yma y terfyna 'r Epiſtol. *Yna y darllen efe yr Efengyl (a'r bobl i gyd yn eu ſeſyll) gan ddywedyd,* Yr Efengyl ſanctaidd fendigedig a 'ſgrifennir yn y---bennod o---yn dechreu ar y---wers. *Ac wedi gorphen yr Efengyl, y cenir neu y dywedir y Credo ſy'n canlyn, a'r bobl fyth yn ſeſyll, megis o'r blaen.*

CRedaf yn un Duw Dâd Holl-alluog, Creawdr nêf a daear, ac oll weledigion, ac anweledigion:

Ac yn un Arglwydd Ieſu Griſt, yr unig genhedledig Fâb Duw, cenhedledig gan ei Dâd cyn yr holl oeſoedd, Duw o Dduw, llewyrch o lewyrch, gwîr Dduw o wîr Dduw, cenhedledig nid gwneuthuredig, yn un hanfod â'r Tâd, gan yr hwn y gwnaethpwyd pob peth: yr hwn erom ni ddynion, ac er ein hiechydwriaeth a ddiſgynnodd o'r nefoedd, ac a gnawdiwyd trwy 'r Yſbryd glân o Fair Forŵyn, ac a wnaethpwyd yn ddŷn, ac a groes-hoeliwyd heſyd droſom dan Pontius Pilatus. Efe a ddioddefodd ac a gladdwyd, a'r trydydd dŷdd efe a adgyfododd yn ôl y 'Sgrythurau, ac a eſgynnodd i'r Nêf, ac y ſydd yn eiſtedd ar ddeheulâw 'r Tâd. A thracheſn y daw efe trwy ogoniant i farnu y byw a'r meirw; ac ar ei deyrnas ni bydd trangc.

A chredaf yn yr Yſbryd glân, yr Arglwydd a'r Bywiawdr, yr hwn ſydd yn deilliaw o'r Tâd a'r Mâb, yr hwn ynghŷd â'r Tâd a'r Mâb a gŷd-addolir, ac a gŷd-ogoneddir, yr hwn a lefarodd trwy 'r Prophwydi. A chredaf fôd un Gatholig ac Apoſtolig Eglwys. Addeſaf un Bedydd er maddeuant pechodau. Ac edrychaf am adgyfodiad y meirw, a bywyd y bŷd ſydd ar ddyfod. *Amen.*

¶ *Yna y Curad a ſynega i'r bobl pa Wyliau neu Ymprydiau a fydd i'w cadw yn yr wythnos yn canlyn. Ac yna heſyd (o bydd achos) rhoddes Rhybudd o'r Cymmun; a goſynner Goſtegion Priodaſau; a darllener Llythyrau Caſgl, Dyſynnau, ac Ymgymmundodau. Ac ni chyboeddir ac ni ſynegir dim yn yr Eglwys, hyd y parhao Gwaſanaeth Duw, ond gan y Gweinidog ei hun: na dim ganddo yntau, ond a erchir yn rheolau y Llyfr hwn, neu a orchymynir gan y Brenhin, neu gan Ordinari 'r lle.*

¶ *Yna y canlyn y Bregeth, neu un o'r Homiliau a ddoded allan eiſoes, neu a ddoder allan rhag llaw trwy awdurdod.*

¶ *Yna y dychwel yr Offeiriad at Fwrdd yr Arglwydd, ac a ddechreu 'r Offrymmiad, gan ddywedyd un neu ychwaneg o'r Adnodau ſy 'n canlyn, y cyfryw o'i ſynŵyr ei hun a welo yn gymhwyſaf.*

LLewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tâd yr hwn ſydd yn y nefoedd, S. *Math.* 5. 16.

Na

Na thryſorwch iwch' dryſorau ar y ddaear, lle y mae gwŷfyn a rhŵd yn llygru, a lle y mae lladron yn cloddio trwodd, ac yn lladratta: eithr tryſorwch iwch' dryſorau yn y nêf, lle nid oes na gwŷfyn na rhŵd yn llygru, a lle ni's cloddia lladron trwodd ac ni's lladrattant, S. *Matth.* 6. 19, 20.

Pa bethau bynnag oll a ewyllyſioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy; canys hyn yw 'r Gyſraith a'r Prophwydi. S. *Matth.* 7. 12.

Nid poh un ſydd yn dywedyd wrthyf, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd, ond yr hwn ſydd yn gwneuthur ewyllys fy nhâd yr hwn ſydd yn y nefoedd. S. *Matth.* 7. 21.

Zacchëus a ſaſodd ac a ddywedodd wrth yr Arglwydd, Wele, hanner fy nâ, O Arglwydd, yr ydwyf yn ei roddi i'r tlodion, ac o's dygais ddim o'r eiddo neb trwy gam-achwyn, yr ydwyf yn ei dalu ar ei bedwerydd. S. *Luc* 19. 8.

Pwy ſydd un amſer yn rhyfela ar ei draul ei hun? pwy ſydd yn plannu gwinllan, ac nid yw yn bwytta o'i ffrwyth hi? neu pwy ſydd yn porthi praidd, ac nid yw yn bwytta o laeth y praidd? 1 *Cor.* 9. 7.

O's nyni a hauaſom i chwi bethau ysbrydol, ai mawr yw o's nyni a fedwn eich pethau cnawdol. 1 *Cor.* 9. 11.

Oni wyddoch chwi fod y rhai ſy yn gwneuthnr pethau cyſſegredig, yn bwytta o'r cyſſegr; a'r rhai ſy yn gwaſanaethu 'r allor, yn gŷd-gyfrannogion o'r allor? Felly hefyd yr ordeiniodd yr Arglwydd i'r rhai ſy'n pregethu 'r efengyl, fyw wrth yr efengyl. 1 *Cor.* 9. 13, 14.

Yr hwn ſydd yn hau yn brin, a fêd hefyd yn brin; a'r hwn ſydd yn hau yn helaeth, a fêd hefyd yn helaeth. Pob un megis y mae yn rhag-arfaethu yn ei gàlon, felly rhodded, nid yn athriſt, neu trwy gymmell; canys rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu. 2 *Cor.* 9. 6, 7.

Cyfranned yr hwn a ddyſgwyd yn y Gair, â'r hwn ſydd yn ei ddyſgu, ym mhob peth da. Na thwyller chwi, ni watworir Duw: canys beth bynnag a hauo dŷn, hynny hefyd a fêd efe. *Gal.* 6. 6, 7.

Tra ydym yn cael amſer cyfaddas, gwnawn dda i bawb, ònd yn enwedig i'r rhai ſy o deulu 'r ffydd. *Gal.* 6. 10.

Elw mawr yw Duwioldeb gyd â boddlonrwydd: canys ni ddygaſom ni ddim i'r bŷd, ac eglur yw na allwn ddwyn dim allan chwaith. 1 *Tim.* 6. 6, 7.

Gorchymmyn i'r rhai ſy' oludog yn y bŷd yma, fôd yn hawdd ganddynt roddi a chyfrannu, yn tryſori iddynt eu hunain ſail dda erbyn yr amſer ſydd ar ddyfod, fel y caffont afael ar y bywyd tragywyddol. 1 *Tim.* 6. 17, 18, 19.

Nid yw Duw yn anghyfiawn, fel yr anghofio eich gwaith a'r llafurus gariad, yr hwn a ddangoſaſoch tu ag at ei Enw ef, y rhai a weiniaſoch i'r Saint, ac ydych yn gweini. *Heb.* 6. 10.

Nag anghofiwch wneuthur daioni a chyfrannu: canys â chyſryw ebyrth y rhyngir bôdd Duw. *Heb.* 13. 16.

Yr hwn ſydd ganddo ddâ 'r bŷd hwn, ac a welo ei frawd mewn eiſiau, ac a gauo ei doſturi oddi wrtho, pa fôdd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef? 1 *Ioan* 3. 17.

Dyro eluſen o'r peth a fyddo gennyt, ac na thro dy wyneb oddi wrth neb tlawd, ac ni thrŷ wyneb Duw oddi wrthyt tithau. *Tob.* 4. 7.

Fel y byddo gennyt yr amlder, dôd o hono eluſen: o's ychydig fydd gennyt, o ychydig na arſwyda roi eluſen; canys felly y tryſori i ti dy hun wobr daionus erbyn dŷdd yr anghenraid. *Tob.* 4. 8, 9,

Y neb a gymmero drugaredd ar y tlawd, ſydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd: a'i rôdd a dâl efe iddo dracheſn. *Diar.* 19. 17.

Gwŷn ei fŷd a yſtyria wrth y tlawd: yr Arglwydd a'i gwared ef yn amſer adfyd. *Sal.* 41. 1.

¶ *Tra bydder yn darllen yr Adnodau hyn, y Diaconiaid, Wardeniaid yr Eglwys, neu ryw un cymheſur arall a oſoter i hynny, a dderbyniant yr Eluſenau i'r tlodion, a defoſiynau eraill y Bobl, mewn cawg gweddus, a ddarperir gan y Plwyf i hynny; ac a'i dygant yn barchus at yr Offeiriad: Yntau a'i cyſrwyna yn ufudd, ac a'i dŷd ar y Bwrdd ſanctaidd.*

¶ *A phan fo Cymmun, yr Offeiriad yna a eſyd ar y Bwrdd gymmaint o Fara a Gwin ag a dybio fod yn ddigon. Gwedi darfod hynny, y dywaid yr Offeiriad,*

Gweddïwn dros holl Yſtâd Eglwys Griſt ſy 'n milwrio yma ar y ddaear.

HOll-alluog a byth-fywiol Dduw, yr hwn trwy dy ſanctaidd Apoſtol a'n dyſgaiſt i wneuthur gweddïau ac erfyniau, ac i ddiolch dros bob dŷn: yr ydym ni yn oſtyngedig yn attolwg i ti yn drugaroccaf [* *gymmeryd ein beluſeni a'n hoffrymmau a*] dderbyn ein gweddïau hyn, y rhai yr ydym yn eu hoffrwm i'th ddduwiol Fawredd, gan attolygu i ti yſbrydoli yn waſtad yr Eglwys Gyffredinol ag Yſbryd y gwirionedd, undeb, a chŷd-gordio: A chaniattâ i bawb ag y ſy 'n cyffeſu dy Enw ſanctaidd, gyttuno yngwirionedd dy ſanctaidd Air, a byw mewn undeb a duwiol gariad. Ni attolygwn i ti hefyd gadw ac ymddiffyn holl Griſtianus Frenhinoedd, Tywyſogion a Llywiawdwŷr; ac yn enwedig dy waſanaethwr *Siôr* ein Brenhin, fel y caffom dano ef ein llywodraethu yn dduwiol, ac yn heddychol: A chaniattâ i'w holl Gyngor ef, ac i bawb ag y ſydd wedi eu goſod mewn awdurdod dano, allu yn gywir ac yn uniawn rannu cyfiawnder, er coſbi drygioni a phechod, ac er maentumio dy wîr Grefydd di, a rhinwedd dda. Dyro râd, nefol Dâd, i'r holl Eſgobion, a Churadiaid, fel y gallont trwy eu buchedd a'u hathrawiaeth oſod allan dy wîr a'th fywiol Air, a gwaſanaethu dy ſanctaidd Sacramentau yn iawn ac yn ddyladwy: A dyro i'th holl Bobl dy nefol râs; ac yn enwedig i'r Gynnulleidfa hon ſydd yma yn gydrychiol, fel y gallont ag ufudd gàlon a dyledus barch wrando a derbyn dy ſanctaidd Air, gan dy waſanaethu yn gywir mewn ſancteiddrwydd ac uniondeb holl ddyddiau eu bywyd. Ac yr ŷm yn oſtyngeiddiaf yn attolygu i ti o'th ddaioni Arglwydd, gyſſuro a nerthu pawb ag y ſy yn y bywyd trangcedig hwn, mewn trwbl, triſtwch, angen, cleſyd, neu ryw wrthwyneb arall. Ac yr ŷm ni hefyd yn benditho dy Enw ſanctaidd, o ran dy holl weiſion a ymadawſant â'r bywyd yma yn dy fŷdd di a'th oſn; gan attolygu i ti roddi i ni ras felly i ddilyn eu ſamplau da hwy, fel gyd â hwynt y byddom gyfrannogion o'th Deyrnas nefol. Caniattâ hyn, O Dâd, er cariad ar Ieſu Griſt, ein hunig Gyfryngwr a'n Dadleuwr. *Amen.*

* *Oni bydd dim eluſeni nac offrymmau, yna gadawer y geiriau hyn* (gymmeryd ein heluſeni a'n hoffrymmau) *beb ddywedyd.*

¶ *Pan fo 'r Gweinidog yn rhoddi rhybudd o Finiſtriad y Cymmun bendigedig, (yr hyn a wnâ efe yn waſtad ar y Sûl neu ryw Ddŷdd gŵyl neſaf ym mlaen) Ar ôl diweddu 'r Bregeth neu 'r Homili, efe a dderllyn y Cynghor hwn ſy yn canlyn.*

FY anwyl garedigion, ar ddŷdd---neſaf yr wyf yn amcanu, trwy help Duw, finiſtrio i bawb a fo ffyddlon a defoſiynol dra-chyſſurus Sacrament Corph a Gwaed Criſt, i'w dderbyn ganddynt er coffâu ei rygly ddus grôg a'i ddioddefaint ef, trwy ba un yn unig y cawn faddeuant am ein pechodau, ac y'n gwnair yn gyfrannogion o deyrnas nêf. O herwŷdd pa ham ein dyledſwydd yw talu ufuddâf a ffyddlonaf ddiolch i'r Holl-alluog Dduw ein

Tâd

Tâd nefol, am iddo roddi ei Fâb ein Hiachawdwr Iefu Grift, nid yn unig i farw drofom, eithr i fod hefyd yn ymborth a lluniaeth ysbrydol i ni yn y Sacrament bendigedig hwnnw. Yr hyn beth gan ei fôd mor ddiwiol a chyffurus i'r fawl a'i derbyniant yn deilwng, ac mor enbydus i'r rhai a ryfygant ei dderbyn yn anheilwng; fy nylêd i yw eich cynghori chwi yn y cyfamfer i yftyried ardderchowgrwydd y dirgeledigaeth bendigedig hwnnw, a'r mawr berygl o'i dderbyn yn anheilwng; ac felly i chwilio a phrofi eich cydwybodau eich hunain, (a hynny nid yn yfgafn ac yn ol dull rhai yn rhagrithio â Duw, ond) fel y delych yn lân ac yn fanctaidd i'r cyfryw wlêdd nefol, yn y wifg-briodas yr hon a ofyn Duw yn yr Yfgrythur lân, ac y'ch derbynier megis Cyfrannogion teilwng o'r bwrdd bendigedig hwnnw.

Y ffordd a'r môdd i hynny yw: Yn gyntaf, holi eich buchedd a'ch ymarweddiad wrth reol Gorchymynion Duw; a pha le bynnag y gweloch eich bod eich hunain gwedi troſeddu, ar ewyllys, air, neu weithred, yno ŵylo o herwŷdd eich cyfiwr pechadurus; Ac ymgyffeſu i'r Hoſl-alluog Dduw, â llawn fryd ar wellhâu eich buchedd. Ac o's gwelwch fôd eich camweddau nid yn unig yn erbyn Duw, eithr yn erbyn eich cymmydogion hefyd, yna ymgymmodwch â hwy, gan fod yn barod i wneuthur iawn a diwygiad, hyd eithaf eich gallu, am bob Sarhâd a chamwri a wnaethoch i neb arall: A chan fôd yn barod hefyd i faddeu i eraill a wnaethant i'ch erbyn chwithau, megis yr ewyllyfioch faddeuant o'ch pechodau ar lâw Dduw. Canys heb hyn ni wnâ derbyn y Cymmun bendigedig, ond anghwanegu eich barnedigaeth. O herwŷdd hynny od oes neb o honoch yn gablwr Duw, yn rhwyftrwr neu enllibiwr ei Air ef, yn odinebwr, neu yn dwyn malais a chenfigen, neu mewn rhyw fai ceryddus arall: Edifarhêwch am eich pechodau, ac onid e na ddeuwch i'r Bwrdd fanctaidd hwnnw, rhag wedi cymmeryd y Sacrament bendigedig hwnnw, i Ddiafol fyned i mewn i chwi, megis yr aeth i Suddas fradwr, a'ch llenwi yn llawn o bob anwiredd, a'ch dwyn chwi i ddiſtryw corph ac enaid.

Ac o herwŷdd bod yn angenrheidiol na ddêl neb i'r Cymmun bendigedig, heb gyflawn ymddiried yn nhrugaredd Duw, ac heb gydwybod heddychlawn; Am hynny od oes neb o honoch na ddichon y ffordd hon ddyhuddo ei gydwybod ei hun yn hyn, eithr yn rhaid iddo wrth gyffur neu gyngor ym mhellach; deued attaf fi, neu at ryw un arall o weinidogion Gair Duw, a fyddo pwyllus a dyfgedig, a dadguddied ei ddolur, er mwyn cael, trwy weinidogaeth fanctaidd Air Duw, fawr-lles Gollyngdod, gyd â chyngor ac addyfg ysbrydol; tu ag at lonyddu ei gydwybod, a'i ryddhâu oddi wrth bob amheuaeth a phetrufder.

¶ *Neu lle y gwelo efe y bobl yn efgeulus am ddyfod i'r Cymmun bendigedig, yn lle y cyntaf, efe a arfer y Cyngor yma.*

ANwyl garedigion frodyr, ar ---- y mae yn fy mryd trwy Râs Duw finiftrio Swpper yr Arglwydd, i'r hwn o ran Duw y'ch gwahoddaf bawb ag y fydd yma yn gydrychiol, ac a attolygaf iwch' er cariad ar yr Arglwydd Iefu Grift, na wrthodoch ddyfod iddo, gan eich bod mor garedigol wedi eich galw a'ch gwahodd gan Dduw ei hunan. Chwi a ŵyddoch mor ofidus, ac mor angharedig o beth yw, pan fo gŵr wedi arlwyo gwlêdd werthfawr, wedi trwfio ei fwrdd â phob rhyw arlwy, megis na bai ddim yn eifiau, ond y gwahoddedigion i eiftedd: ac etto y rhai a alwyd, heb ddim achos, yn anïolchufaf yn gwrthod dyfod: Pwy o honoch chwi yn y cyfryw gyflwr ni chyffroai? pwy ni thybygai wneuthur cam a farhâd mawr iddo? Herwŷdd pa ham, fy anwyl garediccaf frodyr yng Nghrift, gwiliwch yn dda, rhag i chwi, wrth ymwrthod â'r Swpper fanctaidd hwn, annog bâr Duw i'ch erbyn. Hawdd i ddŷn ddywedyd, Ni chymmunaf fi, o herwŷdd bod negefau bydol i'm rhwyftro: Eithr y cyfryw efgufodion nid ydynt mor hawdd cael eu derbyn yn gymmeradwy ger bron Duw. O's dywed neb, Yr wyf fi yn bechadur brwnt, ac am hynny yn ofni dyfod: pa'm gan hynny nad ydych chwi yn edifarhâu, ac yn gwellhâu? Pan fo Duw yn eich galw, onid oes gywilydd arnoch ddywedyd na ddeuwch? Pan ddylech chwi ymchwelyd at Dduw, a ymefgufodwch chwi, a dywedyd nad ydych barod? Yftyriwch yn ddifrif ynoch eich hunain, leied a dâl y cyfryw goeg efgufodion ger bron Duw. Y rhai a wrthodafant y wlêdd yn yr Efengyl, o blegid iddynt brynu tyddyn, neu brofi eu hieuau ychen, neu o blegid eu priodi, ni chawfant felly mo'u hefgufodi, ond eu cyfrif yn anheilwng o'r wlêdd nefol. Myfi o'm rhan i, a fyddaf barod, ac o herwŷdd fy fwydd, yr ydwyf yn eich gwahodd yn Enw Duw, yr ŵyf i'ch galw o ran Crift, ac megis y caroch eich Hiechydwriaeth eich humain, yr ŵyf i'ch cynghori i fôd yn gyfrannogion o'r Cymmun bendigedig hwn.

Ac fel y bu wiw gan Fâb Duw ymado â'i einoes gan drengu ar y groes dros eich iechyd chwi: felly yn yr un môdd y dylech chwithau gymmeryd y Cymmun, er côf am offrymmiadaeth ei angau ef, fel y gorchymynnodd efe ei hun. Yn awr, o's chwychwi a efgeulufwch wneuthur hyn, Meddyliwch ynoch eich hunain faint y camwedd yr ydych yn ei wneuthur â Duw, ac mor flin yw'r boen y fydd goruwch eich pennau am hynny; Pan ŷch yn anhydyn yn ymgadw oddi wrth fwrdd yr Arglwydd, ac yn ymneillduo oddi wrth eich brodyr, y rhai fy'n dyfod i ymborthi ar wlêdd y nefolaf luniaeth hwnnw, O's chwi a ddyfal yftyriwch y pethau hyn; trwy râs Duw chwi a ddychwelwch i feddwl a fo gwell: Er mwyn caffael o honoch hynny, nid arbedwn ni wneuthur yn oftyngedig ein herfyniau i'r Holl-alluog Dduw ein Tâd nefol.

¶ *Ar amfer Miniftriad y Cymmun, a'r Cymmunwŷr wedi eu cyfiau yn weddus i gymmeryd y Sacrament bendigedig, yr Offeiriad a ddywaid y Cyngor hwn.*

ANwyl garedigion yn yr Arglwydd, y fawl fydd yn meddwl dyfod i fendigedig Gymmun Corph a Gwaed ein Hiachawdwr Crift, rhaid i chwi yftyried y môdd y mae Sant Paul yn cynghori pawb i'w profi, ac i'w holi eu hunain yn ddyfal, cyn iddynt ryfygu bwytta o'r Bara hwnnw, ac yfed o'r Cwppan hwnnw. Canys fel y mae 'r llês yn fawr, o's â chàlon wîr edifeiriol, ac â bywiol ffydd y cymmerwn y Sacrament bendigedig hwnnw, (canys yna yr ŷm ni yn ysbrydol yn bwyttâ cîg Crift, ac yn yfed ei waed ef; yna yr ydym yn trigo yng Nghrift, a Chrift ynom ninnau; yr ŷm ni yn un â Chrift, a Chrift â ninnau:) felly y mae 'r perygl yn fawr, o's ni a'i cymmer yn annheilwng. Canys yna yr ŷm ni yn euog o gorph a gwaed Crift ein Hiachawdwr; yr ydym ni yn bwytta ac yn yfed ein barnedigaeth ein hunain, heb yftyried corph yr Arglwydd; Yr ydym yn ennyn digofaint Duw i'n herbyn; yr ŷm ni yn ei annog ef i'n plau ag amrafael glefydau, ac amryw fath ar angau. Bernwch gan hynny eich hunain (frodyr) megis na'ch barner gan yr Arglwydd; Gwîr-edifarhêwch am eich pechodau a aeth heibio; Bid gennych fywiol a diogel ffŷdd yng Nghrift ein Hiachawdwr; Gwellhêwch eich buchedd, a byddwch mewn cariad perffaith â phawb; felly y byddwch weddus gyfrannogion o'r dirgeledigaethau fanctaiddiol hyn. Ac o flaen pob peth y mae 'n rhaid i chwi roddi goftyngeiddiaf a charediccaf ddiolch i Dduw Dâd, y Mâb, a'r Ysbryd glân, am bryndigaeth y byd trwy angau a dioddefaint ein Hiachawdwr Crift, Duw a dyn, yr hwn a ymoftyngodd i angau 'r groes, drofom ni bechaduriaid truain, y rhai oeddym yn

gorwedd mewn tywyllwch a chyſgod angau, ſel y gallai eſe ein gwneuthur ni yn blant i Dduw a'n dyrchafell fywyd tragywyddol. Ac er cofio o honom yn waſtad ddirfawr gariad ein Harglwydd a'n hunig Iachawdwr Ieſu Grift, fel hyn yn marw droſom, a'r aneirif ddoniau daionus, y rhai trwy dywallt ei werthfawr waed, a ennillodd eſe i ni; eſe a ofodedd, ac a ordeiniodd ſanctaidd ddirgeledigaethau, fel gŵyſtlon o'i gariad, a gwaſtadol gôf am ei angau, er mawr ac annherfynol ddiddanwch i ni. Gan hynny iddo ef, gyd â'r Tâd, a'r Yſbryd glân, rhoddwn (fel yr ŷm rwymediccaf) waſtadol ddiolch, gan ymoſtwng, yn gwbl i'w ſanctaidd ewyllys a'i orchymmyn ef, a myfyrio ei waſanaethu ef mewn gwîr ſancteiddrwydd a chyfiawnder, holl ddyddiau 'n heinioes. *Amen.*

¶ *Yna y dywaid yr Offeiriad wrth y rhai a ſo 'n dyſod i gymmeryd y Cymmun bendigedig,*

CHwychwi y ſawl ſydd yn wîr, ac yn ddifrifol yn edifarhâu am eich pechodau, ac y ſydd mewn cariad perffaith â'ch cymmydogion, ac yn meddwl dilyn buchedd newydd, a chanlyn gorchymynion Duw, a rhodio o hyn allan yn ei ffyrdd ſanctaiddiol ef; Deuwch yn nês trwy ffŷdd, a chymmerwch y Sacrament ſanctaiddiol hwn i'ch cyſſur; a gwnewch eich goſtyngedig gyffes i'r Holl-alluog Dduw, gan oſtwng yn ufudd ar eich gliniau.

¶ *Yna y dywedir y Gyffes gyffredin hon, yn enw pawb o'r rhai a fyddont ar feddwl cymmeryd y Cymmun bendigedig, gan un o'r Gweinidogion, yntau a'r bobl oll yn goſtwng yn ufudd ar eu gliniau ac yn dywedyd;*

HOll-alluog Dduw, Tâd ein Harglwydd Ieſu Grift, Gwneuthurwr pob dim, Barnwr pob dŷn: yr ŷm ni yn cydnabod ac yn ymofidio dros ein hamrywiaeth bechodau a'n hanwiredd, y rhai o ddydd i ddydd yn orthrymmaf a wnaethom, ar feddwl, gair, a gweithred, yn erbyn dy Dduwiol Fawredd, gan annog yn gyfiawnaf dy ddigofaint a'th fâr i'n herbyn. Yr ydym yn ddifrifol yn ediſarhâu, ac yn ddrŵg gan ein calonnau dros ein cam-weithredoedd hyn; eu coffa ſy drwm gennym, eu baich ſydd anrhaith ei oddef: Trugarhâ wrthym, trugarhâ wrthym, drugaroccaf Dâd; er mwyn dy un Mâb ein Harglwydd Ieſu Grift, maddeu i ni yr hyn oll a aeth heibio, a chaniattâ i ni allu byth o hyn allan, dy waſanaethu a'th foddloni, mewn newydd-deb buchedd, er anrhydedd a gogoniant dy Enw; trwy Ieſu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna yr Offeiriad (neu 'r Eſgob, o's bydd yn gydrychiol) a ſaif, gan droi at y bobl, ac a ddatgan y Gollyngdod hwn.*

HOll-alluog Dduw, ein Tâd nefoi, yr hwn o'i fawr drugaredd a addawodd faddeuant pechodau i bawb gan edifeirwch câlon a gwîr ffydd a ymchwel atto; a drugarho wrthych, a faddeuo i chwi, ac a'ch gwaredo oddi wrth eich holl bechodau, a'ch cadarnhao ac a'ch cryfhao ym mhob daioni, ac a'ch dygo i fywyd tragywyddol, trwy Ieſu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yn ôl hynny y dywaid yr Offeiriad.*

Gwrandêwch pa ryw eiriau cyſſurus a ddywed ein Hiachawdwr Criſt wrth bawb a wîr ymchwelant atto ef.

DEuwch attaſi fi bawb ag y ſydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a eſmwythâf arnoch. S. *Matth.* 11. 28.

Felly y carodd Duw y bŷd, fel y rhoddodd eſe ei unig-anedig Fâb, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol. S. *Ioan* 3. 16.

Gwrandêwch hefyd beth y mae Sant Paul yn ei dywedyd.

Gwîr yw 'r gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Criſt Ieſu i'r bŷd i gadw pechaduriaid. 1 *Tim.* 1. 15.

Gwrandêwch hefyd beth a ddywed Ioan Sant.

O's pecha neb, y mae i ni Eiriolwr gyd â'r Tâd, Ieſu Grift y cyfiawn; ac eſe yw 'r iawn dros ein pechodau ni. 1 S. *Ioan* 2. 1, 2.

¶ *Yn ôl y rhai hyn yr â 'r Offeiriad rhagddo, gan ddywedyd,*

Dyrchefwch eich calonnau.

Atteb. Yr ydym yn eu dyrchafael i'r Arglwydd.

Offeiriad. Diolchwn i'n Harglwydd Dduw.

Atteb. Mae 'n addas, ac yn gyfiawn gwneuthur hynny.

¶ *Yna yr Offeiriad a drŷ at Fwrdd yr Arglwydd, ac a ddywaid,*

YMaeyn gwbl addas, yn gyfiawn, a'n rhwymedig ddyledd ni yw, bob amſer, ac ym mhob lle ddiolch i ti, Arglwydd, * *Sanctaiddiol Dâd*, Holl-alluog, dragywyddol Dduw.

* *Y geiriau hyn,* (Sanctaiddiol Dâd) *a adewir heibio ar ſûl y Drindod.*

¶ *Yma iſod y canlyn y Rhagymadroddion priodol wrth yr amſer, o's bydd yr un wedi ei oſod yn hyſpyſol: Ac onid-e, yn ddi-dôr y canlyn,*

GAn hynny gyd ag Angylion ac Arch-angylion, a chyd â holl gwmpeini nêf, y moliannwn, ac y mawrhâwn dy ogoneddus Enw, gan dy foliannu yn waſtad, a dywedyd, Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw 'r lluoedd; Nêf a daear ſydd yn llawn o'th ogoniant: Gogoniant a fo i ti, O Arglwydd goruchaf. *Amen.*

¶ *Rhagymadroddion priod.*

¶ *Ar ddŷdd Nadolig Criſt, a ſaith niwrnod gwedi.*

AM i ti roddi Ieſu Grift dy un Mâb i'w eni ar gyfenw i'r amſer yma droſom ni: Yr hwn trwy weithrediad yr Yſbryd glân a wnaethbwyd yn wir ddŷn, o hanfod y Forwyn Fair ei fam, a hynny heb ddim pechod, i'n gwneuthur ni yn lân oddi wrth bob pechod. Gan hynny gyd ag Angylion, &c.

¶ *Ar ddŷdd Paſg, a ſaith niwrnod gwedi.*

ONd yn bendifaddef, yr ŷm yn rhwymedig i'th foliannu dros anrhydeddus gyfodiad dy Fâb Ieſu Grift ein Harglwydd: canys eſe yw 'r gwîr Oen Pâſg, yr hwn a offrymmwyd droſom, ac a ddileodd bechod y bŷd; yr hwn trwy ei angau ei hun a ddinyſtriodd angau, a thrwy ei adgyfodiad i fywyd a adferodd i ni fywyd tragywyddol: Gan hynny gyd ag Angylion, &c.

¶ *Ar ddŷdd y Dyrchafael, a ſaith niwrnod gwedi.*

TRwy dy anwyl garediccaf Fâb Ieſu Grift ein Harglwydd, yr hwn yn ôl ei anrhydedduſaf gyfodiad, a ymddangoſodd yn eglur i'w holl Apoſtolion, ac yn eu golwg a eſgynnodd i'r nefoedd, i barottôi lle i ni; megis lle y mae eſe, yno yr eſgynnom ninnau hefyd, ac y teyrnaſom gyd ag ef mewn gogoniant: Gan hynny gyd ag Angylion, &c.

¶ *Ar y Sûl-gwŷn, a chwê diwrnod yn ôl.*

TRwy Ieſu Grift ein Harglwydd; oddi wrth yr hwn, yn ôl ei gwiraf addewid, y diſgynnodd yr Yſbryd glân ar gyfenw i'r amſer yma o'r nêf, â diſymmwth ſŵn mawr, megis gwŷnt nerthol, ar wêdd taſodau tanllyd; gan ddiſgyn ar yr Apoſtolion, i'w dyſgu hwynt, ac i'w harwain i bob gwirionedd, gan roddi iddynt ddawn amryw ieithoedd, a hyder hefyd gyd â chariad gwreſog, yn ddyfal i bregethu 'r Efengyl i'r holl genhedloedd, trwy 'r hyn y'n dygwyd allan o dywyllwch a chyfeilliorni, i'th eglur oleuni, ac i wîr wybodaeth am danat Ti, a'th Fâb Ieſu Grift: Gan hynny gyd ag Angylion, &c.

¶ *An*

¶ *Ar Wyl y Drindod yn unig.*

YR hwn ŵyt un Duw, un Arglwydd; nid un perſon yn unig, ond tri pherſon mewn un ſylwedd. Canys yr hyn yr ydym yn ei gredu am ogoniant y Tâd, hynny yr ydym yn ei gredu am y Mâb, ac am yr Yſbryd glân, heb na gwahaniaeth, nac anghymmedr: Gan hynny gyd ag, *&c.*

¶ *Ar ôl pob un o'r Rhagymadroddion hyn, yn ddi-dôr y cenir neu y dywedir,*

GAn hynny gyd ag Angylion ac Arch-angylion, a chyd â holl gwmpeini nêf, y moliannwn, ac y mawrhâwn dy ogoneddus Enw, gan dy foliannu yn waſtad a dywedyd, Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw 'r lluoedd; Nêf a daear ſydd yn llawn o'th ogoniant: gogoniant a ſo i ti, O Arglwydd goruchaf. *Amen.*

¶ *Yna yr Offeiriad ar ei liniau wrth Fwrdd yr Arglwydd, a ddywaid yn Enw yr holl rai a gymmerant y Cymmun, y Weddi hon y ſydd yn canlyn.*

NId ŷm ni yn rhyfygu dyfod i'th Fwrdd di yma, dirugarog Arglwydd, gan ymddiried yn ein cyfiawnder ein hunain, eithr yn dy aml a'th ddirfawr drugareddau di. Nid ydym ni deilwng cymmaint ag i gaſglu 'r briwſion dan dy Fwrdd di. Eithr tydi yw yr un Arglwydd, yr hwn biau o briodoldeb yn waſtad drugarhâu; Caniattâ i ni gan hynny, Arglwydd graſol, felly fwytta cnawd dy anwyl Fâb Ieſu Criſt, ac yſed ei waed ef, ſel y gwneler ein cyrph pechadurus ni yn lân trwy ei Gorph ef, ac y golcher ein heneidiau trwy ei werthfawroccaf Waed ef, ac ſel y trigom byth ynddo ef, ac yntau ynom ninnau. *Amen.*

¶ *Pan ddarffo i'r Offeiriad, yn ſeſyll wrth y Bwrdd, felly dreſnu 'r Bara a'r Gwin, ſel y gallo yn barottach ac yn weddeiddiach dorri 'r Bara yngŵydd y Bobl, a chymmeryd y Cwppan i'w ddwylaw, eſe a ddywaid Weddi y Cyſſegriad, ſel y mae yn canlyn.*

HOll-alluog Dduw, ein Tâd neſol, yr hwn o'th dyner drugaredd a roddaiſt dy un Mâb Ieſu Criſt i ddioddef angau ar y groes er ein prynu, yr hwn a wnaeth yno (trwy ei offrymmiad ei hun yn offrymmedig unwaith) gyflawn, berffaith, a digonol aberth, offrwm, ac iawn, dros bechodau 'r holl ſŷd: ac â ordeiniodd, ac yn ei ſanctaidd Efengyl a orchymynnodd i ni gadw tragywyddol goſta am ei werthfawr angau hynny, nes ei ddyfod drachefn: Gwrando ni, dirugarog Dâd, ni 'n oſtyngeiddiaf a attolygwn i ti, a chaniattâ i ni, gan gymmeryd dy greaduriaid hyn o Fara a Gwîn, yn ôl ſanctaidd ordinhâd dy Fâb Ieſu Criſt ein Hiachawdwr, er côf am ei angau a'i ddioddefaint, allu bôd yn gyfrannogion o'i fendigedig gorph a'i waed: Yr hwn ar y nôs honno y bradychwyd,[a] a gymmerth fara, ac wedi iddo ddiolch, [b] Efe a'i torrodd, ac a'i rhoddes i'w ddiſgyblion, gan ddywedyd, Cymmerwch, bwyttêwch, [c] hwn yw ſy nghorph yr hwn yr ydys yn ei roddi droſoch, gwnêwch hyn er côf am danaf. Yr un môdd gwedi Swpper, [d] efe a gymmerth y cwppan, ac wedi iddo ddiolch, efe a'i rhoddes iddynt, gan ddywedyd, Yfwch o hwn bawb, canys hwn [e] yw ſy ngwaed o'r Teſtament Newŷdd, yr hwn yr ydys yn ei dywallt droſoch, a thros lawer er maddeuant pechodau: Gwnewch hyn, cynnifer gwaith ag ei hyfoch, er côf am danaf. *Amen.*

[a] *Yma y cymmer yr Offeiriad y ddyſgl i'w ddwylaw:*

[b] *Ac yma eſe a dyrr y Bara.*

[c] *Ac yma y dŷd ei lâw ar yr holl fara:*

[d] *Yma y cymmer y Cwppan i'w lâw.*

[e] *Ac yma y dŷd ei lâw ar bob Lleſtr, (Cwppan, neu flagen) yn yr hwn y bo dim gwin i'w gyſſegru.*

¶ *Yna y Gweinidog a gymmer y Cymmun yn gyntaf yn ddau ryw ei hun, ac yna 'r â yn mlaen i roddi 'r unrhyw i'r Eſgobiou, Offeiriaid a Diaconiaid yr un môdd (o's bydd yr un yn breſennol) Ac wedi hynny i'r Bobl hefyd mewn treſn, i'w dwylaw, a phawb yn oſtyngedig ar eu gliniau. A phan roddo 'r Bara i bob un, eſe a ddywaid,*

COrph ein Harglwydd Ieſu Criſt yr hwn a roddwyd droſot ti, a gadwo dy gorph a'th enaid i fywyd tragywyddol: Cymmer a bwytta hwn er côf farw o Criſt droſot ti, ac ymborth arno yn dy gâlon trwy ffydd, gan roddi diolch.

¶ *A'r Gweinidog a ſo yn rhoddi y cwppan i bob un, a ddywaid,*

GWaed ein Harglwydd Ieſu Criſt, yr hwn a dywalldwyd droſot ti, a gadwo dy gorph a'th enaid i fywyd tragywyddol: Yf hwn er côf tywallid gwaed Criſt droſot ti, a bydd ddiolchgar.

¶ *O's bydd y Bara neu 'r Gwin cyſſegredig wedi eu treulio oll cyn cymmuno o bawb, cyſſegred yr Offeiriad ychwaneg yn ôl y dull uchod; gan ddechreu ar* [Ein Iachawdwr Criſt y nôs *&c.*] *i fendigo 'r Bara: Ac ar* [Yr un môdd gwedi Swpper, *&c.*] *i fendigo 'r Cwppan.*

¶ *Pan ſo pawb wedi Cymmuno, y Gweinidog a ddychwel at Fwrdd yr Arglwydd, a thrwy barch a eſyd arno a ſo yngweddill o'r Elfennau cyſſegredig, gan daenu lliain glân droſtynt.*

¶ *Yna yr Offeiriad a ddywaid Weddi 'r Arglwydd, a'r bobl yn adrodd pob arch o boni ar ei ôl ef.*

EIn Tâd, yr hwn ŵyt yn y neſoedd; ſanctei-ddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y neſoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, ſel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg: Canys eiddot ti yw 'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Wedi hynny y dywedir ſel y canlyn.*

OArglwydd, a neſol Dâd, yr ydym ni dy oſtyngedig weiſion yn cwbl ddeiſyfu ar dy dadol ddaioni, yn drugarog dderbyn ein haberth hyn o foliant a diolch; gan erfyn arnat yn oſtyngeiddiaf, ganiattâu bod trwy ryglyddon ac angau dy Fâb Ieſu Criſt, a thrwy ffŷdd yn ei waed ef, i mi ac i'th holl Eglwys gael maddeuant o'n pechodau, a phob doniau eraill o'i ddioddefaint ef. Ac yma yr ŷm yn offrwm ac yn cynhyrchu i ti, O Arglwydd, ein hunain, ein heneidiau, a'n cyrph, i fod yn aberth rheſymmol, ſanctaidd, a bywiol i ti; gan attolygu i ti yn oſtyngedig, ſod i bawb o honom y ſy gyfrannogion o'r Cymmun bendigaid hwn, gael ein cyflawni â'th râs, ac â'th neſol fendith. Ac er ein bod ni yn annheilwng trwy ein hamraſaelion bechodau, i offrwm i ti un aberth; etto ni a attolygwn i ti gymmeryd ein rhwymedig ddyled a'n gwaſanaeth hyn; nid gan bwyſo 'n haeddedigaethau, ond gan faddeu 'n pechodau, trwy Ieſu Criſt ein Harglwydd; trwy 'r hwn, a chyd â'r hwn, yn undod yr Yſbryd glân, holl anrhydedd a gogoniant a fyddo i ti, Dâd Holl-alluog, yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Neu hyn.*

HOll-alluog a byth-fywiol Dduw, yr ydym ni yn dirfawr ddiolch i ti, am ſod yn wiw gennyt ein porthi ni, y rhai a gymmeraſom yn ddyledus y dirgeledigaethau ſanctaiddiol hyn, ag yſbrydol ymborth gwerthfawroccaf gorph a gwaed dy Fâb ein Hiachawdwr Ieſu Criſt; ac ŵyt yn ein ſicrhâu ni trwy hynny o'th amgeledd ac o'th ddaioni i ni; a'n bod yn wîr aelodau wedi ein corpholaethu yn nirgel gorph dy Fâb, yr hwn yw gwŷnfydedig gynnulleidfa 'r holl ffyddlon bobl; a'n bod hefyd trwy obaith yn etifeddion dy Deyrnas dragywyddol, gan haeddedigaethau gwerthfawroccaf angau a dioddefaint dy anwyl Fâb. Ac yr ŷm ni yn oſtyngeiddiaf

geiddiaf yn attolygu i ti, O nefol Dâd, felly ein cynnorthwyo ni â'th râs fel yr arhoſom yn waſtad yn y ſanctaidd gymdeithas honno, ac y gwnelom bob rhyw weithredoedd da ag a ordeiniaiſt ti i ni rodio ynddynt, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, I'r hwn gyd â thi a'r Yſbryd glân, y bo holl anrhydedd a gogoniant yn dragywyddol. *Amen.*

¶ *Yna y dywedir, neu y cenir,*

GOgoniant i Dduw yn yr uchelder, ac yn y ddaear tangnefedd, ewyllys da i ddynion. Ni a'th folwn, ni a'th fendithiwn, ni a'th addolwn, ni a'th ogoneddwn, i ti y diolchwn am dy fawr ogoniant, Arglwydd Dduw, Frenhin nefol, Duw Dâd Holl-alluog.

Arglwydd, yr unig-genhedledig Fâb Ieſu Griſt; Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fâb y Tâd, yr hwn ŵyt yn dileu pechodau 'r byd, trugarhâ wrthym. Ti yr hwn ŵyt yn dileu pechodau 'r byd, trugarhâ wrthym. Ti yr hwn ŵyt yn dileu pechodau 'r byd, derbyn ein gweddi. Ti yr hwn ŵyt yn eiſtedd ar ddeheu-law Dduw Dâd, trugarhâ wrthym.

Canys ti yn unig ŵyt ſanctaidd, ti yn unig ŵyt Arglwydd, ti yn unig Criſt, gyd â'r Yſbryd glân, wyt oruchaf yngogoniant Duw Dâd. *Amen.*

¶ *Yna'r Offeiriad. (neu 'r Eſgob, o's bydd e'n breſennol) a ollwng y bobl ymaith â'r Fendith hon.*

TAngnefedd Dduw yr hwn ſydd uwch law pob deall, a gadwo eich calonnau a'ch meddyliau yngŵybodaeth a chariad Duw, a'i Fâb Ieſu Griſt ein Harglwydd: A bendith Dduw Holl-alluog, y Tâd, y Mâb, a'r Yſbryd glân, a fyddo i'ch plith, ac a drigo gyd â chwi yn waſtad. *Amen.*

¶ *Colectau i'w dywedyd yn ôl yr Offrymmiad, prŷd na bo un Cymmun, bob rhyw ddŵrnod un, neu ychwaneg; A'r un rhai a ellir eu dywedyd befyd cynnifer amſer ag y byddo achos yn gwaſanaethu, wedi 'r Colectau ar y Foreuol neu 'r Brydnhawnol Weddi, y Cymmun, neu 'r Litani, fel y gwelo 'r Gweinidog fod yn gymbeſur.*

CYnnorthwya ni yn drugarog, Arglwydd, yn ein gweddiau hyn a'n herfyniau; a llywodraetha ffordd dy waſanaethddynion tu ag at gaffael iechyd tragywyddol; fel ym mŷſg holl gyſnewidiau a damweiniau 'r bywyd marwol hwn, yr amddiffynner hwynt byth trwy dy radlawnaf a'th barottaf borth, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog Arglwydd, a thragywyddol Dduw, ni a attolygwn i ti fod yn wiw gennyt uniawnu, ſancteiddio, a llywodraethu ein calonnau a'n cyrph, yn ffyrdd dy ddeddfau, ac yngweithredoedd dy orchymynion; megis trwy dy gardarnaf nodded, yma ac yn dragywyddol, y bôm yn gadwedig gorph ac enaid, trwy ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Ieſu Griſt. *Amen.*

CAniattâ, ni a attolygwn i ti, Holl-alluog Dduw, am y geiriau a glywſom heddyw â'n cluſtiau oddi allan, eu bod ſelly trwy dy râs, wedi eu plannu yn ein calonnau oddi mewn, fel y dygont ynom ffrwyth buchedd dda, er anrhydedd a moliant i'th Enw, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

RHagflaena ni, O Arglwydd, yn ein holl weithredoedd â'th radlonaf hoffder, a rhwyddhâ ni â'th barhäus gymmorth, fel yn ein holl weithredoedd dechreuedig, annherſynedig, a therſynedig ynoti, y moliannom dy ſanctaidd Enw, ac yn y diwedd y caffom gan dy drugaredd fywyd tragywyddol, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, ffynnon yr holl ddoethineb, yr hwn ŵyt yn gŵybod ein hangenrheidiau cyn eu gofynnom, a'n hanŵybodaeth yn gofyn; Ni a attolygwn i ti, doſturio wrth ein gwendid; a'r pethau hynny, y rhai o blegid ein hannheilyngdod ni feiddiwn, ac o blegid ein dallineb ni fedrwn eu gofyn, fod yn deilwng gennyt eu rhoddi i ni, er teilyngdod dy Fâb Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn a addewaiſt wrando eirchion y rhai a ofynnant yn Enw dy Fâb; ni a attolygwn i ti oſtwng yn drugarog dy gluſtiau attom ni, y rhai a wnaethom yr awr hon ein gweddiau a'n herſynion attat; a chaniattâ am y pethau hyn a archaſom yn ffyddlon yn ol dy ewyllys, eu caffael o honom yn hollol, i borthi ein hangen, ac er eglurhâu dy ogoniant, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *AR y Sulian a'r Gwyliau eraill (oni bydd Cymmun) y dywedir y cwbl ag a ôſodwyd ar y Cymmun, hyd ddiwedd y Weddi gyffredin* (Dros holl yſtâd Eglwys Griſt yn milwrio yma ar y ddaear) *ac un neu ychwaneg o'r Colectau a adroddwyd uchod, gan ddibennu â'r Fendith.*

¶ *Ac ni bydd gwaſanaethu Swpper yr Arglwydd, oddieithr bod niſer cymmwys o bobl i gymmuno gyd â'r Offeiriad ſel y gwelo efe ſod yn iawn.*

¶ *Ac oni bydd mwy nag ugein-nyn yn y plwyf, o lwyll i gymmeryd y Cymmun; etto ni bydd un Cymmun, oni bydd pedwar, neu dri o'r lleiaf i gymmuno gyd â'r Offeiriad.*

¶ *Ac mewn Eglwyſydd Cadeiriol, Collegol, a Chollegau, lle byddo llawer o Offeiriaid, a Diaconiaid, cymmerant bwy oll y Cymmun gyd â'r Offeiriad bob Sul o'r lleiaf, oni bydd ganddynt achos rheſymmol i'r gwrthwyneb.*

¶ *Ac er dileu pob achos o ymryſon ac ofergoel y ſydd, neu a allo ſod gan neb yn y Bara a'r Gwin, efe a waſanaetha bod y bara yn gyfryw ag y ſydd arferedig i'w fwytta; eithr y bara gwenith goreu a'r puraf ag a a'ler ei gael yn gymmwys.*

¶ *Ac o's bydd dim o'r Bara a'r Gwin heb ei gyſegru dros ben, y Curad a'i caiff iddo ei bun: Eithr o's bydd dim o'r hyn a gyſegrwyd yngweddill, ni ddygir dim o hono allan o'r Eglwys, eithr yr Offeiriad, a chyfryw eraill Cymmunwŷr ag a elwa efe atto y prŷd hynny, a fwyttânt ac a yfant yr unrhyw trwy barch yn ebrwydd ar ôl y Fendith.*

¶ *Y bara a'r gwin i'r Cymmun a barottôir gan y Curad a wardeniaid yr Eglwys, ar gôſt y plwyf.*

¶ *Noda befyd, bod i bob Plwyfol Gymmuno o'r lleiaf dair gwaith yn y flwyddyn, ac o hynny bod y Paſg yn un; A'r Paſg bob blwyddyn, bod i bob plwyfol gyfrif â'i Berſon, Ficcer, neu ei Gurad, neu ei brocurator neu ei brocuratoriaid, a thalu iddynt, neu iddo ef yr holl ddyledion Eglwyſig a ſo'n arferedig yn ddyledus yna, ar yr amſer hynny i'w talu.*

¶ *Pan orphenner Gwaſanaeth Duw, yr Arian a roddwyd ar yr offrymmiadau a ddoſberthir i ryw waſanaeth duwiol a chardodol, fel y bo i'r Gweinidog a Wardeniaid yr Eglwys weled yn gymmwys: O's bwy ni chyttunant yn hynny, doſpartber bwynt fel y trefno 'r Ordinari.*

" LLe yr ordeinir yn y Gwaſanaeth hwn o Finiſtriad Swpper yr Arglwydd, bod i'r Cymmunwŷr " gymmeryd yr unrhyw ar eu gliniau; (yr hyn a ordeiniwyd ar feddwl da, ſef, yn arŵyddoccâd " o'n hufudd a'n diolchgar gydnabod o ddoniau daionus Criſt a roddir ynddo i bob Cymmunwr addas, " ac er gochelyd y cyfryw halogedigaeth ac annhreſn yn y Cymmun bendigedig, ag a allai heb hyn

" ddigŵyddo)

" ddigŵyddo) er hynny, fel na bo i neb, nac o anŵybodaeth a gwendid gam-gymmeryd, nag o ſſala's " a chyndynrwydd anurddo 'r arŵydd hon o benlinio; hyſbyſir yma na feddylir trwy hyn, at na " ddylid gwneuthur dim addoliad nac i Fara a Gwîn y Sacrament a gymmerir yno yn gorphorol, nac i " neb rhyw gydrycholdeb corphorol o anianol gnawd a gwaed Criſt. Canys y mae Bara a Gwin y " Sacrament yn aros yn waſtad yn eu gwîr anianol ddefnyddiau, fel nad aller eu haddoli, (Canys " hynny a fyddai Eilun-addoliad, i'w ffieiddio gan bob Criſtion ffyddlon) Ac y mae Corph a Gwaed " anianol ein Hiachawdwr Criſt yn y nêf, ac nid yma: Canys ni chŷd-ſaif fod Corph Criſt yn wîr " anianol, a'i fod ar yr un amſer o fewn ychwaneg o fannau nag un.

Gweinidogaeth Bedydd Cyhoedd Plant Bychain i'w arfer yn yr Eglwys.

¶ *Rhybuddier y bobl, fod yn gymhesuraf na wasanaether y Bedydd namyn ar Suliau, a dyddiau Gŵyliau eraill, pan fyddo'r nifer mwyaf o'r bobl yn dyfod ynghŷd: yn gystal er mwyn bod i'r Gynnulleidfa yno yn bresennol dystiolaethu derbyniad y sawl a fedyddier yr amser hynny, i nifer Eglwys Criſt; a bod o blegid ym Medydd rhai bychain bod i bob dŷn a fo yno yn bresennol alw i'w gôf ei broffes ei hun a wnaeth i Dduw yn ei fedydd. Herwŷdd hynny hefyd y mae 'n gymhesur, bod gwasanaeth y Bedydd yn yr iaith gyfredin. Ac er hyn yma oll (o's bydd angenrheidiol) fe a ellir bedyddio rhai bychain ar bob dŷdd arall.*

¶ *A noda, y bydd i bob plentyn Gwrryw a fedyddier, ddau Dâd-bedydd ac un Fam-fedydd; ac i bob plentyn Benyw, un Tâd-bedydd a dwy Fam-fedydd.*

¶ *Pan fyddo plant i'w bedyddio, fe a ddylai eu tadau roddi rhybudd dros nôs, neu y boreu cyn dechreu 'r Foreuol Weddi, i'r Curad. Byaded y tadau-bedydd, a'r mammau-bedydd, a'r bobl, yn barod wrth y bedyddfan, naill ai yn y màn ar ol y llith ddiwaethaf ar y Foreuol Weddi, neu ynte yn y màn yn ol y llith ddiwaethaf ar y Brydnawnol weddi, megis y gofodo 'r Curad yn ol ei ystyriaeth ei hun. A'r Offeiriad yn dyfod at y Bedyddfan (yr hwn a lenwir yr amser hwnnw â dwfr glân) ac yn ſefyll yno a ddywaid,*

A fedyddiwyd y plentyn hwn eiſoes, ai na fedyddiwyd?

¶ *O's attebant*, Na ddo, *Yna aed yr Offeiriad rhagddo, fel y mae 'n canlyn.*

FY ngharedigion anwyl, yn gymmaint ag ymddŵyn a geni pob dŷn mewn pechod, a bod ein Hiachawdwr Criſt yn dywedyd, na ddichon neb gael myned i mewn i deyrnas Dduw, oddieithr ei adgenhedlu a'i eni ef o newŷdd o ddwfr ac o'r Ysbryd glân; Attolwg yr ŵyf i chwi alw ar Dduw Dâd, trwy ein Harglwydd Iesu Criſt, ar fod iddo o'i ddaionus drugaredd ganiattâu i'r *plentyn hwn* y peth trwy nerth natur ni all ddyfod *iddo*, gael *ei fedyddio* â dwfr ac â'r Ysbryd glân, *a'i dderbyn* i lân Eglwys Criſt, a bod yn aelod bywiol o'r unrhyw.

¶ *Yna y dywaid yr Offeiriad,*

Gweddïwn.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn o'th fawr drugaredd a gedwaiſt Noah a'i deulu yn yr Arch rhag eu cyfrgolli gan ddwfr; a hefyd a dywyſaiſt yn ddiangol blant yr Iſrael dy bobl trwy 'r môr côch, gan arŵyddocâu wrth hynny dy lân Fedydd; a thrwy fedydd dy garedig Fâb Iesu Criſt yn Iafon Iorddonen a ſancteiddiaiſt ddwfr er dirgel olchedigaeth pechodau: Attolygwn i ti er dy aneirif drugareddau edrych o honot yn drugarog ar y *plentyn hwn*, *ei lanhâu a'i* ſancteiddio â'r Ysbryd glân, fel wedi *iddo* gael *ei wared* oddi wrth dy lid, y derbynier *ef* i Arch Eglwys Criſt; a chan fod yn gadarn mewn ffydd, yn llawen gan obaith, ac wedi ymwreiddio yngnariad perffaith, allu o *hono* fordwyo ſelly dros donnau 'r bŷd trallodus hwn, fel y *delo* o'r diwedd, i dîr y bywyd tragywyddol, yno i deyrnaſu gyd â thi heb drange na gorphen, trwy Iesu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog ac anfarwol Dduw, porth pob angbenog, noddwr pawb a gilio attat am gynhorthwy, bywyd y rhai a gredant, a chyfodiad y meirw: Yr ym yn galw arnat dros y *dŷn bychan* yma, ar *iddo* yn dyfod i'th lân fedydd, gael derbyn maddeuant *o'i bechodau*, trwy ad-enedigaeth ysbrydol. Derbyn *ef* Arglwydd, megis yr addewaiſt trwy dy garedig Fâb, gan ddywedyd, Gofynwch, a rhoddir i chwi; Ceiſiwch, a chwi a gewch; Curwch, ac fe a agorir i chwi. Felly yn awr dyro i ni, a ni yn gofyn; pâr i ni gael, a ni yn ceiſio; agor y porth i ni ſy' yn curo; fel y mwynhao 'r *dŷn bychan* yma dragywyddol fendith dy nefol olchiad, ac y *delo* i'r Deyrnas dragywyddol, yr hon a addewaiſt trwy Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna y bobl a ſaſant ar eu traed, a'r Offeiriad a ddywaid.*

Gwrandêwch ar eiriau 'r Efengyl a ysgrifennodd Sant *Marc* yn y ddegfed Bennod, a'r drydedd adnod ar ddeg.

HWy a ddygaſant blant bycha'n at Criſt, fel y cyffyrddai efe â hwynt; a'r diſgyblion a geryddaſant y rhai oedd yn eu dwyn hwynt. A'r Iesu pan welodd hynny, a fu anfoddlon, ac a ddywedodd wrthynt, Gadewch i blant bychain ddyfod attaf, ac na waherddwch iddynt; canys eiddo y cyfryw rai yw Teyrnas Dduw. Yn wîr meddaf i chwi, pwy bynnag ni dderbynio deyrnas Dduw fel dyn bâch, nid â efe i mewn iddi. Ac efe a'u cymmerodd hwy yn ei freichiau, ac a roddes ei ddwylaw arnynt, ac a'u bendithiodd.

¶ *Yn ôl darllian yr Efengyl, y traetha 'r Gweinidog y Cyngor hyfr yma ar eiriau 'r Efengyl.*

YCaredigion, chwi a glywch yn yr Efengyl hon, eiriau 'n Hiachawdwr Criſt, yn gorchymmyn dwyn plant atto; pa wêdd y ceryddodd efe y rhai a ſynnaſai eu cadw oddi wrtho; pa wêdd y cynghora efe i bob dŷn ganlyn eu gwiriondeb hwy. Yr ydych chwi yn deall, wrth ei agwedd ef a'i weithred, môdd y dangoſodd ei ewyllys da iddynt: canys efe a'u cofleidiodd hwy yn ei freichiau, efe a roddodd ei ddwylaw arnynt, ac a'u bendithiodd hwynt. Nac amheuwch gan hynny, eithr credwch yn ddiſrif, y cymmer efe yr un ffunud yn amgeleddgar y *dŷn-bychan* yma, y cofleidia efe *ef* â breichiau ei drugaredd, y dyry *iddo* fendith y bywyd tragywyddol, ac y gwnâ efe *ef* yn gyfrannog o'i ddidrangc deyrnas. O herwŷdd pa ham, gan ein bod ni yn credu fel hyn am ewyllys da ein Tâd nefol, tu ag at y *dŷn-bychan* yma wedi ei amlyga trwy ei Fâb Iesu Criſt, ac heb ddim ammeu gennym ei fod ef yn derbyn yn raſuſol ein gweithred gardodol hon, yn dwyn y *dŷn-bychan hwn* i'w ſanctaidd Fedydd ef; diolchwn yn ffyddlon ac yn ddefosiynol iddo, gan ddywedyd,

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, Nefol Dâd, yr ym ni yn oſtyngedig yn dïolch i ti, ſod yn wiw gennyt ein galw i wybodaeth dy râs, a ffydd ynot: ychwanega yr wybodaeth hon, a chadarnhâ 'r ffydd hon ynom yn waſtad. Dyro dy Yſbryd glân i'r *dŷn-bychan* yma, ſel y ganer *ef* eilwaith, *a'i wneuthur yn etifedd* Iechyd tragywyddol, trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyd â thi a'r Yſbryd glân, yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

¶ *Yna dyweded yr Offeiriad wrth y Tadau-bedydd a'r Mammau-bedydd yn y mòdd hwn.*

ANwyl Garedigion bobl, chwi a ddygaſoch y *plentyn hwn* yma i'w *ſedyddio*, chwi a weddïaſoch ar ſod yn wiw gan ein Harglwydd Ieſu Griſt *ei dderbyn ef*, maddeu *iddo ei bechodau*, *ei* ſancteiddio â'r Yſbryd glân; rhoddi *iddo* Deyrnas nefoedd, a Bywyd tragywyddol. Chwi a glywſoch hefyd ddarſod i'n Harglwydd Ieſu Griſt addo yn ei Efengyl ganiattâu yr holl bethau hyn a weddïaſoch chwi am danynt: yr hwn addewid efe o'i ràn ef a'i ceidw yn wir ddïogel, ac a'i cwblhâ. Herwŷdd pa achos yn ôl yr addewid hyn a wnaeth Criſt, rhaid yw i'r *dŷn-bychan* yma hefyd yn ffyddlon, ar *ei ràn yntau* addaw trwoch chwi ſy feichiau *droſto* (hŷd oni *ddêl* mewn oedran i'w gymmeryd *arno ei hun*) ymwrthod â diafol, a'i holl weithredoedd, ac yn waſtad gredu gwŷnfydedig Air Duw, ac yn ufudd gadw ei orchymynion.

Am hynny y gofynaf,

A Ydwyt ti yn enw y plentyn hwn yn ymwrthod â diafol, ac â'i holl weithredoedd, coeg rodres a gwâg-orfoledd y bŷd, a'i holl chwantau cybyddus, ac anyſbrydol ewyllys y cnawd, fel na ddilynech hwynt, ac na'th dywyſer ganddynt?

Atteb. Yr ydwyf yn ymwrthod â hwynt oll.

Gweinidog.

A Wytti yn credu yn Nuw Dâd Holl-gyfoethog, Creawdwr nêf a daear?

Ac yn Ieſu Griſt ei unig-anedig Fâb ef, ein Harglwydd ni? A'i genhedlu o'r Yſbryd glân; Ei eni o Fair Forŵyn; iddo ddioddef dan Bontius Pilatus, ei groes-hoelio, ei farw, a'i gladdu; diſgyn o hono i uffern, a'i gyſodi hefyd y trydydd dŷdd; ac eſgyn o hono i'r nefoedd, a'i ſod yn eiſtedd ar ddeheu-law Dduw Dâd Holl-alluog; ac y daw efe oddi yno yn niwedd y bŷd, i ſarnu byw a meirw?

Atteb. Hyn oll yr wyf yn ei gredu yn ddïlys.

Gweinidog.

A Fynni dy fedyddio yn y ffydd hon?

Atteb.

Hynny yw ſy ewyllys.

Gweinidog.

AGedwi dithau gan hynny yn ufudd'lân ewyllys Duw a'i orchymynion, gan rodio yn yr unrhyw holl ddyddiau dy fywyd.

Atteb. Gwnâf.

¶ *Yna y dywaid yr Offeiriad,*

ODrugarog Dduw, caniattâ felly gladdu 'r hên Adda yn y *plentyn hwn*, ſel y coſoder y dŷn newŷdd *ynddo ef*. *Amen.*

Caniattâ ſod i holl chwantau 'r cnawd ſarw *ynddo*, ac i bob peth a berthyn i'r Yſbryd fyw a chynnyddu *ynddo*. *Amen.*

Caniattâ ſod *iddo* nerth a gallu i gael yr oruchafiaeth a'r gorfod yn erbyn diafol, y bŷd, a'r cnawd. *Amen.*

Caniattâ ſod i bwy bynnag y ſydd yma wedi eu cyſſegru i ti trwy ein Swydd a'n Gweinidogaeth ni, ſod hefyd yn gynnyſgaeddol o rinweddau nefol, a chael eu tragywyddol obrwyau trwy dy drugaredd, O fendigedig Arglwydd Dduw, yr hwn wŷt yn byw, ac yn llywiaw pob peth, yn oes oeſoedd. *Amen.*

HOll-gyfoethog fyth-fywiol Dduw, yr hwn y bu i'th garediccaf Fâb Ieſu Griſt, dros faddeuant o'n pechodau, oddef gollwng o'i werthfawroccaf yſtlys ddwfr a gwaed, a rhoddi gorchymmyn i'w ddiſgyblion fyned a dygſu pob cenedl, a'u bedyddio yn Enw'r Tâd, a'r Mâb, a'r Ysbryd glân: Yſtyria, attolwg i ti, wrth weddïau dy gynnulleidfa; ſancteiddia 'r dwfr hwn er dirgel olchedigaeth pechodau; a chaniattâ ſod i'r *plentyn hwn* a fedyddir yr awrhon ynddo, dderbyn cyflawnder dy râs, ac aros byth yn niſer dy ffyddlon blant etholedig, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna y cymmer yr Offeiriad y dŷn-bychan yn ei ddwylaw, ac a ddywaid wrth y Tadau-bedydd a'r Mammau-bedydd,*

Enwch y plentyn hwn.

Ac yno gan ei enwi ar eu bêl bwy (*o's hwy a hysbyſant iddo y gall y plentyn ddïoddef bynny yn dda*) *efe a'i trocha ef yn y dwfr yn ddïeſgeulus, ac yn ddarbodus, gan ddywedyd,*

N. Yr ydwyfi yn dy fedyddio di yn Enw'r Tâd, a'r Mâb, a'r Ysbryd glân. *Amen.*

¶ *Ac o's hysbyſant ſod y ylentyn yn wàn, digon fydd bwrw dwfr arno, gan ddywedyd y geiriau dywededig uchod.*

N. Yr ydwyfi yn dy fedyddio di yn Enw 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Ysbryd glân. *Amen.*

¶ *Yna y dywaid yr Offeiriad,*

YR ydym ni yn derbyn y plentyn hwn i gynnulleidfa defaid Criſt, ac yn ei *nodi ef* ag arŵydd y grôg, yn arŵyddocâd na bo *iddo* rhag llaw gymmeryd yn gywilydd gyffeſu ffydd Criſt a groeshoeliwyd, ac *iddo* ymladd yn ŵrol dan ei faner ef, yn erbyn pechod, y bŷd, a'r cythraul, a pharhâu yn *filwr* ffyddlawn ac yn *wâs* i Griſt, holl ddyddiau ei *einioes*. *Amen.*

* *Yma yr Offeiriad a wnâ groes bâch.*

¶ *Yna y dywaid yr Offeiriad,*

GAn ddarfod yn awr, anwyl garedigion frodyr, ad-eni, a dodi y *plentyn hwn* ynghorph Eglwys Criſt, dïolchwn ninnau i'r Holl-alluog Dduw am ei ddaioni hyn, ac o gŷd-undeb gwnâwn ein gweddïau ar y Goruchat Dduw, ar ſod *iddo* ddïweddu y rhan arall *o'i fywyd* yn ôl hyn o ddechreuad.

¶ *Yna y dywedir, a phawb ar eu gliniau,*

EIn Tâd, yr hwn ŵyt yn y nefoedd, ſancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, ſel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i broſedigaeth: Eithr gwared ni rhag drwg. *Amen.*

¶ *Yna y dywaid yr Offeiriad.*

MAwr ddïolchwn i ti, drugaroccaf Dâd, ryngu bôdd it' ad-eni y *dŷn-bychan hwn* â'th Ysbryd glân, *ei dderbyn yn blentyn* i ti dy hun trwy fabwys, *a'i gorphori* i'th lân Eglwys. Ac yn oſtyngedig yr attolygwn i ti ganiattâu *iddo*, gan *ei fod ef* yn farw i bechod, ac yn byw i gyfiawnder, ac yn gladdedig gyd â Chriſt yn ei angau, allu croeshoelio yr hên ddŷn, ac yn hollol ymwrthod â holl gorph pechod, ac megis y *mae efe* wedi *ei wneuthur* yn *gyfrannog* o angau dy Fâb, *iddo* ſod hefyd yn *gyfrannog* o'i gyſodiad; ac felly o'r diwedd, ynghŷd â'r rhan arall o'th lân Eglwys, bod o *hono*

yn

yn *dîfedd* dy deyrnas dragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna a phawb yn ſefyll, yr Offeiriad a ddywaid wrth y Tadau-Bedydd a'r Mammau-Bedydd hyn o gyngor yn canlyn.*

YN gymmaint a darfod i'r *plentyn hwn* addaw trwoch chwi, *ei ſechnïafon*, ymwrthod â diafol, a'i holl weithredoedd, credu yn Nuw, a'i wasanaethu ef: Rhaid i chwi feddwl, mai eich rhan a'ch dyled yw, gweled dyſgu o'r *plentyn hwn*, cyn gynted ag y *gallo* ddyſgu, pa ryw hynod addu-ned, addewid, a phroffes a *wnaeth ef*e yma trwoch chwi. Ac er mwyn gallu o *bono* wybod y pethau hyn yn well, chwi a elwch *arno* i wrando pregethau. Ac yn bendifaddef rhaid i chwi weled dyſgu o *bono* y Credo, Gweddi yr Arglwydd, a'r deg gorchymmyn yn yr iaith gyffredin, a phob peth arall a ddylai Griſtion ei wybod, a'i gredu, er iechyd i'w enaid; a bod meithrin y *plentyn hwn* yn rhinweddol, i'w hyweddu mewn buchedd ddu-wiol a Chriſtianogol; gan gofio yn waſtad, fod Bedydd yn arwyddocâu i nyni ein proffes, hynny yw, bod i ni ganlyn eſampl ein Hiachawdwr Criſt, a'n gwneuthur yn gyffelyb iddo ef: fel megis ag y bu efe farw, ac y cyfododd drachefn dros om ni; felly y dylem ni y rhai a fedyddiwyd, farw oddi wrth bechod, a chyfodi i gyfiawnder, gan far-wolaethu yn waſtad ein holl ddrygioni, a'n gwy-niau llygredig, a pheunydd myned rhagom ym mhob rhinwedd dda, a buchedd dduwiol.

¶ *Yna 'r ychwanega efe ddywedyd,*

RHaid i chwi edrych dwyn y *plentyn hwn* at yr Eſgob i'w *Gonfirmio* ganddo, cyn gynted ag y *medro* ddywedyd y Credo, Gweddi 'r Arglwydd a'r Deng-air Deddf yn yr iaith gyffredin, ac yr addyſger ym mhellach ynghatecim yr Eglwys a oſodwyd allan ar fedr hynny.

HYsbys yw trwy Air Duw, am blant a fedyddir, ac a fyddant feirw cyn bod yn eudg o bechod gweithredol, eu bod yn ddiammau yn gadwedig.

I Symmud ymaith bob amb uaeth am arfer arwydd y Groes yn y Bedydd; gwir ddeongliad hynny, a'r iawn achoſion o'i gadw, a ellir eu gweled yn y degfed Canon ar bugain a ddoded allan gyntaf yn y flwyddyn MDCIV.

Gweinidogaeth BEDYDD Neillduol Plant mewn tai gartref.

¶ *BId i Guradiaid pob plwyf rybuddio yn fynych y bobl, nad oedont fedydd eu plant bellach nâ'r Sul cyntaf neu 'r ail, neſaf ar ol eu geni, neu ryw Ddydd gwyl arall a ddigwyddo rhyngddynt, oddieithr ar achos mawr a chyfreithlon, a'r cyfryw a foddlono y Curad.*

¶ *A beſyd bwy a'u rhybuddiant, na pharont fedyddio eu plant gartref yn eu tai, bèb y cyffelyb achos mawr ac angen: a phan gymbello anghenraid iddynt wneuthur hynny, yna y Bedydd a finiſtrir yn y mòdd hwn.*

¶ *Yn gyntaf bid i Weinidog y Plwyf (neu yn ei abſen i ryw weinidog cyfreithlon arall a ellir ei gael) gyd â'r rhai a fyddo yn y fan, alw ar Dduw a dywedyd Gweddi yr Arglwydd, a chynnifer o'r Colectau pwyn-tiedig uchod i'w dywedyd yn Ffurf y Bedydd Cyhoedd, ag a âd yr amſer a'r angen preſennol; ac yna, wedi enwi 'r plentyn gan ryw un a fyddo yn breſennol, y Gweinidog a fydd arno gan ddywedyd y geiriau hyn,*

NYr wyfi yn dy fedyddio di yn Enw 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Yſbryd glân. *Amen.*

¶ *Yna a phawb yn goſtwng ar eu gliniau, y Gweinidog a rŷdd ddiolch i Dduw, ac a ddywaid.*

MAwr ddiolchwn i ti, Drugaroccaf Dâd, ryngu bôdd i ti ad-eni y *dŷn-bychan hwn* â'th Yſbryd Glân, *ei dderbyn* yn *blentyn* i ti dy hun trwy Fabwys, *a'i gorphori* i'th lân Eglwys. Ac yn oſtyngedig yr attolygwn i ti ganiattâu *iddo*, megis yn awr y gwnaed *ef* yn gyfrannog o angau dy Fâb, fod hefyd felly o'i adgyfodiad: Ac felly o'r diwedd, ynghŷd â'r rhan arall o'th Saint, etifeddu o *bono* dy Deyrnas dragywyddol, trwy 'r unrhyw dy Fâb Iesu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Ac nac amheuant, am y dŷn bâch a fedyddier felly, nàd yw efe wedi ei fedyddio yn ddeddfol, ac yn ddigonol, ac na ddylir ei fedyddio mwy. Eithr er hynny i gyd, o's y Plentyn a fedyddiwyd yn y mòdd hwn, a fydd byw rhag llaw, iawn fydd ei ddwyn ef i'r Eglwys, fel y gallo Gweinidog yr un plwyf, o's efe ei hun a fedyddiodd y dŷn bâch, hyſbyſu i'r Gynnulleidfa wir Ffurf y Bedydd, a arferaſai o'r blaen gartref: ac ar yr un achos hwnnw efe a ddywaid fel hyn.*

Yr wyf yn hyſbyſu i chwi, ddarfod i mi yn ôl dyledus a gofodedig Dreſn yr Eglwys, *ar yr amſer a'r amſer, yn y lle a'r lle*, yngwydd llawer o dyſtion, fedyddio 'r plentyn hwn.

¶ *Eithr o's rhyw weinidog cyfreithlon arall a fedyddiodd y dŷn bâch, yna Gweinidog y Plwyf yn yr hwn y ganed neu y bedyddiwyd y dŷn bâch, a hola ac a ymofyn, a ſe tydi mwyd y plentyn yn gyfreithlon, neu nad do. Yn yr hyn achos, o's y rhai a ddygant y plentyn i'r Eglwys, a attebant ddarfod bedyddio 'r plentyn eiſoes, yna boled y Gweinidog bwy ymbellach, gan ddywedyd,*

GAn bwy y bedyddiwyd y plentyn hwn?
Pwy oedd yn y fân, pan fedyddiwyd y plen-tyn hwn?
O herwŷdd y gallai fod, darfod gadael heibio ryw bethau a berthyn i hanffod y Sacrament hwn trwy ofn neu frŷs, yn y cyfryw gyfyngder: Am hynny y gofynaf i chwi ym mhellach,
A pha ddefnydd y bedyddiwyd y plentyn hwn?
A pha eiriau y bedyddiwyd y plentyn hwn?

¶ *Ac o's y Gweinidog a brawf wrth attebion y rhai a ddygaſant y plentyn atto, fod pob peth wedi ei wneuthur y mòdd y dylai: Yna na fedyddied efe y plentyn drachefn, eithr ei dderbyn yn un o ddiadell y gwir Griſtianogion, gan ddywedyd fel hyn,*

YR ydwyfi yn hyſbyſu i chwi ddarfod yn hyn o beth wneuthur y cwbl yn dda ac wrth iawn dreſn berthynaſol, with fedyddio 'r plentyn yma; yr hwn wedi ei eni mewn pechod dechreuol, ac mewn digofaint Duw, ſydd yn awr trwy olchiad yr ad-enedigaeth ym Medydd, wedi ei dderbyn i nifer plant Duw, ac etifeddion bywyd tragywyddol: Canys nid yw ein Harglwydd Iesu Griſt yn naccâu ei râs a'i drugaredd i gyfryw rai bychain, ònd y mae yn garueiddiaf yn eu gwahodd atto, megis y tyſtia 'r Eſengyl ſendigedig er ein cyſſur ni, yn y wedd hon:

Yr Eſengyl. S. Marc 10. 13.

HWy a ddygaſant blant bychain at Griſt, fel y cyffyrddai efe â hwynt: a'r diſgyblion a gery-ddaſant y rhai oedd yn eu dwyn hwynt. A'r Iefu

pan welodd hynny a fu anfoddlon, ac a ddywedodd wrthynt, Gadewch i blant bychain ddyfod attafi, ac na waherddwch iddynt: canys eiddo y cyfryw rai yw Teyrnas Dduw. Yn wîr meddaf i chwi, pwy bynnag ni dderbynio Deyrnas Dduw fel dŷn bâch, nid â efe i mewn iddi. Ac efe a'u cymmerodd hwy yn ei freichiau, ac a roddes ei ddwylaw arnynt, ac a'u bendithiodd.

¶ Yn ôl darllain yr Efengyl, y traetha 'r Gweinidog y Cyngor byrr yma ar eiriau 'r Efengyl.

Y Caredigion, chwi a glywch yn yr Efengyl hon eiriau ein Hiachawdwr Criſt, yn gorchymmyn dwyn plant atto; pa wedd y ceryddodd efe y rhai a ſynnaſai eu cadw oddi wrtho; pa wedd y mae efe yn cynghori i bob dŷn ganlyn eu gwiriondeb hwy. Yr ydych chwi yn deall, wrth ei agwedd ef â'i weithred, y môdd y dangoſodd ei ewyllys da iddynt; canys efe a'u cofleidiodd hwy yn ei freichiau, efe a roddodd ei ddwylaw arnynt, ac a'u bendithiodd hwynt. Nac amheuwch gan hynny, eithr credwch yn ddiſrif, ddarfod iddo gymmeryd yr un ffunud yn amgeleddgar y *dŷn bychan hwn*, *ei gofleidio ef* â breichiau ei drugaredd, ac (fel yr addawödd yn ei Air ſanctaidd) y rhŷdd *iddo* ſendith y bywyd tragywyddol, ac *a'i* gwnâ yn gyfrannog o'i ddidrangc Deyrnas. Herwŷdd pa ham, a nyni yn credu fel hyn am ewyllys da ein Tâd nefol, wedi ei amlygu trwy ei Fâb Ieſu Criſt, tu ag at y *dŷn bychan hwn*; diolchwn yn ffyddlon, ac yn ddefoſiynol iddo, gan ddywedyd y Weddi a ddyſgodd yr Arglwydd ei hun i ni;

EIn Tâd, yr hwn ŵyt yn y nefoedd, ſancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drŵg. *Amen.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, Nefol Dâd, yr ŷm ni yn oſtyngedig yn diolch i ti, fod yn wiw gennyt ein galw i ŵybodaeth dy râs, a ffŷdd ynot: Ychwanega yr ŵybodaeth hon, a chadarnhâ y ffŷdd hon ynom yn waſtad. Dyro dy Ysbryd glân i'r *dŷn bychan* yma, fel gwedi *ei eni ef* eilwaith, *a'i wneuthur* yn *etifedd* Iechyd tragywyddol, trwy ein Harglwydd Ieſu Criſt, yr *arhoſo* yn *waſanaethwr* i ti, ac y *caffo* dy addewid, trwy yr unrhyw dy Fâb ein Harglwydd Ieſu Criſt, yr hwn ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu gyd â Thi, a'r Ysbryd glân, yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

¶ Yna y goſyn yr Offeiriad enw y dŷn bychan, a phan ddarfŵo i'r Tadau-bedydd a'r Mammau-bedydd ei adrodd, y Gweinidog a ddywaid,

AYdwyt ti yn enw y plentyn hwn yn ymwrthod â diafol ac â'i holl weithredoedd, coeg-rodres agwâg-orfoledd y bŷd, a'i holl chwantau cybyddus, ac anyſbrydol ewyllys y cnawd, fel na ddilynech hwynt, ac na'th dywyſer ganddynt?

Attêb. Yr ydwyf yn ymwrthod â hwynt oll.

Gweinidog.

AWyt ti yn credu yn Nuw Dâd Holl-gyfoethog, Creawdwr nêf a daear?

Ac yn Ieſu Criſt ei unig-anedig Fâb ef ein Harglwydd ni? A'i genhedlu o'r Ysbryd glân; Ei eni o Fair Forŵyn; iddo ddioddef dan Bontius Pilatus, ei groes-hoelio, ei farw, a'i gladdu; diſgyn o hono i uffern, a'i gyfodi hefyd y trydydd dŷdd; ac eſgyn o hono i'r nefoedd; a'i fod yn eiſtedd ar ddeheu-law Dduw Dâd Holl-alluog; ac y daw efe oddi yno yn niwedd y bŷd i farnu byw a meirw?

Ac a wyt ti yn credu yn yr Ysbryd glân; yr Eglwys lân Gatholig; Cymmun y Saint; maddeuant pechodau; adgyfodiad y cnawd; a bywyd tragywyddol gwedi angau?

Attêb. Hyn oll yr ŵyf yn ei gredu yn ddilys.

Gweinidog.

AGedwi dithau gan hynny yn ufudd lân ewyllys Duw a'i orchymynion, gan rodio yn yr unrhyw holl ddyddiau dy fywyd?

Atteb. Gwnâf.

¶ Yna y dywaid yr Offeiriad,

YR ydym ni yn derbyn y plentyn hwn i Gynnulleidfa defaid Criſt, ac yn ei *nodi ef* ag arŵydd y grôg, * *Yma 'r offeiriad a wnâ groes yn nhalcen y dŷn bâch.* arŵyddocâd na bo *iddo* rhag llaw gymmeryd yn gywilydd gyffeſu ffydd Criſt a groes-hoeliwyd, ac *iddo* ymladd yn ŵrol dan ei faner ef yn erbyn pechod, y bŷd, a'r cythraul; a pharhâu yn *ffiwr* ffyddlon ac yn *wâs* i Griſt, holl ddyddiau ei *einioes*. *Amen.*

¶ Yna y dywaid yr Offeiriad,

GAn ddarfod yn awr, anwyl garedigion frodyr, trwy Fedydd ad-eni, a dodi y *plentyn hwn* ynghôrph Eglwys Criſt, diolchwn ninnau i'r Holl-alluog Dduw am ei ddaioni hyn, ac o gŷd-undeb gwnâwn ein gweddïau ar y Goruchaf Dduw, ar ſod iddo ddiweddu y rhan arall *o'i fywyd* yn ôl hyn o ddechreuad.

¶ Yna y dywaid yr Offeiriad.

MAwr ddïolchwn i ti, drugaroccaf Dâd, ryngu bôdd it' ad-eni y *plentyn hwn* â'th Ysbryd Glân, *ei dderbyn* yn *blentyn* i ti dy hun trwy fabwys, *a'i gorphori* i'th lân Eglwys. Ac yn oſtyngedig yr attolygwn i ti ganiattâu *iddo*, gan *ei fod ef* yn farw i bechod, ac yn byw i gyfiawnder, ac yn gladdedig gyd â Chriſt yn ei angau, allu croes-hoelio 'r hên ddyn, ac yn hollol ymwrthod â holl gorph pechod, ac megis y *mae efe* wedi *ei wneuthur* yn gyfrannog o angau dy Fâb, *iddo* fod hefyd yn gyfrannog o'i gyfodiad, ac felly o'r diwedd, ynghŷd a'r rhan arall o'th lân Eglwys, bod o *bono* yn *etifedd* dy Deyrnas dragywyddol, trwy Ieſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Yna a phawb yn eſtyll, yr Offeiriad a ddywaid wrth y Tadau-Bedydd a'r Mammau-Bedydd hyn o gyngor yn canlyn,

YN gymmaint a darfod i'r *plentyn hwn* addaw trwoch chwi, *ei fechniaſon*, ymwrthod â diafol a'i holl weithredoedd, credu yn Nuw, a'i waſanaethu ef: Rhaid i chwi feddwl, mai eich rhan a'ch dyled yw, gweled dyſgu o'r *plentyn hwn*, cyn gynted ag y *gallo* ddyſgu, pa ryw hynod adduned, addewid, a phroffes a *wnaeth efe* yma trwoch chwi. Ac er mwyn gallu o *bono* ŵybod y pethau hyn yn well, chwi a elwch *arno* i wrando pregethau, ac yn bendifaddef rhaid i chwi weled dyſgu o *bono* y Credo, Gweddi 'r Arglwydd, a'r deg Gorchymmyn yn yr iaith gyffredin, a phob peth arall a ddylai Griſtion ei ŵybod, a'i gredu, er iechyd i'w enaid; a bod meithrin y *plentyn hwn* yn rhinweddol, i'w hyweddu mewn buchedd dduwiol a Chriſtianogol; gan gofio yn waſtad, ſod Bedydd yn arŵyddocâu i nyni ein proffes, hynny yw, bod i ni ganlyn eſampl ein Hiachawdwr Criſt, a'n gwneuthur yn gyffelyb iddo ef: ſel megis ag y bu efe farw, ac y cyfododd drachefn droſom ni; felly y dylem ni y rhai a fedyddiwyd, farw oddi wrth bechod, a chyfodi i gyfiawnder, gan farwolaethu yn waſtad ein holl ddrygioni a'n gwŷniau llygredig, a pheunydd myned

rhagom ym mhob rhinwedd dda, a buchedd dduwiol.

¶ Eithr o's y rhai a ddygant y plentyn i'r Eglwys a wnânt y cyfryw attebion anhysbysol i ofynion yr Offeiriad, fel na aller gwŷbod a ddarfu bedyddio y plentyn â dwfr, yn enw 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Ysbryd glân, (yr hyn ſydd o hanfod y Bedydd) yna bedyddied yr Offeiriad ef ynôl y ffurf yſgrifennedig uchod am Fedydd Cyhoedd Plant; oddieithr wrth drochi y dŷn bâch yn y Bedyddfan, efe a arfer y ffurf hon ar eiriau.

ONi ddarfu dy fedyddio di eiſoes, N. yr ŵyſi yn dy fedyddio di yn Enw 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Ysbryd glân. *Amen.*

Gweinidogaeth BEDYDD y rhai a fo o Oedran addfedach, ac yn medru atteb droſtynt eu hunain.

¶ PAn ſyddo rhyw rai o oedran addfedach i'w bedyddio, byshyſer bynny mewn prŷd i'r Eſgob; neu i'r neb a appwyntia efe i hynny, ŵythnos gron o'r lleiaf, gan eu rhïeni, neu ryw rai deallus eraill; fel y galler cymmeryd gofal dyledus i'w proſi, a ydynt wedi eu haddyſgu yn ddigonol yn Egwyddorion y ffydd Griſtianogol, ac fel y galler eu cynghori i ymbarottŵi trwy weddiau ac ympryd i gymmeryd y Sacrament bendigedig hwn.

¶ Ac o's bwy a gaffer yn gymhefur, yna bydded y Tadau-Bedydd a'r Mammau-Bedydd (a'r Bobl wedi ymgynnull ar y Sûl neu Ddydd-gŵyl pwyntiedig) barod i'w cyflwyno hwy wrth y Bedyddfan yn ebrwydd ar ôl yr ail Llith, naill ai ar y Foreuol neu 'r Brydnhawnol Weddi, megis yn noall y Curad y bernir yn gymmwys.

¶ A'r Offeiriad yn ſefyll yno, a ofyn, A fedyddiwyd yr un o'r rhai a gyflwynir yma, ai na ddo? *O's bwy a attebant,* Na ddo: *yna yr Offeiriad a ddywaid fel hyn.*

FY Anwyl garedigion, yn gymmaint ac ymddŵyn a geni pob dŷn mewn pechod, ac mai cnawd yw yr hyn a enir o gnawd, a'r rhai a ŷnt yn y cnawd ni allant ryngu bôdd Duw, namyn byw mewn pechod, gan wneuthur lliaws o bechodau priod; a bod ein Hiachawdwr Criſt yn dywedyd, na ddichon neb gael myned i mewn i Deyrnas Dduw, oddieithr ei ad-genhedlu a'i eni o newŷdd o ddwfr ac o'r Ysbryd Glân: Attolwg yr ŵyf i chwi alw ar Dduw Dâd, trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt, ar fod iddo o'i ddaionus drugaredd ganiattâu i'r *rhai hyn* y peth trwy nerth natur ni *allant* ddyfod iddo, gael *eu bedyddio* â dwfr ac â'r Ysbryd Glân, *a'u derbyn* i lân Eglwys Griſt, a bod yn *aelodau* bywiol o'r unrhyw.

¶ Yna y dywaid yr Offeiriad,

Gweddiwn.

(¶ A: yma y Gynnulleidfa oll a oſtyngant ar eu gliniau.)

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn o'th fawr drugaredd a gedwaiſt Noah a'i deulu yn yr Arch rhag eu cyfrgolli gan ddwfr; a hefyd a dywyſaiſt yn ddiangol blant yr Iſrael dy bobl trwy 'r môr côch, gan ar ŵyddocâu wrth hynny dy lân Fedydd; a thrwy Fedydd dy garedig Fâb Ieſu Griſt yn afon Iorddonen a ſanctteiddiaiſt yr elfen ddwfr er dirgel olchiad pechod ymaith: Attolygwn i ti âr dy aneirif drugareddau, edrych o honot yn drugarog ar dy *weiſion hyn*; *eu glanhâu, a'u* ſanctteiddio, â'r Ysbryd Glân, fel wedi *iddynt hwy* gael *eu gwared* oddi wrth dy lid, y derbynier *hwynt* i Arch Eglwys Griſt; a chan ſod yn gadarn mewn ffydd, yn llawen gan obaith, ac wedi ymwreiddio yngharîad perffaith, allu o *honynt* fordwyo felly dros donnau 'r bŷd trallodus hwn, fel y *delont* o'r diwedd i dir y bywyd tragywyddol, yno i deyrnaſu gyd â Thi heb drangc na gorphen, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog ac anfarwol Dduw, porth pob anghenog, noddwr pawb a gilio attat am gynhorthwy, bywyd y rhai a gredant, a chyfodiad y meirw; yr ŷm yn galw arnat dros y *dynion hyn*, ar *iddynt* yn dyfod i'th lân ſedydd, gael derbyn maddeuant *o'u pechodau*, trwy ad-enedigaeth yſbrydol. Derbyn *hwynt*, Arglwydd, megis yr addewaiſt trwy dy garedig Fâb, gan ddywedyd, Gofynwch, a rhoddir i chwi Ceiſiwch, a chwi a gewch; Curwch, ac fe a agorir i chwi: Felly yn awr dyro i ni, a ni yn gofyn; pâr i ni gael, a ni yn ceiſio; agor y porth i ni ſy 'n curo: fel y mwynhao 'r *dynion hyn* dragywyddol ſendith dy nefol olchiad, ac y *delont* i'r Deyrnas dragywyddol, yr hon a addewaiſt trwy Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Yna y Bobl a ſafant ar eu traed, a'r Offeiriad a ddywaid,

Gwrandêwch ar eiriau 'r Efengyl a yſgrifennodd Sant *Ioan* yn y drydedd bennod yn dechreu ar y wers gyntaf.

YR oedd dŷn o'r Phariſeaid, a'i enw Nicodemus, pennaeth yr Iuddewon. Hwn a ddaeth at yr Ieſu liw nêſ, ac a ddywedodd wrtho, Rabbi, nyni a ŵyddom mai dyſgawdwr ydwyt ti wedi dyfod oddi wrth Dduw; canys ni allai neb wneuthur y gwŷrthiau hyn yr ŵyt ti yn eu gwneuthur, oni bai fod Duw gyd ag ef. Ieſu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Yn wîr, yn wîr meddaf i ti, oddi eithr geni dŷn drachefn, ni ddichon efe weled Teyrnas Dduw. Nicodemus a ddywedodd wrtho, Pa fôdd y dichon dŷn ei eni ag efe yn hên? A ddichon efe fyned i grôth ei fam eilwaith, a'i eni; Ieſu a attebodd ac a ddywedodd, Yn wîr, yn wîr, meddaf i ti, oddi eithr geni dŷn o ddwfr ac o'r Ysbryd, ni ddichon efe fyned i mewn i Deyrnas Dduw. Yr hyn a aned o'r cnawd, ſydd gnawd: a'r hyn a aned o'r Ysbryd, ſydd ysbryd. Na ryfedda ddywedyd o honoſi wrthyt, Y mae 'n rhaid eich geni chwi drachefn. Y mae 'r gwynt yn chwŷthu lle mynno, a thi a glywi ei ſŵn ef, ond ni ŵyddoſt o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned: Felly y mae pob un a'r a aned o'r Ysbryd.

¶ Gweddi hyn efe a ddywaid y Cynghor hwn yn canlyn.

YCaredigion, chwi a glywch yn yr Efengyl hon eiriau eglur ein Hiachawdwr Criſt, Oddi eithr geni dŷn o ddwfr ac o'r Ysbryd, na ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw. O hyn y gellwch weled mawr angenrheidrwydd y Sacrament hwn, lle galler ei gael. Yr un wêdd yn ebrwydd o flaen ei Eſgyniad i'r Nêf, (megis y darllenwn yn y bennod ddiweddaf o Efengyl Sant Marc) efe a roddes orchymmyn i'w Ddiſgyblion, gan ddywedyd, Ewch i'r holl fŷd, a phregethwch yr Efengyl i bob Creadur. Y neb a gredo ac a fedyddier, a fydd cadwedig; eithr y neb nid credo,

a gondemnir. Hyn hefyd ſydd yn dangos i ni y diſrifawr leſâd a tedwn o hynny. O herwŷdd paham Sant Pedr yr Apoſtol, pan wrth ei bregethiad cyntaf yr Eſengyl, y dŵys-bigwyd llaweroedd yn eu calon, ac y dywedaſant wrtho ef a'r Apoſtolion eraill, Ha wŷr frodyr, Beth a wnâwn ni? a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Edifarhêwch, a bedyddier pob un o honoch er maddeuant pechodau, a chwi a dderbyniwch Ddawn yr Ysbryd Glân. Canys i chwi y mae 'r addewid, ac i'ch Plant, ac i hawb ym mhell, ſef, cynnifer ag a âlwo 'r Arglwydd ein Duw ni. Ac â llawer o ymadroddion eraill y cynghorodd efe hwynt, gan ddywedyd, Ymgedwch rhag y genhedlaeth drofaus hon. Canys (megis y tyſtiolaetha 'r un Apoſtol mewn màn arall) Bedydd hefyd ſydd yr awrhon yn ein hachub ni, (nid bwrw ymaith fudreddi 'r cnawd, eithr ymatteb cydwybod dda tu ag at Dduw) trwy Adgyfodiad Iefu Grift. Nac amheuwch gan hynny, eithr credwch yn ddifrif, y cymmer efe yn ammeleddgar y *rhai* preſennol *hyn*, y ſy' wir edifeiriol, ac yn dyfod atto trwy ffydd; y caniattâ efe *iddynt* faddeuant *o'u pechodau*, ac y dyry *iddynt* yr Ysbryd Glân; y rhydd *iddynt* fend.th y bywyd tragywyddol, ac *a'u* gwnâ *hwy* yn gyfrannogion o'i ddidrangc Deyrnas.

O herwŷdd pa ham, a ni yn credu fel hyn am ewyllys da ein Tâd nefol tu ag at y *rhai hyn*, a amlygir trwy ei Fâb ef Iefu Grift; Diolchwn yn ffyddlon ac yn ddefoſiynol iddo, a dywedwn,

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, Nefol Dâd, yr ŷm ni yn oſtyngedig yn diolch i ti, fod yn wiw gennyt ein galw i wŷbodaeth dy râs, a ffydd ynot; ychwanega yr wŷbodaeth hon, a chadarnhâ 'r ffydd hon ynom yn waſtad. Dyro dy Ysbryd glân i'r *rhai hyn*, fel y ganer *hwynt* eilwaith, *a'u gwneuthur* yn *etifeddion* Iechyd tragywyddol, trwy ein Harglwydd Iefu Grift, yr hwn ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu gyd â thi a'r Ysbryd Glân, yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

¶ Yna y dywaid yr Offeiriad wrth y rhai a ſ'nt i'w bedyddio, yn y môdd hyn.

CHwychwi *Garedigion*, *y rhai* a ddaethoch yma yn deiſyf cael derbyn Glân Fedydd, a glywſoch y mòdd y gweddiodd y Gynnulleidfa, ar fod yn wiw gan ein Harglwydd Iefu Grift eich derbyn chwi a'ch bendithio, faddeu i chwi eich pechodau, rhoddi i chwi deyrnas Nêf, a bywyd tragywyddol: Chwi a glywſoch hefyd ddarfod i'n Harglwŷdd Iefu Grift addaw yn ei ſanctteiddlan Air ganiattâu yr holl bethau hyn a weddïaſom am danynt; yr hwn addewid efe o'i rân ef a'i ceidw yn wir ddiogel ac a'i cwblhâ.

Herwŷdd pa achos yn ôl yr addewid hyn a wnaeth Criſt, rhaid i chwi hefyd yn ffyddlon o'ch rhan chwithau addaw yngŵydd y rhai hyn eich tyſtion, a cher bron yr holl Gynnulleidfa hon, Ymwrthod â Diafol a'i holl weithredoedd, ac yn waſtad credu gwŷnfydedig Air Duw, ac yn ufudd cadw ei orchymynion.

¶ Yna y gofyn yr Offeiriad i'r rhai a ddaethant i'w bedyddio, bob yn un, yr ymofynion hyn i ſod.

Gofyniad.

AYdwyt ti yn ymwrthod â diafol, ac â'i holl weithredoedd, coeg-rodres, a gwâg-orfoledd y bŷd, a'i holl chwantau cybyddus, ac anysbrydol ewyllys y cnawd, ſel na ddilynech hwynt, ac na'th dywyſer ganddynt?

Atteb. Yr ydwyf yn ymwrthod â hwynt oll.

Gofyniad.

AWyt ti yn credu yn Nuw Dâd Holl-gyfoethog, Creawdwr nêf a daear?

Ac yn Iefu Grift ei unig-anedig Fâb ef, ein Harglwydd ni? A'i genhedlu o'r Ysbryd Glân; Ei eni o Fair Forwyn; iddo ddioddef dan Bontius Pilatus, ei groes-hoelio, ei farw, a'i gladdu; diſgyn o hono i uffern, a'i gyfodi hefyd y trydydd dŷdd; ac eſgyn o hono i'r nefoedd, a'i fod yn eiſtedd ar ddeheu-law Dduw Dâd Holl-alluog; ac y daw efe oddi yno yn niwedd y bŷd, i farnu byw a meirw?

Ac a wyt ti yn credu yn yr Ysbryd Glân; yr Eglwys lân Gatholig; Cymmun y Saint; maddeuant pechodau; adgyfodiad y cnawd; a bywyd tragywyddol gwedi angau?

Atteb. Hyn oll yr ŵyf yn ei gredu yn ddilys.

Gofyniad.

AFynni dy fedyddio yn y ffydd hon?

Atteb. Hynny yw fy ewyllys.

Gofyniad.

AGedwi dithau gan hynny yn ufudd lân ewyllys Duw a'i orchymynion, gan rodio yn yr unrhyw holl ddyddiau dy fywyd?

Atteb. Mi a ymegnïaf ar wneuthur felly, a Duw yn gynnorthwywr i mi.

¶ Yna y dywaid yr Offeiriad,

ODrugarog Dduw, caniattâ felly gladdu 'r hên Adda yn y *rhai hyn*, fel y cyfoder y dŷn newŷdd *ynddynt hwy*. *Amen.*

Caniattâ fod i holl chwantau 'r cnawd farw *ynddynt*, ac i bob peth a berthyn i'r Ysbryd fyw a chynnyddu *ynddynt*. *Amen.*

Caniattâ fod *iddynt* nerth a gallu i gael yr oruchafiaeth, a'r gorfod yn erbyn diafol, y bŷd, a'r cnawd. *Amen.*

Caniattâ fod *iddynt*, wedi *eu cyfiegru* yma i ti trwy ein Swydd a'n Gweinidogaeth ni, fod hefyd yn gynnyſgaeddol o rinweddau nefol, a chael *eu tragywyddol* obrwyau trwy dy drugaredd, O fendigedig Arglwydd Dduw, yr hwn ŵyt yn byw ac yn llywiaw pob peth, yn oes oeſoedd. *Amen.*

HOll-gyfoethog fyth-fywiol Dduw, yr hwn y bu i'th garediccaf Fâb Iefu Grift, dros faddeuant o'n pechodau, oddef gollwng o'i werthfawroccaf yſtlys ddwfr a gwaed, a rhoddi gorchymmyn i'w ddiſgyblion fyned a dyſgu pob cenedl, a'u bedyddio yn Enw 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Ysbryd Glân: Yſtyria, attolwg i ti, wrth weddiau dy Gynnulleidfa; ſanctteiddia 'r dwfr hwn er dirgel olchedigaeth pechodau; a chaniattâ fod i'r *rhai hyn* a fedyddir yr awrhon ynddo, dderbyn cyflawnder dy râs, ac aros byth yn nifer dy ffyddlon blant etholedig, trwy Iefu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Yna 'r Offeiriad a gymmer bob un o'r rhai a fedyddier gerfydd ei lâw ddehau, a chan ei ſod ef yn gyffiau ger llaw 'r Bedyddfan, mòdd y gwelo oreu, a o'yn i'r Tadau-Bedydd ac i'r Mammau-Bedydd yr Enw; Ac yna efe a'i trocha yn y dwfr, neu a dywallt ddwfr arno ef gan ddywedyd,

NYr ŵyfi yn dy fedyddio di yn Enw 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Ysbryd Glân. *Amen.*

¶ Yna y dywaid yr Offeiriad,

YR ydym ni yn derbyn y *Dŷn* yma i gynnulleidfa defaid Criſt, ac yn ei * nodi *ef* ag arŵydd y grôg, yn arwyddocâd na bo *iddo* rhag llaw gymmeryd yn gywilydd gyffeſu ffydd Criſt a groes-hoeliwyd, ac *iddo* ymladd yn wrol dan ei faner ef, yn erbyn pechod, y bŷd, a'r cythraul; a pharhâu yn *filwr* ffyddlon ac yn *wâs* i Criſt, hyd ddydd ei *farwolaeth*. *Amen.*

* *Yna yr Offeiriad a wnâ groes ar nhalcen y dŷn.*

¶ Yna

¶ *Yna y dywaid yr Offeiriad.*

GAn ddarfod yn awr, garedigion frodyr, ad-eni, a dodi y *Dynion hyn* ynghorph Eglwys Criſt, diolchwn ninnau i'r Holl-alluog Dduw am ei ddaioni hyn, ac o gyd-undeb gwnâwn ein gweddiau ar y Goruchaf Dduw, ar fod *iddynt* ddiweddu y rhan arall *o'u bywyd* yn ôl hyn o ddechreuad.

¶ *Yna y dywedir, a pharwb ar eu gliniau,*

EIn Tâd, yr hwn ŵyt yn y nefoedd, ſancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, Fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth: Eithr gwared ni rhag drwg. *Amen.*

YR ŷm ni yn oſtyngedig yn diolch i ti, Nefol Dâd, fod yn wiw gennyt ein galw i ŵybodaeth dy Râs, a ffŷdd ynot? Ychwanega 'r ŵybodaeth hon, a chadarnhâ 'r ffŷdd hon ynom yn waſtad. Dyro dy Ysbryd glân i'r *rhai hyn*, fel yn awr gwedi *eu geni* eilwaith, *a'u gwneuthur* yn *etifeddion* iechyd tragywyddol trwy ein Harglwydd Ieſu Criſt, y *parhaont* yn *weiſion* i ti, ac y *mwynhaont* dy addewidion, trwy 'r un ein Harglwydd Ieſu Criſt dy Fâb, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyd â thi yn undod yr unrhyw Ysbryd Glân yn dragywydd. *Amen.*

¶ *Yna, a pharwb yn eu ſefyll, yr Offeiriad a edrydd y Cyngbor bwn iſod; gan ddywedyd yn gyntaf wrth y Tadau-Bedydd a'r Mammau-Bedydd.*

YN gymmaint a darfod *i'r Rbai hyn* addo yn eich gŵydd chwi, ymwrthod â Diafol a'i holl weithredoedd, Credu yn Nuw, a'i waſanaethu eſ; rhaid i chwi feddwl mai eich rhan a'ch Dyled chwi yw dwyn ar gôf *iddynt*, pa ryw hynod adduned, addewid, a phroffes a *wnaethant* yr awrhon ger bron y Gynnulleidfa hon, ac yn enwedig ger eich bron chwi *eu tyſtion* etholedig. A Chwi hefyd a elwch *arnynt*, i arferu pob dyfalwch i gael *eu baddyſgu* yn iawn yn ſanctteiddlan Air Duw; fel y *cynnyddont* ſelly mewn Grâs, ac yngŵybodaeth ein Harglwydd Ieſu Criſt, ac y *byddont* byw yn Dduwiol, yn uniawn, ac yn ſobr yn y bŷd preſennol hwn.

(¶ *Ac yna gan leſaru wrth y rhai newŷdd fedyddio, efe a â rhagddo, ac a ddywaid,*)

AC am a berthyn i chwi, *y rhai* yr awrhon yn eich Bedydd a arwiſgaſoch Criſt, eich rhan chwithau a'ch dyled yw, gan eich bod wedi eich gwneuthur yn *blant* i Dduw a'r Goleuni trwy ffŷdd yn Ieſu Criſt, rhodio yn gyſattebol i'ch galwedigaeth Criſtianogol, ac megis y gweddai i blant y goleuni; gan gofio yn waſtad, fod Bedydd yn arwyddocâu i nyni ein proffes; hynny yw, bod i ni ganlyn eſampl ein Hiachawdwr Criſt, a'n gwneuthur yn gyffelyb iddo eſ; fel megis ag y bu efe farw, ac y cyſododd dracheſn droſom ni; felly y dylem ni y rhai a fedyddiwyd, farw oddi wrth bechod, a chyfodi i gyfiawnder, gan farwolaethu yn waſtad ein holl ddrygioni, a'n gwŷniau llygredig, a pheunydd myned rhagom ym mhob rhinwedd dda, a buchedd dduwiol.

¶ *Dir yw i bob un a fedyddier fel hyn, gael ei Gonffirmio gan yr Eſgob cyn gynted ag y gallo yn gymmwys ar ôl ei Fedydd, fel y bo rhŷdd iddo felly ddyſod i'r Cymmun bendigedig.*

¶ *O's bydd dwyn neb o'r cyfryw na fedyddiwyd yn eu mebyd i'w bedyddio cyn dyfod i oedran pwyll i fedru atteb droſtynt eu hunain; digon fydd arfer Gwaſanaeth Bedydd Cyhoedd plant bychain, neu (ar ddygnaf berygl) Waſanaeth Bedydd Neilldnol, gan newid rhyw eiriau fel y bo'r achos yn gofyn.*

Y CATECISM; hynny yw Athrawiaeth i'w dyſgu gan bob Plentyn, cyn ei ddwyn i'w gonffirmio gan yr Eſgob.

Gofyniad.

BEth yw dy enw di?

Atteb. N. neu M.

Gofyn. Pwy a roddes yr enw hwnnw arnat ti?

Atteb. Fy Nhadau-bedydd, a'm Mammau-bedydd wrth fy medyddio, pan y'm gwnaethpwyd yn aelod i Criſt, yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd Teyrnas nefoedd.

Gofyn. Pa beth a wnaeth dy Dadau-bedydd a'th Fammau-bedydd yr amſer hwnnw droſot ti?

Atteb. Hwy a addawſant, ac a addunaſant dri pheth yn fy enw. Yn gyntaf, ymwrthod o honof â diafol a'i holl weithredoedd; rhodres a gorwagedd y bŷd anwir hwn; a holl bechadurus chwantau 'r cnawd. Yn ail, bod i mi gredu holl byngciau ffydd Criſt. Ac yn drydydd, cadw o honof wŷnfydedig ewyllys Duw a'i orchymynion, a rhodio ynddynt holl ddyddiau fy mywyd.

Gofyn. Onid ŵyt ti yn tybied dy fod yn rhwymedig i gredu, ac i wneuthur megis yr addawſant hwy droſot ti?

Atteb. Ydwyf yn wir, a thrwy nerth Duw felly y gwnâf. Ac yr ŵyfi yn mawr ddiolch i'n Tâd nefol, am iddo fy ngalw i gyfryw yſtâd Iechydwriaeth, trwy Ieſu Criſt ein Hiachawdwr. Ac mi a attolygaf i Dduw roddi i mi ei râs, môdd y gallwyf aros ynddo holl ddyddiau fy einioes.

Catec. Adrodd i mi Fammau dy ffŷdd.

Atteb.

CRedaf yn Nuw Dâd Holl-gyfoethog, Creawdr nêf a daear:

Ac yn Ieſu Criſt ei un Mâb eſ, ein Harglwydd ni; yr hwn a gaed trwy yr Yſbryd Glân, a aned o Fair Forŵyn, a ddioddefodd dan Pontius Pilatus, a groes-hoeliwyd, a fu farw ac a gladdwyd; A ddiſgynnodd i uffern; y trydydd dŷdd y cyſododd o feirw; A eſgynnodd i'r nefoedd, ac y mae yn eiſtedd ar ddeheulaw Dduw Dâd Holl-gyfoethog; Oddi yno y daw i farnu byw a meirw.

Credaf yn yr Yſbryd Glân; Yr Eglwys lân Gatholig; Cymmun y Saint; Maddeuant pechodau; Adgyfodiad ycnawd; A'r Bywyd tragywyddol. *Amen.*

Gofyn. Pa beth yr ŵyt ti yn ei ddyſgu yn bennaf yn y Pyngciau hyn o'th ffydd.

Atteb. Yn gyntaf, yr wŷf yn dyſgu credu yn Nuw Dâd, yr hwn a'm gwnaeth i, a'r holl fŷd.

Yn ail, yr ŵyf yn dyſgu credu yn Nuw Fâb, yr hwn a'm prynodd i, a phob rhyw ddŷn.

Yn drydydd, yr ŵyf yn dyſgu credu yn Nuw Yſbryd Glân, yr hwn ſydd y'm ſanctteiddio i, a holl etholedig bobl Dduw.

Gofyn. Ti a ddywedaiſt ddarfod i'th Dadau-bedydd a'th Fammau-bedydd addaw troſot ti, fod i ti gadw Gorchymynion Duw; Dywaid ddithau i mi, pa nifer ſydd o honynt?

Atteb. Deg.

Gofyn. Pa rai ydynt?

Atteb.

Y Rhai hynny a lefarodd Duw yn yr ugeinfed bennod o Ecſodus, gan ddywedyd, Myfi yw 'r Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddûg di ymaith o dir yr Aipht, o dŷ 'r caethiwed.

I. Na fydded i ti dduwiau eraill ond Myfi.

II. Na wnâ it' dy hun ddelw gerfiedig, na llûn dim ag y ſydd yn y nefoedd uchod, neu yn y ddaear iſod, nac yn y dwfr dan y ddaear. Na oſtwng iddynt, ac na addola hwynt: O blegid myfi yr Arglwydd dy Dduw ŵyf Dduw eiddigus, yn ymweled â phechodau 'r tadau ar y plant, hŷd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'm caſânt, ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant, ac a gadwant fy ngorchymynion.

III. Na chymmer Enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer: canys nid gwirion gan yr Arglwydd yr hwn a gymmero ei Enw ef yn ofer.

IV. Cofia gadw yn ſanctaidd y dŷdd Sabbath. Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnâi dy holl waith; Eithr y ſeithfed dŷdd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw: Ar y dŷdd hwnnw na wnâ ddim gwaith, tydi, na'th fâb, na'th ferch, na'th wâs, na'th forwyn, na'th anifail, na'r dŷn dieithr a fyddo o fewn dy byrth. Canys mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd nêf a daear, y môr, a'r hyn oll ſydd ynddynt, ac a orphwyſodd y ſeithfed dŷdd. O herwŷdd pa ham y bendithiodd yr Arglwydd y ſeithfed dŷdd, ac a'i ſanctteiddiodd ef.

V. Anrhydedda dy dâd a'th fam, fel yr eſtynner dy ddyddiau ar y ddaear yr hon a rŷdd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

VI. Na lâdd.

VII. Na wnâ odineb.

VIII. Na ladratta.

IX. Na ddŵg gam-dyſtiolaeth yn erbyn dy gymmydog.

X. Na chwennych dŷ dy gymmydog, na chwennych wraig dy gymmŷdog, na'i wâs na'i forwyn, na'i ŷch, na'i aſyn, na dim a'r ſydd eiddo.

Gofyn. Beth yr ŵyt ti yn ei ddyſgu yn bennaf wrth y Gorchymynion hyn?

Atteb. Yr ydwyf yn dyſgu dau beth: fy nyled tu ag at Dduw, a'm dyled tu ag at fy nghymmydog.

Gofyn. Pa beth yw dy ddyled tu ag at Dduw?

Atteb. Fy nyled tu ag at Dduw, yw credu ynddo, ei ofni, a'i garu â'm holl gâlon, â'm holl feddwl, â'm holl enaid, ac â'm holl nerth; Ei addoli ef, diolch iddo, rheddi fy holl ymddiried ynddo, galw arno, anrhydeddu ei ſanctaidd Enw ef, a'i Air, a'i waſanethu yn gywir holl ddyddiau fy mywyd.

Gofyn. Pa beth yw dy ddyled tu ag at dy gymmydog?

Atteb. Fy nyled tu ag at fy nghymmydog, yw ei garu fel fi fy hun, a gwneuthur i bob dŷn megis y chwenychwn iddo wneuthur i minnau. Caru o honof, anrhydeddu, a chymmorth fy nhâd a'm mam. Anrhydeddu, ac ufuddhâu i'r Brenhin a'i ſwyddogion. Ymddaroſtwng i'm holl Lywiawdwŷr, Dyſgawdwŷr, Bugeiliaid ysbrydol, ac athrawŏn. Ymddwyn o honof yn oſtyngedig, gan berchi pawb o'm gwell. Na wnelwyf niweid i neb ar air, na gweithred. Bod yn gywir ac yn union ym mhob peth a wnelwyf. Cadw o honof fy nwylaw rhag chwilonna a lladratta, a'm tafod rhag dywedyd celŵydd, cabl-eiriau, na drwg abſen. Cadw fy nghorph mewn cymhedroldeb, ſobrwydd, a diweirdeb. Na chybyddwyf ac na ddeiſyfwyf dâ na golud neb arall; Eithr dyſgu a llafurio yn gywir, i geiſio ynnill fy mywyd, ac i wneuthur a ddylwyf, ym mha ryw fuchedd bynnag y rhyngo bodd i Dduw fy ngalw.

Catec. Fy anwyl blentyn, gŵybydd hyn yma, nâd ŵyt ti abl i wneuthur y pethau hyn o honot dy hun, nac i rodio yngorchymynion Duw, nac i'w waſanaethu ef, heb ei hysbyſol râs ef; yr hwn ſydd raid i ti ddyſgu yn waſtad ymoralw am dano trwy ddyfal weddi. Gan hynny moes i mi glywed a fedri di ddywedyd Gweddi yr Arglwydd.

Atteb.

EIn Tâd, yr hwn ŵyt yn y nefoedd; Sanctteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg *Amen.*

Gofyn. Pa beth yr ŵyt ti yn ei erchi ar Dduw yn y Weddi hon?

Atteb. Yr ydwyf yn erchi ar fy Arglwydd Dduw ein Tâd nefol, yr hwn yw rhoddwr pob daioni, ddanfon ei râs arnaf, ac ar yr holl bobl, fel y gallom ei anrhydeddu ef, a'i waſanaethu, ac ufuddhâu iddo megis y dylem. Ac yr ŵyf yn gweddïo ar Dduw, ddanfon i ni bob peth angenrheidiol, yn gyſtal i'n heneidiau, ac i'n cyrph; A bod yn drugarog wrthym, a maddeu i ni ein pechodau: A rhyngu bôdd iddo ein cadw a'n hamddiffyn ym mhob perygl yſbrydol a chorphorol: A chadw o hono nyni rhag pob pechod ac anwiredd, a rhag ein gelyn yſbrydol, a rhag angau tragywyddol. A hyn yr ydwyf yn ei obeithio y gwnâ efe o'i drugaredd a'i ddaioni, trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt: ac am hynny yr ŵyf yn dywedyd, Amen, Poed gwîr.

Gofyniad.

PA ſawl Sacrament a ordeiniodd Criſt yn ei Eglwys?

Atteb. Dau yn unig, megis yn gyffredinol yn anghenrhaid i Iechydwriaeth, ſef, Bedydd, a Swpper yr Arglwydd.

Gofyn. Pa beth yr ŵyt ti yn ei ddeall wrth y gair hwn *Sacrament?*

Atteb. Yr ŵyfi yn deall Arŵydd gweledig oddi allan, o râs yſbrydol oddi fewn, a roddir i ni; yr hwn a ordeiniodd Criſt ei hun, megis môdd i ni i dderbyn y grâs hwnnw trwyddo, ac i fod yn ŵyſtl i'n ſicrhâu ni o'r grâs hwnnw.

Gofyn. Pa ſawl rhân y ſydd mewn Sacrament?

Atteb. Dŵy; yr arŵydd gweledig oddi allan, a'r grâs yſbrydol oddi fewn.

Gofyn. Pa beth yw 'r arŵydd gweledig oddi allan, neu 'r ffurf yn y Bedydd?

Atteb. Dwfr: yn yr hwn y bedyddir un, *Yn enw 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Yſbryd Glân.*

Gofyn. Pa beth yw 'r grâs yſbrydol oddi fewn?

Atteb. Marwolaeth i bechod, a genedigaeth newŷdd i gyfiawnder; Canys gan ein bod ni wrth naturiaeth wedi ein geni mewn pechod, ac yn blant digoſaint, trwy Fedydd y gwnâir ni yn blant grâs.

Gofyn. Pa beth a ddiſgwylir gan y rhai a fedyddier?

Atteb. Edifeirwch, trwy 'r hon y maent yn ymwrthod â phechod: A Ffydd, trwy 'r hon y maent yn ddiyſgog yn credu addewidion Duw, y rhai a wnâir iddynt yn y Sacrament hwnnw.

Gofyn. Pa ham wrth hynny y bedyddir plant bychain, prŷd na's gallant o herwŷdd eu hieuengtid gyflawni 'r pethau hyn?

Atteb. O blegid eu bod yn addaw pob un o'r ddau trwy eu mechniau: yr hwn addewid pan ddelont i oedran, y maent hwy eu hunain yn rhwym i'w gyflawni.

Gofyn. Pa ham yr ordeiniwyd Sacrament Swpper yr Arglwydd?

Atteb. Er mwyn tragywyddol gôf am aberth dioddefaint marwolaeth Criſt, a'r lleſâd yr ydym ni yn ei dderbyn oddi wrtho.

Gofyn. Pa beth yw y rhân oddi allan, neu 'r arŵydd, yn Swpper yr Arglwydd?

Atteb.

Atteb. Bara a gwîn, y rhai a orchymynodd yr Arglwydd eu derbyn.

Gofyn. Pa beth yw y rhàn oddi fewn, neu 'r peth a arwyddocêir?

Atteb. Corph a gwaed Criſt, y rhai y mae 'r ffyddloniaid yn wîr ac yn ddiau yn eu cymmeryd ac yn eu derbyn, yn Swpper yr Arglwydd.

Gofyn. Pa leſàd yr ydym ni yn ei gael wrth gymmeryd y Sacrament hwn?

Atteb. Cael cryfhâu a diddanu ein heneidiau trwy Gorph a Gwaed Criſt, megis y mae 'n cyrph yn cael trwy 'r bara a'r gwîn.

Gofyn. Pa beth ſy' raid i'r rhai a ddêl i Swpper yr Arglwydd ei wneuthur?

Atteb. Eu holi eu hunain, a ydynt hwy yn wîr edifeiriol am eu pechodau a aeth heibio, ac yn ſicr amcanu dilyn buchedd newŷdd; a oes ganddynt ffydd fywiol yn nhrugaredd Dduw trwy Criſt, gyd â diolchus gôf am ei angau ef, ac a ydynt hwy mewn cariad perffaith â phob dŷn.

¶ *Bid y Curad pob plwyf yn ddieſgeulus ar y Suliau a'r Gŵyliau, ar ôl yr ail llith o'r Gosber, ddyſgu ar oſteg yn yr Eglwys, a holi cynnifer o blant ei Blwyf ag a ddanfoner atto, megis y tybio eſe ſod yn gymbeſur yn rhyw barth o'r Cateciſm hwn.*

¶ *A bid i bob tâd, a mam, a phob perchen tylwyth beri i'w plant, i'w gwaſanaeth-ddynion, ac i'w Prentiſiaid, (y rhai ni ddyſgaſant eu Cateciſm) ddyſod i'r Eglwys ar yr amſer goſodedig, a gwrando yn ufudd, a bod wrth lywodraeth y Curad, hŷd oni ddarffo iddynt ddyſgu pob peth ag y ſydd yma wedi ei oſod i'w ddyſgu ganddynt.*

¶ *Er cynted ag y deuo Plant i oedran cymhedrol, ac y medront ddywedyd yn iaith eu mam, Fannau 'r ffŷdd, Gweddi yr Arglwydd, y Deg Gorchymmyn; a hefyd medru o honynt atteb i ymofynion eraill y Cateciſm hŷr yma; Yna y dygir hwy at yr Eſgob. Ac i bob un o honynt y bydd Tâd-bedydd, neu Fam-ſedydd, megis yn Dŷſt o'u Confirmaſiwn.*

¶ *A pha brŷd bynnag y rhoddo yr Eſgob hysbyſrwydd am ddwyn plant atto, i'w Confirmio, Curad pob plwyf a ddûg neu a ddenſyn yn yſgrifennedig dan ei lâw, enwau y rhai oll o fewn ei blwyf, ag a dybio eſe ſod yn gymmwys i'w cyflwyno i'r Eſgob, i'w Confirmio. Ac o's yr Eſgob a'u gwâl hwynt yn gymmeradwy, eſe a'u Confirmia hwynt yn y dreſn yn canlyn.*

Trefn CONFFIRMASIWN, neu Arddodiad Dwylaw ar y ſawl a fedyddiwyd, ac a ddaethant i oedran pwyll.

¶ *Ar y dŷdd pwyntiedig, wedi goſod yn eu lle cynnifer ag a fo y prŷd hynny i'w Confirmio, ac yn ſefyll mewn treſn o flaen yr Eſgob; eſe (neu ryw Weinidog arall pwyntiedig ganddo ef) a ddarllyn y Rhag-ymadrodd hwn y ſydd yn canlyn.*

ER mwyn bod miniſtrio Conffirmaſiwn er mwy o adeilad i'r ſawl a'i derbynio, tybiodd yr Eglwys yn dda drefnu na bo Conffirmio neb rhag llaw, ond y cyfryw ag a fedro ddywedyd y Credo, Gweddi 'r Arglwydd, a'r Deng-air deddf; ac a fedro hefyd atteb i gyfryw ymofynion eraill ag a gynhwyſir yn y Cateciſm byrr. Yr hon Drefn fydd weddus iawn ei chadw, er gallu o'r Plant wedi eu dyſod weithian i oedran ſynŵyr, ac wedi dyſgu y pethau a addawſai eu Tadau-bedydd a'u Mammau-bedydd droſtynt wrth eu bedyddio, eu hun, a'u genau eu hunain, ac o'u cŷd-ſyniad eu hunain, ar oſteg yngŵydd yr Eglwys, gadarnhâu a chonffirmio yr unrhyw; a hefyd addaw trwy Râs Duw yr ymegniant yn waſtad i gadw yn ffyddlon y cyfryw bethau ag a fu iddynt hwy â'u cyffes eu hunain gŷd-ſynnio arnynt.

¶ *Yna y dywaid yr Eſgob,*

A Ydych chwi yma, yngŵydd Duw a'r Gynnulleidfa hon, yn adnewyddu yr addewid parchus, a'r adduned a wnaethpwyd yn eich enw chwi wrth eich Bedyddio; gan gadarnhâu a chonffirmio yr unrhyw eich hunain, a chan gydnabod eich bod eich hunain yn rhwymedig i gredu a gwneuthur yr holl bethau a addawödd eich Tadau-bedydd a'ch Mammau-bedydd yna drofoch chwi?

¶ *A phob un a ettyb yn glywedoz,*

Yr ydwyf.

Eſgob.

EIn porth ni y ſydd yn Enw yr Arglwydd;

Atteb. Yr hwn a wnaeth nêf a daear.

Eſgob. Bendigaid yw Enw yr Arglwydd:

Atteb. O hyn hŷd yn oes oeſoedd.

Eſgob. Arglwydd gwrando ein gweddïau.

Atteb. A deued ein llêf hŷd attat.

Eſgob. Gweddiwn.

HOll-alluog a byth-fywiol Dduw, yr hwn fu wiw gennyt ad-genhedlu dy weiſion hyn trwy ddwfr, a'r Yſbryd Glân, ac a roddaiſt iddynt faddeuant o'u holl bechodau; nertha hwy, ni a attolygwn i ti, Arglwydd, â'th Ysbryd Glân y Diddanwr: A pheunydd ychwanega ynddynt amI ddoniau dy râs, Yſbryd doethineb a deall, Yſbryd cyngor a nerth ysbrydol, Ysbryd gŵybodaeth a gwîr ddduwioldeb: A chyflawna hwy, Arglwydd, ag Ysbryd dy ſanctaidd oſn, yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

¶ *Yna, a phob un o honynt yn ei dreſn yn goſtwng ar ei liniau ger bron yr Eſgob, eſe a ddŷd ei lâw ar ben pob un, gan ddywedyd,*

AMddiffyn, Arglwydd, dy blentyn hwn [neu *dy wâs hwn*] â'th râs nefol, ſel y byddo iddo barhâu yn eiddot ti byth: a pheunydd gynnyddu yn dy Ysbryd Glân ſwyſwy, hŷd oni ddêl i'th Deyrnas dragywyddol. *Amen.*

¶ *Yna y dywaid yr Eſgob,*

Yr Arglwydd a ſo gyd â chwi:

Atteb. A chyd â'th Ysbryd dithau.

¶ *Ac (a phawb ar eu gliniau) yr Eſgob a ddywaid yn rhagor.*

Gweddiwn.

EIn Tâd, yr hwn ŵyt y ny nefoedd; Sanctaiddier dy Enw, Deued dy deyrnas, Bid dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledŵyr. Ac nac arwain ni i broſedigaeth: Eithr gwared ni rhag drŵg. *Amen.*

¶ *A'r Colect hwn.*

HOll-alluog a byth-fywiol Dduw, yr hwn ŵyt yn peri i ni ewyllyſio a gwneuthur yr hyn ſydd dda ac yn gymmeradwy gan dy Dduwiol Fawredd; Yr ydym yn gwneuthur ein goſtyngedig erfynion attat dros dy weiſion hyn, y rhai (yn ôl eſampl dy ſanctaidd Apoſtolion) y goſodaſom yr awrhon ein dwylaw arnynt, i'w ſicrhâu hwy, trwy

yr

yr arwydd hon, fod dy amgeledd a'th radlawn ddaioni tu ag attynt: Bydded dy Dadol lâw, ni a attolygwn i ti byth arnynt; yr hwn gyd â thi, a'r Ysbryd Glân byth gyd â hwy; ac felly tywys hwy yng-wybodaeth ac ufudd-dod dy Air, modd y gallont yn y diwedd fwynhâu bywyd tragywyddol, trwy ein Harglwydd Iesu Grist; yr hwn gyd â thi, a'r Ysbryd Glân fydd yn byw ac yn teyrnasu byth yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

HOll-alluog Arglwydd, a thragywyddol Dduw, ni a attolygwn i ti fod yn wiw gennyt unawnu, fancteiddio, â llywodraethu ein calonnau a'n cyrph yn ffyrdd dy ddeddfau, ac yngweithredoedd dy orchymynion, megis trwy dy gadarnaf nodded, yma ac yn dragywyddol, y bôm yn gadwedig gorph ac enaid, trwy ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. *Amen.*

¶ *Yna y bendithia 'r Esgob bwynt, gan ddywedyd hyn,*

BEndith yr Holl-alluog Dduw, y Tâd, y Mâb, a'r Ysbryd glân, a fyddo arnoch, ac a drigo gyd â chwi yn dragywydd. *Amen.*

¶ *Ac ni dderbynir neb i'r Cymmun Sanctaidd, nes iddo gael ei gonfirmio, neu fod o hono yn barod ac yn ewyllysgar i'w gonfirmio.*

Ffurf Gweinidogaeth PRIODAS.

¶ *YN gyntaf rhaid yw gosyn Gostegion pob rhai a brioder, yn yr Eglwys ar dri Sûl gwahanredol neu Wyliau ar bryd Gwasanaeth Duw, yn ebrwydd o flaen y Sentensiau i'r Offrymmiaeth, a'r Curad yn dywedyd yn y modd arferedig,*

YR wyf yn cyhoeddi gostegion Priodas rhwng *M.* o----ac *N.* o----O gwyr neb o honoch achos neu rwystr cyfiawn, fel na ddylid cyssylltu y ddeuddyn hyn ynghŷd mewn glân Briodas, mynegwch ef: Dyma 'r waith gyntaf, [ail, *neu* 'r drydedd] o'u gosyn.

¶ *Ac o's y rhai a fynnant eu priodi a fydd yn trigo mewn anrafael blwyfau, rhaid yw gosyn y gostegion yn y ddau blwyf; ac na bo i Gurad y naill blwyf eu priodi hwy, nes cael bysbysrwydd ddarfod gosyn eu Gostegion dair gwaith gan Gurad y plwyf arall.*

¶ *Ar y dydd a'r amser gosodedig i fod y Briodas, deued y rhai a brioder i gorph yr Eglwys, â'u ceraint, a'u cymmydogion: ac yno gan sefyll ynghŷd, y mâb ar y llâw ddehau, a'r ferch ar yr asswy, yr Offeiriad a ddywaid.*

F'Anwŷl Garedigion, yr ŷm ni wedi ymgynnull yma yngolwg Duw, ac yn wyneb y Gynnulleidfa hon, i gyssylltu 'r ddeuddyn hyn ynghŷd mewn glân Briodas, yr hon y sydd Ystâd barchedig, wedi ei hordeinio gan Dduw yn amser diniweidrwydd dŷn, yn arwyddocâu i ni y dirgel undeb y sydd rhwng Crist a'i Eglwys; yr hon wynsyddedig ystâd a addurnodd ac a brydferthodd Crist â'i gymmrycholdeb ei hun, a'r gwyrthiau cyntaf a wnaeth efe yn Cana Galilea, ac a ddywedir hefyd gan Sant Paul ei bod yn anrhydeddus ym mhlith yr holl ddynion; Ac am hynny ni ddylai neb ei chymmeryd arno na'i gwneuthur mewn byrbwyll, o ysgafnder meddwl, neu nwyfiant, er mwyn digoni gwŷniau a chwantau cnawdol, fel anifeiliaid ysgrublaidd y rhai nid oes reswm ganddynt; eithr yn barchedig, yn bwyllog, yn ystyriol, yn fobr, ac mewn ofn Duw, gan ddyledus fyniaw er mwyn pa achosion yr ordeiniwyd Priodas.

Yn gyntaf, hi a ordeiniwyd er ynnill plant, i'w meithrin yn ofn ac addysg yr Arglwydd, ac er moliant i'w Enw fanctaidd ef.

Yn nail, hi a ordeiniwyd yn ymwared yn erbyn pechod, ac i ymogelyd rhag godineb, megis ag y byddo i'r cyfryw rai nad oes iddynt roddiad i ymgynnal, allu priodi, a'u cadw eu hunain yn ddihalogion ae'odau corph Crist.

Yn drydydd, hi a ordeiniwyd er cŷd-gymdeithas â'u gilydd, a'r eymmorth a'r diddanwch a ddylai 'r naill ei gael gan y llall, yn gystal mewn hawddfyd ac adfyd: I'r hon fanctaidd ystâd y mae 'r ddeuddyn bresennol hyn wedi dyfod yr awrhon i ymgyssylltu. Herwŷdd pa ham o's gwyr neb un achos cyfion, fel na ellir yn gyfreithlon eu cyssylltu hwy ynghŷd, dyweded yr awr hon, neu na ddyweded byth rhag llaw.

¶ *A chan grybwyll hefyd wrth y rhai a brioder, efe a ddywaid,*

YR wyfi yn erchi ac yn gorchymmyn i chwi (fel y bo i chwi atteb ddydd y farn ofnadwy, pan gyhoedder dirgelion pob calon) o gwyr yr un o honoch un anach fel na ddylech yn gyfreithlawn fyned ynghŷd mewn priodas, gyffesu o honoch yr awr hon. Canys gwybyddwch yn dda, am gynnifer ag a gyssyllter yn amgen nag y myn Gair Duw, na's cyssylltir hwy gan Dduw, ac nad yw eu priodas yn gyfreithlawn.

¶ *Ar ddydd y briodas, o bydd i neb bonni a dywedyd bod un anach na ddylent gael lêu cyssylltu mewn priodas, wrth gyfraith Duw, neu gyfreithiau 'r Deyrnas hon, ac a ymrwyma â meichiau digonol gyd ag ef i'r pleidiau, neu ynte roddi gwŷstl (am gwbl ag a dâl cymmaint a cholled y rhai a fo i'w priodi,) i brofi ei ddadl: yna y bydd rhaid oedi dydd y briodas hyd yr amser y treier y gwirionedd.*

¶ *Ac oni bonnir un anach, yna y dywaid y Curad wrth y gŵr,*

NA fynni di y ferch hon yn wraig briod i ti, i fyw ynghŷd yn ôl ordinhâd Duw, ynglân râdd priodas? A geri di hi, ei diddanu, ei pherchi a'i chadw yn glâf ac yn iâch, a gwrthod pob un arall, a'th gadw dy hun yn unig iddi hi, tra fyddoch byw eich deuoedd?

¶ *Y Mâb a ettyb,*

Gwnâf.

¶ *Yna y dywaid yr Offeiriad wrth y Ferch,*

NA fynni di y mâb hwn yn wr priod i ti, i fyw ynghŷd yn ôl ordinhâd Duw, ynglân Ystâd priodas? A ufuddhâi di iddo a'i wasanaethu, ei garu, ei berchi, a'i gadw yn glâf ac yn iâch, a chan wrthod pawb eraill, dy gadw dy hun yn unig iddo ef, cyhyd ag y byddoch byw eich deuoedd?

¶ *Y Ferch a ettyb,*

Gwnâf.

¶ *Yna y dywaid y Gweinidog,*

Pwy fydd yn rhoddi 'r ferch hon i'w phriodi i'r mâb hwn?

¶ *Yna y rhoddant eu Crâd i'w gilydd y mâdd hyn.*

¶ *Y Gweinidog, gan dderbyn y ferch o law ei thâd neu ei cheraint, a bair i'r Mâb â'i law ddehau gymmeryd y Ferch erbyn ei llâw ddehau; a dywedyd ar ei ôl ef, fel y mae yn canlyn.*

YR ydwyfi *N.* yn dy gymmeryd di *N.* yn wraig briod i mi, i gadw a chynnal, o'r dydd hwn allan, er gwell, er gwaeth, er cyfoethocach, er tlottach, yn glâf ac yn iâch, i'th garu ac i'th fawrhâu,

hâu, hŷd pan y'n gwahano angau, yn ôl glân ordinhâd Duw; ac ar hynny yr ydwyf yn rhoddi i ti fy nghrêd.

¶ *Yna y dattodant eu dwylaw, a'r ferch â'i llâw ddehau yn cymmeryd y Mâb erbyn ei lâw ddehau, a ddywaid ar ôl y Gweinidog*;

YR ŵyfi *N.* yn dy gymmeryd di *N.* yn ŵr priod i mi, i gadw a chynnal, o'r dŷdd hwn allan, er gwell, er gwaeth, er cyfoethoccach, er tlottach, yn glâf ac yn iâch, i'th garu, i'th fawrhâu, ac i ufuddhâu i ti, hŷd pan y'n gwahano angau, yn ôl glân ordinhâd Duw; ac ar hynny y rhoddaf i ti fy nghrêd.

¶ *Yna drachefn y gollyngant eu dwylaw yn rhyddion, ac y dyry y Mâb fodrwy i'r ferch, gan ei dodi ar y llyfr, ynghŷd â'r ddyled ddefodol i'r Offeiriad a'r Clochydd. A'r Offeiriad a gymmer y Fodrwy, ac a'i dyry i'r Mâb, i'w gofod ar y pedwerydd bŷs i lâw aſſwy y Ferch. A'r Mâb gan ddâl y fodrwy yna, wrth addyſg yr Offeiriad, a ddywaid,*

A'R Fodrwy hon y'th briodaf, â'm corph y'th anrhydeddaf, ac â'm holl olud bydol y'th gynnyſgaeddaf, yn Enw 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Yſbryd Glân. *Amen.*

¶ *Yna y gâd y Mâb y fodrwy ar y pedwerydd bŷs o'r llâw aſſwy i'r Ferch, a bwy ill dau a oſtyngant ar eu gliniau, ac y dywaid y Gweinidog,*

Gweddïwn.

O Dragywyddol Dduw, Creawdr a Cheidwad pob rhyw ddŷn, rhoddwr pob rhâd yſbrydol, awdur y bywyd a bery byth; Anfon dy fendith ar dy waſanaeth-ddynion hyn, y mâb hwn a'r ferch hon, y rhai yr ŷm ni yn eu bendithio yn dy Enw di; fel ag y bu i Iſaac a Rebecca fyw yn ffyddlon ynghŷd, felly gallu o'r dynion hyn gyflawni a chadw yn ddiogel yr adduned a'r ammod a wnaed rhyngddynt, (am yr hyn y mae rhoddiad a derbyniad y Fodrwy hon yn arŵydd ac yn ŵyſtl) a gallu o honynt byth aros ynghŷd mewn perffaith gariad a thangnefedd, a byw yn ôl dy ddeddfau, trwy Ieſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna y cyſſyll'a 'r Offeiriad eu dwy lâw ddehau bwy ynghŷd, ac y dywaid,*

Y rhai a gyſſylltodd Duw ynghŷd, na wahaned dŷn.

¶ *Yna y dywaid y Gweinidog wrth y Bobl.*

YN gymmaint a darfod i *N.* ac *N.* gŷd-ſynniaw mewn glân Briodas, a thyſtiolaethu hynny ger bron Duw a'r Gynnulleidfa hon, ac ar hynny ddarfod iddynt ymgredu, ac ymŵyſtlo bob un i'w gilydd, a datgan hynny gan roddi a derbyn Modrwy, a chyſſylltu dwylaw; yr ŵyfi yn hyſbyſu, eu bod hwy yn ŵr ac yn wraig yr ghŷd; yn Enw 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Yſbryd Glân. *Amen.*

¶ *A'r Gweinidog a'u bendithia bwy â'r fendith hon yn anghwaneg.*

DUw Dâd, Duw Fâb, Duw Yſbryd Glân, a'ch bendittho, a'ch catwo, ac a'ch cymhortho: Edryched yr Arglwydd yn drugarog ac yn amgeleddus arnoch, a chyflawned chwi â phob yſbrydol fendith a rhâd, môdd y byddoch fyw felly ynghŷd yn y fuchedd hon, fel y bo i chwi yn y bŷd a ddaw feddiannu bywyd tragywyddol. *Amen.*

¶ *Yna y Gweinidog, neu yr Yſgolheigion gan fyned i Fwrdd yr Arglwydd, a ddywedant, neu a ganant y Salm hon ſydd yn canlyn.*

Beati omnes. Salm 128.

GWŷn ei fŵd pob un ſydd yn ofni yr Arglŵydd: yr hwn ſydd yn rhodio yn ei ffyrdd ef.

Canys mwynhâi lafur dy ddwylaw: gwŷn dy fŷd, a da fydd it'.

Dy wraig ſydd fel gwinwŷdden ffrwythlawn ar hŷd yſtlyſau dy dŷ: dy blant fel planhigion oliwŷdd o amgylch dy ford.

Wele, fel hyn yn ddïau y bendithir: y gŵr a ofno 'r Arglwydd.

Yr Arglwydd a'th fendithia allan o Seion: a thi a gai weled daioni Jeruſalem holl ddyddiau dy einioes;

A thi a gai weled plant dy blant: a thangnefedd ar Iſrael.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd Glân.

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Neu y Salm yma.*

Deus miſereatur. Salm 67.

DUw a drugarhao wrthym, ac a'n bendithio: a thywynned llewyrch ei ŵyneb arnom, a thrugarhâed wrthym.

Fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaear: a'th iechydwriaeth ym mhlith yr holl genhedloedd.

Molianned y bobl di, O Dduw: molianned yr holl bobl dydi.

Llawenhâed y cenhedloedd a byddant hyfryd; canys ti a ferni 'r bobl yn uniawn, ac a lywodraethi 'r cenhedloedd ar y ddaear.

Molianned y bobl di, O Dduw: molianned yr holl bobl dydi.

Yna 'r ddaear a rŷdd ei ffrwyth: a Duw, ſef ein Duw ni, a'n bendithia.

Duw a'n bendithia: a holl derfynau 'r ddaear a'i hofnant ef.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd Glân.

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Wedi gorphen y Salm, a'r Mâb a'r Ferch yn goſtwng ar eu gliniau ger bron bwrdd yr Arglwydd, yr Offeiriad yn ſefyll wrth y bwrdd, a chan ymcipwelyd ei ŵyneb attynt hwy, a ddywaid,*

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Atteb. Criſt, trugarhâ wrthym.

Gweinidog. Arglwydd, trugarhâ wrthym.

EIn Tâd, yr hwn wyt yn y nefoedd; Sanctaiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drŵg. *Amen.*

Gweinidog. Arglwydd, cadw dy waſanaethwr a'th waſanaeth-wraig:

Atteb. Y rhai ſy' yn ymddiried ynot.

Gweinidog. Arglwydd, danfon iddynt gymmorth o'th gyſſegrfa:

Atteb. Ac amddiffyn hwy yn dragywydd.

Gweinidog. Bydd iddynt yn dŵr cadernid,

Atteb. Rhag ŵyneb eu gelynion.

Gweinidog. Arglwydd, gwrando ein Gweddi:

Atteb. A deued ein llef hŷd attat.

Gweinidog.

DUw Abraham, Duw Iſaac, Duw Jacob, bendithia dy waſanaeth-ddynion hyn, a hauą hâd buchedd dragywyddol yn eu meddyliau, megis pa beth bynnag yn dy Air cyſſegredig yn ſuddiol a ddyſgant, y bo iddynt gyflawni hynny yngweithred. Edrych arnynt, Arglwydd, yn drugarog o'r nefoedd, a bendithia hwynt. Ac fel yr anfonaiſt dy fendith ar Abraham a Sara, i'w mawr ddiddanwch hwy: felly bid gwiw gennyt anfon dy fendith ar dy waſanaeth-ddynion hyn, môdd y bo iddynt gan fod yn ufudd i'th Ewyllys, ac yn ddiogel bob amſer dan dy nawdd, aros yn dy ſerch hŷd ddiwedd eu bywyd, trwy Ieſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ r

¶ *Y weddi hon ſy'n canlyn a arbedir pan ſyddo'r ſerch dros oedran planta.*

O Drugarog Arglwydd a nefol Dâd, trwy radlawn ddawn yr hwn yr amlhâ hiliogaeth dŷn: Attolygwn i ti gymmorth â'th fendith y ddeuddyn hyn; fel y bônt yn ffrwythlon i hilio plant, a hefyd cydfod a byw cyhyd mewn cariad duwiol a ſyberwyd, oni welont ddwyn eu plant i fynu yn Griſtianus, ac yn rhinweddol, i'th foliant a'th anrhydedd di, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

DUw, yr hwn trwy dy alluog nerth a wnaethoſt bob peth o ddiddym ddefnydd, yr hwn hefyd (wedi goſod pethau eraill mewn trefn) a ordeiniaiſt allan o ddŷn (yr hwn a grwëwyd ar dy lûn, a'th ddelw dy hun) gael o wraig ei dechréuad; a chan eu cyſſylltu hwy ynghŷd, a arŵyddoceiſt na byddai byth gyfreithlon wahanu y rhai trwy briodas a wnelit ti yn un. O Dduw, yr hwn a gyſſegraiſt Yſtâd priodas i gyfryw ragorol ddirgeledigaeth, megis ag yr arŵyddocâir, ac y coffâir ynddi y Briodas yſbrydol, a'r undeb rhwng Criſt a'i Eglwys; Edrych yn drugarog ar y rhai hyn dy waſanaeth-ddynion, fel y caro y gŵr hwn ei wraig, yn ôl dy Air di, (megis y carodd Criſt ei Briod yr Eglwys, yr hwn a'i rhoes ei hunan droſti, gan ei charu a'i mawrhâu, fel ei gnawd ei hunan.) A hefyd bod y wraig hon yn garuaidd ac yn ſerchog, yn ffyddlon ac yn ufudd i'w gŵr, ac ymhôb heddwch, ſobrwydd, a thangnefedd, ei bod yn canlyn eſampl ſanctaidd a duwiol wragedd. Arglwydd, bendithia hwy ill dau, a chaniattâ iddynt etifeddu dy deyrnas dragywyddol, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna y dywaid yr Offeiriad,*

HOll-gyfoethog Dduw, yr hwn yn y dechreuad a greodd ein rhieni cyntaf, Adda ac Eſa, ac a'u cyſſegrodd ac a'u cyſſylltodd ynghŷd ym Mhriodas; a dywallto arnoch olud ei râs, a'ch ſancteiddio, ac a'ch bendithio; môdd y galloch ei foddhâu ef ynghôrph ac enaid, a byw ynghŷd mewn duwiol ſerch, hŷd ddiwedd eich oes. *Amen.*

¶ *Gwedi hyn, oni bydd Pregeth yn dadgan dyledion Gŵr a Gwraig, y Gweinidog a ddarllyn fel y mae yn canlyn.*

CHwychwi oll y rhai a brioded, neu y ſy yn darpar cymmeryd glân yſtâd priodas arnoch, gwrandêwch pa beth a ddywaid yr Yſgrythur lân o blegid dyled gŵr i'w gwragedd, a gwragedd i'w gŵr.

Sant Paul yn ei Epiſtol at yr Epheſiaid, yn y bummed bennod, ſydd yn rhoddi y gorchymmyn hwn i bob gŵr priod, Chwychwi Wŷr, cerwch eich gwragedd, megis y carodd Criſt ei Eglwys, ac y rhoddes ei hun droſti, ſel y ſancteiddiai efe hi: a'i glanhâu â'r olchfa ddwfr, trwy 'r Gair; fel y goſodai efe hi yn Eglwys ogoneddus iddo ei hun heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw; eithr ei bod yn lân ac yn ddiargyoedd. Felly y dylai 'r gŵr garu eu gwragedd, megis eu cyrph eu hunain: Yr hwn a garo ei wraig, ſydd yn ei garu ei hun. Canys ni chafaodd neb erioed ei gnawd ei hun, eithr ei fagu a'i feithrin y mae, megis y mae 'r Arglwydd am yr Eglwys. O blegid aelodau ydym o'i gorph ef, o'i gnawd ef, ac o'i eſgyrn ef. Am hynny y gâd dŷn ei Dâd a'i Fam, ac y glŷn wrth ei wraig, a hwy a fyddant ill dau yn un cnawd. Y dirgelwch hwn ſydd fawr; eithr am Griſt ac am yr Eglwys yr wyfi yn dywedyd. Ond chwithau hefyd cymmain un felly cared pob un o honoch ei wraig fel ef ei hunan. *Epheſ.* 5. 25, *&c.*

Yr un ffunud yr unrhyw S. Paul yn yſgrifennu at y Coloſſiaid, a ddywaid fel hyn wrth bob gŵr gwreigiog, Y gŵyr, cerwch eich gwragedd, ac na fyddwch chwerwon wrthynt. *Col.* 3. 19.

Gwrandêwch hefyd pa beth a ddywaid Sant Pedr Apoſtol Criſt, yr hwn hefyd oedd ei hun yn ŵr gwreigiog wrth y gwŷr gwreigiog; Y gwŷr, cŷd-gyfanneddwch â'ch gwragedd yn ôl gŵybodaeth, gan roddi parch i'r wraig megis i'r lleſtr gwannaf, fel rhai ſy gŷd-etifeddion gras y bywyd, rhag rhwyſtro eich gweddiau. 1 S. *Pedr* 3. 7.

Hŷd yn hyn y clywſoch am ddyled y gŵr tu ag at ei wraig. Yr awrhon yr un ffunud, y gwragedd, gwrandêwch a dyſgwch eich dyled chwithau i'ch gwŷr, fel y mae yn eglur wedi ei ddadgan yn yr Yſgrythur lân.

Sant Paul (yn yr unrhyw Epiſtol at yr Epheſiaid) a'ch dŷſg fel hyn; Y gwragedd, ymoſtyngweh i'ch gwŷr priod, megis i'r Arglwydd. O blegid y gŵr yw pen y wraig, megis ag y mae Criſt yn Ben i'r Eglwys: ac efe yw Iachawdwr y corph. Ond fel y mae 'r Eglwys yn ddaroſtyngedig i Griſt, felly hefyd bydded y gwragedd i'w gwŷr priod ym mhob peth. A thrachefn y dywaid efe, Y wraig edryched ar iddi berchi ei gŵr. *Epheſ.* 5. 22, 33.

Ac (yn ei Epiſtol at y Coloſſiaid) mae Sant Paul yn rhoddi iwch' y wers ſer hon; Y gwragedd, ymoſtyngwch i'ch gwŷr priod, megis y mae 'n weddus yn yr Arglwydd. *Col.* 3. 18.

Sant Pedr ſydd hefyd yn eich dyſgu yn wîr dduwiol, gan ddywedyd fel hyn, Bydded y gwragedd oſtyngedig i'w gwŷr priod; fel od oes rhai heb gredu i'r gair, y gallen trwy ymarweddiad y gwragedd eu hynnill hwy heb y gair, wrth edrych ar eich ymarweddiad diwair chwi ynghŷd ag ofn. Trwſiad y rhai bydded nid yr un oddi allan, o blethiad gwâilt, ac amgylch-oſodiad aur, neu wiſgad dillad; eithr bydded cuddiedig ddŷn y gâlon, mewn anllygredigaeth yſbryd addfwyn a llonydd, yr hwn ſydd ger bron Duw yn werthfawr. Canys felly gynt yr oedd y gwragedd ſanctaidd hefyd, y rhai oedd yn gobeithio yn Nuw, yn ymdrwſio, gan fod yn ddaroſtyngedig i'w gwŷr priod; Megis yr ufuddhaodd Sara i Abraham, gan ei alw ef yn arglwydd; merched yr hon ydych chwi, tra fyddoch yn gwneuthur yn dda, ac heb ofni dim dychryn. 1 S. *Pedr* 3. 1, 2, 3, 4, 5, 6.

¶ *Dîr yw i'r rhai nevoŷdd briodi gymmeryd y Cymmun bendigedig ar amſer eu Priodas, neu ar yr adeg gyntaf ar ôl eu priodi.*

Y Dreſn

¶ Pan ſo neb yn glâf, hysbyſer hynny i Weinidog y plwyf; yr hwn wrth fyned i mewn i dŷ 'r Clâf, a ddywaid,

TAngnefedd fyddo yn y tŷ hwn, ac i bawb y ſydd yn trigo ynddo.

¶ Pan ddêl eſe yngwŷdd y clâf, y dywaid, gan oſtwng i lawr ar ei liniau,

NA choſia, Arglwydd, ein hanwiredd, nac anwiredd ein rhieni. Arbed nyni, Arglwydd daionus, arbed dy bobl a brynaiſt â'th werthfawrocaf waed, ac na lidia wrthym yn dragywydd.

Atteb. Arbed ni, Arglwydd daionus.

¶ Yna y dywaid y Gweinidog,

Gweddiwn.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Criſt, trugarhâ wrthym.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

EIn Tâd, yr hwn ŵyt yn y nefoedd; ſancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drŵg. *Amen.*

Gweinidog. Arglwydd, iachâ dy *wâs.*

Atteb. Yr *hwn* ſydd yn ymddiried ynot.

Gweinidog. Anfon *iddo* borth o'th ſancteiddfa;

Atteb. Ac byth yn nerthol amddiffyn *ef.*

Gweinidog. Na âd i'r gelyn gael y llâw uchaf *arno*;

Atteb. Nac i'r enwir neſâu i'w *ddrygu.*

Gweinidog. Bydd *iddo*, O Arglwydd, yn dŵr cadarn.

Atteb. Rhag ŵyneb ei *elyn.*

Gweinidog. Arglwydd, gwrando ein gweddiau,

Atteb. A deled ein lêf hŷd attat.

Gweinidog.

O Arglwydd, edrych i lawr o'r nefoedd, golyga, ymwêl, ac eſmwythâ ar dy *wâs hwn.* Edrych *arno* â golwg dy drugaredd, dyro *iddo* gyſſur a diogel ymddiried ynot, amddiffyn *ef* rhag perygl y gelyn, a chadw *ef* mewn tangnefedd dragywyddol a diogelwch, trwy Ieſu Grîſt ein Harglwydd. *Amen.*

ERglyw ni, Holl-gyfoethog a thrugaroccaf Dduw a Iachawdwr; eſtyn dy arferedig ddaioni i *hwn* dy *waſanaethwr* ſydd ofidus gan ddolur. Sancteiddia, ni a attolygwn i ti, dy dadol goſbedigaeth hon *iddo ef*; fel y bo i'w *ŵybyddiaeth* o'i *wendid* anghwanegu nerth i'w ffŷdd, a difrifwch i'w *Edifeirwch.* Fel o's bydd dy ewyllys roddi *iddo* ei *gynneſa* iechyd, y bo *iddo* dreulio y rhân arall o'i *fywyd* yn dy oſn, ac i'th ogoniant: neu dyro *iddo* râs i gymmeryd felly dy ymweliad, fel y bo *iddo* yn ôl diweddu y fuchedd boenedig hon, drigo gyd â Thi yn y fuchedd dragywyddol, trwy Ieſu Grîſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Yna cynghored y Gweinidog y Clâf yn y ffurf hon, neu 'r cyfryw.

YR anwyl garedig, gŵybydd hyn, mai 'r Holl-alluog Dduw ſydd Arglwydd ar ſywyd ac angau, ac ar bob peth a berthyn iddynt, megis ieuenctid, nerth, iechyd, oedran, gwendid, a haint. Am hynny pa beth bynnag yw dy glefyd, gŵybydd yn ddiammeu mai ymweliad Duw ydyw. Ac am ba achos bynnag yr anfonwyd y clefyd hwn arnat, ai er profi dy ddioddefgarwch er eſampl i eraill, ac er mwyn caffael dy ffŷdd yn nŷdd yr Arglwydd yn ganmoledig, yn barchedig, ac yn anrhydeddus, er ychwaneg o ogoniant a didrangc ddedwŷddwch; neu ddanfon y clefyd hwn i goſbi ac i gyweirio ynot ti beth bynnag ſydd yn anſoddhâu golwg ein Tâd nefol; Gŵybydd yn ddiammeu, o's tydi a fyddi wîr edifeiriol am dy bechodau, a chymmeryd dy glefyd yn ddioddefgar, gan ymddiried yn nhrugaredd Duw, er mwyn ei anwyl Fâb Ieſu Grîſt, a rhoddi iddo oſtyngedig ddiolch am ei dadol ymweliad, a bod i ti ymddaroſtwng yn hollol i'w ewyllys eſ, yr ymchwel i'th fŵdd, ac i'th gymmorth rhagot i'r uniawn ffordd a dywys i fuchedd dragywyddol.

¶ O's y dŷn ymweledig a fydd yn drymlaf, yna y dichon y Curad orphen y Cynghor yn y ſan hon, neu aéd rhagddo.

AM hynny cymmer yn groeſawus goſbedigneth yr Arglwydd: canys (megis y dywaid Sant Paul yn y ddeuddegfed bennod at yr Hebreaid) Y neb y mae 'r Arglwydd yn ei garu, y mae yn ei geryddu, ac yn fflangellu pob mâb a dderbynio. O's goddefwch gerydd, y mae Duw yn ymddŵyn tu ag attoch megis tu ag at feibion; canys pa Fâb ſydd yr hwn nid yw ei Dâd yn ei geryddu? Eithr o's heb gerydd yr ydych, o'r hon y mae pawb yn gyſrannog, yna baſtarddiaid ydych, ac nid meibion. Heb law hynny, ni a gawſom dadau ein cnawd i'n ceryddu, ac a'u parchaſom hwy; onid mwy o lawer y byddwn ddaroſtyngedig i Dâd yr yſbrydoedd, a byw? Canys hwynt-hwy yn wir dros ychydig ddyddiau a'n ceryddent, fel y gwelent hwy yn dda; eithr Hwn er lleſâd i ni, fel y byddem gyſrannogion o'i ſancteiddrwydd eſ. Y geiriau hyn, garedig *frawd*, ſydd yn yſgriſenedig yn yr Yſgrythur lân er cyſſur ac addyſg i ni, fel y dygom yn oddefgar, ac yn ddiolchgar goſbedigaeth ein Tâd nefol, pa bryd bynnag trwy fodd yn y bŷd ar wrthŵyneb yr ewyllyſio ei radlawn ddaioni eſ ymweled â ni. Ac ni ddylai fod cyſſur mwy gan Griſtianogion, nâ chael eu gwneuthur yn gyffelyb i Griſt, trwy ddioddef yn ufuddgar wrthwyneb, trallod, a chlefydau. Canys nid aeth eſe ei hun i fynu i'r llawenydd, nes yn gyntaf iddo ddioddef poen; nid aeth eſe i mewn i'w ogoniant, nes dioddef angau ar bren croc. Felly yn wir yr union ffordd i ni i'r gorfoledd tragywyddol, ydyw cyddioddef yma gyd â Chriſt: A'n drŵs i fyned i mewn i fywyd tragywyddol, ydyw marw yn llawen gyd â Chriſt; fel y cyfodom drachefn o angau, ac y trigom gyd ag eſ ym mywyd tragywyddol. Yn awr gan hynny, o's cymmeri dy glefyd yn oddefgar, (ac yntau yn gyſtal a hyn ar dy lês) yr ydwyfi yn eiriol arnat yn Enw Duw, goffâu y broffes a wnaethoſt i Dduw yn dy fedydd. Ac o herwŷdd yn ôl y fuchedd hon bod yn ddîr wneuthur cyfrif i'r barnwr cyfiawn, gan ba un y bernir pôb dŷn heb dderbyn ŵyneb; Yr ŵyf yn erchi i ti ymchwilio â thi dy hun, a'th gyſlwr tu ag at Dduw a dŷn; fel y bo i ti trwy dy gyhuddo a'th farnu dy hunan am dy feiau dy hun, allu cael trugaredd ar lâw ein Tâd nefol er mwyn Criſt, ac nid bod yn gyhuddedig ac yn farnedig yn amſer y farn ofnadwy honno. Am hynny yr adroddaf i ti Fannau ein Ffŷdd ni, fel y gellych ŵybod a ŵyti yn credu fel y dylai Griſtion, ai nad ŵyt.

¶ Yna yr edrydd y Gweinidog Fannau 'r ffŷdd, gan ddywedyd fel hyn,

A Wyt ti yn credu yn Nuw Dâd holl-gyfoethog, Creawdwr nêf a daear?

Ac yn Ieſu Grîſt ei unig-anedig Fâb eſ ein Harglwydd ni? Ei genhedlu o'r Yſbryd glân; Ei eni o Fair Forŵyn; iddo ddioddef dan Bontius Pilatus, ei groes-hoelio, ei farw a'i gladdu; diſgyn o hono i uffern, a'i gyfodi hefyd y trydydd dŷdd; ac eſgyn o hono i'r nefoedd, a'i fod yn eiſtedd ar ddeheu-law Dduw Dâd holl-alluog; ac y daw eſe oddi yno yn niwedd y bŷd, i farnu byw a meirw?

Ac

Ac a ŵyt ti yn credu yn yr Yſbryd Glân, yr Eglwys lân Gatholig; Cymmun y Saint; maddeuant pechodau; adgyfodiad y cnawd; a bywyd tragywyddol gwedi angau?

¶ *Y Cláf a ettyb,*

Hyn oll yr ŵyf yn ei gredu yn ddilys.

¶ *Yna 'r ymofyn y Gweinidog ag ef beth ydyw efe ai bod yn ŵir edifeiriol am ei bechodau, ac mewn cariad perfaith á'r holl ſŷd, ai peidio; gan eiriol arno faddeu o eigion ei galon i bob dŷn a wnaeth yn ei erbyn, ac o's efe a wnaeth yn erbyn eraill, ar ofyn o hono faddeuant iddynt. A lle y gwnaeth efe gam neu drawſder â neb, ar wneuthur o hono iawn bŷd yr eithaf y gallo; ac oddieithr iddo ym mlaenllaw wneuthur ei lywodraeth am ei ddâ, rhybuddier ef yna i wueuthur ei Ewyllys. A hefyd dangos o hono am ei ddyled pa faint ſydd arno, a pha faint ſydd o ddyled iddo, er mwyn rhyddhâu ei gydwybod yn well, a heddwch i'w Sycutorion. Eithr y mae yn angenrheidiol rhybuddio dynion yn ſynyeb am wneuthur trefn ar eu dâ bŷd, a'u tiroedd, tra ſyddont mewn iechyd.*

¶ *Y geiriau hyn y rhai a ddywedwyd uchod, a ellir eu cymmwyll cyn dechreu o'r Gweinidog ei weddi, megis ag y gwelo efe achos.*

¶ *Na eſgeuluſed y Gweinidog eiriol cleiſion cyfoethogion (a hynny yn gwbl ddifrifol) ar iddynt ddangos haelioni i'r tlodion.*

¶ *Yna y cynhyrfir y dŷn clwyfus i wneuthur cyffes hyſbyſol o'i bechodau, o's efe a glyw ei gydwybod mewn cythrwfl gan un defrydd o bwys. Yn ôl y gyffes honno y gollwng yr Offeiriad ef (o's efe yn oſtyngedig ac yn ffyddlon a'i dymuna) yn y wedd hon.*

EIn Harglwydd Ieſu Criſt, yr hwn a addawôdd feddiant i'w Eglwys, i ollwng pob pechadur a fyddo gwir edifeiriol ac yn credu ynddo ef, o'i fawr drugaredd a faddeuo i ti dy gamweddau: a thrwy ei awdurdod ef a ganiattäwyd i mi, y'th ollyngaf o'th holl bechodau, Yn enw 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Yſbryd glân. *Amen.*

¶ *Ac yna y dywaid yr Offeiriad y Colect ſy 'n canlyn.*

Gweddiwn.

ODrugaroccaf Dduw, yr hwn yn ol llioſowgrwydd dy drugaredd, ŵyt felly yn dilëu pechodau y rhai ſydd wîr edifeiriol, fel nad ŵyt yn eu cofio mwy; Agor lygad dy drugaredd ar dy *waſanaethwr* yma, yr *hwn* o wîr ddifrif ſydd yn dymuno gollyngdod a maddeuant. Adnewŷdda *ynddo*, garediccaf Dâd, beth bynnag a leſgháwyd trwy ddichell a malais y cythraul, neu trwy ei *gnawdol* ewyllys ei hun, a'i *ſwendid*; cadw a chynnal yr aelod *clwyfus hwn* o ſewn undeb dy Eglwys; yſtyria wrth ei *wîr* edifeirwch, derbyn ei *ddagrau*, yſgafnhâ ei *ddolur*, môdd y gwelych di ſod yn oreu ar ei *lês*. Ac yn gymmaint a'i *ſod efe* yn rhoddi cwbl o'i *ymddiried* yn unig yn dy drugaredd di, na liwia *iddo* ei *bechodau* o'r blaen; eithr nertha *ef* â'th wŷnfydedig Yſbryd, a phan welych di yn dda ei *gymmeryd ef* oddi yma, cymmer *ef* i'th nodded, trwy rygliyddon dy garediccaf Fâb Ieſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna y dywaid y Gweinidog y Salm hon.*

In te, Domine, ſperavi. Salm 71.

YNot ti, O Arglwydd, y gobeithiais: na'm cywilyddier byth.

Achub fi, a gwared fi yn dy gyfiawnder: goſtwng dy glûſt attaf, ac achub fi.

Bydd i mi yn drigfa gadarn, i ddyfod iddi bob amſer: gorchymynaiſt fy achub, canys ti yw fy nghraig, a'm hamddiffynfa.

Gwared fi, O fy Nuw, o lâw 'r annuwiol: o lâw 'r anghyfion, a'r traws.

Canys ti yw fy ngobaeth, O Arglwydd Dduw: fy ymddiried o'm hieuengétid.

Wrthyt ti y'm cynhaliwyd o'r bru, ti a'm tynnaiſt o grôth fy mam: fy mawl fydd yn waſtad am danat ti.

Oeddwn i lawer megis yn rhyfeddod: eithr tydi yw fy nghadarn noddfa.

Llanwer fy ngenau â'th foliant: ac â'th ogoniant beunydd.

Na fwrw fi ymaith yn amſer henaint: na wrthod fi pan ballo fy nerth.

Canys fy ngelynion ſydd yn dywedyd i'm herbyn: a'r rhai a ddiſgwyliant am fy enaid, a gŷdymgynghorant.

Gan ddywedyd, Duw a'i gwrthododd ef, erlidiwch, a dèliwch ef: canys nid oes gwaredydd.

O Dduw, na fydd bell oddiwrthyf: fy Nuw, bryſia i'm cymmorth.

Cywilyddier a difether y rhai a wrthŵynebant fy enaid: â gwarth ac â gwaradwydd y gorchuddier y rhai a geiſiant ddrwg i mi.

Minnau a obeithiaf yn waſtad: ac a'th foliannaf di fwyfwy.

Fy ngenau a fynega dy gyfiawnder, a'th lechydwriaeth beunydd: canys ni wn rifedi arnynt.

Ynghadernid yr Arglwydd Dduw y cerddaf: dy gyfiawnder di yn unig a gofiaf fi.

O'm hieuengétid y'm dyſgaiſt, O Dduw: hŷd yn hyn y mynegais dy ryfeddodau.

Na wrthod fi chwaith, O Dduw, mewn henaint a phenllwydni: hŷd oni fynegwyf dy nerth i'r genhedlaeth hon, a'th gadernid i bob un a ddelo.

Dy gyfiawnder heſyd, O Dduw, ſydd uchel, yr hwn a wnaethoſt bethau mawrion: pwy, O Dduw, ſydd debyg i ti?

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd glân;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Gan ddywedyd hyn yn ychwaneg.*

IAchawdwr y bŷd, iachâ ni, yr hwn trwy dy grôg a'th werthfawr waed a'n prynaiſt, achub a chymmorth ni, nyni a attolygwn i ti, O Arglwydd.

¶ *Yna y dywaid y Gweinidog,*

YR holl-alluog Arglwydd, yr hwn yw y tŵr cadarnaf i bawb a roddant eu hymddiried ynddo, i ba un y mae pob peth yn y nêf, ar y ddaear, a than y ddaear yn goſtwng ac yn ufuddhâu, a fyddo yr awr hon, a phob amſer yn amddiffyn i ti, ac a wnêl i ti ŵybod a deall, nad oes un Enw dan y nêf wedi ei roddi i ddynion, ym mha un, a thrwy ba un y mae i ti dderbyn iechydwriaeth, ond yn unig Enw ein Harglwydd Ieſu Criſt. *Amen.*

¶ *Ac yn ôl hynny y dywaid.*

IRaſuſaf drugaredd a nodded Duw y'th orchymynwn. Yr Arglwydd a'th fendithio ac a'th gatwo; Llewyrched yr Arglwydd ei ŵyneb arnat, a thrugarhâed wrthyt: Dyrchafed yr Arglwydd ei ŵyneb arnat, a rhodded it' dangnefedd yr awr hon ac yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Gweddi dros Blentyn Cláf.*

HOll-alluog Dduw a thrugaroccaf Dâd, i'r hwn yn unig y perthyn dibenion Bywyd ac Angau; Edrych i lawr o'r Nêf, yn oſtyngedig ni a attolygwn i ti, â golygon dy drugaredd ar y Plentyn hwn y ſydd yr awrhon yn gorwedd ar ei *glâf* wely: Ymwêl, O Arglwydd, *ag ef* â'th Iechydwriaeth; Gwared *ef* yn dy nodedig amſer da o'i *boen* gorphorol, ac achub ei *Enaid* er mwyn dy drugareddau: Fel o's bydd dy ewyllys i eſtyn ei *ddyddiau* yma ar y ddaear, y byddo *iddo* fyw i ti, a hyfforddio dy ogoniant, gan dy waſanaethu yn ffyddlon, a gwneuthur daioni yn ei *Genedl*: O's amgen, derbyn *ef* i'r preſwylfeydd nefol hynny,

lle

lle mae Eneidiau 'r ſawl a hunant yn yr Arglwydd Ieſu yn mwynhâu anorphen orphwyſfa a dedwŷddwch. Caniattâ hyn, Arglwydd, er dy drugareddau yn yr unrhyw dy Fâb di, ein Harglwydd ni Ieſu Griſt, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyd â Thi a'r Yſbryd Glân, byth yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

¶ *Gweddi dros Ddŷn Cláf, lle na weler fawr obaith o'i wellhâd.*

O Dâd y Trugareddau, a Duw pob diddanwch, ein hunig Borth yn amſer angenoctid; attat ti y rhedwn am gymmorth dros dy *waſanaethydd hwn*, yn gorwedd yma dan dy lâw di mewn dirfawr wendid corph. Edrych *arno* yn raſuſol, O Arglwydd; a pho mwyaf y gwanhycho y dŷn oddi allan, nertha *ef* fwyfwy, ni a attolygwn i ti, â'th Râs ac â'th lân Ysbryd yn y dŷn oddi mewn. Dyro *iddo* ddiffuant edifeirwch am holl gyfeiliorni ei *fuchedd* o'r blaen, a ffydd ddiyſgog yn dy Fâb Ieſu, fel y dileer ei *bechodau* trwy dy drugaredd di, ac y ſelier ei *bardwn* yn y Nêf, cyn *iddo* fyned oddi yma, ac na weler *ef* mwyach. Da y gŵyddom, Arglwydd, nad oes un gair rhŷ anhawdd i ti; ac y gelli, o's mynni, ei *godi ef* etto ar ei *draed*, a chaniattâu *iddo* hŵy hoedl yn ein plith. Er hynny yn gymmaint a bod (hyd y gwel dŷn) amſer ei *ddattodiad ef* yn tynnu yn agos, felly parottoa a chymhwyſa *ef*, ni a attolygwn i ti, erbyn awr angau, fel ar ol ei *ymadawiad* oddi yma mewn tangnefedd ac yn dy ffafr di, y derbynier ei *Enaid ef* i'th Deyrnas dragywyddol, trwy haeddedigaethau a chyfryngiad Ieſu Griſt dy unig Fâb di, ein Harglwydd ni a'n Hiachawdwr. *Amen.*

¶ *Gweddi gymmynol dros Ddŷn cláf ar Drangcedigaeth.*

O Holl-alluog Dduw, gyd â'r hwn y mae yn byw ysbrydoedd y rhai cyfiawn a berffeithiwyd, wedi cael eu gwared o'u carcharau daearol: Yr ŷm yn oſtyngedig yn gorchymmyn Enaid dy *waſanaethydd hwn*, ein *brawd* anwyl, i'th ddwylaw di, megis i ddwylaw Creawdr ffyddlawn a Iachawdwr trugaroccaf; gan ufudd attolwg i ti, gael *iddo* fod yn werthfawr yn dy olwg. Golch *ef*, ni a erfyniwn arnat, yngwâed yr Oen difrycheulyd hwnnw, a laddwyd er mwyn dileu pechodau 'r byd, fel gan gael glanhâu a dileu pa lwgr bynnag (ond antur) a gaſglodd ym mherfedd y bŷd adfydig a drygionus hwn, trwy chwantau 'r Cnawd, neu yſtrywiau Satan, y caffo ei *gyfrwyno* yn bur ac yn ddifeius yn dy olwg di. A dŷſg i ninnau, y rhai ym yn byw ar ei *ol ef*, ganfod yn *bewn* ac eraill gyffelyb ddrychau marwoldeb o ddŷdd bwygilydd, mor freuol a bregus yw ein cyflwr ein hunain, ac felly cyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calonnau yn ddifrifol i'r cyfryw ddoethineb ſanctaidd a nefol, tra bôm byw yma, a'n dygo o'r diwedd i fywyd tragywyddol, trwy haeddedigaethau Ieſu Griſt dy unig Fâb di, ein Harglwydd ni. *Amen.*

¶ *Gweddi dros y rhai a fo mewn blinder Yſbryd, neu anheddwch cydwybod.*

BEndigedig Arglwydd, Tâd y trugareddau, a Duw pob diddanwch, Ni a attolygwn i ti, edrych â golwg toſturi a thrugaredd ar dy *waſanaethwr cyſtuddiedig* yma. Yr wyt ti yn yſgrifennu pethau chwerwon yn ei *erbyn ef*, ac yn gwneuthur *iddo* feddiannu ei *gamweddau* gynt; y mae dy ddigofaint yn pwyſo yn drwm *arno*, a'i *Enaid* ſydd lawn o ſlinder: Eithr, O Dduw trugarog, yr hwn a 'ſgrifennaiſt dy Air ſanctaidd er addyſg i ni, fel trwy ammynedd a diddanwch dy lân Yſgrythurau y gallem gael gobaith; Dyro *iddo* iawn ddealldwriaeth o'i *gyflwr* ei hun, ac o'th fygythion a'th addewidion di, fel nad ymadawo â'i *obaith* arnat ti, ac na ddodo ei *ymddiried* ar ddim arall ond tydi. Nertha *ef* yn erbyn ei holl brofedigaethau, a iachâ *ef* o'i holl anardymherau. Na ddryllia 'r gorſen yſſig, ac na ddiffodd y llîn yn mygu. Na chau dy drugareddau mewn ſorriant; Eithr pâr *iddo* glywed llawenydd a gorfoledd, fel y llawenycho 'r eſgyrn a ddrylliaiſt. Gwared *ef* rhag ofn y gelyn, a dyrcha lewyrch dy ŵyneb-pryd *arno*, a dyro *iddo* dangnefedd, trwy ryglyddon a chyfryngdod Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

CYMMUN Y CLAF.

¶ *YN gymmaint a bod pob rhyw ddŷn yn ddaroſtyngedig i lawer o beryglon diſyſyd, heintiau, a chlefydau, ac byth yn anhysbys pa brŷd yr ymadawânt â'r fuchedd hon; herwŷdd pa ham, er mwyn gallu o bonynt fod bob amſer mewn parodrwydd i farw, pa brŷd bynnag y rhyngo bôdd i'r holl-alluog Dduw alw am danynt: Bid i'r Curadiaid yn ddyſal o amſer i amſer, (ac yn enwedig yn amſer plâ neu ryw haint lynol arall) gynghori eu plwyfolion i gymmeryd yn fynych ſendigedig Gymmun Corph a Gwaed ein Hiachawdwr Criſt, pan finiſtrir ef yn gyhoedd yn yr Eglwys; Fal gan wneud felly, y bo llai o achos iddynt yn eu hymwneliad diſymwyth, i fod yn anheddychol yn eu meddwl o ddiffyg hynny. Ond o's y cláf ni bydd abl i ddyfod i'r Eglwys, ac etto yn dymuno cymmeryd y Cymmun yn ei dŷ; yna y bydd rhaid iddo fynegi hynny mewn prŷd i'r Curad, gan arŵyddocâu hefyd pa ſawl un y ſydd yn darparu cymmuno gyd ag ef; (y rhai a fyddant dri, neu ddau o'r lleiaf,) a chwedi cael lle cyfaddas yn nhŷ y cláf, gyd â phob peth angenrheidiol felly yn barod, fel y gallo y Curad finiſtrio yn barchedig, miniſtried efe yno y Cymmun bendigedig, gan ddechreu ar y Colect, Epiſtol, a'r Efengyl yma yn canlyn.*

Y Colect.

HOll-gyfoethog a byth-fywiol Dduw, gwneuthurwr dynol ryw, yr hwn ŵyt yn coſpi y rhai a gerych, ac yn ceryddu pawb a'r a dderbyniech: Nyni a attolygwn i ti drugarhâu wrth dy *wâs hwn* yma ymweledig gan dy lâw, ac i ti ganiattâu gymmeryd o *hono* ei *gleſyd* yn ddioddefus, a chaffael ei *iechyd* corphorol drachefn (o's dy radlawn ewyllys di yw hynny:) a pha brŷd bynnag yr ymadawo ei *Enaid* â'i *gorph*, bod o hono yn ddi-frycheulyd wrth ei gyflwyno i ti, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Heb. 12. 5.

FY mâb, na ddirmyga gerydd yr Arglwydd, ac na ymollwng pan y'th argyoedder ganddo: Canys y neb y mae 'r Arglwydd yn ei garu, y mae yn ei geryddu; ac yn fflangellu pob mâb a dderbynio.

Yr Efengyl. S. Ioan 5. 24.

YN wîr yn wîr, meddaf i chwi, y neb ſydd yn gwrando fy ngair i, ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd i, a gaiff fywyd tragywyddol, ac ni ddaw i farn: eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd.

¶ *Gwedi hyn yr Offeiriad a â ymlâen yn ol y ffurf oſodedig uchod i'r Cymmun bendigedig, gan ddechreu ar y geiriau hyn,* [Chwychwi y ſawl ſydd yn wîr, &c.]

¶ *Pan gyfranner y Sacrament bendigedig, cymmered yr Offeiriad yntau ei hun y Cymmun yn gyntaf, ac yn ôl hynny, miniſtried i'r rhai a ddarparwyd i Gymmuno gyd â'r cláf, ac yn ddiweddaf oll i'r dŷn cláf.*

¶ *Eithr*

¶ *Eithr o bydd neb naill ai o ddirdra dolur, neu o herwŷdd eiſiau rhybudd mewn amſer dyladwy i'r Curad, neu o eiſiau cyfleilldyddion i gymhèryd gyd ag ef, neu o blegid rhyw rwyſtr cyfiawn arall, heb gymmeryd Sacrament Corph a Gwaed Criſt, yna dangoſed y Curad, o's eſe ſydd wir edifeiriol am ei bechodau, ac yn credu yn ddiddiog ddarfod i Jeſu Grist ddioddef angau ar y grocs droſto, a cholli ei waed dros ei brynedigaeth ef, gan gofia yn ddifrif y mawr ddaioni ſydd iddo ef o bynny, a chan ddioleb iddo o'i gàlon am dano, ei fod eſt yn bwyttau ac yn yfed Corph a Gwaed ein Hiachawdwr Criſt yn ſuddiol i iechyd ei enaid, er nad yw eſe yn derbyn y Sacrament â'i enau.*

¶ *Pan ymweler â'r clâf, ac yntau yn cymmeryd y Cymmun bendigedig yr un amſer: bid yna i'r Offeiriad er hewyn pryſuro yn gynt, dorri ymaith ſurf yr Ymwcliad lle mae 'r Salm,* [Ynot ti, O Arglwydd, y gobeithlais, &c.] *ac acd yn union i'r Cymmun.*

¶ *Yn amſer plâ, cleſyd y chwŷs, neu gyfryw amſerau beintiau neu gleſydau llŷn, pryd na aller cael yr un o'r plwyf neu 'r cymmydogion i gymmuno gyd â'r cleiſion yn eu tai, rhag ofn cael yr haint, ar hysbyſol ddeiſyfiad y clâf, ſe all y Gweinidog yn unig gymmuno gyd ag ef.*

Y Drefn am Gladdedigaeth y MARW.

¶ *Noder yma, na ddylid arfer y Gwaſanaeth a ganlyn dros neb a ſo marw heb fedydd, neu dan Ymgymmundod, neu a'u lladdaſant eu hunain.*

¶ *Yr Offeiriad a'r Clochydd wrth gyfarfod â'r corph wrth borth y Fynwent, ac yn myned o'i flaen i'r Eglwys neu tu a'r bedd, a ddywedant, neu a ganant,*

MYfi yw yr adgyfodiad, a'r bywyd, medd yr Arglwydd. Yr hwn ſydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw. A phwy bynnag ſydd yn fyw, ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd. S. *Ioan* 11. 25, 26.

MYfi a wn fod fy mhrynwr yn fyw, ac y ſaif yn y diwedd ar y ddaear: Ac er yn ôl fy nghroen i bryfed ddifetha 'r corph hwn; etto câf weled Duw yn fy nghnawd: Yr hwn a gâf fi im' fy hun ei weled, am llygaid a'i gwelant, ac nid arall. *Job* 19, 25. 26, 27.

NI ddygaſom ni ddim i'r bŷd, ac eglur yw na allwn ddwyn dim allan chwaith. Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith; Bendigedig fyddo Enw yr Arglwydd. 1 *Tim.* 6. 7. *Job* 1. 21.

¶ *Gwedi eu dyfod i'r Eglwys, y darllenir un o'r Salmau hyn yn canlyn, neu 'r ddwy.*

Dixi, Cuſtodiam. Salm 39.

DYwedais, Cadwaf fy ffyrdd rhag pechu â'm tafod: cadwaf ffrwyn yn fy ngenau, tra fyddo 'r annuwiol yn fy ngolwg.

Tewais yn ddiſtaw, ie tewais â daioni: a'm dolur a gyffrôdd.

Gwreſogodd fy nghàlon o'm mewn: tra oeddwn yn myfyrio, ennynnodd tân, a mi a leferais â'm tafod;

Arglwydd, pâr i mi wybod fy niwedd, a pheth yw meſur fy nyddiau: fel y gwypwyf o ba oedran y byddaf fi.

Wele, gwnaethoſt fy nyddiau fel dyrnfedd, a'm heinioes ſydd megis diddym yn dy olwg di: diau mai cwbl wagedd yw pob dŷn, pan ſo ar y goreu.

Dŷn yn ddiau ſydd yn rhodio mewn cyſgod, ac yn ymdraferthu yn ofer: eſe a dyrra olud, ac ni's gwyr pwy a'u caſgl.

Ac yn awr, beth a ddiſgwyliaf, O Arglwydd: fy ngobaith ſydd ynot ti.

Gwared fi o'm holl gamweddau: ac na oſod fi yn waradwydd i'r ynfyd.

Aethum yn fûd, ac nid agorais fy ngenau: canys ti a wnaethoſt hyn.

Tŷn dy blâ oddi wrthyf: gan ddyrnod dy lâw y darfûm i.

Pan gosbit ddŷn â cheryddon am anwiredd, dattodit fel gwŷfyn ei ardderchowgrwydd ef: gwagedd yn ddiau yw pob dŷn.

Gwrando fy ngweddi, Arglwydd, a chlyw fy llêf, na thaw wrth fy ŵyloſain: canys ymdeithydd ydwyf gyd â thi, ac alldud, fel fy holl dadau.

Paid â mi, fel y cryfhâwyf: cyn fy myned, ac na byddwyf mwy.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Ysbryd Glân;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

Domine, refugium. Salm 90.

TI, Arglwydd, fuoſt yn breſwylfa i ni: yn mhob cenhedlaeth.

Cyn gwneuthur y mynyddoedd, a llunio o honot y ddaear, a'r bŷd: ti heſyd ŵyt Dduw o dragywyddoldeb hŷd dragywyddoldeb.

Troi ddŷn i ddinyſtr: a dywedi, Dychwelwch feibion dynion.

Canys mil o flynyddoedd ydynt yn dy olwg di fel doe: wedi 'r êl heibio, ac fel gwiliadwriaeth nôs.

Dygi hwynt ymaith megis â llifeiriant, y maent fel hûn: y bore y maent fel llyfeuyn a newidir.

Y bore y blodeua ac y tŷf: prydnhâwn y torrir ef ymaith, ac y gwywa.

Canys yn dy ddig y difethwyd ni: ac yn dy lidiowgrwydd y'n brawychwyd.

Goſodaiſt ein hanwiredd ger dy fron: ein dirgel bechodau yngoleuni dy ŵyneb.

Canys ein holl ddyddiau ni a ddarfuant gan dy ddigoſaint di: treuliaſom ein blynyddoedd fel chwedl.

Yn nyddiau 'n blynyddoedd y mae deng mlynedd a thrugain, ac o's o gryfder y cyrhaeddir pedwar ugain mlynedd, etto eu nerth ſydd boen, a blinder: canys ebrwydd y derfydd, ac ni a ehedwn ymaith.

Pwy a edwyn nerth dy ſorriant: canys fel y mae dy ofn, y mae dy ddigter.

Dŷſg i ni felly gyfrif ein dyddiau: fel y dygom ein càlon i ddoethineb.

Dychwel, Arglwydd, pa hŷd: ac edifarhâ o ran dy weiſion.

Diwalla ni yn fore â'th drugaredd: fel y gorfoleddom, ac y llawenychom dros ein holl ddyddiau.

Llawenhâ ni yn ôl y dyddiau y cyſtuddiaiſt ni: a'r blynyddoedd y gwelſom ddrygfyd.

Gweler dy waith tu ag at dy weiſion: a'th ogoniant tu ag at eu plant hwy.

A bydded prydferthwch yr Arglwydd ein Duw arnom ni: a threfna weithred ein dwylaw ynom ni, ie trefna waith ein dwylaw.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Ysbryd Glân;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Yn*

¶ *Yn ôl hynny y canlyn y Llith wedi ei chymmeryd o'r bymthegfed bennod o Epiſtol cyntaf S. Paul at y Corinthiaid.*

1 Cor. 15. 20.

YN awr Criſt a gyfodwyd oddi wrth y meirw, ac a wnaed yn flaen-ffrwyth y rhai a hunaſant. Canys, gan fod marwolaeth trwy ddŷn, trwy ddŷn hefyd y mae adgyfodiad y meirw. O blegid megis yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yng Nghriſt y bywhêir pawb. Eithr pob un yn ei dreſn ei hun: *Y* blaen-ffrwyth yw Criſt; wedi hynny y rhai ydynt eiddo Criſt, yn ei ddyfodiad ef. Yna y bydd y diwedd, wedi y rhoddo efe y Deyrnas i Dduw a'r Tâd; wedi iddo ddileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth. Canys rhaid iddo deyrnaſu, hŷd oni oſodo ei holl elynion dan ei draed. Y gelyn diweddaf a ddinyſtrir yw 'r angau: Canys efe a ddaroſtyngodd bob peth dan ei draed ef. Eithr pan yw yn dywedyd fod pob peth wedi eu daroſtwng, amlwg yw mai oddi eithr yr hwn a ddaroſtyngodd bob peth iddo. A phan ddaroſtynger pob peth iddo, yna 'r Mâb ei hun hefyd a ddaroſtyngir i'r hwn a ddaroſtyngodd bob peth iddo ef, fel y byddo Duw oll yn oll. O's amgen, beth a wnâ y rhai a fedyddir dros y meirw, o's y meirw ni chyfodir ddim? Pa ham ynte y bedyddir hwy dros y meirw? A pha ham yr ydym ninnau mewn perygl bob awr? Yr ydwyf beunydd yn marw, mŷn eich gorfoledd yr hon ſydd gennyf yng Nghriſt Ieſu ein Harglwydd. O's yn ôl dull dŷn yr ymleddais ag anifeiliaid yn Epheſus, pa leſâd fydd i mi, oni chyfodir y meirw? Bwyttâwn, ac yfwn, canys y foru marw yr ydym. Na thwyller chwi; y mae ymddiddanion drŵg yn llygru moeſau da. Deffrôwch yn gyfiawn, ac na phechwch, canys nid oes gan rai wybodaeth am Dduw: Er cywilydd i chwi yr wŷf yn dywedyd hyn. Eithr fe a ddywaid rhyw un, Pa fodd y cyfodir y meirw? ac â pha ryw gorph y deuant? Oh ynfyd, y peth yr wyt ti yn ei hau, ni fywhêir oni bydd efe marw. A'r peth yr wyt yn ei hau, nid y corph a fydd yr ydwyt yn ei hau, ond gronyn noeth, yſgatfydd o wenith, neu ryw rawn arall. Eithr Duw ſydd yn rhoddi iddo gorph fel y mynnodd efe, aci bob hedyn ei gorph ei hun. Nid yw pob cnawd unrhyw gnawd; eithr arall yw cnawd dynion, ac arall yw cnawd anifeiliaid, a chnawd arall ſydd i byſgod, ac arall i adar. Y mae hefyd gyrph nefol, a chyrph daearol; ond arall yw gogoniant y rhai nefol, ac arall y rhai daearol. Arall yw gogoniant yr haul, ac arall yw gogoniant y lloer, ac arall yw gogoniant y sêr; canys y mae rhagor rhwng ſeren a ſeren mewn gogoniant. Felly hefyd y mae adgyfodiad y meirw; efe a heuir mewn llygredigaeth; ac a gyfodir mewn anllygredigaeth: efe a heuir mewn ammharch; ac a gyfodir mewn gogoniant: efe a heuir mewn gwendid; ac a gyfodir mewn nerth: efe a heuir yn gorph anianol; ac a gyfodir yn gorph yſbrydol. Y mae corph anianol, ac y mae corph yſbrydol. Felly hefyd y mae yn yſgrifennedig, y dŷn cyntaf Adda a wnaed yn enaid byw, a'r Adda diweddaf yn ysbryd yn bywhâu. Eithr nid cyntaf yr ysbrydol ond yr anianol, ac wedi hynny yr ysbrydol. Y dŷn cyntaf o'r ddaear yn ddaearol, yr ail ddŷn yr Arglwydd o'r nêf. Fel y mae y daearol, felly y mae y rhai daearol: ac fel y mae y nefol, felly y mae y rhai nefol hefyd. Ac megis y dygaſom ddelw y daearol, ni a ddygwn hefyd ddelw y nefol. Eithr hyn meddaf, O frodyr, na ddichon cîg a gwaed etifeddu Teyrnas Dduw; ac nad yw llygredigaeth yn etifeddu anllygredigaeth. Wele, yr wŷf yn dywedyd i chwi ddirgelwch. Ni hunwn ni oll, eithr ni a newidir oll mewn moment, ar darawiad llygad wrth yr udgorn diweddaf: Canys yr udgorn a gân, a'r meirw a gyfodir yn anllygredig, a ninnau a newidir. O herwŷdd rhaid i'r llygradwy hwn wiſgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wiſgo anfarwoldeb. A phan ddarffo i'r llygradwy hwn wiſgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wiſgo anfarwoldeb, yna y bydd yr ymadrodd a ſgrifennwyd, Angau a lyngcwyd mewn buddugoliaeth. O angau, pa le y mae dy gôlyn? O uffern, pa le mae dy ſuddugoliaeth? Côlyn angau yw pechod, a grŷm pechod yw 'r Gyfraith. Ond i Dduw y byddo 'r diolch, yr hwn ſydd yn rhoddi i ni ſuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Ieſu Criſt. Am hynny, ſy mrodyr anwyl, byddwch ſicr, a diymmod, a helaethion yngwâith yr Arglwydd yn waſdadol, a chwi 'n gŵybod nad yw eich llafur chwi yn ofer yn yr Arglwydd.

¶ *Pan ddelont at y bêdd, tra fyddo 'r Corph yn ei barottôi i'w ddodi yn y ddaear, y dywaid yr Offeiriad, neu 'r Offeiriad a'r Yſgolheigion a ganant,*

DYn a aned o wraig, ſydd a bŷr amſer iddo i fyw, ac y ſydd yn llawn trueni. Y mae efe yn blaguro fel llyſieuyn, ac a dorrir i lawr; ac a ddiflanna fel cyſgod, ac ni ſaif.

Ynghanol ein bywyd yr ydym mewn angau: gan bwy y mae i ni geiſio ymwared, ond gennyt ti, O Arglwydd, yr hwn am ein pechodau wyt yn gyfiawn yn ddigllon.

Er hynny, Arglwydd Dduw ſanctteiddiaf, Arglwydd galluoccaf, O ſanctaidd a thrugaroccaf Iachawdwr, na ollwng ni i ddygn chwerwaf boenau angau tragywyddol.

Ti, Arglwydd, a adwaenoſt ddirgelion ein calonnau; na chaua dy gluſtiau trugarog oddi wrth ein gweddiau; eithr arbed nyni, O Arglwydd ſanctteiddiaf, O Dduw galluoccaf, O ſanctaidd a thrugarog Iachawdwr, Tydi deilyngaf Farnwr tragywyddol, na âd i ni, yn yr awr ddiweddaf er neb rhyw boenau angau, ſyrthio oddi wrthyt.

¶ *Yna tra fydder yn bwrw pridd ar y Corph gan ryw rai a fo yn ſeſyll yno, yr Offeiriad a ddywaid,*

YN gymmaint a rhyngu bôdd i'r Goruchaf Dduw o'i fawr drugaredd gymmeryd atto ei hun Enaid ein hanwyl *frawd* yma a ymadawôdd o'r bŷd, gan hynny yr ŷm ni yn rhoddi ei *gorph ef* i'r ddaear, ſef, daear i'r ddaear, lludw i'r lludw, pridd i'r pridd, mewn gwir ddiogel obaith o adgyfodiad i fuchedd dragywyddol, trwy ein Harglwydd Ieſu Criſt, yr hwn a newidia ein corph gwael ni, fel y byddo yn gyffelyb i'w gorph gogoneddus ef, o herwŷdd y galluog weithrediad, trwy yr hwn y dichon efe ddaroſtwng pob dim iddo ei hun.

¶ *Yna y dywedir, neu y cenir,*

MI a glywais lais o'r nêf yn dywedyd wrthyf, Yſgrifenna; O hyn allan gwŷnfydedig yw y meirw ſy yn marw yn yr Arglwydd: felly y dywaid yr Ysbryd; canys y maent yn gorphwyſo oddi wrth eu llafur. *Dad.* 14. 13.

¶ *Yna y dywaid yr Offeiriad,*

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Criſt, trugarhâ wrthym.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

EIn Tâd, yr hwn ŵyt yn y nefoedd; ſanctteiddier dy Enw. Deued dy Deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i broſedigaeth; Eithr gwared ni rhag drŵg: Canys eiddot ti yw 'r Deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oeſoedd. *Amen.*

Offeiriad.

HOll-alluog Dduw, gyd â'r hwn y mae yn byw ysbrydoedd y rhai a ymadawſant oddi yma yn yr Arglwydd, ac yn yr hwn y mae eneidiau y ffyddloniaid, wedi darfod eu rhyddhâu oddi wrth faich y cnawd, mewn llawenydd a dedwŷddyd; Yr ydym yn mawr ddiolch i ti, fod yn wiw gennyt waredu ein *brawd hwn* allan o drueni 'r bŷd pechadurus hwn; gan attolygu i ti ryngu bôdd it' o'th radlawn ddaioni, gyflawni ar fyrder niſer dy etholedigion,

digion, a phryſuro dy Deyrnas, môdd y gallom ni, gyd â'r rhai oll a ymadawſant â'r bŷd mewn gwîr ffydd dy Enw bendigedig, gaffael i ni ddiwedd perffaith, a gwynfyd ynghorph ac enaid, yn dy ddidrange a'th dragywyddol ogoniant, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Y Colect.

O Drugarog Dduw, Tâd ein Harglwydd Ieſu Griſt, yr hwn yw y cyfodiad a'r bywyd, ym mha un pwy bynnag a gretto, a fydd byw, er iddo farw; A phwy bynnag a fo byw ac a gretto ynddo ef, ni bydd marw yn dragywydd; Yr hwn hefyd a'n dyſgodd (trwy ei Apoſtol bendigedig S. Paul) na thriſtâem fel rhai heb obaith, dros y rhai a hunant ynddo ef: Nyni yn oſtyngedig a attolygwn i ti, O Dâd, ein cyfodi ni o angau pechod i fuchedd cyfiawnder, fel y bo i ni wedi ymado â'r fuchedd hon, orphwys ynddo ef, megis y mae ein gobaith fod ein *brawd hwn*; Ac ar y cyfodiad cyffredin y dŷdd diweddaf ein caffael yn gymmeradwy yn dy olwg di, a derbyn y fendith a ddadgan dy garedig Fâb yr amſer hynny i bawb a'r a'th ofnant ac a'th garant, gan ddywedyd, Deuwch, chwi fendigedig blant fy Nhâd, meddiennwch y Deyrnas a barottowyd i chwi er pan ſeiliwyd y bŷd. Caniattâ hyn, ni a attolygwn i ti, O drugarog Dâd, trwy Ieſu Griſt ein Cyfryngwr a'n Pryniawdr. *Amen.*

GRâs ein Harglwydd Ieſu Griſt, a Chariad Duw, a Chymdeithas yr Yſbryd Glân, a fyddo gyd â ni oll byth bythoedd. *Amen.*

Dïolwch gwragedd yn ôl eſgor plant, yr hwn a elwir yn gyffredin, Rhyddhâu, neu Eglwyſa.

¶ Yr wraig ar yr amſer arferedig ar ôl Eſgor, a ddaw i'r Eglwys, wedi ymwiſgo yn weddus, ac yno y goſtwng ar ei gliniau yn rhwy le cyſaddas, fel yr arferwyd, neu megis y trefno'r Ordinari: Ac yno'r Offeiriad a ddywaid wrthi,

YN gymmaint a rhyngu bôdd i'r goruchaf Dduw o'i ddaioni roddi i ti ryddhâd ymwaredol, a'th gadw yn y mawr berygl wrth eſgor, ti a ddiolchi yn ewyllyſgar i Dduw am hynny, ac a ddywedi,

(*¶ Yna y dywaid yr Offeiriad y Salm hon.*)

Dilexi, quoniam. Salm 116.

DA gennyf wrando o'r Arglwydd: ar fy llêf a'm gweddiau.

Am oftwng o hono ei glûſt attaf: Am hynny lleſaf dros fy nyddiau arno ef.

Gofidion angau a'm cylchynaſant: a gofidiau uffern a'm daliaſant, ing a blinder a gefais.

Yna y gelwais ar enw'r Arglwydd: Attolwg, Arglwydd, gwared fy enaid.

Graſlawn yw'r Arglwydd, a chyfiawn: a thoſturiol yw ein Duw ni.

Yr Arglwydd ſydd yn cadw y rhai annichellgar: tlodais, ac efe a'm hachubodd.

Dychwel, O fy enaid, i'th orphwyſfa: canys yr Arglwydd fu dda wrthyt,

O herwŷdd it' waredu fy enaid oddi wrth angau: fy llygaid oddi wrth ddagrau, a'm traed rhag llithro.

Rhodiaf o flaen yr Arglwydd: yn nhîr y rhai byw.

Credais, am hynny y lleferais: cyſtuddiwyd fi yn ddirfawr.

Mi a ddywedais yn fy ffrŵſt: Pob dŷn ſydd gelŵyddog.

Beth a dalaf i'r Arglwydd: am ei holl ddoniau i mi?

Phïol iechydwriaeth a gymmeraf: ac ar enw'r Arglwydd y galwaf.

Talaf fy addunedau i'r Arglwydd: yn awr yng-wydd ei holl bobl;

Ynghynteddoedd tŷ'r Arglwydd: yn dy ganol di, O Jeruſalem. Molwch yr Arglwydd.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd Glân;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ Neu'r Salm hon.

Niſi Dominus. Salm 127.

O'S yr Arglwydd nid adeilada y tŷ, ofer y llafuria ei adeiladwŷr wrtho: o's yr Arglwydd ni cheidw'r ddinas, ofer y gwilia'r ceidwad.

Ofer i chwi fore godi, myned yn hŵyr i gyſgu, bwytta bara gofidiau: felly y rhydd efe hûn i'w anwylyd.

Wele, plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd: ei wobr ef yw ffrwyth y grôth.

Fel y mae ſaethau yn llâw y cadarn: felly y mae plant ieuengctid.

Gwŷn ei fŷd y gŵr a lanwodd ei gawell ſaethau â hwynt: ni's gwaradwyddir hwy, pan ymddiddanant â'r gelynion yn y porth.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd Glân;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ Yna y dywaid yr Offeiriad,

Gweddïwn.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Criſt, trugarhâ wrthym.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

EIn Tâd, yr hwn ŷwt yn y nefoedd; ſanctteiddier dy Enw. Deued dy Deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drŵg: Canys eiddot ti yw'r Deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oeſoedd. *Amen.*

Gweinidog. Arglwydd, cadw dy waſanaeth-wraig hon;

Atteb. Yr hon ſydd yn ymddiried ynot.

Gweinidog. Bydd iddi yn dŵr cadarn,

Atteb. Rhag wyneb ei gelyn.

Gweinidog. Arglwydd, erglyw ein gweddiau.

Atteb. A deued ein llef hyd attat.

Gweinidog. Gweddïwn.

HOll-alluog Dduw, nyni yn oſtyngedig a ddiolchwn i ti, ryngu bôdd it' waredu dy waſanaeth-wraig hon oddi wrth y mawr boen a'r perygl ar Enedigaeth dŷn bâch; Caniattâ, ni a attolygwn i ti, drugaroecaf Dâd, allu o honi trwy dy gynhorthwy di, fyw yn ffyddlawn, a rhodio yn ôl dy ewyllys di yn y ſuchedd breſennol hon, a hefyd bod yn gyfrannog o'r gogoniant tragywyddol yn y fuchedd a ddaw, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Rhaid i'r wraig a ddêl i dalu diolch, offrymmu'r offrymmau defodol; ac o bydd Cymmun, iawn yw iddi gymmeryd y Cymmun bendigedig.

Y

Y COMMINASIWN, neu Gyhoeddiad digofaint a barnedigaethau Duw yn erbyn pechaduriaid; A rhyw weddiau i'w harfer ar y dydd cyntaf o'r *Garawys*, ac ar amſerau eraill pan drefno 'r Ordinari.

¶ *Ar ôl y Forfuol Weddi, ar ddiwedd y Litani yn lle y mâdd arferedig, yr Ofeiriad yn y lle y darllenir y Gwaſanaeth neu yn y Pulpud, a ddywaid,*

YBrodyr, yn y brif Eglwys gynt, yr oedd diſgyblaeth ddiwiol, nid amgen, na bod yn nechreu 'r Garawys, roi cyfryw ddynion ag oeddynt bechaduriaid cyhoedd, i benyd cyhoedd, a'u pooni yn y bŷd yma, môdd y byddai eu heneidiau gadwedig yn nydd yr Arglwydd; ac megis y gallai eraill, wedi eu rhybuddio trwy eu heſampl hwy, ſod yn ofnuſach i wneuthur ar gam. Yn lle hynny, bŷd onid adnewyddder y ddywededig ddiſgyblaeth (yr hyn a ddylid ei ddymuno yn fawr) ſo dybiwyd ſod yn dda yr amſer hyn, yn eich gŵydd chwi oll, ddarllen yr ymadroddion cyffredin o felldithion Duw yn erbyn pechaduriaid anedifeiriol, y rhai a gaſglwyd allan o'r ſeithfed bennod ar hugain o Ddeuteronomium, a lleoedd eraill o'r Yſgrythur lân; a bod i chwi attob i bob ymadrodd, *Amen*: Er mwyn, gwedi darfod felly eich rhybuddio am fawr ddigllonder Duw yn erbyn pechaduriaid, gallu eich gwahodd yn gynt i ddifrifol a gwîr edifeirwch, a bod i chwi rodio yn ddieſgeulufach y dyddiau enbyd hyn, gan gilio oddi wrth gyfryw feiau ag yr ydych chwi yn ſicrhâu â'ch geneuau eich hunain, ſod melldith Dduw yn ddyledus am danynt.

MElldigedig yw 'r neb a wnêl ddelw gerfiedig neu doddedig, i'w haddoll. *Deut.* 27. 15.

¶ *A'r holl a attebant, ac a ddywedant,* Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw 'r hwn a felldithio ei dâd neu ei fam. *gwers* 16.

Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw 'r hwn a ſymmudo derfyn tir ei gymmydog. *gwers* 17.

Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw 'r hwn a baro i'r dall gyfeiliorni allan o'i ffordd. *gwers* 18.

Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw 'r hwn a ŵyro farn y dieithr, yr amddifad, a'r weddw. *gwers* 19.

Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw 'r neb a darawö ei gymmydog yn ddirgel. *gwers* 24.

Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw 'r hwn a orweddo gyd â gwraig ei gymmydog. *Lef.* 20. 19.

Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw 'r hwn a gymmero wobr er dieneidio gwirion. *Deut.* 27. 25.

Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw 'r hwn a roddo ei ymddiried mewn dŷn, ac a gymmero ddŷn yn amddiffyn iddo, ac yn ei galon a gilio oddi wrth yr Arglwydd. *Jer.* 17. 5.

Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw 'r anhrugarog, y godinebus, a'r rhai a dorrant briodas, a'r cybyddion, addolwŷr delwau, enllibwŷr, meddwon, a'r cribddeilwŷr. *S. Mat.* 25. 41. 1 *Cor.* 6. 9, 10.

Atteb. Amen.

Gweinidog.

Sal. 119. 21. YN awr, yn gymmaint a'u bod hwy oll yn felldigedig (ſel y tyſtia Dafydd Brophwyd) y rhai ſy yn cyfeiliorni ac yn myned ar ddidro oddi wrth orchymynion Duw: Moeſwch i ni (gan feddylio am y farn ofnadwy ſydd goruwch ein pennau, ac fyth ger ein llaw) ymchwelyd at ein Harglwydd Dduw â chwbl gyſtudd, a goſtyngeiddrwydd câlon; gan ddwyn galar a thrymder dros ein bucheddbechadurus, gan gydnabod a chyffeſu ein camweddau, a cheiſio dwyn ffrwythau addas i edifeirwch. Canys yr awr hon y mae 'r fwyall wedi ei goſod ar wreiddyn y prenniau, ſel y torrir i lawr, ac y bwrir yn tân, bob pren nid yw yn dwyn ffrwyth da. Peth ofnadwy yw ſyrthio yn nwylaw y Duw byw. Efe a wlawia ar yr annuwiolion, ſaglau, tân a brwmſtan, a phoeth-wynt yſtormus; dyma rân eu phiol hwynt. Canys wele, y mae 'r Arglwydd yn dyfod allan o'i ſan-gre, i ymweled ag anwiredd preſwylwŷr y ddaear. Ond pwy a oddef ddydd ei ddyfodiad ef? a phwy a ſaif pan ymddangoſo efe? Ei wyntyll ſydd yn ei law, ac efe a lwyr-lanhâ ei lawr dyrnu, ac a gaſgl ei wenith i'w yſgubor, eithr yr ûs a lŷſg efe â thân anniffoddadwy. Dŷdd yr Arglwydd a ddaw ſel lleidr o hŷd nôs; a phan ddywedant, Tangnefedd, a Diogelwch, yna y mae dinyitr diſymmwth yn dyfod ar eu gwarthaf megis gwewŷr eſgor ar un a ſo beichiog, ac ni ddiangant hwy ddim. Yna yr ymddengys cynddaredd Duw yn y dŷdd digofaint, yr hwn a ddarfu i'r pechaduriaid anhydyn ei bentyrru ar eu gwarthaf eu hunain trwy gyndynrwydd ou calonnau, y rhai a ddiyſtyrent olud daioni, dioddefgarwch, ac ymaros Duw, pan ydoedd efe yn eu galw hwy yn waſtad i edifeirwch. Yna y gallwant arnaf, (medd yr Arglwydd,) ond ni wrandawaf; y'm ceiſiant yn fore, ond ni'm cânt; a hynny o herwydd mai câs fu ganddynt ŵybodaeth, ac ni ddewiſaſant ofn yr Arglwydd, ond caſáu fy nghyngor, a dirmygu fy nghoſbedigaeth. Yna y bydd rhŷ hwyr curo, wedi cau 'r drws; a rhŷ hwyr galw am drugaredd, pan yw amſer cyfiawnder. Och mor aruthrol llêf y farn gyfiawnaf a draethir arnynt hwy, pan ddywedir wrthynt, Ewch chwi y rai melldigedig i'r tân tragywyddol, yr hwn a barottöwyd i ddiafol ac i'w angylion. Am hynny, frodyr, ymochelwn yn brydol, tra parhao dŷdd yr iechydwriaeth: Canys y mae 'r nôs yn dyfod, pan na ddichon neb weithio: Eithr tra fyddo gennym oleuni, credwn yn y goleuni, a rhodiwn ſel plant y goleuni, rhag e'n bwrw i'r tywyllwch eithaf, lle y mae ŵylofain a rhingcian dannedd. Na ddiyſtyrwn ddaioni Duw, yr hwn ſydd yn ein galw yn drugarog i wellhâu, ac o'i ddidrangc doſturi, yn addaw i ni faddeuant am a aeth heibio, o's nyni (â chwbl feddwl, ac â chalon gywir) a ddychwelwn atto ef. Canys er bod ein pechodau ni cyn goched a'r yſgarlad, hwy a ânt cyn wynned a'r eira: ac er eu bod ſel y porphor, etto hwy fyddant cyn wynned a'r gwlân. Dychwelwch a throwch (medd yr Arglwydd) oddi wrth eich holl gamweddau, ſel na byddo eich anwiredd yn dramgwydd i chwi. Bwriwch oddi wrthych eich holl gamweddau y cam-

camweddaſoch ynddynt, a gwnêwch iwch' gàlon newŷdd, ac ysbryd newŷdd: canys pa ham, Tŷ Iſrael, y byddwch feirw, canys nid oes ewyllys gennyf i farwolaeth y marw, medd yr Arglwydd Dduw? Dychwelwch gan hynny, a byw
1 S. Ioan. 2, 1, 2. fyddwch. Er darfod i ni bechu, etto y mae i ni Eiriolwr gyd â'r Tâd, Ieſu Criſt y cyfiawn, ac efe yw 'r iawn dros
Eſay 53. 5. ein pechodau ni. Canys efe a archollwyd am ein camweddau ni, ac a ddryllwyd am ein hanwireddau ni. Ymchwelwn am hynny atto ef, yr hwn yw trugarog dderbyniwr holl wîr edifeiriol bechaduriaid; gan gwbl-gredu ei fod ef yn barod i'n derbyn, ac yn oreu ei ewyllys i faddeu i ni, o's deuwn atto mewn ffyddlawn edifeirwch; o's nyni a ymoftyngwn iddo, ac a rodiwn o hyn allan yn ei
S. Math. 11.29,30. fiyrdd ef; o's nyni a gymmerwn ei iau ef arnwyth ef, a'i faich yſgafn arnom, i'w ganlyn ef mewn goſtyngeiddrwydd, dioddefgarwch a chariad perffaith, a bod o honom yn drefnedig wrth lywodraeth ei Ysbryd glân ef; gan geiſio yn waſtad ei ogoniant, a'i wafanaethu yn ddyladwy yn ein galwedigaeth gan ddïolch iddo. O's hyn a wnâwn, Criſt a'n gwared ni oddi wrth felldith y gyfraith, ac oddi wrth y felldith eithaf a ddiſgyn ar y ſawl
S. Math. 25.33,34. a ſyddant ar y llâw aſſwy, ac efe a'n geſyd ni ar ei ddeheu-law, ac a ddyry i ni wynfydedig fendith ei Dâd, gan orchymmyn i ni gymmeryd meddiant yn ei ogoneddus Deyrnas: I'r hon poed teilwng fo ganddo ein dwyn ni i gyd oll, er ei anfeidrol drugaredd. *Amen.*

¶ *Yna y goſtyngant bawb ar eu gliniau, a'r Offeiriad ar Ygolbeigion ar eu gliniau (yn y fàn lle maent arferedig o ddywedyd y Litani) a ddywedant y Salm hon.*

Miſerere mei, Deus. Salm 51.

TRugarhâ wrthyf, O Dduw, yn ôl dy drugarowgrwydd: yn ôl lliaws dy doſturiaethau, dilea fy anwireddau.

Golch fi yn llwyr-ddwys oddi wrth fy anwiredd: a glanhâ fi oddi wrth fy mhechod.

Canys yr wŷf yn cydnabod fy nghamweddau: a'm pechod ſydd yn waſtad ger fy mron.

Yn dy erbyn di, dydi dy hunan y pechais, ac y gwnaethum y drŵg hyn yn dy olwg: fel y'th gyfiawnhaer pan leferych, ac y byddit bur pan farnech.

Wele, mewn anwiredd y'm lluniwyd: ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnai.

Wele, ceraiſt wirionedd oddi mewn: a pheri i mi ŵybod doethineb yn ddirgel.

Glanhâ fi ag iſop, ac mi a lanhêir: golch fi, a byddaf wynnach nà'r eira.

Pâr di i mi glywed gorfoledd, a llawenydd: fel y llawenycho 'r eſgyrn a ddrylliaiſt.

Cuddia dy ŵyneb oddi wrth fy mhechodau: a dilea fy holl anwireddau.

Crea gàlon lân ynof, O Dduw: ac adnewŷdda ysbryd uniawn o'm mewn.

Na fwrw fi ymaith oddi ger dy fron: ac na chymmer dy Ysbryd ſanctaidd oddi wrthyf.

Dyro drachefn i mi orfoledd dy iechydwriaeth: ac â'th hael Ysbryd cynnal fi.

Yna y dyſgaf dy ffyrdd i rai anwir: a phechaduriaid a droir attat.

Gwared fi oddi wrth waed, O Dduw, Duw fy iechydwriaeth: a'm tafod a gân yn llafar am dy gyfiawnder.

Arglwydd, agor fy ngweſuſau: a'm genau a fynega dy foliant.

Canys ni chwennychi aberth, pe amgen mi a'i rhoddwn: poeth-offrwm ni fynni.

Aberthau Duw ydynt yſbryd drylliedig: càlon ddrylliog gyſtuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi.

Gwnâ ddaioni, yn dy ewyllyſgarwch, i Seion: adeilada furiau Jeruſalem.

Yna y byddi foddlon i ebyrth cyfiawnder, i boeth-offrwm, ac aberth llòſg: yna 'r offrymmant fuſtych ar dy allor.

Gogoniant i'r Tâd, &c.

Atteb. Megis yr oedd yn y dechreu, &c.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Criſt, trugarhâ wrthym.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

EIn Tâd, yr hwn ŵyt yn y nefoedd; ſanctaiddier dy Enw. Deued dy Deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i broſedigaeth; Eithr gwared ni rhag drŵg: Canys eiddot ti yw 'r Deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oeſoedd. *Amen.*

Gweinidog. Arglwydd, cadw dy wafanaeth-ddynion;

Atteb. Y rhai a ymddiriedant ynot.

Gweinidog. Anfon iddynt borth oddi uchod.

Atteb. Ac byth amddiffyn hwy yn gadarn.

Gweinidog. Cymmorth nyni, O Dduw ein Hiachawdwr.

Atteb. Ac er mwyn gogoniant dy Enw gwared ni; Bydd drugarog wrthym bechaduriaid, er mwyn dy Enw.

Gweinidog. Arglwydd, gwrando ein gweddïau.

Atteb. A deued ein llef hŷd attat.

Gweinidog. Gweddïwn.

OArglwydd, ni a attolygwn i ti, yn drugarog gwrando ein gweddïau, ac arbed bawb a gyffeſant eu pechodau wrthyt, fel y bo i'r rhai y cyhuddir eu cydwybodau gan bechod, trwy dy drugarog faddeuant fod yn ollyngedig, trwy Grift ein Harglwydd. *Amen.*

OAlluoccaf Dduw a thrugaroccaf Dâd, yr hwn ŵyt yn toſturio wrth bob dŷn, ac nid ŵyt yn caſâu dim a'r a wnaethoſt, yr hwn nid ewyllyſi farwolaeth pechadur, ond byw o hono ac ymchwelyd oddi wrth ei bechod, a bod yn gadwedig; yn drugarog maddeu i ni ein camweddau, derbyn a chyſſura ni, y rhai ydym yn flîn ac yn orthrwm gennym faich ein pechodau. Ti bïau o briodolder drugarhâu yn waſtad, i ti yn unig y perthyn maddeu pechodau. Arbed nyni am hynny, Arglwydd daionus, Arbed dy bobl y rhai a brynaiſt; Na ddôs i'r farn â'th weiſion y rhai ym bridd gwael, a phechaduriaid truain; Eithr ymchwel ſelly dy lid oddi wrthym, y rhai ym yn oſtyngedig yn cydnabod ein gwaeledd ac yn wîr edifeiriol gennym ein beiau; ac felly bryſia i'n cynnorthwyo ni yn y bŷd hwn, fel y byddom fyw byth gyd â thi yn y bŷd a ddaw, trwy Ieſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna y dywaid y bobl hyn yma ſydd yn canlyn, ar ôl y Gweinidog.*

YMchwel di ni, O Arglwydd daionus, ac yna yr ymchwelir ni: Yſtyria, O Arglwydd, yſtyria wrth dy bobl, y rhai ſydd yn ymchwelyd attat trwy ŵylofain, ymprydio, a gweddïo: Canys Duw trugarog ŵyt ti, yn llawn toſturi, yn dda dy ammynedd, ac yn fawr dy wârder. Yr ŵyt yn arbed pan ŷm ni yn haeddu poenau, ac yn dy lid yr ŵyt yn meddwl am drugaredd. Arbed dy bobl, Arglwydd daionus, arbed hwy, ac na ddyger dy etifeddiaeth i waradwydd. Clyw nyni, Arglwydd, canys mawr yw dy drugaredd, ac yn ôl lliaws dy drugareddau edrych arnom, trwy haeddedigaethau a chyfryngdod dy fendigedig Fâb, Ieſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna yr Offeiriad ei hun yn unig a ddywaid,*

BEndithied yr Arglwydd ni, a chadwed ni: Dyrchafed yr Arglwydd lewyrch ei wyneb arnom, a rhodded i ni Dangnefedd yr awr hon ac hŷd byth. bythoedd. *Amen.*

Y SALL.

Y

SALLWYR neu SALMAU DAFYDD,

Ar ôl cyfieithiad y Beibl mawr, wedi eu nodi megis ag y maent i'w canu new i'w dywedyd mewn EGLWYSYDD.

Y DYDD CYNTAF.

BOREUOL WEDDI.

SALM 1. *Beatus vir, qui non abiit.*

GWYN ei fŷd y gŵr ni rodia ynghyngor yr annuwiolion, ac ni saif yn ffordd pechaduriaid: ac nid eistedd yn eisteddfa gwatworwŷr.

2 Onid ŷdd â'i ewyllys ynghyfraith yr Arglwydd: ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos.

3 Ac efe a fydd fel pren wedi ei blannu ar làn afonydd dyfroedd, yr hwn a rŷdd ei ffrwyth yn ei brŷd: a'i ddalen ni wywa, a pha beth bynnag a wnêl, efe a lwydda.

4 Nid felly y bydd yr annuwiol: onid fel mân ûs yr hwn a chwâl y gwynt ymaith.

5 Am hynny yr annuwiolion ni safant yn y farn: na phechaduriaid ynghynnulleidfa y rhai cyfiawn.

6 Canys yr Arglwydd a edwyn ffordd y rhai cyfiawn: ond ffordd yr anuwiolion a ddifethir.

SALM 2. *Quare fremuerunt gentes?*

PA ham y terfysga y cenhedloedd: ac y myfyria y bobloedd beth ofer?

2 Y mae Brenhinoedd y ddaear yn ymosod, a'r pennaethiaid yn ymgynghori ynghŷd: yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn ei Grist ef, gan ddywedyd;

3 Drylliwn eu rhwymau hwy: a thaflwn eu rheffynnau oddi wrthym.

4 Yr hwn fydd yn preswylio yn y nefoedd a chwardd: yr Arglwydd a'u gwatwor hwynt.

5 Yna y llefara efe wrthynt yn ei lîd: ac yn ei ddigllonrwydd y dychryna efe hwynt.

6 Minnau a osodais fy Mrenhin: ar Seion fy mynydd sanctaidd.

7 Mynegaf y ddeddf; dywedodd yr Arglwydd wrthyf: Fy Mâb ydwyt ti, myfi heddyw a'th genhedlais.

8 Gofyn i mi, a rhoddaf y cenhedloedd yn etifeddiaeth i ti: a therfynau y ddaear i'th feddiant.

9 Drylli hwynt â gwialen haiarn: maluri hwynt fel llestr pridd.

10 Gan hynny 'r awr hon frenhinoedd, byddwch synhwyrol: barnwŷr y Ddaear cymmerwch ddysg.

11 Gwasanaethwch yr Arglwydd mewn ofn: ac ymlawenhêwch mewn dychryn.

12 Cusenwch y Mâb rhag iddo ddigio, a'ch difetha chwi o'r ffordd: pan gynneuo ei lîd ef (ir end ychydig;) gwŷn eu byd pawb a ymddiriedant ynddo ef.

SALM 3. *Domine, quid multiplicati?*

ARglwydd, mŏr aml yw fy nhrallodwŷr: llawer yw y rhai sy 'n codi i'm herbyn.

2 Llawer yw y rhai sy 'n dywedyd am fy enaid: Nid oes iechydwriaeth iddo yn ei Dduw.

3 Ond tydi, Arglwydd, ydwyt darian i mi: fy ngogoniant, a dyrchafydd fy mhen.

4 A'm llêf y gelwais ar yr Arglwydd: ac efe a'm clybu o'i fynydd sanctaidd.

5 Mi a orweddais ac a gysgais, ac a ddeffroais: canys yr Arglwydd a'm cynhaliodd.

6 Nid ofnaf fyrddiwn o bobl: y rhai o amgylch a ymosodasant i'm herbyn.

7 Cyfod, Arglwydd, achub fi fy Nuw: canys tarewaist fy holl elynion ar gàr yr ên; torraist ddannedd yr annuwiolion.

8 Iachawdwriaeth sydd eiddo 'r Arglwydd: dy fendith sydd ar dy bobl.

SALM 4. *Cum invocarem.*

GWrando fi pan alwyf, O Dduw fy nghyfiawnder: mewn cyfyngder yr ehangaist arnaf; trugarhâ wrthyf, ac erglyw fy ngweddi.

2 O feibion dynion, pa hŷd y trowch fy ngogoniant yn warth: yr hoffwch wegi, ac yr argeisiwch gelwydd?

3 Ond gŵybyddwch i'r Arglwydd neilltuo y duwiol iddo ei hun: yr Arglwydd a wrendy pan alwyf arno.

4 Ofnwch, ac na phechwch: ymddiddenwch â'ch càlon ar eich gwely, a thewch.

5 Aberthwch ebyrth cyfiawnder: a gobeithiwch yn yr Arglwydd.

6 Llawer sy 'n dywedyd, Pwy a ddengys i ni ddaioni? Arglwydd, dyrcha arnom lewyrch dy wyneb.

7 Rhoddaist lawenydd yn fy nghàlon: mwy nâ'r amser yr amlhaodd eu ŷd, a'u gwin hwynt.

8 Mewn heddwch hefyd y gorweddaf, ac yr hunaf: canys ti Arglwydd yn unig a wnei i mi drigo mewn diogelwch.

SALM 5. *Verba mea auribus.*

GWrando fy ngeiriau, Arglwydd: deall fy myfyrdod.

2 Erglyw ar lêf fy ngwaedd, fy Mrenhin, a'm Duw: canys arnat y gweddiaf.

3 Yn fore, Arglwydd, y clywi fy llêf: yn fore y cyfeiriaf fy ngweddi attat, ac yr edrychaf i fynu.

4 O herwŷdd nid ŵyt ti Dduw 'n ewyllysio anwiredd: a drŵg ni thrig gyd â thi.

5 Ynfydion ni safant yn dy olwg: casaaist holl weithredwŷr anwiredd.

6 Difethi y rhai a ddywedant gelŵydd: yr Arglwydd a fheiddia y gŵr gwaedlyd, a'r twyllodrus.

7 A minnau a ddeuaf i'th dŷ yn amlder dy drugaredd: ac â addolaf tu a'th Demi ſanctaidd yn dy ofn di.

8 Arglwydd, arwain fi yn dy gyfiawnder, o achos fy ngelynion: ac uniona dy ffordd o'm blaen.

9 Canys nid oes uniondeb yn eu genau, eu ceudod ſydd anwireddau: bêdd agored yw eu cêg, gwenhieithiant â'u tafod.

10 Diſtrywia hwynt, O Dduw, ſyrthiant oddi wrth eu cynghorion: gyrr hwynt ymaith yn amlder eu camweddau, canys gwrthryfelaſant i'th erbyn.

11 Ond llawenhâed y rhai oll a ymddiriedant ynot ti: llafar ganant yn dragywydd, am i ti orchuddio troſtynt; a'r rhai a garant dy enw, gorfoleddant ynot.

12 Canys ti, Arglwydd, a fendithi y cyfiawn: â charedigrwydd, megis â tharian, y coroni di ef.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 6. *Domine, ne in furore.*

ARglwydd, na cherydda fi yn dy lidiowgrwydd: ac na choſpa fi yn dy lid.

2 Trugarhâ wrthyf, Arglwydd, canys llêſg ydwyf fi: iachâ fi, O Arglwydd, canys ſy eſgyrn a gyſtuddiwyd.

3 A'm henaid a ddychrynwyd yn ddirfawr: ſithau, Arglwydd, pa hŷd?

4 Dychwel, Arglwydd, gwared fy enaid: achub fi er mwyn dy drugaredd.

5 Canys yn angau nid oes goffa am danat: yn y bêdd pwy a'th folianna?

6 Diffygiais gan fy ochain, bob nôs yr ydwyf yn gwneuthur fy ngwely yn foddfa: yr ydwyf fi'n gwlychu fy ngorweddfa â'm dagrau.

7 Treuliodd fy llygad gan ddigter: heneiddiodd o herwŷdd fy holl elynion.

8 Ciliwch oddi wrthyf holl weithredwŷr anwiredd: canys yr Arglwydd a glywodd lêf fy ŵylofain.

9 Clybu 'r Arglwydd fy neiſyfiad: yr Arglwydd a dderbyn fy ngweddi.

10 Gwaradwydder, a thralloder yn ddirfawr fy holl elynion: dychweler, a chywilyddier hwynt yn ddiſymmwth.

SALM 7. *Domine, Deus meus.*

ARglwydd fy Nuw, ynot yr ymddiriedais: achub fi rhag fy holl erlidwŷr, a gwared fi.

2 Rhag iddo larpio fy enaid fel llêw, gan ei rwygo: prŷd na byddo gwaredydd.

3 O Arglwydd fy Nuw, o's gwneuthum hyn: od oes anwiredd yn fy nwylaw:

4 O thelais ddrŵg i'r neb oedd heddychol â mi: (ie mi a waredais yr hwn ſydd elyn i mi heb achos:)

5 Erlidied y gelyn fy enaid, a goddiwedded: ſathred hefyd fy mywyd i'r llawr, a goſoded ſy ngogoniant yn y llŵch.

6 Cyfod, Arglwydd, yn dy ddigllonedd, ymddyrcha o herwŷdd llid fy ngelynion: deffro hefyd droſof i'r farn a orchymynaiſt.

7 Felly cynnulleidfa y bobloedd a'th amgylchynant: er eu mwyn dychwel dithau i'r uchelder.

8 Yr Arglwydd a farn y bobloedd; barn fi, O Arglwydd: yn ôl fy nghyfiawnder, ac yn ôl fy mherfFeithrwydd ſydd ynof.

9 Darfydded weithian anwiredd yr annuwiolion, eithr cyfarŵydda di y cyfiawn: canys y Duw cyfiawn a chwilia y calonnau, a'r arennau.

10 Fy amddiffyn ſydd o Dduw: iachawdwr y rhai uniawn o galon.

11 Duw ſydd farnydd cyfiawn: a Duw ſy ddigllon beunydd wrth yr annuwiol.

12 Oni ddychwel yr annuwiol, efe a hoga ei gleddyf: efe a annelodd ei fŵa, ac a'i parottôdd.

13 Parottôdd hefyd iddo arfau angheuol: efe a drefnodd ei ſaethau yn erbyn yr erlidwŷr.

14 Wele efe a ymddŵg anwiredd: ac a feichiogodd âr gamwedd, ac a eſgorodd ar gelŵydd.

15 Torrodd bwll, cloddiodd ef: ſyrthiodd hefyd yn y clawdd a wnaeth.

16 Ei anwiredd a ymchwel ar ei ben ei hun: a'i draha a ddiſgyn ar ei goppa ei hun.

17 Clodforaf yr Arglwydd yn ol ei gyfiawnder: a chanmolaf enw 'r Arglwydd goruchaf.

SALM 8. *Domine, Dominus noſter.*

ARglwydd ein Iôr ni, mòr ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear: yr hwn a oſodaiſt dy ogoniant uwch y nefoedd!

2 O enau plant bychain, a rhai yn ſugno y peraiſt nerth, o achos dy elynion: i oſtegu y gelyn, a'r ymddialydd.

3 Pan edrychwyf ar dy nefoedd, gwaith dy fyſedd: y lloer a'r ſêr, y rhai a ordeiniaiſt;

4 Pa beth yw dŷn i ti i'w gofio: a mâb dŷn i ti i ymweled ag ef?

5 Canys gwnaethoſt ef ychydig îs nâ'r angylion: ac a'i coronaiſt â gogoniant, ac â harddwch.

6 Gwnaethoſt iddo arglwyddiaethu ar weithredoedd dy ddwylaw: goſodaiſt bob peth dan ei draed ef:

7 Defaid, ac ychen oll: ac anifeiliaid y maes hefyd;

8 Ehediaid y nefoedd, a phyſgod y môr: ac y ſydd yn tramwyo llwybrau y moroedd.

9 Arglwydd ein Iôr: mòr ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear!

BOREUOL WEDDI.

SALM 9. *Confitebor tibi.*

CLodforaf di, O Arglwydd, â'm holl gâlon: mynegaf dy holl ryfeddodau.

2 Llawenychaf, a gorfoleddaf ynot: canaf i'th enw di, y Goruchaf.

3 Pan ddychweler fy ngelynion yn eu hôl: hwy a gŵympant, ac a ddifethir o'th flaen di.

4 Canys gwnaethoſt fy marn a'm matter yn dda: eiſteddaiſt ar orfedd-faingc gan farnu yn gyfiawn.

5 Ceryddaiſt y cenhedloedd, diſtrywiaiſt yr annuwiol: eu henw hwynt a ddileaiſt byth bythol.

6 Ha elyn, darfu am ddinyſtr yn dragywydd: a diwreiddiaiſt y dinaſoedd; darfu eu coffadwriaeth gyd â hwynt.

7 Ond yr Arglwydd a bery yn dragywydd: efe a barottôdd ei orfedd-faingc i farn.

8 Ac efe a farn y bŷd mewn cyfiawnder: efe a farn y bobloedd mewn uniondeb.

9 Yr Arglwydd hefyd ſydd noddfa i'r gorthrymmedig: noddfa yn amſer trallod.

10 A'r rhai a adwaenant dy enw a ymddiriedant ynot: canys ni adewaiſt, O Arglwydd, y rhai a'th geiſient.

11 Canmolwch yr Arglwydd, yr hwn ſydd yn preſwylio yn Seion: mynegwch ym mŷſg y bobloedd ei weithredoedd ef.

12 Pan ymofynno efe am waed, efe a'u cofia hwynt: nid anghofia waedd y cyſtuddiol.

13 Trugarhâ wrthyf, Arglwydd, gwêl fy mlinder gan fy nghaſeion: fy nyrchafydd o byrth angau.

14 Fel y mynegwyf dy holl foliant ym mhyrth merch Seion: llawenychaf yn dy iechydwriaeth.

15 Y

15 Y cenhedloedd a foddasant yn y ffôs a wnaethant: yn y rhwyd a guddiasant, y daliwyd eu troed eu hun.

16 Adwaenir yr Arglwydd wrth y farn a wnâ: yr annuwiol a faglwyd yngweithredoedd ei ddwylaw ei hun.

17 Y rhai drygionus a ymchwelant i uffern: a'r holl genhedloedd a anghofiant Dduw.

18 Canys nid anghofir y tlawd byth: gobaith y trueiniaid ni chollir byth.

19 Cyfod, Arglwydd, na orfydded dŷn: barner y cenhedloedd ger dy fron di.

20 Gosod, Arglwydd, ofn arnynt: fel y gwybyddo y cenhedloedd mai dynion ydynt.

SALM 10. *Ut quid, Domine?*

PA ham, Arglwydd, y sefi o bell: yr ymguddi yn amser cyfyngder?

2 Yr annuwiol mewn balchder a erlid y tlawd: dalier hwynt yn y bwriadau a ddychymygasant.

3 Canys yr annuwiol a ymffrostia am ewyllys ei galon: ac a fendithia y cybydd, yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei ffieiddio.

4 Yr annuwiol gan uchder ei ffroen ni chais Dduw: nid yw Duw yn ei holl feddyliau ef.

5 Ei ffyrdd sydd flin bob amser, uchel yw dy farnedigaethau allan o'i olwg ef: chwythu y mae yn erbyn ei holl elynion.

6 Dywedodd yn ei galon, ni'm symmudir: o herwŷdd ni byddaf mewn drygfyd, hŷd genhedlaeth a chenhedlaeth.

7 Ei enau sydd yn llawn melldith, a dichell, a thwyll: tan ei dafod y mae camwedd ac anwiredd.

8 Y mae efe yn eistedd ynghynllwynfa y pentrefydd: mewn cilfachau y lladd efe y gwirion; ei lygaid a dremiant yn ddirgel ar y tlawd.

9 Efe a gynllwyna mewn dirgelwch, megis llew yn ei ffau: cynllwyn y mae i ddal y tlawd; efe a ddeil y tlawd gan ei dynnu i'w rwyd.

10 Efe a ymgrymma, ac a ymostwng: fel y cwympo tyrfa trueiniaid gan ei gedyrn ef.

11 Dywedodd yn ei galon, anghofiodd Duw: cuddiodd ei wyneb, ni wêl byth.

12 Cyfod, Arglwydd; O Dduw, dyrcha dy law: nag anghofia y cystuddiol.

13 Pa ham y dirmyga 'r annuwiol Dduw? dywedodd yn ei galon, nid ymofynni.

14 Gwelaist hyn; canys ti a ganfyddi anwiredd a cham, i roddi tâl â'th ddwylaw dy hun: arnat ti y gedy y tlawd; ti yw cynnorthwywr yr ymddifad.

15 Tòr fraich yr annuwiol, a'r drygionus: cais ei ddrygioni ef, hŷd na chaffech ddim.

16 Yr Arglwydd sydd Frenhin byth, ac yn dragywydd: difethwyd y cenhedloedd allan o'i dîr ef.

17 Arglwydd, clywaist ddymuniad y tlodion: parottôi eu calon hwynt, gwrendy dy glust arnynt:

18 I farnu yr ymddifad a'r gorthrymmedig: fel na ychwanego dŷn daearol beri ofn mwyach.

SALM 11. *In Domino confido.*

YN yr Arglwydd yr wyf yn ymddiried: pa fodd y dywedwch wrth fy enaid, cheda i'r mynydd fel aderyn?

2 Canys wele, y drygionus a annelant fŵa, parottoisant eu saethau ar y llinyn: i saethu yn ddirgel y rhai uniawn o galon.

3 Canys y seiliau a ddinystriwyd: pa beth a wnaeth y cyfiawn?

4 Yr Arglwydd sydd yn Nheml ei sancteiddrwydd; gorseddfa yr Arglwydd sydd yn y nefoedd: y mae ei lygaid ef yn gweled y tlawd, ei amrantau yn profi meibion dynion.

5 Yr Arglwydd a brawf y cyfiawn: eithr câs gan ei enaid ef y drygionus, a'r hwn sydd hoff ganddo drawsder.

6 Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau, tân a brwmstan, a phoethwynt yftormus: dyma ran eu phïol hwynt.

7 Canys yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder: ei wyneb a edrych ar yr uniawn.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 12. *Salvum me fac.*

ACHub, Arglwydd, canys darfu y trugarog: o herwŷdd pallodd y ffyddloniaid o blith meibion dynion.

2 Oferedd a ddywedant bob un wrth ei gymmydog: â gwefus wenhieithgar, ac â chalon ddau ddyblyg y llefarant.

3 Torred yr Arglwydd yr holl wefusau gwenhieithus: a'r tafod a ddywedo fawrhydri.

4 Y rhai a ddywedant, â'n tafod y gorfyddwn; ein gwefusau sydd eiddom ni; pwy sydd Arglwydd arnom ni?

5 O herwŷdd anrhaith y rhai cystuddiedig, o herwŷdd nchenaid y tlodion, y cyfodaf yn awr, medd yr Arglwydd: rhoddaf mewn iachawdwriaeth yr hwn y magler iddo.

6 Geiriau yr Arglwydd ydynt eiriau purion: fel arian wedi ei goethi mewn ffwrn bridd, wedi ei buro seithwaith.

7 Ti, Arglwydd, a'u cedwi hwynt: cedwi hwynt rhag y genhedlaeth hon yn dragywydd.

8 Yr annuwiolion a rodiant o amgylch: pan ddyrchafer y gwaelaf o feibion dynion.

SALM 13. *Usque quo, Domine?*

PA hŷd, Arglwydd, y'm anghofi, ai yn dragywydd: pa hŷd y cuddi dy wyneb rhagof?

2 Pa hŷd y cymmeraf gynghorion yn fy enaid, gan fod blinder beunydd yn fy nghalon: pa hŷd y dyrchefir fy ngelyn arnaf?

3 Edrych, a chlyw fi, O Arglwydd fy Nuw: goleua fy llygaid rhag i'm huno yn yr angau,

4 Rhag dywedyd o'm gelyn, gorchfygais ef: ac i'm gwrthwynebwŷr lawenychu o's gogwyddaf.

5 Minnau hefyd a ymddiriedais yn dy drugaredd di, fy nghalon a ymlawenycha yn dy iachawdwriaeth: canaf i'r Arglwydd am iddo fyniaw arnaf; ie, canmolaf Enw 'r Arglwydd Goruchaf.

SALM 14. *Dixit insipiens.*

YR ynfyd a ddywedodd yn ei galon, nid oes un Duw: ymlygrasant, ffieidd-waith a wnaethant; nid oes a wnêl ddaioni, nag oes un.

2 Yr Arglwydd a edrychodd i lawr o'r nefoedd ar feibion dynion: i weled a oedd neb dealigar, yn ymgeisio â Duw.

3 Cilodd pawb, cŷd-ymddifwynasant: nid oes a wnêl ddaioni, nag oes un.

4 Bêdd agored yw eu cêg; â'u tafodau y gwnaethant ddichell: gwenwyn aspaid sydd tan eu gwefusau.

5 Y rhai y mae eu genau yn llawn melldith a chwerwedd: buan yw eu traed i dywallt gwaed.

6 Distryw ac aflwydd sydd yn eu ffyrdd, a ffordd tangnefedd nid adnabuant: nid oes ofn Duw ger bron eu llygaid.

7 Oni wŷr holl weithredwŷr anwiredd, y rhai fy yn bwytta fy mhobl fel y bwyttaent fara: ni alwasant ar yr Arglwydd.

8 Yno y dychrynasant gan ofn, ie lle nid oedd ofn: canys y mae Duw ynghenhedlaeth y cyfiawn.

9 Cyngor y tlawd a warâdwyddasoch chwi: am fod yr Arglwydd yn obaith iddo.

10 Pwy a ddyry iachawdwriaeth i Iſrael o Seion? pan ddychwelo yr Arglwydd gaethiwed ei bobl: yr ymhyſiryda Jacob, ac y llawenhâ Iſrael.

BOREUOL WEDDI.

SALM 15. *Domine, quis habitabit?*

ARglwydd, pwy a drig yn dy babell: pwy a breſwylia ym mynydd dy ſancteiddrwydd?

2 Yr hwn a rodia yn berffaith: ac a wnêl gyfiawnder, ac a ddywaid wir o'i galon.

3 Heb abſennu â'i dafod, heb wneuthur drwg i'w gymmydog: ac heb dderbyn enllib yn erbyn ei gymmydog.

4 Yr hwn y mae y drygionus yn ddirmygus yn ei olwg, ond a anrhydedda y rhai a ofnant yr Arglwydd: yr hwn a dwng i'w niweid ei hun, ac ni newidia.

5 Yr hwn ni roddes ei arian ar uſuriaeth, ac ni chymmer wobr yn erbyn y gwirion: a wnelo hyn nid yſgogir yn dragywydd.

SALM 16. *Conſerva me, Domine.*

CAdw fi, O Dduw: canys ynot yr ymddiriedaf.

2 Fy enaid, dywedaiſt wrth yr Arglwydd: fy Arglwydd ydwyt ti, fy nâ nid yw ddim i ti.

3 Ond i'r ſaint ſydd ar y ddaear, a'r rhai rhagorawl: yn y rhai y mae fy holl hyfrydwch.

4 Gofidiau a amlhânt i'r rhai a fryſiant ar ôl Duw dieithr: eu diod-offrwm o waed nid offrymaf fi, ac ni chymmeraf eu henwau yn fy ngweſuſau.

5 Yr Arglwydd yw rhan fy etifeddiaeth i, a'm phiol: ti a gynheli fy nghoelbren.

6 Y llinynnau a fyrthiodd i mi mewn lleoedd hyfryd: ïe y mae i mi etifeddiaeth dêg.

7 Bendithiaf yr Arglwydd yr hwn a'm cynghorodd: fy arennau hefyd a'm dyſgant y nôs.

8 Goſodais yr Arglwydd bob amſer ger fy mron: am ei fod ar fy neheu-law, ni'm yſgogir.

9 O herwŷdd hynny llawenychodd fy nghàlon, ac ymhyfrydodd fy ngogoniant: fy nghnawd hefyd a orphwys mewn gobaith.

10 Canys, ni adewi fy enaid yn uffern: ac ni oddefi i'th Sanct weled llygredigaeth.

11 Danghoſi i mi lwybr bywyd; digonolrhwydd llawenydd ſydd ger dy fron: ac ar dy ddeheu-law y mae digrifwch yn dragywydd.

SALM 17. *Exaudi, Domine.*

CLyw, Arglwydd, gyfiawnder; yſtyria fy llefain: gwrando fy ngweddi o wefuſau didwyll.

2 Deued fy marn oddi ger dy fron: edryched dy lygaid ar uniondeb.

3 Profaiſt fy nghàlon, gofwyaiſt fi y nôs; chwiliaiſt fi, ac ni chei ddim anwiredd ynof: bwriedais na throſeddai fy ngenau.

4 Tu ag at am weithredoedd dynion: wrth eiriau dy weſuſau yr ymgedwais rhag llwybrau yr yſpeilydd.

5 Cynnal fy ngherddediad yn dy lwybrau: fel na lithro fy nhraed.

6 Mi a elwais arnat, canys gwrandewi arnafi, O Dduw: goſtwng dy glûſt attaf, ac erglyw fy ymadrodd.

7 Dangos dy ryfedd drugareddau, O achubydd y rhai a ymddiriedant ynot: rhag y ſawl a ymgyſodant yn erbyn dy ddeheu-law.

8 Cadw fi fel canŵyll llygad: cûdd fi dan gyſgod dy adenydd;

9 Rhag yr annuwiolion, y rhai a'm gorthrymmant: rhag fy ngelynion marwol, y rhai a'm hamgylchant.

10 Cauaſant gan eu braſder: â'u genau y lleſarant mewn balchder.

11 Ein cynniweirſa ni a gylchynaſant hwy yr awr hon: goſodaſant eu llygaid i dynnu i lawr i'r ddaear.

12 Eu dull ſydd fel llew a chwennychai yſglyſaethu: ac megis llew ieuangc yn aros mewn lleoedd dirgel.

13 Cyſod, Arglwydd, achub ei flaen ef, cŵympa ef: gwared fy enaid rhag yr annuwiol, yr hwn yw dy gleddyf di.

14 Rhag dynion y rhai yw dy law, O Arglwydd, rhag dynion y bŷd, y rhai y mae eu rhàn yn y bywyd yma; a'r rhai y llenwaiſt eu bòliau â'th guddiedig dryſor: llawn ydynt o feibion, a gadawant eu gweddill i'w rhai bychain.

15 Myfi a edrychaf ar dy wyneb mewn cyfiawnder: digonir fi, pan ddihunwyf, â'th ddelw di.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 18. *Diligam te, Domine.*

CAraf di, Arglwydd: fy nghadernid.

2 Yr Arglwydd yw fy nghraig, a'm hamddiffynfa, a'm gwaredydd; fy Nuw, fy nghadernid, yn yr hwn yr ymddiriedaf: fy nharian, a chorn fy iachawdwriaeth, a'm huchel-dwr.

3 Galwaf ar yr Arglwydd canmoladwy: felly y'm cedwir rhag fy ngelynion.

4 Gofidion angau a'm cylchynaſant: ac afonydd y fall a'm dychrynaſant i.

5 Gofidiau uffern a'm cylchynaſant: maglau angau a achubaſant fy mlaen.

6 Yn fy nghyfyngder y gelwais ar yr Arglwydd, ac y gwaeddais ar fy Nuw: efe a glybu fy llêf o'i Deml, a'm gwaedd ger ei fron a ddaeth i'w gluſtiau ef.

7 Yna y ſiglodd ac y crynodd y ddaear: a ſeiliau y mynyddoedd a gynhyrfodd, ac a ymſiglodd, am iddo ef ddigio.

8 Dyrchafodd mŵg o'i ffroenau, a thân a yſſodd o'i enau: glô a envynnaſant ganddo.

9 Efe hefyd a oſtyngodd y nefoedd, ac a ddiſgynnodd: a thywyllwch oedd tan ei draed ef.

10 Marchogodd hefyd ar y Cerub, ac a ehedodd: ïe, efe a ehedodd ar adenydd y gwynt.

11 Efe a wnaeth dywyllwch yn ddirgelfa iddo: a'i babell o'i amgylch oedd dywyllwch dyfroedd, a thêw gymmylau yr awyr.

12 Gan y diſgleirdeb oedd ger ei fron, ei gymmylau a aethant heibio: cenllyſg a marwor tanllyd.

13 Yr Arglwydd hefyd a daranodd yn y nefoedd, a'r Goruchaf a roddes ei lêf: cenllyſg a marwor tanllyd.

14 Ie efe a anfonodd ei ſaethau, ac a'u gwaſgarodd hwynt: ac a ſaethodd ei fêllt, ac a'u gorchfygodd hwynt.

15 Gwaelodion y dyfroedd a welwyd, a ſeiliau y bŷd a ddinoethwyd gan dy gerydd di, O Arglwydd: a chan chwŷthad anadl dy ffroenau.

16 Anfonodd oddi uchod, cymmerodd fi: tynnodd fi allan o ddyfroedd lawer.

17 Efe a'm gwaredodd oddiwrth fy ngelyn cadarn, a rhag fy nghaſeion: canys yr oeddynt yn drêch nâ mi.

18 Achubaſant fy mlaen yn nŷdd fy ngofid: ond yr Arglwydd oedd gynhaliad i mi.

19 Dûg fi hefyd i ehangder: gwaredodd fi, canys ymhoffodd ynof.

20 Yr Arglwydd a'm gobrwyodd yn ôl fy nghyfiawnder: yn ôl glendid fy nwylaw y talodd efe i mi.

21 Canys cedwais ffyrdd yr Arglwydd: ac ni chiliais yn annuwiol oddiwrth fy Nuw.

22 O herwŷdd ei holl farnedigaethau ef oedd ger fy mron i; a'i ddeddfau ni fwriais oddi wrthyf.

23 Bûm hefyd yn berffaith gyd ag ef: ac ymgedwais rhag fy anwiredd.
24 A'r Arglwydd a'm gobrwyodd yn ôl fy nghyfiawnder: ac yn ôl purdeb fy nwylaw o flaen ei lygaid ef.
25 A'r trugarog y gwnei drugaredd: â'r gŵr perffaith y gwnei berffeithrwydd.
26 A'r glân y gwnei lendid: ac â'r cyndyn yr ymgyndynni.
27 Canys ti a waredi y bobl gyſtuddiedig: ond ti a oſtyngi olygon uchel.
28 O herwŷdd ti a oleui fy nghanŵyll: yr Arglwydd fy Nuw a lewyrcha fy nhywyllwch.
29 Oblegid ynot ti y rhedais trwy fyddin: ac yn fy Nuw y llemmais dros fûr.
30 Duw ſydd berffaith ei ffordd: gair yr Arglwydd ſydd wedi ei buro; tarian yw efe i bawb a ymddiriedant ynddo.
31 Canys pwy ſydd Dduw heb law yr Arglwydd: a phwy ſydd graig ond ein Duw ni?
32 Duw ſy 'n fy ngwregyſu â nerth: ac yn gwneuthur fy ffordd yn berffaith.
33 Goſod y mae efe fy nhraed fel traed ewigod: ac ar fy uchel-fannau y'm ſefydla.
34 Efe ſy yn dyſgu fy nwylaw i ryfel: fel y dryllir bŵa dûr yn fy mreichiau.
35 Rhoddaiſt hefyd i mi darian dy iachawdwriaeth: a'th ddeheu-law a'm cynhaliodd, a'th fwynder a'm llioſogodd.
36 Ehangaiſt fy ngherddediad tanaf: fel na llithrodd fy nhraed.
37 Erlidiais fy ngelynion, ac a'u goddiweddais: ac ni ddychwelais nes eu difa hwynt.
38 Archollais hwy, fel na allent godi: ſyrthiaſant dan fy nhraed.
39 Canys gwregyſaiſt fi â nerth i ryfel: daroſtyngaiſt danaf y rhai a ymgododd i'm herbyn.
40 Rhoddaiſt hefyd i mi warrau fy ngelynion: fel y difethwn fy nghaſeion.
41 Gwaeddaſant, ond nid oedd achubydd: ſef, ar yr Arglwydd, ond nid attebodd efe hwynt.
42 Mâluriais hwynt hefyd fel llŵch o flaen y gwŷnt: teflais hwynt allan megis tòm yr heolydd.
43 Gwaredaiſt fi rhag cynhennau y bobl; goſodaiſt fi yn ben cenhedloedd: pobl nid adnabûm a'm gwaſanaethant.
44 Pan glywant am danaf, ufuddhânt i mi: meibion dieithr a gymmerant arnynt ymddaroſtwng i mi.
45 Meibion dieithr a ballant: ac a ddychrynant allan o'u dirgel-fannau.
46 Byw yw 'r Arglwydd, a bendithier fy nghraig: a dyrchafer Duw fy iachawdwriaeth.
47 Duw ſydd yn rhoddi i mi allu ymddïal: ac a ddaroſtwng y bobloedd danaf
48 Efe ſydd yn fy ngwared oddiwrth fy ngelynion; ïe ti a'm dyrcheſi uwchlâw y rhai a gyſodant i'm herbyn: achubaiſt fi rhag y gŵr traws.
49 Am hynny y moliannaf di, O Arglwydd, ym mhlith y cenhedloedd: ac y canaf i'th enw.
50 Efe ſydd yn gwneuthur mawr ymwared i'w frenhin: ac yn gwneuthur trugaredd i'w enneiniog, i Ddafydd, ac i'w hâd ef byth.

BOREUOL WEDDI.

SALM 19. *Cæli enarrant.*

YNefoedd ſy yn dadgan gogoniant Duw: a'r ffurfafen ſy yn mynegi gwaith ei ddwylaw ef.
2 Dŷdd i ddŷdd a draetha ymadrodd: a nôs i nôs a ddengys ŵybodaeth.
3 Nid oes iaith nac ymadrodd: lle ni chlybŵyd eu lleſerydd hwynt.
4 Eu llinyn a aeth drwy 'r holl ddaear, a'u geiriau hŷd eithafoedd bŷd: i'r haul y goſododd efe babell ynddynt,
5 Yr hwn ſydd fel gŵr priod yn dyfod allan o'i yſtafell: ac a ymlawenhâ fel cawr i redeg gyrfa.
6 O eithaf y nefoedd y mae ei fynediad ef allan, a'i amgylchiad hŷd eu heithafoedd hwynt: ac nid ymgudd dim oddiwrth ei wrês ef.
7 Cyfraith yr Arglwydd ſydd berffaith, yn troi yr enaid: tyſtiolaeth yr Arglwydd ſydd ſicr, ac yn gwneuthur y gwirion yn ddoeth.
8 Deddfau yr Arglwydd ſydd uniawn, yn llawenhâu y gâlon: gorchymmyn yr Arglwydd ſydd bûr, yn goleuo 'r llygaid.
9 Oſn yr Arglwydd ſydd lân, yn parhâu yn dragywydd: barnau 'r Arglwydd ydynt wirionedd, cyfiawn ydynt i gŷd.
10 Mwy dymunol ŷnt nag aur, ïe, nag aur coeth lawer: melyſach hefyd nâ'r mêl, ac nâ diferiad diliau mêl.
11 Ynddynt hwy hefyd y rhybuddir dy wâs: o'u cadw y mae gwobr lawer.
12 Pwy a ddeall ei gamweddau? glanhâ fi oddiwrth fy meiau cuddiedig.
13 Attal hefyd dy wâs oddi wrth bechodau rhyfygus, na arglwyddiaethont arnaf: yna y'm perffeithir, ac y'm glanheir oddiwrth anwiredd lawer.
14 Bydded ymadroddion fy ngenau, a myfyrdod fy nghâlon, yn gymmeradwy ger dy fron: O Arglwydd, fy nghraig, a'm prynwr.

SALM 20. *Exaudiat te Dominus.*

GWrandawëd yr Arglwydd arnat yn nŷdd cyfyngder: Enw Duw Jacob a'th ddiffynno.
2 Anfoned i ti gymmorth o'r cyſſegr: a nerthed di o Seion.
3 Cofied dy holl offrymmau: a bydded ſoddlon i'th boeth-offrwm.
4 Rhodded i ti wrth fôdd dy gâlon: a chyflawned dy holl gyngor.
5 Gorfoleddwn yn dy iachawdwriaeth di, a dyrchafwn faner yn enw ein Duw: cyflawned yr Arglwydd dy holl ddymuniadau.
6 Yr awr hon y gwn y gwared yr Arglwydd ei enneiniog: efe a wrendy arno o nefoedd ei ſancteiddrwydd, yn nerth iechyd ei ddeheu-law ef.
7 Ymddiried rhai mewn cerbydau, a rhai mewn meirch: ond nyni a gofiwn Enw yr Arglwydd ein Duw.
8 Hwy a gŵympaſant, ac a ſyrthiaſant: ond nyni a gyfodaſom, ac a ſafaſom.
9 Achub, Arglwydd: gwrandawëd y Brenhin arnom yn y dŷdd y llefom.

SALM 21. *Domine, in virtute tua.*

ARglwydd, yn dy nerth y llawenycha 'r Brenhin: ac yn dy iachawdwriaeth di, mòr ddirfawr yr ymhyfryda!
2 Deiſyfiad ei gâlon a roddaiſt iddo: a dymuniad ei wefuſau ni 's gommeddaiſt.
3 Canys achubaiſt ei flaen ef â bendithion daioni: goſodaiſt ar ei ben ef goron o aur coeth.
4 Gofynnodd oes gennyt, a rhoddaiſt iddo: ïe hir oes, byth ac yn dragywydd.
5 Mawr yw ei ogoniant yn dy iachawdwriaeth: goſodaiſt arno ogoniant a phrydferthwch.
6 Canys gwnaethoſt ef yn fendithion yn dragywyddol: llawenychaiſt ef â llawenydd â'th wyneb-pryd.
7 O herwŷdd bod y Brenhin yn ymddiried yn yr Arglwydd: a thrwy drugaredd y Goruchaf nid yſgogir ef.
8 Dy lâw a gaiff afael ar dy holl elynion: dy ddeheulaw a gaiff afael ar dy gaſeion.
9 Ti a'u gwnei hwynt fel ffwrn danllyd yn amſer dy lîd: yr Arglwydd yn ei ddigllonedd a'u llwngc hwynt, a'r tân a'u hyſa hwynt.

10 Eu ffrwyth hwynt a ddinyſtri di oddi ar y ddaear: a'u hâd o blith meibion dynion.

11 Canys bwriadaſant ddrŵg i'th erbyn: meddyliaſant amcan, heb allu o honynt ei gwplâu.

12 Am hynny y gwnêi iddynt droi eu cefnau: ar dy linynnau y parottôi di ſaethau yn erbyn eu hŵynebau.

13 Ymddyrcha, Arglwydd, yn dy nerth: canwn, a chanmolwn dy gadernid.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 22. *Deus, Deus meus.*

FY Nuw, fy Nuw, edrych arnaf, pa ham y'm gwrthodaiſt: pa ham yr ydwyt mòr bell oddiwrth fy iachawdwriaeth, a geiriau fy llefain?

2 Fy Nuw, llefain yr ydwyf y dydd, ac ni wrandewi: y nôs hefyd, ac nid oes oſteg i mi.

3 Ond tydi ŵyt ſanctaidd: O dydi yr hwn ŵyt yn cyfanneddu ym moliant Iſrael.

4 Ein tadau a obeithiaſant ynot: gobeithiaſant, a gwaredaiſt hwynt.

5 Arnat ti y llefaſant, ac achubwyd hwynt: ynot yr ymddirledaſant, ac ni's gwaradwyddwyd hwynt.

6 A minnau prŷf ydwyf, ac nid gŵr: gwarthrudd dynion, a dirmyg y bobl.

7 Pawb a'r a'm gwelant a'm gwatworant: llaeſant wefl, eſgydwant ben, gan ddywedyd,

8 Ymddiriedodd yn yr Arglwydd, gwareded ef: achubed ef, gan ei fod yn dda ganddo.

9 Canys ti a'm tynnaiſt o'r grôth: gwnaethoſt i mi obeithio pan oeddwn ar fronnau fy mam.

10 Arnat ti y'm bwriwyd o'r bru: o grôth fy mam fy Nuw ydwyt.

11 Nac ymbellhâ oddi wrthyf, o herwŷdd cyfyngder ſydd agos: canys nid oes cynnorthwywr.

12 Teirw lawer a'm cylchynaſant: gwrdd deirw Baſan a'm hamgylchaſant.

13 Agoraſant arnaf eu genau: ſel llêw rheibus, a rhuadwy.

14 Fel dwfr i'm tywalltwyd, a'm heſgyrn oll a ymwahanaſant: fy nghâlon ſydd fel cŵyr, hi a doddodd ynghanol fy mherfedd.

15 Fy nerth a wywodd ſel pridd-leſtr, a'm tafod a lynodd wrth daflod fy ngenau: ac i lŵch angau y'm dygaiſt.

16 Canys cŵn lawer a'm cylchynaſant; cynnulleidfa y drygionus a'm hamgylchaſant: trywanaſant fy nwylaw a'm traed.

17 Gallaf gyfrif fy holl eſgyrn: y maent yn trèmio, ac yn edrych arnaf.

18 Y maent yn rhannu fy nillad yn eu mŷſg: ac ar fy ngwiſg yn bwrw coelbren.

19 Ond tydi, Arglwydd, nac ymbellhâ: fy nghadernid, bryſia i'm cynnorthwyo.

20 Gwared fy enaid rhag y cleddyf: fy unig enaid o feddiant y cî.

21 Achub fi rhag ſafn y llêw: canys o blith cyrn unicorniaid y'm gwrandewaiſt.

22 Mynegaf dy Enw i'm brodyr: ynghanol y gynnulleidfa y'th ſolaf.

23 Y rhai ſy yn oſni 'r Arglwydd, molwch ef: holl hâd Jacob, gogoneddwch ef; a holl hâd Iſrael, oſnwch ef.

24 Canys ni ddirmygodd, ac ni ffieiddiodd gyſtudd y tlawd: ac ni chuddiodd ei ŵyneb rhagddo; ond pan lefodd efe arno, efe a wrandawôdd.

25 Fy mawl fydd o honot ti yn y gynnulleidfa fawr: fy addunedau a dalaf ger bron y rhai a'i hofnant ef.

26 Y tlodion a fwyttânt, ac a ddiwellir: y rhai a geiſiant yr Arglwydd a'i moliannant ef; eich câlon fydd byw yn dragywydd.

27 Holl derfynau 'r ddaear a gofiant, ac a droant at yr Arglwydd: a holl deulwythau y cenhedloedd a addolant ger dy fron di.

28 Canys eiddo 'r Arglwydd yw 'r deyrnas: ac efe ſydd yn llywodraethu ym mhlith y cenhedloedd.

29 Yr holl rai breiſion ar y ddaear a fwyttânt, ac a addolant: y rhai a ddiſgynnant i'r llŵch a ymgrymmant ger ei fron ef; ac nid oes neb a all gadw yn fyw ei enaid ei hun.

30 Eu hâd a'i gwaſanaetha ef: cyfrifir ef i'r Arglwydd yn genhedlaeth.

31 Deuant, ac adroddant ei gyfiawnder ef i'r bobl a enir: mai efe a wnaeth hyn.

SALM 23. *Dominus regit me.*

YR Arglwydd yw fy mugail: ni bydd eiſiau arnaf.

2 Efe a wnâ im' orwedd mewn porfeydd gwelltog: efe a'm tywys ger llaw y dyfroedd tawel.

3 Efe a ddychwel fy enaid: efe a'm harwain ar hŷd llwybrau cyfiawnder, er mwyn ei Enw.

4 Ie, pe rhodiwn ar hŷd glŷn cyſgod angau, nid ofnaf niweid: canys yr wyt ti gyd â mi; dy wialen a'th ffon a'm cyſſurant.

5 Ti a arlwyi fort ger fy mron yngŵydd fy ngwrthwynebwŷr: iraiſt fy mhen ag olew, fy phiol ſydd lawn.

6 Daioni, a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd: a phreſwyliaf yn nhŷ 'r Arglwydd yn dragywydd.

BOREUOL WEDDI.

SALM 24. *Domini eſt terra.*

EIddo yr Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder: y bŷd, ac a breſwylia ynddo.

2 Canys efe a'i ſeiliodd ar y moroedd: ac a'i ſicrhaodd ar yr afonydd.

3 Pwy a eſgyn i fynydd yr Arglwydd: a phwy a ſaif yn ei le ſanctaidd ef?

4 Y glân ei ddwylaw, a'r pur ei gâlon: yr hwn ni ddyrchafodd ei feddwl at wagedd, ac ni thyngodd i dwyllo.

5 Efe a dderbyn fendith gan yr Arglwydd: a chyfiawnder gan Dduw ei iachawdwriaeth.

6 Dyma genhedlaeth y rhai a'i ceiſiant ef: y rhai a geiſiant dy ŵyneb di, O Jacob.

7 O byrth, dyrchefwch eich pennau, ac ymddyrchefwch ddryſau tragywyddol: a Brenhin y gogoniant a ddaw i mewn.

8 Pwy yw 'r Brenhin gogoniant hwn: yr Arglwydd nerthol, a chadarn; yr Arglwydd cadarn mewn rhyfel.

9 O byrth, dyrchefwch eich pennau, ac ymddyrchefwch ddryſau tragywyddol: a Brenhin y gogoniant a ddaw i mewn.

10 Pwy yw 'r Brenhin gogoniant hwn: Arglwydd y lluoedd, efe yw Brenhin y gogoniant.

SALM 25. *Ad te, Domine, levavi.*

ATat ti, O Arglwydd: y dyrchafaf fy enaid.

2 O fy Nuw, ynot ti 'r ymddiriedais: na'm gwaradwydder; na orfoledded fy ngelynion arnaf.

3 Ie, na waradwydder neb ſydd yn diſgwyl wrthyt ti: gwaradwydder y rhai a droſeddant heb achos.

4 Pâr i mi ŵybod dy ffyrdd, O Arglwydd: dyſg i mi dy lwybrau.

5 Tywys fi yn dy wirionedd, a dyſg fi: canys ti yw Duw fy iachawdwriaeth; wrthyt ti y diſgwyliaf ar hŷd y dydd.

6 Cofia, Arglwydd, dy doſturiaethau, a'th drugareddau: canys eriôed y maent hwy.

7 Na chofia bechodau fy ieuengctid, na'm camweddau: yn ôl dy drugaredd meddwl di am danaf, er mwyn dy ddaioni, Arglwydd.

8 Da ac uniawn yw yr Arglwydd: o herwŷdd hynny y dŷſg eſe bechaduriaid yn y ffordd.

9 Y rhai llariaidd a hyffordda efe mewn barn: a'i ffordd a ddŷſg eſe i'r rhai goſtyngedig.

10 Holl lwybrau 'r Arglwydd ydynt drugaredd a gwirionedd: i'r rhai a gadwant ei gyfammod, a'i dyſtiolaethau ef.

11 Er mwyn dy Enw, Arglwydd: maddeu fy anwiredd, canys mawr yw.

12 Pa ŵr yw eſe ſy 'n ofni yr Arglwydd: eſe a'i dŷſg ef yn y ffordd a ddewiſo.

13 Ei enaid ef a erys mewn daioni: a'i hâd a etifedda y ddaear.

14 Dirgelwch yr Arglwydd ſydd gyd â'r rhai a'i hofnant ef: a'i gyfammod hefyd i'w cyfarwyddo hwynt.

15 Fy llygaid ſydd yn waſtad ar yr Arglwydd: canys eſe a ddŵg fy nhraed allan o'r rhwyd.

16 Tro attaf, a thrugarhâ wrthyf: canys unig a thlawd ydwyf.

17 Gofidiau fy nghàlon a helaethwyd: dŵg di fi allan o'm cyfyngderau.

18 Gwêl fy nghyſtudd, a'm helbul: a maddeu fy holl bechodau.

19 Edrych ar fy ngelynion, canys amlhaſant: â chaſineb traws hefyd y'm caſaſant.

20 Cadw fy enaid, ac achub fi: na'm gwaradwydder; canys ymddiriedais ynot.

21 Cadwed perffeithrwydd ac uniondeb fi: canys yr ŵyf yn diſgwyl wrthyt.

22 O Dduw, gwared Iſrael: o'i holl gyfyngderau.

SALM 26. *Judica me, Domine.*

BArn fi, Arglwydd, canys rhodiais yn fy mherffeithrwydd: ymddiriedais hefyd yn yr Arglwydd, am hynny ni lithraf.

2 Hola fi, Arglwydd, a phrawf fi: chwilia fy arennau, a'm calon.

3 Canys dy drugaredd ſydd yn waſtad o flaen fy llygaid: ac mi a rodiais yn dy wirionedd.

4 Nid eiſteddais gyd â dynion coegion: a chyd â'r rhai trofâus nid âf.

5 Caſeais gynnulleidfa y drygionus: a chyd â'r annuwiolion nid eiſteddaf.

6 Golchaf fy nwylaw mewn diniweidrwydd: a'th allor, O Arglwydd, a amgylchynaf:

7 I gyhoeddi â llêf clodforedd: ac i fynegi dy holl ryfeddodau.

8 Arglwydd, hoffais drigfan dy dŷ: a lle preſwylfa dy ogoniant.

9 Na chaſgl fy enaid gyd â phechaduriaid: na'm bywŷd gyd â dynion gwaedlyd:

10 Y rhai y mae 'ſgelerder yn eu dwylaw: a'u deheu-law yn llawn gwobrau.

11 Eithr mi a rodiaf yn fy mherffeithrwydd: gwared fi, a thrugarhâ wrthyf.

12 Fy nhroed ſydd yn ſefyll ar yr union: yn y cynnulleidfaoedd y'th fendithiaf, O Arglwydd.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 27. *Dominus illuminatio.*

YR Arglwydd yw fy ngoleuni, a'm iachawdwriaeth; rhag pwy yr ofnaf: yr Arglwydd yw nerth fy mywyd; rhag pwy y dychrynaf?

2 Pan neſaodd y rhai drygionus, ſef fy ngwrthwynebwŷr a'm gelynion, i'm herbyn, i fwytta fy nghnawd: hwy a dramgwyddaſant, ac a fyrthiaſant.

3 Pe gwerſyllai llu i'm herbyn, nid ofna fy nghàlon: pe cyfodai câd i'm herbyn, yn hyn mi a fyddaf hyderus.

4 Un peth a ddeiſyfiais i gan yr Arglwydd, hynny a geiſiaf; ſef caffael trigo yn nhŷ 'r Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd; i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ei Deml.

5 Canys yn y dŷdd blin y'm cuddia o fewn ei babell: yn nirgelfa ei babell y'm cuddia; ar graig y'm cyfyd i.

6 Ac yn awr y dyrcha eſe fy mhen goruwch fy ngelynion o'm hamgylch: am hynny 'r aberthaf yn ei babell ef ebyrth gorfoledd; canaf, ïe canmolaf yr Arglwydd.

7 Clyw, O Arglwydd, fy lleferydd pan lefwyf: trugarhâ hefyd wrthyf, a gwtando arnaf.

8 Pan ddywedaiſt, Ceiſiwch fy ŵyneb: fy nghàlon a ddywedodd wrthyt, dy ŵyneb a geiſiaf, O Arglwydd.

9 Na chuddia dy ŵyneb oddi wrthyf; na fwrw ymaith dy wâs mewn ſorriant: fy nghymmorth fuoſt; na âd fi, ac na wrthod fi, O Dduw fy iachawdwriaeth.

10 Pan yw fy nhâd, a'm mam yn fy ngwrthod: yr Arglwydd a'm derbyn.

11 Dŷſg i mi dy ffordd, Arglwydd: ac arwain fi ar hŷd llwybrau uniondeb, o herwŷdd fy ngelynion.

12 Na ddyro fi i fynu i ewyllys fy ngelynion: canys gau dyſtion, a'r rhai a adroddant drawſder a gyfodaſant i'm herbyn.

13 Diffygiaſwn: pe na chredaſwn weled daioni 'r Arglwydd yn nhir y rhai byw.

14 Diſgwyl wrth yr Arglwydd; ymŵrola, ac ef a nertha dy gàlon: diſgwyl, meddaf, wrth yr Arglwydd.

SALM 28. *Ad te, Domine.*

ARnat ti, Arglwydd, y gwaeddaf, fy nghraig, na ddiſtawa wrthyf: rhag o thewi wrthyf, i'm ſod yn gyffelyb i rai yn diſgyn i'r pwll.

2 Erglyw lêf fy ymbil, pan waeddwyf arnat: pan ddyrchafwyf fy nwylaw tu ag at dy gafell ſanctaidd.

3 Na thynn fi gyd â'r annuwiolion, a chyd â gweithredwŷr anwiredd: y rhai a lefarant heddwch wrth eu cymmydogion, a drŵg yn eu calon.

4 Dyro iddynt yn ôl eu gweithred, ac yn ôl drygioni eu dychymmygion: dyro iddynt yn ôl gweithredoedd eu dwylaw, tâl iddynt eu haeddedigaeth.

5 Am nad yſtyriant weithredoedd yr Arglwydd, na gwaith ei ddwylaw ef: y dinyſtria efe hwynt, ac ni's adeilada hwynt.

6 Bendigedig fyddo 'r Arglwydd: canys clybu lêf fy ngweddiau.

7 Yr Arglwydd yw fy nerth a'm tarian, ynddo ef yr ymddiriedodd fy nghàlon, ac myfi a gynnorthwywyd: o herwŷdd hyn y llawenychodd fy nghàlon, ac ar fy nghân y clodforaf ef.

8 Yr Arglwydd ſydd nerth i'r cyfryw rai: a chadernid iachawdwriaeth ei enneiniog yw efe.

9 Cadw dy bobl, a bendithia dy etifeddiaeth: portha hwynt hefyd, a dyrcha hwynt yn dragywydd.

SALM 29. *Afferte Domino.*

MOeſwch i'r Arglwydd, chwi feibion cedyrn: moeſwch i'r Arglwydd ogoniant a nerth.

2 Moeſwch i'r Arglwydd ogoniant ei Enw: addolwch yr Arglwydd ym mhrydferthwch ei ſancteiddrwydd.

3 Llêf yr Arglwydd ſydd ar y dyfroedd; Duw y gogoniant a darana: yr Arglwydd ſydd ar y dyfroedd mawrion.

4 Llêf yr Arglwydd ſy mewn grŷm: llêf yr Arglwydd ſy mewn prydferthwch.

5 Llêf yr Arglwydd ſy yn dryllio y cedrwŷdd: ïe, dryllia 'r Arglwydd gedrwŷdd Libanus.

6 Efe a wnâ iddynt lammu fel llô: Libanus a Sirion fel llwdn unicorn.

7 Llêf yr Arglwydd: a waſgara y fflammau tân.

8 Llêf yr Arglwydd a wnâ i'r anialwch grynu: yr Arglwydd a wnâ i anialwch Cades grynu.

9 Llêf

9 Llêf yr Arglwydd a wnâ i'r ewigod lydnu, ac a ddinoetha y coedydd: ac yn ei Deml, pawb a draetha ei ogoniant ef.

10 Yr Arglwydd ſydd yn eiſtedd ar y llifeiriant: ïe yr Arglwydd a eiſtedd yn Frenhin yn dragywyddd.

11 Yr Arglwydd a ddyry nerth i'w bobl: yr Arglwydd a fendithia ei bobl â thangnefedd.

BOREUOL WEDDI.

SALM 30. *Exaltabo te, Domine.*

MAwrygaf di, O Arglwydd, canys dyrchefaiſt fi: ac ni lawenheaiſt fy ngelynion o'm plegid.

2 Arglwydd, fy Nuw, llefais arnat: a thithau a'm hiacheaiſt.

3 Arglwydd, dyrchefaiſt fy enaid o'r bêdd: cedwaiſt fi yn fyw, rhag diſgyn o honof i'r pwll.

4 Cenwch i'r Arglwydd, ei Saint ef: clodforwch wrth goffadwriaeth ei ſancteiddrwydd ef.

5 Canys ennyd fechan y bydd yn ei lîd, yn ei ſoddlonrwydd y mae bywyd: tros brydnhawn yr erys ŵylofain, ac erbyn y bore y bydd gorfoledd.

6 A mi a ddywedais yn fy llwyddiant: Ni'm ſyflir yn dragywydd.

7 O'th ddaioni, Arglwydd, y goſodaiſt gryfder yn fy mynydd: cuddiaiſt dy ŵyneb, a bûm helbulus.

8 Arnat ti, Arglwydd, y llefais: ac â'r Arglwydd yr ymbiliais.

9 Pa fûdd ſydd yn fy ngwaed, pan ddiſgynnwyf i'r ffôs: a glodfora y llŵch di? a fynega efe dy wirionedd?

10 Clyw, Arglwydd, a thrugarhâ wrthyf: Arglwydd, bydd gynnorthwywr i mi.

11 Troaiſt fy ngalar yn llawenydd i mi; dïoſgaiſt fy ſach-wiſg, a gwregyſaiſt fi â llawenydd.

12 Fel y cano fy ngogoniant i ti, ac na thawŏ: O Arglwydd fy Nuw, yn dragywyddol y'th foliannaf.

SALM 31. *In te, Domine, ſperavi.*

YNot ti, Arglwydd, yr ymddiriedais; na'm gwaradwydder yn dragywydd: gwared fi yn dy gyfiawnder.

2 Gogŵydda dy glûſt ataf, gwared fi ar frŷs: bydd i mi yn graig gadarn, yn dy amddiffyn i'm cadw.

3 Canys fy nghraig a'm caſtell ydwyt: gan hynny er mwyn dy Enw, tywys fi, ac arwain fi.

4 Tynn fi allan o'r rhwyd a guddiaſant i mi: canys ti yw fy nerth.

5 I'th law y gorchymynnaf fy yſpryd: gwaredaiſt fi, O Arglwydd Dduw y gwirionedd.

6 Caſeais y rhai ſy yn dàl ar ofer wagedd: minnau a obeithiaf yn yr Arglwydd.

7 Ymlawenhâf, ac ymhyfrydaf yn dy drugaredd: canys gwelaiſt fy adfyd; adnabuoit fy enaid mewn cyfyngderau.

8 Ac ni warcheaiſt fi yn llâw y gelyn: onid goſodaiſt fy nhraed mewn ehangder.

9 Trugarhâ wrthyf, Arglwydd, canys cyfyng yw arnaf: dadwinodd fy llygad gan ofid, ie fy enaid, a'm bòl.

10 Canys fy mywyd a ballodd gan ofid, a'm blynyddoedd gan ochain: fy nerth a ballodd, o herwŷdd fy anwiredd, a'm heſgyrn a bydraſant.

11 Yn warthrudd yr ydwyf ym mŷſg fy holl elynion, a hynny yn ddirfawr ym mŷſg fy nghymydogion: ac yn ddychryn i'r rhai a'm hadwaenant; y rhai a'm gwelent allan, a gilient oddiwrthyf.

12 Anghofiwyd fi fel un marw allan o feddwl: yr ydwyf fel lleſtr methedig.

13 Canys clywais ogan llaweroedd, dychryn oedd o bob parth: pan gŷd-ymgynghoraſant yn fy erbyn, y bwriadaſant fy nieneidio.

14 Ond mi a obeithiais ynot ti, Arglwydd: dywedais, Fy Nuw ydwyt.

15 Yn dy lâw di y mae fy amſerau: gwared fi o lâw fy ngelynion, ac oddi wrth fy erlidwŷr.

16 Llewyrcha dy ŵyneb ar dy wâs: achub fi er mwyn dy drugaredd.

17 Arglwydd na waradwydder fi, canys gelwais arnat: gwaradwydder yr annuwiolion, torrer hwynt i'r bêdd.

18 Goſteger y gwefuſau celŵyddog: y rhai a ddywedant yn galed drwy falchder, a diyſtyrwch, yn erbyn y cyfiawn.

19 Mòr fawr yw dy ddaioni a roddaiſt i gadw i'r ſawl a'th ofnant: ac a wnaethoſt i'r rhai a ymddiriedant ynot, ger bron meibion dynion!

20 Cuddi hwynt yn nirgelfa dy ŵyneb, rhag balchder dynion: cuddi hwynt mewn pabell, rhag cynnen tafodau.

21 Bendigedig fyddo yr Arglwydd: canys dangoſodd yn rhyfedd ei garedigrwydd i mi, mewn dinas gadarn.

22 Canys mi a ddywedais yn fy ffrŵſt, Fe'm bwriwyd allan o'th olwg: er hynny ti a wrandewaiſt lais fy ngweddïau, pan lefais arnat.

23 Cerwch yr Arglwydd, ei holl Saint ef: yr Arglwydd a geidw y ffyddloniaid, ac a dâl yn ehelaeth i'r neb a wnâ falchder.

24 Ymŵrolwch, ac efe a gryfhâ eich càlon: chwychwi oll y rhai ydych yn gobeithio yn yr Arglwydd.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 32. *Beati quorum.*

GWŷn ei fŷd y neb y maddeuwyd ei droſedd: ac y cuddiwyd ei bechod.

2 Gwŷn ei fŷd y dŷn, ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd: ac ni bo dichell yn ei yſpryd.

3 Tra y tewais, heneiddiodd fy eſgyrn: gan fy rhuad ar hŷd y dydd.

4 Canys trymhaodd dy law arnaf ddŷdd a nôs: fy irder a drowyd yn ſychder hâf.

5 Addefais fy mhechod wrthyt, a'm hanwiredd ni chuddiais: dywedais, Cyffeſſaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd, a thi a faddeuaiſt anwiredd fy mhechod.

6 Am hyn y gweddïa pob duwiol arnat ti yn yr amſer y'th geffir: yn ddiau yn llifeiriant dyfroedd mawrion, ni chânt neſâu atto ef.

7 Ti ydwyt loches i mi, cedwi fi rhag ing: amgylchyni fi â chaniadau ymwared.

8 Cyfarwyddaf di, a dyſgaf di yn y fford yr elych: â'm llygaid arnat y'th gynghoraf.

9 Na fyddwch fel march neu fûl, heb ddeall: yr hwn y mae rhaid attal ei ên â genfa ac â ffrwyn, rhag ei ddyneſâu attat.

10 Gofidiau lawer ſydd i'r annuwiol: ond y neb a ymddiriedo yn yr Arglwydd, trugaredd a'i cylchyna ef.

11 Y rhai cyfiawn, byddwch lawen a hyfryd yn yr Arglwydd: a'r rhai uniawn o gàlon oll, cenwch yn llafar.

SALM 33. *Exultate, juſti.*

YMlawenhêwch y rhai cyfiawn yn yr Arglwydd: i'r rhai uniawn gweddus yw mawl.

2 Molwch yr Arglwydd â'r delyn: cenwch iddo â'r nabl, ac â'r degtant.

3 Cenwch iddo ganiad newŷdd: cenwch yn gerddgar, yn ſoniarus.

4 Canys uniawn yw gair yr Arglwydd: a'i holl weithredoedd a wnaed mewn ffyddlondeb.

5 Efe

5 Efe a gâr gyfiawnder, a barn: o drugaredd yr Arglwydd y mae y ddaear yn gyflawn.

6 Trwy air yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd; a'u holl luoedd hwy trwy yſpryd ei enau ef.

7 Caſglu y mae efe ddyfroedd y môr ynghŷd, megis pentwr: y mae yn rhoddi y dyfnderoedd mewn tryſorau.

8 Ofned yr holl ddaear yr Arglwydd: holl drigolion y bŷd arſwydant ef.

9 Canys efe a ddywedodd, ac felly y bu: efe a orchymynodd, a hynny a ſafodd.

10 Yr Arglwydd ſydd yn diddymmu cynghor y cenhedloedd: y mae efe yn diddymmu amcanion pobloedd.

11 Cynghor yr Arglwydd a ſaif yn dragywydd: meddyliau ei galon, o genhedlaeth i genhedlaeth.

12 Gwŷn ei fŷd y genedl y mae yr Arglwydd yn Dduw iddi: a'r bobl a ddetholodd efe yn etifeddiaeth iddo ei hun.

13 Yr Arglwydd ſy yn edrych i lawr o'r nefoedd: y mae yn gweled holl feibion dynion.

14 O bre wyl ei drigfa: yr edrych efe ar holl drigolion y ddaear.

15 Efe a gŷd-luniodd eu calon hwynt: efe a ddeall eu holl weithredoedd.

16 Ni waredir brenhin gan lïaws llu: ni ddïangc cadarn drwy ei fawr gryfder.

17 Peth ofer yw march i ymwared: ac nid achub efe neb drwy ei fawr gryfder.

18 Wele, y mae llygad yr Arglwydd ar y rhai a'i hofnant ef: ſef, ar y rhai a obeithiant yn ei drugaredd ef.

19 I waredu eu henaid rhag angau: ac i'w cadw yn fyw yn amſer newŷn.

20 Ein henaid ſydd yn diſgwyl am yr Arglwydd: efe yw ein porth a'n tarian.

21 Canys ynddo ef y llawenycha ein calon: o herwŷdd i ni obeithio yn ei Enw ſanctaidd ef.

22 Bydded dy drugaredd, Arglwydd, arnom ni: megis yr ydym yn ymddiried ynot.

SALM 34. *Benedicam Domino.*

BEndithiaf yr Arglwydd bob amſer: ei foliant fydd yn fy ngenau yn waſtad.

2 Yn yr Arglwydd y gorfoledda fy enaid: y rhai goſtyngedig a glywant hyn, ac a lawenychant.

3 Mawrygwch yr Arglwydd gyd â mi: a chŷdddyrchafwn ei Enw ef.

4 Ceiſiais yr Arglwydd, ac efe a'm gwrandawodd: gwaredodd fi hefyd o'm holl ofn.

5 Edrychaſant arno, a hwy a oleuwyd: a'u hwynebau ni chywilyddiwyd.

6 Y tlawd, hwn a lefodd, a'r Arglwydd a'i clybu: ac a'i gwaredodd o'i holl drallodau.

7 Angel yr Arglwydd a gaſtella o amgylch y rhai a'i hofnant ef: ac a'u gwared hwynt.

8 Profwch, a gwelwch mòr dda yw 'r Arglwydd: gwŷn ei fŷd y gŵr a ymddiriedo ynddo.

9 Ofnwch yr Arglwydd, ei Saint ef: canys nid oes eiſiau ar y rhai a'i hofnant ef.

10 Y mae eiſiau, a newŷn ar y llewod ieuaingc: ond y ſawl a geiſiant yr Arglwydd, ni bydd arnynt eiſiau dim daioni.

11 Deuwch blant, gwrandêwch arnaf: dyſgaf i chwi ofn yr Arglwydd.

12 Pwy yw 'r gŵr a chwennych fywyd: ac a gâr hir ddyddiau, i weled daioni?

13 Cadw dy dafod rhag drŵg: a'th weſuſau rhag traethu twyll.

14 Cilia oddiwrth ddrwg, a gwnâ dda: ymgais â thangnefedd, a dilyn hi.

15 Llygaid yr Arglwydd ſydd ar y cyfiawn: a'i gluſtiau ſydd yn agored i'w llefain hwynt.

16 Wyneb yr Arglwydd ſydd yn erbyn y rhai a wnâ ddrwg: i dorri eu coffa oddi ar y ddaear.

17 Y rhai cyfiawn a lefant, a'r Arglwydd a glyw: ac a'u gwared o'u holl drallodau.

18 Agos yw 'r Arglwydd at y rhai dryllïedig o galon: ac efe a geidw y rhai briwedig o yſpryd.

19 Aml ddrygau a gaiff y cyfiawn: ond yr Arglwydd a'i gwared ef oddi wrthynt oll.

20 Efe a geidw ei holl eſgyrn ef: ni thorrir un o honynt.

21 Drygioni a lâdd yr annuwiol: a'r rhai a gaſant y cyfiawn a anrheithir.

22 Yr Arglwydd a wared eneidiau ei weiſion: a'r rhai oll a ymddiriedant ynddo ef, nid anrheithir hwynt.

BOREUOL WEDDI.

SALM 35. *Judica me, Domine.*

DAdleu fy nadl, Arglwydd, yn erbyn y rhai a ddadleuant i'm herbyn: ymladd â'r rhai a ymladdant â mi.

2 Ymaſael yn y darian a'r aſtalch: a chyfod i'm cymmorth.

3 Dŵg allan y waywffon, ac argaea yn erbyn fy erlidwŷr: dywaid wrth fy enaid, Myfi yw dy iachawdwriaeth.

4 Cywilyddier, a gwaradwydder y rhai a geiſiant fy enaid: ymchweler yn eu hôl, a gwarthâer, y ſawl a fwriadant ty nrygu.

5 Byddant fel ûs o flaen y gwŷnt: ac Angel yr Arglwydd yn eu herlid.

6 Bydded eu ffordd yn dywyllwch, ac yn llithrigfa: ac Angel yr Arglwydd yn eu hymlid.

7 Canys heb achos y cuddiaſant eu rhwyd i mi mewn pydew: yr hwn heb achos a gloddiaſant i'm henaid.

8 Deued arno ddiſtryw ni wypo, a'i rwyd yr hon a guddiodd a'i dalio: ſyrthied yn y diſtryw hwnnw.

9 A llawenycha fy enaid i yn yr Arglwydd: efe a ymhyfryda yn ei iachawdwriaeth ef.

10 Fy holl eſgyrn a ddywedant, O Arglwydd, pwy ſydd fel tydi, yn gwaredu y tlawd rhag yr hwn a fyddo trêch nag ef: y truan hefyd a'r tlawd, rhag y neb a'i hyſpeilio?

11 Tyſtion gau a gyfodaſant: holaſant i mi yr hyn ni's gwn oddiwrtho.

12 Talaſant i mi ddrwg dros dda: i yſpeilio fy enaid.

13 A minnau, pan glaſychent hwy, oeddwn a'm gwiſg o ſâch-liain, goſtyngais fy enaid ag ympryd: a'm gweddi a ddychwelodd i'm mynwes fy hun.

14 Ymddygais fel pe buaſai 'n gyfaill neu yn frawd i mi: ymoſtyngais mewn galar-wiſg, fel un yn galaru am ei fam.

15 Ond ymlawenhaſant hwy yn fy adfyd i, ac ymgaſglaſant: ymgaſglodd efryddion yn fy erbyn, ac ni's gwyddwn, rhwygaſant fi ac ni pheidient.

16 Ym mŷſg y gwatwarwŷr rhagrithiol mewn gwleddoedd: yſgyrnygaſant eu dannedd arnaf.

17 Arglwydd, pa hŷd yr edrychi di ar hyn: gwared fy enaid rhag eu diſtryw hwynt, fy unig enaid rhag y llewod.

18 Mi a'th glodforaf yn y gynnulleidfa fawr: moliannaf di ym mhlith pobl lawer.

19 Na lawenychant o'm herwŷdd, y rhai ſydd elynion i mi heb achos: y ſawl a'm casânt yn ddiachos, nac amneidiant â llygad.

20 Gan nâd ymddiddanant yn dangnefeddus: eithr dychymmygant eiriau dichellgar, yn erbyn y rhai llonydd yn y tir.

21 Lledaſant eu ſafn arnaf, gan ddywedyd: Ha, ha, gwelodd ein llygaid.

22 Gwelaiſt hyn, Arglwydd: na thaw dithau, nac ymbellhâ oddi wrthyf, O Arglwydd.

23 Cyfod, a deffro i'm barn: fef i'm dadl, fy Nuw a'm Harglwydd.
24 Barn fi, Arglwydd fy Nuw, yn ôl dy gyfiawnder: ac na lawenhânt o'm plegid.
25 Na ddywedant yn eu càlon, O ein gwŷnfyd: na ddywedant, Llyngcafom ef.
26 Cywilyddier, a gwaradwydder hwy i gŷd, y rhai fy lawen am fy nrygfyd: gwifger â gwarth ac â chywilydd, y rhai a ymfawrygant i'm herbyn.
27 Caned a llawenyched y rhai a hoffant fy nghyfiawnder: dywedant hefyd yn waſtad, Mawryger yr Arglwydd, yr hwn a gâr lwyddiant ei wâs.
28 Fy nhafod innau, a lefara am dy gyfiawnder: a'th foliant ar hŷd y dŷdd.

SALM 36. *Dixit injuſtus.*

Y Mae anwiredd yr annuwiol yn dywedyd o fewn fy nghàlon: nad oes ofn Duw o flaen ei lygaid ef.
2 O herwŷdd ymwenhieithio y mae efe iddo ei hun, yn ei olwg ei hunan: nes cael ei anwiredd yn atcas.
3 Geiriau ei enau ydynt anwiredd a thwyll: peidiodd â bod yn gall i wneuthur daioni.
4 Anwiredd a ddychymmyg efe ar ei wely; efe a'i gefyd ei hun ar ffordd nid yw dda: nid ffiaidd ganddo ddrygioni.
5 Dy drugaredd, Arglwydd, fydd hŷd y nefoedd: a'th wirionedd hŷd y cymmylau.
6 Fel mynyddoedd cedyrn y mae dy gyfiawnder; dyfnder mawr yw dy farnedigaethau: dŷn ac anifail a gedwi di, Arglwydd.
7 Mor werthfawr yw dy drugaredd, O Dduw: am hynny 'r ymddiried meibion dynion tan gyſgod dy adenydd.
8 Llawn ddigonir hwynt â braſder dy dŷ: ac ag afon dy hyfrydwch y diodi hwynt.
9 Canys gyd â thi y mae ffynnon y bywyd: yn dy oleuni di y gwelwn oleuni.
10 Eſtyn dy drugaredd i'r rhai a'th adwaenant: a'th gyfiawnder i'r rhai uniawn o galon.
11 Na ddeued troed balchder i'm herbyn: na fyfled llâw yr annuwiol fi.
12 Yna y fyrthiodd gweithwŷr anwiredd: gwthiwyd hwynt i lawr, ac ni allant gyfodi.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 37. *Noli æmulari.*

NAC ymddigia o herwŷdd y rhai drygionus: ac na chenfigenna wrth y rhai a wnânt anwiredd.
2 Canys yn ebrwydd y torrir hwynt i'r llawr fel glas-wellt: ac y gwywant fel gwŷrdd-lyſiau.
3 Gobeithia yn yr Arglwydd, a gwna dda: felly y trigi yn y tîr, a thi a borthir yn ddiau.
4 Ymddigrifa hefyd yn yr Arglwydd: ac efe a ddyry i ti ddymuniadau dy galon.
5 Treigla dy ffordd ar yr Arglwydd, ac ymddiried ynddo: ac efe a'i dŵg i ben.
6 Efe a ddŵg allan dy gyfiawnder fel y goleuni: a'th farn fel hanner dydd.
7 Diſtawa yn yr Arglwydd, a diſgwyl wrtho: nac ymddigia o herwŷdd yr hwn a lwyddo ganddo ei ffordd, wrth y gŵr fydd yn gwneuthur ei ddrŵg amcanion.
8 Paid â digoſaint, a gâd ymaith gynddaredd: nac ymddigia er dim, i wneuthur drŵg.
9 Canys torrir ymaith y drŵg-ddynion: ond y rhai a ddiſgwyliant wrth yr Arglwydd, hwnthwy a etifeddant y tir.
10 Canys etto ychydigyn, ac ni welir yr annuwiol: a thi a edrychi am ei le ef, ac ni bydd dim o hono.
11 Eithr y rhai goſtyngedig a etiſeddant y ddaear: ac a ymhyfrydant gan liaws tangnefedd.
12 Yr annuwiol a amcana yn erbyn y cyfiawn: ac a yſgyrnyga ei ddannedd arno.
13 Yr Arglwydd a chwardd am ei ben ef: canys gwêl fod ei ddŷdd ar ddyfod.
14 Yr annuwiolion a dynnaſant eu cleddyf, ac a annelaſant eu bŵa: i fwrw i lawr y tlawd, a'r anghenog, ac i lâdd y rhai uniawn eu ffyrdd.
15 Eu cleddyf a â yn eu càlon eu hunain: a'u bwâu a ddryllir.
16 Gwell yw 'r ychydig fydd gan y cyfiawn: nâ mawr olud annuwiolion lawer.
17 Canys breichiau 'r annuwiolion a dorrir: ond yr Arglwydd a gynnal y rhai cyfiawn.
18 Yr Arglwydd a edwyn ddyddiau y rhai perffaith: a'u hetifeddiaeth hwy fydd yn dragywydd.
19 Ni's gwaradwyddir hwy yn amſer dryg-fyd: ac yn amſer newŷn y cânt ddigon.
20 Eithr collir yr annuwiolion, a gelynion yr Arglwydd fel braſter ŵyn a ddiflannant: yn fŵg y diflannant hwy.
21 Yr annuwiol a echwyna ac ni thâl adref: ond y cyfiawn fydd drugarog, ac yn rhoddi.
22 Canys y rhai a fendigo efe, a etiſeddant y tir: a'r rhai a felldithio efe, a dorrir ymaith.
23 Yr Arglwydd a fforddia gerddediad gŵr da: a da fydd ganddo ei ffordd ef.
24 Er iddo gŵympo, ni lwyr fwrir ef i lawr: canys yr Arglwydd fydd yn ei gynnal ef â'i lâw.
25 Mi a fum ieuange, ac yr ydwyf yn hên: etto ni welais y cyfiawn wedi ei adu, na'i hâd yn cardotta bara.
26 Bob amſer y mae ef yn drugarog, ac yn rhoddi benthyg: a'i hâd a fendithir.
27 Cilia di oddiwrth ddrŵg, a gwnâ dda: a chyfannedda yn dragywydd.
28 Canys yr Arglwydd a gâr farn, ac ni edy ei ſaint: cedwir hwynt yn dragywydd; ond hâd yr annuwiol a dorrir ymaith.
29 Y rhai cyfiawn a etiſeddant y ddaear: ac a breſwyliant ynddi yn dragywydd.
30 Genau y cyfiawn a fynega ddoethineb: a'i dafod a draetha farn.
31 Deddf ei Dduw fydd yn ei galon ef: a'i gamrau ni lithrant.
32 Yr annuwiol a wylia ar y cyfiawn: ac a gais ei lâdd ef.
33 Ni âd yr Arglwydd ef yn ei lâw ef: ac ni âd ef yn euog pan ei barner.
34 Gobeithia yn yr Arglwydd, a chadw ei ffordd ef, ac efe a'th ddyrchafa, fel yr etiſeddech y tir: pan ddifether yr annuwiolion, ti a'i gweli.
35 Gwelais yr annuwiol yn gadarn: ac yn frigog fel y lawryf gwŷrdd.
36 Er hynny efe a aeth ymaith, ac wele nid oedd mwy o hono: a mi a'i ceiſiais, ac nid oedd i'w gael.
37 Yſtyr y perffaith, ac edrych ar yr uniawn: canys diwedd y gŵr hwnnw fydd tangnefedd.
38 Ond y troſeddwŷr a gŷd-ddiſtrywir: diwedd yr annuwiolion a dorrir ymaith.
39 Ac iachawdwriaeth y cyfiawn fydd oddiwrth yr Arglwydd: efe yw eu nerth yn amſer trallod.
40 A'r Arglwydd a'u cymmorth hwynt, ac a'u gwared: efe a'u gwared hwynt rhag yr annuwiolion, ac a'u ceidw hwynt, am iddynt ymddiried ynddo.

BOREUOL WEDDI.

SALM 38. *Domine, ne in furore.*

ARglwydd, na cherydda fi yn dy lîd: ac na choſpa fi yn dy ddigllonedd.
2 Canys y mae dy ſaethau ynglŷn ynof: a'th lâw yn dròm arnaf.

3 Nid

3 Nid oes iechyd yn fy nghnawd, o herwydd dy ddigllonedd: ac nid oes heddwch i'm hesgyrn, o blegid fy mhechod.

4 Canys fy nghamweddau a aethant dros fy mhen: megis baich trwm y maent yn rhy drwm i mi.

5 Fy nghleisiau a bydrasant: ac a lygrasant gan fy ynfydrwydd.

6 Crymmwyd, a darostyngwyd fi 'n ddirfawr: beunydd yr ydwyf yn myned yn alarus.

7 Canys fy llwynau a lanwyd o ffieidd-glwyf: ac nid oes iechyd yn fy nghnawd.

8 Gwanhawyd, a drylliwyd fi 'n dramawr: rhuais gan aflonyddwch fy nghalon.

9 O'th flaen di, Arglwydd, y mae fy holl ddymuniad: ac ni chuddiwyd fy uchenaid oddi wrthyt.

10 Fy nghalon sydd yn llammu; fy nerth a'm gadawodd: a llewyrch fy llygaid nid yw chwaith gennyf.

11 Fy ngharedigion, a'm cyfeillion a safant oddiar gyfer fy mhla: a'm cyfneseifiaid a safent o hirbell.

12 Y rhai hefyd a geisient fy einioes, a osodasant faglau: a'r rhai a geisient fy niwaid a draethant anwireddau, ac a ddychymmygent ddichellion ar hyd y dydd.

13 A minnau fel byddar ni chlywn: eithr oeddwn fel mudan heb agoryd ei enau.

14 Felly 'r oeddwn fel gŵr ni chlywai: ac heb argyoeddion yn ei enau.

15 O herwydd i'm obeithio ynot, Arglwydd: ti, Arglwydd fy Nuw, a wrandewi.

16 Canys dywedais, Gwrando fi, rhag llawenychu o honynt i'm herbyn: pan lithrai fy nhroed, ymfawrygent i'm herbyn.

17 Canys parod ŵyf i gloffi: a'm dolur fydd ger fy mron yn wastad.

18 Diau y mynegaf fy anwiredd: ac y pryderaf o herwydd fy mhechod.

19 Ac y mae fy ngelynion yn fyw, ac yn gedyrn: amlhawyd hefyd y rhai a'm casant ar gam.

20 A'r rhai a dalant ddrwg dros dda, a'm gwrthwynebant: am fy mod yn dilyn daioni.

21 Na âd fi, O Arglwydd: fy Nuw, nac ymbellha oddi wrthyf.

22 Bryssia i'm cymmorth: O Arglwydd, fy iachawdriaeth.

SALM 39. *Dixi, custodiam.*

DYwedais, Cadwaf fy ffyrdd, rhag pechu â'm tafod: cadwaf ffrwyn yn fy ngenau, tra fyddo 'r annuwiol yn fy ngolwg.

2 Tewais yn ddistaw, ie tewais â daioni: a'm dolur a gyffrôdd.

3 Gwresogodd fy nghalon o'm mewn: tra 'r oeddwn yn myfyrio, enynnodd tân, a mi a leferais â'm tafod.

4 Arglwydd, pâr i mi ŵybod fy niwedd, a pheth yw mesur fy nyddiau, fel y gwypwyf o ba oedran y byddaf fi.

5 Wele, gwnaethost fy nyddiau fel dyrnfedd, a'm heinioes sydd megis diddym yn dy olwg di: diau mai cwbl wagedd yw pob dŷn pan so ar y goreu.

6 Dŷn yn ddiau sydd yn rhodio mewn cysgod, ac yn ymdrafferthu yn ofer: efe a dyrra olud, ac ni's gŵyr pwy a'u casgl.

7 Ac yn awr, beth a ddisgwyliaf, O Arglwydd: fy ngobaith sydd ynot ti.

8 Gwared fi o'm holl gamweddau: ac na osod fi yn waradwydd i'r ynfyd.

9 Aethum yn fûd, ac nid agorais fy ngenau: canys ti a wnaethost hyn.

10 Tynn dy blâ oddi wrthyf: gan ddyrnod dy law y darfûm i.

11 Pan gospit ddŷn â cheryddon am anwiredd, dattodit fel gwyfyn ei ardderchowgrwydd ef: gwagedd yn ddiau yw pob dŷn.

12 Gwrando fy ngweddi, Arglwydd, a chlyw fy llêf; na thaw wrth fy ŵylofain: canys ymdeithydd ydwyf gyd â thi, ac alltud fel fy holl dadau.

13 Paid â mi, fel y cryfhâwyf: cyn fy myned, ac na byddwyf mwy.

SALM. 40. *Expectans expectavi.*

DIsgwyliais yn ddyfal am yr Arglwydd: ac efe a ymostyngodd attaf, ac a glybu fy llefain.

2 Cyfododd fi hefyd o'r pydew erchyll, allan o'r pridd tomlyd: ac a osododd fy nhraed ar graig, gan hwylio fy ngherddediad.

3 A rhoddodd yn fy ngenau ganiad newydd o foliant i'n Duw ni: llawer a welant hyn, ac a ofnant, ac a ymddiriedant yn yr Arglwydd.

4 Gwyn ei fyd y gŵr a osodo 'r Arglwydd yn ymddiried iddo: ac ni thrŷ at feilchion, nac at y rhai a ŵyrant at gelwydd.

5 Lliosog y gwnaethost ti, O Arglwydd fy Nuw, dy ryfeddodau, a'th amcanion tu ag attom; ni ellir yn drefnus en cyfrif hwynt i ti: pe mynegwn, a phe traethwn hwynt, amlach ydynt nag y gellir eu rhifo.

6 Aberth ac offrwm nid ewyllysiaist, agoraist fy nghlustiau: poeth-offrwm a phech-aberth ni's go fynnaist.

7 Yna y dywedais, Wele 'r ydwyf yn dyfod: yn rhol y llyfr yr ysgrifenwyd am danaf.

8 Da gennyf wneuthur dy ewyllys, O fy Nuw: a'th gyfraith sydd o fewn fy nghalon.

9 Pregethais gyfiawnder yn y gynnulleidfa fawr: wele, nid atteliais fy ngwefusau, ti, Arglwydd, a'i gŵyddost.

10 Ni chuddiais dy gyfiawnder o fewn fy nghalon; traethais dy ffyddlondeb a'th iachawdwriaeth: ni chelais dy drugaredd na'th wirionedd, yn y gynnulleidfa lïosog.

11 Tithau, Arglwydd, nac attal dy drugareddau oddi wrthyf: cadwed dy drugaredd a'th wirionedd fi byth.

12 Canys drygau anifeiriol a'm cylchynasant o amgylch, fy mhechodau a'm daliasant, fel na allwn edrych i fynu: amlach ydynt nâ gwallt fy mhen; am hynny y pallodd fy nghalon gennyf.

13 Rhynged bodd it', Arglwydd, fy ngwaredu: bryssia, Arglwydd, i'm cymmorth.

14 Cŷd-gywilyddier, a gwaradwydder y rhai a geisiant fy einioes i'w difetha: gyrrer yn eu hôl, a chywilyddier, y rhai a ewyllysiant i mi ddrŵg.

15 Anrheithier hwynt yn wobr am eu gwaradwydd: y rhai a ddywedant wrthyf, Ha, ha.

16 Llawenyched, ac ymhyfryded ynot ti y rhai oll a'th geisiant: dyweded y rhai a garant dy iachawdwriaeth bob amser, Mawryger yr Arglwydd.

17 Ond yr ŵyf fi yn dlawd, ac yn anghenus; etto yr Arglwydd a feddwl a'm danaf: fy nghymmorth a'm gwaredydd ydwyt ti; fy Nuw, na hîr drîg.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 41. *Beatus, qui intelligit.*

GWYN ei fyd a ystyria wrth y tlawd: yr Arglwydd a'i gwared ef yn amser adfyd.

2 Yr Arglwydd a'i ceidw, ac a'i bywhâ; gwynfydedig fydd ar y ddaear: na ddôd tithau ef wrth ewyllys ei elynion.

3 Yr Arglwydd a'i nertha ef ar ei glâf-wely: cyweiri ei holl wely ef yn ei glefyd.

4 Mi a ddywedais, Arglwydd, trugarhâ wrthyf: iachâ fy enaid, canys pechais i'th erbyn.

5 Fy

5 Fy ngelynion a lefarent ddrwg am danaf, gan ddywedyd: Pa brŷd y bydd efe farw, ac y derfydd am ei enw ef?

6 Ac o's daw i'm hedrych, efe a ddywaid gelŵydd: ei galon a gasgl atti anwiredd; pan êl allan, efe a'i traetha.

7 Fy holl gaseion a gŷd-hustyngant i'm herbyn: yn fy erbyn y dychymmygant ddrwg i mi.

8 Aflwydd, meddant, a lŷn wrtho: a chan ei fod yn gorwedd, ni chyfyd mwy.

9 Hefyd y gŵr oedd anwyl gennyf, yr hwn yr ymddiriedais iddo: ac a fwyttaodd fy mara, a ddyrchafodd ei sawdl i'm herbyn.

10 Eithr ti, 'Arglwydd, trugarhâ wrthyf: a chyfod fi, fel y talwyf iddynt.

11 Wrth hyn y gwn hoffi o honot fi: am na chaiff fy ngelyn orfoleddu i'm herbyn.

12 Onid am danaf fi, yn fy mherfeithrwydd y'm cynheli: ac y'm gosodi ger dy fron yn dragywydd.

13 Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel: o dragywyddoldeb a hŷd dragywyddoldeb. Amen, ac Amen.

SALM 42. *Quemadmodum.*

FEL y brefa 'r hŷdd am yr afonydd dyfroedd: felly 'r hiraetha fy enaid am danat ti, O Dduw.

2 Sychedig yw fy enaid am Dduw, am y Duw byw: pa brŷd y deuaf, ac yr ymddangosaf ger bron Duw?

3 Fy nagrau oedd fwyd im' ddydd a nôs: tra dywedant wrthyf bob dydd, Pa le y mae dy Dduw?

4 Tywalltwn fy enaid ynof pan gofiwn hynny: canys aethwn gyd â'r gynnulleidfa, cerddwn gyd â hwynt i dŷ Dduw, mewn sain cân a moliant, fel tyrfa yn cadw gŵyl.

5 Pa ham, fy enaid, y'th ddarostyngir, ac yr ymderfysgi ynof: gobeithia yn Nuw, oblegid moliannaf ef etto, am iachawdwriaeth ei wyneb-pryd.

6 Fy Nuw, fy enaid a ymddarostwng ynof: am hynny y cofiaf di, o dîr yr Iorddonen, a'r Hermoniaid, o frŷn Misfar.

7 Dyfnder a eilw ar ddyfnder, wrth sŵn dy bistylloedd di: dy holl donnau a'th lifeiriaint a aethant trosofi.

8 Etto yr Arglwydd a orchymmyn ei drugaredd liw dydd: a'i gân fydd gyd â mi liw nôs, sef gweddi ar Dduw fy einioes.

9 Dywedaf wrth Dduw fy nghraig, Pa ham yr anghofiaist fi: pa ham y rhodiaf yn alarus trwy orthrymder y gelyn?

10 Megis â chleddyf yn fy esgyrn y mae fy ngwrthwynebwŷr yn fy ngwaradwyddo: pan ddywedant wrthyf bob dydd, Pa le y mae dy Dduw?

11 I'a ham y'th ddarostyngir fy enaid? a pha ham y terfysgi ynof: ymddiried yn Nuw, canys etto y moliannaf ef, sef iachawdwriaeth fy wyneb, a'm Duw.

SALM 43. *Judica me, Deus.*

BArn fi, O Dduw, a dadleu fy nadl yn erbyn y genhedlaeth anhrugarog: gwared fi rhag y dyn twyllodrus, ac anghyfiawn.

2 Canys ti yw Duw fy nerth, pa ham y'm bwri ymaith: pa ham yr âf yn alarus trwy orthrymder y gelyn?

3 Anfon dy oleuni, a'th wirionedd, tywysant hwy fi: ac arweiniant fi, i fynydd dy sancteiddrwydd, ac i'th bebyll.

4 Yna 'r âf at allor Duw, at Dduw hyfrydwch fy ngorfoledd: ac mi a'th foliannaf ar y delyn, O Dduw, fy Nuw.

5 Pa ham y'th ddarostyngir fy enaid? a pha ham y terfysgi ynof: gobeithia yn Nuw; canys etto y moliannaf ef, sef iachawdwriaeth fy wyneb, a'm Duw.

BOREUOL WEDDI.

SALM 44. *Deus, auribus.*

DUW, clywsom â'n clustiau, ein tadau a fynegasant i ni: y weithred a wnaethost yn eu hamser hwynt, yn y dyddiau gynt.

2 Ti â'th law a yrraist allan y cenhedloedd, ac a'u plennaist hwythau: ti a ddrygaist y bobloedd, ac a'u cynnyddaist hwythau.

3 Canys nid â'u cleddyf eu hun y goresgynnasant y tir, nid eu braich a barodd iachawdwriaeth iddynt: eithr dy ddeheu-law di, a'th fraich, a llewyrch dy wyneb, o herwŷdd it' eu hoffi hwynt.

4 Ti Dduw, yw fy Mrenhin: gorchymmyn iachawdwriaeth i Jacob.

5 Ynot ti y cilgwthiwn ni ein gelynion: yn dy enw di y sathrwn y rhai a gyfodant i'n herbyn.

6 O herwŷdd nid yn fy mŵa 'r ymddiriedaf: nid fy nghleddyf chwaith a'm hachub.

7 Eithr ti a'n hachubaist ni oddiwrth ein gwrthwynebwŷr: ac a waradwyddaist ein caseion.

8 Yn Nuw yr ymffrostiwn drwy 'r dydd: ac mi a glodforwn dy Enw yn dragywydd.

9 Ond ti a'n bwriaist ni ymaith, ac a'n gwaradwyddaist: ac nid wyt yn myned allan gyd â'n lluoedd.

10 Gwnaethost i ni droi yn ôl oddiwrth y gelyn: a'n caseion a anrheithiasant iddynt eu hun.

11 Rhoddaist ni fel defaid i'w bwytta: a gwasgaraist ni ym mŷsg y cenhedloedd.

12 Gwerthaist dy bobl heb elw: ac ni 'chwanegaist dy olud o'u gwerth hwynt.

13 Gosodaist ni yn warthrudd i'n cymmydogion: yn watworgerdd, ac yn wawd i'r rhai ydynt o'n hamgylch.

14 Gosodaist ni yn ddihareb ym mŷsg y cenhedloedd: yn rhai i ysgwyd pen arnynt ym mŷsg y bobloedd.

15 Fy ngwarthrudd sydd beunydd ger fy mron: a chywilydd fy wyneb a'm tôdd:

16 Gan lais y gwarthruddwr, a'r cablwr: o herwŷdd y gelyn, a'r ymddialwr.

17 Hyn oll a ddaeth arnom: etto ni'th anghofiasom di, ac ni buom anffyddlon yn dy gyfammod.

18 Ni thrôdd ein câlon yn ei hôl: ac nid aeth ein cerddediad allan o'th lwybr di;

19 Er i ti ein curo yn nhrigfa dreigiau: a thoi trosom â chysgod angau.

20 O's anghofiasom Enw ein Duw: neu estyn ein dwylaw at Dduw dïeithr;

21 Oni chwilia Duw hyn allan: canys efe a wyr ddirgeloedd y galon.

22 Ie er dy fwyn di y'n lleddir beunydd: cyfrifir ni fel defaid i'w lladd.

23 Deffro, pa ham y cysgi, O Arglwydd: cyfod, na fwrw ni ymaith yn dragywydd.

24 Pa ham y cuddi dy wyneb: ac yr anghofi ein cystudd, a'n gorthrymder?

25 Canys gostyngwyd ein henaid i'r llŵch: glynodd ein bol wrth y ddaear.

26 Cyfod yn gynnorthwy i ni: gwared ni er mwyn dy drugaredd.

SALM 45. *Eructavit cor meum.*

TRaetha fy nghalon beth da; dywedyd yr ydwyf y pethau a wnaethum i'r Brenhin: fy nhafod sydd bin ysgrifennydd buan.

2 Teccach ydwyt nâ meibion dynion: tywalltwyd gras ar dy wefusau: o herwŷdd hynny y'th fendithiodd Duw yn dragywydd.

3 Gwregysa dy gleddyf ar dy glûn, O gadarn: â'th ogoniant, a'th harddwch.

4 Ac yn dy harddwch marchog yn llwyddiannus, o herwŷdd gwirionedd, lledneisrwydd, a chyfiawnder; a'th ddeheu-law a ddysg i ti bethau ofnadwy.

5 Pobl a ſyrthiant tanat: o herwŷdd dy ſaethau llymion yn glynu ynghalon gelynion y brenhin.

6 Dy orſedd di, O Dduw, ſydd byth, ac yn dragywydd: teyrn-wialen uniondeb yw teyrn-wialen dy frenhiniaeth di.

7 Ceraiſt gyfiawnder a chaſeaiſt ddrygioni: am hynny y'th enneiniodd Duw, ſef dy Dduw di, ag olew llawenydd yn fwy nâ'th gyfeillion.

8 Arogl Myrr, Alöes a Chaſia ſydd ar dy holl wiſgoedd: allan o'r palaſau Iſori, â'r rhai y'th lawenhaſant.

9 Merched brenhinoedd oedd ym mhlith dy bendefigeſau: ſafai y frenhines ar dy ddeheu-law mewn aur coeth o Ophir.

10 Gwrando ferch, a gwêl, a goſtwng dy glûſt: ac anghofia dy bobl dy hun a thŷ dy dâd.

11 A'r brenhin a chwennych dy degwch: canys efe yw dy Iôr di; ymoſtwng dithau iddo ef.

12 Merch Tyrus hefyd ſydd yno ag anrheg: a chyfoethogion y bobl a ymbiliant â'th wyneb.

13 Merch y brenhin ſydd oll yn ogoneddus o fewn: gem-waith aur yw ei gwiſg hi.

14 Mewn gwaith edau a nodwydd y dygir hi at y brenhin: y morŵynion y rhai a ddeuant ar ei hôl, yn gyfeilleſau iddi, a ddygir attat ti.

15 Mewn llawenydd a gorfoledd y dygir hwynt: deuant i lŷs y brenhin.

16 Dy feibion fydd yn lle dy dadau: y rhai a wnei yn dywyſogion yn yr holl dîr.

17 Paraf gofio dy enw ym mhob cenhedlaeth ac oes: am hynny y bobl a'th foliannant byth, ac yn dragywydd.

SALM 46. *Deus noſter refugium.*

DUW ſydd noddfa, a nerth i ni: cymmorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.

2 Am hynny nid ofnwn pe ſymmudai y ddaear: a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr.

3 Er rhuo a therfyſgu o'i ddyfroedd: er crynu o'r mynyddoedd gan ei ymchwydd ef.

4 Y mae afon, a'i ffrydiau a lawenhânt ddinas Dduw: cyſſegr preſwylfeydd y Goruchaf.

5 Duw ſydd yn ei chanol, nid yſgog hi: Duw a'i cynnorthwya yn fore iawn.

6 Y cenhedloedd a derfyſgaſant, y teyrnaſoedd a yſgogaſant: efe a roddes ei lêf, toddodd y ddaear.

7 Y mae Arglwydd y lluoedd gyd â ni: y mae Duw Jacob yn amddiffynfa i ni.

8 Deuwch, gwelwch weithredoedd yr Arglwydd: pa anghyfannedd-dra a wnaeth efe ar y ddaear.

9 Gwnâ i ryfeloedd beidio hŷd eithaf y ddaear: efe a ddryllia'r bŵa, ac a dyrr y wayw-ffon, efe a lŷſg y cerbydau â thân.

10 Peidiwch, a gŵybyddwch mai myfi ſydd Dduw: dyrchefir fi ym mŷſg y cenhedloedd, dyrchefir fi ar y ddaear;

11 Y mae Arglwydd y lluoedd gyd â ni; amddiffynfa i ni yw Duw Jacob.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 47. *Omnes gentes, plaudite.*

YR holl bobl curwch ddwylaw: llafar-genwch i Dduw, â llêf gorfoledd.

2 Canys yr Arglwydd goruchaf ſydd ofnadwy: brenhin mawr ar yr holl ddaear.

3 Efe a ddŵg y bobl danom ni: a'r cenhedloedd dan ein traed.

4 Efe a ddethol ein etifeddiaeth i ni: ardderchowgrwydd Jacob, yr hwn a hoffodd efe.

5 Dyrchafodd Duw â llawen floedd: yr Arglwydd â ſain udgorn.

6 Cenwch fawl i Dduw, cenwch: cenwch fawl i'n brenhin, cenwch.

7 Canys brenhin yr holl ddaear yw Duw: cenwch fawl yn ddeallus.

8 Duw ſydd yn teyrnaſu ar y cenhedloedd: eiſtedd y mae Duw ar orſedd-faingc ei ſanctteiddrwydd.

9 Pendefigion y bobl a ymgaſglaſant ynghŷd, ſef pobl Duw Abraham: canys tariannau y ddaear ydynt eiddo Duw; dirfawr y dyrchafwyd ef.

SALM 48. *Magnus Dominus.*

MAwr yw'r Arglwydd, a thra moliannus; yn ninas ein Duw ni; yn ei fynydd ſanctaidd.

2 Tegwch bro, llawenydd yr holl ddaear yw mynydd Seion: yn yſtlyſau y gogledd, dinas y brenhin mawr.

3 Duw yn ei phalaſau: a adwaenir yn amddiffynfa.

4 Canys wele, y brenhinoedd a ymgynnullaſant: aethant heibio ynghŷd.

5 Hwy a welſant, felly y rhyfeddaſant: brawychaſant, ac aethant ymaith ar ffrŵſt,

6 Dychryn a ddaeth arnynt yno: a dolur megis gwraig yn eſgor.

7 A gwynt dwyrain: y drylli longau y môr.

8 Megis y clywſom, felly y gwelſom yn ninas Arglwydd y lluoedd, yn ninas ein Duw ni: Duw a'i ſicrhâ hi yn dragywydd.

9 Meddyliaſom, O Dduw am dy drugaredd: ynghanol dy Deml.

10 Megis y mae dy Enw, O Dduw, felly y mae dy fawl hŷd eithafoedd y tîr: cyflawn o gyfiawnder yw dy ddeheu-law.

11 Llawenyched mynydd Seion, ac ymhyfryded merched Juda: o herwŷdd dy farnedigaethau.

12 Amgylchwch Seion, ac ewch o'i hamgylch hi: rhifwch ei thyrau hi.

13 Yſtyriwch ei rhag-furiau, edrychwch ar ei phalaſau: fel y mynegoch i'r oes a ddelo yn ôl.

14 Canys y Duw hwn yw ein Duw ni byth ac yn dragywydd: efe a'n tywys ni hŷd angau.

SALM 49. *Audite hæc omnes.*

CLywch hyn, yr holl bobloedd: gwrandêwch hyn, holl drigolion y bŷd.

2 Yn gyſtal gwrêng a bonheddig: cyfoethog a thlawd ynghŷd.

3 Fy ngenau a draetha ddoethineb: a myfyrdod fy nghalon fydd am ddeall.

4 Goſtyngaf fy nghlûſt at ddihareb: fy nammeg a ddatguddiaf gyd â'r delyn.

5 Pa ham yr ofnaf yn amſer adfyd: pan y'm hamgylchyno anwiredd fy ſodlau?

6 Rhai a ymddiriedant yn eu golud: ac a ymffroſtiant yn lliofowgrwydd eu cyfoeth.

7 Gan waredu ni wared neb ei frawd: ac ni all efe roddi iawn droſto i Dduw.

8 (Canys gwerthfawr yw pryniad eu henaid: a hynny a baid byth.)

9 Fel y byddo efe byw byth: ac na welo lygredigaeth.

10 Canys efe a wêl fod y doethion yn meirw: yr un ffunud y derfydd am ffôl ac ynfyd, gadawant eu golud i eraill.

11 Eu meddwl yw y pery eu tai yn dragywydd, a'u trigfeydd hŷd genhedlaeth a chenhedlaeth: henwant eu tiroedd ar eu henwau eu hunain.

12 Er hynny dŷn mewn anrhydedd nid erys: tebyg yw i anifeiliaid a ddifethir.

13 Eu ffordd yma yw eu hynfydrwydd: etto eu hiliogaeth ydynt foddlon i'w hymadrodd.

14 Fel defaid y goſodir hwynt yn uffern, angau a ymborth arnynt, a'r rhai cyfiawn a lywodraetha arnynt y bore: a'u tegwch a ddarfydd yn y bedd o'u cartref.

15 Etto Duw a wared ſy enaid i o feddiant uffern: canys eſe a'm derbyn i.

16 Nac ofna pan gyfoethogo un: pan ychwanego gogoniant ei dŷ ef.

17 Canys wrth farw ni ddŵg eſe ddim ymaith: ac ni ddiſgyn ei ogoniant ar ei ôl ef.

18 Er iddo yn ei fywyd fendithio ei enaid: canmolant dithau o byddi da wrthyt dy hun.

19 Eſe a â at genhedlaeth ei dadau: ac ni welant oleuni byth.

20 Dŷn mewn anrhydedd, ac heb ddeall: ſydd gyffelyb i anifeiliaid a ddifethir.

BOREUOL WEDDI.

SALM 50. *Deus deorum.*

DUW y duwiau, ſef yr Arglwydd a lefarodd: ac a alwodd y ddaear, o godiad haul hŷd ei fachludiad.

2 Allan o Seion perffeithrwydd tegwch: y llewyrchodd Duw.

3 Ein Duw ni a ddaw, ac ni bydd diſtaw: tân a yſa o'i flaen ef, a thymheſtl ddirfawr ſydd o'i amgylch.

4 Geilw ar y nefoedd oddi uchod: ac ar y ddaear, i farnu ei bobl.

5 Ceſglwch fy ſaint ynghŷd attafi: y rhai a wnaethant gyfammod â mi trwy aberth.

6 A'r nefoedd a fynegant ei gyfiawnder ef: canys Duw ei hun ſydd farnwr.

7 Clywch fy mhobl, a mi a lefaraf; O Iſrael, a mi a dyſtiolaethaf i'th erbyn: Duw, ſef dy Dduw di ydwyf fi.

8 Nid am dy aberthau y'th geryddaf, na'th boeth-offrymmau: am nad oeddynt ger fy mron i yn waſtad.

9 Ni chymmeraf fuſtach o'th dŷ: na bychod o'th gorlannau.

10 Canys holl fwyſtfilod y coed ydynt eiddo fi: a'r anifeiliaid ar fil o fynyddoedd.

11 Adwaen holl adar y mynyddoedd: a gwŷllt anifeiliaid y maes ydynt eiddo fi.

12 Os bydd newŷn arnaf, ni ddywedaf i ti: canys y bŷd a'i gyflawnder, ſydd eiddo fi.

13 A fwyttâf fi gig teirw: neu a a yfaf fi waed bychod?

14 Abertha foliant i Dduw: a thâl i'r Goruchaf dy addunedau.

15 A galw arnaf fi yn nŵdd trallod: mi a'th waredaf, a thi a'm gogoneddi.

16 Ond wrth yr annuwiol y dywedodd Duw: Beth ſydd i ti a fynegech ar fy neddfau, neu a gymmerech ar fy nghyfammod yn dy enau?

17 Gan dy fod yn caſâu addyſg: ac yn taflu fy ngeiriau i'th ôl.

18 Pan welaiſt leidr, cyttunaiſt ag ef: a'th gyfran oedd gyd â'r godinebwŷr.

19 Gollyngaiſt dy ſafn i ddrygioni: a'th dafod a gŷd-bletha ddichell.

20 Eiſteddaiſt, a dywedaiſt yn erbyn dy frawd: rhoddaiſt enllib i fâb dy fam.

21 Hyn a wnaethoſt, a mi a dewais, tybiaiſt dithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun: ond mi a'th argyoeddaf, ac a'u trefnaf o flaen dy lygaid.

22 Deallwch hyn yn awr, y rhai ydych yn anghofio Duw: rhag i mi eich rhwygo, ac na byddo gwaredydd.

23 Yr hwn a abertho foliant, a'm gogonedda i: a'r neb a oſodo ei ffordd yn iawn, dangoſaf iddo iachawdwriaeth Duw.

SALM 51. *Miſerere mei, Deus.*

TRugarhâ wrthyf, O Dduw, yn ôl dy drugarowgrwydd: yn ôl lliaws dy dofturiaethau dilea fy anwireddau.

2 Golch fi yn llwyr-ddwys oddiwrth fy anwiredd: a glanhâ fi oddiwrth fy mhechod.

3 Canys yr wŷf yn cydnabod fy nghamweddau: a'm pechod ſydd yn waſtad ger fy mron.

4 Yn dy erbyn di, dydi dy hunan, y pechais, ac y gwneuthum y drwg hyn yn dy olwg: fel y'th gyfiawnhâer pan leferych, ac y byddit bur pan farnech.

5 Wele, mewn anwiredd y'm lluniwyd: ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf.

6 Wele, ceraiſt wirionedd oddi mewn: a pheri i mi wybod doethineb yn ddirgel.

7 Glanhâ fi ac iſop, ac mi a lanhëir: golch fi, a byddaf wynnach nâ'r eira.

8 Pâr di i mi glywed gorfoledd a llawenydd: fel y llawenycho'r eſgyrn a ddrylliaiſt.

9 Cuddia dy wyneb oddiwrth fy mhechodau: a dilea fy holl anwireddau.

10 Crea gàlon lân ynof, O Dduw: ac adnewŷdda yſpryd uniawn o'm mewn.

11 Na fwrw fi ymaith oddi ger dy fron: ac na chymmer dy yſpryd ſanctaidd oddi wrthyf.

12 Dyro drachefn i mi orfoledd dy iachawdwriaeth: ac â'th hael Yſpryd cynnal fi.

13 Yna y dyſgaf dy ffyrdd i rai anwir: a phechaduriaid a droir attat.

14 Gwared fi oddiwrth waed, O Dduw, Duw fy iachawdwriaeth: a'm tafod a gân yn llafar am dy gyfiawnder.

15 Arglwydd agor fy ngwefuſau: a'm genau a fynega dy foliant.

16 Canys ni chwennychi aberth; pe amgen mi a'i rhoddwn: poeth-offrwm ni fynni.

17 Aberthau Duw ydynt yſpryd drylliedig: càlon ddrylliog gyſtuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi.

18 Gwnâ ddaioni, yn dy ewyllyſgarwch i Seion: adeilada furiau Jeruſalem.

19 Yna y byddi foddlon i ebyrth cyfiawnder, i boeth-offrwm ac aberth llôſg: yna'r offrymmant fuſtych ar dy allor.

SALM 52. *Quid gloriaris?*

PA ham yr ymffroſti mewn drygioni, O gadarn? y mae trugaredd Dduw yn parhâu yn waſtadol.

2 Dy dafod a ddychymmyg yſgelerder: fel ellyn llŷm, yn gwneuthur twyll.

3 Hoffaiſt ddrygioni yn fwy nâ daioni: a chelŵydd yn fwy nâ thraethu cyfiawnder.

4 Hoffaiſt bob geiriau diſtryw: O dafod twyllodrus.

5 Duw a'th ddiſtrywia dithau yn dragywydd: eſe a'th gipia di ymaith, ac a'th dynn allan o'th babell, ac a'th ddiwreiddia o dîr y rhai byw.

6 Y cyfiawn hefyd a welant, ac a ofnant: ac a chwarddant am ei ben.

7 Wele'r gŵr ni oſododd Dduw yn gadernid iddo: eithr ymddiriedodd yn llioſowgrwydd ei olud, ac a ymnerthodd yn ei ddrygioni.

8 Ond myfi ſydd fel olew-wŷdden werdd yn nhŷ Dduw: ymddiriedaf yn nhrugaredd Dduw byth, ac yn dragywydd.

9 Clodforaf di yn dragywydd, o herwŷdd i ti wneuthur hyn: a diſgwyliaf wrth dy Enw; canys da yw ger bron dy ſaint.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 53. *Dixit inſipiens.*

DYwedodd yr ynfyd yn ei gàlon, Nid oes un Duw: ymlygraſant, a gwnaethant ffiaidd anwiredd; nid oes un yn gwneuthur daioni.

2 Edrychodd Duw i lawr o'r nefoedd ar feibion dynion;

dynion: i edrych a oedd neb yn ddeallus, ac yn ceisio Duw.

3 Ciliasai pob un o honynt yn ŵysg ei gesn; cŷd-ymddifwynasant: nid oes a wnêl ddaioni, nac oes un.

4 Oni ŵyr gweithredwŷr anwiredd? y rhai sydd yn bwytta fy mhobl fel y bwyttaënt fara; ni alwasant ar Dduw.

5 Yna 'r ofnasant gan ofn lle nid oedd ofn: canys Duw a wasgarodd esgyrn yr hwn a'th warchaeodd; gwaradwyddaist hwynt, am i Dduw eu dirmygu hwy.

6 Oh na roddid iachawdwriaeth i Israel o Seion: pan ymchwelo Duw gaethiwed ei bobl, y llawenycha Jacob, ac yr ymhyfryda Israel.

SALM 54. *Deus, in nomine.*

ACHub fi, O Dduw, yn dy enw: a barn fi yn dy gadernid.

2 Duw, clyw fy ngweddi: gwrando ymadrodd fy ngenau.

3 Canys dieithriaid a gyfodasant i'm herbyn: a'r trawsion a geisiant fy enaid, ni osodasant Dduw o'u blaen.

4 Wele, Duw sydd yn fy nghynnorthwyo: yr Arglwydd sydd ym mŷsg y rhai a gynhaliant fy enaid.

5 Efe a dâl ddrwg i'm gelynion: torr hwynt ymaith yn dy wirionedd.

6 Aberthaf it' yn ewyllysgar: clodforaf dy enw, O Arglwydd, canys da yw.

7 Canys efe a'm gwaredodd o bob trallod: a'm llygad a welodd ei ewyllys ar fy ngelynion.

SALM 55. *Exaudi, Deus.*

GWrando fy ngweddi, O Dduw: ac nac ymguddia rhag fy neisyfiad.

2 Gwrando arnaf, ac erglyw fi: cŵynfan yr ydwyf yn fy ngweddi, a thuchan.

3 Gan lais y gelyn, gan orthrymder yr annuwiol: o herwŷdd y maent yn bwrw anwiredd arnaf, ac yn fy nghasâu yn llidiog.

4 Fy nghâlon a ofidia o'm mewn: ac ofn angau a syrthiodd arnaf.

5 Ofn ac arswyd a ddaeth arnaf: a dychryn a'm gorchuddiodd.

6 A dywedais, O na bai i mi adenydd fel colommen: yna 'r ehedwn ymaith, ac y gorphwysswn.

7 Wele, crwydrwn ym mhell: ac arhosswn yn yr anialwch.

8 Brysiwn i ddïangc: rhag y gwŷnt ystormus, a'r dymmestl.

9 Dinystria, O Arglwydd, a gwahan eu tafodau: canys gwelais drawsder a chynnen yn y ddinas.

10 Dŷdd a nôs yr amgylchant hi ar ei muriau: ac y mae anwiredd a blinder yn ei chanol hi.

11 Anwireddau sydd yn ei chanol hi: ac ni chilia twyll a dichell o'i heolydd hi.

12 Canys nid gelyn a'm difenwodd, yna y dioddefaswn: nid fy nghas-ddyn a ymfawrygodd i'm herbyn, yna mi a ymguddiasswn rhagddo ef.

13 Eithr tydi, ddŷn, fy nghŷd-radd: fy fforddwr, a'm cydnabod.

14 Y rhai oedd felys gennym gŷd-gyfrinachu: ac a rodiasom i dŷ Dduw ynghŷd.

15 Rhuthred marwolaeth arnynt, a disgynnant i uffern yn fyw: canys drygioni sydd yn eu cartref, ac yn eu mŷsg.

16 Myfi a waeddaf ar Dduw: a'r Arglwydd a'm hachub i.

17 Hwyr, a bore, a hanner dŷdd y gweddïaf, a byddaf daer: ac efe a glyw fy lleferydd.

18 Efe a waredodd fy enaid mewn heddwch, oddïwrth y rhyfel oedd i'm herbyn: canys yr oedd llawer gyd â mi.

19 Duw a glyw, ac a'u darostwng hwynt, yr hwn sydd yn aros eriôed: am nad oes gyfnewidiau iddynt, am hynny nid ofnant Dduw.

20 Efe a estynnodd ei lâw yn erbyn y rhai oedd heddychlon ag ef: efe a dorrodd ei gyfammod.

21 Llyfnach oedd ei enau nag ymenyn, a rhyfel yn ei gâlon: tynerach oedd ei eiriau nag olew, a hwynt yn gleddyfau noethion.

22 Bwrw dy faich ar yr Arglwydd, ac efe a'th gynnal di: ni âd i'r cyfiawn ysgogi byth.

23 Tithau, Dduw, a'u disgynni hwynt i bydew dinystr: gwŷr gwaedlyd a thwyllodrus ni byddant byw hanner eu dyddiau, onid myfi a obeithiaf ynot ti.

BOREUOL WEDDI.

SALM 56. *Miserere mei, Deus.*

TRugarhâ wrthyf, O Dduw, canys dŷn a'm llyngcai: beunydd gan ymladd y'm gorthrymma.

2 Beunydd y'm llyngcai fy ngelynion: canys llawer sydd yn rhyfela i'm herbyn, O Dduw goruchaf.

3 Y dŷdd yr ofnwyf: mi a ymddiriedaf ynot ti.

4 Yn Nuw y clodforaf ei air, yn Nuw y gobeithiaf: nid ofnaf beth a wnêl cnawd i mi.

5 Beunydd y cam-gymmerant fy ngeiriau: eu holl feddyliau sydd i'm herbyn, er drwg.

6 Hwy a ymgasglant, a lechant: ac a wyliant fy nghamrau, pan ddisgwyliant am fy enaid.

7 A ddiangant hwy drwy anwiredd: disgyn y bobloedd hyn, O Dduw, yn dy lidiowgrwydd.

8 Ti a gyfrifaist fy symmudiadau, dod fy nagrau yn dy gostrel: onid ydynt yn dy lyfr di?

9 Y dŷdd y llefwyf arnat, yna y dychwelir fy ngelynion yn eu gwrthol: hyn a wn, am fod Duw gyd â mi.

10 Yn Nuw y moliannaf ei air: yn yr Arglwydd y moliannaf ei air.

11 Yn Nuw 'r ymddiriedais: nid ofnaf beth a wnêl dŷn i mi.

12 Arnaf fi, O Dduw, y mae dy addunedau: talaf i ti foliant.

13 Canys gwaredaist fy enaid rhag angau: oni waredi fy nhraed rhag syrthio? fel y rhodiwyf ger bron Duw yngoleuni y rhai byw.

SALM 57. *Miserere mei, Deus.*

TRugarhâ wrthyf, O Dduw, trugarhâ wrthyf, canys ynot y gobeithiodd fy enaid: ïe yng-hysgod dy adenydd y gobeithiaf, hŷd onid êl yr aflwydd hyn heibio.

2 Galwaf ar Dduw goruchaf: ar Dduw a gwpplâ â mi.

3 Efe a enfyn o'r nefoedd, ac a'm gwared oddi wrth warthrudd yr hwn a'm llyngcai: denfyn Duw ei drugaredd, a'i wirionedd.

4 Fy enaid sydd ym mŷsg llewod, gorwedd yr wyf ym mŷsg dynion poethion: sef meibion dynion, y rhai y mae eu dannedd yn wayw-ffyn a saethau, a'u tafod yn gleddyf llym.

5 Ymddyrcha, Dduw, uwch y nefoedd: a bydded dy ogoniant ar yr holl ddaear.

6 Darparasant rwyd i'm traed, crymmwyd fy enaid: cloddiasant bydew o'm blaen, syrthiasant yn ei ganol.

7 Parod yw fy nghâlon, O Dduw; parod yw fy nghâlon: canaf a chanmolaf.

8 Deffro fy ngogoniant; deffro nabl a thelyn: deffroaf yn fore.

9 Clodforaf di, Arglwydd, ym mŷsg y bobloedd: canmolaf di ym mŷsg y cenhedloedd.

10 Canys mawr yw dy drugaredd hŷd y nefoedd: a'th wirionedd hŷd y cymmylau.

11 Ymddyrcha, Dduw, uwch y nefoedd: a bydded dy ogoniant ar yr holl ddaear.

SALM 58. *Si vere utique.*

AI cyfiawnder yn ddïau a draethwch, chwi gynnulleidfa: a fernwch chwi uniondeb, O feibion dynion?

2 Anwiredd yn hytrach a weithredwch yn y gâlon? trawſter eich dwylaw yr ydych yn ei bwyſo ar y ddaear.

3 O'r gröth yr ymddïeithrodd y rhai annuwiol: o'r bru y cyfeiliornaſant, gan ddywedyd celŵydd.

4 Eu gwenŵyn ſydd fel gwenŵyn ſarph: y maent fel y neidr ſyddar, yr hon a gau ei chluſtiau.

5 Yr hon ni wrendy ar lais y rhinwŷr: er cyfarwydded ſyddo'r ſwynwr.

6 Dryllia, O Dduw, eu dannedd yn eu geneuau: torr, O Arglwydd, gïl-ddannedd y llewod ieuainge.

7 Todder hwynt fel dyfroedd ſydd yn rhedeg yn waſtad; pan ſaetho eu ſaethau byddant megis wedi eu torri.

8 Aed ymaith fel malwoden dawdd, neu erthyl gwraig: fel na welont yr haul.

9 Cyn i'ch crochanau glywed y mïeri: efe a'u cymmer hwynt ymaith megis â chorwynt, yn fyw ac yn ei ddigoſaint.

10 Y cyfiawn a lawenycha pan welo ddïal: efe a ylch ei draed yngwaed yr annuwiol.

11 Fel y dywedo dyn, Diau ſod ffrwyth i'r cyfiawn: diau ſod Duw a farna ar y ddaear.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 59. *Eripe me de inimicis.*

FY Nuw, gwared fi oddïwrth fy ngelynion: amddiffyn fi oddïwrth y rhai a ymgyſodant i'm herbyn.

2 Gwared fi oddïwrth weithredwŷr anwiredd: ac achub fi rhag y gwŷr gwaedlyd.

3 Canys wele, cynllwynaſant yn erbyn fy enaid; ymgaſglodd cedyrn i'm herbyn: nid ar fy mai na'm pechod i, O Arglwydd.

4 Rhedant, ymbarottoant, heb anwiredd ynof fi: deffro dithau i'm cymmorth, ac edrych.

5 A thi, Arglwydd Dduw 'r lluoedd, Duw Iſrael, deffro i ymweled â'r holl genhedloedd: na thrugarhâ wrth neb a wnânt anwiredd yn faleiſus.

6 Dychwelant gyd â'r hwyr: cyſarthant fel cŵn, ac amgylchant y ddinas.

7 Wele, bytheiriant â'u genau, cleddyfau ſydd yn eu gwefuſau: canys pwy (meddant) a glyw?

8 Ond tydi, O Arglwydd, a'u gwatwori hwynt: ac a chwerddi am ben yr holl genhedloedd.

9 O herwŷdd ei nerth ef, y diſgwyliaf wrthyt ti: canys Duw yw fy amddiffynfa.

10 Fy Nuw trugarog a'm rhagflaena: Duw a wnâ i mi weled fy ewyllys ar fy ngelynion.

11 Na lâdd hwynt, rhag i'm pobl anghofio: gwaſgar hwynt yn dy nerth, a daroſtwng hwynt, O Arglwydd ein tarian.

12 Am bechod eu genau, ac ymadrodd eu gwefuſau, dàlier hwynt yn eu balchder; ac am y felldith a'r celŵydd a draethant.

13 Difa hwynt yn dy lïd, difa, fel na byddont: a gŵybyddant mai Duw ſydd yn llywodraethu yn Jacob, hŷd eithafoedd y ddaear.

14 A dychwelant gyd â'r hwyr, a chyfarthant fel cŵn: ac amgylchant y ddinas.

15 Crwydrant am ſwyd; ac oni's digonir, grwgnachant.

16 Minnau a ganaf am dy nerth, ïe llafar ganaf am dy drugaredd yn fore: canys buoſt yn amddiffynfa i mi, ac yn noddfa, yn y dydd y bu cyfyngder arnaf.

17 I ti, fy nerth, y canaf; canys Duw yw fy amddiffynfa, a Duw fy nhrugaredd.

SALM 60. *Deus, repuliſti nos.*

O Dduw, bwriaiſt ni ymaith, gwaſgeraiſt ni, a ſorraiſt: dychwel attom drachefn,

2 Gwnaethoſt i'r ddaear grynu, a holltaiſt hi: iachâ ei briwiau, canys y mae yn crynu.

3 Dangoſaiſt i'th bobl galedi: diodaiſt ni â gwîn madrondod.

4 Rhoddaiſt faner i'r rhai a'th ofnant: i'w dyrchafu o herwŷdd y gwirionedd.

5 Fel y gwareder dy rai anwyl: achub â'th ddeheu-law, a gwrando fi.

6 Duw a leſarodd yn ei ſancteiddrwydd, Llawenychaf, rhannaf Sichem: a meſuraf ddyffryn Succoth.

7 Eiddo fi yw Gilead, ac eiddo fi Manaſſeh: Ephraim hefyd yw nerth fy mhen; Juda yw fy neddfwr.

8 Moab yw fy nghrochan golchi: tros Edom y bwriaf fy eſgid; Philiſtia, ymorfoledda di o'm plegid i.

9 Pwy a'm dŵg i'r ddinas gadarn: pwy a'm harwain hŷd yn Edom?

10 Onid tydi, Dduw, yr hwn a'n bwriaiſt ymaith: a thydi, O Dduw, yr hwn nid eit allan gyd â'n lluoedd?

11 Moes i ni gynnorthwy rhag cyfyngder: canys ofer yw ymwared dŷn.

12 Yn Nuw y gwnâwn ŵroldeb: canys efe a ſathr ein gelynion.

SALM 61. *Exaudi, Deus.*

CLyw, O Dduw, fy llefain: gwrando ar fy ngweddi.

2 O eithaf y ddaear y llefaf attat, pan leſmeirio fy nghâlon: arwain fi i graig a fyddo uwch nà mi.

3 Canys buoſt yn noddfa i mi: ac yn dŵr cadarn rhag y gelyn.

4 Preſwyliaf yn dy babell byth: a'm hymddiried fydd dan orchudd dy adenydd.

5 Canys ti, Dduw, a glywaiſt fy addunedau: rhoddaiſt etifeddiaeth i'r rhai a ofnant dy Enw.

6 Ti a eſtynni oes y brenhin: ei flynyddoedd fyddant fel cenhedlaethau lawer.

7 Efe a erys byth ger bron Duw: darpar drugaredd a gwirionedd, fel y cadwont ef.

8 Felly y canmolaf dy enw yn dragywydd: fel y talwyf fy addunedau beunydd.

BOREUOL WEDDI.

SALM 62. *Nonne Deo.*

WRth Dduw yn unig y diſgwyl fy enaid: o hono ef y daw fy iachawdwriaeth.

2 Efe yn unig yw fy nghraig, a'm hiachawdwriaeth: a'm hamddiffyn; ni'm mawr yſgogir.

3 Pa hŷd y bwriedwch aflwydd yn erbyn gŵr? lleddir chwi oll: a byddwch fel magwyr ogwyddedig, neu bared ar ei ogwydd.

4 Ymgynghoraſant yn unig i'w fwrw ef i lawr o'i fawredd; hoffaſant gelŵydd: â'u geneuau y bendithiant, ond o'u mewn y melldithiant.

5 Oh fy enaid, diſgwyl wrth Dduw yn unig: canys ynddo ef y mae fy ngobaith.

6 Efe yn unig yw fy nghraig a'm hiachawdwriaeth: efe yw fy amddiffynfa, ni'm hyſgogir.

7 Yn Nuw y mae fy iachawdwriaeth a'm gogoniant: craig fy nghadernid, a'm noddfa ſydd yn Nuw.

8 Gobeithiwch ynddo ef bob amſer; O bobl, tywelltwch eich câlon ger ei fron ef: Duw, ſydd noddfa i ni.

9 Gwagedd yn ddïau yw meibion dynion, geudab yw meibion gwŷr: i'w goſod yn y clorian, yſgafnach ydynt hwy nâ gwegh.

10 Nac

10 Nac ymddiriedwch mewn trawsder, ac mewn trais na fyddwch ofer: o's cynnydda golud, na roddwch eich calon arno.

11 Unwaith y dywedodd Duw, clywais hynny ddwywaith: mai eiddo Duw yw cadernid.

12 Trugaredd hefyd sydd eiddo ti, O Arglwydd: canys ti a deli i bob dyn yn ôl ei weithred.

SALM 63. *Deus, Deus meus.*

TI, O Dduw, yw fy Nuw i, yn fore i'th geisiaf: fychedodd fy enaid am danat, hiraethodd fy nghnawd am danat, mewn tir crâs a sychedig heb ddwfr.

2 I weled dy nerth a'th ogoniant: fel y'th welais yn y cyssegr.

3 Canys gwell yw dy drugaredd di nâ'r bywyd: fy ngwefusau a'th foliannant.

4 Fel hyn y'th glodforaf yn fy mywyd: dyrchafaf fy nwylaw yn dy Enw.

5 Megis â mêr, ac â brasder y digonir sy enaid: a'm genau a'th fawl â gwefusau llafar.

6 Pan y'th gofiwyf ar fy ngwely: mysyriaf am danat yngwyliadwriaethau y nôs.

7 Canys buost gynnorthwy i mi: am hynny ynghysgod dy adenydd y gorfoleddaf.

8 Fy enaid a lŷn wrthyt: dy ddeheu-law a'm cynnal.

9 Ond y rhai a geisiant fy enaid i ddistryw: a ânt i isselderau y ddaear.

10 Syrthiant ar fin y cleddyf: rhân llwynogod fyddant.

11 Ond y Brenhin a lawenycha yn Nuw: gorfoledda pob un a dyngo iddo ef: eithr ceuir genau y rhai a ddywedant gelŵydd.

SALM 64. *Exaudi, Deus.*

CLyw fy llêf, O Dduw, yn fy ngweddi: cadw fy einioes rhag ofn y gelyn.

2 Cudd fi rhag cyfrinach y rhai drygionus: rhag terfysg gweithredwŷr anwiredd.

3 Y rhai a hogant eu tafod fel cleddyf: ac a ergydiant eu saethau, sef geiriau chwerwon.

4 I saethu 'r perffaith yn ddirgel: yn ddisymmwth y saethant ef, ac nid ofnant.

5 Ymwrolant mewn peth drygionus, ymchwedleuant am osod maglau yn ddirgel: dywedant, Pwy a'u gwêl hwynt?

6 Chwiliant allan anwireddau, gorphennant ddysal chwilio: ceudod a chalon pob un o honynt sydd ddofn.

7 Eithr Duw a'u saetha hwynt: â saeth ddisymmwth yr archollir hwynt.

8 Felly hwy a wnânt i'w tafodau eu hun syrthio arnynt: pob un a'u gwelo a gilia.

9 A phob dyn a ofna, ac a fynega waith Duw: canys doeth-ystyriant ei waith ef.

10 Y cyfiawn a lawenycha yn yr Arglwydd, ac a obeithia ynddo: a'r rhai uniawn o galon oll a orfoleddant.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 65. *Te decet hymnus, Deus,*

MAwl a'th erys di yn Seion, O Dduw: ac i ti y telir yr adduned.

2 Ti yr hwn a wrandewi weddi: attat ti y daw pob cnawd.

3 Pethau anwir a'm gorchfygasant: ein camweddau ni, ti a'u glanhei.

4 Gwyn ei fŷd yr hwn a ddewisech, ac a nesäech attat fel y trigo yn dy gynteddoedd: ni a ddigonir â daioni dy dŷ; sef dy Deml sanctaidd.

5 Atteb i ni trwy bethau ofnadwy, yn dy gyfiawnder, O Dduw ein iachawdwriaeth: gobaith holl gyrrau y ddaear, a'r rhai sydd bell ar y môr.

6 Yr hwn a sicrhâ y mynyddoedd drwy ei nerth: ac a wregysir â chadernid.

7 Yr hwn a ostega dwrf y moroedd: twrf eu tonnau, a therfysg y bobloedd.

8 A phreswylwyr eithafoedd y bŷd a ofnant dy arŵyddion: gwnei i derfyn bore a hwyr lawenychu.

9 Yr ŵyt yn ymweled â'r ddaear, ac yn ei dwfrhâu hi: yr ydwyt yn ei chyfoethogi hi yn ddirfawr, ag afon Duw, yr hon sydd yn llawn dwfr; yr ŵyt yn parottôi ŷd iddynt, pan ddarperaist felly iddi.

10 Gan ddyfrhâu ei chefnau, a gostwng ei rhychau: yr ydwyt yn ei mwydo hi â chawodau, ac yn bendithio ei chnŵd hi.

11 Coroni yr ydwyt y flwyddyn â'th ddaioni: a'th lwybrau a ddiferant fraster.

12 Diferant ar borfeydd yr anialwch: a'r bryniau a ymwregysant â hyfrydwch.

13 Y dolydd a wisgir â defaid: a'r dyffrynnoedd a orchuddir ag ŷd, am hynny y bloeddiant, ac y canant.

SALM 66. *Jubilate Deo.*

LLawen floeddiwch i Dduw: yr holl ddaear.

2 Dadgenwch ogoniant ei Enw: gwnêwch ei foliant yn ogoneddus.

3 Dywedwch wrth Dduw, Mòr ofnadwy ŵyt yn dy weithredoedd! o herwŷdd maint dy nerth, y cymmer dy elynion arnynt fod yn ddarostyngedig i ti.

4 Yr holl ddaear a'th addolant di: ac a ganant i ti, ïe canant i'th Enw.

5 Deuwch, a gwelwch weithredoedd Duw: ofnadwy yw yn ei weithred tu ac at feibion dynion.

6 Trôdd efe y môr yn sychdir: aethant drwy 'r afon ar draed; yna y llawenychasom ynddo.

7 Efe a lywodraetha drwy ei gadernid byth, ei lygaid a edrychant ar y cenhedloedd: nac ymddyrchafed y rhai anufudd.

8 O bobloedd, bendithiwch ein Duw: a pherwch glywed llais ei fawl ef.

9 Yr hwn sydd yn gosod ein henaid mewn bywyd: ac ni âd i'n troed lithro.

10 Canys profaist ni, O Dduw: coethaist ni fel coethi arian,

11 Dygaist ni i'r rhwyd: gosodaist wasgfa ar ein llwynau.

12 Peraist i ddynion farchogaeth ar ein pennau: aethom drwy 'r tân, a'r dwfr, a thi a'n dygaist allan i le diwall.

13 Deuaf i'th dŷ ag offrymmau poeth: talaf it' fy addunedau.

14 Y rhai a adroddodd fy ngwefusau: ac a ddywedodd fy ngenau yn fy nghyfyngder.

15 Offrymmaf it' boeth-offrymmau breision, ynghŷd ag arogl darth hyrddod: aberthaf ychen, a bychod.

16 Deuwch, gwrandêwch, y rhai oll a ofnwch Dduw; a mynegaf yr hyn a wnaeth efe i'm henaid.

17 Llefais arno â'm genau: ac efe a ddyrchafwyd â'm tafod.

18 Pe edrychaswn ar anwiredd yn fy nghalon: ni wrandawsai 'r Arglwydd.

19 Duw yn ddïau a glybu: ac a wrandawòdd ar lais fy ngweddi.

20 Bendigedig fyddo Duw, yr hwn ni thrôdd fy ngweddi oddi wrtho; na'i drugaredd ef oddi wrthyf innau.

SALM 67. *Deus misereatur.*

DUW a drugarhao wrthym, ac a'n bendithio: a thywynned ei ŵyneb arnom.

2 Fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaear: a'th iachawdwriaeth ym mhlith yr holl genhedloedd.

3 Molianned y bobl di, O Dduw: molianned yr holl bobl dydi.

4 Llawenhâed y cenhedloedd a byddant hyfryd: canys ti a ferni 'r bobl yn uniawn, ac a lywodraethi 'r cenhedloedd ar y ddaear.

5 Molianned y bobl di, O Dduw: molianned yr holl bobl dydi.

6 Yna 'r ddaear a rŷdd ei ffrwyth: a Duw, ſef ein Duw ni, a'n bendithia.

7 Duw a'n bendithia: a holl derfynau 'r ddaear a'i hofnant ef.

BOREUOL WEDDI.

SALM 68. *Exurgat Deus.*

CYfoded Duw; gwaſgarer ei elynion: a ffoed ei gaſeion o'i flaen ef.

2 Chwêli hwynt ſel chwalu mŵg: ſel y tawdd cŵyr wrth y tân, diſether y rhai annuwiol o flaen Duw.

3 Ond llawenycher y rhai cyfiawn, a gorfoleddant ger bron Duw: a byddant hyfryd o lawenydd.

4 Cenwch i Dduw, canmolwch ei enw, dyrchefwch yr hwn ſydd yn marchogaeth ar y nefoedd, a'i enw yn IAH; a gorfoleddwch ger ei fron ef.

5 Tâd yr ymddifaid, a barnwr y gweddwon yw Duw: yn ei breſwylfa ſanctaidd.

6 Duw ſydd yn goſod yr unig mewn teulu: yn dwyn allan y rhai a rwymwyd mewn gefynnau: ond y rhai cyndyn a breſwyliant grâſ-dir.

7 Pan aethoſt, O Dduw, o flaen dy bobl: pan gerddaiſt trwy yr anialwch;

8 Y ddaear a grynodd, a'r nefoedd a ddiferaſant o flaen Duw: Sinai yntau a grynodd o flaen Duw, ſef Duw Iſrael.

9 Dihidlaiſt wlâw graſlawn, O Dduw, ar dy etifeddiaeth: ti a'i gwrteithiaiſt wedi ei blino.

10 Dy gynnulleidfa di ſydd yn trigo ynddi: yn dy ddaioni, O Dduw, yr ŵyt yn darparu i'r tlawd.

11 Yr Arglwydd a roddes y gair: mawr oedd mintai y rhai a'i pregethent.

12 Brenhinoedd byddinog a ffoiſant ar ffrŵſt: a'r hon a drigodd yn tŷ a rannodd yr yſpail.

13 Er gorwedd o honoch ym mŷſg y crochanau: byddwch ſel eſgyll colommen wedi eu gwiſgo ag arian, a'i hadenydd ag aur melyn.

14 Pan waſgarodd yr Holl-alluog frenhinoedd ynddi: yr oedd hi yn wèn fel eira yn Salmon.

15 Mynydd Duw ſydd ſel mynydd Baſan: yn fynydd cribog ſel mynydd Baſan.

16 Pa ham y llemmwch, chwi fynyddoedd cribog? dyma 'r mynydd a chwennychodd Duw ei breſwylio: ïe preſwylia 'r Arglwydd ynddo byth.

17 Cerbydau Duw ydynt ugain mil, ſef miloedd o Angylion: yr Arglwydd Dduw ſydd yn eu plith; megis yn Sinai yn y cyſſegr.

18 Dyrchefaiſt i'r uchelder, caeth-gludaiſt gaethiwed, derbyniaiſt roddion i ddynion: ïe i'r rhai cyndyn hefyd, ſel y preſwyliai 'r Arglwydd Dduw yn eu plith.

19 Bendigedig fyddo 'r Arglwydd, yr hwn a'n llwytha beunydd â daioni: ſef Duw ein iachawdwriaeth.

20 Ein Duw ni ſydd Dduw iachawdwriaeth: ac i'r Arglwydd Dduw y perthyna dïangfâu rhag marwolaeth.

21 Duw yn ddïau a archoll ben ei elynion: a chopa walltog yr hwn a rodio rhagddo yn ei gamweddau.

22 Dywedodd yr arglwydd, Dygaf ſy mhobl dracheſn o Baſan: dygaf hwynt dracheſn o ddyfnder y môr.

23 Fel y trocher dy droed yngwâed dy elynion: a thafod dy gŵn yn yr unrhyw.

24 Gwelſant dy ſynediad, O Dduw: mynediad ſy Nuw, ſy Mrenhin, yn y cyſſegr.

25 Y cantorion a aethant o'r blaen, a'r cerddorion ar ôl: yn eu mŷſg yr oedd y llangceſau yn canu tympanau.

26 Bendithiwch Dduw yn y cynnulleidfaoedd: ſef yr Arglwydd, y rhai ydych o ffynnon Iſrael.

27 Yno y mae Benjamin ſychan â'u llywydd, tywyſogion Juda a'u cynnulleidfa: tywyſogion Zabulon, a thywyſogion Nephtali.

28 Dŷ Dduw a orchymynodd dy nerth: cadarnhâ, O Dduw, yr hyn a wnaethoſt ynom ni.

29 Brenhinoedd a ddygant i ti anrheg: er mwyn dy Deml yn Jeruſalem.

30 Cerydda dyrfa y gwayw-ffyn, cynnulleidfa y gwrdd-deirw, gyd â lloi y bobl, ſel y delont yn oſtyngedig â darnau arian: gwaſgar y bobl ſy dda ganddynt ryfel,

31 Pendefigion a ddeuant o'r Aipht: Ethiopia a eſtyn ei dwylaw 'n bryſur at Dduw.

32 Teyrnaſoedd y ddaear, cenwch i Dduw: canmolwch yr Arglwydd.

33 Yr hwn a ſerchyg ar nêf y nefoedd, y rhai oedd eriôed; wele efe yn anfon ei lêf, a honno yn llef nerthol.

34 Rhoddwch i Dduw gadernid: ei oruchelder ſydd ar Iſrael, a'i nerth yn yr ŵybrennau.

35 Ofnadwy ŵyt, O Dduw, o'th gyſſegr: Duw Iſrael yw efe, ſydd yn rhoddi nerth, a chadernid i'r bobl; Bendigedig fyddo Duw.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 69. *Salvum me fac.*

ACHub fi, O Dduw: canys y dyfroedd a ddaethant i mewn, hŷd at fy enaid.

2 Soddais mewn tòm dwfn, lle nid oes ſefyllfa: daethum i ddyfnder dyfroedd, a'r ffrŵd a lifodd troſof.

3 Blinais yn llefain, ſychodd fy nghêg; pallodd fy llygaid: tra 'r ydwyf yn diſgwyl wrth fy Nuw.

4 Amlach nâ gwâllt fy mhen yw y rhai a'm caſânt heb achos: cedyrn yw fy ngelynion dïachos y rhai a'm diſethent; yna telais yr hyn ni chymmerais.

5 O Dduw, ti a adwaenoſt fy ynfydrwydd: ac nid yw fy nghamweddau guddiedig rhagot.

6 Na chywilyddir o'm plegid i, y rhai a obeithiant ynot ti, Arglwydd Dduw y lluoedd: na waradwydder o'm plegid i, y rhai a'th geiſiant ti, O Dduw Iſrael.

7 Canys er dy fwyn di y dygais warthrudd: ac y tôdd cywilydd fy ŵyneb.

8 Aethum yn ddïeithr i'm brodyr: ac ſel eſtron gan blant fy mam.

9 Canys zêl dy dŷ a'm hyſodd: a gwaradwyddiad y rhai a'th waradwyddent di, a ſyrthiodd arnaf fi.

10 Pan ŵylais gan gyſtuddio fy enaid ag ympryd: bu hynny yn waradwydd i mi.

11 Gwiſgais hefyd ſachlïain: ac aethum yn ddihareb iddynt.

12 Yn fy erbyn y chwedleuai y rhai a eiſteddent yn y porth: ac i'r meddwon yr oeddwn yn wawd.

13 Ond myfi, fy ngweddi ſydd attat ti, O Arglwydd, mewn amſer cymmeradwy: O Dduw, yn llioſowgrwydd dy drugaredd gwrando fi, yngwirionedd dy iachawdwriaeth.

14 Gwared fi o'r dòm, ac na ſoddwyf: gwareder fi oddïwrth fy nghaſeion, ac o'r dyfroedd dyfnion.

15 Na lifed y ffrŵd ddwfr troſof, ac na lyngced y dyfnder fi: na chaued y pydew chwaith ei ſafn arnaf.

16 Clyw fi, Arglwydd; canys da yw dy drugaredd: yn ôl lliaws dy doſturiaethau edrych arnaf.

17 Ac

17 Ac na chuddia dy ŵyneb oddiwrth dy wâs, canys y mae cyfyngder arnaf: bryſia, gwrando fi.
18 Neſâ at fy enaid, a gwared ef: achub fi, o herwŷdd fy ngelynion.
19 Ti a adwaenoſt fy ngwarthrudd, a'm cywilydd, a'm gwaradwydd: fy holl elynion ydynt ger dy fron di.
20 Gwarthrudd a dorrodd fy nghàlon, yr ydwyf mewn gofid: a diſgwyliais am rai i doſturio wrthyf, ac nid oedd neb; ac am gyſſurwŷr, ac ni chefais neb.
21 Rhoddaſant hefyd fuſtl yn fy mwyd: ac a'm diodaſant yn fy ſyched â finegr.
22 Bydded eu bwrdd yn fagl ger eu bron: a'u llwyddiant yn dramgwydd.
23 Tywyller eu llygaid fel na welont: a gwnâ i'w llwynau grynu bob amſer.
24 Tywallt dy ddig arnynt; a chyrhaedded llidiowgrwydd dy ddigofaint hwynt.
25 Bydded eu preſwylfod yn anghyfannedd: ac na fydded a drigo yn eu pebyll.
26 Canys erlidiaſant yr hwn a darawſit ti: ac am ofid y rhai a archollaiſt ti, y chwedleuant.
27 Dôd ti anwiredd at eu hanwiredd hwynt: ac na ddelont i'th gyfiawnder di.
28 Dileer hwynt o lyfr y rhai byw: ac na 'ſgrifenner hwynt gyd â'r rhai cyfiawn.
29 Minnau, truan a gofidus ydwyf: dy iachawdwriaeth di, O Dduw, a'm dyrchafo.
30 Moliannaf enw Duw ar gân: a mawrygaf ef mewn mawl.
31 A hyn fydd gwell gan yr Arglwydd: nag ŷch neu fuſtach corniog, carnol.
32 Y trueiniaid a lawenychant pan welant hyn: eich càlon chwithau, y rhai a geiſiwch Dduw, a fydd byw.
33 Canys gwrendy 'r Arglwydd ar dlodion: ac ni ddiyſtyra eſe ei garcharorion.
34 Neſoedd, a daear, y môr a'r hyn oll a ymluſgo ynddo: molant ef.
35 Canys Duw a achub Seion; ac a adeilada ddinaſoedd Juda: fel y trigont yno, ac y meddiannont hi.
36 A hiliogaeth ei weiſion a'i meddiannant hi: a'r rhai a hoffant ei enw ef a breſwyliant ynddi.

SALM 70. *Deus in adjutorium.*

O Dduw, pryſura, i'm gwaredu: bryſia, Arglwydd, i'm cymmorth.
2 Cywilyddier a gwarthrudder y rhai a geiſiant fy enaid: tröer yn eu hôl, a gwaradwydder y rhai a ewyllyſiant ddrwg i mi.
3 Dattröer yn lle gwobr am eu cywilydd: y rhai a ddywedant, Ha, ha.
4 Llawenyched, a gorfoledded ynot ti y rhai oll a'th geiſiant: a dyweded y rhai a garant dy iachawdwriaeth yn waſtad, Mawryger Duw.
5 Minnau ydwyf dlawd ac anghenus, O Dduw, bryſia attaf: fy nghymmorth a'm gwaredydd ydwyt ti, O Arglwydd; na hîr drig.

BOREUOL WEDDI.

SALM 71. *In te, Domine, ſperavi.*

YNot ti, O Arglwydd, y gobeithiais: na'm cywilyddier byth.
2 Achub fi, a gwared fi yn dy gyfiawnder: goſtwng dy glûſt attaf, ac achub fi.
3 Bydd i mi yn drigfa gadarn, i ddyfod iddi bob amſer: gorchymynaiſt fy achub, canys ti yw fy nghraig, a'm hamddiffynfa.
4 Gwared fi, O fy Nuw, o lâw 'r annuwiol: o lâw 'r anghyfion, a'r traws.
5 Canys ti yw fy ngobaith, O Arglwydd Dduw: fy ymddiried o'm hieuengctid.
6 Wrthyt ti y'm cynhaliwyd o'r bru, ti a'm tynnaiſt o gròth fy mam: fy mawl fydd yn waſtad am danat ti.
7 Oeddwn i lawer megis yn rhyfeddod: eithr tydi yw fy nghadarn noddfa.
8 Llanwer fy ngenau â'th foliant: ac â'th ogoniant beunydd.
9 Na fwrw fi ymaith yn amſer henaint: na wrthod fi pan ballo fy nerth.
10 Canys fy ngelynion ſydd yn dywedyd i'm herbyn: a'r rhai a ddiſgwyliant am fy enaid, a gŷdymgynghorant,
11 Gan ddywedyd, Duw a'i gwrthododd ef, erlidiwch, a dèliwch ef: canys nid oes gwaredydd.
12 O Dduw, na fydd bell oddiwrthyf: fy Nuw, bryſia i'm cymmorth.
13 Cywilyddier a difether y rhai a wrthwynebant fy enaid: â gwarth ac â gwaradwydd y gorchuddier y rhai a geiſiant ddrwg i mi.
14 Minnau a obeithiaf yn waſtad: ac a'th foliannaf di fwyfwy.
15 Fy ngenau a fynega dy gyfiawnder, a'th iachawdwriaeth beunydd: canys ni wn rifedi arnynt.
16 Ynghadernid yr Arglwydd Dduw y cerddaf: dy gyfiawnder di yn unig a gofiaf fi.
17 O'm hieuengctid y'm dyſgaiſt, O Dduw: hŷd yn hyn y mynegais dy ryfeddodau.
18 Na wrthod fi chwaith, O Dduw, mewn henaint, a phen-llwydni: hŷd oni fynegwyf dy nerth i'r genhedlaeth hon, a'th gadernid i bob un a ddelo.
19 Dy gyfiawnder hefyd, O Dduw, ſydd uchel, yr hwn a wnaethoſt bethau mawrion: pwy, O Dduw, ſydd debyg i ti?
20 Ti yr hwn a wnaethoſt i mi weled aml a blin gyſtuddiau: a'm bywhêi dracheſn, ac a'm cyfodi dracheſn, o orddyſnder y ddaear.
21 Amlhêi fy mawredd: ac a'm cyſſuri oddi amgylch.
22 Minnau a'th foliannaf ar offeryn nabl, ſef dy wirionedd, O fy Nuw: canaf it' â'r delyn, O Sanct Iſrael.
23 Fy ngweſuſau a fyddant hyfryd pan ganwyf i ti: a'm henaid yr hwn a waredaiſt.
24 Fy nhafod hefyd a draetha dy gyfiawnder beunydd: o herwŷdd cywilyddiwyd, a gwaradwyddwyd y rhai a geiſiant niweid i mi.

SALM 72. *Deus, judicium.*

O Dduw, dôd i'r brenhin dy farnedigaethau: ac i fâb y brenhin dy gyfiawnder.
2 Efe a farn dy bobl mewn cyfiawnder: a'th drueiniaid â barn.
3 Y mynyddoedd a ddygant heddwch i'r bobl: a'r brynniau, trwy gyfiawnder.
4 Efe a farn drueiniaid y bobl, efe a achub feibion yr anghenus: ac a ddryllia y gorthrymmydd.
5 Tra fyddo haul a lleuad y'th ofnant: yn oes oeſoedd.
6 Efe a ddiſgyn fel gwlâw ar gnu gwlân: fel cawodydd yn dyfrhâu y ddaear:
7 Yn ei ddyddiau ef y blodeua y cyfiawn: amlder o heddwch fydd, tra fyddo lleuad.
8 Ac ef a lywodraetha o fôr hŷd fôr: ac o'r afon hŷd derfynau y ddaear.
9 O'i flaen ef yr ymgrymma trigolion yr anialwch: a'i elynion a lyfant y llwch.
10 Brenhinoedd Tarſis, a'r ynyſoedd, a dalant anrheg: Brenhinoedd Sheba a Seba a ddygant rôdd.
11 Ie yr holl frenhinoedd a ymgrymmant iddo: yr holl genhedloedd a'i gwaſanaethant ef.
12 Canys efe a wared yr anghenog pan waeddo: y truan hefyd, a'r hwn ni byddo cynnorthwywr iddo.

13 Efe a arbed y tlawd a'r rheidus: ac a achub eneidiau y rhai anghenus.

14 Efe a wared eu henaid oddiwrth dwyll, a thrawsder: a gwerthfawr fydd eu gwaed yn ei olwg ef:

15 Byw hefyd fydd efe, a rhoddir iddo o aur Seba: gweddiant hefyd trosto ef yn wastad; beunydd y clodforir ef.

16 Bydd dyrnaid o ŷd ar y ddaear, ym mhen y mynyddoedd; ei ffrwyth a ysgwyd fel Libanus: a phobl y ddinas a flodeuant fel gwêllt y ddaear.

17 Ei enw fydd yn dragywydd, ei enw a bery tra fyddo haul, ac ymfendithiant ynddo: yr holl genhedloedd a'i galwant yn wynfydedig.

18 Bendigedig fyddo 'r Arglwydd Dduw, Duw Israel: yr hwn yn unig sydd yn gwneuthur rhyfeddoddau.

19 Bendigedig hefyd fyddo ei enw gogoneddus ef yn dragywydd: a'r holl ddaear a lanwer â'i ogoniant. Amen, ac Amen.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 73. *Quam bonus Israel!*

YN ddiau da yw Duw i Israel: sef i'r rhai glân o galon.

2 Minnau, braidd na lithrodd fy nhraed: prin na thripiodd fy ngherddediad.

3 Canys cynfigennais wrth y rhai ynfyd: pan welais lwyddiant y rhai annuwiol.

4 Canys nid oes rhwymau yn eu marwolaeth: a'u cryfder sydd heinif.

5 Nid ydynt mewn blinder fel dynion eraill: ac ni ddialeddir arnynt hwy gyd â dynion eraill.

6 Am hynny y cadwynodd balchder hwynt; ac y gwisg trawsder am danynt fel dilledyn.

7 Eu llygaid a saif allan gan frasder: aethant tros feddwl calon o gyfoeth.

8 Y maent wedi llygru, yn chwedleua yn ddrygionus am drawsder: yn dywedyd yn uchel.

9 Gosodasant eu genau yn erbyn y nefoedd: a'u tafod a gerdd trwy 'r ddaear.

10 Am hynny y dychwel ei bobl ef yma: ac y gwesgir iddynt ddwfr phiol lawn.

11 Dywedant hefyd, Pa fôdd y gŵyr Duw: a oes gŵybodaeth gan y Goruchaf?

12 Wele, dyma y rhai annuwiol, a'r rhai sydd lwyddiannus yn y bŷd: ac a amlhasant olud.

13 Diau mai yn ofer y glanheais fy nghalon: ac y golchais fy nwylaw mewn diniweidrwydd.

14 Canys ar hŷd y dydd y'm maeddwyd: fy ngherydd a ddeuai bob bore.

15 O's dywedwn, Mynegaf fel hyn: wele, â chenhedlaeth dy blant di y gwnâwn gam.

16 Pan amcenais ŵybod hyn: blin oedd hynny yn fy ngolwg i.

17 Hyd onid aethum i gyssegr Duw: yna y deallais eu diwedd hwynt.

18 Diau osod, o honot hwynt mewn llithrigfa: a chwympo o honot hwynt i ddinystr.

19 Mor ddisymmwth yr aethant yn anghyfannedd: pallasant, a darfuant, gan ofn!

20 Fel breuddwyd wrth ddihuno un: felly, O Arglwydd, pan ddeffröech y dirmygi eu gwedd hwynt.

21 Fel hyn y gofidiodd fy ngalon: ac y'm pigwyd yn fy arennau.

22 Mor ynfyd oeddwn, ac heb ŵybod: anifail oeddwn o'th flaen di.

23 Etto yr ydwyf yn wastad gyd â thi: ymaflaist yn fy llâw ddehau.

24 A'th gyngor y'm harweini: ac wedi hynny y'm cymmeri i ogoniant.

25 Pwy fydd gennyf fi yn y nefoedd ond tydi: ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyd â thydi.

26 Pallodd fy nghnawd a'm calon: ond nerth fy nghalon a'm rhan, yw Duw yn dragywydd.

27 Canys wele, difethir y rhai a bellhânt oddi wrthyt: torraist ymaith bob un a butteinio oddi wrthyt.

28 Minnau, nesâu at Dduw sydd dda i mi: yn yr Arglwydd Dduw y gosodais fy ngobaith, i draethu dy holl weithredoedd.

SALM 74. *Ut quid, Deus?*

PA ham, Dduw, y'n bwriaist heibio yn dragywydd: ac y myga dy ddigofaint yn erbyn defaid dy borfa?

2 Cofia dy gynnulleidfa, yr hon a brynaist gynt, a llwyth dy etifeddiaeth yr hon a waredaist: mynydd Seion hwn, y preswyli ynddo.

3 Dyrcha dy draed at anrhaith dragywyddol: sef at yr holl ddrwg a wnaeth y gelyn yn y cyssegr.

4 Dy elynion a ruasant ynghanol dy gynnulleidfaoedd: gosodasant eu hanerau yn arwyddion.

5 Hynod oedd gŵr: fel y codasai fwyill mewn dyrys-goed.

6 Ond yn awr y maent yn dryllio ei cherfiadau ar unwaith: â bwyill ac â morthwylion.

7 Bwriasant dy gyssegroedd yn tân: hŷd lawr yr halogasant breswylfa dy Enw.

8 Dywedasant yn eu calonnau, Cŷd-anrheithiwyd hwynt: llosgasant holl synagogau Duw yn y tir.

9 Ni welwn ein harwyddion, nid oes brophwyd mwy: nid oes gennym a ŵyr pa hŷd.

10 Pa hŷd, Dduw, y gwarthrudda 'r gwrthwynebwr: a gabla 'r gelyn dy Enw yn dragywydd?

11 Pa ham y tynni yn ei hôl dy lâw, sef dy ddeheu-law: tynn hi allan o ganol dy synwes.

12 Canys Duw yw fy Mrenhin o'r dechreuad: gwneuthurwr iachawdwriaeth o fewn y tir.

13 Ti yn dy nerth a berthaist y môr: drylliaist bennau dreigiau yn y dyfroedd.

14 Ti a ddrylliaist ben Leviathan: rhoddaist ef yn fwyd i'r bobl yn yr anialwch.

15 Ti a holltaist y ffynnon a'r afon: ti a ddyhysbyddaist afonydd cryfion.

16 Y dŷdd sydd eiddo ti, y nôs hefyd sydd eiddo ti: ti a barottoaist oleuni, a haul.

17 Ti a osodaist holl derfynau 'r ddaear: ti a luniaist hâf a gauaf.

18 Cofia hyn, i'r gelyn gablu, O Arglwydd: ac i'r bobl ynfyd ddifenwi dy Enw.

19 Na ddyro enaid dy durtur i gynnulleidfa y gelynion: nac anghofia gynnulleidfa dy dreiniaid byth.

20 Edrych ar y cyfammod: canys llawn yw tywyll leoedd y ddaear o drigfannau trawster.

21 Na ddychweled y tlawd yn waradwyddus: molianned y truan, a'r anghenus dy Enw.

22 Cyfod, O Dduw, dadleu dy ddadl, cofia dy waradwydd gan yr ynfyd beunydd.

23 Nac anghofia lais dy elynion: dadwrdd y rhai a godant i'th erbyn sydd yn dringo yn wastadol.

BOREUOL WEDDI.

SALM 75. *Confitebimur tibi.*

CLodforwn dydi, O Dduw, clodforwn: canys agos yw dy Enw, dy ryfeddodau a fynegant hynny.

2 Pan dderbyniwyf y gynnulleidfa: mi a farnaf yn uniawn.

3 Ymddattododd y ddaear, a'i holl drigolion: myfi sydd yn cynnal ei cholofnau.

4 Dywedais wrth y rhai ynfyd, nac ynfydwch: ac wrth y rhai annuwiol, na ddyrchefwch eich corn.

5 Na ddyrchefwch eich corn yn uchel: na ddywedwch yn warsyth.

6 Canys

6 Canys nid o'r dwyrain, nac o'r gorllewin: nac o'r dehau, y daw goruchafiaeth.
7 Ond Duw ſydd yn barnu: eſe a oſtwng y naill, ac a gyfyd y llall.
8 O blegid, y mae phiol yn llâw 'r Arglwydd, a'r gwîn ſydd gôch; yn llawn cymmyſg, ac eſe a dywalltodd o hwnnw: etto holl annuwiolion y tîr a waſgant, ac a yſant ei waelodion.
9 Minnau a ſynegaf yn dragywydd: ac a ganaf i Dduw Jacob.
10 Torraf hefyd holl gyrn y rhai annuwiol: a chyrn y rhai cyfiawn a ddyrchefir.

SALM 76. *Notus in Judæâ.*

HYnod yw Duw yn Juda; mawr yw ei Enw ef yn Iſrael.
2 Ei babell hefyd ſydd yn Salem: a'i drigfa yn Seion.
3 Yna y torrodd eſe ſaethau y bŵa: y tarian, y cleddyf hefyd a'r frwydr.
4 Gogonedduſach wyt, a chadarnach: nâ mynyddoedd yr yſpail.
5 Yſpeiliwyd y cedyrn gâlon, hunaſant eu hûn: a'r holl wŷr o nerth ni chawſant eu dwylaw.
6 Gan dy gerydd di, O Dduw Jacob: y rhoed y cerbyd a'r march i gyſgu.
7 Tydi, tydi wyt ofnadwy; a phwy a ſaif o'th flaen, pan enynno dy ddigter?
8 O'r nefoedd y peraiſt glywed barn; ofnodd, a goſtegodd y ddaear.
9 Pan gyfododd Duw i farn; i achub holl rai llednais y tir.
10 Diau cynddaredd dŷn a'th folianna di: gweddill cynddaredd a waherddi.
11 Addunedwch, a thelwch i'r Arglwydd eich Duw: y rhai oll ydynt o'i amgylch ef, dygant anrheg i'r ofnadwy.
12 Eſe a dyrr ymaith yſpryd tywyſogion: y mae yn ofnadwy i frenhinoedd y ddaear.

SALM 77. *Voce mea ad Dominum.*

A'M llêf y gwaeddais ar Dduw: â'm llêf ar Dduw, ac eſe a'm gwrandawödd.
2 Yn nŷdd fy nhrallod y ceiſiais yr Arglwydd: fy archoll a redodd liw nôs, ac ni pheidiodd: fy enaid a wrthododdei ddiddanu.
3 Cofiais Dduw, ac a'm cythryblwyd: cŵynais a therfyſgwyd fy yſpryd.
4 Deliaiſt fy llygaid yn neffro: ſynnodd arnaf, ſel na allaf leſaru.
5 Yſtyriais y dyddiau gynt: blynyddoedd yr hên oeſoedd.
6 Cofio yr ydwyf fy nghân y nôs, yr ydwyf yn ymddiddan â'm calon: fy yſpryd ſydd yn chwilio yn ddyfal.
7 Ai yn dragywydd y bwrw 'r Arglwydd heibio: ac oni bydd eſe boddlon mwy?
8 A ddarfu ei drugaredd ef dros byth: a balla ei addewid ef yn oes oeſoedd?
9 A anghofiodd Duw drugarhâu: a gauodd eſe ei drugareddau mewn ſorriant?
10 A dywedais, Dyma fy ngwendid: etto cofiaf flynyddoedd deheu-law y Goruchaf.
11 Cofiaf weithredoedd yr Arglwydd: ïe cofiaf dy wŷrthiau gynt.
12 Myfyriaf hefyd ar dy holl waith: ac am dy weithredoedd y chwedleuaf.
13 Dy ffordd, O Dduw, ſydd yn y cyſſegr: pa Dduw mòr fawr a'n Duw ni?
14 Ti yw y Duw ſydd yn gwneuthur rhyfeddodau: dangoſaiſt dy nerth ym mŷſg y bobloedd.
15 Gwaredaiſt â'th fraich dy bobl: meibion Jacob, a Joſeph.
16 Y dyfroedd a'th welſant, O Dduw, y dyfroedd a'th welſant, hwy a ofnaſant: y dyfnderau hefyd a gynhyrfwyd.
17 Y cymmylau a dywalltaſant ddwfr, yr ŵybrennau a roddaſant dwrf: dy ſaethau hefyd a gerdd ſant.
18 Twrf dy daran a glywyd o amgylch: mêllt a oleuaſant y bŷd; cyffrôdd, a chrynodd y ddaear.
19 Dy ffordd ſydd yn y môr, a'th lwybrau yn y dyfroedd mawrion: ac nid adwaenir dy ôl.
20 Tywyſaiſt dy bobl, ſel defaid: drwy lâw Moſes, ac Aaron.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 78. *Attendite, popule.*

GWrando fy nghyfraith, fy mhobl: goſtyngwch eich clûſt at eiriau fy ngenau,
2 Agoraf fy ngenau mewn dihareb: traethaf ddammegion o'r cynfyd;
3 Y rhai a glywſom ac a ŵybuom: ac a fynegodd ein tadau i ni.
4 Ni chêlwn rhag eu meibion, gan fynegu i'r oes a ddêl, foliant yr Arglwydd a'i nerth: a'i ryfeddodau, y rhai a wnaeth eſe.
5 Canys eſe a ſicrhaodd dyſtiolaeth yn Jacob, ac a oſododd gyfraith yn Iſrael: y rhai a orchymynodd eſe i'n tadau eu dyſgu i'w plant.
6 Fel y gŵybyddai 'r oes a ddêl, ſef y plant a enid: a phan gyfodent, y mynegent hwy i'w plant hwythau.
7 Fel y goſodent eu gobaith ar Dduw: heb anghofio gweithredoedd Duw eithr cadw ei orchymynion ef;
8 Ac na byddent fel eu tadau, yn genhedlaeth gyndyn, a gwrthryfelgar: yn genhedlaeth ni oſododd ei chàlon yn uniawn, ac nid yw ei hyſpryd ffyddlon gyd â Duw.
9 Meibion Ephraim yn arfog, ac yn ſaethu â bŵa: a droiſant eu cefnau yn nydd y frwydr.
10 Ni chadwaſant gyfammod Duw: eithr gwrthodaſant rodio yn ei gyfraith ef.
11 Ac anghofiaſant ei weithredocdd: a'i ryfeddodau, y rhai a ddangoſaſai eſe iddynt.
12 Eſe a wnaethai wŷrthiau o flaen eu tadau hwynt: yn nhîr yr Aipht, ym maes Zoan.
13 Eſe a barthodd y môr, ac a aeth â hwynt drwödd: gwnaeth hefyd i'r dwfr ſefyll fel pentwr.
14 Y dydd hefyd y tywyſodd eſe hwynt â chwmmwl: ac ar hŷd y nôs â goleuni tân.
15 Eſe a holltodd y creigiau yn yr anialwch; a rhoddes ddiod oddi yno, megis o ddyfnderau dirfawr.
16 Canys eſe a ddûg ffrydiau allan o'r graig; aç a dynnodd i lawr megis afonydd o ddyfroedd.
17 Er hynny ychwanegaſant etto bechu yn ei erbyn ef: gan ddigio y Goruchaf yn y diffeithwch.
18 A themtiaſant Dduw yn eu calon: gan ofyn bwyd wrth eu blŷs.
19 Llefaraſant hefyd yn erbyn Duw: dywedaſant, A ddichon Duw arlwyo bwrdd yn yr anialwch?
20 Wele, eſe a darawödd y graig, ſel y piſtyllodd dwfr, ac y lliſodd afonydd: a ddichon eſe roddi bara hefyd? a ddarpara eſe gîg i'w bobl?
21 Am hynny y clybu 'r Arglwydd, ac y digiodd: a thân a ennynnodd yn erbyn Jacob, a digofaint hefyd a gynneuodd yn erbyn Iſrael.
22 Am na chredent yn Nuw: ac na obeithient yn ei iachawdwriaeth ef.
23 Er iddo ef orchymmyn i'r ŵybrennau oddi uchod: ac agoryd dryſau y nefoedd.
24 A gwlawio Manna arnynt i'w fwytta: a rhoddi iddynt ŷd y nefoedd.
25 Dŷn a fwyttâodd fara angylion: anfonodd iddynt fwyd yn ddigonol.
26 Gyrrodd y dwyrein-wynt yn y nefoedd: ac yn ei nerth y dûg eſe ddeheu-wynt.
27 Gwlawiodd hefyd gig arnynt fel llŵch: ac adar aſgellog fel tywod y môr.
28 Ac a wnaeth iddynt gŵympo o fewn eu gwerſyll: o amgylch eu preſwylfeydd.
29 Felly y bwyttaſant, ac y llwyr ddiwallwyd hwynt: ac eſe a barodd eu dymuniad iddynt.

30 Ni ommeddwyd hwynt o'r hyn a flyfiaſant: er hynny tra yr ydoedd eu bwyd yn eu ſafnau.

31 Digllonedd Duw a gynneuodd yn eu herbyn hwynt: ac a laddodd y rhai braſaf o honynt, ac a gŵympodd etholedigion Iſrael.

32 Er hyn oll pechaſant etto: ac ni ehredaſant i'w ryfeddodau ef.

33 Am hynny y treuliodd efe eu dyddiau hwynt mewn oferedd: a'u blynyddoedd mewn dychryn.

34 Pan laddai efe hwynt, hwy a'u ceiſient ef: ac a ddychwelent, ac a geiſient Dduw yn fore.

35 Cofient hefyd mai Duw oedd eu craig: ac mai y Goruchaf Dduw oedd eu gwaredydd.

36 Er hynny, rhagrithio yr oeddynt iddo ef â'u genau: a dywedyd celŵydd wrtho â'u tafod.

37 A'u calon heb fod yn uniawn gyd ag ef: na'u bod yn ffyddlon yn ei gyfammod ef.

38 Er hynny efe yn drugarog a faddeuodd eu hanwiredd, ac ni ddifethodd hwynt: ïe trôdd ymaith ei ddigoſaint yn fynych, ac ni chyffrôdd ei holl lid.

39 Canys efe a goſtai mai cnawd oeddynt: a gwynt yn myned, ac heb ddychwelyd.

40 Pa fawl gwaith y digiaſant ef yn yr anialwch: ac y goſtiaſant ef yn y diffeithwch?

41 Ie troiſant, a phrofaſant Dduw: ac a oſodaſant derfyn i Sanct yr Iſrael.

42 Ni chofiaſant ei law ef: na'r dydd y gwaredodd efe hwynt oddiwrth y gelyn;

43 Fel y goſodaſai efe ei arwyddion yn yr Aipht: a'i ryfeddoddau ym maes Zoan:

44 Ac y troiſai eu hafonydd yn waed: a'u ffrydiau fel na allent yfed.

45 Anfonodd gymmyſg-bla yn eu plith, yr hon a'u difaodd hwynt: a llyffaint i'w difetha.

46 Ac efe a roddodd eu cnŵd hwynt i'r lindys: a'u llafur i'r locuſt.

47 Diſtrywiodd eu gwinwŷdd â chenllyſg: a'u Sycomorwŷdd â rhêw.

48 Rhoddodd hefyd eu hanifeiliaid i'r cenllyſg: a'u golud i'r mêllt.

49 Anfonodd arnynt gynddaredd ei lid, llidiowgrwydd, a digter, a chyfyngder: trwy anfon angylion drŵg;

50 Cymhwyſodd ffordd i'w ddigofaint, nid attaliodd eu henaid oddiwrth angau: ond eu bywyd a roddodd efe i'r haint.

51 Tarawödd hefyd bob cyntaf-anedig yn yr Aipht: ſef blaenion eu nerth hwynt ym mhebyll Ham.

52 Ond efe a yrrodd ei bobl ei hun fel defaid: ac a'u harweiniodd hwynt fel praidd yn yr anialwch.

53 Tywyſodd hwynt hefyd yn ddiogel, fel nad ofnaſant: a'r môr a orchuddiodd eu gelynion hwynt.

54 Hwythau a ddûg efe i oror ei ſancteiddrwydd: i'r mynydd hwn a ennillodd ei ddeheu-law ef.

55 Ac efe a yrrodd allan y cenhedloedd o'u blaen hwynt: ac a rannodd iddynt etifeddiaeth wrth linyn, ac a wnaeth i lwythau Iſrael drigo yn eu pebyll hwynt.

56 Er hynny temtiaſant a digiaſant Dduw goruchaf: ac ni chadwaſant ei dyſtiolaethau.

57 Eithr ciliaſant a buant anffyddlon fel eu tadau: troiſant fel bŵa twyllodrus.

58 Digiaſant ef hefyd â'u huchel-fannau: a gyrraſant eiddigedd arno â'u cerfiedig ddelwau.

59 Clybu Duw hyn, ac a ddigiodd: ac a ffieiddiodd Iſrael yn ddirfawr.

60 Fel y gadawödd ef dabernacl Siloh: y babell a oſodaſai efe ym mŷſg dynion.

61 Ac y rhoddodd eu nerth mewn caethiwed: a'u prydferthwch yn llâw 'r gelyn.

62 Rhoddes hefyd ei bobl i'r cleddyf: a digiodd wrth ei etifeddiaeth.

63 Tân a yſodd eu gwŷr ieuaingc: a'u morŵynion ni phriodwyd.

64 Eu hoffeiriaid a laddwyd â'r cleddyf: a'u gwragedd gweddwon nid ŵylaſant.

65 Yna y deffrôdd yr Arglwydd fel un o gyſgû: fel cadarn yn bloeddio gwedi gwîn.

66 Ac efe a darawödd ei elynion o'r tu ôl: rhoddes iddynt warth tragywyddol.

67 Gwrthododd hefyd babell Joſeph: Ac ni etholodd lwyth Ephraim;

68 Ond efe a etholodd lwyth Juda: mynydd Seion yr hwn a hoffodd.

69 Ac a adeiladodd ei gyſſegr fel llŷs uchel: fel y ddaear, yr hon a ſeiliodd efe yn dragywydd.

70 Etholodd hefyd Ddafydd ei wâs: ac a'i cymmerth o gorlannau y defaid:

71 Oddiar ôl y defaid cyfebron, y daeth ag ef: i borthi Jacob ei bobl, ac Iſrael ei etifeddiaeth:

72 Yntau a'u porthodd hwynt yn ol perffeithrwydd ei galon: ac a'u trinodd wrth gyfarwyddyd ei ddwylaw.

BOREUOL WEDDI.

SALM 79. *Deus, venerunt.*

YCenhedloedd, O Dduw, a ddaethant i'th etifeddiaeth: halogaſant dy Deml ſanctaidd, goſodaſant Jeruſalem yn garneddau.

2 Rhoddaſant gelanedd dy weiſion yn fwyd i adar y nefoedd: a chîg dy ſaint i fwyſtfilod y ddaear.

3 Tywalltaſant eu gwaed fel dwfr o amgylch Jeruſalem: ac nid oedd a'u claddai.

4 Yr ydym ni yn warthrudd i'n cymmydogion: dirmyg a gwatworgerdd i'r rhai ſydd o'n hamgylch.

5 Pa hŷd, Arglwydd, a ddigi di 'n dragywydd: a lŷſg dy eiddigedd di fel tân?

6 Tywallt dy lid ar y cenhedloedd ni'th adnabuant: ac ar y teymaſoedd ni alwaſant ar dy Enw.

7 Canys yſaſant Jacob: ac a wnaethant ei breſwylfa ef yn anghyfannedd.

8 Na chofia 'r anwireddau gynt i'n herbyn, bryſia, rhagflaened dy doſtur drugareddau ni: canys llêſg iawn y'n gwnaethpwyd.

9 Cynnorthwya ni, O Dduw ein iachawdwriaeth, er mwyn gogoniant dy Enw: gwared ni hefyd, a thrugarhâ wrth ein pechodau, er mwyn dy Enw.

10 Pa ham y dywaid y cenhedloedd, Pa le y mae eu Duw hwynt: bydded hyſpys ym mhlith y cenhedloedd yn ein golwg ni, wrth ddïal gwaed dy weiſion, yr hwn a dywalltwyd.

11 Deued uchenaid y carcharorion ger dy fron: yn ôl mawredd dy nerth, cadw blant marwolaeth.

12 A thâl i'n cymmydogion ar y ſeithfed i'w mynwes eu cabledd: drwy 'r hon y'th gablaſant di, O Arglwydd.

13 A ninnau dy bobl, a defaid dy borfa, a'th foliannwn di yn dragywydd: datganwn dy foliant o genhedlaeth i genhedlaeth.

SALM 80. *Qui regis Iſrael.*

GWrando, O fugail Iſrael, yr hwn ŵyt yn arwain Joſeph fel praidd: ymddiſgleiria yr hwn ŵyt yn eiſtedd rhwng y Cerubiaid.

2 Cyfod dy nerth o flaen Ephraim, a Benjamin a Manaſſeh: a thyred yn iachawdwriaeth i ni.

3 Dychwel ni, O Dduw, â llewyrch dy ŵyneb, ac ni a achubir.

4 O Arglwydd Dduw 'r lluoedd: pa hŷd y ſorri wrth weddi dy bobl?

5 Porthaiſt hwynt â bara dagrau: a diodaiſt hwynt â dagrau wrth feſur mawr.

6 Goſodaiſt ni yn gynnen i'n cymmydogion: a'n gelynion a'n gwatworant yn eu mŷſg eu hun.

7 O Dduw'r lluoedd, dychwel ni: a llewyrcha dy wyneb, ac ni a achubir.

8 Mudaiſt winwydden o'r Aipht: bwriaiſt y cenhedloedd allan, a phlennaiſt hi.

9 Arloeſaiſt o'i blaen, a pheraiſt i'w gwraidd wreiddio: a hi a lanwodd y tir.

10 Cuddiwyd y mynyddoedd gan ei chyſgod: a'i changhennau oedd tel cedrwydd rhagorol.

11 Hi a eſtynnodd ei changhennau hyd y môr, a'i blagur hyd yr afon.

12 Pa ham y rhwygaiſt ei chaeau: ſel y tynno pawb a elo heibio ar hyd y fforedd ei grawn hi?

13 Y baedd o'r coed a'i turia: a bwyſtfil y maes a'i pawr.

14 O Dduw'r lluoedd, dychwel attolwg: edrych o'r neſoedd, a chenfydd, ac ymwêl â'r winwydden hon.

15 A'r winllan a blannodd dy ddeheu-law, ac â'r planhigyn a gadarnheaiſt i ti dy hun.

16 Lloſgwyd hi â thân, torrwyd hi i lawr: gan gerydd dy wyneb y difethir hwynt.

17 Bydded dy law dros ŵr dy ddeheu-law: a thros fab dyn, yr hwn a gadarnheaiſt i ti dy hun.

18 Felly ni chiliwn yn ol oddi wrthyt ti: bywhâ ni, ac ni a alwn ar dy enw.

19 O Arglwydd Dduw'r lluoedd, dychwel ni: llewyrcha dy wyneb, ac ni a achubir.

SALM 81. *Exultate Deo.*

CEnwch yn llafar i Dduw ein cadernid: cenwch yn llawen i Dduw Jacob.

2 Cymerwch ſalm, a moeſwch dympan: y delyn fwyn, a'r nabl.

3 Udgenwch udgorn ar y lloer newydd: ar yr amſer nodedig, yn nydd ein uchel-wyl.

4 Canys deddf yw hyn i Iſrael: a defod i Dduw Jacob.

5 Efe a'i goſodod yn dyſtiolaeth yn Joſeph: pan aeth efe allan trwy dir yr Aipht, lle y clywais iaith ni ddeallwn.

6 Tynnais ei yſgwydd oddiwrth y baich: ei ddwylaw a ymadawſant â'r crochanau.

7 Mewn cyfyngder y gelwaiſt, ac mi a'th waredais: gwrandewais di yn nirgelwch y daran, profais di wrth ddyfroedd Meribah.

8 Clyw fy mhobl, a mi a dyſtiolaethaf i ti Iſrael: o's gwrandewi arnaf.

9 Na ſydded ynot Dduw arall: ac nac ymgryma i Dduw dieithr.

10 Myfi'r Arglwydd dy Dduw yw'r hwn a'th ddûg di allan o dir yr Aipht: lleda dy ſafn, ac mi a'i llanwaf.

11 Ond ni wrandawai fy mhobl ar fy llêf: ac Iſrael ni'm mynnai.

12 Yna y gollyngais hwynt ynghyndynrwydd eu calon: aethant wrth eu cyngor eu hunain.

13 Oh, na wrandawſai fy mhobl arnaf: na rodiaſai Iſrael yn fy ffyrdd!

14 Buan y goſtyngaſwn eu gelynion: ac y troiſwn fy llaw'n erbyn eu gwrthwynebwŷr.

15 Caſeion yr Arglwydd a gymmeraſant arnynt ymoſtwng iddo ef: a'u hamſer hwythau fuaſai'n dragywydd.

16 Bwydaſai hwynt hefyd â braſder gwenith: ac â mêl o'r graig y'th ddiwallaſwn.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 82. *Deus ſtetit.*

DUW ſydd yn ſefyll ynghynnulleidfa y galluog: ym mhlith y duwiau y barn efe

2 Pa hyd y bernwch ar gam: ac y derbyniwch wyneb y rhai annuwiol?

3 Bernwch y tlawd a'r ymddifad: cyfiawnhêwch y cyſtuddiedig a'r rheidus.

4 Gwaredwch y tlawd a'r anghenus: achubwch hwynt o law y rhai annuwiol.

5 Ni wyddant, ac ni ddeallant, mewn tywyllwch y rhodiant: holl ſylfaenau y ddaear a ſymmudwyd o'u lle.

6 Myfi a ddywedais, Duwiau ydych chwi: a meibion y Goruchaf ydych chwi oll.

7 Eithr byddwch feirw fel dynion: ac fel un o'r tywyſogion y ſyrthiwch.

8 Cyfod, O Dduw, barna'r ddaear: canys ti a etifeddi'r holl genhedloedd.

SALM 83. *Deus, quis ſimilis?*

O Dduw, na oſtega, na thaw: ac na ſydd lonydd, O Dduw.

2 Canys wele, dy elynion ſydd yn terfyſgu: a'th gaſeion yn cyfodi eu pennau.

3 Ymgyfrinachaſant yn ddichellgar yn erbyn dy bobl: ac ymgynghoraſant yn erbyn dy rai dirgel di.

4 Dywedaſant, Deuwch; a difethwn hwynt: fel na byddont yn genedl, ac na chofier enw Iſrael mwyach.

5 Canys ymgynghoraſant yn unfryd: ac ymwnaethant i'th erbyn.

6 Pebyll Edom, a'r Iſmaëliaid: y Moabiaid, a'r Hagariaid.

7 Gebal, ac Ammon, ac Amalec: y Philiſtiaid, gyd â phreſwylwŷr Tyrus.

8 Aſſur hefyd a ymgwplyſodd â hwynt: buant fraich i blant Lot.

9 Gwnâ di iddynt fel i Midian: megis i Siſara, megis i Jabin, wrth afon Ciſon.

10 Yn Endor y difethwyd hwynt: aethant yn dail i'r ddaear.

11 Gwnâ eu pendefigion fel Oreb, ac fel Zeb: a'u holl dywyſogion fel Zebah, ac fel Salmunnah.

12 Y rhai a ddywedaſant, Cymmerwn i ni: gyfanneddau Duw i'w meddiannu.

13 Goſod hwynt, O fy Nuw, fel olwyn: fel ſoft o flaen y gwynt.

14 Fel y llyſg tân goed: ac fel y goddeithia fflam fynyddoedd:

15 Felly erlid ti hwynt â'th dymmeſtl: a dychryna hwynt â'th gorwynt.

16 Llanw eu hwynebau â gwarth: fel y ceiſiont dy Enw, O Arglwydd.

17 Cywilyddier, a thralloder hwynt yn dragywydd: ie gwaradwydder a difether hwynt:

18 Fel y gwypont mai tydi, yr hwn yn unig wyt Jehoſa wrth dy enw: wyt Oruchaf ar yr holl ddaear.

SALM 84. *Quam dilecta!*

MOR hawddgar yw dy bebyll di: O Arglwydd y lluoedd!

2 Fy enaid a hiraetha, ie ac a flyſia am gynteddau'r Arglwydd: fy nghalon a'm cnawd a waeddant am y Duw byw.

3 Aderyn y tô hefyd a gafodd dŷ, a'r wennol nyth iddi, lle y gefyd ei chywion: ſef dy allorau di, O Arglwydd y lluoedd, fy Mrenhin a'm Duw.

4 Gwyn fyd preſwylwŷr dy dŷ: yn waſtad y'th foliannant.

5 Gwyn ei fyd y dyn y mae ei gadernid ynot: a'th ffyrdd yn ei galon.

6 Y rhai yn myned trwy ddyffryn Baca, a'i gwnânt yn ffynnon: a'r gwlaw a leinw y llynnau.

7 Ant o nerth i nerth: ymddengys pob un gerbron Duw yn Seion.

8 O Arglwydd Dduw'r lluoedd: clyw fy ngweddi, gwrando, O Dduw Jacob.

9 O Dduw ein tarian, gwêl: ac edrych ar wyneb dy enneiniog.

10 Canys gwell yw un diwrnod yn dy gynteddau di nâ mil: dewiſwn gadw drws yn nhŷ fy Nuw, o flaen trigo ym mhebyll annuwioldeb.

11 Canys

11 Canys haul, a tharian yw'r Arglwydd Dduw: yr Arglwydd a rŷdd râs a gogoniant, ni attal efe ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith.

12 O Arglwydd y lluoedd: gwŷn fŷd y dŷn a ymddiried ynot.

SALM 85. *Benedixisti, Domine.*

GRaslawn fuoſt, O Arglwydd, i'th dîr: dychwelaiſt gaethiwed Jacob.

2 Maddeuaiſt anwiredd dy bobl: cuddiaiſt eu holl bechod.

3 Tynnaiſt ymaith dy holl lid: troaiſt oddiwrth lidiowgrwydd dy ddigter.

4 Trô ni, O Dduw ein iachawdwriaeth: a thorr ymaith dy ddigofaint oddi wrthym.

5 Ai byth y digi wrthym: a eſtynni di dy forriant hŷd genhedlaeth a chenhedlaeth.

6 Oni throi di a'n bywhâu ni: fel y llawenycho dy bobl ynot ti?

7 Dangos i ni, Arglwydd, dy drugaredd: a dôd i ni dy iachawdwriaeth.

8 Gwrandawâf beth a ddywaid yr Arglwydd Dduw: canys efe a draetha heddwch i'w bobl, ac i'w ſaint; ond na throant at ynfydrwydd.

9 Diau fod ei iechyd ef yn agos i'r rhai a'i hofnant: fel y trigo gogoniant yn ein tir ni.

10 Trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfuant: cyfiawnder a heddwch a ymguſanaſant.

11 Gwirionedd a dardda o'r ddaear: a chyfiawnder a edrych i lawr o'r nefoedd.

12 Yr Arglwydd hefyd a rŷdd ddaioni: a'n daear a rŷdd ei chnŵd.

13 Cyfiawnder a â o'i flaen ef: ac a eſyd ei draed ef ar y ffordd.

BOREUOL WEDDI.

SALM 86. *Inclina, Domine.*

GOſtwng, O Arglwydd, dy glûſt, gwrando fi: canys truan ac anghenus ydwyf.

2 Cadw fy enaid, canys ſanctaidd ydwyf: achub di dy wâs, O fy Nuw, yr hwn ſydd yn ymddiried ynot.

3 Trugarhâ wrthyf, Arglwydd: canys arnat y llefaf beunydd.

4 Llawenhâ enaid dy wâs: canys attat ti, Arglwydd, y dyrchafaf fy enaid.

5 Canys ti, O Arglwydd ydwyt dda, a maddeugar: ac o fawr drugaredd i'r rhai oll a alwant arnat.

6 Clyw, Arglwydd, fy ngweddi: ac ymwrando â llais fy ymbil.

7 Yn nydd fy nghyfyngder y llefaf arnat: canys gwrandewi fi.

8 Nid oes fel tydi ym mŷſg y duwiau, O Arglwydd: na gweithredoedd fel dy weithredoedd di.

9 Yr holl genhedloedd y rhai a wnaethoſt, a ddeuant, ac a addolant ger dy fron di, O Arglwydd; ac a ogoneddant dy Enw.

10 Canys ydwyt fawr, ac yn gwneuthur rhyfeddodau: ti yn unig ŵyt Dduw.

11 Dŷſg i mi dy ffordd, O Arglwydd, mi a rodiaf yn dy wirionedd: una fy nghâlon i ofni dy Enw.

12 Moliannaf di, O Arglwydd fy Nuw, â'm holl gâlon: a gogoneddaf dy Enw yn dragywydd.

13 Canys mawr yw dy drugaredd tu ag attaf fi: a gwaredaiſt fy enaid o uffern iſaf.

14 Rhai beilchion a gyfodaſant i'm herbyn, O Dduw: a chynnulleidfa y trawſion a geiſiaſant fy enaid, ac ni'th oſodaſant di ger eu bron.

15 Eithr ti, O Arglwydd, ŵyt Dduw trugarog, a graſlawn: hwyrfrydig i lid, a helaeth o drugaredd a gwirionedd.

16 Edrych arnaf, a thrugarhâ wrthyf: dyro dy nerth i'th wâs, ac achub fâb dy waſanaeth-ferch.

17 Gwnâ i mi arŵydd er daioni, fel y gwelo fy nghaſeion, ac y gwaradwydder hwynt: am i ti, O Arglwydd, fy nghynnorthwyo a'm diddanu.

SALM 87. *Fundamenta ejus.*

EI ſail ſydd: a'r y mynyddoedd ſanctaidd.

2 Yr Arglwydd a gâr byrth Seion: yn fwy nâ holl breſwylfeydd Jacob.

3 Gogoneddus bethau a ddywedir am danat ti: O ddinas Dduw.

4 Cofiaf Rahab a Babilon wrth fy nghydnabod: wele Philiſtia a Thyrus, ynghŷd ag Ethiopia, yno y ganwyd hwn.

5 Ac am Seion y dywedir, y gŵr a'r gŵr a anwyd ynddi: a'r Goruchaf ei hun a'i ſicrhâ hi.

6 Yr Arglwydd a gyfrif pan yſgrifenno y bobl: eni hwn yno.

7 Y cantorion a'r cerddorion a fyddant yno: fy holl ffynhonnau ſydd ynot ti.

SALM 88. *Domine Deus Salutis.*

OArglwydd Dduw fy iachawdwriaeth: gwaeddais o'th flaen ddŷdd a nôs.

2 Deued fy ngweddi ger dy fron: goſtwng dy glûſt at fy llefain.

3 Canys fy enaid a lanwyd o flinderau: a'm heinioes a nesâ i'r beddrod.

4 Cyfrifwyd fi gyd â'r rhai a ddiſgynnent i'r pwll: ydwyf fel gŵr heb nerth.

5 Yn rhŷdd ym mŷſg y meirw, fel rhai wedi eu llâdd, yn gorwedd mewn bêdd: y rhai ni chofi mwy; a hwy a dorrwyd oddiwrth dy lâw.

6 Goſodaiſt fi yn y pwll iſaf: mewn tywyllwch, yn y dyfnderau.

7 Y mae dy ddigofaint yn pwyſo arnaf: ac â'th holl donnau y'm cyſtuddiaiſt.

8 Pellheaiſt fy nghydnabod oddi wrthyf: gwnaethoſt fi yn ffieidd-dra iddynt; gwarchaewyd fi, fel nad awn allan.

9 Fy llygad a ofidiodd gan fy nghyſtudd: llefais arnat, Arglwydd, beunydd; eſtynnais fy nwylaw attat.

10 Ai i'r meirw y gwnei ryfeddod: a gyfyd y meirw i'th foliannu di?

11 A draethir dy drugaredd mewn bêdd: a'th wirionedd yn niſtryw?

12 A adwaenir dy ryfeddodau yn y tywyllwch: a'th gyfiawnder yn nhîr angof?

13 Ond myfi a lefais arnat, Arglwydd: yn fore yr achub fy ngweddi dy flaen.

14 Pa ham, Arglwydd, y gwrthodi fy enaid: y cuddi dy ŵyneb oddi wrthyf?

15 Truan ydwyf fi, ac ar drangcedigaeth o'm hieuengctid: dygais dy ofn, ac yr ydwyf yn petruſo.

16 Dy ſorriant a aeth troſof: dy ddychrynedigaethau a'm torrodd ymaith.

17 Fel dwfr y'm cylchynaſant beunydd: ac y'm çŷd-amgylchaſant.

18 Câr a chyfaill a yrraiſt ym mhell oddi wrthyf: a'm cydnabod i dywyllwch.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 89. *Miſericordias Domini.*

TRugareddau yr Arglwydd a ddatganaf byth: â'm genau y mynegaf dy wirionedd, o genhedlaeth hŷd genhedlaeth.

2 Canys dywedais, Adeiledir trugaredd yn dragywydd: yn y nefoedd y ſicrhêi dy wirionedd.

3 Gwnaethum ammod â'm hetholedig; tyngais i'm gwâs Dafydd,

4 Yn

4 Yn dragywydd y ſicrhâf dy hâd ti: ac o genhedlaeth i genhedlaeth yr adeiladaf dy orſedd-faingc di.

5 A'r nefoedd, O Arglwydd, a foliannant dy ryfeddod: a'th wirionedd ynghynnulleidfa y ſaint.

6 Canys pwy yn y nêf a gyſtedlir â'r Arglwydd: pwy a gyffelybir i'r Arglwydd ym mŷſg meibion y cedyrn?

7 Duw ſydd ofnadwy iawn ynghynnulleidfa 'r ſaint: ac i'w arſwydo yn ei holl amgylchoedd.

8 O Arglwydd Dduw 'r lluoedd, pwy ſydd fel tydi: yn gadarn Iôr, a'th wirionedd o'th amgylch?

9 Ti ŵyt yn llywodraethu ymchŵydd y môr: pan gyſodo ei donnau, ti a'u goſtegi.

10 Ti a ddrylliaiſt yr Aipht, fel un lladdedig: drwy nerth dy fraich y gwaſgeraiſt dy elynion.

11 Y nefoedd ydynt eiddot ti, a'r ddaear ſydd eiddot ti: ti a ſeiliaiſt y bŷd a'i gyflawnder.

12 Ti a greaiſt ogledd a dehau: Tabor a Hermon a lawenychant yn dy Enw:

13 Y mae i ti fraich, a chadernid: cadarn yw dy lâw, ac uchel yw dy ddeheu-law.

14 Cyfiawnder, a barn yw trigfa dy orſedd-faingc: trugaredd a gwirionedd a ragflaenant dy ŵyneb.

15 Gwŷn eu bŷd y bobl a adwaenant yr hyfrydlais: yn llewyrch dy ŵyneb, O Arglwydd y rhodiant hwy.

16 Yn dy Enw di y gorfoleddant beunydd: ac yn dy gyfiawnder yr ymddyrchafant.

17 Canys godidowgrwydd eu cadernid hwynt ydwyt ti: ac yn dy ewyllys da y dyrchefir ein corn ni.

18 Canys yr Arglwydd yw ein tarian: a Sanct Iſrael yw ein Brenhin.

19 Yna 'r ymddiddenaiſt mewn gweledigaeth â'th ſaint, ac a ddywedaiſt: Goſodais gymmorth ar un cadarn, dyrchefais un etholedig o'r bobl.

20 Cefais Ddafydd fy ngwaſanaethwr: enneiniais ef â'm holew ſanctaidd.

21 Yr hwn y ſicrhëir fy llâw gyd ag ef: a'm braich a'i nertha ef.

22 Ni orthrymma y gelyn ef: a'r mâb anwir ni's cyſtuddia ef.

23 Ac mi a goethaf ei elynion o'i flaen: a'i gaſeion a darawâf.

24 Fy ngwirionedd hefyd, a'm trugaredd fydd gyd ag ef, ac yn fy Enw y dyrchefir ei gorn ef.

25 A goſodaf ei lâw yn y môr, a'i ddeheu-law yn yr afonydd.

26 Efe a lefa arnaf, Ti yw fy Nhâd: fy Nuw, a chraig fy iachawdwriaeth.

27 Minnau a'i gwnâf yntau yn gynſab: goruwch brenhinoedd y ddaear.

28 Cadwaf iddo fy nhrugaredd yn dragywydd: a'm cyfammod fydd ſicr iddo.

29 Goſodaf hefyd ei hâd yn dragywydd: a'i orſedd-faingc fel dyddiau y nefoedd.

30 O's ei feibion a adawant fy nghyfraith: ac ni rodiant yn fy marnedigaethau.

31 O's fy neddfau a halogant: a'm gorchymynion ni chadwant.

32 Yna mi a ymwelaf â'u camwedd â gwialen: ac â'u hanwiredd â ffrewyllau.

33 Ond ni thorraf fy nhrugaredd oddi wrtho: ac ni phallaf o'm gwirionedd.

34 Ni thorraf fy nghyfammod: ac ni newidiaf yr hyn a ddaeth allan o'm genau.

35 Tyngais unwaith i'm ſancteiddrwydd: na ddywedwn gelŵydd i Ddafydd.

36 Bydd ei hâd ef yn dragywydd: a'i orſedd-faingc fel yr haul ger fy mron i.

37 Sicrhëir ef yn dragywydd fel y lleuad: ac fel tyſt ffyddlon yn y nêf.

38 Ond ti a wrthodaiſt ac a ffieiddiaiſt: ti a ddigiaiſt wrth dy enneiniog.

39 Diddymmaiſt gyfammod dy wâs: halogaiſt ei goron gan ei thaflu i lawr.

40 Drylliaiſt ei holl gaeau ef: gwnaethoſt ei amddiffynfeydd yn adwyau.

41 Yr holl ffforddolion a'i hyſpeiliant ef: aeth yn warthrudd i'w gymmydogion.

42 Dyrcheſaiſt ddeheu-law ei wrthwynebwŷr: llawenheaiſt ei holl elynion.

43 Troaiſt hefyd fin ei gleddyf: ac ni chadarnhaiſt ef mewn rhyfel.

44 Peraiſt i'w harddwch ddarfod: a bwriaiſt ei orſedd-faingc i lawr.

45 Byrheaiſt ddyddiau ei ieuenctid: toaiſt gywilydd troſto ef.

46 Pa hŷd, Arglwydd, yr ymguddi, ai yn dragywyd: a lŷſg dy ddigoſaint di fel tân?

47 Cofia pa amſer ſydd i mi: pa ham y creaiſt holl blant dynion yn ofer.

48 Pa ŵr a fydd byw, ac ni wêl farwolaeth: a wared efe ei enaid o lâw 'r bêdd?

49 Pa le y mae dy hên drugareddau, O Arglwydd: y rhai a dyngaiſt i Ddafydd yn dy wirionedd?

50 Cofia, O Arglwydd, waradwydd dy weiſion: yr hwn a ddygais yn fy mynwes gan yr holl boblocedd fawrion;

51 A'r hwn y gwaradwyddodd dy elynion, O Arglwydd: â'r hwn y gwaradwyddaſant ôl troed dy enneiniog.

52 Bendigedig fyddo 'r Arglwydd yn dragywydd: Amen, ac Amen.

BOREUOL WEDDI.

SALM 90. *Domine, refugium.*

TI, Arglwydd, fuoſt yn breſwylfa i ni: ym mhob cenhedlaeth.

2 Cyn gwneuthur y mynyddoedd, a llunio o honot y ddaear, a'r bŷd: ti hefyd ŵyt Dduw o dragywyddoldeb hŷd dragywyddoldeb.

3 Troi ddŷn i ddinyſtr: a dywedi, Dychwelwch feibion dynion.

4 Canys mil o flynyddoedd ydynt yn dy olwg di fel doe: wedi 'r êl heibio, ac fel gwiliadwriaeth nôs.

5 Dygi hwynt ymaith megis â llifeiriant, y maent fel hûn: y bore y maent fel llyſieuyn a newidir.

6 Y bore y blodeua ac y tŷf: prydnhâwn y torrir ef ymaith, ac y gwywa.

7 Canys yn dy ddig y diſethwyd ni: ac yn dy lidiowgrwydd y'n brawychwyd.

8 Goſodaiſt ein hanwiredd ger dy fron: ein dirgel bechodau yngoleuni dy ŵyneb.

9 Canys ein holl ddyddiau ni a ddarfuant gan dy ddigoſaint di: treuliaſom ein blynyddoedd fel chwedl.

10 Yn nyddiau 'n blynyddoedd y mae deng mlynedd a thrugain, ac o's o gryſder y cyrhaeddir pedwar ugain mlynedd: etto eu nerth ſydd boen, a blinder; canys ebrwydd y derfydd, ac ni a ehedwn ymaith.

11 Pwy a edwyn nerth dy ſorriant: canys fel y mae dy ofn, y mae dy ddigter.

12 Dyſg i ni felly gyfrif ein dyddiau: fel y dygom ein calon i ddoethineb.

13 Dychwel, Arglwydd, pa hŷd: ac edifarhâ o ran dy weiſion.

14 Diwalla ni yn fore â'th drugaredd: fel y gorfoleddom, ac y llawenychom dros ein holl ddyddiau.

15 Llawenhâ ni yn ôl y dyddiau y cyſtuddiaiſt ni: a'r blynyddoedd y gwelſom ddrygfyd.

16 Gweler dy waith tu ag at dy weiſion: a'th ogoniant tu ag at eu plant hwy.

17 A bydded prydferthwch yr Arglwydd ein

Duw

Duw arnom ni: a threfna weithred ein dwylaw ynom ni, ïe trefna waith ein dwylaw.

SALM 91. *Qui habitat.*

YR hwn ſydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf: a erys ynghyſgod yr Holl-alluog.

2 Dywedaf am yr Arglwydd, fy noddfa a'm hamddiffynfa ydyw: fy Nuw, ynddo yr ymddiriedaf.

3 Canys efe a'th wareda di o fagl yr heliwr: ac oddiwrth haint echryſlon.

4 A'i aſgell y cyſgoda efe troſot, a than ei adenydd y byddi ddiogel: ei wirionedd ſydd darian ac aſtalch i ti.

5 Nid ofni rhag dychryn nôs: na rhag y ſaeth a ehetto 'r dŷdd.

6 Na rhag yr haint a rodio yn y tywyllwch: na rhag y dinyſtr a ddinyſtrio ganol dydd.

7 Wrth dy yſtlys y cwymp mil, a deng mîl wrth dy ddeheu-law: ond ni ddaw yn agos attat ti.

8 Yn unig ti a ganſyddi â'th lygaid: ac a weli dâl y rhai annuwiol.

9 Am i ti wneuthur yr Arglwydd fy noddfa: ſef y Goruchaf yn breſwylfa i ti.

10 Ni ddigwydd i ti niweid: ac ni ddaw plâ yn agos i'th babell.

11 Canys efe a orchymmyn i'w angylion am danat ti: dy gadw yn dy holl ffyrdd.

12 Ar eu dwylaw y'th ddygant: rhag taro dy droed wrth garreg.

13 Ar y llêw, a'r aſp y cerddi: y cenew llêw, a'r ddraig a fethri.

14 Am iddo roddi ei ſerch arnaf, am hynny gwaredaf ef: dyrchafaf ef, am iddo adnabod fy enw.

15 Efe a eilw arnaf, a mi a'i gwrandawaf: mewn ing y byddaf fi gyd ag ef, y gwaredaf, ac y gogoneddaf ef.

16 Digonaf ef â hîr ddyddiau: a dangoſaf iddo fy iachawdwriaeth.

SALM 92. *Bonum eſt confiteri.*

DA yw moliannu'r Arglwydd: a chanu mawl i'th enw di, y Goruchaf.

2 A mynegi y bore am dy drugaredd: a'th wirionedd y noſweithiau.

3 Ar ddegtant, ac ar y nabl: ac ar y delyn yn ſyſyriol.

4 Canys llawenychaiſt fi, O Arglwydd, â'th weithred: yngwaith dy ddwylaw y gorſoleddaf.

5 Mòr fawredig, O Arglwydd, yw dy weithredoedd: dwfn iawn yw dy feddyliau!

6 Gŵr annoeth ni ŵyr: a'r ynfyd ni ddeall hyn.

7 Pan flodeuo y rhai annuwiol fel y llyſieuyn, a blaguro holl weithredwŷr anwiredd: hynny ſydd i'w dinyſtrio byth bythoedd.

8 Tithau, Arglwydd, ŵyt ddyrchafedig: yn dragywydd,

9 Canys wele dy elynion, O Arglwydd, wele dy elynion, a ddifethir: gwaſgerir holl weithredwŷr anwiredd.

10 Ond fy nghorn i a ddyrchefi fel unicorn: ag olew îr y'm enneinir.

11 Fy llygad hefyd a wêl fy ngwŷnfyd ar fy ngwrthwynebwŷr: fy nghluſtiau a glywant fy ewyllys am y rhai drygionus a gyfodant i'm herbyn.

12 Y cyfiawn a flodeua fel palm-wŷdden: ac a gynnydda fel cedr-wŷdden yn Libanus.

13 Y rhai a blannwyd yn nhŷ'r Arglwydd: a flodeuant ynghynteddoedd ein Duw.

14 Ffrwythant etto yn eu henaint: tirfion, ac iraidd fyddant,

15 I fynegi mai uniawn yw 'r Arglwydd fy nghraig: ac nad oes anwiredd ynddo.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 93. *Dominus regnavit.*

YR Arglwydd ſydd yn teyrnaſu, efe a wiſgodd ardderchowgrwydd; gwiſgodd yr Arglwydd nerth ac ymwregyſodd: y bŷd hefyd a ſicrhâwyd, ſel na ſyflo.

2 Darparwyd dy orſedd-faingc eriôed: ti ŵyt er tragywyddoldeb.

3 Y llifeiriaint, O Arglwydd, a ddyrchafaſant, y llifeiriaint a ddyrchafaſant eu twrf: y llifeiriaint a ddyrchafaſant, eu tonnau.

4 Yr Arglwydd yn yr uchelder ſydd gadarnach nâ thwrf dyfroedd lawer: nâ chedyrn donnau y môr.

5 Sicr iawn yw dy dyſtiolaethau: ſancteiddrwydd a weddai i'th dŷ, O Arglwydd, byth.

SALM 94. *Deus ultionum.*

O Arglwydd Dduw 'r dïal: O Dduw 'r dïal, ymddiſgleiria.

2 Ymddyrcha farnwr y bŷd: tâl eu gwobr i'r beilchion.

3 Pa hŷd, Arglwydd, y caiff yr annuwiolion: pa hŷd y caiff yr annuwiol orfoleddu?

4 Pa hŷd y fiaradant, ac y dywedant yn galed: yr ymfawryga holl weithredwŷr anwiredd?

5 Dy bobl, Arglwydd, a ddrylliant: a'th etifeddiaeth a gyſtuddiant.

6 Y weddw a'r dieithr a laddant: a'r ymddifad a ddieneidiant.

7 Dywedant hefyd, Ni wêl yr Arglwydd: ac nid yſtyria Duw Jacob hyn.

8 Yſtyriwch chwi rai annoeth ym mŷſg y bobl: ac ynfydion, pa brŷd y deallwch?

9 Oni chlyw'r hwn a blannodd y glûſt: oni wêl yr hwn a luniodd y llygad?

10 Oni cherydda 'r hwn a goſpa y cenhedloedd: oni ŵyr yr hwn ſydd yn dyſgu gŵybodaeth i ddŷn.

11 Gŵyr yr Arglwydd feddyliau dŷn, mai gwagedd ydynt?

12 Gwŷn ei fŷd y gŵr a geryddi di, O Arglwydd: ac a ddyſgi yn dy gyfraith.

13 I beri iddo lonydd oddiwrth ddyddiau dryg-fyd: hŷd oni chloddier ffôs i'r annuwiol.

14 Canys ni âd yr Arglwydd ei bobl: ac ni wrthyd efe ei etifeddiaeth.

15 Eithr barn a ddychwel at gyfiawnder: a'r holl rai uniawn o galon a ânt ar ei ôl.

16 Pwy a gyfyd gyd â mi yn erbyn y rhai drygionus: pwy a ſaif gyd â mi yn erbyn gweithredwŷr anwiredd?

17 Oni buaſai 'r Arglwydd yn gymmorth i mi: braidd na thrigaſai fy enaid mewn diſtawrwydd.

18 Pan ddywedais, Ilithrodd fy nhroed: dy drugaredd di, O Arglwydd a'm cynhaliodd.

19 Yn amlder fy meddyliau o'm mewn: dy ddiddanwch di a lawenycha fy enaid.

20 A fydd cŷd-ymdeithas i ti â gorſedd-faingc anwiredd: yr hon a lunia anwiredd yn lle cyfraith.

21 Yn finteioedd y deuant yn erbyn enaid y cyfiawn: a gwaed gwirion a farnant yn euog.

22 Eithr yr Arglwydd ſydd yn amddiffynfa i mi: a'm Duw yw craig fy nodded.

23 Ac efe a dâl iddynt eu hanwiredd, ac a'u tyrr ymaith yn eu drygioni: yr Arglwydd ein Duw a'u tyrr hwynt ymaith.

BOREUOL WEDDI.

SALM 95. *Venite, exultemus.*

DEuwch, canwn i'r Arglwydd: ymlawenhâwn yn nerth ein hiechyd.

2 Deuwn ger ei fron ef â diolch: canwn yn llafar iddo â ſalmau.

1 Canys yr Arglwydd ſydd Dduw mawr: a Brenhin mawr goruwch yr holl dduwiau.
4 Yr hwn y mae gorddyſnderau y ddaear yn ei lâw: ac uchelderau y mynyddoedd yn eiddo.
5 Y môr ſydd eiddo, ac efe a'i gwnaeth: a'i ddwylaw a luniaſant y ſychdir.
6 Deuwch, addolwn ac ymgrymmwn: goſtyngwn ar ein gliniau ger bron yr Arglwydd ein gwneuthurwr.
7 Canys efe yw ein Duw ni, a ninnau ŷm bobl ei borfa, a defaid ei lâw: heddyw o's gwrandêwch ar ei leferydd;
8 Na chaledwch eich calonnau: megis yn yr ymryſonfa, fel yn nŷdd profedigaeth yn yr anialwch;
9 Pan demtiodd eich tadau fi: y profaſant fi, ac y gwelſant fy ngweithredoedd.
10 Deugain mlynedd yr ymryſonais â'r genhedlaeth hon: a dywedais, Pobl gyfeiliornus yn eu calon ydynt hwy, ac nid adnabuant fy ffyrdd:
11 Wrth y rhai y tyngais yn fy llid: na ddelent i'm gorphwyſfa.

SALM 96. *Cantate Domino.*

CEnwch i'r Arglwydd ganiad newŷdd: cenwch i'r Arglwydd, yr holl ddaear.
2 Cenwch i'r Arglwydd, bendigwch ei enw: cyhoeddwch o ddŷdd i ddŷdd ei iachawdwriaeth ef.
3 Datgenwch ym mŷſg y cenhedloedd ei ogoniant ef: ym mhlith yr holl bobloedd ei ryfeddodau.
4 Canys mawr yw'r Arglwydd, a chanmoladwy iawn: ofnadwy yw efe goruwch yr holl dduwiau.
5 Canys holl dduwiau'r bobloedd ydynt eulynnod: ond yr Arglwydd a wnaeth y nefoedd.
6 Gogoniant a harddwch ſydd o'i flaen ef: nerth a hyfrydwch ſydd yn ei gyſſegr.
7 Tylwythau y bobl, rhoddwch i'r Arglwydd: rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant a nerth,
8 Rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant oi Enw: dygwch offrwm, a deuwch i'w gynteddoedd.
9 Addolwch yr Arglwydd mewn prydferthwch ſanctteiddrwydd: yr holl ddaear ofnwch ger ei fron ef.
10 Dywedwch ym mŷſg y cenhedloedd, yr Arglwydd ſydd yn teyrnaſu: a'r bŷd a ſicrhäodd efe, fel nad yſgogo; efe a farna y bobl yn uniawn.
11 Llawenhâed y nefoedd, a gorfoledded y ddaear, rhued y môr, a'i gyflawnder.
12 Gorfoledded y maes, a'r hyn oll ſydd ynddo: yna holl brennau'r coed a ganant
13 O flaen yr Arglwydd; canys y mae yn dyfod, canys y mae 'n dyfod i farnu 'r ddaear: efe a farna'r bŷd drwy gyfiawnder, a'r bobloedd â'i wirionedd.

SALM 97. *Dominus regnavit.*

YR Arglwydd ſydd yn teyrnaſu: gorfoledded y ddaear, llawenyched ynyſoedd lawer.
2 Cymmylau a thywyllwch ſydd o'i amgylch ef: cyfiawnder, a barn yw trigfa ei orſedd-faingc ef.
3 Tân a â allan o'i flaen ef: ac a lŷſg ei elynion o amgylch.
4 Ei fellt a lewyrchaſant y bŷd: y ddaear a welodd, ac a grynodd.
5 Y mynyddoedd a doddaſant fel cŵyr o flaen yr Arglwydd: o flaen Arglwydd yr holl ddaear.
6 Y nefoedd a fynegant ei gyfiawnder ef: a'r holl bobl a welant ei ogoniant.
7 Gwaradwydder y rhai oll a waſanaethant ddelw gerfiedig, y rhai a ymffroſtiant mewn eulynnod: addolwch ef yr holl dduwiau.
8 Seion a glywodd, ac a lawenychodd: a merched Juda a orfoleddaſant: o herwŷdd dy farnedigaethau di, O Arglwydd,
9 Canys ti, Arglwydd, wyt oruchel goruwch yr holl ddaear: dirfawr y'th ddyrchafwyd goruwch yr holl dduwiau.
10 Y rhai a gerwch yr Arglwydd, caſêwch ddrygioni: efe ſydd yn cadw eneidiau ei ſaint; efe a'u gwared o lâw y rhai annuwiol.
11 Hauwyd goleuni i'r cyfiawn: a llawenydd i'r rhai uniawn o galon.
12 Y rhai cyfiawn, llawenychwch yn yr Arglwydd: a moliennwch wrth goffadwriaeth ei ſanctteiddrwydd ef.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 98. *Cantate Domino.*

CEnwch i'r Arglwydd ganiad newŷdd, canys efe a wnaeth bethau rhyfedd: ei ddeheulaw, a'i fraich ſanctaidd a barodd iddo fuddugoliaeth.
2 Yſpyſodd yr Arglwydd ei iachawdwriaeth: datguddiodd ei gyfiawnder yngolwg y cenhedloedd.
3 Cofiodd ei drugaredd, a'i wirionedd i dŷ Iſrael: holl derfynau y ddaear a welſant iachawdwriaeth ein Duw ni.
4 Cenwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaear: llefwch, ac ymlawenhêwch, a chenwch.
5 Cenwch i'r Arglwydd, gyd â'r delyn: gyd â'r delyn â llêf ſalm.
6 Ar udgyrn a ſain cornet: cenwch yn llafar o flaen yr Arglwydd y Brenhin.
7 Rhued y môr, a'i gyflawnder: y bŷd, a'r rhai a drigant o'i fewn.
8 Cured y llifeiriaint eu dwylaw: a chŷd-ganed y mynyddoedd.
9 O flaen yr Arglwydd: canys y mae 'n dyfod i farnu y ddaear: efe a farna'r bŷd â chyfiawnder, a'r bobloedd ag uniondeb.

SALM 99. *Dominus regnavit.*

YR Arglwydd ſydd yn teyrnaſu, cryned y bobloedd: eiſtedd y mae rhwng y Cerubiaid, ymgynhyrfed y ddaear.
2 Mawr yw yr Arglwydd yn Seion: a dyrchafedig yw efe goruwch yr holl bobloedd.
3 Moliannant dy Enw mawr ac ofnadwy: canys ſanctaidd yw.
4 A nerth y brenhin a hoffa farn; ti a ſicrhêi uniondeb: barn, a chyfiawnder a wnei di yn Jacob.
5 Dyrchefwch yr Arglwydd ein Duw, ac ymgrymmwch o flaen ei yſtôl-draed ef: canys ſanctaidd yw.
6 Moſes ac Aaron ym mhlith ei offeiriaid ef; a Samuel ym mŷſg y rhai a alwant ar ei Enw: galwaſant ar yr Arglwydd, ac efe a'u gwrandawodd hwynt.
7 Llefarodd wrthynt yn y golofn gwmmwl: cadwaſant ei dyſtiolaethau, a'r ddeddf a roddodd efe iddynt.
8 Gwrandewaiſt arnynt, O Arglwydd ein Duw: Duw oeddit yn eu harbed, ïe pan ddïelit am eu dychymmygion.
9 Dyrchefwch yr Arglwydd ein Duw, ac ymgrymmwch ar ei fynydd ſanctaidd: canys ſanctaidd yw 'r Arglwydd ein Duw.

SALM 100. *Jubilate Deo.*

CEnwch yn llafar i'r Arglwydd: yr holl ddaear.
2 Gwaſanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd: deuwch o'i flaen ef â chân.
3 Gwybyddwch mai 'r Arglwydd ſydd Dduw; efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain: ei bobl ef ydym, a defaid ei borfa.

4 Ewch

4 Ewch i mewn i'w byrth ef â diolch, ac i'w gynteddau â mawl: diolchwch iddo, a bendithiwch ei Enw.

5 Canys da yw 'r Arglwydd, ei drugaredd ſydd yn dragywydd: a'i wirionedd hŷd genhedlaeth a chenedlaeth.

SALM 101. *Miſericordiam & judicium.*

CAnaf am drugaredd a barn: i ti, Arglwydd, y canaf.

2 Byddaf ddeallus mewn ffordd berffaith: pa brŷd y deui attaf? rhodiaf mewn perffeithrwydd fy nghâlon o fewn fy nhŷ.

3 Ni oſodaf ddim anwir o flaen fy llygaid: câs gennyf waith y rhai cildynnus; ni lŷn wrthyf fi.

4 Câlon gyndyn a gilia oddi wrthyf: nid adnabyddaf ddŷn drygionus.

5 Torraf ymaith yr hwn a enllibio ei gymmydog yn ddirgel: yr uchel o olwg, a'r balch ei galon ni allaf ei ddioddef.

6 Fy llygaid ſydd ar ffyddloniaid y tîr, ſel y trigont gyd â mi: yr hwn a rodio mewn ffordd berffaith, hwnnw a'm gwaſanaetha i.

7 Ni thrig o fewn fy nhŷ yr un a wnelo dwyll: ni thrig yn fy ngolwg yr un a ddywedo gelŵydd.

8 Yn fore y torraf ymaith holl anuwiolion y tîr: i ddiwreiddio holl weithredwŷr anwiredd o ddinas yr Arglwydd.

BOREUOL WEDDI.

SALM 102. *Domine, exaudi.*

ARglwydd, clyw fy ngweddi: a deued fy llêf attat.

2 Na chûdd dy ŵyneb oddi wrthyf, yn nŷdd fy nghyfyngder: goſtwng dy glûſt attaf, yn y dŷdd y galwyf, bryſia, gwrando fi.

3 Canys fy nyddiau a ddarfuant fel mŵg: a'm heſgyrn a boethaſant fel aelwyd.

4 Fy nghâlon a darawyd, ac a wywodd fel llyſieuyn, fel yr anghofiais fwytta fy mara.

5 Gan llais fy nhuchan: y glynodd fy eſgyrn wrth fy nghnawd.

6 Tebyg ŵyf i belican yr anialwch: ydwyf fel dylluan y diffeithwch.

7 Gwyliais, ac ydwyf fel aderyn y tô: unig ar ben y tŷ.

8 Fy ngelynion a'm gwaradwyddant beunydd: y rhai a ynfydant wrthyf, a dyngaſant yn fy erbyn.

9 Canys bwytteais ludw fel bara: a chymmyſgais fy niod ag ŵylofain.

10 O herwŷdd dy lid ti a'th ddigofaint: canys codaiſt fi i fynu, a theflaiſt fi i lawr.

11 Fy nyddiau ſydd fel cyſgod yn cilio: a minnau fel glâs-welltyn a wywais.

12 Tithau, Arglwydd, a barhêi yn dragywyddol: a'th goffadwriaeth hŷd genhedlaeth a chenhedlaeth.

13 Ti a gyſodi, ac a drugarhêi wrth Seion: canys yr amſer i drugarhâu wrthi, ïe yr amſer nodedig, a ddaeth.

14 Oblegid y mae dy weiſion yn hoffi ei meini: ac yn toſturio wrth ei llwch hi.

15 Felly y cenhedloedd a ofnant enw 'r Arglwydd: a holl frenhinoedd y ddaear dy ogoniant.

16 Pan adeilado yr Arglwydd Seion: y gwelir ef yn ei ogoniant.

17 Efe a edrych ar weddi y gwael: ac ni ddïyſtyrodd eu dymuniad.

18 Hyn a 'ſgrifennir i'r genhedlaeth a ddêl: a'r bobl a greïr a foliannant yr Arglwydd.

19 Canys efe a edrychodd o uchelder ei gyſegr: i yr Arglwydd a edrychodd o'r neſoedd ar y ddaear.

20 I wrando uchenaid y carcharorion: ac i ryddhâu plant angau.

21 I fynegi enw 'r Arglwydd yn Seion: a'i foliant yn Jeruſalem.

22 Pan gaſgler y bobl ynghŷd: a'r teyrnaſoedd i waſanaethu 'r Arglwydd.

23 Goſtyngodd efe fy nerth ar y ffordd: byrhaodd fy nyddiau.

24 Dywedais, Fy Nuw, na chymmer fi ymaith ynghanol fy nyddiau: dy flynyddoedd di ſydd yn oes oeſoedd.

25 Yn y dechreuad y ſeiliaiſt y ddaear: a'r neſoedd ydynt waith dy ddwylaw.

26 Hwy a ddarfyddant, a thi a barhêi: ïe hwy oll a heneiddiant fel dilledyn, fel gwiſg y newidi hwynt, a hwy a newidir.

27 Tithau 'r un ydwyt: a'th flynyddoedd ni ddarfyddant.

28 Plant dy weiſion a barhânt: a'u hâd a ſicrhêir ger dy fron di.

SALM 103. *Benedic, anima mea.*

FY enaid, bendithia 'r Arglwydd: a chwbl ſydd ynof ei Enw ſanctaidd ef.

2 Fy enaid, bendithia 'r Arglwydd: ac nac anghofia ei holl ddoniau ef.

3 Yr hwn ſydd yn maddeu dy holl anwireddau: yr hwn ſydd yn iachâu dy holl leſgedd.

4 Yr hwn ſydd yn gwaredu dy fywyd o ddiſtryw: yr hwn ſydd yn dy goroni â thrugaredd, ac â thoſturi;

5 Yr hwn ſydd yn diwallu dy enau â daioni: ſel yr adnewŷddir dy ieuengctid fel yr eryr.

6 Yr Arglwydd ſydd yn gwneuthur cyfiawnder, a barn: i'r rhai gorthrymmedig oll.

7 Yſpyſodd ei ffyrdd i Moſes: ei weithredoedd i feibion Iſrael.

8 Trugarog, a graſlawn yw 'r Arglwydd: hwyrfrydig i lid, a mawr o drugarowgrwydd.

9 Nid byth yr ymryſon efe: ac nid byth y ceidw efe ei ddigofaint.

10 Nid yn ôl ein pechodau y gwnaeth efe â ni: ac nid yn ôl ein hanwireddau y talodd efe i ni.

11 Canys cyfuwch ac yw 'r nefoedd uwchlaw 'r ddaear: y rhagorodd ei drugaredd ef ar y rhai a'i hofnant ef.

12 Cyn belled ac yw 'r dwyrain oddiwrth y gorllewin: y pellhaodd efe ein camweddau oddi wrthym.

13 Fel y toſturia tâd wrth ei blant: felly y toſturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef.

14 Canys efe a edwyn ein defnydd ni: cofia mai llŵch ydym.

15 Dyddiau dŷn ſydd fel glâs-welltyn: megis blodeuyn y maes, felly y blodeua ef.

16 Canys y gwynt a â troſto, ac ni bydd mwy o hono: a'i le nid edwyn ddim o hono ef mwy.

17 Ond trugaredd yr Arglwydd ſydd o dragywyddoldeb hŷd dragywyddoldeb, ar y rhai a'i hofnant ef: a'i gyfiawnder i blant eu plant.

18 I'r ſawl a gadwant ei gyfammod ef: ac a gofiant ei orchymynion, i'w gwneuthur.

19 Yr Arglwydd a barottôdd ei orſeddfa yn y nefoedd: a'i frenhiniaeth ef ſydd yn llywodraethu ar bob peth.

20 Bendithiwch yr Arglwydd, ei angylion ef, cedyrn o nerth: yn gwneuthur ei air ef, gan wrando ar leferydd ei air ef.

21 Bendithiwch yr Arglwydd, ei holl luoedd ef: ei holl weiſion yn gwneuthur ei ewyllys ef.

22 Bendithiwch yr Arglwydd, ei holl weithredoedd ef, ym mhob man o'i lywodraeth: Fy enaid, bendithia 'r Arglwydd.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 104. *Benedic, anima mea.*

FY Enaid, bendithia 'r Arglwydd; O Arglwydd fy Nuw, tra-mawr ydwyt, gwiſgaiſt ogoniant a harddwch,

2 Yr hwn wyt yn gwiſgo goleuni fel dilledyn: ac yn tànu y nefoedd fel llèn.

3 Yr hwn ſy yn goſod tylathau ei 'ſtafellodd yn y dyfroedd: yn gwneuthur y cymmylau yn gerbyd iddo, ac yn rhodio ar adenydd y gwynt.

4 Yr hwn ſydd yn gwneuthur ei genhadon yn yſprydion: a'i weinidogion yn dân fflamllyd.

5 Yr hwn a ſeiliodd y ddaear ar ei ſylfeini: fel na ſymmudo byth, yn dragywydd.

6 Toaiſt hi â'r gorddyfnder, megis â gwiſg: y dyfroedd a ſaſent goruwch y mynyddoedd.

7 Gan dy gerydd di y ffoiſant: rhag ſŵn dy daran y pryſuraſant ymaith.

8 Gan y mynyddoedd yr ymgodant, ar hŷd y dyffrynnoedd y diſgynnant: i'r lle a feiliaiſt iddynt.

9 Goſodaiſt derfyn, fel nad elont troſodd: fel na ddychwelont i orchuddio 'r ddaear.

10 Yr hwn a yrr ffynhonnau i'r dyffrynnoedd: y rhai a gerddant rhwng y brynniau.

11 Diodant holl fwyſtfilod y maes: yr aſynnod gwŷllt ion a dorrant eu ſyched.

12 Adar y nefoedd a drigant ger llaw iddynt: y rhai a leiſiant oddi rhwng y cangau.

13 Y mae efe yn dwſrhâu y brynniau o'i 'ſtafelloedd: y ddaear a ddigonir o ffrwyth dy weithredoedd.

14 Y mae yn peri i'r gwèllt dyfu i'r anifeiliaid, a llyſiau i waſanaeth dŷn: fel y dycco fara allan o'r ddaear;

15 A gwin, yr hwn a lawenycha gàlon dŷn; ac olew i beri i'w wyneb ddiſgleirio: a bara, yr hwn a gynnal gàlon dŷn.

16 Prennau 'r Arglwydd ſydd lawn ſugn: cedrwydd Libanus y rhai a blannodd efe.

17 Lle y nytha 'r adar; y ffynnid-wŷdd yw tŷ y Ciconia.

18 Y mynyddoedd uchel ſydd noddfa i'r geifr: a'r creigiau i'r cwningod.

19 Efe a wnaeth y lleuad i amſerau nodedig: yr haul a edwyn ei fachludiad.

20 Gwnèi dywyllwch, a nôs fydd: ynddi yr ymluſga pob bwyſtfil coed.

21 Y cenawon llewod a ruant am yſglyfaeth: ac a geiſiant eu bwyd gan Dduw.

22 Pan godo haul, ymgaſglant: a gorweddant yn eu llocheſau.

23 Dŷn a â allan i'w waith: ac i'w orchwyl hŷd yr hwyr.

24 Mòr lliooſog yw dy weithredoedd, O Arglwydd! gwnaethoſt hwynt oll mewn doethineb: llawn yw 'r ddaear o'th gyfoeth.

25 Felly y mae y môr mawr, llydan: yno y mae ymluſgiaid heb rifedi, bwyſtfilod bychain a mawrion.

26 Yna 'r â y llongau: yno y mae 'r Lefiathan, yr hwn a luniaiſt i chwarae ynddo.

27 Y rhai hyn oll a ddiſgwyliant wrthyt: am roddi iddynt eu bwyd yn ei brŷd.

28 A roddech iddynt a gaſglant: agori dy lâw a diwellir hwynt â daioni.

29 Tì a guddi dy wyneb, hwythau a drallodir: dygi ymaith eu hanadl, a threngant, a dychwelant i'w llŵch.

30 Pan ollyngych dy yſpryd, y crëir hwynt: ac yr adnewyddi wyneb y ddaear.

31 Gogoniant yr Arglwydd ſydd yn dragywydd: yr Arglwydd a lawenycha yn ei weithredoedd.

32 Efe a edrych ar y ddaear, a hi a gryna: efe a gyffwrdd â'r mynyddoedd, a hwy a ſygant.

33 Canaf i'r Arglwydd tra fyddwyf fyw: canaf i'm Duw tra fyddwyf.

34 Bydd melys fy myfyrdod am dano: mi a lawenychaf yn yr Arglwydd.

35 Darfydded y pechaduriaid o'r tîr, na fydded yr annuwiolion mwy: fy enaid bendithia 'r Arglwydd. Molwch yr Arglwydd.

BOREUOL WEDDI.

SALM 105. *Confitemini Domino.*

CLodforwch yr Arglwydd, gelwch ar ei Enw: mynegwch ei weithredoedd ym mŷſg y bobloedd.

2 Cenwch iddo, canmolwch ef: ymddiddenwch am ei holl ryfeddodau ef.

3 Gorfoleddwch yn ei Enw ſanctaidd: Llawenyched càlon y rhai a geiſiant yr Arglwydd.

4 Ceiſiwch yr Arglwydd a'i nerth: ceiſiwch ei wyneb ef bob amſer.

5 Cofiwch ei ryfeddodau, y rhai a wnaeth efe: ei wŷrthiau a barnedigaethau ei enau.

6 Chwi hâd Abraham ei wâs ef: chwi meibion Jacob, ei etholedigion.

7 Efe yw 'r Arglwydd ein Duw ni: ei farnedigaethau ef ſydd trwy 'r holl ddaear.

8 Cofiodd ei gyfammod, byth: y gair a orchymynodd efe i fil o genhedlaethau:

9 Yr hyn a ammododd efe ag Abraham: a'i lŵ i Iſaac.

10 A'r hyn a oſododd efe yn ddeddf i Jacob: ac yn gyfammod tragywyddol i Iſrael.

11 Gan ddywedyd, I ti y rhoddaf dîr Canaan: rhandir eich etifeddiaeth.

12 Pan oeddynt ychydig o rifedi: ïe ychydig, a dieithriaid ynddi.

13 Pan rodient o genhedlaeth i genhedlaeth: o'r naill deyrnas at bobl arall:

14 Ni adawòdd i neb eu gorthrymmu: ïe ceryddodd frenhinoedd o'u plegid.

15 Gan ddywedyd, Na chyffyrddwch â'm rhai enneiniog: ac na ddrygwch fy mhrophwydi.

16 Galwodd hefyd am newyn ar y tîr: a dinyſtriodd holl gynhaliaeth bara.

17 Anfonodd ŵr o'u blaen hwynt: Joſeph, yr hwn a werthwyd yn wâs.

18 Cyſtuddiaſant ei draed ef mewn gefyn: ei enaid aeth mewn heiyrn.

19 Hŷd yr amſer y daeth ei air ef: gair yr Arglwydd a'i profodd ef.

20 Y brenhin a anfonodd ac a'i gollyngodd ef: llywodraethwr y bobl, ac a'i rhyddhaodd ef.

21 Goſododd ef yn arglwydd ar ei dŷ: ac yn llywydd ar ei holl gyfoeth:

22 I rwymo ei dywyſogion ef wrth ei ewyllys: ac i ddyſgu doethineb i'w henuriaid ef.

23 Aeth Iſrael hefyd i'r Aipht: a Jacob a ymdeithiodd yn nhîr Ham.

24 Ac efe a gynnyddodd ei bobl yn ddirfawr: ac a'u gwnaeth yn gryfach nâ'u gwrthwynebwŷr.

25 Trôdd eu càlon hwynt i gaſâu ei bobl ef: i wneuthur yn ddichellgar â'i weiſion.

26 Efe a anfonodd Moſes ei wâs: ac Aaron yr hwn a ddewiſaſai.

27 Hwy a ddangoſaſant ei arwyddion ef yn eu plith hwynt: a rhyfeddodau yn nhîr Ham.

28 Efe a anfonodd dywyllwch, ac a dywyllodd: ac nïs anufuddhaſant hwy ei air ef.

29 Efe a drôdd eu dyfroedd yn waed: ac a laddodd eu pyſgod.

30 Eu tîr a heigiodd lyffaint: yn yſtafelloedd eu brenhinoedd.

31 Efe a ddywedodd, a daeth cymmyſg-blâ: a llau yn eu holl frô hwynt.

32 Efe a wnaeth eu gwlâw hwynt yn genllyſg: ac yn fflammau tân yn eu tîr.

33 Tarawôdd hefyd eu gwinwŷdd a'u ffigyſwŷdd: ac a ddryllíodd goed eu gwlâd hwynt.

34 Efe a ddywedodd, a daeth y locuſtiaid: a'r llindys yn aneirif.

35 Y rhai a fwyttâfant yr holl lâs-wellt yn eu tîr hwynt: ac a ddifafant ffrwyth eu daear hwynt.

36 Tarawôdd hefyd bôb cyntaf-anedig yn eu tir hwynt: blaen-ffrwyth eu holl nerth hwynt:

37 Ac a'u dûg hwynt allan ag árian, ac ag aur: ac heb un llêſg yn eu llwythau.

38 Llawenychodd yr Aipht pan aethant allan: canys fyrthiafai eu harſwyd arnynt hwy.

39 Efe a dànodd gwmmwl yn dô: a thân i oleuo liw nos.

40 Gofynafant, ac efe a ddûg ſoſi-leir: ac a'u diwallodd â bara nefol.

41 Efe a holltodd y graig, a'r dyfroedd a ddyfiodd: cerddafant a'r hŷd lleoedd ſychion yn afonydd.

42 Canys efe a gofiodd ei air ſanctaidd: ac Abraham ei wâs.

43 Ac a ddûg ei bobl allan mewn llawenydd: ei etholedigion mewn gorfoledd.

44 Ac a roddes iddynt diroedd y cenhedloedd: a meddiannafant lafur y bobloedd:

45 Fel y cadwent ei ddeddfau ef: ac y cynhalient ei gyfreithiau. Molwch yr Arglwydd.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 106. *Confitemini Domino.*

MOlwch yr Arglwydd, Clodforwch yr Arglwydd, canys da yw: o herwŷdd ei drugaredd a bery yn dragywydd.

2 Pwy a draetha nerthoedd yr Arglwydd: ac a fynega ei holl fawl ef?

3 Gwŷn eu bŷd a gadwant farn: a'r hwn a wnêl gyfiawnder bob amſer.

4 Cofia fi Arglwydd, yn ôl dy raſlonrwydd i'th bobl: ymwêl â mi â'th iachawdwriaeth.

5 Fel y gwelwyf ddaioni dy etholedigion: fel y llawenychwyf yn llawenydd dy genedl di, fel y gorfoleddwyf gyd â'th etifeddiaeth.

6 Pechaſom gyd â'n tadau: gwnaethom gamwedd, anwireddus fuom.

7 Ein tadau ni ddeallafant dy ryfeddodau yn yr Aipht, ni chofiafant lioſowgrwydd dy drugareddau: eithr gwrthryfelgar fuant wrth y môr, ſef, y môr côch.

8 Etto efe a'u hachubodd hwynt er mwyn ei Enw: i beri adnabod ei gadernid.

9 Ac a geryddodd y môr côch fel y ſychodd efe: a thywyſodd hwynt drwy 'r dyfnder, megis trwy 'r anialwch:

10 Achubodd hwynt hefyd o law eu digaſog: ac a'u gwaredodd o law y gelyn.

11 A'r dyfroedd a doiſant eu gwrthwynebwŷr: ni adawyd un o honynt.

12 Yna y credafant ei eiriau ef: canafant ei fawl ef.

13 Yn y fan yr anghofiafant ei weithredodd ef: ni ddiſgwyliafant am ei gynghor ef.

14 Eithr blyſiafant yn ddirfawr yn yr anialwch: a themtiafant Dduw yn y diffeithwch.

15 Ac efe a roddes eu dymuniad iddynt: eithr efe a anfonodd gulni i'w henaid.

16 Cynnigenafant hefyd wrth Moſes yn y gwerſyll: ac wrth Aaron ſant yr Arglwydd.

17 Y ddaear a agorodd, ac a lyngcodd Dathan: ac a orchuddiodd gynnulleidfa Abiram.

18 Cynneuodd tân hefyd yn eu cynnulleidfa hwynt: fflam a loſgodd y rhai annuwiol.

19 Llo a wnaethant yn Horeb: ac ymgrymafant i'r ddelw ddwdd.

20 Felly y troiſant eu gogoniant: i lun eidion yn pori glâs-wellt.

21 Anghofiafant Dduw eu hachubwr: yr hwn a wneſſai bethau mawrion yn yr Aipht.

22 Pethau rhyfedd yn nhîr Ham: pethau ofnadwy wrth y môr côch.

23 Am hynny y dywedodd y dinyſtriai efe hwynt, oni buaſai i Moſes ei etholedig ſefyll ar yr âdwy o'i flaen ef: i droi ymlaith ei lidiowgrwydd ef, rhag eu dinyſtrio.

24 Diyſtyraſant hefyd y tîr dymunol: ni chredafant ei air ef.

25 Ond grwgnachafant yn eu pebyll: ac ni wrandawſant ar lais yr Arglwydd.

26 Yna y dyrchafodd efe ei law yn eu herbyn hwynt: i'w cwympo yn y diffeithwch.

27 Ac i gwympo eu hâd ym mŷſg y cenhedloedd: ac i'w gwaſgâru yn y tiroedd.

28 Ymgyſylltafant hefyd â Baal-peor: a bwyttafant ebyrth y meirw.

29 Felly y digiafant ef â'u dychymmygion eu hun: ac y tarawôdd plâ yn eu mŷſg hwy.

30 Yna y ſafodd Phinees, ac a lawn farnodd: a'r plâ a attaliwyd.

31 A chyfrifwyd hyn iddo yn gyfiawnder: o genhedlaeth i genhedlaeth hyth.

32 Llidiafant ef hefyd wrth ddyfroedd y gynnen: fel y bu ddrwg i Moſes o'u plegid hwynt;

33 O herwŷdd cythruddo o honynt ei yſpryd ef: fel y cam-ddywedodd â'i wefuſau.

34 Ni ddinyſtriafant y bobloedd: am y rhai y dywedaſai 'r Arglwydd wrthynt;

35 Eithr ymgymyſgafant â'r Cenhedloedd: a dyſgafant eu gweithredoedd hwynt.

36 A gwaſanaethafant eu delwau hwynt: y rhai a fu yn fagl iddynt.

37 Aberthafant hefyd eu meibion: a'u merched i gythreuliaid.

38 Ac a dywallafant waed gwirion, ſef gwaed eu meibion, a'u merched: y rhai a aberthafant i ddelwau Canaan, a'r tîr a halogwyd â gwaed.

39 Felly 'r ymhalogafant yn eu gweithredoedd eu hun: ac y putteiniafant gyd â'u dychymmygion.

40 Am hynny y cynneuodd dig yr Arglwydd yn erbyn ei bobl: fel y ffieiddiodd efe ei etifeddiaeth.

41 Ac efe a'u rhoddes hwynt yn llaw 'r cenhedloedd: a'u caſeion a lywodraethafant arnynt.

42 Eu gelynion hefyd a'u gorthrymafant: a daroſtyngwyd hwynt tan eu dwylaw hwy:

43 Llawer gwaith y gwaredodd efe hwynt, hwythau a'i digiafant ef â'u cyngor eu hun: hwy a wanbychwyd am eu hanwiredd.

44 Etto efe a edrychodd pan oedd ing arnynt: pan glywodd eu lleſam hwynt.

45 Ac efe a gofiodd ei gyfammod â hwynt: ac a edifarhaodd yn ôl lliolowgrwydd ei drugareddau.

46 Ac a wnaeth iddynt gael trugaredd: gan y rhai oll a'u caethiwai.

47 Achub ni, O Arglwydd ein Duw, a chynnull ni o blith y cenhedloedd: i glodfori dy Enw ſanctaidd, ac i orfoleddu yn dy foliant.

48 Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Iſrael, erîôed, ac yn dragywydd: a dyweded yr holl bobl, Amen. Molwch yr Arglwydd.

BOREUOL WEDDI.

SALM 107. *Confitemini Domino.*

CLodforwch yr Arglwydd, canys da yw: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

2 Felly dyweded gwaredigion yr Arglwydd: y rhai a waredodd efe o law y gelyn;

3 Ac

3 Ac a gasglodd efe o'r tiroedd: o'r dwyrain, ac o'r gorllewin, o'r gogledd ac o'r dehau.

4 Crwydrasant yn yr anialwch mewn ffordd, ddisathr: heb gael dinas i aros ynddi.

5 Yn newynog ac yn sychedig: eu henaid a lewygodd ynddynt.

6 Yna y llefasant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder: ac efe a'u gwaredodd o'u gorthrymderau.

7 Ac a'u tywysodd hwynt ar hŷd y ffordd uniawn: i fyned i ddinas gyfaneddol.

8 O na foliannent yr Arglwydd am ei ddaioni: a'i ryfeddodau i feibion dynion!

9 Canys efe a ddiwalla yr enaid sychedig: ac a leinw yr enaid newynog â daioni.

10 Y rhai a breswyliant yn y tywyllwch a chysgod angau: yn rhwym mewn cystudd a haiarn.

11 O herwydd anufuddhâu o honynt eiriau Duw: a dirmygu cyngor y Goruchaf.

12 Am hynny yntau a ostyngodd eu calon â blinder: syrthiasant, ac nid oedd cynnorthwywr.

13 Yna y gwaeddasant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder: efe a'u hachubodd o'u gorthrymderau.

14 Dûg hwynt allan o dywyllwch, a chysgod angau: a drylliodd eu rhwymau hwynt.

15 O na foliannent yr Arglwydd am ei ddaioni: a'i ryfeddodau i feibion dynion!

16 Canys efe a dorrodd y pyrth prês: ac a ddrylliodd y barrau heiyrn.

17 Ynfydion oblegid eu camweddau: ac o herwŷdd eu hanwireddau a gystuddir.

18 Eu henaid a ffieiddiai bob bwyd: a daethant hŷd byrth angau.

19 Yna y gwaeddasant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder: ac efe a'u hachubodd o'u gorthrymderau.

20 Anfonodd ei air, ac iachâodd hwynt: ac a'u gwaredodd o'u dinystr.

21 O na foliannent yr Arglwydd am ei ddaioni: a'i ryfeddodau i feibion dynion!

22 Aberthant hefyd aberth moliant: a mynegant ei weithredoedd ef mewn gorfoledd.

23 Y rhai a ddisgynnant mewn llongau i'r môr: gan wneuthur eu gorchwyl mewn dyfroedd mawrion.

24 Hwy a welant weithredoedd yr Arglwydd: a'i ryfeddodau yn y dyfnder.

25 Canys efe a orchymmyn, a chyfyd tymhestlwynt: yr hwn a ddyrchafa ei donnau ef.

26 Hwy a esgynnant i'r nefoedd, disgynnant i'r dyfnder: tawdd eu henaid gan flinder.

27 Ymdroant, ac ymsymudant fel meddwŷn: a'u holl ddoethineb a ballodd.

28 Yna y gwaeddant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder: ac efe a'u dŵg allan o'u gorthrymderau.

29 Efe a wnâ yr ystorm yn dawel: a'i thonnau a ostegant.

30 Yna y llawenhânt, am eu gostegu: ac efe a'u dŵg i'r porthladd a ddymunent.

31 O na foliannent yr Arglwydd am ei ddaioni: a'i ryfeddodau i feibion dynion!

32 A dyrchafant ef ynghynulleidfa y bobl: a moliannant ef yn eisteddfod yr henuriaid.

33 Efe a wnâ afonydd yn ddiffeithwch: a ffynhonnau dyfroedd yn sychdir.

34 A thir ffrwythlawn yn ddiffrwyth: am ddrygioni y rhai a drigant ynddo.

35 Efe a drŷ yr anialwch yn llŷn dwfr: a'r tîr cras yn ffynhonnau dwfr.

36 Ac yno y gwnâ i'r newynog aros, fel y darparont ddinas i gyfaneddu:

37 Ac yr hauont feusydd, ac y plannont winllannoedd: y rhai a'ddygant ffrwyth toreithiog.

38 Ac efe a'u bendithia hwynt, fel yr amlhânt yn ddirfawr: ac ni âd i'w hanifeiliaid leihâu.

39 Lleihëir hwynt hefyd, a gostyngir hwynt: gan gyfyngder, drygfyd, a chŷni.

40 Efe a dywalt ddirmyg ar soneddigion: ac a wnâ iddynt grwydro mewn anialwch heb ffordd.

41 Ond efe a gyfyd y tlawd o gystudd: ac a wnâ iddo deuluoedd fel praidd.

42 Y rhai uniawn a welant hyn, ac a lawenychant: a phob anwiredd a gau ei safn.

43 Y neb sydd ddoeth ac a gadwo hyn: hwy a ddeallant drugareddau 'r Arglwydd.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 108. *Paratum cor meum.*

PArod yw fy nghalon, O Dduw: canaf a chanmolaf â'm gogoniant.

2 Deffro y nabl a'r delyn: minnau a ddeffroaf yn fore.

3 Clodforaf di, Arglwydd, ym mŷsg y bobloedd: canmolaf di ym mŷsg y cenhedloedd.

4 Canys mawr yw dy drugaredd oddiar y nefoedd: a'th wirionedd a gyrraedd hŷd yr wybren.

5 Ymddyrcha, O Dduw, uwch y nefoedd: a bydded dy ogoniant ar yr holl ddaear.

6 Fel y gwareder dy rai anwyl: achub â'th ddeheu-law, a gwrando fi.

7 Duw a lefarodd yn ei sancteiddrwydd: Llawenychaf, rhannaf Sichem, a mesuraf ddyffryn Succoth.

8 Eiddo fi yw Gilead, eiddo fi Manasseh: Ephraim hefyd yw nerth fy mhen; Juda yw fy neddfwr.

9 Moab yw fy nghrochan golchi: tros Edom y taflaf fy esgid: buddugoliaethaf ar Philistia.

10 Pwy a'm dŵg i'r ddinas gadarn: pwy a'm dŵg hŷd yn Edom?

11 Onid tydi, O Dduw, yr hwn a'n bwriaist ymaith: ac onid ei di allan, O Dduw, gyd â'n lluoedd?

12 Dyro i ni gynnorthwy rhag cyfyngder: canys gau yw ymwared dŷn.

13 Trwy Dduw y gwnawn wroldeb: canys efe a sathr ein gelynion.

SALM 109. *Deus laudum.*

NA thaw: O Dduw fy moliant.

2 Canys genau 'r annuwiol, a genau y twyllodrus a ymagorasant arnaf: â thafod celwyddog y llefarasant i'm herbyn.

3 Cylchynasant fi hefyd â geiriau cas: ac ymladdasant â mi heb achos.

4 Am fy ngharedigrwydd y'm gwrthwynebant: minnau a arferaf weddi.

5 Talasant hefyd i mi ddrwg am dda: a chas am fy nghariad.

6 Gosod tithau un annuwiol arno ef: a safed Satan wrth ei ddeheu-law ef:

7 Pan farner ef, eled yn euog: a bydded ei weddi yn bechod.

8 Ychydig fyddo ei ddyddiau: a chymmered arall ei swydd ef.

9 Bydded ei blant yn ymddifaid: a'i wraig yn weddw.

10 Gan grwydro hefyd crwydred ei blant ef, a chardottant: ceisiant hefyd eu bara o'u hanghyfannedd-leoedd.

11 Rhwyded y ceisiad yr hyn oll sydd ganddo: ac anrheithied dieithriaid ei lafur ef.

12 Na fydded neb a estynno drugaredd iddo: ac na fydded neb a drugarhao wrth ei ymddifaid ef.

13 Torrer ymaith ei hiliogaeth ef: dileer ei henw yn yr oes nesaf.

14 Cofier anwiredd ei dadau o flaen yr Arglwydd: ac na ddileer pechod ei fam ef.

15 Byddant bob amser ger bron yr Arglwydd: fel y torro efe ymaith eu coffadwriaeth o'r tir.

16 Am na chofiodd wneuthur trugaredd: eithr erlid o hono y truan a'r tlawd, a'r cyſtuddiedig o gàlon, i'w lâdd.

17 Hoffodd felldith, a hi ddaeth iddo: ni fynnai fendith, a hi bellaodd oddi wrtho.

18 Ie gwiſgodd felldith fel dilledyn: a hi a ddaeth fel dwfr i'w fewn, ac fel olew i'w eſgyrn.

19 Bydded iddo fel dilledyn, yr hwn a wiſgo efe: ac fel gwregys a'i gwregyſo ef yn oeſtadol.

20 Hyn fyddo tâl fy ngwrthwynebwŷr gan yr Arglwydd: a'r rhai a ddywedant ddrwg yn erbyn fy enaid.

21 Tithau Arglwydd Dduw, gwnâ erof fi er mwyn dy Enw: am fod yn dda dy drugaredd, gwared fi.

22 Canys truan a thlawd ydwyf fi: am càlon a archollwyd o'm mewn.

23 Aethum fel cyſgod pan gilio: fel locuſt y'm heſgydwir.

24 Fy ngliniau a aethant yn egwan gan ympryd: a'm cnawd a guriodd o eiſiau braſder.

25 Gwaradwydd hefyd oeddwn iddynt: pan welent fi, ſiglent eu pennau.

26 Cynnorthwya fi, O Arglwydd fy Nuw: achub fi yn ôl dy drugaredd.

27 Fel y gŵypont mai dy lâw di yw hyn: mai ti, Arglwydd, a'i gwnaethoſt.

28 Melldithiant hwy, ond bendithia di: cywilyddier hwynt, pan gyfodant, a llawenyched dy wâs.

29 Gwiſger fy ngwrthwynebwŷr â gwarth: ac ymwiſgant â'u cywilydd megis â chochl.

30 Clodforaf yr Arglwydd yn ddirfawr â'm genau: ïe moliannaf ef ym mŷſg llawer.

31 O herwŷdd efe a ſaif ar ddeheu-law 'r tlawd: i'w achub oddiwrth y rhai a farnant ei enaid.

BOREUOL WEDDI.

SALM 110. *Dixit Dominus.*

DYwedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd: Eiſtedd ar fy neheu-law, hŷd oni oſodwyf dy elynion yn faingc i'th draed.

2 Gwialen dy nerth a enfyn yr Arglwydd o Seion; llywodraetha di ynghanol dy elynion.

3 Dy bobl a fyddant ewyllyſgar, yn nŷdd dy nerth, mewn harddwch ſanctteiddrwydd: o grôth y wawr y mae gwlith dy enedigaeth i ti.

4 Tyngodd yr Arglwydd ac nid edifarhâ: Ti wŷt Offeiriad yn dragywyddol yn ôl urdd Melchiſedec.

5 Yr Arglwydd ar dy ddeheu-law: a drywana frenhinoedd yn nŷdd ei ddigofaint.

6 Efe a farn ym mŷſg y cenhedloedd, lleinw leoedd â chelaneddau: archolla ben llawer gwlâd.

7 Efe a ŷf o'r afon ar y ffordd: am hynny y dyrcha efe ei ben.

SALM 111. *Confitebor tibi.*

MOlwch yr Arglwydd. Clodforaf yr Arglwydd â'm holl gàlon: ynghymmanfa y rhai uniawn, ac yn y gynulleidfa.

2 Mawr yw gweithredoedd yr Arglwydd: wedi eu ceiſio gan bawb a'u hoffant.

3 Gogoniant a harddwch yw ei waith ef: a'i gyfiawnder ſydd yn parhâu byth.

4 Gwnaeth goffo ei ryfeddodau: graſlawn a thrugarog yw 'r Arglwydd.

5 Rhoddodd ymborth i'r rhai a'i hofnant ef: efe a gofia ei gyfammod yn dragywydd.

6 Mynegodd i'w bobl gadernid ei weithredoedd: i roddi iddynt etifeddiaeth y cenhedloedd.

7 Gwirionedd a barn yw gweithredoedd ei ddwylaw ef: ei holl orchymynion ydynt ſicr.

8 Wedi eu ſicrhâu byth ac yn dragywydd: a'u gwneuthur mewn gwirionedd, ac uniawnder.

9 Anfonodd ymwared i'w bobl; gorchymynodd ei gyfammod yn dragywyddol: ſanctteiddiol, ac ofnadwy yw ei Enw ef.

10 Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd: deall da ſydd gan y rhai a wnânt ei orchymynion ef; y mae ei foliant ef yn parhâu byth.

SALM 112. *Beatus vir.*

MOlwch yr Arglwydd. Gwŷn ei fŷd y gŵr a ofna 'r Arglwydd: ac ſydd yn hoffi ei orchymynion ef yn ddirfawr.

2 Ei hâd fydd cadarn ar y ddaear: cenhedlaeth y rhai uniawn a fendithir.

3 Golud a chyfoeth fydd yn ei dŷ ef: a'i gyfiawnder ſydd yn parhâu byth.

4 Cyfyd goleuni i'r rhai uniawn yn y tywyllwch: trugarog, a thoſturiol, a chyfiawn yw efe.

5 Gŵr da fydd gymwynaſgar, ac yn rhoddi benthyg: wrth farn y llywodraetha efe ei achoſion.

6 Yn ddïau nid yſgogir ef byth: y cyfiawn fydd byth mewn coffadwriaeth.

7 Nid ofna efe rhag chwedl drwg: ei gàlon ſydd ddifigl, yn ymddiried yn yr Arglwydd.

8 Attegwyd ei gàlon, nid ofna efe: hŷd oni welo ei ewyllys ar ei elynion.

9 Gwaſgarodd, rhoddodd i'r tlodion: a'i gyfiawnder ſydd yn parhâu byth; ei gorn a ddyrchefir mewn gogoniant.

10 Yr annuwiol a wêl hyn, ac a ddigia, efe a yſgyrnyga ei ddannedd; ac a dawdd ymaith: derfydd am ddymuniad y rhai annuwiol.

SALM 113. *Laudate, pueri.*

MOlwch yr Arglwydd. Gweiſion yr Arglwydd, molwch: ïe molwch Enw 'r Arglwydd.

2 Bendigedig fyddo Enw 'r Arglwydd: o hyn allan ac yn dragywydd.

3 O godiad haul hŷd ei fachludiad: moliannus yw enw 'r Arglwydd.

4 Uchel yw yr Arglwydd goruwch yr holl genhedloedd: a'i ogoniant ſydd goruwch y nefoedd.

5 Pwy ſydd fel yr Arglwydd ein Duw ni: yr hwn ſydd yn preſwylio yn uchel?

6 Yr hwn a ymddaroſtwng i edrych y pethau yn y nefoedd: ac yn y ddaear?

7 Efe ſydd yn codi y tlawd o'r llŵch: ac yn dyrchafu yr anghennus o'r dommen;

8 I'w oſod gyd â phendefigion: ïe gyd â phendefigion ei bobl.

9 Yr hwn a wnâ i'r ammhlantadwy gadw tŷ: a bod yn llawen fam plant. Canmolwch yr Arglwydd.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 114. *In exitu Iſrael.*

PAN aeth Iſrael o'r Aipht: tŷ Jacob oddiwrth bobl anghyfiaith.

2 Juda oedd ei ſanctteiddrwydd: ac Iſrael ei arglwyddiaeth.

3 Y môr a welodd hyn, ac a giliodd: yr Iorddonen a drôdd yn ôl.

4 Y mynyddoedd a neidiaſant fel hyrddod: a'r brynniau fel ŵyn defaid.

5 Beth a ddarfu i ti, O fôr, pan giliaiſt: tithau Iorddonen, pa ham y troaiſt yn ôl?

6 Pa ham fynyddoedd y neidiech fel hyrddod: a'r brynniau fel ŵyn defaid?

7 Ofna di ddaear, rhag yr Arglwydd: rhag Duw Jacob.

8 Yr hwn ſydd yn troi 'r graig yn llŷn dwfr: a'r galleſtr yn ffynnon dyfroedd.

SALM

SALM 115. *Non nobis, Domine.*

NID i ni, O Arglwydd, nid i ni, onid i'th Enw dy hun dôd ogoniant: er mwyn dy drugaredd, er mwyn dy wirionedd.

2 Pa ham y dywedai y cenhedloedd: pa le yn awr y mae eu Duw hwynt?

3 Ond ein Duw ni ſydd yn y nefoedd: efe a wnaeth yr hyn a fynnodd oll.

4 Eu delwau hwy ydynt o aur ac arian: gwaith dwylaw dynion.

5 Genau ſydd iddynt, ond ni leferant: llygaid ſydd ganddynt, ond ni welant.

6 Y mae cluſtiau iddynt, ond ni chlywant: ffroenau ſydd ganddynt, ond ni aroglant.

7 Dwylaw ſydd iddynt ond ni theimlant, traed ſŷ iddynt, ond ni cherddant: ni leiſiant chwaith â'u gwddf.

8 Y rhai a'u gwnânt ydynt fel hwythau: a phob un a ymddiriedo ynddynt.

9 O Iſrael, ymddiried ti yn yr Arglwydd: efe yw eu porth, a'u tarian.

10 Tŷ Aaron, ymddiriedwch yn yr Arglwydd: efe yw eu porth, a'u tarian.

11 Y rhai a ofnwch yr Arglwydd, ymddiriedwch yn yr Arglwydd: efe yw eu porth a'u tarian.

12 Yr Arglwydd a'n cofiodd ni, efe a'n bendithia: bendithia efe dŷ Iſrael, bendithia efe dŷ Aaron.

13 Bendithia efe y rhai a ofnant yr Arglwydd: ſychain, a mawrion.

14 Yr Arglwydd a'ch ychwanega chwi fwy-fwy: chwychwi a'ch plant hefyd.

15 Bendigedig ydych chwi gan yr Arglwydd: yr hwn a wnaeth nêf a daear.

16 Y nefoedd, ïe 'r nefoedd ydynt eiddo yr Arglwydd: a'r ddaear a roddes efe i feibion dynion.

17 Y meirw ni foliannant yr Arglwydd: na'r neb ſydd yn diſgyn i ddiſtawrwydd.

18 Ond nyni a fendithiwn yr Arglwydd: o hyn allan, ac yn dragywydd. Molwch yr Arglwydd.

BOREUOL WEDDI.

SALM 116. *Dilexi, quoniam.*

DÂ gennyf wrando o'r Arglwydd: ar ſy llêf a'm gweddiau.

2 Am oſtwng o hono ei glûſt attaf: am hynny llefaf tros fy nyddiau arno ef.

3 Gofidiau angau a'm cylchynaſant, a gofidiau uffern a'm daliaſant: ing a blinder a gefais.

4 Yna y gelwais ar Enw 'r Arglwydd: attolwg, Arglwydd, gwared fy enaid.

5 Graſlawn yw 'r Arglwydd, a chyfiawn: a thoſturiol yw ein Duw ni.

6 Yr Arglwydd ſydd yn cadw y rhai annichellgar: tlodais, ac efe a'm hachubodd.

7 Dychwel, O fy enaid, i'th orphwyſfa: canys yr Arglwydd ſu dda wrthyt.

8 O herwŷdd it' waredu fy enaid oddi wrth angau: fy llygaid oddi wrth ddagrau, a'm traed rhag llithro.

9 Rhodiaf o flaen yr Arglwydd: yn nhîr y rhai byw.

10 Credais, am hynny y lleferais: cyſtuddiwyd fi yn ddirfawr.

11 Mi a ddywedais yn fy ffrŵſt: Pob dŷn ſydd gelŵyddog.

12 Beth a dalaf i'r Arglwydd: am ei holl ddoniau i mi?

13 Phiol iachawdwriaeth a gymmeraf: ac ar Enw 'r Arglwydd y galwaf.

14 Fy addunedau a dalaf i'r Arglwydd: yn awr yngŵydd ei holl bobl ef.

15 Gwerthfawr yngolwg yr Arglwydd: yw marwolaeth ei Saint ef.

16 O Arglwydd, yn ddïau dy wâs di ydwyf fi, dy wâs di ydwyf fi: mâb dy waſanaeth-wraig, dattodaiſt fy rhwymau.

17 Aberthaf i ti aberth moliant: a galwaf ar Enw 'r Arglwydd.

18 Talaf ſy addunedau i'r Arglwydd: yn awr yngŵydd ei holl bobl.

19 Yngnhynteddoedd tŷ 'r Arglwydd: yn dy ganol di, O Jeruſalem. Molwch yr Arglwydd.

SALM 117. *Laudate Dominum.*

MOlwch yr Arglwydd yr holl genhedloedd: clodforwch ef, yr holl bobloedd.

2 O herwŷdd ei drugaredd ef tu ag attom ni ſydd fawr: a gwirionedd yr Arglwydd a bery yn dragywydd. Molwch yr Arglwydd.

SALM 118. *Confitemini Domino.*

CLodforwch yr Arglwydd, canys da yw: o herwŷdd ei drugaredd a bery yn dragywydd.

2 Dyweded Iſrael yr awr hon: ſod ei drugaredd ef yn parhâu yn dragywydd.

3 Dyweded tŷ Aaron yn awr: ſod ei drugaredd ef yn parhâu yn dragywydd.

4 Yn awr dyweded y rhai a ofnant yr Arglwydd: ſod ei drugaredd ef yn parhâu yn dragywydd.

5 Mewn ing y gelwais ar yr Arglwydd: yr Arglwydd a'm clybu, ac a'm goſodod mewn ehangder.

6 Yr Arglwydd ſydd gyd â mi: nid ofnaf beth a wnâ dŷn i mi.

7 Yr Arglwydd ſydd gyd â mi, ym mhlith fy nghynorthwywŷr: am hynny y câf weled ſy ewyllys ar fy nghaſeion.

8 Gwell yw gobeithio yn yr Arglwydd: nag ymddiried mewn dŷn.

9 Gwell yw gobeithio yn yr Arglwydd: nag ymddiried mewn tywyſogion.

10 Yr holl genhedloedd a'm hamgylchynaſant: ond yn Enw 'r Arglwydd, mi a'u torraf hwynt ymaith.

11 Amgylchynaſant fi, ïe amgylchynaſant fi: ond yn Enw 'r Arglwydd mi a'u torraf hwynt ymaith.

12 Amgylchynaſant fi fel gwenyn, diffoddaſant fel tân drain: o herwŷdd yn Enw 'r Arglwydd, mi a'u torraf hwynt ymaith.

13 Can wthio y gwthiaiſt fi fel y ſyrthiwn: ond yr Arglwydd a'm cynorthwyodd.

14 Yr Arglwydd yw fy nerth a'm cân: ac ſydd iachawdwriaeth i mi.

15 Llêf gorfoledd a iachawdwriaeth ſydd ym mhebyll y cyfiawn: deheu-law 'r Arglwydd ſydd yn gwneuthur grymmuſder.

16 Deheu-law 'r Arglwydd a ddyrchafwyd: deheu-law 'r Arglwydd ſydd yn gwneuthur grymmuſder.

17 Ni byddaf farw, onid byw: a mynegaf weithredoedd yr Arglwydd.

18 Gan goſpi y'm coſpodd yr Arglwydd: ond ni'm rhoddodd i farwolaeth.

19 Agorwch i mi byrth cyfiawnder: âf i mewn iddynt, a chlodforaf yr Arglwydd.

20 Dyma borth yr Arglwydd: y rhai cyfiawn a ânt i mewn iddo.

21 Clodforaf di, o herwŷdd i ti fy ngwrando: a'th fod yn iachawdwriaeth i mi.

22 Y maen a wrthodod yr adeiladwŷr: a aeth yn ben i'r gongl.

23 O'r Arglwydd y daeth hyn: hyn oedd ryfedd yn ein golwg ni.

24 Dyma 'r dŷdd a wnaeth yr Arglwydd: gorfoleddwn, a llawenychwn ynddo.

25 Attolwg, Arglwydd, achub yn awr: attolwg, Arglwydd, pâr yn awr lwyddiant.

26 Bendigedig yw a ddêl yn Enw 'r Arglwydd: bendithiaſom chwi o dŷ 'r Arglwydd.

16 Am na chofiodd wneuthur trugaredd: eithr erlid o hono y truan a'r tlawd, a'r cyſtuddiedig o gàlon, i'w lâdd.

17 Hoffodd felldith, a hi ddaeth iddo: ni fynnai fendith, a hi bellaodd oddi wrtho.

18 Ie gwiſgodd felldith fel dilledyn: a hi a ddaeth fel dwfr i'w fewn, ac fel olew i'w eſgyrn.

19 Bydded iddo fel dilledyn, yr hwn a wiſgo efe: ac fel gwregys a'i gwregyſo ef yn oeſtadol.

20 Hyn fyddo tâl fy ngwrthwynebwŷr gan yr Arglwydd: a'r rhai a ddywedant ddrwg yn erbyn fy enaid.

21 Tithau Arglwydd Dduw, gwnâ erof fi er mwyn dy Enw: am fod yn dda dy drugaredd, gwared fi.

22 Canys truan a thlawd ydwyf fi: am càlon a archollwyd o'm mewn.

23 Aethum fel cyſgod pan gilio: fel locuſt y'm heſgydwir.

24 Fy ngliniau a aethant yn egwan gan ympryd: a'm cnawd a guriodd o eiſiau braſder.

25 Gwaradwydd hefyd oeddwn iddynt: pan welent fi, ſiglent eu pennau.

26 Cynnorthwya fi, O Arglwydd fy Nuw: achub fi yn ôl dy drugaredd.

27 Fel y gŵypont mai dy lâw di yw hyn: mai ti, Arglwydd, a'i gwnaethoſt.

28 Melldithiant hwy, ond bendithia di: cywilyddier hwynt, pan gyfodant, a llawenyched dy wâs.

29 Gwiſger fy ngwrthwynebwŷr â gwarth: ac ymwiſgant â'u cywilydd megis â chochl.

30 Clodforaf yr Arglwydd yn ddirfawr â'm genau: ïe moliannaf ef ym mŷſg llawer.

31 O herwŷdd efe a ſaif ar ddeheu-law 'r tlawd: i'w achub oddiwrth y rhai a farnant ei enaid.

BOREUOL WEDDI.

SALM 110. *Dixit Dominus.*

DYwedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd: Eiſtedd ar fy neheu-law, hŷd oni oſodwyf dy elynion yn faingc i'th draed.

2 Gwialen dy nerth a enfyn yr Arglwydd o Seion: llywodraetha di ynghanol dy elynion.

3 Dy bobl a fyddant ewyllyſgar, yn nŷdd dy nerth, mewn harddwch ſanctteiddrwydd: o grôth y wawr y mae gwlith dy enedigaeth i ti.

4 Tyngodd yr Arglwydd ac nid edifarhâ: Ti wyt Offeiriad yn dragywyddol yn ôl urdd Melchiſedec.

5 Yr Arglwydd ar dy ddeheu-law: a drywana frenhinoedd yn nŷdd ei ddigofaint.

6 Efe a farn ym mŷſg y cenhedloedd, lleinw leoedd â chelaneddau: archolla ben llawer gwlâd.

7 Efe a ŷf o'r afon ar y ffordd: am hynny y dyrcha efe ei ben.

SALM 111. *Confitebor tibi.*

MOlwch yr Arglwydd. Clodforaf yr Arglwydd â'm holl gàlon: ynghymmanſa y rhai uniawn, ac yn y gynulleidfa.

2 Mawr yw gweithredoedd yr Arglwydd: wedi eu ceiſio gan bawb a'u hoffant.

3 Gogoniant a harddwch yw ei waith ef: a'i gyfiawnder ſydd yn parhâu byth.

4 Gwnaeth gofio ei ryfeddodau: graſlawn a thrugarog yw 'r Arglwydd.

5 Rhoddodd ymborth i'r rhai a'i hofnant ef: efe a gofia ei gyfammod yn dragywydd.

6 Mynegodd i'w bobl gadernid ei weithredoedd: i roddi iddynt etifeddiaeth y cenhedloedd.

7 Gwirionedd a barn yw gweithredoedd ei ddwylaw ef: ei holl orchymynion ydynt ſicr.

8 Wedi eu ſicrhâu byth ac yn dragywydd: a'u gwnaeth mewn gwirionedd, ac uniawnder.

9 Anfonodd ymwared i'w bobl; gorchymynodd ei gyfammod yn dragywyddol: ſanctteiddiol, ac oſnadwy yw ei Enw ef.

10 Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd: deall da ſydd gan y rhai a wnânt ei orchymynion ef; y mae ei foliant ef yn parhâu byth.

SALM 112. *Beatus vir.*

MOlwch yr Arglwydd. Gwŷn ei fŷd y gŵr a ofna 'r Arglwydd: ac ſydd yn hoffi ei orchymynion ef yn ddirfawr.

2 Ei hâd fydd cadarn ar y ddaear: cenhedlaeth y rhai uniawn a fendithir.

3 Golud a chyfoeth fydd yn ei dŷ ef: a'i gyfiawnder ſydd yn parhâu byth.

4 Cyfyd goleuni i'r rhai uniawn yn y tywyllwch: trugarog, a thoſturiol, a chyfiawn yw efe.

5 Gŵr da fydd gymwynaſgar, ac yn rhoddi benthyg: wrth farn y llywodraetha efe ei achoſion.

6 Yn ddiau nid yſgogir ef byth: y cyfiawn fydd byth mewn coffadwriaeth.

7 Nid ofna efe rhag chwedl drwg: ei gàlon ſydd ddifigl, yn ymddiried yn yr Arglwydd.

8 Attegwyd ei gàlon, nid ofna efe: hŷd oni welo ei ewyllys ar ei elynion.

9 Gwaſgarodd, rhoddodd i'r tlodion: a'i gyfiawnder ſydd yn parhâu byth; ei gorn a ddyrchefir mewn gogoniant.

10 Yr annuwiol a wêl hyn, ac a ddigia, efe a yſgyrnyga ei ddannedd; ac a dawdd ymaith: derfydd am ddymuniad y rhai annuwiol.

SALM 113. *Laudate, pueri.*

MOlwch yr Arglwydd. Gweiſion yr Arglwydd, molwch: ïe molwch Enw 'r Arglwydd.

2 Bendigedig fyddo Enw 'r Arglwydd: o hyn allan ac yn dragywydd.

3 O godiad haul hŷd ei fachludiad: moliannus yw enw 'r Arglwydd.

4 Uchel yw yr Arglwydd goruwch yr holl genhedloedd: a'i ogoniant ſydd goruwch y nefoedd.

5 Pwy ſydd fel yr Arglwydd ein Duw ni: yr hwn ſydd yn preſwylio yn uchel?

6 Yr hwn a ymddaroſtwng i edrych y pethau yn y nefoedd: ac yn y ddaear?

7 Efe ſydd yn codi y tlawd o'r llŵch: ac yn dyrchafu yr anghennus o'r dommen;

8 I'w oſod gyd â phendefigion: ïe gyd â phendefigion ei bobl.

9 Yr hwn a wnâ i'r ammhiantadwy gadw tŷ: a bod yn llawen fam plant. Canmolwch yr Arglwydd.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 114. *In exitu Iſrael.*

PAN aeth Iſrael o'r Aipht: tŷ Jacob oddiwrth bobl anghyfiaith.

2 Juda oedd ei ſanctteiddrwydd: ac Iſrael ei arglwyddiaeth.

3 Y môr a welodd hyn, ac a giliodd: yr Iorddonen a drôdd yn ôl.

4 Y mynyddoedd a neidiaſant fel hyrddod: a'r brynniau fel wŷn defaid.

5 Beth a ddarfu i ti, O fôr, pan giliaiſt: tithau Iorddonen, pa ham y troaiſt yn ôl?

6 Pa ham fynyddoedd y neidiech fel hyrddod: a'r brynniau fel wŷn defaid?

7 Ofna di ddaear, rhag yr Arglwydd: rhag Duw Jacob.

8 Yr hwn ſydd yn troi 'r graig yn llŷn dwfr: a'r galleſtr yn ffynnon dyfroedd.

SALM

SALM 115. *Non nobis, Domine.*

NID i ni, O Arglwydd, nid i ni, onid i'th Enw dy hun dôd ogoniant: er mwyn dy drugaredd, er mwyn dy wirionedd.

2 Pa ham y dywedai y cenhedloedd: pa le yn awr y mae eu Duw hwynt?

3 Ond ein Duw ni ſydd yn y nefoedd: efe a wnaeth yr hyn a fynnodd oll.

4 Eu delwau hwy ydynt o aur ac arian: gwaith dwylaw dynion.

5 Genau ſydd iddynt, ond ni leſarant: llygaid ſydd ganddynt, ond ni welant.

6 Y mae cluſtiau iddynt, ond ni chlywant: ffroenau ſydd ganddynt, ond ni aroglant.

7 Dwylaw ſydd iddynt ond ni theimlant, traed ſy iddynt, ond ni cherddant: ni leiſiant chwaith â'u gwddf.

8 Y rhai a'u gwnânt ydynt fel hwythau: a phob un a ymddiriedo ynddynt.

9 O Iſrael, ymddiried ti yn yr Arglwydd: efe yw eu porth, a'u tarian.

10 Tŷ Aaron, ymddiriedwch yn yr Arglwydd: efe yw eu porth, a'u tarian.

11 Y rhai a ofnwch yr Arglwydd, ymddiriedwch yn yr Arglwydd: efe yw eu porth a'u tarian.

12 Yr Arglwydd a'n cofiodd ni, efe a'n bendithia: bendithia efe dŷ Iſrael, bendithia efe dŷ Aaron.

13 Bendithia efe y rhai a ofnant yr Arglwydd: ſychain, a mawrion.

14 Yr Arglwydd a'ch ychwanega chwi fwy-fwy: chwychwi a'ch plant hefyd.

15 Bendigedig ydych chwi gan yr Arglwydd: yr hwn a wnaeth nêf a daear.

16 Y nefoedd, ïe 'r nefoedd ydynt eiddo yr Arglwydd: a'r ddaear a roddes efe i feibion dynion.

17 Y meirw ni foliannant yr Arglwydd: na'r neb ſydd yn diſgyn i ddiſtawrwydd.

18 Ond nyni a fendithiwn yr Arglwydd: o hyn allan, ac yn dragywydd. Molwch yr Arglwydd.

BOREUOL WEDDI.

SALM 116. *Dilexi, quoniam.*

DA gennyf wrando o'r Arglwydd: ar fy llêf a'm gweddiau.

2 Am oſtwng o hono ei glûſt attaf: am hynny lleſaf tros fy nyddiau arno ef.

3 Gofidiau angau a'm cylchynaſant, a gofidiau uffern a'm daliaſant: ing a blinder a gefais.

4 Yna y gelwais ar Enw 'r Arglwydd: attolwg, Arglwydd, gwared fy enaid.

5 Graſlawn yw 'r Arglwydd, a chyfiawn: a thoſturiol yw ein Duw ni.

6 Yr Arglwydd ſydd yn cadw y rhai annichellgar: tlodais, ac efe a'm hachubodd.

7 Dychwel, O fy enaid, i'th orphwyſfa: canys yr Arglwydd ſu dda wrthyt.

8 O herwŷdd it' waredu fy enaid oddi wrth angau: fy llygaid oddi wrth ddagrau, a'm traed rhag llithro.

9 Rhodiaf o flaen yr Arglwydd: yn nhîr y rhai byw.

10 Credais, am hynny y lleferais: cyſtuddiwyd fi yn ddirfawr.

11 Mi a ddywedais yn fy ffrŵſt: Pob dŷn ſydd gelŵyddog.

12 Beth a dalaf i'r Arglwydd: am ei holl ddoniau i mi?

13 Phïol iachawdwriaeth a gymmeraf: ac ar Enw 'r Arglwydd y galwaf.

14 Fy addunedau a dalaf i'r Arglwydd: yn awr yngŵydd ei holl bobl ef.

15 Gwerthfawr yngolwg yr Arglwydd: yw marwolaeth ei Saint ef.

16 O Arglwydd, yn ddïau dy wâs di ydwyf fi, dy wâs di ydwyf fi: mâb dy waſanaeth-wraig, dattodaiſt fy rhwymau.

17 Aberthaf i ti aberth moliant: a galwaf ar Enw 'r Arglwydd.

18 Talaf ſy addunedau i'r Arglwydd: yn awr yngŵydd ei holl bobl.

19 Ynghynteddoedd tŷ 'r Arglwydd: yn dy ganol di, O Jeruſalem. Molwch yr Arglwydd.

SALM 117. *Laudate Dominum.*

MOlwch yr Arglwydd yr holl genhedloedd: clodforwch ef, yr holl bobloedd.

2 O herwŷdd ei drugaredd ef tu ag attom ni ſydd fawr: a gwirionedd yr Arglwydd a bery yn dragywydd. Molwch yr Arglwydd.

SALM 118. *Confitemini Domino.*

CLodforwch yr Arglwydd, canys da yw: o herwŷdd ei drugaredd a bery yn dragywydd.

2 Dyweded Iſrael yr awr hon: ſod ei drugaredd ef yn parhâu yn dragywydd.

3 Dyweded tŷ Aaron yn awr: ſod ei drugaredd ef yn parhâu yn dragywydd.

4 Yn awr dyweded y rhai a ofnant yr Arglwydd: ſod ei drugaredd ef yn parhâu yn dragywydd.

5 Mewn ing y gelwais ar yr Arglwydd: yr Arglwydd a'm clybu, ac a'm goſodod mewn ehangder.

6 Yr Arglwydd ſydd gyd â mi: nid ofnaf beth a wnâ dŷn i mi.

7 Yr Arglwydd ſydd gyd â mi, ym mhlith fy nghynorthwywŷr: am hynny y câf weled fy ewyllys ar fy nghaſeion.

8 Gwell yw gobeithio yn yr Arglwydd: nag ymddiried mewn dŷn.

9 Gwell yw gobeithio yn yr Arglwydd: nag ymddiried mewn tywyſogion.

10 Yr holl genhedloedd a'm hamgylchynaſant: ond yn Enw 'r Arglwydd, mi a'u torraf hwynt ymaith.

11 Amgylchynaſant fi, ïe amgylchynaſant fi: ond yn Enw 'r Arglwydd mi a'u torraf hwynt ymaith.

12 Amgylchynaſant fi fel gwenyn, diffoddaſant fel tân drain: o herwŷdd yn Enw 'r Arglwydd, mi a'u torraf hwynt ymaith.

13 Can wthio y gwthiaiſt fi fel y ſyrthiwn: ond yr Arglwydd a'm cynorthwyodd.

14 Yr Arglwydd yw fy nerth a'm cân: ac ſydd iachawdwriaeth i mi.

15 Llêf gorfoledd a iachawdwriaeth ſydd ym mhebyll y cyfiawn: deheu-law 'r Arglwydd ſydd yn gwneuthur grymmuſder.

16 Deheu-law 'r Arglwydd a ddyrchafwyd: deheu-law 'r Arglwydd ſydd yn gwneuthur grymmuſder.

17 Ni byddaf farw, onid byw: a mynegaf weithredoedd yr Arglwydd.

18 Gan goſpi y'm coſpodd yr Arglwydd: ond ni'm rhoddodd i farwolaeth.

19 Agorwch i mi byrth cyfiawnder: âf i mewn iddynt, a chlodforaf yr Arglwydd.

20 Dyma borth yr Arglwydd: y rhai cyfiawn a ânt i mewn iddo.

21 Clodforaf di, o herwŷdd i ti fy ngwrando: a'th fod yn iachawdwriaeth i mi.

22 Y maen a wrthododd yr adeiladwŷr: a aeth yn ben i'r gongl.

23 O'r Arglwydd y daeth hyn: hyn oedd ryfedd yn ein golwg ni.

24 Dyma 'r dŷdd a wnaeth yr Arglwydd: gorfoleddwn, a llawenychwn ynddo.

25 Attolwg, Arglwydd, achub yn awr: attolwg, Arglwydd, pâr yn awr lwyddiant.

26 Bendigedig yw a ddêl yn Enw 'r Arglwydd: bendithiaſom chwi o dŷ 'r Arglwydd.

27 Duw yw 'r Arglwydd, yr hwn a lewyrchodd i ni: rhwymwch yr aberth â rhaffau, hyd wrth gyrn yr allor.

28 Fy Nuw ydwyt ti, mi a'th glodforaf: dyrchafaf di, fy Nuw.

29 Clodforwch yr Arglwydd, canys da yw: o herwŷdd yn dragywydd y pery ei drugaredd ef.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 119. *Beati immaculati.*

GWŷn fyd y rhai perffaith eu ffordd: y rhai a rodiant ynghyfraith yr Arglwydd.

2 Gwŷn fyd y rhai a gadwant ei dyſtiolaethau ef: ac a'i ceiſiant ef â'u holl gâlon.

3 Y rhai hefyd ni wnânt anwiredd: hwy a rodiant yn ei ffyrdd ef.

4 Ti a orchymynaiſt: gadw dy orchymynion yn ddyſal.

5 O am gyfeirio fy ffyrdd: i gadw dy ddeddfau!

6 Yna ni'm gwaradwyddid: pan edrychwn ar dy holl orchymynion.

7 Clodforaf di ag uniondeb câlon: pan ddyſgwyf farnedigaethau dy gyfiawnder.

8 Cadwaf dy ddeddfau: na âd fi 'n hollol.

In quo corriget?

PA fodd y glanhâ llangc ei lwybr? wrth ymgadw yn ôl dy air di.

2 A'm holl gâlon y'th geiſiais: na âd i mi gyfeilliorni oddiwrth dy orchymynion.

3 Cuddiais dy ymadroddion yn fy nghâlon: fel na phechwn i'th erbyn.

4 Ti, Arglwydd, ŵyt fendigedig: dyſg i mi dy ddeddfau.

5 A'm gwefuſau y traethais: holl farnedigaethau dy enau.

6 Bu mŵr llawen gennyf ffordd dy dyſtiolaethau: â'r holl olud.

7 Yn dy orchymynion y myfyriaf: ac ar dy lwybrau yr edrychaf.

8 Yn dy ddeddfau 'r ymddigriſaf: nid anghofiaf dy air.

Retribue ſervo tuo.

BYdd dda wrth dy wâs: fel y byddwyf byw, ac y cadwyf dy air.

2 Dadguddia fy llygaid: fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di.

3 Dieithr ydwyf fi ar y ddaear: na chûdd di rhagof dy orchymynion.

4 Dryllîwyd fy enaid gan awŷdd: i'th farnedigaethau bob amſer.

5 Ceryddaiſt y beilchion: melldigedig yw y rhai a gyfeilliornant oddi wrth dy orchymynion.

6 Tro oddi wrthyf gywilydd a dirmyg: oblegid dy dyſtiolaethau di a gedwais.

7 Tywyſogion hefyd a eiſteddaſant, ac a ddywedaſant i'm herbyn: dy wâs dithau a fyfyriai yn dy ddeddfau.

8 A'th dyſtiolaethau oeddynt fy hyfrydwch; a'm cynghorwŷr.

Adhæſit pavimento.

GLynodd fy enaid wrth y llŵch: bywhâ fi 'n ôl dy air.

2 Fy ffyrdd a fynegais, a gwrandewaiſt fi: dyſg i mi dy ddeddfau.

3 Gwnâ i mi ddeall ffordd dy orchymynion: ac mi a fyfyriaf yn dy ryfeddodau.

4 Diferodd fy enaid gan ofid: nertha fi 'n ôl dy air.

5 Cymmer oddi wrthyf ffordd y celwŷdd: ac yn raſlawn dôd i mi dy gyfraith.

6 Dewiſais ffordd gwirionedd: goſodais dy farnedigaethau o'm blaen.

7 Glynais wrth dy dyſtiolaethau: O Arglwydd, na'm gwaradwydda.

8 Ffordd dy orchymynion a redaf: pan ehangech fy nghâlon.

BOREUOL WEDDI.

Legem pone.

DYſg i mi, O Arglwydd, ffordd dy ddeddfau: a chadwaf hi hŷd y diwedd.

2 Gwnâ i mi ddeall, a chadwaf dy gyfraith: ïe cadwaf hi â'm holl gâlon.

3 Gwnâ i mi gerdded yn llwybr dy orchymynion: canys ynddo y mae fy ewyllys.

4 Goſtwng fy nghâlon at dy dyſtiolaethau: ac nid at gybydd-dra.

5 Tro heibio fy llygaid, rhag edrych ar wagedd; a bywhâ fi yn dy ffyrdd.

6 Sicrhâ dy air i'th wâs: yr hwn ſy 'n ymroddi i'th ofn di.

7 Tro heibio fy ngwaradwydd yr ŵyf yn ei ofni: canys dy farnedigaethau ſydd dda.

8 Wele, awŷddus ydwyf i'th orchymynion; gwnâ i mi fyw yn dy gyfiawnder.

Et veniat ſuper me.

DEued i mi dy drugaredd Arglwydd: a'th iachawdwriaeth yn ôl dy air.

2 Yna yr attebaf i'm cablydd: o herwŷdd yn dy air y gobeithiais.

3 Na ddŵg dithau air y gwirionedd o'm genau yn llwyr: o herwŷdd yn dy farnedigaethau di y gobeithiais.

4 A'th gyfraith a gadwaf yn oeſtadol: byth ac yn dragywydd.

5 Rhodiaf hefyd mewn ehangder: o herwŷdd dy orchymynion di a geiſiaf.

6 Ac am dy dyſtiolaethau di y llefaraf o flaen brenhinoedd: ac ni bydd cywilydd gennyf.

7 Ac ymddigriſaf yn dy orchymynion: y rhai a hoffais.

8 A'm dwylaw a ddyrchafaf at dy orchymynion, y rhai a gerais: ac mi a fyfyriaf yn dy ddeddfau.

Memor eſto ſervi tui.

COfia y gair wrth dy wâs: yn yr hwn y peraiſt i mi obeithio.

2 Dyma fy nghyſſur yn fy nghyſtudd: canys dy air di a'm bywhaodd i.

3 Y beilchion a'm gwatworaſant yn ddirfawr: er hynny ni throais oddiwrth dy gyfraith di.

4 Cofiais, O Arglwydd, dy farnedigaethau erîôed: ac ymgyſſurais.

5 Dychryn a ddaeth arnaf oblegid yr annuwiolion: y rhai ſydd yn gadu dy gyfraith di.

6 Dy ddeddfau oedd ſy nghân: yn nhŷ fy mhererindod.

7 Cofiais dy Enw, Arglwydd, y nôs: a chedwais dy gyfraith.

8 Hyn oedd gennyf: am gadw o honof dy orchymynion di.

Portio mea, Domine.

O Arglwydd, fy rhân ydwyt: dywedais y cadwn dy eiriau.

2 Ymbiliais â'th wyneb â'm holl gâlon: trugarhâ wrthyf yn ôl dy air.

3 Meddyliais am fy ffyrdd: a throais fy nhraed at dy dyſtiolaethau di.

4 Bryſiais, ac nid oedais: gadw dy orchymynion.

5 Mintcioedd yr annuwiolion a'm hyſpeiliaſant: ond nid anghofiais dy gyfraith di.

6 Hanner nôs y cyfodaf i'th foliannu: am farnedigaethau dy gyfiawnder.

7 Cyfaill ydwyf fi i'r rhai oll a'th ofnant: ac i'r rhai a gadwant dy orchymynion.

8 Llawn

8 Llawn yw'r ddaear o'th drugaredd, O Arglwydd: dyſg i mi dy ddeddfau.

Bonitatem feciſti.

GWnaethoſt yn dda â'th wâs, O Arglwydd: yn ôl dy air.

2 Dyſg i mi iawn ddeall a gwybodaeth: o herwŷdd dy orchymynion di a gredais.

3 Cyn fy nghyſtuddio yr oeddwn yn cyfeiliorni: ond yn awr, cedwais dy air di.

4 Da ydwyt, a daionus: dyſg i mi dy ddeddfau.

5 Y beilchion a glyttiaſant gelŵydd i'm herbyn: minnau a gadwaf dy orchymynion â'm holl galon.

6 Cyn fraſed a'r bloneg yw eu calon: minnau a ymddigrifais yn dy gyfraith di.

7 Da yw i mi fy nghyſtuddio: fel y dyſgwn dy ddeddfau.

8 Gwell i mi gyfraith dy enau: nâ miloedd o aur ac arian.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

Manus tuæ fecerunt me.

DY ddwylaw a'm gwnaethant, ac a'm lluniaſant: pâr i mi ddeall, fel y dyſgwyf dy orchymynion.

2 Y rhai a'th ofnant, a'm gwelant, ac a lawenychant: oblegid gobeithio o honof yn dy air di.

3 Gwn, Arglwydd, mai cyfiawn yw dy farnedigaethau: ac mai mewn ffyddlondeb y'm cyſtuddiaiſt.

4 Bydded attolwg dy drugaredd i'm cyſſuro: yn ôl dy air i'th waſanaethwr.

5 Deued i mi dy drugareddau, fel y byddwyf byw: o herwŷdd dy gyfraith yw fy nigrifwch.

6 Cywilyddier y beilchion, canys gwnânt gam a mi yn ddiachos: ond myfi a fyfyriaf yn dy orchymynion.

7 Tröer attaf fi y rhai a'th ofnant di: a'r rhai a adwaenant dy dyſtiolaethau.

8 Bydded fy nghàlon yn berffaith yn dy ddeddfau: fel na'm cywilyddier.

Defecit anima mea.

DIffygiodd fy enaid am dy iachawdwriaeth: wrth dy air yr ydwyf yn diſgwyl.

2 Y mae fy llygaid yn pallu am dy air: gan ddywedyd, Pa bryd y'm diddeni?

3 Canys ydwyf fel coſtrel mewn mŵg: ond nid anghofiais dy ddeddfau.

4 Pa nifer yw dyddiau dy wâs: pa bryd y gwnei farn ar y rhai a'm herlidiant?

5 Y beilchion a gloddiaſant byllau i mi: yr hyn nid yw wrth dy gyfraith di.

6 Dy holl orchymynion ydynt wirionedd: ar gam y'm herlidiaſant, cymmorth fi.

7 Braidd na'm diſaſant ar y ddaear: minnau ni adewais dy orchymynion.

8 Bywhâ fi yn ôl dy drugaredd: felly y cadwaf dyſtiolaeth dy enau.

In æternum, Domine.

YN dragywydd, O Arglwydd: y mae dy air wedi ei ſicrhau yn y nefoedd.

2 Dy wirionedd ſydd hŷd genhedlaeth a chenhedlaeth: ſeiliaiſt y ddaear, a hi a ſaif.

3 Wrth dy farnedigaethau y ſafant heddyw: canys dy weiſion yw pob peth.

4 Oni bai ſod dy ddeddf yn hyfrydwch i mi: darfuaſai yna am danaf yn fy nghyſtudd.

5 Byth nid anghofiaf dy orchymynion: canys â hwynt i'm bywheaiſt.

6 Eiddo ti ydwyf, cadw fi: o herwŷdd dy orchymynion a geiſiais.

7 Y rhai annuwiol a ddiſgwyliaſant am danaf, i'm diſetha: ond dy dyſtiolaethau di a yſtyriaf fi.

8 Yr ydwyf yn gweled diwedd ar bob perffeithrwydd: ond dy orchymmyn di ſydd dra ehang.

Quomodo dilexi!

MOR gu gennyf dy gyfraith di! hi yw fy myfyrdod beunydd.

2 A'th orchymynion yr ydwyt yn fy ngwneuthur yn ddoethach nâ'm gelynion: canys byth y maent gyd â mi.

3 Deallais fwy nâ'm holl athrawŏn: o herwŷdd dy dyſtiolaethau yw fy myfyrdod.

4 Deallais yn well nâ'r henuriaid: am fy mod yn cadw dy orchymynion di.

5 Atteliais fy nhraed oddiwrth bob llwybr drwg: fel y cadwn dy air di.

6 Ni chiliais oddiwrth dy farnedigaethau: o herwŷdd ti a'm dyſgaiſt.

7 Mŏr ſelus yw dy eiriau i'm genau: meluſach nâ mêl i'm ſafn.

8 Trwy dy orchymynion di y pwyllais: am hynny y caſeais bob gau lwybr.

BOREUOL WEDDI.

Lucerna pedibus meis.

LLuſern yw dy air i'm traed: a llewŷrch i'm llwybr.

2 Tyngais, a chyfiawnaf: y cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder.

3 Cyſtuddiwyd fi yn ddirfawr: bywhâ fi, O Arglwydd, yn ôl dy air.

4 Attolwg, Arglwydd, bydd foddlon i ewyllyſgar offrymmau fy ngenau: a dyſg i mi dy farnedigaethau.

5 Y mae fy enaid yn fy llâw yn oeſtadol: er hynny nid ŵyf yn anghofio dy gyfraith.

6 Y rhai annuwiol a oſodaſant fagl i mi: ond ni chyfeiliornais oddiwrth dy orchymynion.

7 Cymmerais dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth: o herwŷdd llawenydd fy nghàlon ydynt.

8 Goſtyngais fy nghàlon i wneuthur dy ddeddfau: byth hŷd y diwedd.

Iniquos odio habui.

MEddyliau oſer a gaſſeais: a'th gyfraith di a hoffais.

2 Fy lloches a'm tarian ydwyt: yn dy air y gobeithiaf.

3 Ciliwch oddi wrthyf, rai drygionus: canys cadwaf orchymynion fy Nuw.

4 Cynnal fi yn ôl dy air, fel y byddwyf byw: ac na âd i mi gywilyddio am fy ngobaith.

5 Cynnal fi, a diangol fyddaf: ac ar dy ddeddfau yr edrychaf yn oeſtadol.

6 Sethraiſt y rhai oll a gyfeiliornant oddiwrth dy ddeddfau: canys twyllodrus yw eu dichell hwynt.

7 Bwriaiſt heibio holl annuwiolion y tir fel ſothach: am hynny 'r hoffais dy dyſtiolaethau.

8 Dychrynodd fy nghnawd rhag dy ofn: ac ofnais rhag dy farnedigaethau.

Feci judicium.

GWnaethum farn, a chyfiawnder: na âd fi i'm gorthrymwŷr.

2 Mechnïa dros dy wâs er daioni: na âd i'r beilchion fy ngorthrymmu.

3 Fy llygaid a ballaſant am dy iachawdwriaeth: ac am ymadrodd dy gyfiawnder.

4 Gwnâ i'th wâs yn ôl dy drugaredd: a dyſg i mi dy ddeddfau.

5 Dy wâs ydwyf fi, pâr i mi ddeall: fel y gwypwyf dy dyſtiolaethau.

6 Amſer yw i'r Arglwydd weithio: canys diddymmaſant dy gyfraith di.

7 Am hynny 'r hoffais dy orchymynion: yn fwy nag aur, ie yn fwy nag aur coeth.

8 Am hynny union y cyfrifais dy orchymynion am bob peth; a chaſeais bob gau lwybr.

Mirabilia.

RHyfedd yw dy dyſtiolaethau: am hynny y ceidw fy enaid hwynt.
2 Agoriad dy eiriau a rŷdd oleuni: pair ddeall i rai annichellgar.
3 Agorais fy ngenau, a dyheais: oblegid awŷddus oeddwn i'th orchymynion di.
4 Edrych arnaf, a thrugarhâ wrthyf: yn ôl dy arfer i'r rhai a garant dy Enw.
5 Cyfarwŷdda fy nghamrau yn dy air: ac na lywodraethed dim anwiredd arnaf.
6 Gwared fi oddiwrth orthrymder dynion: felly y cadwaf dy orchymynion.
7 Llewyrcha dy wŷneb ar dy wâs: a dŷſg i mi dy ddeddfau.
8 Afonydd o ddyfroedd a redant o'm llygaid: am na chadwaſant dy gyfraith di.

Juſtus es, Domine.

CYfiawn ydwyt ti, O Arglŵydd: ac uniawn yw dy farnedigaethau.
2 Dy dyſtiolaethau y rhai a orchymynaiſt: ydynt gyfiawn a ffyddlon iawn.
3 Fy zêl a'm difaodd: o herwŷdd i'm gelynion anghofio dy eiriau di.
4 Purwyd dy ymadrodd yn ddirfawr: am hynny y mae dy wâs yn ei hoffi.
5 Bychan ydwyf fi, a dirmygus: ond nid anghofiais dy orchymynion.
6 Dy gyfiawnder ſydd gyfiawnder byth: a'th gyfraith ſydd wirionedd.
7 Adfyd a chyſtudd a'm goddiweddaſant: a'th orchymynion oedd fy nigrifwch.
8 Cyfiawnder dy dyſtiolaethau a bery yn dragywydd: gwnâ i mi ddeall, a byw fyddaf.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

Clamavi in toto corde meo.

LLefais â'm holl gâlon: clyw fi, O Arglwydd, dy ddeddfau a gadwaf.
2 Llefais arnat, achub fi: a chadwaf dy dyſtiolaethau.
3 Achubais flaen y cyſddydd, a gwaeddais: wrth dy air y diſgwyliais.
4 Fy llygaid a achubaſant flaen gwyliadwriaethau y nôs: i fyfyrio yn dy air di.
5 Clyw fy llêf, yn ôl dy drugaredd: Arglwydd, bywhâ fi yn ôl dy farnedigaethau.
6 Y rhai a ddilynant yſgelerder a nefaſant arnaf: ymbellaſant oddiwrth dy gyfraith di.
7 Tithau, Arglwydd, wyt agos: a'th holl orchymynion ſydd wirionedd.
8 Er ys talm y gwyddwn am dy dyſtiolaethau: ſeilio o honot hwynt yn dragywydd.

Vide humilitatem.

GWêl fy nghyſtudd, a gwared fi: canys nid anghofiais dy gyfraith.
2 Dadleu fy nadl, a gwared fi: bywhâ fi yn ôl dy air.
3 Pell yw iachawdwriaeth oddiwrth y rhai annuwiol: o herwŷdd ni cheiſiant dy ddeddfau di.
4 Dy drugareddau, Arglwydd, ſydd aml: bywhâ fi yn ôl dy farnedigaethau.
5 Llawer ſydd yn fy erlid, ac yn fy ngwrthwyneb: er hynny ni throais oddiwrth dy dyſtiolaethau.
6 Gwelais y troſeddwŷr, a grefynais: am na chadwent dy air di.
7 Gwêl fy mod yn hoffi dy orchymynion: Arglwydd, bywhâ fi 'n ôl dy drugarowgrwydd.
8 Gwirionedd o'r dechreuad yw dy air: a phob un o'th gyfiawn farnedigaethau a bery yn dragywydd.

Principes perſecuti ſunt.

TYwyſogion a'm herlidiaſant heb achos: er hynny ſy nghâlon a grynai rhag dy air di.
2 Llawen ydwyfi oblegid dy air: fel un yn cael yſglyfaeth lawer.
3 Celŵydd a gaſeais, ac a ffieiddiais: a'th gyfraith di a hoffais.
4 Seith-waith yn y dŷdd yr ydwyf yn dy glodfori: o herwŷdd dy gyfiawn farnedigaethau.
5 Heddwch mawr ſydd i'r rhai â garant dy gyfraith: ac nid oes dramgwydd iddynt.
6 Diſgwyliais wrth dy iachawdwriaeth di, O Arglwydd: a gwnaethum dy orchymynion.
7 Fy enaid a gadwodd dy dyſtiolaethau: a hôff iawn gennyf hwynt.
8 Cedwais dy orchymynion a'th dyſtiolaethau: canys y mae fy holl ffyrdd ger dy fron di.

Appropinquet deprecatio.

NEſâed fy ngwaedd o'th flaen, Arglwydd: gwnâ i mi ddeall yn ôl dy air.
2 Deued fy ngweddi ger dy fron: gwared fi yn ôl dy air.
3 Fy ngwefuſau a draetha foliant: pan ddyſgech i mi dy ddeddfau.
4 Fy nhafod a ddatgan dy air: o herwŷdd dy orchymynion ſydd gyfiawnder.
5 Bydded dy lâw i'm cynnorthwyo: o herwŷdd dy orchymynion di a ddewiſais.
6 Hiraethais, O Arglwydd, am dy iachawdwriaeth: a'th gyfraith yw fy hyfrydwch.
7 Bydded byw fy enaid, fel y'th ſolianno di: a chynnorthwyed dy farnedigaethau fi.
8 Cyfeiliornais fel dafad wedi colli: cais dy wâs, oblegid nid anghofiais dy orchymynion.

BOREUOL WEDDI.

SALM 120. *Ad Dominum.*

AR yr Arglwydd y gwaeddais yn fy nghyfyngder: ac efe a'm gwrandawŏdd i.
2 Arglwydd, gwared fy enaid oddiwrth wefuſau celŵyddog: ac oddiwrth dafod twyllodrus.
3 Beth a roddir i ti? neu pa beth a wneir i ti: dydi dafod twyllodrus?
4 Llymmion ſaethau cawr: ynghŷd â marwor meryw.
5 Gwae fi, fy mod yn preſwylio ym Meſech: yn cyfanneddu ym mhebyll Cedar.
6 Hir y trigodd fy enaid: gyd â'r hwn oedd yn casâu tangnefedd.
7 Heddychol ydwyf fi: ond pan lefarwyf y maent yn barod i ryfel.

SALM 121. *Levavi oculos.*

DYrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd: o'r lle y daw fy nghymmorth.
2 Fy nghymmorth a ddaw oddiwrth yr Arglwydd: yr hwn a wnaeth nefoedd a daear.
3 Ni âd efe i'th droed lithro: ac ni huna dy geidwad.
4 Wele, ni huna: ac ni chŵſg ceidwad Iſrael.
5 Yr Arglwydd yw dy geidwad: yr Arglwydd yw dy gyſgod ar dy ddeheu-law.
6 Ni'th dery 'r haul y dŷdd: na'r lleuad y nôs.
7 Yr Arglwydd a'th geidw rhag pob drwg: efe a geidw dy enaid.
8 Yr Arglwydd a geidw dy fynediad a'th ddyfodiad: o'r prŷd hyn, hŷd yn dragywydd.

SALM 122. *Lætatus ſum.*

LLawenychais pan ddywedent wrthyf: Awn i dŷ 'r Arglwydd.
2 Ein traed a ſafant o fewn dy byrth di: O Jeruſalem.
3 Jeruſalem a adeiladwyd: fel dinas wedi ei chŷd-gyſſylltu ynddi ei hun.
4 Yno 'r eſgyn y llwythau, llwythau 'r Arglwydd: yn dyſtiolaeth i Iſrael, i foliannu Enw 'r Arglwydd.

5 Canys yno y gosodwyd gorsedd-feingciau barn: gorsedd-feingciau tŷ Dafydd.

6 Dymunwch heddwch Jerusalem: llwyddêd y rhai a'th hoffant.

7 Heddwch fyddo o fewn dy ragfur: a ffynniant yn dy balasau.

8 Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion: y dywedaf yn awr, heddwch fyddo i ti.

9 Er mwyn tŷ 'r Arglwydd ein Duw: y ceisiaf i ti ddaioni.

SALM 123. *Ad te levavi oculos meos.*

ATtat ti y dyrchafaf fy llygaid: ti yr hwn a breswyli yn y nefoedd.

2 Wele, fel y mae llygaid gweision ar lâw eu meistraid, neu fel y mae llygaid llaw-forwyn ar lâw eu meistres: felly y mae ein llygaid ni ar yr Arglwydd ein Duw, hŷd oni thrugarhao efe wrthym ni.

3 Trugarhâ wrthym, Arglwydd, trugarhâ wrthym: canys llanwyd ni â dirmyg yn ddirfawr.

4 Yn ddirfawr y llanwyd ein henaid â gwatworgerdd y rhai goludog: ac â diystyrwch y beilchion.

SALM 124. *Nisi quia Dominus.*

ONi buasai 'r Arglwydd, yr hwn a fu gyd â ni: y gall Israel ddywedyd yn awr;

2 Oni buasai 'r Arglwydd, yr hwn a fu gyd a ni: pan gyfododd dynion yn ein herbyn.

3 Yna y'n llyngcasent ni yn fyw: pan ennynnodd eu llid hwynt i'n herbyn.

4 Yna y dyfroedd a lifasai trosom: y ffrŵd a aethai tros ein henaid.

5 Yna 'r aethai tros ein henaid: ddyfroedd chwyddedig.

6 Bendigedig fyddo 'r Arglwydd: yr hwn ni roddodd ni yn yslyfaeth i'w dannedd hwynt.

7 Ein henaid a ddiangodd, fel aderyn o fagl yr adarwŷr: y fagl a dorrwyd, a ninnau a ddianghasom.

8 Ein porth ni fydd yn Enw 'r Arglwydd: yr hwn a wnaeth nefoedd a daear.

SALM 125. *Qui confidunt.*

YRhai a ymddiriedant yn yr Arglwydd fyddant fel mynydd Seion: yr hwn ni fyflir, ond a bery yn dragywydd.

2 Fel y mae Jerusalem a'r mynyddoedd o'i hamgylch: felly y mae 'r Arglwydd o amgylch ei bobl, o'r prŷd hyn hŷd yn dragywydd.

3 Canys ni orphwys gwialen annuwioldeb ar randir y rhai cyfiawn: rhag i'r rhai cyfiawn estyn eu dwylaw at anwiredd.

4 Oh Arglwydd, gwnâ ddaioni i'r rhai daionus: ac i'r rhai uniawn yn eu calonnau.

5 Ond y rhai a ymdroant i'w trofeydd, yr Arglwydd a'u gyrr gyd â gweithredwŷr anwiredd: a bydd tangnefedd ar Israel.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 126. *In convertendo.*

PAn ddychwelodd yr Arglwydd gaethiwed Seion: yr oeddym fel rhai yn breuddwydio.

2 Yna y llanwyd ein genau â chwerthin, a'n tafod â chanu: yna y dywedasant ym mŷsg y cenhedloedd, Yr Arglwydd a wnaeth bethau mawrion i'r rhai hyn.

3 Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion: am hynny 'r ydym yn llawen.

4 Dychwel, Arglwydd, ein caethiwed ni: fel yr afonydd yn y dehau.

5 Y rhai fydd yn hau mewn dagrau: a fedant mewn gorfoledd.

6 Yr hwn fydd yn myned rhagddo, ac yn wylo, gan ddwyn hâd gwerthfawr: gan ddyfod a ddaw mewn gorfoledd, dan gludo ei ysgubau.

SALM 127. *Nisi Dominus.*

O'S yr Arglwydd nid adeilada y tŷ, ofer y llafuria ei adeiladwŷr wrtho: o's yr Arglwydd ni cheidw 'r ddinas, ofer y gwilia y ceidwad.

2 Ofer i chwi fore godi, myned yn hwyr i gysgu, bwytta bara gofidiau: felly y rhydd efe hûn i'w anwylyd.

3 Wele, plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd: ei wobr ef yw ffrwyth y grôth.

4 Fel y mae saethau yn llâw y cadarn: felly y mae plant ieuengctid.

5 Gwŷn ei fŷd y gŵr a lanwodd ei gawell saethau â hwynt: ni's gwaradwyddir hwy, pan ymddiddanant â'u gelynion yn y porth.

SALM 128. *Beati omnes.*

GWŷn ei fŷd pob un fydd yn ofni 'r Arglwydd: yr hwn fydd yn rhodio yn ei ffyrdd ef.

2 Canys mwynhêi lafur dy ddwylaw: gwŷn dy fŷd, a da fydd it'.

3 Dy wraig fydd fel gwinwŷdden ffrwythlawn, ar hŷd ystlysau dy dŷ: dy blant fel planhigion olewŷdd o amgylch dy ford.

4 Wele, fel hyn yn ddiau y bendithir y gŵr: a ofno 'r Arglwydd.

5 Yr Arglwydd a'th fendithia allan o Seion: a thi a gai weled daioni Jerusalem holl ddyddiau dy einioes.

6 A thi a gai weled plant dy blant: a thangnefedd ar Israel.

SALM 129. *Sæpe expugnaverunt.*

LLawer gwaith y'm cystuddiasant o'm hieuengctid: y dichon Israel ddywedyd yn awr:

2 Llawer gwaith y'm cystuddiasant: o'm hieuengctid: etto ni'm gorfuant.

3 Yr arddwŷr a arddasant ar fy nghefn: estynasant eu cwysau yn hirion.

4 Yr Arglwydd fydd gyfiawn: efe a dorrodd raffau y rhai annuwiol.

5 Gwaradwydder hwy oll, a gyrrer yn eu hôl: y rhai a gasânt Seion.

6 Byddant fel glâs-wellt pen tai: yr hwn a wywa cyn y tynner ef ymaith.

7 A'r hwn ni leinw y pladurwr ei lâw: na'r hwn fyddo yn rhwymo yr ysgubau, ei fynwes.

8 Ac ni ddywaid y rhai a ânt heibio, bendith yr Arglwydd arnoch: bendithiwn chwi yn Enw 'r Arglwydd.

SALM 130. *De profundis clamavi.*

O'R dyfnder y llefais arnat: O Arglwydd.

2 Arglwydd, clyw fy llefain: ystyried dy glustiau wrth lêf fy ngweddïau.

3 Os creffi ar anwireddau, Arglwydd: O Arglwydd, pwy a saif?

4 Ond y mae gyd â thi faddeuant: fel y'th ofner.

5 Disgwyliaf am yr Arglwydd, disgwyl fy enaid: ac yn ei air ef y gobeithiaf.

6 Fy enaid fydd yn disgwyl am yr Arglwydd: yn fwy nag y mae y gwylwŷr am y bore; yn fwy nag y mae y gwylwŷr am y bore.

7 Disgwylied Israel am yr Arglwydd: o herwŷdd y mae trugaredd gyd â'r Arglwydd, ac aml ymwared gyd ag ef.

8 Ac efe a wared Israel: oddi wrth ei holl anwireddau.

SALM 131. *Domine, non est.*

OArglwydd, nid ymfalchïodd fy nghalon, ac nid ymddyrchafodd fy llygaid: ni rodiais chwaith mewn pethau rhŷ fawr, a rhŷ uchel i mi.

2 Eithr gosodais, a gostegais fy enaid, fel un wedi ei ddiddyfnu oddi wrth ei fam: fy enaid fydd ynof fel un wedi ei ddiddyfnu.

3 Disgwylied Israel wrth yr Arglwydd: o'r prŷd hyn hŷd yn dragywydd.

SALM

BOREUOL. WEDDI.

SALM 132. *Memento, Domine.*

O Arglwydd, cofia Ddafydd: a'i holl flinder.
2 Y mòdd y tyngodd efe wrth yr Arglwydd: ac yr addunodd i rymmus Dduw Jacob.
3 Ni ddeuaf i fewn pabell fy nhŷ: ni ddringaf ar erchwyn fy ngwely.
4 Ni roddaf gŵfg i'm llygaid: na hûn i'm hamrantau.
5 Hŷd oni chaffwyf le i'r Arglwydd: preſwylfod i rymmus Dduw Jacob.
6 Wele, clywſom am dani yn Ephrata: cawſom hi ym meuſydd y coed.
7 Awn i'w bebyll ef: ymgrymmwn o flaen ei faingc-draed ef.
8 Cyfod, Arglwydd, i'th orphwysfa: ti, ac Arch dy gadernid.
9 Gwiſged dy offeiriaid gyfiawnder: a gorfoledded dy Saint.
10 Er mwyn Dafydd dy wâs: na thrô ymaith wyneb dy enneiniog.
11 Tyngodd yr Arglwydd mewn gwirionedd i Ddafydd, ni thrŷ efe oddi wrth hynny: o ffrwyth dy gorph y gofodaf ar dy orfedd-faingc.
12 Os ceidw dy feibion fy nghyfammod a'm tyſtiolaethau, y rhai a ddyfgwyf iddynt: eu meibion hwythau yn dragywydd a eiſteddant ar dy orfedd-faingc.
13 Canys dewiſodd yr Arglwydd Seion: ac a'i chwennychodd yn drigfa iddo ei hun.
14 Dyma fy ngorphwyſfa yn dragywydd: yma y trigaf, canys chwenychais hi.
15 Gan fendithio y bendithiaf ei lluniaeth: diwallaf ei thlodion â bara.
16 Ei hoffeiriaid hefyd a wiſgaf ag iachawdwriaeth: a'i Saint dan ganu a ganant:
17 Yna y paraf i gorn Dafydd flaguro: darperais lamp i'm henneiniog.
18 Ei elynion ef a wiſgaf â chywilydd: arno yntau y blodeua ei goron.

SALM 133. *Ecce quam bonum!*

WEle, mòr ddaionus, ac mòr hyfryd yw: trigo o frodyr ynghŷd.
2 Y mae fel yr ennaint gwerthfawr ar y pen, yn diſgyn ar hŷd y farf, ſef barf Aaron: yr hwn oedd yn diſgyn ar hŷd ymyl ei wiſgoedd ef.
3 Fel gwlith Hermon, ac fel gwlith yn diſgyn ar fynyddoedd Seion: canys yno y gorchymynodd yr Arglwydd y fendith, ſef bywyd yn dragywydd.

SALM 134. *Ecce nunc benedicite.*

WEle, holl weiſion yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd: y rhai ydych yn ſefyll yn nhŷ 'r Arglwydd y nôs.
2 Dyrchefwch eich dwylaw yn y cyſſegr: a bendithiwch yr Arglwydd.
3 Yr Arglwydd yr hwn a wnaeth nefoedd a daear; a'th fendithio di allan o Seion.

SALM 135. *Laudate nomen.*

MOlwch yr Arglwydd. Molwch enw 'r Arglwydd: gweiſion yr Arglwydd, molwch ef.
2 Y rhai ydych yn ſefyll yn nhŷ 'r Arglwydd: ynghynteddoedd ty ein Duw ni.
3 Molwch yr Arglwydd, canys da yw yr Arglwydd: cenwch i'w Enw, canys hyfryd yw.
4 Oblegid yr Arglwydd a ddetholodd Jacob iddo ei hun: ac Iſrael yn briodoriaeth iddo.
5 Canys mi a wn mai mawr yw'r Arglwydd: a bod ein Harglwydd ni goruwch yr holl dduwiau.
6 Yr Arglwydd a wnaeth yr hyn oll a fynnai, yn y nefoedd, ac yn y ddaear: yn y môr, ac yn yr holl ddyfnderau.
7 Y mae yn codi tarth o eithafoedd y ddaear, mellt a wnaeth efe ynghŷd â'r glwâw: gan ddwyn y gwynt allan o'i dryſorau.
8 Yr hwn a darawòdd gyntaf-anedig yr Aipht: yn ddŷn ac yn anifail.
9 Danfonodd arwydhion a rhyfeddodau i'th ganol di, yr Aipht: ar Pharao, ac ar ei holl weiſion.
10 Yr hwn a darawòdd genhedloedd lawer: ac a laddodd frenhinoedd cryfion,
11 Sehon brenhin yr Amoriaid, ac Og brenhin Baſan: a holl frenhiniaethau Canaan.
12 Ac a roddodd eu tîr hwynt yn etifeddiaeth: yn etifeddiaeth i Iſrael ei bobl.
13 Dy enw, O Arglwydd, a bery yn dragywydd: dy goffadwriaeth, O Arglwydd, o genhedlaeth i genhedlaeth.
14 Canys yr Arglwydd a farna ei bobl: a bydd edifar ganddo o ran ei weiſion.
15 Delwau y cenhedloedd ydynt arian ac aur: gwaith dwylaw dŷn.
16 Genau ſydd iddynt, ond ni leferant: llygaid ſydd ganddynt, ond ni welant.
17 Y mae cluſtiau iddynt, ond ni chlywant: nid oes chwaith anadl yn eu genau.
18 Fel hwynt y mae y rhai a'u gwnânt: a phôb un a ymddiriedo ynddynt.
19 Tŷ Iſrael, bendithiwch yr Arglwydd: bendithiwch yr Arglwydd, ty Aaron.
20 Tŷ Leſi, bendithiwch yr Arglwydd: y rhai a ofnwch yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd.
21 Bendithier yr Arglwydd o Seion: yr hwn ſydd yn trigo yn Jeruſalem. Molwch yr Arglwydd.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 136. *Confitemini Domino.*

CLodforwch yr Arglwydd, canys da yw: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
2 Clodforwch Dduw y duwiau: oblegid ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
3 Clodforwch Arglwydd yr arglwyddi: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
4 Yr hwn yn unig ſydd yn gwneuthur rhyfeddodau: canys ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
5 Yr hwn a wnaeth y nefoedd mewn doethineb: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
6 Yr hwn a eſtynnodd y ddaear oddiar y dyfroedd: oblegid ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
7 Yr hwn a wnaeth oleuadau mawrion: canys ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
8 Yr haul i lywodraethu 'r dŷdd: canys ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
9 Y lleuad a'r ſer i lywodraethu 'r nôs: canys ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
10 Yr hwn a darawòdd yr Aipht yn eu cyntaf-anedig: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd;
11 Ac a ddûg Iſrael o'u mŷſg hwynt: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
12 A llâw grêf, ac â braich eſtynnedig: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
13 Yr hwn a rannodd y môr côch yn ddwy ràn: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
14 Ac a wnaeth i Iſrael fyned trwy ei ganol: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
15 Ac a yſgyttiodd Pharao a'i lu yn y môr côch: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
16 Ac a dywyſodd ei bobl drwy 'r anialwch: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
17 Yr hwn a darawòdd frenhinoedd mawrion: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
18 Ac a laddodd frenhinoedd ardderchog: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
19 Sehon brenhin yr Amoriaid: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
20 Ac Og brenhin Baſan: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.
21 A rhoddodd eu tîr hwynt yn etifeddiaeth: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

22 Yn etifeddiaeth i Iſrael ei wâs: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

23 Yr hwn yn ein hiſel-râdd a'n coſtodd ni: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

24 Ac a'n hachubodd ni oddiwrth ein gelynion: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

25 Yr hwn ſydd yn rhoddi ymborth i bob cnawd: canys ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

26 Clodforwch Dduw'r nefoedd: canys ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

SALM 137. *Super flumina.*

WRTH afonydd Babilon yr eiſteddaſom, ac a wylaſom: pan feddyliaſom am Seion.

2 Ar yr helyg o'u mewn: y crogaſom ein telynau.

3 Canys yno y gofynnodd y rhai a'n caethiwaſent i ni gân, a'r rhai a'n anrheithiaſai, lawenydd: gan ddywedyd, Cenwch i ni rai o gamadau Seion.

4 Pa ſôdd y canwn gerdd yr Arglwydd: mewn gwlâd ddieithr?

5 O's anghofiaf di, Jeruſalem: anghofied fy neheu-law ganu.

6 Glyned fy nhafod wrth daflod fy ngenau: oni chofiaf di, oni chodaf Jeruſalem goruwch fy llawenydd pennaf.

7 Cofia, Arglwydd, blant Edom, yn nŷdd Jeruſalem: y rhai a ddywedent Dinoethwch, dinoethwch hi, hyd ei ſyſaen.

8 Oh ferch Babilon, a anrheithir: gwŷn ei fyd a dalo i ti ſel y gwnaethoſt i ninnau.

9 Gwŷn ei fyd a gymmero: ac a darawö dy rai bâch wrth y meini.

SALM 138. *Confitebor tibi.*

CLodforaf di â'm holl gâlon: yngŵydd y duwiau y canaf it'.

2 Ymgrymmaf tu a'th Deml ſanctaidd, a chlodforaf dy Enw, am dy drugaredd a'th wirionedd: oblegid ti a fawrheaiſt dy air uwchlaw dy Enw oll.

3 Y dŷdd y llefaïs y'm gwrandewaiſt: ac a'm cadarnheaiſt â nerth yn fy enaid.

4 Holl frenhinoedd y ddaear a'th glodforant, O Arglwydd: pan glywant eiriau dy enau.

5 Canant hefyd am ffyrdd yr Arglwydd: canys mawr yw gogoniant yr Arglwydd.

6 Er bod yr Arglwydd yn uchel, etto eſe a edrych ar yr iſel: ond y balch a edwyn eſe o hirbell.

7 Pe rhodiwn ynghanol cyfyngder, ti a'm bywhait: eſtynnit dy lâw yn erbyn digofaint fy ngelynion, a'th ddeheu-law a'm hachubai.

8 Yr Arglwydd a gyflawna â mi: dy drugaredd, Arglwydd, ſydd yn dragywydd, nag eſgeuluſa waith dy ddwylaw.

BOREUOL WEDDI.

SALM 139. *Domine, probaſti.*

ARglwydd chwiliaiſt: ac adnabuoſt fi.

2 Ti à adwaenoſt fy eiſteddiad a'm cyfodiad: dealli fy meddwl o bell.

3 Amgylchyni fy llwybr, a'm gorweddfa: ac yſpys ŵyt yn fy holl ffyrdd.

4 Canys nid oes air ar fy nhafod: ond, wele, Arglwydd, ti a'i gŵyddoſt oll.

5 Amgylchynaiſt fi yn ôl, ac ym mlaen: a goſodaiſt dy lâw arnaf.

6 Dyma ŵybodaeth rŷ ryfedd i mi: uchel yw, ni fedraf oddi wrthi.

7 I ba le'r âf oddi wrth dy Yſpryd: ac i ba le y ffoaf o'th ŵydd?

8 O's dringaf i'r nefoedd yno yr ŵyt ti: o's cyweiriaf fy ngwely yn uffern, wele di yno.

9 Pe cymmerwn adenydd y wawr: a phe trigwn yn eithafoedd y môr.

10 Yno hefyd y'm tywyſai dy lâw, ac y'm daliai dy ddeheu-law.

11 Pe dywedwn, Diau y tywyllwch a'm cuddia: yna y byddai y nôs yn oleuni o'm hamgylch.

12 Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti, ond y nôs a oleua fel dŷdd: un ffunud yw tywyllwch a goleuni i ti.

13 Canys ti a feddiennaiſt fy arennau: toaiſt fi ynghrôth fy mam.

14 Clodforaf dydi, canys ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed: rhyfedd yw dy weithredoedd, a'm henaid a ŵyr hynny yn dda.

15 Ni chuddiwyd fy fylwedd oddiwrthyt: pan y'm gwnaethpwyd yn ddirgel, ac y'm cywreiniwyd yn iſelder y ddaear.

16 Dy lygaid a welſant fy anelwig ddefnydd, ac yn dy lyfr di yr yſgrifenwyd hwynt oll: y dŷdd y lluniwyd hwynt, pan nad oedd yr un o honynt.

17 Am hynny mòr werthfawr yw dy feddyliau gennyf, O Dduw: mòr fawr yw eu ſwm hwynt.

18 Pe cyfrifwn hwynt, amlach ydynt nâ'r tywod: pan ddeffrowyf, gyd â thi'r ydwyf fi yn waſtad.

19 Yn ddïau, O Dduw, ti a leddi yr annuwiol: am hynny y gwŷr gwaedlyd, ciliwch oddi wrthyf.

20 Y rhai a ddywedant yſgelerder yn dy erbyn: dy elynion a gymmerant dy Enw yn ofer.

21 Onid câs gennyf, O Arglwydd, dy gaſeion di: onid ffiaidd gennyf y rhai a gyfodant i'th erbyn?

22 A châs cyflawn y caſſeais hwynt: cyfrifais hwynt i mi yn elynion.

23 Chwilia fi, O Dduw, a gŵybydd fy nghâlon: prawf fi, a gŵybydd fy meddyliau.

24 A gwêl, a oes ffordd annuwiol gennyf: a thywys fi yn y ffordd dragywyddol.

SALM 140. *Eripe me, Domine.*

GWared fi, O Arglwydd, oddi wrth y dŷn drwg: cadw fi rhag y gŵr traws.

2 Y rhai ſydd yn bwriadu drygioni yn eu calon: ymgaſglant beunydd i ryfel.

3 Golymmaſant eu tafodau fel ſarph: gwenŵyn aſp ſydd tan eu gwefuſau.

4 Cadw fi, O Arglwydd, rhag dwylaw'r annuwiol: cadw fi rhag y gŵr traws, y rhai a fwriadaſant fachellu fy nhraed.

5 Y beilchion a guddiaſant faglau i mi, ac a eſtynnaſant rwyd wrth dannau ar ymyl fy llwybrau: goſodaſant hoenynnau ar fy medr.

6 Dywedais wrth yr Arglwydd, Fy Nuw ydwyt ti: clyw, Arglwydd, lêf fy ngweddïau.

7 Arglwydd Dduw, nerth fy iachawdwriaeth: gorchuddiaiſt fy mhen yn nŷdd brwydr.

8 Na chaniattâ, Arglwydd, ddymuniad yr annuwiol: na lwydda eu drwg feddwl, rhag eu balchïo hwynt.

9 Y pennaf o'r rhai a'm hamgylchyno: blinder eu gwefuſau a'u gorchuddio.

10 Syrthied marwor arnynt, a bwrier hwynt yn tân: ac mewn ceu-ffoſydd, fel na chyfodant.

11 Na ſicrhäer dŷn fiaradus ar y ddaear: drwg a hela y gŵr traws i'w ddiſtryw.

12 Gwn y dadleu yr Arglwydd ddadl y truan: ac y barna eſe y tlodion.

13 Y cyfiawn yn ddïau a glodforant dy Enw di: y rhai uniawn a drigant ger dy fron di.

SALM 141. *Domine, clamavi.*

ARglwydd, yr ŵyf yn gwaeddi arnat, bryſia attaf: clyw fy llais pan lefwyf arnat.

2 Cyfeirier fy ngweddi ger dy fron fel arogldarth: a dyrchafiad fy nwylaw fel yr offrwm prydnhawnol.

3 Goſod, Arglwydd, gadwraeth o flaen fy ngenau: cadw ddrws fy ngwefuſau.

4 Na oſtwng fy nghâlon at ddim drwg, i fwriadu gweithredoedd drygioni, gyd â gwŷr a weithredant anwiredd: ac na âd i mi fwytta o'u danteithion hwynt.

5 Cured

5 Cured y cyfiawn fi yn garedig, a cherydded fi: na thorred eu holew pennaf hwynt fy mhen; canys fy ngweddi fydd etto yn eu drygau hwynt.

6 Pan dafler eu barnwŷr i lawr mewn lleoedd carregog: clywant fy ngeiriau, canys melus ydynt.

7 Y mae ein heſgyrn ar waſgar ar fin y bêdd: megis un yn torri, neu yn hollti coed ar y ddaear.

8 Eithr arnat ti, O Arglwydd Dduw, y mae fy llygaid: ynot ti y gobeithiais, na âd fy enaid yn ddiymgeledd.

9 Cadw fi rhag y fagl a oſodaſant i mi: a hoenynnau gweithredwŷr anwiredd.

10 Cŷd-gŵymped y rhai annuwiol yn eu rhwydau eu hun: tra'r elwyf fi heibio.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 142. *Voce mea ad Dominum.*

GWaeddais â'm llêf ar yr Arglwydd: â'm llêf yr ymbiliais â'r Arglwydd.

2 Tywalltais fy myſyrdod o'i flaen ef: a mynegais fy nghyſtudd ger ei fron ef.

3 Pan ballodd fy yſpryd o'm mewn, tithau a adwaenit fy llwybr: yn y ffordd y rhodiwn y cuddiaſant i mi fagl.

4 Edrychais ar y tu dehau, a deliais ſulw, ac nid oedd neb a'm hadwaenai; pallodd nodded i mi, nid oedd neb yn ymofyn am fy enaid.

5 Llefais arnat, O Arglwydd, a dywedais: Ti yw fy ngobaith a'm rhan, yn nhîr y rhai byw.

6 Yſtyr wrth fy ngwaedd canys truan iawn ydwyf: gwared fi oddiwrth fy erlidwŷr canys trêch ydynt nâ mi.

7 Dŵg fy enaid allan o garchar, fel y moliannwyf dy Enw, y rhai cyfiawn a'm cylchynant: canys ti a fyddi dda wrthynt.

SALM 143. *Domine, exaudi.*

ARglwydd, clyw fy ngweddi, a gwrando ar fy neiſyfiadau: erglyw fi yn dy wirionedd, ac yn dy gyfiawnder.

2 Ac na ddôs i farn â'th wâs: o herwŷdd ni chyfiawnhëir neb byw yn dy olwg di.

3 Canys y gelyn a erlidiodd fy enaid, curodd fy enaid i lawr: gwnaeth i mi drigo mewn tywyllwch, fel y rhai a fu feirw er ys talm.

4 Yna y pallodd fy yſpryd o'm mewn: ac y ſynnodd fy nghàlon ynof.

5 Coſiais y dyddiau gynt, myſyriais ar dy holl waith: ac yngweithredoedd dy ddwylaw y myſyriaf.

6 Lledais fy nwylaw attat: fy enaid fel tîr ſychedig ſydd yn hiraethu am danat.

7 Oh Arglwydd, gwrando fi yn ebrwydd, pallodd fy yſpryd: na chuddia dy ŵyneb oddi wrthyf, rhag fy mod yn gyffelyb i'r rhai a ddiſgynant i'r pwll.

8 Pâr i mi glywed dy drugarowgrwydd y bore, o herwŷdd ynot ti y gobeithiaf: pâr i mi ŵybod y ffordd y rhodiwyf, oblegid attat ti y dyrchafaf fy enaid.

9 Gwared fi oddiwrth fy ngelynion, O Arglwydd: gyd â thi'r ymguddiais.

10 Dyſg i mi wneuthur dy ewyllys di, canys ti yw fy Nuw: tywyſed dy Yſpryd daionus fi i dîr uniondeb.

11 Bywhâ fi, O Arglwydd, er mwyn dy Enw: dŵg fy enaid allan o ing, er mwyn dy gyfiawnder.

12 Ac er dy drugaredd dinyſtria fy ngelynion: a difetha holl gyſtuddwŷr fy enaid: oblegid dy wâs di ydwyf fi.

BOREUOL WEDDI.

SALM 144. *Benedictus Dominus.*

BEndigedig fyddo'r Arglwydd fy nerth: yr hwn ſydd yn dyſgu fy nwylaw i ymladd, a'm byſedd i ryſela.

2 Fy nhrugaredd a'm hamddiffynfa, fy nhŵr a'm gwaredydd, fy nharian yw efe, ac ynddo y gobeithiais: yr hwn ſydd yn daroſtwng fy mhobl tanaf.

3 Arglwydd, beth yw dŷn, pan gydnabyddit ef: neu fâb dŷn pan wnait gyfrif o hono?

4 Dŷn ſydd debyg i wagedd: ei ddyddiau ſydd fel cyſgod yn myned heibio.

5 Arglwydd, goſtwng dy nefoedd, a diſgyn: cyffwrdd â'r mynyddoedd, a mygant.

6 Saetha fêllt, a gwaſgar hwynt: ergydia dy ſaethau, a difa hwynt.

7 Anfon dy lâw oddi uchod: achub a gwared fi o ddyfroedd mawrion, o lâw plant eſtron.

8 Y rhai y llefara eu genau wagedd: ac y mae eu deheu-law yn ddeheu-law ffalſder.

9 Canaf i ti, O Dduw, ganiad newŷdd: ar y nabl â'r dectant y canaf i ti.

10 Efe ſydd yn rhoddi iachawdwriaeth i frenhinoedd: yr hwn ſydd yn gwaredu Dafydd ei wâs oddiwrth y cleddyf niweidiol.

11 Achub fi, a gwared fi, o lâw meibion eſtron: y rhai y llefara eu genau wagedd, ac y mae eu deheu-law yn ddeheu-law ffalſter.

12 Fel y byddo ein meibion fel plan-wŷdd yn tyfu yn eu hieuengctid: a'n merched fel congl-faen nâdd, wrth gyffelybrwydd palâs.

13 Fel y byddo ein celloedd yn llawn, yn trefnu pob rhyw luniaeth: a'n defaid yn dwyn miloedd, a myrddiwn yn ein heolydd.

14 A'n hychen yn gryfion i lafurio; heb na rhuthro i mewn, na myned allan: na gwaedd yn ein heolydd.

15 Gwŷn eu bŷd y bobl y mae felly iddynt: gwŷn eu bŷd y bobl y mae'r Arglwydd yn Dduw iddynt.

SALM 145. *Exaltabo te, Deus.*

DYrchafaf di, fy Nuw, O frenhin: a bendithiaf dy Enw byth, ac yn dragywydd.

2 Beunydd y'th fendithiaf; a'th enw a folaf byth, ac yn dragywydd.

3 Mawr yw'r Arglwydd, a chanmoladwy iawn: a'i fawredd ſydd anchwiliadwy.

4 Cenhedlaeth wrth genhedlaeth a fawl dy weithredoedd: ac a fynega dy gadernid.

5 Ardderchowgrwydd gogoniant dy fawredd: a'th bethau rhyfedd a draethaf.

6 Traethant hwy gadernid dy weithredoedd ofnadwy: mynegaf finnau dy fawredd.

7 Coffadwriaeth amlder dy ddaioni a draethant: a'th gyfiawnder a ddatganant.

8 Graſlawn, a thrugarog yw'r Arglwydd: hwyrfrydig i ddig, a mawr ei drugaredd.

9 Daionus yw'r Arglwydd i bawb: a'i drugaredd ſydd ar ei holl weithredoedd.

10 Dy holl weithredoedd a'th glodforant, O Arglwydd: a'th Saint a'th fendithiant.

11 Dywedant am ogoniant dy frenhiniaeth: a thraethant dy gadernid.

12 I beri i feibion dynion adnabod ei gadernid ef: a gogoniant ardderchowgrwydd ei frenhiniaeth.

13 Dy frenhiniaeth di ſydd frenhiniaeth dragywyddol: a'th lywodraeth a bery yn oes oeſoedd.

14 Yr Arglwydd ſydd yn cynnal y rhai oll a ſyrthiant: ac ſydd yn codi pawb a ddaroſtyngwyd.

15 Llygaid pob peth a ddiſgwyliant wrthyt: ac yr ydwyt yn rhoddi eu bwyd iddynt yn ei brŷd;

16 Gan agoryd dy lâw: a diwallu pob peth byw â'th ewyllys da.

17 Cyfiawn yw'r Arglwydd yn ei holl ffyrdd: a ſanctaidd yn ei holl weithredoedd.

18 Agos yw'r Arglwydd at y rhai oll a alwant arno: at y rhai oll a alwant arno mewn gwirionedd.

19 Efe a wnâ ewyllys y rhai a'i hofnant: gwrendy hefyd eu llefain, ac a'u hachub hwynt.

20 Yr

20 Yr Arglwydd ſydd yn cadw pawb a'u carant ef: ond yr holl rai annuwiol a ddifetha efe.

21 Traetha fy ngenau foliant yr Arglwydd: a bendithied pob cnawd ei Enw ſanctaidd ef byth ac yn dragywydd.

SALM 146. *Lauda, anima mea.*

MOlwch yr Arglwydd: fy enaid, mola di 'r Arglwydd.

2 Molaf yr Arglwydd yn fy myw: canaf i'm Duw tra fyddwyf.

3 Na hyderwch ar dywyſogion, nac ar fâb dŷn: yr hwn nid oes iachawdwriaeth ynddo.

4 Ei anadl a â allan, efe a ddychwel i'w ddaear: y dŷdd hwnnw y derfydd am ei holl amcanion ef.

5 Gwŷn ei fŷd yr hwn y mae Duw Jacob yn gymmorth iddo: ſydd a'i obaith yn yr Arglwydd ei Dduw.

6 Yr hwn a wnaeth nefoedd a daear, y môr a'r hyn oll ſydd ynddynt: yr hwn ſydd yn cadw gwirionedd yn dragywydd.

7 Yr hwn ſydd yn gwneuthur barn i'r rhai gorthrymmedig, yn rhoddi bara i'r newŷnog: yr Arglwydd ſydd yn gollwng y carcharorion yn rhŷdd.

8 Yr Arglwydd ſydd yn agoryd llygaid y deillion: yr Arglwydd ſydd yn codi y rhai a ddaroſtyngwyd; yr Arglwydd ſydd yn hoffi y rhai cyfiawn.

9 Yr Arglwydd ſydd yn cadw y dieithriaid, efe a gynnal yr ymddifad a'r weddw: ac a ddadymchwel ffordd y rhai annuwiol.

10 Yr Arglwydd a deyrnaſa byth: ſef dy Dduw di Seion, dros genhedlaeth a chenhedlaeth. Molwch yr Arglwydd.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

SALM 147. *Laudate Dominum.*

MOlwch yr Arglwydd, canys da yw canu i'n Duw ni: o herwŷdd hyfryd yw, ïe gweddus yw mawl.

2 Yr Arglwydd ſydd yn adeiladu Jeruſalem: efe a gaſgl waſgaredigion Iſrael.

3 Efe ſydd yn iachâu y rhai briwedig o gàlon; ac yn rhwymo eu doluriau.

4 Y mae efe yn rhifo rhifedi y ſêr: geilw hwynt oll wrth eu henwau.

5 Mawr yw ein Harglwydd, a mawr ei nerth: aneirif yw ei ddeall.

6 Yr Arglwydd ſydd yn dyrchafu y rhai llariaidd; gan oſtwng y rhai annuwiol hŷd lawr.

7 Cŷd-genwch i'r Arglwydd mewn diolchgarwch: cenwch i'n Duw â'r delyn.

8 Yr hwn ſydd yn toi y nefoedd â chymmylau; yn parottôi gwlâw i'r ddaear; gan beri i'r gwêllt dyfu ar y mynyddoedd.

9 Efe ſydd yn rhoddi i'r anifail ei borthiant: ac i gywion y gig-fran, pan lefant.

10 Nid oes hyfrydwch ganddo yn nerth march: ac nid ymhoffa efe yn eſgeiriau gŵr.

11 Yr Arglwydd ſydd hôff ganddo y rhai a'i hofnant ef: ſef y rhai a ddiſgwyliant wrth ei drugaredd ef.

12 Jeruſalem, mola di 'r Arglwydd: Seion, molianna dy Dduw.

13 O herwŷdd efe a gadarnhaodd farrau dy byrth: efe a fendithiodd dy blant o'th fewn.

14 Yr hwn ſydd yn gwneuthur dy fro yn heddychol: ac a'th ddiwalla di â braſter gwenith.

15 Yr hwn ſydd yn anfon ei orchymmyn ar y ddaear: a'i air a rêd yn dra buan.

16 Yr hwn ſydd yn rhoddi eira fel gwlân: ac a dàna rêw fel lludw.

17 Yr hwn ſydd yn bwrw ei iâ fel tammeidiau: pwy a erys gan ei oerni ef?

18 Efe a enfyn ei air, ac a'u tawdd hwynt: â'i wŷnt y chwŷth efe, a'r dyfroedd a lifant.

19 Y mae efe yn mynegi ei eiriau i Jacob: ei ddeddfau a'i farnedigaethau i Iſrael.

20 Ni wnaeth efe felly ag un genedl: ac nid adnabuant ei farnedigaethau ef. Molwch yr Arglwydd.

SALM 148. *Laudate Dominum.*

MOlwch yr Arglwydd. Molwch yr Arglwydd o'r nefoedd: molwch ef yn yr uchelderau.

2 Molwch ef ei holl Angylion: molwch ef ei holl luoedd.

3 Molwch ef haul a lleuad: molwch ef yr holl ſêr a goleuni.

4 Molwch ef nêf y nefoedd: a'r dyfroedd y rhai ydych oddiar y nefoedd.

5 Molant Enw 'r Arglwydd: o herwŷdd efe a orchymynodd, a hwy a grëwyd.

6 A gwnaeth iddynt barhâu byth ac yn dragywydd: goſododdd ddeddf, ac ni's troſeddir hi.

7 Molwch yr Arglwydd o'r ddaear: y dreigiau a'r holl ddyfnderau:

8 Tân a chenllyſg, eira a tharth, gwŷnt yſtormus: yn gwneuthur ei air ef:

9 Y mynyddoedd a'r brynniau oll: y coed ffirwythlawn, a'r holl gedr-wŷdd:

10 Y bwyſtfilod, a phob anifail: yr ymluſgiaid, ac adar aſgellog:

11 Brenhinoedd y ddaear a'r holl bobloedd: tywyſogion, a holl farnwŷr y bŷd;

12 Gwŷr ieuainge, a gwŷryſon hefyd: henafgwŷr, a llangciau:

13 Molant Enw 'r Arglwydd, o herwydd ei Enw ef yn unig ſydd ddyrchafadwy: ei ardderchowgrwydd ef ſydd uwch-law daear a nefoedd.

14 Ac efe ſydd yn dyrchafu corn ei bobl, moliant ei holl Saint: ſef meibion Iſrael, pobl agos atto. Molwch yr Arglwydd.

SALM 149. *Cantate Domino.*

MOlwch yr Arglwydd. Cenwch i'r Arglwydd ganiad newŷdd: a'i foliant ef ynghynulleidfa y Saint.

2 Llawenhäed Iſrael yn yr hwn a'i gwnaeth: gorfoledded meibion Seion yn eu brenhin.

3 Molant ei Enw ef ar y dawns: canant iddo ar dympan, a thelyn.

4 O herwŷdd hoffodd yr Arglwydd ei bobl: efe a brydfertha y rhai llednais ag iachawdwriaeth.

5 Gorfoledded y ſaint mewn gogoniant: a chanant ar eu gwelyau.

6 Bydded ardderchog foliant Duw yn eu genau: a chleddyf dau finiog yn eu dwylaw;

7 I wneuthur dïal ar y cenhedloedd: a chôſp ar y bobloedd;

8 I rwymo eu brenhinoedd â chadwynau: a'u pendefigion â gefynnau heiyrn.

9 I wneuthur arnynt y ſarn yſgrifenedig: yr ardderchowgrwydd hyn ſydd i'w holl ſaint ef. Molwch yr Arglwydd.

SALM 150. *Laudate Dominum.*

MOlwch yr Arglwydd. Molwch Dduw yn ei ſanctaiddrwydd: molwch ef yn ffurfafen ei nerth.

2 Molwch ef am ei gadernid: molwch ef yn ôl amlder ei fawredd.

3 Molwch ef â llais udgorn: molwch ef â nabl ac â thelyn.

4 Molwch ef â thympan ac â dawns: molwch ef â thannau ac ag organ.

5 Molwch ef â ſymbalau ſoniarus: molwch ef â ſymbalau llafar.

6 Pob perchen anadl: mohanned yr Arglwydd. Molwch yr Arglwydd.

Ffurfiau o Weddi i'w harfer ar y MOR.

¶ Y Foreuol a'r Brydnhawnol Weddi i'w harfer beunydd ar y Môr, a fyddant yr un ag a oſodwyd yn y llyſr Gweddi Cyffredin.

¶ Y ddwy Weddi hyn beſyd yn canlyn a arferir yn Llynges ein Harglwydd Frenhin bob dydd.

O Dragywyddol Arglwydd Dduw, yr hwn yn unig ŵyt yn tanu 'r nefoedd, ac yn rheoli an-gerdd y môr; yr hwn a amgylchaiſt y dyfroedd â therſynau, hyd oni ddarfyddo dydd a nôs; Rhynged bôdd it' ein derbyn ni dy weiſion, a'r Llynges, yn yr hon yr ym yn gwaſanaethu, i'th holl-alluog a'th raſuſaf noddeb. Cadw ni rhag perygl y môr, a rhuthr y gelyn, ſel y byddom amddiffyn i'n grafuſaf Arglwydd Frenhin SIOR, a'i Deyrnaſoedd, ac yn ddiogelwch i'r ſawl a gynniweiriant hŷd y moroedd ar eu negeſeuau cyfreithlawn; ſel y bo i breſwylwŷr ein Hynys dy waſanaethu di ein Duw, mewn heddwch a llonyddwch, ac i ninnau ddychwel adref mewn diogelwch i ſwynhâu bendithion y wlâd gyd â ffrwyth ein llafur; ac mewn diolchgar goffa am dy drugareddau, i foliannu a gogoneddu dy Enw bendigedig, trwy Ieſu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

Y Colect.

RHagflaena ni, O Arglwydd, yn ein hollweithredoedd, *&c. megis ar ŵl y Cymmun.*

Gweddïau i'w harfer yn amſer Tymheſtloedd ar y Môr.

O Alluoccaf a gogoneddus Arglwydd Dduw, wrth orchymmyn yr hwn y mae 'r gwyntoedd yn chwythu, ac yn dyrchafu tonnau 'r Môr, a'r hwn ŵyt yn goſtegu ei ryſerthwy ef; yr ym ni, dy Greaduriaid, eithr pechaduriaid truain, yn ein dirſawr gyſyngder hyn yn llefain arnat am dy gymmorth; Achub Arglwydd, onid è, darfu am danom. Tra oeddym yn ddiogel ac yn gweled pob peth yn heddychol o'n hamgylch, yr ym yn cyffeſu anghofio o honom dydi ein Duw, a gwrthod gwrando ar lêf ddiſtaw dy Air di, ac uſuddhâu i'th orchymynion. Eithr yr awrhon ni a welwn mòr ofnadwy ydwyt ti yn dy holl weithredoedd rhyfedd, y Duw mawr i'w ofni goruwch oll: Ac am hynny yr addolwn dy dduwiol Fawredd, gan gydnabod dy allu, ac attolygu dy doſturi. Cymmorth, Arglwydd, ac achub ni, er dy drugareddau yng Nghrift Ieſu dy Fâb di, ein Harglwydd ni. *Amen.*

Neu hon.

O Dra-gogoneddus a grafuſaf Arglwydd Dduw, yr hwn ŵyt yn preſwylio yn y nêf, eithr yn canſod pob peth iſod; Edrych i lawr, ni a attolygwn i ti, a gwrando ni yn galw arnat o eigion trueni, ac o ſafn yr angau hwn ſydd barod yr awr hon i'n traſyngcu. Achub, Arglwydd, onid è, darfu am danom. Y byw, y byw, efe a'th fawl di. O danſon Air dy orchymmyn i geryddu an-gerdd y gwyntoedd, a rhuad y Môr, ſel gan gael ein gwared allan o'r cyſyngder yma, y byddom byw i'th waſanaethu di, ac i foliannu dy Enw holl ddyddiau 'n bywyd. Gwrando, Arglwydd, ac achub ni, er anfeidrol ryglyddon ein gwŷnfydedig Iachawdwr dy Fâb, ein Harglwydd Ieſu Grift. *Amen.*

Y Weddi a ddywedir o flaen Brwydr ar ſor yn erbyn pob rhyw Elyn.

O Alluoccaf, ac ardderchoccaf Arglwydd Dduw, Arglwydd y Lluoedd, yr hwn ŵyt yn llywodraethu ac yn rheoli pob peth; Tydi ŵyt yn eiſtedd ar yr orſedd-faingc, yn barnu yn gyfiawn. Am hynny y dyneſwn at dy ddwyfol Fawredd yn ein hangenoctid hyn, ar ſod i ti gymmeryd yr achos i'th lâw dy hun, a barnu rhyngom a'n gelynion. Cyſod dy nerth, O Arglwydd, a thyred i'n cymmorth: Canys nid ŵyt bob amſer yn rhoddi y rhyfel i'r cedyrn, eithr ti a ddichon achub gyd â llawer, neu gyd ag ychydig. Och, na fydded i'n pechodau leſain yr awrhon i'n herbyn am ddial, eithr gwrando ni dy weiſion truain yn ymbil am dy drugaredd, ac yn eiriol am dy borth, ac am ſod o honot yn amddiffyn i ni rhag ŵyneb y gelyn. Gwnâ yn hyſbys, mai tydi yw ein Hachubwr a'n cadarn Waredwr ni, trwy Ieſu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

Gweddïau byrrion i rai neillduol, nad allant ymgyfarfod i gyſſylltu mewn gweddi ag eraill, o herwŷdd y Frwydr, neu 'r Dymmeſtl.

GWEDDIAU CYFFREDINOL.

ARglwydd, trugarhâ wrthym ni bechaduriaid; ac achub ni er mwyn dy drugareddau.

Ti yw y Duw mawr, yr hwn a wnaethoſt ac a ŵyt yn llywio pob peth; O gwared ni er mwyn dy Enw.

Ti yw y Duw mawr, i'w ofni uwch law oll: O achub ni, ſel y moliannom di.

Gweddïau hyſbyſol o herwŷdd y Gelyn.

TYdi, O Arglwydd, ŵyt gyfiawn a galluog; O amddiffyn ein hachos yn erbyn ŵyneb y gelyn.

O Dduw, tydi ŵyt gadarn dŵr amddiffyn i bawb a ffoant attat: O achub ni rhag traha y gelyn.

O Arglwydd y lluoedd, ymladd droſom, ſel y gogoneddom di.

O na âd i ni ſuddo dan bwys ein pechodau, na thraha y gelyn.

Arglwydd, cyſod, cymmorth ni, a gwared ni er mwyn dy Enw.

Gweddïau byrrion o ran y Dymmeſtl.

TYdi, O Arglwydd, yr hwn ŵyt yn dyhuddo terſyſg y môr, gwrando, gwrando ni, ac achub ni, ſel na'n cyfrgoller.

O fendigedig Iachawdwr, yr hwn a achubaiſt dy ddiſgyblion, pan oeddynt ar ddibyn cyfrgolli gan dymmeſtl, gwrando ni, ac achub ni, ni a attolygwn i ti.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Criſt, trugarhâ wrthym.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

O Arglwydd, clyw nyni.

O Criſt, clyw nyni.

Duw Dâd, Duw Fâb, Duw Yſbryd Glân, trugarhâ wrthym, achub ni yr awr hon, ac yn dragywydd. *Amen.*

EIn Tâd yr hwn ŵyt yn y nefoedd, ſancteiddier dy Enw, *&c.*

¶ Pan ſo enbydrwydd yn cyfagos, cynniſer ag a aller eu hebcor oddi wrth waſanaeth angenrheidiol yn y llong, a chwir ynghŷd, a bwy a ruinânt gyffes oſtyngedig i Dduw o'u pechodau: Yn yr hon y dylai pob un gymmeryd atto ei hun yn ddiſmſol bob un o'r pechodau hynny am y rhai y bo ei gyd-wybod yn ei gyhuddo: gan ddywedyd fel y mae yn canlyn.

Y Cyffes.

HOll-alluog Dduw, Tâd ein Harglwydd Ieſu Grift, *&c. megis yn y Cymmun.*

¶ Yna y datgan yr Offeiriad, o's tydd un yn y llong, y Gollyngdod hyn.

HOll-alluog Dduw, ein Tâd nefol, yr hwn o'i fawr drugaredd, *&c. megis yn y Cymmun.*

Diolwch ar ol Tymmeſtl.

Jubilate Deo. Salm 66.

LLawen-floeddiwch i Dduw: yr holl ddaear.
Datgenwch ogoniant ei Enw, *&c.*
Gogoniant i'r Tâd, *&c.*
Megis yr oedd yn y dechreu, *&c.*

Confitemini Domino. Salm 107.

CLodforwch yr Arglwydd, canys da yw; o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd, *&c.*
Gogoniant i'r Tâd, *&c.*
Megis yr oedd yn y dechreu, *&c.*

Colectau o Ddiolch.

ODra-bendigedig, a gogoneddus Arglwydd Dduw, yr hwn ŵyt o anfeidrol ddaioni a thrugaredd; Nyni dy Greaduriaid truain, y rhai a luniaiſt ac a gynheliaiſt ti, gan gadw yn fyw ein heneidiau, a'n hachub yr awr hon allan o ſaſn angau, ŷm eilwaith yn ein cyflwyno ein hunain o flaen dy Dduwiol Fawredd, i oſtrymmu i ti aberth o foliant a diolwch, o herwŷdd i ti ein gwrando pan yn ein blinder y galwaſom arnat, ac ni fwriaiſt ymaith ein gweddi, a wnaethom ger dy fron di, yn ein caeth gyfyngder; ie pan gyfrifem bob peth yn golledig, ein llong, ein dâ, ein bywyd, yna tydi a edrychaiſt yn drugarog arnom, ac a orchymynaiſt ymwared rhyfeddol, am yr hon yr ŷm ni, gwedi ein goſod yr awr hon mewn diogelwch, yn rhoddi yr holl foliant a'r gogoniant i'th Enw bendigedig, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Neu hon.

OAlluoccaf Dduw, graſuſol a daionus, y mae dy drugaredd goruwch dy holl weithredoedd, ond hi a eſtynnwyd allan mewn môdd hynod tu ag attom ni, y rhai môr alluog ac môr rhyfeddol a amddiffynnaiſt. Ti a ddangoſaiſt i ni bethau ofnadwy, a rhyfeddódau yn y dyfnder, fel y gwelem pa Dduw galluog a graſol ydwyt ti; môr ddigonol a pharod i gymmorth y ſawl a ymddiriedant ynot. Ti a ddangoſaiſt i ni y môdd y mae'r gwyntoedd a'r moroedd yn ufuddhâu i'th orchymmyn, fel y dyſgom, hŷd yn oed ganddynt hwy, fod o hyn allan yn oſtyngedig i'th lais, a gwneuthur dy ewyllys. O herwŷdd pa ham nyni a fendigwn ac a ogoneddwn dy Enw, am y cyfryw dy drugaredd yn ein hachub, pan oeddym ar ddibyn cyfrgoll. Ac yr ŷm yn attolwg i ti, gwnâ ni yr awrhon mor wîr yſtyriol o'th drugaredd, megis yr oeddym y prŷd hynny o'r enbydrwydd. A dyro i ni galonnau parod bob amſer i ddadgan ein diolchgarwch, nid ar air yn unig, eithr trwy ein buchedd hefyd, gan fod yn ufuddach i'th orchymynion bendigedig. Eſtyn, attolwg, dy ddaioni hyn i ni, fel y bo i ni, y rhai a achubaiſt, dy waſanaethu mewn ſancteiddrwydd ac uniondeb holl ddyddiau ein bywyd, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd a'n Hiachawdwr. *Amen.*

Emyn o Fawl a Diolchgarwch ar ôl Tymmeſtl beryglus.

DEuwch, clodforwn yr Arglwydd, canys da yw: a'i drugaredd a bery yn dragywydd.

Mawr yw'r Arglwydd, a thra moliannus: felly dyweded gwaredigion yr Arglwydd, y rhai a waredodd efe o an-wâr derfyſg y Môr.

Trugarog a graſlawn yw'r Arglwydd: hwyrfrydig i lid, a mawr o Drugarowgrwydd.

Nid yn ôl ein pechodau y gwnaeth efe â ni: ac nid yn ôl ein hanwireddau y talodd efe i ni;

Canys cyfuwch ag yw'r nefoedd uwch law'r ddaear: y rhagorodd ei drugaredd ef tu ag atom ni.

Ing a blinder a gawſom: daethom hŷd borth angau.

Dyfroedd y Môr oedd ar lifo droſom: Dyfroedd chwyddedig oeddynt ar fyned dros ein Henaid.

Rhuodd y Môr: a'r tymheſtl-wŷnt a ddyrchafodd ei donnau ef;

Ni a eſgynnaſom megis i'r nefoedd, diſgynnaſom eilwaith i'r dyfnder: Ein henaid a doddodd ynom gan flinder;

Yna y gwaeddaſom arnat ti, O Arglwydd: tithau a'n dygaiſt allan o'n gorthrymder.

Bendigedig fyddo dy Enw, yr hwn ni ddirmygaiſt weddi dy weiſion: Eithr gwrandewaiſt ar ein llêf, ac achubaiſt ni.

Anfonaiſt allan dy Air: goſtegodd y gwŷnt yſtormus, ac hi aeth yn dawel.

O bid i ninnau am hynny foliannu'r Arglwydd am ei ddaioni: a mynegi y Rhyfeddodau a wnaeth, ac y mae yn waſtad yn eu gwneuthur i feibion dynion.

Moliannus fyddo'r Arglwydd beunydd: ſef, yr Arglwydd yr hwn ſydd yn ein cymmorth, ac yn tywallt ei fendithion arnom.

Efe yw ein Duw ni, ſef, y Duw oddi wrth yr hwn y daw iechydwriaeth: Duw yw yr Arglwydd, trwy yr hwn y diangaſom rhag angau.

Tydi, Arglwydd, a'n llawenyćhaiſt ni â gweithred dy ddwylaw: ac ni a orfoleddwn yn dy foliant.

Bendigedig fyddo'r Arglwydd Dduw: ſef yr Arglwydd Dduw, yr hwn yn unig ſydd yn gwneuthur rhyfeddodau;

A bendigedig fyddo Enw ei Fawredd ef byth: a dyweded pob un o honom, Amen, Amen.

Gogoniant i'r Tâd, *&c.*
Megis yr oedd yn y dechreu, *&c.*

2 Cor. 13. 13.

GRâs ein Harglwydd Ieſu Griſt, a Chariad Duw, a Chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fyddo gyd â ni oll byth bythoedd. *Amen.*

Ar ôl Buddugoliaeth, neu Ymwared oddi wrth y Gelyn.

¶ Salm neu Emyn o Fawl a Diolchgarwch ar ôl Buddugoliaeth.

ONi buaſai'r Arglwydd yr hwn a fu gyd â ni, y gallwn ddywedyd yn awr: oni buaſai'r Arglwydd yr hwn a fu gyd â ni, pan gyfododd dynion yn ein herbyn.

Yna y'n llyngcaſent ni yn fyw: pan ennynnodd eu llîd hwynt i'n herbyn.

Yna y dyfroedd a lifaſai droſom ni, y ffrŵd a aethai dros ein henaid: yna'r aethai dros ein henaid ddyfroedd chwyddedig.

Eithr bendigedig fyddo'r Arglwydd: yr hwn ni'n rhoddodd ni yn yſglyfaeth i'w dannedd hwynt.

Yr Arglwydd a wnaeth: iechydwriaeth nerthol i ni.

Nid â'n cleddyf ein hun y goreſgynnaſom, nid ein braich ein hun a barodd i ni iechydwriaeth: eithr dy ddeheu-law di a'th fraich a llewyrch dy wyneb, o herwŷdd it' ein hoffi ni.

Yr Arglwydd a ymddangoſodd droſom ni: yr Arglwydd a orchuddiodd ein pennau, ac a wnaeth i ni eſyll yn nŷdd y frwydr.

Yr Arglwydd a ymddangoſodd droſom ni: yr Arglwydd a ddadymchwelodd ein gelynion, ac a ddrylliodd y rhai a gôdaſant i'n herbyn.

O herwŷdd pa ham nid i ni, O Arglwydd, nid i ni: ond i'th Enw di rhodder y Gogoniant.

Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion, yr Arglwydd a wnaeth bethau mawrion i ni: am yr hyn yr ydym yn llawen.

Ein

Ein porth ni ſydd yn Enw 'r Arglwydd: yr hwn a wnaeth neſoedd a daear.

Bendigedig ſyddo Enw 'r Arglwydd: o'r pryd hyn hŷd yn dragywydd.

Gogoniant i'r Tâd, *&c.*

Megis yr oedd yn y dechreu, *&c.*

¶ *Ar ôl yr Emyn yma gellir canu y* Te Deum.

Yna y Colect hwn.

O Holl-alluog Dduw, goruchel Lywiawdr yr holl ſŷd, yn llâw yr hwn y mae nerth a chadernid, na all neb ſefyll i'w herbyn; Nyni a fendithiwn, ac a fawrygwn dy Enw mawr a gogoneddus am y ſuddugoliaeth lwyddiannus hon: yr holl ogoniant o honi a ddodwn i ti, yr hwn ŵyt unig Roddwr pob goruchafiaeth. Ac nyni a attolygwn i ti, roddi i ni Râs i ddyrchafu dy fawr Drugaredd hon i'th ogoniant di, i fawrhâd dy Efengyl, i anrhydedd ein goruchel Arglwydd Frenhin, ac hŷd y bo ynom i leſhâd holl ddynol ryw. Ac ni a attolygwn i ti, roddi i ni y cyſryw ymſynniad o'th fawr drugaredd hon, ac a'n rhwymo ni i wîr ddiolchgarwch, a ymddangoſo yn ein bucheddau trwy ymarweddiad goſtyngedig, ſanctteiddlan, ac ufudd ger dy fron di dros ein holl ddyddiau; trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, i'r hwn gyd â Thi a'r Yſbryd Glân, megis am dy holl Drugareddau, felly yn enwedig am yr oruchafiaeth a'r ymwared preſennol, y byddo 'r holl ogoniant a'r anrhydedd hŷd yn oes oeſoedd. *Amen.*

2 Cor. 13. 13.

GRâs ein Harglwydd Ieſu Griſt, a Chariad Duw, a Chymdeithas yr Yſbryd Glân, a fyddo gyd â ni oll byth bythoedd. *Amen.*

Wrth Gladdu eu meirw ar y Môr.

¶ *Gellir arfer y Gwaſanaeth yn y llyſr Gweddi Gyffredin: yn unig yn lle y geiriau hyn* [Gan hynny yr ŷm ni yn rhoddi ei gorph ef i'r ddaear, *&c.*] *dywedet,*

GAN hynny yr ŷm ni yn rhoddi ei gorph ef i'r Dyfnder, i ddychwelyd i lygredigaeth, gan ddiſgwyl am adgyfodiad y Corph, (pan fwrio 'r môr ei feirw allan) a bywyd y bŷd y ſydd ar ddyfod, trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt; yr hwn ar ei Dhyfodiad a newidia ein Corph gwael ni, fel y byddo yn gyffelyb i'w gorph gogoneddus ef, yn ôl y galluog weithrediad trwy 'r hwn y dichon efe ddaroſtwng pob peth iddo ei hun.

Ffurf Gweddi gyd â Dïolch i'w harfer bob blwyddyn ar y pummed dydd o *Dachwedd*; am ddedwyddol achubiad y Brenhin *IAGO* I. a thair Yſtâd *Lloegr*, rhag y bradol a'r gwaedlyd furndwrn a amcanaſid trwy Bowdr-gwn: Ac hefyd am ddedwyddol Ddyfodiad ei Fawrhydi y Brenhin *WILIAM* ar y Dydd hwn, yn Ymwared i'n Heglwys a'n Cenedl.

¶ *Bid i Weinidog pob Plwyf roddi rhybudd i'w Blwyfolion yn gyhoedd yn yr Eglwys ar y Foreuol Weddi y Sûl o'r blaen, am gadw yn barchus y Dŷdd dywededig. Ac wedi 'r Foreuol Weddi, neu 'r Bregeth, ar y dywededig* Bummed dŷdd o Dachwedd, *darllened ar oſteg, yn ddorſparthus, ac yn eglur, yr* Act Barliament *a wnaethpwyd yn y Drydedd flwyddyn o Deyrnaſiad y Brenhin* Iago *'r Cyntaf, am gadw 'r unrhyw.*

¶ *Un ſydd y Gwaſanaeth ag a arferir ar Ddyddiau gŵyl yn hollol, ond a drefnir iſod yn amgenach.*

¶ *O's ar Sûl y digŵydd, yn unig y Colect priodol i'r Sûl hwnnw a arddodir at y Gwaſanaeth yma.*

¶ *Y Foreuol Weddi a ddechreu â'r Adnodau hyn.*

TRugarog, a graſlawn yw 'r Arglwydd: hwyrfrydig i lid, a mawr o drugarowgrwydd. *Salm* 103, 8.

Nid byth yr ymryſon efe: ac nid byth y ceidw efe ei ddigoſaint. *gwers* 9.

Nid yn ôl ein pechodau y gwnaeth efe â ni: ac nid yn ôl ein hanwireddau y talodd efe i ni. *gwers* 10.

¶ *Yn lle* Venite, exultemus, *arferer yr Emyn hon ſy'n canlyn, gwers gan yr Offeiriad, a phob ail-wers gan y Clochydd a'r Bobl.*

CLodforwch yr Arglwydd, canys da yw: o herwŷdd ei drugaredd ſydd yn dragywydd. *Salm* 107. 1.

Felly dyweded gwaredigion yr Arglwydd: y rhai a waredodd efe o lâw y gelyn. gwers 2.

Llawer gwaith y'm cyſtuddiaſant o'm hieuengctid: y dichon Iſrael ddywedyd yn awr. *Salm* 129. 1.

Llawer gwaith y'm cyſtuddiaſant o'm hieuengctid: etto ni'm gorfuant. gwers 2.

Canys heb achos y cuddiaſant eu rhwyd i mi mewn pydew: yr hwn heb achos a gloddiaſant i'm henaid. *Salm* 35. 7.

Darparaſant rwyd i'm traed, crymmwyd fy enaid: gloddiaſant bydew o'm blaen, ſyrthiaſant yn ei ganol. Salm 57. 6.

Mawr yw ein Harglwydd, a mawr ei nerth: aneiriſ yw ei ddeall. *Salm.* 147. 5.

Yr Arglwydd ſydd yn dyrchafu y rhai llariaidd: gan oſtwng y rhai annuwiol hŷd lawr. gwers 6.

Bydded dy lâw dros ŵr dy ddeheu-law: a thros Fâb dŷn yr hwn a gadarnheaiſt i ti dy hun. *Salm* 80. 17.

Felly ni chiliwn yn ôl oddi wrthyt ti: bywhâ ni, ac ni a alwn ar dy Enw. gwers 18.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb: ac i'r Yſbryd Glân;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad: yn oes oeſoedd. Amen.

¶ *Salmau priod.* LXIV, CXXIV, CXXV.

¶ *Llithiau priod.* I. 2 Sam. XXII. *Te Deum.* II. Act. XXIII. *Jubilate.*

¶ *Yn y gwerſiclau ar ôl y Credo, yr angbwanegir ac yr arferir y rhai hyn dros y Brenhin.*

Offeiriad. Arglwydd, cadw y Brenhin,

Pobl. Yr hwn ſydd yn ymddiried ynot.

Offeiriad. Anfon iddo borth o'th Sanctteiddfa.

Pobl. Ac byth yn nerthol amddiffyn ef.

Offeiriad. Na âd i'w elynion gael y llâw uchaf arno.

Pobl. Na âd i'r enwir neſſâu i'w ddrygu.

¶ *Yn lle 'r Colect cyntaf ar y Foreuol Weddi, yr arferir y ddau hyn.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn ym mhob oes a ddangoſaiſt dy nerth a'th drugaredd yng warediadau rhyfeddol a graſuſol dy Eglwys, ac yn noddi cyſiawn a chrefyddol Frenhinoedd a Stadau yn proffeſu dy ſanctaidd a'th dragywyddol wirionedd, rhag cŷdfwriadau maleiſus, ac yſtrywiau drygionus eu holl Elynion: Ni a roddwn i ti ein diffuant ddiolch a moliant, am ryfeddol a galluog warediad ein diweddar raſuſaf Arglwydd Frenhin *IAGO* y Cyntaf, y Frenhines, y Tywyſog, a'r holl frîg brenhinol, gyd â Dyledogion, Eglwyſwŷr, a Chyffredin *Lloegr*, ymgynnulledig y pryd hwnnw ym Mharliament, wedi eu barnu trwy ddichell y Pabyddion megis defaid i'r lladdfa, mewn môdd creulon a nawſ-wyllt, tu hwnt

ibob

i bob eſampl yn y cŷn-oeſoedd. Nid ein haeddiant ni, ond dy drugaredd di, nid ein rhag-ddarbod ni, eithr dy ragluniaeth di a'n gwaredodd ni rhag yr annaturiol Gŷd-fwriad hwn: Ac am hynny, nid i ni, O Arglwydd; nid i ni, ond i'th Enw di y rhodder yr holl anrhydedd a'r Gogoniant yn holl Eglwyſi 'r Saint, o genhedlaeth i genhedlaeth, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

DErbyn hefyd, raſuſaf Dduw, ein diolch diffuant am it' lenwi'n calonnau drachefn â llawenydd a gorfoledd, wedi 'r amſer y cyſtuddiaiſt ni, a rhoi caniad newŷdd yn ein geneuau, trwy ddwyn ei Fawrhydi y Brenhin *William* ar gyfen 'i heddyw, i ware ein Heglwys a'n Cenedl oddi wrth Draws Iywodraeth a Chamrwyſg Babaidd. Addolwn ddoethineb a chyfiawnder dy Ragluniaeth, a gyfryngodd mŏr amſerol ar eitha'n perygl, ac a ſiommodd holl fwriadau 'n gelynion. Attolygwn i ti roi i ni'r cyfryw ſywiol a pharhäus ymſynniad o'r hyn a wnaethoſt erom yn, ac er, y prŷd hynny, fel nad elom yn ddifraw ddiofal yn ein Hufudd-dod, trwy ryſygu ar dy fawr a'th anhaeddedigol ddaioni; eithr tywys o hono ni i edifeirwch, a'n cynhyrfu i fod yn fwy'n diwydrwydd a'n hawŷdd-fryd yn holl ddyledſwyddau 'n Crefydd, a gedwaiſt i ni yn rhyfeddol. Blodeued felly yn ein plith Wirionedd a Chyfiawnder, Mwyneidd-dra brawdol a Chariad perffaith, Duwioldeb a Dywoſiwn, undeb a chŷdgordiad, a phob Rhinweddau eraill, fel y bônt yn Waſtadfod ein Hamſeroedd, i wneud yr Eglwys hon yn fawl ar y Ddaear. Hyn oll a ufudd-erfyniwn ni er mwyn ein Harglwydd a'n Hiachawdwr bendigedig. *Amen.*

¶ *Ar ddiwedd y Litani (a arferir yn waſtad ar y dŷdd hwn) ar ôl y Colect* (Ni a attolygwn i ti, &c.) *y dywedir hyn y ſydd yn canlyn.*

HOll-alluog Dduw a nefol Dâd, yr hwn o'th raſol ragluniaeth, a'th dyner drugaredd tu ag attom, a ragflaenaiſt falais a dychymmygion ein gelynion, trwy ddatguddio a gwaradwyddo eu bwriad erchyll ac yſgeler, a gŷd-fwriadaſent, ac a amcaniaſent ei ddwyn i ben y dŷdd heddyw yn erbyn y Brenhin a holl Yſtâd *Loegr*, er dymchweliad y Llywodraeth a'r Grefydd a ſefydlwyd yn ein plith; Ac heddyw hefyd a dywyſaiſt yn rhyfeddol dy Wâs y Brenhin *William*, ac a'i dygaiſt e'n ddiogel i *Loegr*, i'n cadw rhag diweddar ymgais ein Gelynion i'n difuddio ni o'n Crefydd a'n Cyfreithiau: Nyni yn oſtyngeiddiaf ydym yn moliannu, ac yn mawrygu dy Enw gogoneddus am dy anfeidrol radlawn ddaioni hyn tu ag attom a amlygaiſt yn y ddeu-dwrn hyn o'th Drugaredd. Yr ŷm yn cydnabod mai dy drugaredd di, dy drugaredd di yn unig ydoedd, na'n difethwyd: Canys yr oedd ein pechodau yn llefain hŷd y nêf i'n herbyn; a'n hanwireddau yn deilwng yn galw am ddial arnom. Eithr tydi ni wnaethoſt â ni yn ôl ein pechodau, ac ni obrwyaiſt ni yn ôl ein hanwireddau, ac ni'n traddodaiſt ni, fel yr haeddaſom, i fod yn yſglyfaeth i'n gelynion: Eithr yn dy drugaredd a'n gwaredaiſt ni rhag eu malais hwynt, ac a'n hachubaiſt rhag angau a diſtryw. Trwy yſtyried o honom dy Ddaioni hyn, O Arglwydd, gweithreda ynom wîr edifeirwch, fel na bo ein hanwireddau dramgwyddi ni. Ac angwanega ynom fwyfwy ffŷdd ſywiol, a chariad ffrwythlawn ym mhob ufudd-dod ſanctaidd, fel y bo it' gynnal dy ffafr (ynghŷd â llewyrch dy Efengyl) i ni ac i'n heppil yn dragywŷdd: A hynny er mwyn dy anwyl Fâb Ieſu Griſt ein hunig Gyfryngwr a'n Dadleuwr. *Amen.*

¶ *Yn lle 'r Weddi* [Ar Amſer Rhyfel a Therfyſgau] *arferir y Weddi hon ſy'n canlyn.*

O Arglwydd, yr hwn heddyw a ddatguddiaiſt faglau angau, a dânaſid i ni, ac yn rhyfeddol a'n gwaredaiſt oddi wrthynt; Bydd di yn waſtad yn noddwr gallŵog i ni, a gwaſgar ein gelynion a ſychedant am waed; trô eu cynghorion yn ffolineb, a diddymma hwynt, goſtwng eu balchder, tola eu drygioni, a gwaradwydda eu bwriadau: Nertha ddwylaw 'n graſuſaf Frenhin *Siôr*, a phawb y ſy wedi eu goſod mewn awdurdod dano, i dorri ymaith trwy farn a chyfiawnder gymmaint oll o weithredwŷr anwiredd, ag a droant Grefydd yn wrthryfel, a ffŷdd yn Derfyſg; fel na chaffont byth y llâw uchaf arnom, ac na orfoleddont yn ninyſtr dy Eglwys yn ein plith. Eithr trwy fod ein graſuſaf Frenhin a'i Deyrnaſoedd yn ymgynnal yn dy wîr Grefydd, a thrwy dy Radol Ddaioni yn cael eu noddi yn yr unrhyw, allu o honom ni oll dy wafanaethu di yn ddyledus, a rhoddi i ti ddiolch yn dy ſanctaiddlan Gynnulleidfa, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yngwaſanaeth y Cymmun, yn lle Colect y Dŷdd, yr arferir hwn ſy'n canlyn.*

TRragywyddol Dduw, â'n galluoccaf Noddwr, yr ŷm ni dy weiſion annheilwng yn oſtyngedig yn ein cyflwyno ein hunain ger bron dy Fawredd, gan gydnabod dy Allu, dy Ddoethineb a'th Ddaioni, yn cadw yn ddiangol y Brenhin, a thair Yſtâd *Lloegr*, ymgynnulledig ym Mharliament, rhag ŷ diſtryw a fwriadaſid heddyw i'w herbyn; Gwnâ ni, ni a attolygwn i ti, yn wîr ddiolchgar am hon a'th holl drugareddau mawrion eraill tu ag attom; yn bennodol am ail-wneud y Dŷdd hwn yn goſus trwy arŵydd newŷdd o'th Garedigrwydd tu ag attom. Bendithiwn di am roddi i'w ddiweddar Fawrhydi y Brenhin *William* ddiogel Ddyſodiad yma, ac am wneud i bob Gwrthgais ſyrthio o'i flaen ef, hŷd onid aeth e'n Frenhin a Llywydd arnom. Cadw ac amddiffyn ein goruchaf Arglwydd Frenhin *Siôr*, a'r holl welygordd frenhinol, rhag pob Brâd a chŷdfwriad; Cynnal ef yn dy ffŷdd, ofn, a chariad; Llwydda ei Deyrnaſiad â hîr ddedwyddwch yma ar y ddaear; ac yn ôl hyn corona ef â gogoniant tragywyddol, yn nheyrnas nêf trwy Ieſu Griſt ein hunig Iachawdwr a'n Prynwr. *Amen.*

Yr Epiſtol.

Ymddaroſtynged pob enaid. Rhuf. 13, gwers 1. hŷd wers 8.

Yr Efengyl.

A bu, pan gyflawnwyd y dyddiau. S. Luc 9. gwers 51. hŷd wers 57.

¶ *Ar ôl y Credo, oni bydd pregeth, y darllenir un o'r chwe Homili yn erbyn Gwrthryfel.*

¶ *Darllener yr adnod hon ar yr Offrymmiad.*

PA bethau bynnag oll a ewyllyſioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnêwch chwithau iddynt hwy; canys hyn yw 'r Gyfraith a'r Prophwydi. *S. Math.* 7. 12.

¶ *Ar ôl y Weddi dros yr Eglwys filwrus, arferer y Weddi hon ſy'n canlyn.*

DUw, yr hwn y mae dy Enw yn ardderchog ar yr holl ddaear, a'th ogoniant uwch y nefoedd; yr hwn a gedwaiſt heddyw yn rhyfeddol ein Heglwys a'n Gwladwriaeth oddi wrth ddirgel Ddyfais ac uffernol falais Cŷd-fradwŷr Pabaidd; ac ar gyfen 'i heddyw hefyd a ddechreuaiſt roi i ni nerthol Ymwared rhag amlwg Dœaws-lywodraeth a Gorthrech yr unrhyw Elynion creulon a gwaed-fryd: Ni a fendithiwn ac a addolwn dy ogoneddus Fawredd, fel am y cyntaf, felly am dy ryfeddol garedigrwydd diweddar hyn i'n Heglwys a'n Cenedl, yn amddiffyn ein Crefydd a'n Breiniau. Ac ufudd weddiwn ar i ddwyiol ymſynad ar dy ad-roddedig drugaredd hon adnewyddu a chynnyddu ynom Yſbryd o Gariad a Diolchgarwch i ti yr unig Awdur, Yſbryd o heddychol ymoſtyngiad ac Ufudd-dod i'n graſol Oruchaf Arglwydd Frenhin *Siôr*; ac Yſbryd ô garîad gwreſog i'n Crefydd ſanctaidd, a achubaiſt ti 'r awrhon eilwaith mor rhyfeddol, ac a'i ſefydlaiſt yn Fendith i ni ac i'n Heppil. A hyn a erfyniwn ni er mwyn Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Ffurf Gweddi gyd ag Ympryd, i'w harfer bob blwyddyn ar y Degfed ar hugain o *Jonawr*, ſef, Dydd Merthyrolaeth y gwynfydedig Frenhin *Siarles* y Cyntaf: I erfyn trugaredd Dduw, na byddo nac i Euogrwydd y Gwaed gwirion diniweid hwnnw, na'r Pechodau eraill, trwy ba rai y cyffröwyd Duw i'n traddodi Ni a'n Brenhin i ddwylaw Dynion Creulon ac Yſgeler, gael eu Hymweled un amſer rhag llaw, arnom ni, na'n Heppil.

¶ *O's ar ſâl y digwydd y dŷdd hwn, y ſurf hon o Weddi a arferir, a'r Ympryd a gedwir drannoeth. Ac ar Ddŷdd yr Arglwydd neſaf o flaen y dŷdd i'w gadw, ar y Foreuol Weddi, yn ebrwydd ar ôl Credo Nicæa, y rhybuddir am gadw yn barchus yr unrhyw ddŷdd.*

¶ *Un ſydd y Gwaſanaeth ar y Dŷdd ag a arferir ar Ddyddiau-gŵyl yn hollol: ond am a oſodir iſod yn amgenach.*

Trefn am WEDDI FOREUOL.

¶ *Y Gweinidog a ddechreu ag un neu ychwaneg o'r Ymadroddion hyn.*

GAn yr Arglwydd ein Duw y mae trugaredd a maddeuant, er gwrthryfelu o honom i'w erbyn; Ni wrandawſom chwaith ar lais yr Arglwydd ein Duw i rodio yn ei gyfreithiau ef, y rhai a roddodd ef o'n blaen ni. *Dan.* 9. 9, 10.

Cosba ni, Arglwydd, etto mewn barn nid yn dy lid, rhag it' ein gwneuthur yn ddiddym. *Jer.* 10. 24.

Arglwydd, na ddôs i farn â'th weiſion, o herwŷdd ni chyfiawnheir neb byw yn dy olwg di. *Sal.* 143. 2.

¶ *Yn lle* Venite, Exultemus, *dyweder neu ganer yr Emyn ſydd yn canlyn; un wers gan yr Offeiriad, a phob ail gan y clochydd a'r Bobl.*

CYfiawn ydwyt ti, O Arglwydd: ae uniawn yw dy farnedigaethau! *Sal.* 119. 137.

Ti ydwyt gyfiawn yn yr hyn oll a ddigŵyddodd i ni: canys gwirionedd a wnaethoſt ti, a ninnau a wnaethom yn annuwiol. Neh. 9. 33.

Minnau, braidd na lithrodd ſy nhraed: prin na thripiodd ſy ngherddediad. *Sal.* 73. 2.

Canys cenfigennais wrth y rhai ynfyd: pan welais lwyddiant y rhai annuwiol. gwers 3.

Y mae brenhinoed y ddaear yn ymoſod, a'r pennaethiaid yn ymgynghori ynghŷd: yn erbyn yr Arglwydd ac yn erbyn ei Grift ef. *Sal.* 2. 2.

Canys ymgynghoraſant yn unfryd: ac ymwnaethant i'w erbyn. Sal. 83. 5.

Efe a glywodd ogan llaweroedd, dychryn cedd o bob parth: pan gŷd-ymgynghoraſant yn ei erbyn ef, y bwriadaſant ei ddieneidio. *Sal.* 31 13.

A thafodau celŵyddog y llefaraſant i'w erbyn cylchynaſant ef hefyd â geiriau câs: ac ymladdaſant ag ef heb achos. Sal. 109. 2, 3.

Ie hefyd y gwŷr oedd anwyl ganddo ef, yn y rhai yr ymddiriedodd: ac a fwyttaodd ei fara, a ddyrchafodd eu ſawdl i'w erbyn. *Sal.* 41. 9.

Talaſant iddo ef ddrwg dros dda: i ysbeilio ei enaid. Sal. 35. 12.

Ymgynghoraſant yn unfryd, gan ddywedyd, Duw a'i gwrthododd ef: erlidiwch a dèliwch ef, canys nid oes gwaredydd. *Sal.* 71. 10, 11.

Anadl ein ffroenau, Enneiniog, yr Arglwydd, a ddaliwyd yn eu rhwydau bwynt: am yr hwn y dywedaſom, Dan ei gyſgod ef y byddwn ni byw. Galar. 4. 20.

Y gwrthwynebwr a'r gelyn a ddaethant i byrth Caerſalem: gan ddywedyd, Pa brŷd y bydd efe farw, ac y derfydd am ei Enw ef? *Galar.* 4. 12. *Sal.* 41. 5.

Aſwydd meddant a lŷn wrtho: a chan ei ſod yn gorwedd, ni chyfyd mwy. gwers 8.

Tyſtion gau a gyfodaſant i'w erbyn: holaſant iddo ef yr hyn ni's gwyddai oddi wrtho. *Sal.* 35. 11.

Am bechodau 'r Bobl, ac anwiredd yr Offeiriaid, y tywalldaſant waed y cyfiawn ynghanol Caerſalem. Galar. 4. 13.

Na ddeled ſy enaid i'w cyfrinach hwynt; ſy ngogoniant, na ſydd un â'u cynnulleidfa hwynt: canys yn eu dig y lladdaſant ŵr. *Gen.* 49. 6.

Sef, Gŵr dy ddebeulaw: Mâb y dŷn yr hwn a gadarnheaiſt i ti dy hun. Sal. 80. 17.

Yngolwg y rhai angall yr oedd efe yn marw: a drwg y cyfrifent ei ddiwedd ef. *Doeth.* 3. 2.

Hwynt hwy ſyliaid a feddyliaſant ſod ei ſuchedd ef yn ynfydrwydd, a'i ddiwedd yn ammharchus: eithr y mae efe mewn tangnefedd. Doeth. 5. 4. a 3. 3.

O blegid er ei gyſtuddio yngolwg dynion: etto 'r oedd ei obaith yu llawn tragywyddoldeb. *Doeth.* 3. 4.

Pa ſŵdd y cyfrifir ef ymhlith Meibion Duw: ac y mae ei rân ef ym mŷſg y Saint! Doeth. 5. 5.

Ond, O Arglwydd Dduw 'r dial, O Dduw 'r dial: gwnâ ddaioni yn dy ewyllyſgarwch i Seion. *Sal.* 94. 1. *a* 51. 18.

Bydd drugarog, O Arglwydd, wrth dy bobl, y rhai a brynaiſt: ac na ddyro euogrwydd gwaed gwirion yn ein herbyn. Deut. 21. 8.

Oh! na chaſgl ein heneidiau gyd â phechaduriaid: na'n bywyd gyd â dynion gwaedlyd. *Sal.* 26. 9.

Gwared ni oddi wrth waed, O Dduw, tydi yr hwn ŵyt Dduw ein Hiechydwriaeth: a'n tafod a gân yn llaſar am dy gyfiawnder. Sal. 51. 14.

O herwŷdd nid ŵyt ti Dduw yn ewyllyſio anwiredd: a drŵg ni thrig gyd â thi. *Sal.* 5. 4.

Difetbi y rhai a ddywedant gelŵydd: yr Arglwydd a ffieiddia y gŵr gwaedlyd a'r twyllodrus. gwers. 6.

Mòr ddiſymmwth yr aethant yn anghyfanneddle: pallaſant a darfuant gan ofn. *Sal.* 73. 19.

Fel breuddwyd, wrth ddihuno un: Felly O Arglwydd, pan ddeffröech y dirmygi eu gwêdd hwynt o'r ddinas. gwers 20.

Mawr a rhyfedd yw dy weithredoedd, O Arglwydd Dduw Holl-alluog: cyfiawn a chywir yw dy ffyrdd di, Brenhin y Saint! *Dad.* 15. 3.

Cyfiawn ydwyt ti, O Arglwydd: ac uniawn yw dy farnedigaethau. Sal. 119. 137.

Gogoniant i'r Tâd, &c.

Megis yr oedd yn y dechreu, &c.

¶ *Salmau prïod.* IX, X, XI.

¶ *Llithiau prïod.* { I. 2. Sam. I. *Te Deum.* / II. S. Math. XXVII. *Jubilate.*

¶ *Yn lle y Colect cyntaf ar y Foreuol Weddi, yr arferir y ddau hyn ſy neſaf yn canlyn.*

OAlluoccaf Dduw, ofnadwy yn dy farnedigaethau, a rhyfeddol yn dy weithredoedd tu ag at feibion dynion; yr hwn yn dy dôſt ddigllonedd a oddefaiſt (megis ar y dŷdd heddyw) dorri ymaith fywyd ein diweddar rafol Arglwydd frenhin *Siarles*

y

yCyntaf, trwy ddwylaw dynion yſgeler a gwaedlyd; Nyni dy greaduriaid pechadurus ymgynnulledig yma ger dy fron, ydym yn enw holl drigolion y Deyrnas hon yn oſtyngedig yn cyfaddef, mai pechodau mawr-waedd y genedl yma oedd yr achos o ddwyn i lawr y farnedigaeth drom hon arnom. Eithr, O Dduw graſuſol pan ymofynnech am waed, na ddyro euogrwydd y gwaed gwirion hwn (tywalltiad pa un nid oes dim ond gwaed dyFâb di a all ei ddiwygio) na ddyro mo hono ar gyfrif pobl y Tîr hwn; ac na ofynner ef byth gennym ni, na'n heppil. Trugarhâ, O Arglwydd, trugarhâ wrth dy Bobl y rhai a brynaiſt, ac na lidia wrthym yn dragywydd: Eithr maddeu i ni er mwyn dy drugareddau, trwy ryglyddon dy Fâb ein Harglwydd Ieſu Griſt. *Amen.*

BEndigedig Arglwydd, yngolwg yr hwn gwerthfawr yw marwolaeth dy Saint; Ni a fawrygwn dy Enw am dy aml râs a roddaiſt i'n diweddar Arglwydd Frenhin a ferthyrwyd; trwy'r hwn y nerthwyd ef mor gyſſurus i ddilyn camrau ei wynfydedig Feiſtr a'i Iachawdwr, mewn diyſgog addfwyn oddefiad o bob ammharchiadau creulon, ac yn y diwedd yn gwrthwynebu hŷd at waed; a'r prŷd hynny hefyd ar ôl yr un eſampl, yn eirioli dros ei ddihenyddwŷr: Bydded ei Goffadwriaeth ef, O Arglwydd, byth yn ſendigedig yn ein plîth; fel y gallom ninnau ddilyn eſampl ei ŵrolder a'i ddïanwadalwch, ei oſtyngeiddrwydd a'i ammynedd, a'i fawr gariad ef. A chaniattâ i'n gwlâd hon fôd yn rhŷdd oddi wrth ddïal am ei waed cyfiawn ef, a'th drugaredd gael ei gogoneddu ym maddeuant ein pechodau; A'r cwbl er mwyn Ieſu Griſt, ein hunig Gyfryngwr a'n Dadleuwr. *Amen.*

¶ *Ar ddiwedd y Litani* (*a arferir yn waſtad ar y dŷdd hwn*) *ar ôl y Colect* (Ni a attolygwn i ti O Dâd, *&c.*) *y darllenir y tri Cholect hyn.*

O Arglwydd, ni a attolygwn i ti, yn drugarog gwrando ein gweddïau, ac arbed bawb a gyffeſant eu pechodau wrthyt, ſel y bo i'r rhai y cyhuddir eu cydwybodau gan Bechod, trwy dy drugarog faddeuant fod yn ollyngedig, trwy Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

O Alluoccaf Dduw a thrugaroccaf Dâd, yr hwn ŵyt yn toſturio wrth bob dŷn, ac nid ŵyt yn casâu dim o'r a wnaethoſt, yr hwn nid ewyllyſi farwolaeth pechadur, ond byw o hono, ac ymchwelyd oddi wrth ei bechod, a bod yn gadwedig: yn drugarog maddeu i ni ein camweddau; derbyn a chyſſura ni, y rhai ydym yn flîn ac yn orthrwm gennym faich ein pechodau: Ti biau o briodolder drugarhâu yn waſtad, i Ti yn unig y perthyn maddeu pechodau. Arbed nyni am hynny, Arglwydd daionus, arbed dy Bobl y rhai a brynaiſt; na ddôs i'r farn â'th weiſion y rhai ŷnt bridd gwael a phechaduriaid truain: Eithr ymchwel felly dy lid oddi wrthym, y rhai ŷm yn oſtyngedig yn cydnabod ein gwaeledd, ac yn wîr edifeiriol gennym ein beiau; ac felly bryſia i'n cynnorthwyo ni yn y bŷd hwn, fel y byddom fyw byth gyd â thi yn y bŷd a ddaw trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

YMchwel di ni, O Arglwydd daionus, ac yna yr ymchwelir ni. Yſtyria, O Arglwydd, yſtyria wrth dy Bobl, y rhai ſydd yn ymchwelyd attat trwy ŵylofain, ymprydio, a gweddïo. Canys Duw trugarog ŵyt ti, yn llawn toſturi, yn dda dy ammynedd, ac yn fawr dy wârder. Yr ŵyt yn arbed pan ŷm ni yn haeddu poenau, ac yn dy lid yr ŵyt yn meddwl am drugaredd. Arbed dy Bobl, Arglwydd daionus, Arbed hwy, ac na ddyger dy etifeddiaeth i waradwydd. Clyw nyni, Arglwydd, canys mawr yw dy drugaredd, ac yn ôl lliaws dy drugareddau edrych arnom, trwy haeddedigaethau a chyfryngdod dy ſendigedig Fâb Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yngwaſanaeth y Cymmun yn neſaf ar ôl y Wedd dros y Brenhin* (Hollalluog Dduw yr hwn ſydd a' deyrnas yn dragywyddol, *&c.*) *yn lle 'r Colect am y dŷdd, yr arferir y ddau Golect yma,* O Alluoccaf Dduw ofnadwy, *&c.* Bendigedig Arglwydd, *&c. ſel yn y Weddi Foreuol.*

Yr Epiſtol.

Ymddaroſtyngwch o blegid hyn. 1 S. Pedr 2. gwers 13. hŷd wers 23.

Yr Efengyl.

Yr oedd rhyw ddŷn o berchen tŷ. S. Math. 21. gwers 33. hŷd wers 42.

¶ *Ar ôl Credo Nicæa y darllenir, yn nifyg pregeth i'r diwrnod hwnnw, y rhàn gyntaf a'r ail o'r Homili a oſodwyd allan trwy Awdurdod, yn erbyn Anufudd-dod a gwrthryſel. Neu pregethed a Gweinidog, yr hwn a ſo 'n gwaſanaethu, Bregeth o'i wneuthuriad ei hun ar yr unrhyw deſtun.*

¶ *Yn yr ofrymmiad y darllener yr adnod hon.*

PA bethau bynnag oll a ewyllyſioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnêwch chwithau iddynt hwy; canys hyn yw 'r Gyfraith a'r Prophwydi. S. *Matth.* 7. 12.

¶ *Ar ôl y Weddi* [Dros holl yſtâd Egl. Criſt, *&c.*] *yr arferir y ddau Golect yma ſydd yn canlyn.*

O Arglwydd ein Tâd Neſol, yr hwn ni chosbaiſt ni, hŷd yr haeddai ein pechodau, eithr yng nghanol barn a gofiaiſt drugaredd; yr ydym ni yn cydnabod mai dy ragorol ffaſr di ydoedd, er i ti am ein haml a'n dirfawr annogaethau, oddef i'th Enneiniog, y Bendigedig Frenhin *Siarles* y Cyntaf, fyrthio (megis ar y dŷdd heddyw) i ddwylaw dynion yſgeler a gwaedlyd, ac ar fôdd creulon ei lâdd efganddynt; etto ni'n gadewaiſt ni dros fyth, megis defaid heb fugail iddynt: eithr yn dy raſol raglunïaeth a gedwaiſt yn rhyfedd ddilys etifedd ei Goron ef, ein Graſuſaf Arglwydd Frenhin y prŷd hynny *Siarles* yr Ail, rhag ei elynion gwaedlyd, gan ei guddio ef dan gyſgod dy Adenydd, hŷd onid aeth eu camrwyſg hwynt heibio; ac yn dy ddaionus amſer goſodedig a'i dygaiſt ef yn ôl, i eiſtedd ar Orſeddfainge ei Dâd; a chyd â'r Brenhinol Deulu, a adferaiſt i ni'n hên Lywodraeth Wledig ac Eglwyſig. Am y rhai hyn dy fawr a'th annhraethadwy Drugareddau, ni a dalwn i ti ein goſtyngeiddiaf ddïolch o eigion ein calonnau; gan attolygu i ti yn waſtad barhâu dy raſol nodded dros yr holl frenhinol deulu, a chaniattâu i'n Graſuſaf Frenhin *Siſr*, hir a llwyddiannus Deyrnaſiad arnom ni. A ninnau dy bobl a'th foliannwn yn dragywydd, ac a ddatganwn dy foliant o Genhedlaeth i genhedlaeth byth, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd a'n Hiachawdwr. *Amen.*

ACHaniattâ, Arglwydd, ni a attolygwn i ti, fod i chŵyl y bŷd hwn, trwy dy reoledigaeth di gael ei dreſnu mòr dangnefeddol, ag y gallo dy Eglwys di dy waſanaethu yn llawen ym mhob duwiol Heddwch, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Y Dreſn am BRYDNHAWNOL WEDDI.

¶ *Yr Emyn oſodedig i'w barfer ar y Foreuol Weddi, yn lle* Venite, exultemus, *a arferir yma heſyd o ſlaen y Salmau Prïod.*

Cyſiawn ydwyt ti, O Arglwydd, *&c.*

¶ *Salmau Prïod.* LXXIX, XCIV, LXXXV.

¶ *Llithiau Prïod.* I. Jer. XII. neu Dan. IX. hŷd w. 22. II. Heb. XI. 32. a'r XII. hŷd w. 7.

¶ *Yn lle 'r Colect Cyntaf ar y Brydnhawnol Weddi, yr arferir y ddau yma ſydd neſaf yn canlyn.*

O Fendigedig Arglwydd Dduw, yr hwn trwy dy ddoethineb wŷt nid yn unig yn cyfeirio, ac yn treſnu pob peth yn gyſſonaf i'th iawnder dy hun; Eithr wŷt heſyd yn cyſiawni dy ewyllys yn y cyſryw ſŵdd, na's gallwn ni na chydnabyddom dy ſod yn gyſiawn yn dy holl ffyrdd, a ſanctaidd yn dy holl weithredoedd: Nyni dy bobl bechadurus ydym yma yn ſyrthio i lawr ger dy fron di, gan gyffeſu mai cyſiawn oedd dy farnedigaethau, yn goddef i ddynion creulon, meibion y Fall, (megis ar y dŷdd hwn) drochi eu dwylaw yngwâed dy Enneiniog; o herwŷdd ein bod ni wedi tynnu yr unrhyw arnom ein hunain, trwy ddirfawr a hîr-barhâus gyffroiadau ein pechodau i'th erbyn: Am ba rai gan hynny, yr ŷm ni yma yn ein daroſtwng ein hunain ger dy fron, dan erfyn dy drugaredd er maddeuant am dannynt oll; ac i ti waredu y Genedl hon oddi wrth waed, (yn enwedig hwnnw a dywalltwyd y dŷdd heddyw.) Ac ymchwel oddi wrthym ni a'n heppil yr holl farnedigaethau hynny a haeddaſom o herwŷdd ein pechodau; Caniattâ hyn er mwyn cwbl-ddigonol haeddedigaethau dy Fâb a'n Hiachawdwr Ieſu Griſt. *Amen.*

O Dduw gwŷn'ſydedig, cyſiawn a galluog, yr hwn a oddefaiſt (ar gyſen' i heddyw) roddi i ſynu dy Anwyl waſanaethwr, ein diweddar Oruchaf Frenhin *Siarles* y Cyntaf; i afreolus gynddeiriogrwydd dynion enwir, i'w ammherchi a'i ddrygu, a c o'r diwedd i'w lâdd ganddynt: Er nad allwn ſynied ar weithred mòr ffiaidd, heb ddychryn a ſyndod; etto yr ŷm yn ddiolchgaraf yn coffâu rhagoriaethau dy râs, yn diſgleirio y prŷd hynny yn dy Eneiniog: yr hwn y bu wiw gennyt ei gynnyſgaeddu hŷd yn awr angau, â meſur rhagorol o ammynedd hynod, addfwynder, a chariad perffaith, o flaen wyneb ei elynion ffyrnig: Ac er goddef o honot iddynt ſyned rhagddynt i'r cyfryw râdd o drais i'w erbyn, ac i'w lâdd ef, a meddiannu ei Orſeddfaingc; etto yn dy fawr drugaredd ti a gedwaiſt ei fâb ef, eiddo 'r hwn o gyfiawnder ydoedd hi, ac o'r diwedd trwy ryfeddol ragluniaeth a'i dygaiſt yn ei ôl, ac a'i goſodaiſt arni, i adferu dy wir Grefydd, ac i ſefydlu Heddwch yn ein plith: Am hynny nyni a ogoneddwn dy Enw, trwy Ieſu-Griſt ein gwŷnfydedig Iachawdwr. *Amen.*

¶ *Yn neſaf ar ôl y Colect* (Goleua ein tywyllwch, *&c.*) *yr arferir y tri Cholect hyn ſydd neſaf yn canlyn,* O Arglwydd, ni a attolygwn i ti, *&c.* O Alluoccaf Dduw a thrugaroccaf Dâd, *&c.* Ymchwel di ni, i Arglwydd, *&c. Fel o'r blaen yn y Foreuol Weddi.*

¶ *Yn neſaf o flaen* Gweddi S. Cryſoſtom, *yr arferir y Colect yma ſydd neſaf yn canlyn.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn y mae dy gyfiawnder fel y mynyddoedd cedyrn, a'th farnedigaethau fel y dyfnder mawr; a'r hwn trwy y ddybryd lofruddiaeth, a wnaethpwyd (ar gyſen' i heddyw) ar Gorph cyſſegredig dy Enneiniog, a ddyſgaiſt i ni nad yw y pennaf o Frenhinoedd, na'r goreu o ddynion yn ddiogelach rhag trais, mwy nâ marwolaeth naturiol; Dyſg i ninnau ar hyn o achos ſelly gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calonnau i ddoethineb; A chaniattâ na allo na godidowgrwydd dim y ſydd fawr, na bri ar ddim y ſydd dda ynom, mewn môdd yn y bŷd dynnu ein golwg oddi ar edrych arnom ein hunain megis llŵch a llŷdw pechadurus: Eithr fel y bo i ni (yn ôl Eſampl dy fendigaid Ferthyr hwn) gyrchu at y nôd am gamp uchel yr alwedigaeth ſydd o'n blaen, trwy ffŷdd ac ammynedd, goſtyngeiddrwydd ac addfwynder, marweiddiad ac ymwrthodiad â ni ein hunain, cariad perffaith, a diyſgog barhâu hŷd y diwedd; A hyn oll er mwyn dy Fâb ein Harglwydd Ieſu Griſt, i'r hwn gyd â thydi, a'r Ysbryd Glân, y bo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant, yn oes oeſoedd. *Amen.*

Ffurf Gweddi gyd â Diolch i'r Holl-alluog Dduw, am iddo oſtegu 'r Gwrthryfel Echryſlon, trwy Edfryd y Brenhin a'r Brenhinol Deulu; A thrwy ad-ſefydlu y Llywodraeth ar ôl hir flynyddoedd o Rwyſtr; Yr annhraethol Drugareddau a gyflawnwyd ar y Nawfed ar hugain o *Fai*, yn y flwyddyn 1660. Ac er Coffadwriaeth am hynny y pennodwyd y Dydd hwnnw trwy Act o Barliament i'w gadw bob blwyddyn yn Wyl dros fyth.

¶ *YR Act Parliament a wnaethpwyd yn y Ddeunddegfed, ac a ſicrhäwyd yn y Drydedd flwyddyn ar ddeg o Deyrnaſiad Brenhin* Siarles *yr Ail, er cadw bob blwyddyn y Nawfed dŷdd ar hugain o* Fai *megis Dŷdd o gyhoeddedig Ddiolch, ſydd i'w darllain yn cyffredinol ym mhob Eglwys ar y Foreuol Weddi, yn neſaf peth ar ôl Credo Nicæa, ar Dŷdd yr Arglwydd neſaf o flaen pob cyfryw Nawfed ar hugain o* Fai, *a rhodder Rhybudd am gadw y rhag-ddywededig Ddiwrnod yn barchedig.*

¶ *Un ſydd y Gwaſanaeth ag a arferir ar Ddyddiau-Gŵyl yn hollol; ond am a oſodir iſod yn amgenach.*

¶ *O's digwydd y Dŷdd bwn ar* Ddydd Jou y Dyrchafael, *neu 'r* Sul-gwyn, *Colectau 'r Gwaſanaeth hwn a arddodir at Waſanaeth y Gŵyliau hynny yn eu prïod gyfle; Ac o's ar* Ddydd Llûn *neu* Ddydd Mawrth *yn wythnos y* Sul-gwyn, *neu ar* Sûl y Drindod, *y Salmau Prïod a oſodwyd yma am y Dŷdd hwn, a arferir yn lle y rhai o gylch cyffredinol, a'r Colectau hefyd a angbwanegir megis uchod; Ac ar bob un o'r achoſion yma, gadawer beibio y rhân arall o'r Gwaſanaeth hwn: Ond o's digwydd ef ar un Sûl arall, arferer yr holl Waſanaeth hwn yn gyfan, fel y canlyn. A pha Wyl bynnag a ddigwydd ar y Dŷdd Uchel-Wyl hwn o Ddiolch, arferer yr Emyn ſy'n canlyn, oſodedig yn lle* Venite, exultemus, *yn waſtadol.*

¶ *Dechreuer*

¶ *Dechreuer y Foreuol Weddi â'r Ymadroddion hyn.*

GAn yr Arglwydd ein Duw y mae Trugareddau a maddeuant, er gwrthryfelu o honom i'w erbyn: Ni wrandawſom chwaith ar lais yr Arglwydd ein Duw, i rodio yn ei Gyfreithiau ef, y rhai a roddodd ef o'n blaen ni. *Dan.* 9, 9, 10.

Trugareddau yr Arglwydd yw na ddarfu am danom ni: o herwydd ni phalla ei doſturiaethau ef. *Galar.* 3. 22.

¶ *Yn lle* Venite, exultemus, *dywed neu ganer yr Emyn ſydd yn canlyn*; *Un Wers gan yr Offeiriad, a phob ail gan y clochydd a'r Bobl.*

TRugareddau 'r Arglwydd a ddatganaf bŷth: â'm genau y mynegaf dy wirionedd o genhedlaeth i genhedlaeth. *Sal.* 89. 1.

Gwnaeth yr Arglwydd goſod ei ryfeddodau: graſawn a thrugarog yw 'r Arglwydd. Sal. 111. 4.

Pwy a draetha nerthoedd yr Arglwydd: ac a ſynega ei holl fawl ef? *Sal.* 106. 2.

Mawr yw gweithredoedd yr Arglwydd: gwedi eu ceiſio gan bawb a'u hoffant. Sal. 111. 2.

Yr Arglwydd ſydd yn dyrchafu y rhai llariaidd: gan oſtwng y rhai annuwiol hŷd lawr. *Sal.* 147. 6.

Yr Arglwydd ſydd yn gwneuthur cyfiawnder a barn: i'r rhai gorthrymmedig oll. Sal. 103. 6.

Nid byth yr ymryſon efe: ac nid byth y ceidw efe ei ddigoſaint. *gwers* 9.

Nid yn ôl ein pechodau y gwnaeth efe â ni: ac nid yn ôl ein hanwireddau y talodd efe i ni. gwers. 10.

Canys cyfuwch ag yw 'r Nefoedd uwchlaw 'r Ddaear: y rhagorodd ei drugaredd ef ar y rhai a'i hofnant ef. *gwers.* 11.

Fel y toſturia Tâd wrth ei blant: felly y toſturia'r Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef. gwers 13.

Profaiſt ni, O Dduw: coethaiſt ni fel coethi arian. *Sal.* 66. 10.

Peraiſt i ddynion farchogaeth ar ein pennau, aethom trwy 'r tân a'r dwfr: a thi a'n dygaiſt allan i le diroall. gwers 12.

Oh, mor aml a blîn gyſtuddiau a wnaethoſt ti i ni eu gweled! etto ti a'n bywheaiſt dracheſn: ac a'n cyſodaiſt dracheſn o orddyſnder y ddaear. *Sal.* 71. 20.

Tydi a'n coſiaiſt yn ein biſel rhâdd, ac a'n hachubaiſt oddi wrth ein gelynion: o herwŷdd dy drugaredd ſydd yn drag'wyddol. Sal. 136. 23, 24.

Graſlawn fuoſt, O Arglwydd, i'th dîr: dychwelaiſt gaethiwed Jacob. *Sal.* 85. 1.

Ein Duw trugarog a'n rhagflaenodd: a Duw a wnaeth i ni weled ein bwyllys ar ein gelynion. Sal. 59. 10.

Hwy a gŵrympaſant ac a ſyrthiaſant: ond nyni a gyſodaſom, ac a ſaſaſom. *Sal.* 20. 8.

Yno y ſyrthiodd gweithwŷr anwiredd: gwthiwyd hwynt i lawr, ac ni allant gyſodi. Sal. 36. 12.

Yr Arglwydd a'n cofiodd ni, efe a'n bendithia: bendithia efe dŷ Iſrael, bendithia efe dŷ Aaron. *Sal.* 115. 12.

Bendithia efe y rhai a ofnant yr Arglwydd: ſychain a mawrion. gwers 13.

O na foliannent yr Arglwydd am ei ddaioni: a'i ryfeddodau i feibion dynion! *Sal.* 107. 21.

Abertbant befyd aberth moliant: a mynegant ei weithredoedd ef mewn gorfoledd. gwers 22.

Na chelant chwaith rhag eu meibion: gan ſynegi i'r oes a ddêl foliant yr Arglwydd, a'i nerth, a'i ryfeddodau y rhai a wnaeth efe. *Sal.* 78. 4.

Fel y gŵybyddo yr oes a ddêl, ſef, y plant a enir: ac na byddont fel eu tadau, yn genhedlaeth gyndyn a gwrthbryfelgar. gwers 6, 9.

Bendithiwch Dduw yn y cynnulleidfaoedd: ſef, yr Arglwydd, y rhai ydych o ffynnon Iſrael. *Sal.* 68. 26.

Bendigedig fyddo 'r Arglwydd, yr hwn a'n llywetha beunydd â daioni: ſef, Duw ein Hiechydwriaeth. gwers 19.

Darſydded weithian anwiredd yr annuwiol: eithr cyſarwydda di y cyfiawn. *Sal.* 7. 9.

Llawenyched ac ymhyfryded ynot ti y rhai oll a'th geiſiant: dywaeded y rhai a garant dy iechydwriaeth bob amſer, Mawryger yr Arglwydd. Sal. 40. 16.

Gogoniant i'r Tâd, &c.

Megis yr oedd yn y dechreu, &c.

¶ *Sal. prïod.* CXXIV, CXXVI, CXXIX, CXVIII.

¶ *Llith. prïod.* { I. 2. Sam. XIX. gw. 9. neu Num. XV. *Te Deum.* II. Epiſtol S. Jud. *Jubilate Deo.*

¶ *Y Gwerſiclau neſaf ar ôl y Credo a fydd y rhain.*

Offeiriad. Arglwydd, dangos dy drugaredd arnom.
Atteb. *A chaniattâ i ni dy iechydwriaeth.*
Offeiriad. Arglwydd, cadw y Brenhin.
Atteb. *Yr hwn ſydd yn ymddiried ynot.*
Offeiriad. Anfon iddo borth o'th ſancteiddfa.
Atteb. *Ac byth yn nerthol amddiffyn ef.*
Offeiriad. Na âd i'w elynion gael y llâw uchaf arno.
Atteb. *Na âd i'r enwir neſâu i'w ddrygu.*
Offeiriad. Gwîſg dy weinidogion ag iawnder.
Atteb. *A gwnâ dy ddewiſol bobl yn llawen.*
Offeiriad. Arglwydd, dyro dangnefedd yn ein dyddiau.
Atteb. *Canys nid oes neb arall a ymladd droſom, ond tydi, O Dduw, yn unig.*
Offeiriad. Bydd i ni, O Arglwydd, yn dŵr cadarn.
Atteb. *Rhag ŵyneb ein gelynion.*
Offeiriad. Arglwydd, gwrando ein gweddïau.
Atteb. *A deled ein llâf bŷd attat.*

¶ *Yn lle 'r Colect cyntaf ar y Foreuol Weddi, yr arferir y ddau byn ſydd yn canlyn.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn ŵyt gadarn dŵr amddiffyn i'th weiſion rhag ŵyneb eu gelynion; yr ydym ni yn rhoddi i ti foliant a diolch am y rhyfeddol ymwared a ganiatteaiſt i'r Teyrnaſoedd hyn oddi wrth Y GWRTHRYFEL MAWR a'r holl drueni a'r gorthrymder, yn canlyn yr unrhyw, dan ba rai y buaſant yn griddfan dros gymmaint o amſer. Yr ydym ni yn cydnabod, mai dy ddaioni di yw, na'n rhoddwyd ni i ſynu yn gwbl yn Yſglyfaeth iddynt hwy: Gan attolwg i ti yn waſdadol barhâu dy gyſryw drugareddau tu ag attom; fel y gŵypo 'r holl fyd mai Tydi yw ein Hachubwr a'n cadarn Waredwr ni, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, *Amen.*

O Arglwydd Dduw ein Hiechydwriaeth, yr hwn a fuoſt raſlawn iawn i'r Tîr hwn, a thrwy dy ryfeddol Ragluniaeth a'n gwaredaiſt ni allan o'n hannhrefn reſynol a thramawr, trwy edfryd i ni, ac i'w ddiamheuol gyfiawn-fraint ei hun, dywaſanaethwr Brenhin *Siarles* yr Ail, yr hwn oedd ein graſuſaf a'n cyfiawnaf Ben-llywiawdwr ni yr amſer hwnnw, (er gwaetha' holl allu a malais ei Elynion) a'i ſefydlu ef ar Orſedd-faingc y Teyrnaſoedd hyn, gan edfryd i ninnau hefyd trwy hynny ryddid i broffeſſu yn gyhoeddus dy wir Grefydd a'th iawn Addoliad, ynghŷd â'n tangnefedd a'n Llwyddiant gynt, er mawr gyſſur a diddanwch ein calonnau: Yr ŷm ni yr awrhon yma ger dy fron di yn cydnabod gyd â phob dyledus ddiolchgarwch dy ddaioni annhraethol tu ag attom, yr hwn a ddangoſaiſt i ni ar gyſen' i'r dŷdd heddyw, ac yn offrymmu ein haberth o foliant i'th Enw mawr gogoneddus am yr unrhyw: gan uſudd attolygu i ti dderbyn yn gymmeradwy ein diffuant etto ein hannheilwng offrymmedigaeth o honom ein hunain, gan addunedu pob ſanctaidd ufudd-dod ar feddwl, gair, a gweithred i'th Dduwiol Fawredd; a chan addaw ynot ti ac erot ti bob ffyddlon a dyledus waſanaeth i'th Enneiniog Waſnaethwr ſydd yr awrhon yn llywodraethu troſom, ac i'w Etifeddion ar ei ôl: Bendithia

ef, ni a attolygwn i ti, â phob cynnyrch grâs, anrhydedd, a dedwyddwch yn y byd hwn, a chorona ef ag anfarwoldeb a gogoniant yn y byd a ddaw, er mwyn Iesu Grist, ein Harglwydd, a'n Hiachawdwr. *Amen.*

¶ *Yn niwedd y Litani* (*yr hon a arferir yn wastad ar y dydd hwn*) *ar ôl y Colect*, [Nyni a attolygwn i ti O Arglwydd Dad, *&c.*] *y dywedir y Colect sydd yma nesaf yn canlyn.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn ym mhob oes a ddangosaist dy Nerth a'th Drugaredd, yngwarediadau rhyfeddol a grasusol dy Eglwys, ac yn noddi cyfiawn a chrefyddol Frenhinoedd a'Stadau, yn proffesu dy sanctaidd a'th dragywyddol wirionedd, rhag cŷd-fwriadau maleisus ac ystrywiau drygionus eu holl elynion: Ni a roddwn i ti ddiolch a moliant diffuant, o eigion ein calonnau, megis am dy aml drugareddau mawrion a chyhoedd, felly yn enwedig am yr hysbysol a'r rhyfeddol ymwared, yr hwn (ar gysen' i heddyw) a ddarfu i'th ddoeth a'th ddaionus ragluniaeth ei gwplâu a'i ganiattâu i'n grasusaf ddaionus Arglwydd Frenhin y prŷd hynny *Siarles* yr Ail a'r holl frenhinol Deulu: Ac ynddynt hwy a chyd â hwy i'r holl Eglwys a'r Deyrnas hon, ac i bob ystâd a grâdd o ddynion ynddynt, oddi wrth Wrthrysel, Trais, a Gorthrymder annaturiol dynion annuwiol a chreulon, ac oddi wrth yr annhrefn a'r dinystr gresynol oedd yn canlyn. O rasusaf a thrugaroccaf Arglwydd Dduw, nid ein haeddiant ni, ond dy ragluniaeth di; nid ein braich ein hunain a'n hachubodd ac a'n gwaredodd oddi wrth yr holl bethau hyn, ond dy ddeheu-law di, a'th Fraich, a llewyrch dy wyneb; am dy fod di yn ein hoffi. Ac am hynny nid i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th Enw di y rhodder yr holl anrhydedd, a'r gogoniant, a'r mawl, ynghŷd â Diolch gostyngeiddiaf a ffyddlonaf, yn holl Eglwysi 'r Saint; Poed felly. Bendigedig fyddo 'r Arglwydd ein Duw, yr hwn yn unig sydd yn gwneuthur rhyfeddodau; A bendigedig fyddo ei Enw mawr ef yn dragywydd, trwy Iesu Grist ein Harglwydd a'n hunig Iachawdwr. *Amen.*

¶ *Yngwasanaeth y Cymmun, o flaen yr Epistol, yn ddigyfrwng yr arferir y ddau Golect hyn yn lle 'r Colect dros y Brenbin a Cholect y Dydd*, Holl-alluog Dduw, yr hwn wyt gadarn dŵr amddiffyn, *&c.* O Arglwydd Dduw ein Hiechydwriaeth, *&c. fel o'r blaen yn y Foreuol Weddi.*

¶ *Yr Epistol.* 1 S. Pedr II. gw. 11. hŷd w. 18.

¶ *Efengyl.* S. Math. XXII. gw. 16, hŷd w. 23.

¶ *Yn yr Offrymmiad darllener y vers hon.*

NId pob un sydd yn dywedyd wrthyf, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas Nefoedd; ond yr hwn sydd yn gwneuthur Ewyllys fy Nhâd yr hwn sydd yn y Nefoedd. S. *Math.* 7. 21.

¶ *Ar ôl y Weddi* [Dros holl ystâd Egl. Crist, *&c.*] *y dywedir y Colect hwn sydd yn canlyn.*

HOll-alluog Dduw a Nefol Dâd, yr hwn o'th anfeidrol a'th annhraethol ddaioni tu ag attom, mewn môdd anarferol a rhyfedd a ddad-ddymchwelaist ac a ddiddymmaist annuwiol swriadau y dynion bradwrus, pen-galedion, a beilchion hynny, y rhai dan rith Crefydd a'th Enw Sanctaiddiaf, a ddychymygasent ac agos a gyflawnasent gwbl ddinystr yr Eglwys a'r Teyrnasoedd hyn: Megis yr ydym ni heddyw yn dra difrifol a defosiynol yn addoli ac yn mawrygu dy Enw gogoneddus am dy anfeidrol rasusol ddaioni hyn a ganiatteaist i ni yn barod; felly yn ostyngeiddiaf yr attolygwn i ti barhâu dy râs a'th ffafr tu ag attom, gan ein cuddio a'n cadw dan gysgod dy adenydd, fel na byddo byth o hyn allan i'r fath drueni gresynol syrthio arnom. Er mwyn hyn anfon allan dy lewyrch a'th wirionedd, i ddatguddio 'r dysnderau hyn o eiddo Satan, dirgelwch yr anwiredd hyn. Ynfyda a diddymma holl Gynghorion dirgel yr annuwiol. Gostwng eu balchder, tola eu drygioni, a gwaradwydda eu bwriadau. Nertha ddwylaw ein grasusaf ddaionus Arglwydd Frenhin *Siôr*, a phawb y sydd wedi eu gosod mewn Awdurdod dano, i dorri ymaith trwy farn a chyfiawnder gymmaint oll o weithredwŷr anwiredd, ag a droant Gresydd yn Wrthrysel, a Ffydd yn derfysg; fel na chaffont byth mwy y llâw uchaf arnom, ac na orfoleddont yn Ninystr y Llywodraeth Frenhinol, a'th Eglwys yn ein plith. Amddiffyn a chadw ein grasusaf Arglwydd Frenhin, a'r hon Frenhinol Deulu, oddi wrth bob Traeturiaeth a Brâd. Bydd iddo yn Helm iechydwriaeth, ac yn gadarn dŵr amddiffyn rhag wyneb ei elynion oll. Ac am y rhai anghymhodlon, gwisg hwy â chywilydd a gwaradwydd, eithr arno ef a'i hiliogaeth blodeued ei goron yn dragywydd. Felly nyni dy bobl a defaid dy borfa a'th foliannwn di yn dragywydd, ac a ddatganwn dy foliant o genedlaeth i genhedlaeth byth, trwy Iesu Grist ein hunig Iachawdwr a'n Gwaredwr; i'r hwn gyd â thydi, O Dâd, a Duw Ysbryd Glân, y byddo gogoniant yn yr Eglwys trwy 'r holl genhedlaethau, heb drangc na gorphen. *Amen.*

SIOR F.

EIN Hewyllys a'n Gorchymmyn yw, Printio a Chyhoeddi allan o law y Tair Ffurf Gweddi a Gwasanaeth yma, a wnaethbwyd i'r Pummed o Dachwedd, *y Degfed ar hugain o* Ionawr, *a'r Nawfed ar hugain o* Fai, *ac o hyn allan eu cŷd-gynnwys â'r Llyfr Gweddi Gyffredin a Liturgi Eglwys* Loegr, *i'w harfer bob Blwyddyn ar y Dyddiau dywededig, ym mhob Eglwys a Chapel cadeiriol a cholegol, yng Nghapel pob Coleg a Neuadd o fewn pob un o'n dwy Brif-Ysgol, ac o'n Colegau* Eton *a* Chaerwynt, *ac ym mhob Eglwys a Chapel plwyfol o fewn y rhan honno o'n Teyrnas* Brydain Fawr *a elwir* Lloegr, *Arglwyddiaeth* Cymru, *a Thref* Berwic *ar* Dwîd.

Rhoddwyd yn Ein Castell WINDSOR, y deuddegfed dydd o *Fedi*, 1728; yn yr ail Flwyddyn o'n Teyrnasiad.

Trwy Orchymmyn ei Fawrhydi,

TOWNSHEND.

Ffurf Gweddi gyd â Dïolch i'r Holl-alluog Dduw; I'w harfer bob blwyddyn ym mhob Eglwys a Chapel yn y Deyrnas hon, ar yr unfed dydd a'r ddeg o *Fehefin*; ſef, y Dydd y dechreuodd y Brenhin ei ddedwyddol Deyrnaſiad.

¶ *Un ſydd y Gwaſanaeth ag a arferir ar Ddyddiau gŵyl yn hollol; ond lle 'r ordeiniwyd yn amgen yn y Ffurf hon.*

¶ *Gan fod y Dŷdd hwn yn Wyl Sant* Barnabas *yr Apoſtol, arbeder Gwaſanaeth prïod y Dŷdd hwnnw yn hollol, ac arferer hwn yn ei le ef; a rhodder rhybudd o hono yn gyboedd yn yr Eglwys y Sûl o'r blaen.*

¶ *O's digwydd y Dŷdd hwn ar y* Sul-gwyn, *Colectau 'r Gwaſanaeth hwn a arddodir at Waſanaeth yr Wyl honno yn eu prïod gyſle; Ac o's ar* Ddŷdd Llûn, *neu* Ddŷdd Mawrth *yn* wythnos y Sul-gwyn, *neu ar* Sûl y Drindod, y Salmau prïod *a oſodwyd yma am y Dŷdd hwn, a arferir yn lle y rhai o gylch cyffredinol, a'r* Colectau *beſyd a anghwanegir megis uchod; Ac ar bob un o'r achoſion yma, gadawer heibio y rhan arall o'r Gwaſanaeth hwn. Ond o's digwydd ef ar un* Sûl *arall, arferer yr holl Waſanaeth hwn yn gyfan, ſel y canlyn. A pha* Wyl *bynnag a ddigwydd ar y Dŷdd Uchel-ŵyl hwn o* Ddïolch, *arferer yr* Emyn *appwyntiedig yn lle* Venite, exultemus, *yn waſtadol.*

¶ *Y Foreuol Weddi a ddechreu ſ'r Ymadroddion hyn.*

CYnghori yr ydwyf ymlâen pob peth, ſod ymbiliau, gweddïau, deiſyfiadau, a thalu dïolch dros bob dŷn: dros frenhinoedd a phawb ſydd mewn goruchafiaeth; ſel y gallom ni fyw yn llonydd ac yn heddychol, mewn pob duwioldeb ac oneſtrwydd: Canys hyn ſydd dda a chymmeradwy ger bron Duw ein Ceidwad. *1 Tim. 2. 1, 2, 3.*

O's dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom; O's cyfaddeſwn ein pechodau, ffyddlon yw efe a chyfiawn, ſel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddi wrth bob anghyfiawnder. *1 S. Ioan 1. 8, 9.*

¶ *Yn lle* Venite, exultemus, *y cenir, neu y dywedir yr Emyn hon ſy'n canlyn; un wers gan yr Offeiriad, a phob ail gan y Clochydd a'r Bobl.*

O Arglwydd ein Hiôr ni: mòr ardderchog yw dy Enw ar yr holl ddaear! *Sal. 8. 1.*

Arglwydd, beth yw dŷn, pan gydnabyddit ef: neu fâb dyn, pan wnait gyfrif o hono? Sal. 144. 3.

Gwnaeth gofio ei ryfeddodau: graſlawn a thrugarog yw 'r Arglwydd. *Sal. 111. 4.*

O na foliannent yr Arglwydd am ei ddaioni: a'i ryfeddodau i feibion dynion! Sal. 107. 21.

O Dduw, ein tarian, gwêl: ac edrych ar ŵyneb dy enneiniog. *Sal. 84. 9.*

Cynnal ei gerddediad ef yn dy lwybrau: ſel na litbro ei draed. Sal. 17. 5.

Eſtyn oes y Brenhin: a llawenhâ ef â llawenydd â'th ŵynebpryd. *Sal. 61. 6. â'r 21. 6.*

Arboſed byth ger dy fron di: darpar drugaredd a gwirionedd, ſel y cadwont ef. Sal. 61. 7.

Yn ei ddyddiau ef blodeued y cyfiawn: a gwnâ di ein bro ni yn heddychol. *Sal. 72. 7. a 147. 14.*

Gwiſg ei elynion ef â chywilydd: a blodeued ei goron arno yntau. Sal. 132. 18.

Bendigedig fyddo 'r Arglwydd Dduw, Duw Iſrael: yr hwn yn unig ſydd yn gwneuthur rhyfeddodau. *Sal. 72. 18.*

Bendigedig beſyd fyddo ei Enw gogoneddus ef yn dragywydd: a'r holl ddaear a lanwer o'i Ogoniant; Amen, ac Amen. gwers 19.

Gogoniant i'r Tâd, &c.

Megis yr oedd yn y dechreu, &c.

¶ *Salmau* prïod. XX, XXI, CI.

¶ *Llithiau prïod.* { I. Joſ. I. hŷd w. 10. *Te Deum.* / II. Rhuf. XIII. *Jubilate Deo.*

¶ *Y Gwerſiclau neſaf ar ôl y Credo a ſafant ſel hyn.*

Offeiriad. Arglwydd, dangos dy drugaredd arnom.

Atteb. *A chaniatta i ni dy iechydwriaeth.*

Offeiriad. Arglwydd, cadw y Brenhin.

Atteb. *Yr hwn ſydd yn ymddiried ynot.*

Offeiriad. Anfon iddo borth o'th ſancteiddfa.

Atteb. *Ac byth yn nerthol amddiffyn ef.*

Offeiriad. Na âd i'w elynion gael y llâw uchaf arno.

Atteb. *Na âd ſ'r enwir nesâu i'w ddrygu.*

Offeiriad. Gwîſg dy Weinidogion ag iawnder.

Atteb. *A gwna dy ddewiſol bobl yn llawen.*

Offeiriad. Arglwydd, cadw dy Bobl.

Atteb. *A bendithia dy Etifeddiaeth.*

Offeiriad. Arglwydd dyro dangnefedd yn ein dyddiau.

Atteb. *Canys nid oes neb arall a ymladd droſom, ond tydi, O Dduw, yn unig.*

Offeiriad. Bydd i ni, O Arglwydd, yn dŵr cadarn.

Atteb. *Rhag ŵyneb ein gelynion.*

Offeiriad. Arglwydd, gwrando 'n gweddïau.

Atteb. *A deled ein llâf hŷd attat.*

¶ *Yn lle 'r Colect cyntaf ar y Foreuol Weddi, yr arferir y Colect dilynol hwn o ddïolwch, am Ddyfodiad y Brenhin i lywodraethu arnom.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn ŵyt yn llywodraethu ar holl deyrnaſoedd y bŷd, ac yn eu trefnu wrth d' Ewyllys daionus; Nyni a ddïolchwn it' yn ddiffuant am deilyngu a'r gyfen' i heddyw, oſod dy Waſanaethwr, ein Goruchaf Arglwydd Frenhin *Siôr*, ar Orſedd-faingc y Teyrnaſoedd hyn. Bid dy ddoethineb di i'w dywys ef, ac â'th fraich nertha ef; blodeued yn ei ddyddiau ef gyfiawnder, gwirionedd, a ſancteiddrwydd, heddwch a chariad, a'r holl rinweddau y ſy'n harddu 'r Broffes Griſtianogol; llywia 'i holl gynghorion a'i lafur ef at dy ogoniant di, a daioni ei bobl; a dyro i ninnau râs i ufuddhâu iddo yn firiol ac yn ewyllyſgar er mwyn cydwybod, ſel na bo i'n gwŷniau pechadurus, a'n Prïod-elw ni waradwyddo ei ofalon ef am y llês cyffredin; Bid iddo yn waſtadol feddiannu calonnau ei bobl, fel na bônt byth yn fyrr o'i anrhydeddu ef, ac ufuddhâu i'w Awdurdod; bid hîr a llwyddiannus ei Deyrnaſiad, a chorona ef ag anfarwoldeb yn y bŷd a ddaw, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yn niwedd y Litani (yr hon yn Waſtad a arferir ar y Dŷdd hwn) ar ôl y Colect* [Ni a attolygwn i ti O Dâd, &c.] *yr arferir y Weddi ſy'n canlyn dros y Brenbin a'r Brenbinol Deulu.*

OArglwydd ein Duw, yr hwn ŵyt yn cynnal ac yn llywio pob peth yn y nêf a'r ddaear, derbyn ein hufudd weddïau, gyd a'n diffuant ddïolch am ein Goruchaf Arglwydd *Siôr*, a oſododd dy ras a'th ragluniaeth ar gyfen' i heddyw yn Frenhin arnom ni; Ac felly gyd ag ef, bendithia Frenhinol Uchelder *Ffrederic* Tywyſog *Cymru*, Tywyſoges *Cymru*, y Duwc, y Tywyſogeſau, Eppil Tywyſog a Thywyſoges *Cymru*, a'r holl frenhinol deulu, fel y bo iddynt oll gan ymddiried yn waſtad yn dy ddaioni, a'u hamddiffyn gan dy allu, a'u coroni â'th raſol a diball ffaſr, barhâu ger dy fron mewn iechyd, heddwch, llawenydd ac anrhydedd, hîr a dedwŷdd einioes ar y ddaear, ac ar ôl y fuchedd hon mwynhâu bywyd a gogoniant tragywyddol yn Nheyrnas nêf, trwy haeddedigaethau a chy-

ſyngiad Ieſu Griſt ein Hiachawdwr, yr hwn gyd â'r Tâd a'r Ysbryd Glân ſy yn byw ac yn teyrnaſu byth yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

¶ *Yna y canlyn y Colect hwn, ar i Dduw amddiffyn y Brenhin yn erbyn ei holl Elynion.*

O Dduw graſuſaf, yr hwn a oſodaiſt dy waſanaethwr ein Brenhin *Siôr* ar orſeddfaingc ei Hynafiaid; yn oſtyngeiddiaf attoylgwn it' ei amddiffyn ef ar yr unrhyw rhag pob peryglon y gallo ef fod yn eu hergyd. Cûdd ef rhag cyfrinach y rhai drygionus, rhag terfyſg gweithredwŷr anwiredd; Lleſghâ ddwylaw, ditwyna fwriadau, a diffrwytha ymgeiſſiau ei elynion oll, fel na allo na dirgel fradwriaethau, na thrais cyrch cyhoeddol gythryblio ei Lywodraeth; eithr bod iddo, ac efe yn cael ei gadw yn ddiogel dan gyſgod dy adain, a'i gynnal gan dy gadernid, orſoleddu ar bob gwrthgais, fel y gallo 'r holl ſŷd gydnabod mai Tî yw ei achubydd a'i gadarn waredydd ef ym mhob cyfeiaeth a gwrthwyneb, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna 'r Weddi* Dros Uchel Lŷs y Parliament (*o's bydd e'n eiſtedd.*)

¶ *Yng Ngwaſanaeth y Cymmun yn neſaf o flaen darllain yr Epiſtol, yn lle 'r Colect dros y Brenhin, a Cholect y dŷdd, yr arferir y Weddi yma dros y Brenhin, megis Pen-llywydd yr Eglwys.*

O Fendigedig Arglwydd, yr hwn a elwaiſt Dywyſogion Criſtianogol i amddiffyn dy Ffŷdd, ac a roiſt yn ddyled arnynt hwylio ymlâen hawddfyd ysbrydol, gyd â llesâd amſerol eu pobl; Yr ym yn cydnabod â goſtyngedig a diolchgar galonnau dy fawr ddaioni i ni, yn goſod dy Waſanaethwr ein Brenhin graſuſaf ar yr Eglwys a'r Deyrnas hon. Dyro iddo, ni a attolygwn it' yr holl neſawl radau angenrheidiol i gyfuwch ymddiried: Llwydded yn ei ddwylaw dy waith di ei Dduw; Gweled ei lygaid ef lŵydd ei holl fwriadau ar lês dy wîr Greſydd ſeſydledig yn ein plith; a gwnâ ef yn Erfyn bendigedig i amddiffyn a dyrchafu dy Wirionedd pa le bynnag y mae dan erlid a gorthrech; Ffoed Rhagrith a Halogrwydd, Coel-grefydd a Gau-ddwiaeth o'i ŵydd ef; Na âd i Hereſiau na gau-ddyſgeidiaeth anheddychu dy Eglwys, nac i Sîſmau ac Ymneilldduadau diachos ei gwanhâu; Eithr caniattâ i ni ſod o un gâlon ac un meddwl yn dy waſanaethu di ein Duw, ac yn ufuddhâu iddo yntau yn ôl dy Ewyllys di. Ac fel y mwynhao 'r oeſoedd i ddyfod y bendithion hyn, Na fid fyth eiſiau un o'i Dŷ ef i lywodraethu 'r Teyrnaſoedd yma ar ei ôl ef, fel y gwelo 'n biliogaeth ni blant ei blant ef, a heddwch ar Iſrael. Felly nyni dy bobl a defaid dy borfa, a ddiolchwn it' yn dragywydd, ac a ddatganwn fyth dy foliant o genhedlaeth i genhedlaeth, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol.

Anwylyd, yr ŵyf yn attolwg i. gwers 11. hŷd wers 18. — 1 Pedr 2.

Yr Efengyl.

A hwy a ddanſonaſant atto eu. gwers 16. hŷd wers 23. — S. Math. 22.

¶ *Ar ôl Credo Nicæa, y canlyn y Bregeth.*

¶ *Yn yr offrymmiad darllener y Wers hon.*

LLewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tâd yr hwn ſydd yn y neſoedd, S. *Math.* 5. 16.

¶ *Ar ôl y Weddi* [Dros holl Yſtâd Egl. Griſt, *&c.*] *darllener y Colectau ſy'n canlyn.*

¶ *Gweddi am Undeb.*

DUw Dâd ein Harglwydd Ieſu Griſt, ein hunig Iachawdwr, Tywyſog Tangnefedd; Dyro râs i ni yn ddifrifol i oſod at ein câlon y mawr beryglon yr ŷm ynddynt trwy 'n hymraniadau anneddwŷdd; Dŵg ymaith bob digaſedd a rhagfarn, a pha beth bynnag arall a ddichon ein rhwyſtro ni i dduwiol Undeb a Chŷd-gordio; Fel megis nad oes ond un Corph, ac un Yſbryd, ac un Gobaith o'n Galwedigaeth, un Arglwydd, un Ffŷdd, un Bedydd, un Duw a Thâd i ni oll; felly y bo i ni oll o hyn allan fod o un gâlon, ac o un enaid, wedi 'n huno mewn un ſanctaidd gwlwm Gwirionedd a Heddwch, Ffŷdd a Chariad perffaith, ac ag un meddwl ac un genau dy ogoneddu di trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

CAniattâ, O Arglwydd, ni a attolygwn i ti, fod i chŵyl y bŷd hwn gael ei dreſnu mor dangnefeddol gan dy lywodraeth di, ag y gallo dy Eglwys di dy waſanaethu yn llawen ym mhob duwiol heddwch, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

CAniattâ, ni a attolygwn i ti, Holl-alluog Dduw, am y geiriau, *&c.*

HOll-alluog Dduw, ffynnon pob doethineb, yr hwn ŵyt yn, *&c.*

TAngnefedd Dduw, yr hwn ſydd uwch law pob deall, *&c.*

SIOR F.

EIN Hewyllys a'n Gorchymmyn yw, Printio a Chyhoeddi 'r Ffurf yma o Weddi a Diolchgarwch i'r Unfed dŷdd ar ddeg o Fehefin *allan o law, d'i harfer bob Blwyddyn ar y Dŷdd dywededig, ym mhob Eglwys a Chapel cadeiriol a cholegol, yng Nghapel pob Coleg a Neuadd o fewn pob un o'n dwy Brif-Yſgol, ac o'n Colegau* Eton *a* Chaerwynt, *ac ym mhob Eglwys a Chapel plwyfol o fewn ein Teyrnas* Loegr, *Arglwyddiaeth* Cymru, *a Thref* Berwic *ar* Dwid.

Rhoddwyd yn ein Llys yn Saint *Iago*, y Pedwerydd Dydd ar Ddeg o *Fai*, 1728; yn y flwyddyn gyntaf o'n Teyrnaſiad.

Trwy Orchymmyn ei Fawrhydi,

TOWNSHEND.

Ffurf a Dull Gwneuthur, Urddo, a Chyſſegru Eſgobion, Offeiriaid, a Diaconiaid, yn ôl Trefn Eglwys *Loegr*.

Y RHAGYMADRODD.

HYſbyſyw i bawb yn dyſol ddarllain yr Yſgrythur lân a Hin Awduriald, ſod y Graddau hyn o Weinidogion yn Eglwys Criſt, er amſer yr Apoſtolion; ſef, Eſgobion, Offeiriaid a Diaconiaid. Ar cyfryw barchus fri ydoedd criſtnogion ar y Swyddau hyn, fel na allai neb ryſygu gweini yn yr un o honynt, oddieithr yn gyntaf iddo gael ei alw, ei broſi, ei boli, a gwybod ſod ganddo Gymeddfau cymmwys i'r unrhyw; Ac oddieithr beſyd cael trwy Weddi gyhoedd, ac Arddodiad Dwylaw, ei dderbyn, a'i ddodi yn y ſwydd gan Awdurdod gyfreithlon.

O herwyddd pa ham, tu ag at ſod parhâd ac ymarfer, a bri parchus ar hyn o ſwyddau o fewn Eglwys Loegr; ni chyfrifir ac ni chymmerir neb am Eſgob, Offeiriad, neu Ddiacon cyfreithlon o fewn Eglwys Loegr, ac ni oddefir iddo weini yn yr un o'r Swyddau dywededig, oddieithr iddo gael ei alw, ei broſi, a'i boli a'i dderbyn iddynt yn ôl y ffurf y ſydd yn canlyn yma, neu ei ſod wedi cael Eſgobawl Gyffegriad neu Urddiad ymlaen llaw.

Ac ni dderbynir neb yn Ddiacon, hyd oni bo yn dair blwydd ar hugain o oedran, oddieithr iddo gael Cennad: Abid pob un a dderbynir yn Offeiriad, yn llawn bedair blwydd ar hugain o oedran: A bydded pob un a urddir neu a gyffegrir yn Eſgob, yn gyflawn ddeng mlwydd ar hugain o oedran.

Ac a'r Eſgob ei hun, neu trwy dyſiolaeth gyflawn gan eraill, yn gwybod ſod neb rhyw un yn ûr o ſuchedd rinweddus, ac yn ddiſcw, ac yn ei gael ef yn ôl ei boli a'i broſi yn ddyſgedig yn y Lladin-iaith, ac yn ddigon cyfarwydd yn yr Yſgrythur lân, efe a all ei wneuthur ef yn Ddiacon yngwŷdd yr Eglwys, ar yr amſeroedd gofodedig yn y Canon, neu ar achos mawr yn cymmell, ar ryw Ddydd Sûl neu Ddydd Gwyl arall, yn y cyfryw ſodd a ffurf y ſy yma 'n canlyn.

Ffurf a Dull Gwneuthur DIACONIAID.

¶ *AR y dydd gofodedig gan yr Eſgob, pan orphener y Gwaſanaeth Bore, y bydd Pregeth neu Gymgor yn mynegi ſwydd a dyled y cyfryw ag a dleuant i'w gwneuthur yn Ddiaconiaid; mèr angenrheidiol yw y Rádd honno yn Eglwys Criſt: Ac hefyd pa ſaint y dylai 'r bobl eu perchi hwy yn eu ſwydd,*

¶ *Yn gyntaf, yr Arch-Diacon, neu ei Raglaw ef, a gyflwyna i'r Eſgob (ag ef yn eiſtedd yn ei Gadair ger llaw 'r Bwrdd bendigedig) gynnifer ag a ddymunant eu Hurddo yn Ddiaconiaid; (a phob un o honynt wedi ymwiſgo yn hardd y gan ddywedyd y geiriau hyn,*

ANrhydeddus Dâd yn Nuw, yr ŵyf yn cyflwyno i chwi y rhai preſennol hyn i'w gwneuthur yn Ddiaconiaid.

Yr Eſgob.

GWiliwch ar ſod y Rhai yr ŷch yn eu cyflwyno i nî, yn addas a chymmwys, o herwŷdd eu dŷſg a'u duwiol ymarweddiad, i iawn gyflawni eu Gweinidogaeth, er anrhydedd i Dduw, ac er adeiladaeth i'w Eglwys.

¶ *Yr Arch-Diacon a ettyb,*

MYfi a ymofynais am eu hanes, ac a'u holais hwynt eu hunain, ac yr ŵyf fi yn meddwl eu bod hwy ſelly.

¶ *Yna yr Eſgob a ddywaid wrth y Bobl.*

FY mrodyr, od oes neb o honoch a ŵyr un rhwyſtr neu fai cyhoeddus yn neb o'r rhai hyn a gyflwynwyd i'w hurddo yn Ddiaconiaid, o herwŷdd yr hwn ni ddylai gael ei dderbyn i'r ſwydd honno, deued ger bron yn Enw Duw, a dangoſed beth yw 'r bai neu 'r rhwyſtr.

¶ *Ac o's rhyw fai gorthrwm neu rwyſtr a honnir, yr Eſgob a arhed urddo 'r dyn hwnnw, hyd pan gaffer y cyhuddedig yn ddiargyfwedd o'r bai hwnnw.*

¶ *Yna 'r Eſgob (gan orchymmyn y rhai a gaffer yn gymmwys i'w hurddo, i weddïau 'r Gynnulleidfa) gyd â'r Eglwyſwŷr a'r Bobl preſennol, a gân neu a ddywaid y Litani, ac ar ôl,* Teilyngu o honot lewyrchu 'r Eſgobion, *&c. a angbwanega 'r Arch yma.*

TEilyngu o honot fendithio dy weiſion hyn ſy'n awr i'w derbyn i ſwydd Diaconiaid [*neu* Offeiriaid] a thywallid dy Râs arnynt; fel y gwaſanaethont eu Swydd yn gywir, er adeiladaeth i'th Eglwys a Gogoniant i'th Enw ſanctaidd:

Atteb. Ni a attolygwn i Ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

¶ *Ar ol y Weddi* [Nyni yn ufudd a attolygwn i Ti, O Arglwydd Dâd, *&c.*] *y cenir neu y dywedir Gwaſanaeth y Cymmun, gyd â'r Colect, yr Epiſtol, a'r Efengyl, fel y mae yn canlyn.*

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn o'th Ddwyfol Raglunieth a oſodaiſt amryw raddau o Weinidogion yn dy Eglwys, ac a ysbrydolaiſt dy Apoſtolion i ddewis i Rádd Diaconiaid y cyn-ferthyr Sant Stephan, ac eraill; Edrych yn drugarog ar dy wasanaeth-ddynion hyn, y rhai yr awrhon a elwir i'r unrhyw Swydd a Gweinidogaeth. Cyflawna hwynt ſelly â'th wir athrawiaeth, ac addurna hwynt â diniweidrwydd buchedd, fel y bo iddynt trwy air ac eſampl dda dy wasanaethu di yn ffyddlon yn y Swydd hon, er gogoniant i'th Enw, ac adeiladaeth dy Eglwys, trwy haeddedigaethau ein Pryniawdr Ieſu Criſt; yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyd â thydi â'r Ysbryd Glân yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

Yr Epiſtol.

Rhaid i'r Diaconiaid yr un ffunud. 1 Tim. 3. gwers 8. hŷd wers 14.

Neu hwn.

Yna 'r deuddeg a alwaſant ynghŷd. Actau 6. gwers 2. hŷd wers 8.

¶ *Ac o flaen yr Efengyl, yr Eſgob (yn eiſtedd yn ei Gadair,) a bair roddi i bob un o'r rhai ſydd i dderbyn yr Urdd hon, y Llw am Uchafaeth y Brenbin, ac yn erbyn Gallu ac Awdurdod pob Pennaeth arall-wlâd.*

Y Llw am Unbennaeth y Brenbin.

" YR ŵyf fi *A. B.* o eigion fy nghydwybod
" yn tyſtio ac yn mynegi, mai Mawrhydi
" 'r Brenhin yn unig ſydd oruch-lywiawdr ar y

" Deyrnas hon, ac ar holl Arglwyddiaethau a " Gwledydd eraill ei Fawredd ef, yn gyſtal ym " mhob rhyw bethau a Dadleuon Yſbrydol, neu " Eglwyſig a Bydol. Ac nad oes, ac na ddylai " fod i un eſtron Dywyſog, Dŷn, Prelad, Yſtâd " neu Bennaeth, ddim Beirniadaeth, Gallu, Go- " ruchafiaeth, Rhagoriaeth neu Awdurdod Eg- " lwyſig neu Yſbrydol o fewn y Deyrnas hon. O " herwŷdd pa ham yr ŵyf fi yn llwyr wadu, ac " yn ymwrthod â phob rhyw Feirniadaeth, " Gallu, Goruchafiaeth, ac Awdurodod eſtronol; " ac yr ŵyf fi yn addaw o hyn allan y dygaf ffydd- " londeb a Gŵrogaeth cywir i Fawrhydi 'r " Brenhin, ei etiſeddion a'i Wrthddrychiaid " cyfreithlawn; ac y cynnorthwyaf, ac y diff- " ynnaf hŷd y byddo i mi allu, bob Beirniadaeth, " Braint, Rhagoriaeth ac Awdurdod a roddwyd " neu a berthyn i Fawrhydi 'r Brenhin, i'w Eti- " ſeddion, ac i'w Wrthrychiaid, neu a unwyd ac " a gyſlyltwyd ag Ymerodrol Goron y Deyrnas " hon; ſel y'm cynnorthwyo Duw, a Chynhwyſiad " y Llyfr hwn.

¶ *Yna yr Eſgob a bola bob un o'r rhai a urddir ymgŵyddo y Bobl, yn ol y Dull hyn ſy'n canlyn,*

AYdych chwi yn credu eich cynhyrfu oddi fewn gan yr Ysbryd Glân, i gymmeryd arnoch y Swydd a'r Weinidogaeth hon, i waſanaethu Duw er hyfforddiad i'w ogoniant, ac er adeiladaeth i'w bobl?

Atteb. Yr ŵyf yn credu hynny.

Eſgob.

AYdych chwi yn tybied eich bod wedi 'ch gwîr alw i Weinidogaeth yr Eglwys yn ôl ewyllys ein Harglwydd Ieſu Criſt, a iawn drefnyddiad y Deyrnas hon?

Atteb. Yr ŵyf yn meddwl hynny.

Eſgob. A ŷch chwi yn ddiffuant yn credu y Canon oll o Yſgrythyrau 'r Hên Deſtament a'r Newŷdd?

Atteb. Yr ŵyf yn eu credu hwynt.

Eſgob. A ddarllenwch chwi yr unrhyw yn ddyfal i'r Bobl ymgynnulledig yn yr Eglwys lle 'ch goſoder i weini?

Atteb. Gwnâf.

Eſgob.

YMae yn perthyn i Swydd Diacon, yn yr Eglwys lle y goſodir ef weini, gynnorthwyo 'r Offeiriad yng Ngwaſanaeth Duw, ac yn bennaf pan fyddo eſe yn miniſtrio 'r Cymmun bendigedig, ei helpu ef i'w gyfrannu ef; A darllain yr Yſgrythur Lân a'r Homiliau yn yr Eglwys; ac addyſgu 'r bobl ieuainge yn y Cateciſm; Bedyddio rhai bychain lle na bo 'r Offeiriad yn breſennol; a phregethu, o's caniattêir iddo hynny gan yr Eſgob. Ac ym mhellach, ei Swydd ef yw, lle mae darmerth i'r Tlodion, ymofyn am blwyſolion cleiſion, anghenus a gweiniaid, mynegi i'r Curad eu cyſiwr, eu henwau a'u trigfeydd, ſel trwy ei gyngor ef y derbyniont gymmorth o Elufenau 'r plwyfolion ac eraill. A wnêwch chwi hyn yn barod ac yn ewyllyſgar?

Atteb. Trwy nerth Duw mi a wnâf felly.

Eſgob.

AYmroddwch chwi trwy bôb diwŷdrwydd i lunio a threfnu eich bucheddau eich hun, a bucheddau eich teuluoedd, yn ôl Athrawiaeth Criſt, ac i'ch gwneuthur eich hunain a hwythau, (hŷd y ſafo ynoch) yn eſamplau iachol i ddiadell Criſt?

Atteb. Mi a wnâf felly, a'r Arglwydd yn Borth i mi.

Eſgob.

ARoddwch chwi barch ac ufudd-dod i'ch Ordinari, ac i Ben-gweinidogion eraill yr Eglwys, ac i'r cyfryw y rhoddir iddynt y Gofal a'r Llywodraeth droſoch chwi, gan ddilyn eu cynghorion dwyfol hwy yn llawen ac yn ewyllyſgar?

Atteb. Mi a wnâf fy ngoreu, a'r Arglwydd yn borth i mi.

¶ *Yna yr Eſgob gan ddodi ei ddwylaw ar ben pob un o honynt, yn goſtwng yn ufudd ar eu gliniau o'i flaen ef, a ddywaid,*

CYmmer di awdurdod i waſanaethu Swydd Diacon o fewn Eglwys Dduw orchymmynedig i ti, yn Enw 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Ysbryd glân. *Amen.*

¶ *Yna y dyry 'r Eſgob y Teſtament Newŷdd i lâw pob un o honynt, gan ddywedyd,*

CYmmer di awdurdod i ddarllain yr Efengyl o fewn Eglwys Dduw, ac i bregethu 'r unrhyw, o's caniattêir i ti hynny gan yr Eſgob ei hun.

¶ *Yna un o honynt, yr hwn a oſodo 'r Eſgob a ddarllyn,*

Yr Efengyl.

Bydded eich lwynau wedi eu. S. Luc 12. gwers 35, hŷd w. 39.

¶ *Yna yr â'r Eſgob ym mlaen yn y Cymmun, a chynnifer ag a urddwyd a arboſant ac a gymmerant y Cymmun bendigedig gyd â'r Eſgob yr un dŷdd.*

¶ *Pan orphener y Cymmun, ar ôl y Colect diweddaf, ac yn neſaf o flaen y fenditb, y dywedir y Colectau hyn ſy'n canlyn.*

HOll-alluog Dduw, rhoddwr pob dawn da, yr hwn y bu gwiw gennyt dderbyn a chymmeryd dy waſanaethwŷr hyn i Swydd Diaconiaid i'th Eglwys; Gwnâ iddynt, ni a attolygwn i ti, Arglwydd, ſed yn orchwylus, yn oſtyngedig, ac yn aſtud yn eu Gweinidogaeth; yn ewyllyſgar ac yn barod i gadw pob Ysbrydol ddiſgyblaeth; fel a hwynt yn arweddu tyſtiolaeth cydwybod dda bob amſer, ac yn ymgynnal byth yn ddiyſgog ac yn gadarn yn dy Fâb Criſt, yr ymarweddont cyſtal yn y ſwydd iſel-radd hon, fel y caffont eu cyfrif yn deilwng i'w galw i Weinidogaethau Uwch yn dy Eglwys, trwy 'r unrhyw dy Fâb ein Hiachawdwr Ieſu Criſt; i'r hwn bid y gogoniant a'r anrhydedd byth bythoedd. *Amen.*

Rhag-flaena ni, O Arglwydd, yn ein holl, &c. Tangnefedd Dduw, yr hwn, &c.

¶ *AC yma y dylid mynegi i'r Diacon, y gorfydd iddo aros yn ei Swydd o Ddiaconiaeth dros ysbaid un flwyddyn gyfan (oddieithr i'r Eſgob ar ryw achoſion rheſymmol weled yn dda yn amgenach) tu ag at fod yn berfaith, ac yn gyfarŵydd yn y pethau a berthynant i Weinidogaeth yr Eglwys. Yn gwneuthur yr hyn, o's cair ef yn ffyddlon ac yn ddiwŷd, ſe all ei Eſgob ei dderbyn ef i Urdd Offeiriadaeth, ar yr amſeroedd goſoddedig yn y Canon, ueu o's bydd achos mawr yn cymmell, ar ryw ddŷdd Sûl neu ddŷdd Gŵyl arall, ymgŵydd yr Eglwys, yn y cyfrywo Ddull a ſurf ſydd yn canlyn iſod.*

Ffurf

Ffurf a Dull Urddo OFFEIRIAID.

¶ *AR y dŷdd gosodedig gan yr Esgob, pan orphener y Gwasanaeth Bore, y bydd Pregeth neu Gyngor, yn mynegi swydd a dyled y cyfryw ag a ddeuant i'w gwneuthur yn Offeiriaid; mor angenrheidiol yw y Rådd honno yn Eglwys Grist; A hefyd pa faint y dylai y bobl eu perchi hwy yn eu Swydd.*

¶ *Yn gyntaf, yr Arch-Diacon neu, yn ei absen ef, rhyw un a osodir yn ei le ef, a gyfrwyna i'r Esgob (yn eistedd yn ei Gadair ger llaw'r Bwrdd bendigedig) gynnifer ag a dderbyn Urdd Offeiriadaeth y dwthwn hwnnw (a phob un o honynt wedi ymwisgo yn hardd) ac a ddywaid,*

ANrhydeddus Dâd yn Nuw, yr ŵyf yn cyfiwyno i chwi y gwŷr presennol hyn i'w hurddo yn Offeiriaid.

Esgob.

GWiliwch ar fod y Rhai yr ŷch yn eu cyfiwyno i ni yn addas a chymmwys, o herwŷdd eu dŷsg a'u duwiol ymarweddiad, i iawn gyflawni eu Gweinidogaeth, er anrhydedd i Dduw, ac er adeiladaeth i'w Eglwys.

¶ *Yr Arch-Diacon a ettyb,*

MYfi a ymofynais am eu hanes, ac a'u holais hwynt eu hunain, ac yr ŵyf fi yn meddwl eu bod hwy felly.

¶ *Yna yr Esgob a ddywaid wrth y Bobl.*

YBobl dda, dyma 'r rhai yr ŷm ar fedr, gyd â chennad Duw, eu cymmeryd heddyw i gyssegr swydd Offeiriadaeth: Canys ar ôl eu holi yn ddyfal nid ydym yn gweled amgenach, na chawsant eu galw yn gyfreithlawn i'w Swydd a'u Gweinidogaeth; a'u bod yn wŷr cymmwys i'r unrhyw. Ond er hyn i gyd, od oes neb o honoch chwi, a ŵyr un rhwystr neu fai cyhoeddus yn neb un o honynt, o herwŷdd yr hwn ni ddylid ei gymmeryd i'r gyssegr Weinidogaeth yma; Yn Enw Duw deued allan, a dangosed beth yw 'r bai neu 'r rhwystr.

¶ *Ac o's rhyw fai gorthrwm neu rwystr a bonnir, yr Esgob a arbed urddo y dŷn hwnnw, hyd pan gaffer y cybuddedig yn ddiargyfwedd o'r bai hwnnw.*

¶ *Yna yr Esgob (gan orchymmyn y rhai a gaffer yn gymmwys i'w hurddo, i sweddïau 'r Gynnulleidfa) gyd â'r Eglwysŵŷr a'r Bobl bresennol a gân neu a ddywaid y Litani gyd â'r Gweddïau, megis y rhagosodwyd yn Ffurf Urddo Diaconiaid; yn unig yn y cŷd-arch pryd a arddodwyd yno, yr arbedir y gair* [Diaconiaid] *ac y dywedir y gair* [Offeiriaid] *yn ei le ef.*

¶ *Yna y cenir neu y dywedir Gwasanaeth y Cymmun gyd â'r Colect, yr Epistol, a'r Efengyl isod.*

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, rhoddwr pob dawn da, yr hwn trwy dy lân Ysbryd a osodaist amryw raddau o Weinidogion yn yr Eglwys; edrych yn ddarbodus ar dy Wasanaeth-dynion hyn a alwyd yr awrhon i Swydd Offeiriadaeth; ac felly cyflawna hwynt â'th wir athrawiaeth, ac addurna hwynt â diniweidrwydd Buchedd, fel y bo iddynt trwy air ac esampl dda, dy wasanaethu di yn ffyddlon yn y Swydd hon, er gogoniant i'th Enw, ac adeiladaeth dy Eglwys, trwy haeddedigaethau ein Pryniawdwr Iesu Grist; Yr hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu gyd â Thydi a'r Ysbryd Glân, yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

Yr Epistol.

I bob un o honom y rhoed grâs yn ôl. Ephes. 4. gwers 7. hyd wers 14.

¶ *Yna y darllenir am yr Efengyl ràn o'r nawsed Bennod o Sant* Mathew.

Pan welodd yr Iesu y torfeydd. S. Math. 9. gwers 36. hyd y diwedd.

¶ *Neu hyn isod, allan o'r ddegfed Bennod o* S. Ioan.

Yn wir, yn wir, meddaf i chwi. S. Ioan 10. gwers 1. hyd wers 17.

¶ *Yna yr Esgob (yn eistedd yn ei Gadair) a weinydda i bob un o honynt y llw am Uchafiaeth y Brenbin, megis y gysodir o'r blaen yn Ffurf Urddo Diaconiaid.*

¶ *Ac wedi hynny, efe a ddywaid wrthynt, fel y mae yn canlyn yma.*

CHwychwi a glywsoch, Frodyr, nid yn llai yn eich holiad priod, nag yn y cyngor a roddwyd i chwi yr awrhon, ac yn y cyssegrlan Lithoedd a gymmerwyd allan o'r Efengyl, a 'Sgrifenadau yr Apostolion, y rhyw uchel tri, a'r dirfawr bwys sydd yn y Swydd, i'r hon y'ch galwyd chwi. Ac yn awr yr ŷm eilchwyl yn eich cynghori chwi yn Enw ein Harglwydd Iesu Grist, gofio o honoch yn wastad, i ba ryw uchel barch, ac i ba ryw Swydd a goruchwiliaeth bwysfawr y'ch galwyd chwi: nid amgen, i fod yn Genhadon, yn Wilwŷr, ac yn Oruch-wilwŷr i'r Arglwydd; i athrawu ac i rag-rybuddio, i borthi ac i arlwyo i Deulu 'r Arglwydd; i geisio Defaid Crist a ŷnt ar ddisperod, a'i Blant ef y sydd ynghanol y Byd drygionus hwn, fel y bônt cadwedig trwy Grist byth bythoedd.

Am hynny bid yn wastad brintiedig yn eich côf chwi, pa ddirfawr dryfor a ymddiriedwyd i chwi. Canys Defaid Crist ydynt, y rhai a brynodd efe trwy ei angau, a thros ba rai y tywalltodd efe ei waed. Ei ddyweddi a'i Gorph ef yw 'r Eglwys a'r Gynnulleidfa y bydd rhaid i chwi Weini iddi. Ac o's digŵydd i'r unrhyw Eglwys, nac i un aelod o honi oddef dim niweid neu Rwystr o achos eich hesgeulusdra chwi, chwi a wyddoch faint y bai, ac mor ofnadwy hefyd y dïal a ganlyn.

O herwŷdd pa ham ystyriwch ynoch eich hunain ddiben eich Gweinidogaeth i Blant Duw, tu ag at ddyweddi a Corph Crist: ac edrychwch na bo i chwi byth beidio â'ch poen, eich gofal, a'ch diwŷdrwydd, nes y gorphenoch hŷd eithaf y saif ynoch, y cwbl oll yn ôl eich rhwymedig ddyled, i ddwyn cynnifer oll a ymddiriedwyd neu a ymddiriedir dan eich gofal, i gyfryw undeb ffŷdd a Gŵybodaeth am Dduw, ac i'r cyfryw addfedwch a pherffeithrwydd Oedran yng Nghrist, fel na adawer dim lle yn eich mŷsg, nac i amryfusedd Crefydd, nac i Ddrygioni buchedd.

Am hynny, yn gymmaint a bod eich Swydd chwi yn rhagori cymmaint, ac mor anhawdd ei chyflawni, chwi a welwch â pha faint o ofal ac astudrwydd y dylech chwi ymegnio, yn gyftal i'ch dangos eich hunain yn wasanaethgar ac yn ddïolchgar i'r Arglwydd yr hwn a'ch gosododd mewn breintle mor barchus. Ac i ochelyd hefyd na bo i chwi eich hunain dramgwyddo, na bod yn achos tramgwydd i eraill. Eisoes gan nad all fod gennyeh na phryder nac ewyllys i hynny o honoch eich hunain; o blegid Duw ei hun sydd yn rhoddi 'r ewyllys a'r gallu: chwithau a ddylech, ac angenrhaid i chwi weddïo yn ddifrifol am ei Lân Ysbryd ef. Ac yn gymmaint ag nad ellwch trwy un môdd arall graffu ar wneuthur gweithred mor bwysfawr ag yw hyfforddio lechydwriaeth dŷn, namyn trwy Athrawiaeth a Chyngor allan o'r Ysgrythur Lân, a thrwy fuchedd gŷd-unol â'r unrhyw: Ystyriwch mor astud y dylech fod ar ddarllain a dysgu 'r

Yſgrythyrau, ac ar lunio eich ymddygiad eich hun, ac eiddo 'r rhai neſaf a berthyna i chwi, yn ol rheol yr unrhyw Yſgrythyrau: ac o herwydd yr un achos yma, y môdd y dylech adael a bwrw heibio (hŷd y galloch) holl ofalon a thrafferthau 'r Bŷd.

Y mae gennym obaith da am danoch, eich bod chwi er hîr o amſer, wedi crâff-ſynied, ac wedi yſtyried yn ddâ ynoch eich hunain y pethau hyn: A'ch bod wedi goſod eich llwyr trŷd, trwy Râs Duw, i ymroddi yn hollol i'r Swydd hon y teilyngodd Duw eich galw iddi: ſel yr ymoſodoch hŷd y bo ynoch at hyn o beth yn unig, a thynnu eich gofalon oll, a'ch aſtudrwydd i'r llwybr yma; Ac y bydd i chwi weddïo yn ddibaid ar Dduw 'r Tâd, trwy gyfryngdod ein hunig Iachawdwr Ieſu Griſt, am Neſol Borth yr Ysbryd glân; Fel y'ch gwneler, trwy beunydd ddarllain ac yſtyried y 'Sgrythyrau, yn rhucclach ac yn rymmuſach yn eich Gweinidogaeth; Ac ſel y bo i chwi o amſer bwygilydd ſelly ymegnïo i ſancteiddio eich bucheddau prïod, a bucheddau yr eiddoch, ac i'w llunio hwynt wrth reol ac Athrawiaeth Griſt, i fod yn ddrychau ac yn enſamplau iachol a duwiol i'r bobl i'w canlyn.

Ac yn awr, ſel y gallo Cynnulleidfa Criſt ſydd yma yn gydrychiol wedi ymgaſglu ynghŷd ddeall heſyd eich meddyliau, a'ch ewyllys yn y pethau hyn. Ac ſel y gallo 'ch addewid yma 'ch cynhyrfu chwi yn ychwaneg i wneuthur eich dyledſwyddau, chwychwi a attebwch yn eglur i'r hyn bethau a ofynom i chwi yn Enw Duw a'i Eglwys, am yr unrhyw.

A Ydych yn tybied yn eich càlon eich bod wedi eich gwîr alw yn ôl ewyllys ein Harglwydd Ieſu Griſt, a Threfn Eglwys *Loegr*, i Urdd a Gweinidogaeth Offeiriad?

Atteb. Yr ŵyf fi yn tybied hynny.

Eſgob.

A Ydyw yn ddïogel gennych fod yr Yſgrythur Lân yn cynnwys pob Athrawiaeth angenrheidiol i Iechydwriaeth dragywyddol trwy ffydd yn Ieſu Griſt? Ac a ydych chwi yn ddïanwadal yn arfaethu athrawiaethu 'r Bobl a ymddiriedwyd i'ch golygiaeth allan o'r un Yſgrythyrau; Ac na ddyſgoch ddim (megis angenrheidiol i Iechydwriaeth dragywyddol) ond a fo dïogel gennych y gellir ei gaſglu a'i brofi allan o'r Yſgrythyrau?

Atteb. Y mae yn ddïogel gennyf, ac mi a arfaethais ſelly trwy râs Duw.

Eſgob.

A Roddwch chwithau gan hynny ddiwydrwydd yn ffyddlawn bob amſer ar finiſtrio 'r athrawiaeth a'r Sacramentau a diſgyblaeth Criſt, megis y gorchymynodd yr Arglwydd, ac ar y môdd y mae 'r Eglwys a'r Deyrnas hon wedi derbyn yr unrhyw, yn ôl gorchymynion Duw; hŷd pan alloch addyſgu 'r Bobl a ddodwyd dan eich Cur a'ch goruchwiliaeth, i gadw a gwneuthur yr unrhyw trwy bob dyſal bara?

Atteb. Mi a wnâf ſelly trwy borth yr Arglwydd,

Eſgob.

A Fyddwch chwi parod trwy bob ffyddlondeb a diwidrwyd, i ddeol ac i darfu ymaith bob cyfeiliornus a dïeithr Athrawiaeth, a fo yn gwrthwynebu Gair Duw; ac a ymarferwch chwi roddi yn waſtad Rybuddiau a Chynghorion cyhoedd a dirgel, yn gyſtal i'r Clâf ac i'r Iâch, o fewn eich Cur megis y byddo 'r angen yn gofyn, ac y rhoddir Achlyſur?

Atteb. Mi a wnâf ſelly, a'r Arglwydd yn Gynnorthwywr i mi.

Eſgob.

A Fyddwch chwi ddyſal i weddïo, ac i ddarllain yr Yſgrythur lân, ac i ddilyn y cyfryw Aſtudrwydd ag a hyfforddio i ŵybodaeth yr unrhyw; gan ddodi heibio oſal dros y Bŷd a'r Cnawd?

Atteb. Mi a ymegnïaf ar wneuthur ſelly, â'r Arglwydd yn Gynnorthwywr i mi.

Eſgob.

A Fyddwch chwi ddiwŷd i lunio a ffurfio eich Bucheddau eich hunain a'ch Teuluoedd wrth Athrawiaeth Criſt, ac i'ch gwneuthur eich hunain a hwythau, hŷd y bo ynoch, yn flaenoriaid ac yn enſamplau iachol i ddïadell Criſt?

Atteb. Mi a'm dygaf fy hun at hynny, a'r Arglwydd yn gynnorthwywr i mi.

Eſgob.

A Ddiffynnwch chwi, ac a hyfforddiwch chwi, hŷd y bo ynoch, ddïddigiwydd, tangnefedd, a chariad perffaith rhwng bob math o Griſtianogion; ac yn enwedig rhwng y rhai a oſodwyd, neu a oſodir dan eich Goruchwiliaeth chwi?

Atteb. Mi a wnâf ſelly, a'r Arglwydd yn gynnorthwywr i mi:

Eſgob.

A Roddwch chwi barch ac ufudd-dod i'ch Ordinari, ac i Brîf-ſwyddogion eraill yr Eglwys, ar y rhai y dodir y goſal droſoch, a'r Llywodraeth arnoch, gan gyflawni eu cynghorion duwiol hwy yn Llawen ac yn Ewyllyſgar, a chan eich daroſtwng eich hunain i'w Barn dduwiol hwynt?

Atteb. Mi a wnâf ſelly, a'r Arglwydd yn gynnorthwywr i mi.

¶ *Yna 'r Eſgob o'i ſefyll a ddywaid,*

YR Holl-alluog Dduw, yr hwn a roddodd i chwi yr ewyllys yma i wneuthur y pethau hyn oll, a ganiattâo i chwi nerth heſyd a gallu i gyflawni 'r unrhyw; ſel y perffeithio efe ei waith a ddechreuodd ynoch: trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna ſe a ddymunir ar y Gynnulleidfa bob un yn ei ddirgel weddïau, wneuthur eu herfyniau yn oſtyngedig ar Dduw, am y pethau hyn oll: i'r cyfryw Weddïau, ſe a gedwir diſtawrwydd dros ennyd.*

¶ *Ar ôl hynny y cenir neu y dywedir gan yr Eſgob (a'r rhai a urddir yn Offeiriaid, pob un, ar eu gliniau)* Veni, Creator Spiritus; *yr Eſgob yn dechreu, a'r Offeiriaid ac eraill cydrychiol yn atteb bob yn ail wers, ſel hyn.*

TYr'd, Ysbryd Glân, i'n c'lonnau ni,
A dôd d' Oleuni nefol, &c. megis yn yr Emynau.

¶ *Neu hyn.*

TYr'd, Ysbryd Glân, trag'wyddol Dduw,
Yr unrhyw â'r Tâd nefol,
Yr unrhyw heſyd a'r Mab rhâd,
Duw cariad taugnefeddol, &c. megis yn yr Emynau.

¶ *Gwedi hynny, yr Eſgob a weddïa yn y môdd hwn, ac a ddywaid,*

¶ Gweddïwn.

HOll-alluog Dduw a nefol Dâd, yr hwn o'th anfeidrol Gariad a'th ſerch arnom, a roddaiſt i ni dy unig a'th anwylaf Fâb Ieſu Griſt, i'n prynu ac i fod yn Awdur i ni o fywyd tragywyddol; yr hwn, wedi iddo berffeithio ein Prynedigaeth ni trwy ei Angau, ac eſgyn o hono i'r Nefoedd, a anfonodd allan i'r bŷd ei Apoſtolion, Prophwydi, Efengylwŷr, Athrawŏn a Bugeiliaid, trwy lafur a gweinidogaeth y rhai y caſglodd ynghŷd liofog ddïadell ym mhob goror o'r bŷd, i ddatgan tragywyddol Fawl dy Enw bendigedig: Am y rhai hyn, mawr ddoniau dy dragywyddol ddaioni; ac am deilyngu o honot alw dy waſanaeth-ddynion hyn yma yn gydrychiol i'r

unrhyw

trugarhyw Swydd a Gweinidogaeth a oſodaiſt er mwyn iechydwriaeth Dŷn, nyni a roddwn i ti ffyddlonaf ddiolwch, nyni a'th foliannwn ac a'th addolwn; ac yn oſtyngedig yr attolygwn i ti, trwy yr un dy ſendigedig Fâb, ganiattâu i bawb a alwant ar dy Enw ſanctaidd, yma, ac ym mhob mân arall, allu dâl allan i ymddangos yn ddiolchgar i ti, am y rhai hyn a'th holl ſendithion eraill; a chynnyddu beunydd a myned rhagom mewn gŵybodaeth a ffydd ynot ti a'th Fâb, trwy 'r Ysbryd glân. Fel, yn gyſtal trwy dy Weinidogion hyn, a thrwy eraill dros ba rai y goſoder hwy yn Weinidogion, y gogonedder dy Enw ſanctaidd yn dragywydd, ac yr ehanger dy ſendigedig Deyrnas; trwy 'r un dy Fâb Ieſu Griſt ein Harglwydd, yr hwn ſy'n byw ac yn teyrnaſu gyd â Thi yn undeb yr un Ysbryd Glân, yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Pan ddarfo 'r Weddi hon, yr Eſgob gyd â'r Offeiriaid cydrychiol, a ddodant eu dwylaw ar ben pob un a ſo yn derbyn Urdd Offeiriadaeth; y derbynwŷr yn goſtwng yn ufudd ar eu gliniau, a'r Eſgob yn dywedyd,*

DErbyn di yr Ysbryd Glân, i Swydd a Gwaith Offeiriad o fewn Eglwys Dduw, yr hon Swydd a roddir i ti yr awr hon trwy Arddodiad ein Dwylaw ni. I bwy bynnag y maddeuech di eu pechodau, maddeuir iddynt; Ac i bwy bynnag yr attaliech di eu pechodau, hwy a attaliwyd. A bydd di Oruch-wiliwr ffyddlon Gair Duw a'i Lân Sacramentau; yn Enw 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Ysbryd Glân. *Amen.*

¶ *Yna, a hwy etto ar eu gliniau, yr Eſgob a ddŷd y Bibl i bob un o honynt yn ei lâw, gan ddywedyd,*

BYdded i ti Awdurdod i Bregethu Gair Duw, ac i Finiſtrio 'r Sacramentau Bendigedig yn y Gynnulleidfa, lle y'th oſodir yn gyfreithlawn i hynny.

¶ *Pan ddarfo hyn, Credo* Nicæa *a genir neu a ddywedir, a'r Eſgob wedi hynny a â rhagddo ar Waſanaeth y Cymmun, yr hwn y rhai oll y gderbyniant Urddau, a gymmerant ynghŷd, ac a arboſant yn yr un man lle y dodwyd Dwylaw arnynt, hŷd oni ddarfo iddynt gymmeryd y Cymmun.*

¶ *Pan ddarfo 'r Cymmun, ar ôl y Colect diweddaf, ac yn neſaf o flaen y Fendith y dywedir y Colectau hyn.*

TRugaroccaf Dâd, ni a attolygwn i ti anfon dy neſol Fendith ar dy waſanaeth-ddynion hyn, fel y gwiſger hwy ag Iawnder; ac y caffo dy Air di a leferir â'u geneuau hwynt y cyfryw lwyddiant, fel na lefarer mo hono un amſer yn ofer. Caniattâ hefyd i ni Râs i wrando a derbyn yr hyn a lefarant allan o'th Sanctaiddiaf Air, neu yn gyſſon iddo, megis yn llwybr i'n hiechydwriaeth; fel yn ein holl eiriau a'n gweithredoedd y ceiſiom dy ogoniant di, a chynnyrch dy Deyrnas, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Rhag-flaena ni, O Arglwydd, yn ein holl, &c.
Tangnefedd Dduw yr hwn, &c.

¶ *AC o'r rhoddir Gradd Diaconiaid i rai, ac i eraill Urdd Offeiriadaeth yn yr un dŷdd; y Diaconiaid a gyſwynir yn gyntaf, ac yna yr Offeiriaid: Ac fe a waſanaetha ddarllain y Litani unwaith i'r ddau. Dywed'er Colectau pob un; y cyntaf dros y Diaconiaid, yna y llall dros yr Offeiriaid.*

¶ *Yr Epiſtol a fydd,* Ephes. 4. 7. hŷd w. 14. *megis uchod yn y Dreſn hon. Yn neſaf ar ôl yr hon, y rhai a wnair yn Ddiaconiaid, a gymmerant Lw 'r Uchafaeth, a bolir, ac a Urddir, megis ag y rhagoſodwyd uchod. Yna wedi i un o honynt ddarllain yr Efengyl (yr hon a fydd naill ai allan o* S. Math. 9. 36. *megis uchod yn y Gwaſanaeth hwn; ai o* S. Luc 12. 35----hŷd w. 39. *megis uchod yn y Ffurf am urddo Diaconiaid) y rhai a wnair yn Offeiriaid, yn yr un modd a gymmerant Lw 'r Uchafaeth, a bolir, ac a Urddir, megis y goſodir yn y Gwaſanaeth hwn uchod.*

Ffurf

Ffurf Urddo neu Gyſſegru ARCH-ESGOB, neu ESGOB; Yr hyn a wnair yn waſtad ar ryw Ddydd Sûl neu Ddydd Gwyl.

¶ Pan ſo pob peth wedi ei arlwyo yn weddus a'i oſod mewn Trefn yn yr Eglwys; pan orphener y Gwaſanaeth Bore, yr Arch-eſgob (neu ryw Eſgob arall a awdurdodwyd i hynny,) a ddechreu Waſanaeth y Cymmun, a hwn ſydd

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn trwy dy Fâb Ieſu Grift a roddaiſt amryw ddoniau godidog i'th ſanctaidd Apoſtolion, ac a orchymynaiſt iddynt borthi dy Braidd; Dyro Râs, ni a attolygwn i ti, i holl Eſgobion a Bugeiliaid dy Eglwys, i Bregethu dy Air yn ddyfal, ac i Finiſtrio ei dduwiol ddiſgyblaeth yn ddyledus; A chaniatta i'r Bobl ganlyn yr unrhyw yn oſtyngedig: Fel y bo i ni i gŷd derbyn Coron y Gogoniant tragywyddol, trwy Ieſu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

¶ Ac Eſgob arall a ddarllyn.

Yr Epiſtol.

Gwîr yw'r gair, od yw neb yn. 1 Tim. 3. gwers 1. hŷd wers 8.

Neu hyn yn lle'r Epiſtol.

O Miletus Paul a anfonodd i Epheſus. Act. 20. gwers 17. hŷd wers 36.

¶ Yna Eſgob arall a ddarllyn yr Efengyl.

Yna, gwedi iddynt giniawa, yr Ieſu. S. Ioan 21. gwers 15. hŷd wers 18.

Neu hon.

A hi yn hwyr y dŷdd cyntaf hwnnw. S. Ioan 20. gwers 19. hŷd wers 24.

Neu hon.

Yr Ieſu a ddaeth ac a leſarodd wrthynt. S. Math. 28. gwers 18. hŷd y diwedd.

¶ Ar îl yr efengyl, a Chredo Nicæa, *pan orphener y Bregeth, yr Etholedig Eſgob (wedi ei ymwiſgo â'i Wenwiſg) a Gyflwynir gan ddau Eſgob i Arch-eſgob y Dalaith honno, (neu i ryw Eſgob, arall a oſodwyd trwy Awdurdod Gyfreithlon) yr Arch-eſgob yn eiſtedd yn ei Gadair ger llaw y Bwrdd Bendigedig, a'r Eſgobion a ſo yn ei Gyflwyno ef, yn dywedyd,*

ANrhydedduſaf Dâd yn Nuw, yr ŷm ni yn cyflwyno i chwi y Gŵr Duwiol a Dyſgedig hwn, i'w Urddo a'i Gyſſegru yn Eſgob.

¶ Yna y gofyn yr Arch-eſgob am Mandat y Brenhin am ei Gyſſegru ef, ac a bair ei ddarllain. A'r Llw am gydnabod Uchafaeth y Brenhin a fyniſtrir i bob Etholedig Eſgob, megis y gofodir uchod yn y Ffurf am wneuthur Diaconiaid. Ac yno y mimſtrir befyd iddynt y Llw o Ufudd-dod dyledus i'r Arch-eſgob, fel y mae yn canlyn.

Y Llw o Ufudd-dod dyledus i'r Arch-eſgob.

" YN Enw Duw. *Amen.* Yr ŵyf fi *N.* ethol-
" edig Eſgob Eglwys a Chadair *N.* yn
" proffeſu ac yn addaw pob dyledus barch ac
" Ufudd-dod i'r Arch-eſgob, ac i Fam-Eglwys
" *N.* ac i'w Wrthrychiaid; mal yr helpio Duw fi
" trwy Ieſu Grift.

¶ Ni ddoder y Llw hwn ar Gyſſegriad Arch-eſgob.

¶ Yna yr Arch-eſgob a grybwyll wrth y Gynnulleidfa breſennol am weddïo, gan ddywedyd wrthynt fel hyn.

FY Mrodyr, y mae yn yſgrifenedig yn Efengyl Sant Luc, i'n Harglwydd Ieſu Grift barhâu ar hŷd y nôs yn Gweddïo Duw, cyn iddo ethol ac anfon allan ei ddeuddeg Apoſtol. Fe 'ſgrifennir befyd yn Actau 'r Apoſtolion, fod i'r Diſgyblion y rhai oedd yn Antiochia, ymprydio a gweddïo cyn iddynt ddodi eu dwylaw ar Paul a Barnabas, a'u gollwng ymaith. Moeſwch i ninnau gan hynny gan ganlyn eſampl ein Hiachawdwr Criſt a'i Apoſtolion, yn gyntaf peth weddïo, cyn i ni gymmeryd a danfon allan y Gŵr hwn a gyflwynwyd i ni, i'r gwaith i'r hwn y mae ein gobaith fod yr Ysbryd glân wedi ei alw ef.

¶ Yna y dywedir y Litani megis uchod yn y Ffurf am wneuthur Diaconiaid; yn unig ar îl, [Teilyngu o honot lewyrchu yr holl Eſgobion, *&c.*] *y cŷdarch pr'îod yn canlyn yno a arbedir, ac yn ei le ef y cymmerir hwn;*

TEilyngu o honot fendigo ein hetholedig Frawd hwn, a thywallt arno dy Râs, fel y gallo iawn gyflawni 'r Swydd i'r hon y galwyd ef, er adeiladaeth dy Eglwys, ac er anrhydedd, mawl, a Gogoniant dy Enw.

Atteb. Ni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.

¶ Yna y dywedir y Weddi hon ſy'n canlyn.

HOll-alluog Dduw, rhoddwr pob dawn da, yr hwn trwy dy lân Ysbryd a oſodaiſt amryw raddau o Weinidogion yn dy Eglwys; Edrych yn ddarbodus ar dy waſanaethwr hwn, a elwir yr awrhon i Waith a Gweinidogaeth Eſgob, ac felly cyflawna ef â'th wîr Athrawiaeth, ac addurna ef â diniweidrwydd Buchedd, fel y bo iddo yn gyſtal trwy air a gweithred dy waſanaethu di yn y Swydd hon yn ffyddlon, i ogoniant dy Enw, ac i adail ac iawn-lywodraeth dy Eglwys trwy Ryglyddon ein Hiachawdwr Ieſu Grift, yr hwn ſy'n byw ac yn teyrnaſu gyd â thi a'r Ysbryd glân byth bythoedd. *Amen.*

¶ Yna 'r Arch-eſgob, yn eiſtedd yn ei Gadair, a ddywaid wrth yr hwn a Gyſſegrir,

FY Mrawd, yn gymmaint a bod yr Yſgrythur lân, a'r hên Ganonau yn erchi na byddom pryfur i arddodi dwylaw, na gollwng neb i lywodraethu yn Eglwys Grift, yr hon a bwrcaſodd efe â gwerth nid llai nâ thywalltiad ei brîod waed: Cyn i mi eich cymmeryd chwi i'r Weinidogaeth hon, myfi a'ch holaf chwi ar ſwrn o byngciau, er mwyn gallu o'r gynnulleidfa breſennol gael prawf a dwyn Tyſtiolaeth am y môdd yr ŷch yn bwriadu ymddŵyn yn Eglwys Dduw.

AYdyw yn ddïogel gennych eich galw yn ddyledus i'r Weinidogaeth hon, yn ôl ewyllys ein Harglwydd Ieſu Grift, ac yn ôl Trefn y Deyrnas hon?

Atteb. Y mae hynny yn ddïogel gennyf.

Arch-eſgob.

AYdyw yn ddïogel gennych fod yr Yſgrythur Lân yn cyflawn gynnwys pob Athrawiaeth angenrheidiol i Iechydwriaeth dragywyddol, trwy ffŷdd yn Ieſu Grift? Ac a ydyw eich llawn-fryd chwi, i addyſgu 'r Bobl a ymddiriedwyd i'ch cadwraeth, allan o'r unrhyw 'Sgrythur Lân; Ac na bo i chwi nac athrawiaethu, na diffyn dim megis angenrheidiol i Iechydwriaeth dragywyddol, namyn yr hyn y bo dïogel gennych y gellir ei dynnu a'i brofi trwy 'r unrhyw?

Atteb. Y mae yn ddïogel gennyf, ac y mae fy llawn frŷd ar hynny trwy râs Duw.

Arch-

Arch-eſgob.

AYmarſerwch chwithau eich hun yn ffyddlon yn yr Yſgrythur Lân hon, ac ymbil trwy weddi ar Dduw, am gael gwîr ddirnad yr unrhyw; hŷd pan alloch trwyddi addyſgu a chynghori ag athrawiaeth iachol, a gwrth-ſefyll ac argyoeddi 'r Gwrth-ddadleuwŷr?

Atteb. Mi a wnâf felly gyd â help Duw.

Arch-eſgob.

AYch chwi yn barod â phob diwŷdrwydd ffyddlon, i ddeol a tharfu hwnt bob amryfuſedd ac athrawiaeth ddïeithr, yngwrthwyneb i Air Duw; ac i gymmell eraill, a'u cadarnhâu i hynny, yn y dirgel ac yn yr amlwg?

Atteb. Yr ŵyf yn barod, â'r Arglwydd, yn gynnorthwywr i mi.

Arch-eſgob.

AWedwch chwi bob annuwioldeb a thrachwant bydol, ac a ſucheddweh chwi yn ſobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y bŷd preſennol hwn, fel ym mhob peth yr ymddangoſoch chwi i eraill yn eſampl o weithredoedd da, fel y gwaradwydder y gwrthwynebwr, môdd na chaffo ddim i'w ddywedyd i'ch erbyn?

Atteb. Mi a wnâf felly, a'r Arglwydd yn Gynnorthwywr i mi.

Arch-eſgob.

ADdiffynnwch ac a hyfforddiwch chwi, hŷd y ſaſo ynoch, ddiſtawrwydd, cariad perffaith, a thangnefedd ym mŷſg pawb oll? A geryddwch, ac a goſbwch chwi y rhai aflonydd, anufudd, a beius o fewn eich Heſgobaeth, yn ol y cyfryw awdurdod ſydd i chwi yngair Duw, ac hŷd y rhoddir i chwi trwy Ordinhâd y Deyrnas hon?

Atteb. Mi a wnâf felly gyd â help Duw.

Arch-eſgob.

AFyddwch chwi ffyddlon i Urddo, danſon allan, a dodi dwylaw ar eraill?

Atteb. Mi a fyddaf felly trwy help Duw.

Arch-eſgob.

AYmddygwch chwi yn addfwyn, ac yn drugarog er mwyn Criſt i'r tlawd a'r anghenus, ac i bob dieithr digarad?

Atteb. Mi a ymddygaf felly trwy help Duw.

¶ *Yna 'r Arch-eſgob o'i ſefyll a ddywaid,*

HOll-alluog Dduw, ein Tâd nefol, yr hwn a roddodd i chwi ewyllys parod i wneuthur y pethau hyn oll, a ganiattâo i chwi nerth hefyd a gallu i'w cyflawni, fel ag efe yn perffeithio ynoch y gwaith da a ddechreuodd, y caffer chwi yn berffaith ac yn ddïargyoedd yn y dŷdd diweddaf, trwy Ieſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna yr Etholedig Eſgob a ddŷd am dano y rhan arall o'r Eſgobawl Wiſg, ac eſe yn goſtwng ar ei Liniau y Canir neu y dywedir, wuch ei Ben ef,* [Veni, Creator Spiritus;] *yr Arch-eſgob yn dechreu, a'r Eſgobion, ag eraill cydrychiol yn atteb yn werſi, megis o'r blaen yn Ffurf urddo Offeiriaid.*

¶ *Pan orphener y gân, Yr Arch-eſgob a ddywaid,*

Arglwydd, clyw ein Gweddi.

Atteb. A deled ein llêf attat ti.

Arch-eſgob.

Gweddïwn.

HOll-alluog Dduw a thrugaroccaf Dâd, yr hwn o'th anſeidrol Ewyllyſgarwch a roddaiſt dy unig a'th anwylaf Fâb Ieſu Criſt, i'n prynu ac i fod yn awdur i ni o fywyd Tragywyddol; yr hwn wedi iddo gyflawni ein prynedigaeth trwy ei Angau, ac eſgyn o hono i'r nefoedd, a dywalldodd ar ddynion ei ddoniau yn lliöſog, gan wneuthur rhai yn Apoſtolion, eraill yn Brophwydi, eraill yn Efengylwŷr, eraill yn Fugeiliaid ac Athrawön, tu ag at Adeiladaeth a Pherffeithio ei Eglwys: Caniattâ, ni a attolygwn i ti, y cyfryw Râs i'th waſanaethydd hwn, fel y byddo parod yn waſtad i dannu ar lêd dy Efengyl, ſef, y newŷdd llawen o'n cymmod â thydi; ac ymarfer yr Awdurdod a roddir iddo, nid i ddiſtryw, ond i ſechydwriaeth; nid er ſarhâd, ond er Porth; fel megis Gwâs doeth a ffyddlawn, yn rhoddi i'th Deulu di eu cyfran yn ei brŷd, y caffo yn y diwedd ei dderbyn i Lawenydd Tragywyddol, trwy Ieſu Criſt ein Harglwydd, yr hwn gyd â thi a'r Ysbryd Glân ſy'n byw ac yn teyrnaſu yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

¶ *Yna yr Arch-eſgob a'r Eſgobion cydrychiol a ddodant eu dwylaw ar ben yr Etholedig Eſgob, ag eſe yn goſtwng o'u blaen hwynt ar ei Liniau, a'r Arch-eſgob yn dywedyd,*

DErbyn yr Ysbryd glân, i Swydd a gwaith Eſgob yn Eglwys Dduw, yr hon a roddwyd yr awr hon i ti trwy Arddodiad ein Dwylaw ni; yn Enw 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Ysbryd glân. *Amen.* A chofia ail ennyn Dawn Duw, yr hwn ſydd ynot trwy arddodiad ein dwylaw ni: Canys ni roddodd Duw i ni ysbryd ofn, ond ysbryd nerth, a chariad, a phwyll.

¶ *Yna yr Arch-eſgob a ddyry iddo y Bibl, gan ddywedyd,*

GLŷn wrth ddarllain, wrth gynghori, wrth athrawiaethu: Myfyria ar y pethau a gynhwyſir yn y Llyfr hwn. Bydd ddiwŷd ynddynt, fel y byddo'r cynnydd a ddeuo trwyddynt yn eglur i bawb. Gwilia arnat dy hun, ac ar yr Athrawiaeth, ac ymddyro i'w gwneuthur; canys o's gwnai hyn, ti a'th gedwi dy hun a'r rhai a wrandawant arnat. Bydd Fugail, nid Blaidd i ddïadell Criſt: Portha hwynt, na thraflyngca hwynt. Cynnal y llêſg, iachâ 'r clâf, rhwyma 'r briwedig, dychwel y tarfedig, cais y colledig. Felly bydd di Drugarog fel na byddech rŷ Lariaidd; Felly gwnâ Lywodraeth, fel na anghofiech doſturi: fel pan ymddangoſo 'r Pen-Bugail y derbyniech anllygradwy goron y gogoniant trwy Ieſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna yr â'r Arch-eſgob rhagddo ar Waſanaeth y Cymmun; a'r Eſgob newŷdd-gyſſegru (ac eraill) a Gymmunant gyd ag ef.*

¶ *Ac yn lle y Colect diweddaf, yn nefaf o ſaen y Fenditb, y dywedir y Gweddiau hyn.*

ODrugaroccaf Dâd, ni a attolygwn i ti dywallt dy nefol fendith ar dy waſanaethwr hwn, a'i gynnyſgaeddu ef felly â'th lân Ysbryd, i fod, gan Bregethu dy Air, nid yn unig yn awŷddus ar argyoeddi, ymbil, a cheryddu, gyd â phob ammynedd ac Athrawiaeth; eithr heſyd i fod yn eſampl iachol i'r ffyddloniaid, mewn gair, mewn ymarweddiad, mewn Cariad, mewn ffydd, mewn diweirdeb, ac mewn purdeb; fel gan gyflawni ei yrfa yn ffyddlon, y derbynio yn y dydd diweddaf goron cyfiawnder yn gadwedig gan yr Arglwydd y Barnwr cyfiawn, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu yn un Duw gyd â'r Tâd, a'r Yſbryd Glân, heb drangc na gorphen. *Amen.*

Rhag-flaena ni, O Arglwydd, yn ein, *&c.*
Tangnefedd Duw, yr hwn ſydd uwch law, *&c.*

ERTHYGLAU a gyttunwyd arnynt gan *ARCH-ESGOBION* ac *ESGOBION* y ddwy Dalaith, a'r holl Eglwyſwyr, yn y Gymmanſa a gynhaliwyd yn *Llundain*, yn y Flwyddyn 1562. Er mwyn gochelyd Amrafael Opiniynau, a chadarnhâu Cyſſondeb ynghylch Gwîr Grefydd. A ail-brintiwyd trwy Orchymmyn ei Fawrhydi; gyd â'i Frenhinol Ddeclarafiwn o'u blaen hwynt.

DECLARASIWN Y BRENHIN.

GAN Ein bod wrth Ordinhâd Duw, yn ôl ein cyſſiawn Ditl, yn Amddiffynnydd y ffydd, a goruwch-Lywiawdr yr Eglwys, yn ein Harglwyddiaethau hyn; *yr ydym yn cyſtrif yn dra chyttunol i'n Swydd frenhinol hon, a'n Zêl grefyddol Ein Hun, gadw ac amddiffyn yr Eglwys a roddwyd dan Ein gofal, yn undeb gwîr Grefydd, ac ynghadwum Tangnefedd: ac nid dioddef i Ymddadleuon anangenrheidiol, Amrafaelion, neu Gweſtiynau gyfodi, a'r a allo fagu Ymryſon yn yr Eglwys a'r Wladwriaeth. Tybiaſom gan hyny ar brwyll yſtyriol, at wrth Gymmer cynniſer o'n Heſgobion ag a ellid yn gyfleus eu galw ynghŷd, yn gymmwys voneud y* Declarafiwn *ſy'n canlyn.*

Fod Erthyglau Eglwys Leogr (*y rhai a gymmeradwywyd ac a awdurdodwyd bŷd yn hyn, a'r rhai y darfu i'n Hegluyſwŷr yn gyffredin ddodi eu dwylaw wrthynt*) *yn cynnwys gwîr Athrawiaeth Eglwys* Loegr, *yn gyttunol â Gair Duw: y rhai yr ydym gan hynny yn eu ſcrbáu ac yn eu cadarnhâu, gan orchymmyn i'n holl Ddeiliaid ſerchog barhâu yn yr Unffurf honno o Broffes, a gwahardd yr Anghydfod lleiaf oddi wrth y dywededig Erthyglau, y rhai i'r diben hynny yr ydym yn gorebymmyn eu Printio o newŷdd, a chyhoeddi ein* Declarafiwn *hwn gŷd â hwynt.*

Ein bod yn Oruwch-Lywiawdr Eglwys Loegr: *a bod, o's cyfyd dim Ymryſon ynghŷlch y Llywodraeth oddi allan, am* Orchymmynnau, Canonau, a Gofoddigaethau *eraill pa rai bynnag yn perthyn iddi, i'r Eglwyſwŷr yn eu Cymmanſa eu trefnu a'u gwaſtadlu, wedi cael cennad yn gyntaf dan ein Sêl lydan i wneuthur felly, a Ninnau yn cymmeradwyo eu Hordinhadau hynny a'u Gofoddigaethau; tra na wneler un o honynt yn wrthwyneb i Gyfreithiau a Defodau y Deyrnas.*

Bod o'n Gofal tywyſogol, i'r Gwŷr Eglwyſig wneuthur y Gwaith ſydd briodol iddynt; yr Eſgobion a'r Eglwyſwŷr, o amſer bwygilydd mewn Cymmanſa ar eu hufudd Ddymuniad, a gânt Gennad dan ein Sêl lydan, i ymgynghori ynghŷlch, a gwneuthur yr holl gyfryw bethau ag a wneler yn eglur ganddynt, ac y cyttunom Ni â hwynt, a berthyn i ſefydlog barhâd Athrawiaeth a Diſgyblaeth Eglwys Loegr *ſy'r awr hon yn ſafadwy; oddi wrth yr hon ni ddioddefwn Ni ddim newidiad neu ymadawiad yn y Rádd leiaf.*

Ein bod am yr Amſer preſennol, (er darfod codi rhai Amrafaelion drwg,) etto yn ymgyſſaro yn hyn, ddarfod i'r holl Eglwyſwŷr o fewn cin Teyrnas, bob amſer yn ewyllyſgaraf ddodi eu dwylaw wrth yr Erthyglau gofodedig hyn; yr hyn ſydd Refwm i Ni, eu bod hwy oll yn cyttuno yngwîr, arferol, a llythyrennol ſeddwl y dywededig Erthyglau, a bod, hŷd yn oed yn y Pyngciau manylaidd hynny lle mae'r Amrafaelion preſennol yn ſefyll, pobl o bob mâth yn cymmeryd ſod Erthyglau Eglwys Loegr *droſtynt; yr hyn ſydd Refwm ym mhellach etto, nad oes neb o honynt yn chwennych ymadael â'r Erthyglau ſafadwy hyn.*

Y mynnwn gan hynny, yn yr Amrafaelion manylaidd ac annedwŷdd hyn, y rhai dros gynniſer cant o flynyddoedd ac mewn amrafael amſeroedd a mannau a fuant waith i Eglwys Criſt *i'w wneuthur, adael heibio bob manylaidd chwilio ym mhellach, a chau i fynu yr Ymddadleuon hynny yn Addewidion Duw, fel y gofodir hwynt allan yn gyffredin i ni yn yr Ysgrythur Lân, a meddwl cyffredin Erthyglau Eglwys* Loegr *yn ei hôl hi. Ac na chaffo neb o hyn allan na Phrintio na Phregethu i wŷro'r Erthyglau yn un mŏdd; eithr ymoſtwng iddynt yn eu meddwl eglur a chyflawn; ac ni chaiff roi ei Synwyr neu ei Ddeongliad ei hun i fod yn feddwl yr Erthyglau, eithr eu cymmeryd yn yſtyr y Llythyren a'r Grammadeg.*

Bod, o's rhŷ rhyw Ddarllenydd cyhoedd yn un o'n dwy Brif-Yſgol, neu ryw Ben neu Feiſtr Coleg, neu neb arall yn neillduol yn un o honynt, ryw Yſtyriaeth newŷdd i un Erthyglau, neu ddarllain ar gyhoedd, terfynu, neu gynnal un Ddadl gyhoeddus, neu oddef cynnal un o'r cyfryw mewn un wedd yn un o'n dwy Brif-Yſgol, neu'n Colegau yn neillduol; neu o's pregetha un Diſnydd yn y Prif-Yſgolion, neu brintio dim yn un wedd, yn amgen nag a waſtadlwyd eiſoes mewn Cymmanſa trwy Ein Cŷd-ſynnad Brenhinol; iddo eſe, neu hwy y Troſeddwŷr fod dan bwys Ein Hanfodlonrwydd, a Barn yr Eglwys yn Ein Commiſſiwn Eglwyſig, yn gyſtal â neb arall: ac nyni a ſynnwn weled gwneuthur Cosbedigaeth addas arnynt.

Y Namyn un deugain ERTHYGLAU CREFYDD.

I. *Am Ffydd yn y Drindod Sanctaidd.*

NID oes ond un gwîr Dduw byw, tragywyddol, heb gorph, heb rannau, heb ddioddefiadau; o anfeidrol allu, doethineb, a daioni; gwneuthurwr a chynhaliwr pob peth gweledig ac anweledig. Ac yn Undod y Dwdod yma y mae tri Pherſon, o un ſylwedd, galluogrwydd, a thragywyddoldeb; y Tâd, y Mâb, a'r Yſbryd Glân.

II. *Am y Gair neu Râb Duw, yr hwn a wnaethbwyd yn wîr Ddŷn.*

YMâb, yr hwn yw gair y Tâd, a genhedlwyd er tragywyddoldeb gan y Tâd, gwîr a thragywyddol Dduw, o'r un ſylwedd â'r Tâd, a gymmerodd natur dŷn ym mru 'r Wŷryf fendigaid, o'i ſylwedd hi: ſel y mae dwy natur berffaith gyfan-gwbl, ſef, y Duwdod a'r Dyndod, wedi eu cyſſylltu ynghŷd yn un Perſon, ni wahenir byth, o'r rhai y mae un Criſt, gwîr Dduw a gwîr Ddŷn, yr hwn a wîr-ddioddefodd, a groes-hoeliwyd, a fu farw ac a gladdwyd, i gymmodi ei Dad â nyni, ac i fod yn aberth, nid yn unig dros euogrwydd pechod gwreiddiol, eithr hefyd dros holl weithredol bechodau dynion.

III. *Am Ddiſgyniad Criſt i Uffern.*

MEgis y bu Criſt farw droſom, ac y cladd wyd ef: felly hefyd y mae i'w gredu, iddo ddiſgyn i Uffern.

IV. *Am*

IV. *Am Adgyfodiad Crist.*

CRist a wîr-adgyfododd o feirw, ac a gymmerodd drachefn ei gorph, gyd â chnawd ac esgyrn, a phob peth a berthyn i berffeithrwydd naturiaeth dŷn, â'r hyn y dyrchafodd efe i'r nefoedd, ac yno y mae yn eistedd hŷd oni ddychwelo i farnu pob dŷn y dydd diweddaf.

V. *Am yr Ysbryd Glân.*

YR Ysbryd Glân, yn deilliaw oddi wrth y Tâd a'r Mâb, sydd o un sylwedd, mawrhydi, a gogoniant, â'r Tâd a'r Mâb, gwîr a thragywyddol Dduw.

VI. *Bod yr Ysgrythur Lân yn ddigonol i Iechydwriaeth.*

Y Mae 'r Ysgrythur Lân yn cynnwys pob peth angenrheidiol i Iechydwriaeth; fel nad ydys yn gofyn bod i neb gredu beth bynnag ni ddarllenir ynddi, neu ni ellir ei brofi wrthi, megis Erthygl o'r Ffydd, na'i fod yn anghenrhaid i Iechydwriaeth.

Dan enw 'r Ysgrythur Lân yr ydym yn deall y cyfryw Lyfrau Canonaidd o'r Hên Destament a'r Newŷdd, a'r ni bu eriôed ddim ammeu yn yr Eglwys am eu hawdurdod.

Enwau a rhifedi y Llyfrau Canonaidd.

Genesis.	I. *Cronicl.*
Exodus.	II. *Cronicl.*
Leuiticus.	I. *Esdras.*
Numeri.	II. *Esdras.*
Deuteronomium.	*Hester.*
Josua.	*Job.*
Barnwŷr.	*Salmau.*
Ruth.	*Diarhebion.*
I. *Samuel.*	*Ecclesiastes neu y Pregethwr.*
II. *Samuel.*	*Cantica neu Ganiadau Salomon*
I. *Brenhinoedd.*	*Y* IV. *Prophwyd mwyaf.*
II. *Brenhinoedd.*	*Y* XII. *Prophwyd lleiaf.*

A'r Llyfrau eraill (fel y dywaid *Hierom*) y mae 'r Eglwys yn eu darllain er siampl buchedd, ac addysg moesau; etto nid yw yn eu gosod i ficrhâu un athrawiaeth.

Y cyfryw yw y rhai'n sy'n canlyn,

III. *Esdras.*	*Baruch brophwyd.*
IV. *Esdras.*	*Cân y tri Llangc.*
Tobit.	*Ystori Susanna.*
Judith.	*Ystori Bêl a'r Ddraig.*
Y ddarn arall o Lyfr Hester.	*Gweddi Manasses.*
Llyfr y Doethineb.	I. *Macabeaid.*
Llyfr Iesu fâb Sirach.	II. *Macabeaid.*

Holl Lyfrau y Testament Newŷdd, fel yr ydys yn eu derbyn yn gyffredin, yr ydym ni yn eu derbyn, ac yn eu cyfrif yn Ganonaidd.

VII. *Am yr Hên Destament.*

NId yw'r Hên Destament wrthwyneb i'r Newŷdd: o blegid yn yr Hên Destament a'r Newŷdd y cynnygir bywyd tragywyddol i ddŷn trwy Grist, yr hwn yw 'r unig Gyfryngwr rhwng Duw a dŷn, ac efe yn Dduw ac yn Ddŷn. Am hynny nid iawn gwrando ffuant y rhai sy'n tybied nad oedd yr Hên Dadau yn disgwyl ond am addewidion trangcedig. Er nad yw 'r Gyfraith a roddwyd gan Dduw trwy *Moses*, hŷd y perthyn i Seremoniau a Chynneddfau, yn rhwymo Cristianogion, ac nad yw anghenrhaid derbyn ei gorchymynion hi am lywodraeth bydol mewn un wlâd: etto er hynny nid oes un Cristion yn rhŷdd oddi wrth ufudd-dod i'r Gorchymynion a elwir Moesol.

VIII. *Am y tair Credo.*

Y Tair Credo, sef Credo *Nicea*, Credo *Athanasius*, a'r hon a elwir yn gyffredin Credo 'r *Apostolion*, a ddylid yn gwbl eu derbyn a'u credu: o blegid se ellir eu profi trwy ddiddadl warantrwydd yr Ysgrythur Lân.

IX. *Am Bechod Gwreiddiol neu Anedigol.*

NId yw Pechod gwreiddiol yn sefyll o ddilyn *Adda* (megis yr ofer siarad y *Morganiaid*) eithr bai a llygredigaeth natur pob dŷn ydyw a'r a genhedlir yn naturiol o hil *Adda*, trwy 'r hyn y mae dŷn wedi myned yn dra-phell oddi wrth gyfiawnder gwreiddiol, ac o'i naturiaeth ei hun, â'i ddychwant ar ddrygioni, megis y mae'r cnawd bob amser yn chwennychu yn erbyn yr Ysbryd: ac am hynny ym mhob dŷn a enir i'r bŷd hwn, yr haeddai ddigofaint Duw, a damnedigaeth. Ac y mae 't llwgr natur yma yn aros; ïe yn y rhai a adgenhedlwyd, o herwŷdd pa ham nid yw chwant y cnawd, a elwir yn Roeg Φρόνημα σαρκὸς, yr hyn a ddeongl rhai *doethineb*, rhai *gwŷn*, rhai *tuedd*, rhai *chwant y cnawd*, yn ddarostyngedig i gyfraith Dduw. Ac er nad oes damnedigaeth i'r rhai a gredant ac a fedyddir, etto mae 'r Apostol yn cyfaddef, fod mewn gwŷn a thrachwant, o hono ei hun, naturiaeth pechod.

X. *Am Ewyllys rhŷdd.*

CYfryw yw cyflwr dŷn wedi cŵymp *Adda*, na's gall o'i nerth naturiol a'i weithredoedd da ei hun ymchwelyd nac ymddarparu i ffydd, ac i alw ar Dduw: O herwŷdd pa ham ni allwn ni wneuthur gweithredoedd dâ, hôff, a chymmeradwy gan Dduw heb râs Duw, trwy Grist, yn ein rhagflaenu, fel y bo ynom ewyllys da, ac yn cŷdweithio â ni, wedi y dêl ynom yr ewyllys da hwnnw.

XI. *Am Gyfiawnhâd Dŷn.*

FE 'n cyfrifir yn gyfiawn ger bron Duw, yn unig er mwyn haeddedigaethau ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist, trwy Ffydd, ac nid o herwŷdd ein gweithredoedd neu ein haeddiant ein hunain. Am hynny Athrawiaeth gwbl iachus, dra-llawn o ddiddanwch yw, mai trwy Ffydd yn unig y'n cyfiawnheir ni, fel yr hysbysir yn helaethach yn yr *Homili* am Gyfiawnhâd.

XII. *Am Weithredoedd da.*

ER na ddichon Gweithredoedd da, y rhai yw ffrwyth Ffydd, ac sy 'n canlyn Cyfiawnhâd, ddileu ein pechodau, a goddef eithaf cyfiawn farn Duw; etto maent yn foddlon ag yn gymmeradwy gan Dduw yng Nghrist, ac yn tarddu yn angenrheidiol allan o wîr a bywiol Ffydd; yn gymmaint ag y gellir adnabod ffydd fywiol wrthynt hwy, mŏr amlwg ag y gellir adnabod y pren wrth y ffrwyth.

XIII. *Am Weithredoedd cyn Cyfiawnhâd.*

NId yw 'r gweithredoedd a wneler cyn (cael) grâs Crist, ac Ysbrydoliaeth ei Ysbryd ef, yn bodloni Duw, yn gymmaint ag nad ydynt yn tarddu o ffydd yn Iesu Grist; ac nid ŷnt chwaith yn gwneuthur dynion yn addas i dderbyn grâs, neu (fel y dywaid yr Ysgol-ddifinwŷr) yn haeddu grâs, o gymhesurwydd: eithr yn hytrach, am nad ydys yn eu gwneuthur megis yr ewyllysiodd ac y gorchymynodd Duw eu gwneuthur hwynt, nid ydym yn ammeu nad oes natur pechod ynddynt.

XIV. *Am Weithredoedd dros ben a orchymynnwyd.*

GWeithredoedd o ewyllys dŷn ei hun, heb law a thros ben gorchymynion Duw, y rhai a alwant yn Weithredoedd *Supererogaſion*, ni ellir eu dyſgu heb ryfyg ac annuwioldeb. O blegid trwyddynt y mae dynion yn dangos eu bod yn talu i Dduw, nid yn unig cymmaint ag y maent yn rhwymedig i'w gwneuthur, ond eu bod yn gwneuthur mwy er ei fwyn ef nag ſydd angenrheidiol wrth rwymedig ddyled: lle y mae Criſt yn dywedyd yn oleu, Gwedi i chwi wneuthur y cwbl oll ag a orchymynnwyd i chwi, dywedwch, Gweiſion anfuddiol ydym.

XV. *Am Criſt yn unig yn ddibechod.*

CRiſt yngwirionedd ein naturiaeth ni, a wnaethpwyd yn gyffelyb i ni ym mhob peth oddieithr pechod yn unig, yr hwn yr oedd efe yn gwbl iâch oddi wrtho, yn gyſtal yn ei gnawd ac yn ei Ysbryd. Efe a ddaeth i fod yn oen difrycheulyd, yr hwn trwy ei aberthu ei hun un-waith, a ddileai bechodau 'r byd; a phechod (fel y dywaid S. *Ioan*) nid oedd ynddo ef. Eithr nyni bawb eraill (er ein bedyddio a'n hail-eni yng Nghriſt) ydym er hynny yn llithro mewn llawer o bethau; ac o's dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom.

XVI. *Am Bechod gwedi Bedydd.*

NId yw pob pechod matwol a wneler o wirfodd gwedi Bedydd, yn bechod yn erbyn yr Yſbryd Glân, ac yn anfaddeuol. O herwŷdd pa ham nid iawn naccâu caniattâd edifeirwch i'r fawl a fyrthiant mewn pechod yn ol Bedydd. Gwedi darfod i ni dderbyn yr Yſbryd Glân, ni a allwn ymadael â'r grâs a roddwyd i ni, a fyrthio mewn pechod, a thrwy Râs Duw gyfodi drachefn a gwellhâu ein bucheddau. Ac am hynny y mae 'r rheiny i'w condemnio a ddywedant na allant bechu mwy tra bydddont byw yma, neu a wadant nad oes lle i'r rhai a wîr edifarhao i gael maddeuant.

XVII. *Am Raglunaeth ac Etholedigaeth.*

RHagluniaeth i fywyd yw tragywyddol arfaeth Duw, trwy 'r hon (cyn gofod feiliau 'r byd) y darfu iddo trwy ei gynghor dirgel i nyni, ddianwadal derfynu gwared oddi wrth feilaith a damnedigaeth, y rhai a ddarfu iddo ddethol yng Nghriſt o ddynol ryw, a'u dwyn trwy Griſt i Iechydwriaeth dragywyddol megis lleſtri a wnaethpwyd i anrhydedd. O herwŷdd pa ham, y rhai a ddarfu i Dduw eu cynnyſgaeddu â chyfryw ragorol ddawn, a alwyd yn ôl arfaeth Duw, trwy ei Yſbryd ef yn gweithio mewn pryd amſerol: Hwynt hwy fydd trwy râs yn ufuddhâu i'r galwedigaeth: hwynt-hwy a gyfiawnhêir yn rhâd: hwynt-hwy a wnêir yn feibion i Dduw trwy fabwys: hwynthwy a wnêir yn gyffelyb i ddelw ei unig Fâb ef Ieſu Criſt: hwynt hwy a fodiant yn greſyddol mewn gweithredoedd da, ac o'r diwedd trwy drugaredd Duw a feddiannant ddedwydd-fyd tragywyddol.

Megis y mae duwiol yſtyried Rhagluniaeth a'n Hetholedigaeth ni yng Nghriſt yn llawn o ddiddanwch melus, hyfryd, ac annhraethol i'r Duwiolion, a'r rhai fydd yn clywed ynddynt, eu hunain weithrediad Yſbryd Criſt yn marwhâu gweithredoedd y cnawd a'u haelodau daearol, ac yn tynnu i fyny eu meddwl at bethau uchel a nefol, yn gyſtal o blegid ei fod yn cadarnhâu yn fawr ac yn cryfhâu eu ffydd am Iechydwriaeth dragywyddol i'w mwynhâu trwy Griſt; ac o blegid ei fod yn gwreſog ennynnu eu cariad tu ag at Dduw; felly i'r rhai manylaidd a chnawdol fy heb Ysbryd Criſt ganddynt, y mae bod barn Rhagluniaeth Duw yn waſtadol ger bron eu llygaid, yn dramgwydd tra pheryglus, trwy 'r hwn mae 'r diafol yn eu gwthio naill ai i anobaith, ai ynte i ddifrawwch afianaf fuchedd, nid dim llai peryglus nag anobaith.

Heb law hynny, mae 'n rhaid i ni dderbyn addewidion Duw yn y cyfryw fodd ag y maent wedi eu gofod allan i ni yn gyffredin yn yr Yſgrythur Lân: Ac yn ein gweithredoedd ganlyn Ewyllys Duw, yr hon a eglurwyd i ni yn amlwg yng Ngair Duw.

XVIII. *Am gaffael Iechydwriaeth dragywyddol trwy enw Criſt yn unig.*

YMae 'n rhaid hefyd cyfrif yn felldigedig y fawl a ryfygant ddywedyd y bydd pob dŷn yn gadwedig trwy 'r gyfraith neu 'r Sect y mae yn ei phroffeſu, o's bydd efe diwyd i lunio ei fuchedd yn ôl y gyfraith honno, a goleuni natur. Canys y mae 'r Yſgrythur Lân yn gofod allan i ni yn unig Enw Ieſu Griſt, trwy 'r hwn y bydd raid i ddynion fod yn gadwedig.

XIX. *Am yr Eglwys.*

EGlwys weledig Criſt yw cynnulleidfa y ffyddloniaid, yn yr hon y pregethir pur Air Duw, ac y miniſtrir y Sacramentau yn ddyladwy, yn ôl ordinhâd Criſt, ym mhob peth ag ſydd angenrheidiol eu bod yn yr unrhyw.

Megis y cyfeiliornodd Eglwys *Jeruſalem*, *Alecſandria* ac *Antiocbia*; felly hefyd y cyfeiliornodd Eglwys *Rufain*, nid yn unig yn eu buchedd a dull eu Seremoniau, eithr hefyd mewn matterion ffydd.

XX. *Am Awdurdod yr Eglwys.*

YMae i'r Eglwys allu i ofod Cynheddfau a Seremoniau, ac awdurdod mewn amrafaelion ynghŷlch y Ffydd; ac etto nid cyfreithlawn i'r Eglwys ordeinio dim ag ſydd wrthwyneb i'ſgrifenedig Air Duw, ac ni's gall felly eſponio un lle o'r Yſgrythur Lân, fel y bo yn wrthwyneb i le arall. Am hynny, er bod yr Eglwys yn Dŷſt ac yn Geidwad ar yr Yſgrythur Lân, er hynny, megis na's dylai hi ordeinio dim yn erbyn yr unrhyw, felly heb law 'r unrhyw ni ddylai hi gymmell dim i'w gredu er anghenraid i Iechydwriaeth.

XXI. *Am Awdurdod Cynghorau cyffredin.*

CYnghorau cyffredin ni's gellir eu caſglu ynghŷd heb orchymmyn ac ewyllys Tywyſogion. Ac wedi eu caſglu ynghŷd (yn gymmaint ag nad ydynt ond cynnulleidfa o ddynion, o'r rhai ni lywodraethir pawb gan Yſbryd a Gair Duw) hwy a allant gyfeiliorni, ac weithiau fe ddarfu iddynt gyfeiliorni, a hynny mewn pethau a berthynant i Dduw.

O herwŷdd pa ham, y pethau a ordeinir ganddynt megis yn anghenraid i Iechydwriaeth, nid oes iddynt na nerth nac awdurdod, oni ellir dangos ddarfod eu tynnu allan o'r Yſgrythur Lân.

XXII. *Am y Purdan.*

NId yw athrawiaeth Eglwys *Rufain* ynghŷlch Purdan, Pardynau, anrhydeddu ac addoli Delwau a Chreiriau, a hefyd gâlw a gweddio ar y Saint, ond peth yſmala, o wâg ddychymmyg, ac heb ei ſeilio ar un Warant o'r Yſgrythur Lân, ond yn hytrach yngwrthwyneb i Air Duw.

XXIII. *Am weini yn y Gynnulleidfa.*

NId cyfreithlawn i neb gymmeryd arno Swydd Pregethu ar gyhoedd, neu finiſtrio y Sacramentau yn y Gynnulleidfa, hŷd oni alwer ef yn gy-

yſreithlawn, a'i ddanfon i waſnaethu 'r unrhyw. A'r rheiny a ddylem ni ſarnu eu bod wedi eu galw yn gyſreithlon a'u danfon, a ddetholwyd ac a alwyd i'r gwaith hwn gan ddynion ſy ag awdurdod gyhoedd wedi ei rhoddi iddynt yn y Gynnulleidfa, i alw a danfon Gweinidogion i Winllan yr Arglwydd.

XXIV. *Am Leſaru yn y Gynnulleidfa yn y cyfrywu Dafodiaith ag a ddeallo 'r bobl.*

PEth llwyr wrthwyneb i Air Duw, ac i arfer y Brif Eglwys gynt, yw gweddio yn gyhoedd yn yr Eglwys, neu miniſtrio 'r Sacramentau mewn Tafodiaith ni bo'r bobl yn ei deall.

XXV. *Am y Sacramentau.*

NId yw 'r Sacramentau a ordeiniwyd gan Criſt, yn unig yn arwyddion neu yn argoelion o Broffes Criſtianogion: ond yn hytrach y maent yn rhyw dyſtion diogel ac arwyddion effeithiol o râs Duw, a'i ewyllys da tu ag attom ni, trwy y rhai y mae efe yn gweithio yn anweledig ynom ni: ac nid yn unig yn bywhâu, ond hefyd yn nerthu ac yn cadarnhâu ein ffydd ni ynddo ef.

Y mae dau Sacrament a ordeiniwyd gan Criſt ein Harglwydd yn yr Efengyl, ſef, Bedydd a Swpper yr Arglwydd.

Y pump hynny a elwir yn gyffredinol yn Sacramentau, ſef, Conffirmaſiwn, Penyd, Urddau, Priodas, ac Enneiniad diweddaf, nid iawn eu cyfrif yn Sacramentau 'r Efengyl; eithr yn gyfryw ag a dyfafant, rhai o lygredig ddilyn yr Apoſtolion, rhai ydynt ſtâd o ſuchedd a gymmeradwyir yn yr Yſgrythur Lân: ond etto nid oes ynddynt gyffelyb natur Sacramentau ag mewn Bedydd a Swpper yr Arglwydd; am nad oes ynddynt nac arwydd gweledig, na Seremoni a ordeiniwyd gan Dduw.

Ni ordeiniwyd mo'r Sacramentau gan Criſt i lygad-rythu arnynt, neu i'w dwyn oddi amgylch; ond er mwyn bod i ni eu harfer yn ddyledus. Ac yn y cyfryw rai yn unig ag ſydd yn eu derbyn yn deilwng, y mae ganddynt effaith neu weithrediad iachus: ond y ſawl a'u derbyniant yn annheilwng, a ynnillant iddynt eu hunain farnedigaeth, ſel y dywaid S. *Paul.*

XXVI. *Nâd yw Annheilyngdod y Gweinidogion yn rhwyſtro gracſbrediad y Sacramentau.*

ER bod yn yr Eglwys weledig bob amſer rai drwg ynghymmyſg a'r rhai da, a bod weithiau i'r rhai drwg yr Awdurdod bennaf yngweinidogaeth y Gair a'r Sacramentau: etto yn gymmaint ag nad ydynt yn gweneuthur hynny yn eu henw eu hunain ond yn enw Criſt, ac mai trwy ei Gommiſſiwn a'i Awdurdod ef y maent yn gweini; nyni a allwn arfer eu gweinidogaeth hwy trwy wrando 'r Gair a derbyn y Sacramentau. Ac nid yw eu hanwiredd hwy yn tynnu ymaith ffrwyth ordinhâd Criſt, nac yn lleihâu Grâs doniau Duw oddi wrth y cyfryw rai ag ſydd trwy ffydd yn iawn dderbyn y Sacramentau a miniſtrir iddynt, y rhai ſy effeithiol o blegid ordinhâd Criſt a'i addewid, er eu miniſtrio gan ddynion drwg.

Er hynny ſ gyd, ſe berthyn i ddiſgyblaeth yr Eglwys, bod ymofyn am Weinidogion drwg, a bod i'r rhai a fo 'n gwybod eu beiau, achwyn arnynt; ac o'r diwedd gwedi eu cael yn euog trwy farn gyfiawn, bod eu diſwyddo.

XXVII. *Am Fedydd.*

NId yw Bedydd yn unig yn arwydd o Broffes, neu yn nôd gwahaniaeth, i adnabod Criſtianogion oddi wrth Anghriſtianogion; eithr y mae hefyd yn arwydd o'r Adgenhedliad neu 'r Ailenedigaeth; trwy 'r hyn, megis trwy offeryn, yr impir yn yr Eglwys y rhai a dderbyniant Fedydd yn iawn; yr arwyddir yn weledig, ac y ſelir trwy 'r Ysbryd Glân, yr addewidion am faddeuant pechodau, a'n mabwyſiad i fod yn feibion i Dduw; y cadarnheir ffydd; ac yr anghwanegir grâs trwy rinwedd gweddi at Dduw. Bedydd Plant ieuainge a ddylid er dim ei gadw yn yr Eglwys, megis peth yn cwbl gyttuno ag ordinhâd Criſt.

XXVIII. *Am Swpper yr Arglwydd.*

NId yw Swpper yr Arglwydd yn unig yn Arwydd o'r Cariad a ddylai fod gan Griſtianogion i'w gilydd; ond yn hytrach Sacrament yw o'n prynedigaeth trwy farwolaeth Criſt: Yn gymmaint ag i'r rhai a'i derbyniant yn iawn, yn deilwng, ac mewn ffydd, y Bara yr ydym ni yn ei dorri ſydd gyfrannogaeth Corph Criſt; a'r un môdd Cwppan y fendith ſydd gyfrannogaeth Gwaed Criſt.

Trawſ-ſylweddiad (neu newidiad ſylwedd y Bara a'r Gwin) yn Swpper yr Arglwydd, ni ellir ei broſi wrth yr Yſgrythur Lân; ond y mae yngwrthwyneb i eglur eiriau 'r Yſgrythur Lân, yn dadymchwelyd naturiaeth Sacrament, ac a roddes achlyſur i lawer o ofer-goelion.

Corph Criſt a roddir, a dderbynir, ac a ſwyttеir yn y Swpper, yn unig mewn modd nefol ac yſbrydol. A'r cyſrwng trwy 'r hwn y derbynir ac y bwytteir Corph Criſt yn y Swpper, yw Ffydd.

Sacrament Swpper yr Arglwydd wrth ordinhâd Criſt ni roid i'w gadw, ni ddygid oddi amgylch, ni ddyrchefid, ac nid addolid.

XXIX. *Nad yw 'r Annuwiolion yn bwytta Corph Criſt wrth arfer Swpper yr Arglwydd.*

YR Annuwiolion a chyfryw rai nid oes ganddynt ffydd fywiol, er eu bod yn gnawdol ac yn weledig â'u dannedd yn cnoi (ſel y dywaid S. *Awſtin*) Sacrament Corph a Gwaed Criſt, er hynny nid ydynt mewn modd yn y bŷd yn gyfrannogion o Griſt, ond yn hytrach i'w barnedigaeth eu hunain yn bwytta ac yn yſed arwydd neu Sacrament peth mòr fawr.

XXX. *Am y ddau Ryw.*

NI ddylid naccâu Cwppan yr Arglwydd i'r Llygion: Canys dwy rân Sacrament yr Arglwydd, wrth ordinhâd a gorchymmyn Criſt, a ddylid eu miniſtrio i bob Criſtion yn gyffelyb.

XXXI. *Am unig Aberth Criſt a gyflawnwyd ar y Groes.*

ABerthiad Criſt, a wnaed unwaith, ſydd berffaith Brynedigaeth, Boddhâd, a Iawn dros holl bechodau 'r bŷd i gyd, yn gyſtal gwreiddiol a gweithredol; ac nid oes iawn arall am bechod ond hwnnw yn unig. O herwŷdd pa ham, nid oedd aberthau 'r Offerennau, y rhai yn gyffredin y dywedent ſod yr offeiriad yn aberthu Criſt ynddynt dros y byw a'r meirw, i gael maddeuant am y gosb neu 'r euogrwydd, ond chwedlau cablaidd, a ſiommedigaethau peryglus.

XXXII. *Am Briodas Gweinidogion.*

NI orchymynnir i Eſgobion, Offeiriaid, a Diaconiaid trwy Gyfraith Dduw, nac i addunedu ſtâd buchedd ſengl, nac i ymgadw rhag Priodas. Am hynny mae 'n gyfreithlawn iddynt hwythau, mewis i bob Criſtianogion eraill, wreicca yn ol eu deall eu hunain, ſel y bònt yn barnu ſod y peth yn gwaſanaethu oreu i ddiwioldeb.

XXXIII. *Am Ddyliou a ſgymmunwyd, pa wedd y dylid eu gochel.*

Y Dŷn trwy eglur gyhoeddiad yr Eglwys a iawn dorrer ymaith oddi wrth undeb yr Eglwys, ac a ſgymmuner, a ddylid ei gymmeryd gan holl

liaws y ffyddloniaid, megis Dŷn Cenhedlig a Phublican, hŷd oni chymmoder ef yn gyhoedd trwy benyd, a'i dderbyn i'r Eglwys gan farnwr y bo iddo awdurdod i hynny.

XXXIV. *Am Draddodiadau 'r Eglwys.*

NId yw anghenrhaid bod Traddodiadau a Seremoniau ym mhob lle yn yr un modd, neu yn gwbl gyffelyb; canys hwy a fuant bob amſer o amrafael fodd, ac a ellir eu newidio mewn amrafael Wledydd, amſerau, ac arferion dynion, tra na ordeinier dim yn erbyn Gair Duw. Pwy bynnag o'i farn neillduol ei hun, o'i fodd, ac o lwyr frŷd, yn gyhoeddus, a dorro Draddodiadau a Seremoniau 'r Eglwys, y rhai nid ydynt, wrthwyneb i Air Duw, ac a ordeiniwyd ac a gymmeradwywyd trwy awdurdod gyffredin, a ddylid ei geryddu yn gyhoeddus, [ſel yr ofno eraill wneuthur y cyffelyb] megis un yn troſeddu yn erbyn treſn gyffredin yr Eglwys, ac yn briwo awdurdod y Llywodraethwr, ac yn archolli cydwybodau y brodyr gweinion.

Y mae gan Eglwys wahanedig pob cenedl awdurdod i ordeinio, newidio, a diddymmu Seremoniau neu Gynheddfau 'r Eglwys, a ordeiniwyd yn unig trwy Awdurdod dŷn, cyd gwneler pob peth er adeiladaeth.

XXXV. *Am Homiliau.*

Y Mae ail lyfr yr Homiliau, y cyſſylltaſom eu hamryw enwau dan yr Erthygl yma, yn cynnwys Athrawiaeth Dduwiol ac iachus, ac angenrheidiol i'r amſerau hyn, megis y mae llyfr cyntaf yr Homiliau, a oſodwyd allan yn amſer *Edward* y Chweched; am hynny yr ydym yn barnu fod eu darllain hwy yn yr Eglwyſi gan y Gweinidogion, yn ddieſgeulus, ac yn llawn-llythyr, fel y gallo 'r bobl eu deall.

¶ Am enwau 'r Homiliau.

1 *AM iawn-arfer yr Eglwys.*
2 *Yn erbyn Perygl Delw-addoliad.*
3 *Am adgyweirio a chadw Eglwyſi 'n lân.*
4 *Am Weithredoedd da: yn gyntaf am Ymprydio.*
5 *Yn erbyn Glythineb a Meddwdod.*
6 *Yn erbyn Dillad rhy wŷchion.*
7 *Am Weddi.*
8 *Am le ac amſer Gweddi.*
9 *Y dylid miniſtrio Gweddi Gyffredin a Sacramentau, mewn iaith gydnabyddus.*
10 *Am Barchus gymmeriad Gair Duw.*
11 *Am roi Elusen.*
12 *Am Enedigaeth Criſt.*
13 *Am Ddioddefaint Criſt.*
14 *Am Adgyfodiad Criſt.*
15 *Am dderbyn Sacrament Corph a Gwaed Criſt yn deilwng.*
16 *Am Ddoniau 'r Ysbryd Glân.*
17 *Ar Wythnos y Gweddïau.*
18 *Am Yſtâd Priodas.*
19 *Am Edifeirwch.*
20 *Yn erbyn Seguryd.*
21 *Yn erbyn Gwrthryſel.*

XXXVI. *Am Gyſſegriad Eſgobion a Gweinidogion.*

MAe llyfr Cyſſegriad Arch-eſgobion ac Eſgobion ac Urddiad Offeiriaid a Diaconiaid, a oſodwyd allan yn ddiweddar, yn amſer *Edward* y Chweched, ac a gadarnhawyd yr un amſer trwy awdurdod *Parliament*, yn cynnwys ynddo bob peth angenrheidiol i gyfryw Gyſſegriad ac Urddiad: ac nid oes ynddo ddim ag ſydd ô hono ei hun yn ofer-goelus neu yn annuwiol. Ac am hynny, pwy bynnag a gyſſegrwyd neu a urddwyd yn ôl cynheddfau 'r Llyfr hwnnw, er yr ail flwyddyn o'r unrhyw Frenhin *Edward* hŷd yr amſer yma, neu, yn ôl hyn a gyſſegrer neu a urdder yn ôl yr unrhyw gynheddfau, yr ydym ni yn ordeinio bod y cyfryw rai oll wedi eu cyſſegru a'u hurddo yn iawn, yn dreſnus, ac yn gyfreithlawn.

XXXVII. *Am Lywodraethwŷr dinaſaidd.*

MAwrhydi y Brenhin biau y gallu pennaf o fewn y Deyrnas hon o *Loegr*, ac eraill o'i Arglwyddiaethau; i'r hwn y perthyn pen Rheolaeth pob Yſtâd y Deyrnas hon, pa un bynnag fônt ai Eglwyſig ai Dinaſaidd ym mhob rhyw achoſion: ac nid yw, ac ni's dylai fod yn ddaroſtyngedig i un Llywodraeth eſtronol.

Lle 'r ydym yn rhoi i Fawrhydi y Brenhin y llywodraeth bennaf, wrth ba enwau yr ydym ni yn deall fod meddyliau rhyw bobl enllibus yn ymrwyſtro: nid ydym ni yn caniattâu i'n Tywyſogion na Gweinidogaeth Gair Duw, na'r Sacramentau; yr hyn beth hefyd y mae 'r *Injunctions* a oſodwyd allan yn ddiweddar gan ein Brenhines *Elizabeth*, yn ei dyſtiolaethu 'n gwbl eglur: ond y rhagorfraint hwnnw 'n unig, yr ydym yn gweled ei roi bob amſer i bob Tywyſogion Duwiol yn yr Yſgrythur Lân gan Dduw ei hun; hynny yw, y dylent lywodraethu ar bob Yſtâd a gradd a orchymynwyd dan eu gofal gan Dduw, pa un bynnag fônt ai Eglwyſig ai Tymhorol, ac attal â'r cleddyf dinaſaidd y rhai cyndyn a'r drwg-weithredwŷr.

Nid oes i Eſgob *Rhufain* Lywodraeth o fewn y Deyrnas hon o *Loegr*.

Fe ddichon Cyfreithiau y Deyrnas gosbi Criſtianogion ag angau am feiau 'ſgeler, trymion.

Y mae 'n gyfreithlawn i Griſtianogion, wrth orchymmyn y Llywodraeth, wiſgo arfau a gwaſanaethu yn y rhyfel.

XXXVIII. *Am Olud Criſtianogion, nad yw gyffredin.*

NId yw Golud Criſtianogion gyffredin, o herwŷdd eu cyfiawnder, a'u tŷtl, a'u meddiant arnynt, megis y mae rhyw Anabaptiſtiaid yn gwâg ymffroſtio. Er hynny fe ddylai pob dŷn o'r cyfryw bethau a fo yn ei helw, roi eluſen yn hael i'r tlawd yn ôl ei allu.

XXXIX. *Am Lw Criſtion.*

MEgis yr ydym yn cyfaddef bod llwon ofer ac ehud wedi eu gwarhardd i Griſtianogion, gan ein Harglwydd Ieſu Griſt a'i Apoſtol *Iago*; felly yr ydym yn barnu nad yw Crefydd Griſtianogol yn gwahardd na's gall dŷn dyngu pan fo 'r Llywodraethwr yn erchi, mewn matter o ffŷdd a chariad perffaith, trwy fod gwneuthur hynny yn ôl addyſg y Prophwyd, mewn Cyfiawnder, a Barn, a Gwirionedd.

Y Sicrhâd.

YLlyfr hwn o'r Erthyglau rhag-ddywededig, a brofwyd drachefn, ac a gymmeradwywyd i'w gynnal a'i arfer o fewn y Deyrnas, trwy gyttundeb a chŷdſyniad ein goruchaf Arglwyddes Elizabeth, *trwy Râs Duw Brenhines* Lloegr, Ffrainc, *a'r* Iwerddon, *Amddiffynnydd y Ffŷdd, &c. A chwedi hynny trwy gŷdſyniad ein goruchaf Arglwydd Frenhin* Iago I. *trwy Râs Duw, Brenhin* Brydain Fawr, Ffrainc, *a'r* Iwerddon, *Amddiffynnydd y Ffŷdd, &c. Y rhyw Erthyglau a ddarllenwyd yn bwyllig, ac a gadarnhawyd drachefn dan ddwylaw 'r Arch-eſgob a'r Eſgobion o'r tŷ uchaf, a than ddwylaw 'r holl Eglwyſwŷr o'r tŷ iſaf, yn eu Cymmanſa yn y Flwyddyn o oedran yr Arglwydd* 1571. *Ac yn gyffelyb yn y Gymmanſa a gynhaliwyd yn y Flwyddyn o oedran yr Arglwydd* 1604.

TABL y Namyn-un-deugain ERTHYGLAU.

1 AM Ffydd yn y Drindod Sanctaidd.
2 Am y Gair, neu Fab Duw, a wnaethpwyd yn gwir Ddŷn.
3 Am ddiſgyniad Criſt i Uffern.
4 Am Adgyfodiad Criſt.
5 Am yr Ysbryd Glân.
6 Bod yr Ysgrythur Lân yn ddigonol i Iechydwriaeth.
7 Am yr Hên Deſtament.
8 Am y tair Credo.
9 Am Bechod Gwreiddiol neu Anedigol.
10 Am Ewyllys rhŷdd.
11 Am Gyfiawnhâd Dŷn.
12 Am Weithredoedd da.
13 Am Weithredoedd cyn Cyfiawnhâd.
14 Am Weithredoedd dros ben a orchymynwyd.
15 Am Griſt yn unig yn ddibechod.
16 Am Bechod wedi Bedydd.
17 Am Ragluniaeth ac Etholedigaeth.
18 Am gaffael Iechydwriaeth drwy Griſt yn unig
19 Am yr Eglwys.
20 Am Awdurdod yr Eglwys.
21 Am Awdurdod Cynghorau Cyffredin.
22 Am y Purdan.
23 Am Weini yn y Gynnulleidfa.
24 Am lefaru yn y Gynnulleidfa yn y cyfrywu Dafodiaith ag a ddeallo'r bobl.
25 Am y Sacramentau.
26 Nad yw Annheilyngdod y Gweinidogion yn rhwyſtro gweithrediad y Sacramentau.
27 Am Fedydd.
28 Am Swpper yr Arglwydd.
29 Nad yw 'r Annuwiolion yn buytta Corph Criſt, wrth arfer Swpper yr Arglwydd.
30 Am y ddau Ryw.
31 Am unig Aberth Criſt a gyflawnwyd ar y Groes.
32 Am briodas Gweinidogion.
33 Am ddynion a 'ſgymmunwyd, pa wedd y dylid eu gochel.
34 Am Draddodiadau 'r Eglwys.
35 Am Homiliau.
36 Am Gyfiygriad Eſgobion a Gweinidogion.
37 Am Lywodraeth ŷr Dinaſoedd.
38 Am Olud Criſtianogion, nad yw gyffredin.
39 Am Lw Criſtion.

Gosodedigaethau a Chanonau

EGLWYSIG,

A driniwyd gan Esgob *LLUNDAIN*, Rhaglaw 'r Gymmanfa dros Dalaith *CAER-GAINT*, a'r Esgobion eraill ac Eglwyswyr yr un Dalaith: Ac a gyttunwyd arnynt trwy Gennad Mawrhydi 'r Brenhin yn eu Senedd ddechreuedig yn *Llundain* yn y Flwyddyn o Oedran yr Arglwydd 1603. Ac yn y Flwyddyn o Deyrnasiad ein Grasusaf Arglwydd *IAGO*, gan Rad Duw Brenhin *Lloegr*, *Ffraingc*, a'r *Iwerddon* y Gyntaf, a *Scotland* y Ddwyfed ar bymtheg ar hugain. Ac a gyhoeddwyd yr awr hon er iawn Ufudd-dod iddynt trwy Awdurdod ei Fawrhydi dan Sêl fawr *LLOEGR*.

IAGO *gan Râd Duw Prenbin* Lloegr, Scotland Ffraingc, *a'r* Iwerddon, *Amddiffynnydd y Ffydd, &c. I bawb ag y delo byn, Annerch. Lle darfu i'n Hesgobion, Deoniaid ein Heglwysi Cadeiriol, Arch-diaconiaid, Siapterau, a Cholegau, ac Eglwyswyr eraill pob Esgobaeth o fewn Talaith* Caer-gaint *wedi eu gwŷsio a'i galw trwy rŷm ein Gwrit a gyfeiriwyd at yr Anrhydeddusaf Dâd yn Nuw,* Ioan, *diweddar Arch-esgob* Caer-gaint, *at a roddwyd yr unfedd Dŷdd ar ddeg ar hugain o* Ionawr, *yn y Flwyddyn gyntaf o'n Teyrnasiad yn* Lloegr, Fraingc, *a'r* Iwerddon, *ac yn* Scotland *y ddwyfed ar bymtheg ar hugain, i ymddangos ger ei fron ef yn Ein Heglwys Cadeiriol St.* Paul *yn* Llundain, *yr Ugeinfed dŷdd o* Fawrth *yno nesaf yn dyfod, neu ryw le arall, fel y tybygai efe y byddai gymbwysaf, i drin, cyd-fynied, a dibennu rhyw Fatterion celyd ac angenrheidiol a grybwyllwyd yn y Writ ddywededig, Ar bynny ymgynnull ar yr Amser pwyntiedig, ac o fewn y ddywededig Eglwys Cadeiriol St.* Paul, *ac ymddangos mewn Cymmanfa er mwyn bynny, yn ôl ein dywededig Writ, ger bron y Gwîr Barchedig Dâd yn Nuw,* Rhisiard *Esgob* Llundain, *(ar ail Writ o'r eiddom Ni, a roddwyd y Nawfed dŷdd o* Fawrth *rhag-ddywededig) wedi ei iawn awdurdodi, ei appwyntio, a'i osod, o achos Marwolaeth y dywededig Arch-esgob* Caer-gaint, *yn Rhaglaw y Gymmanfa ddywededig, i wneuthur y cyfryw bethau a berthynent trwy Rŷm ein dywededig Writ gyntaf iddo ef yr Arch-esgob dywededig eu gwneuthur pettysai fyw: Nyni er mwyn amryw Achosion ac Ystyriaethau angenrheidiol a pbwysfawr yn enwedigol yn ein cynbyrfu i bynny, o'n bysbysol Râs Gŵybyddiaeth ficr, a gwîr Gynnwrf, trwy Rŷm ein Rhagorfraint Frenbinol, a'n goruwch Awdurdod ym Matterion Eglwysig, a roisom ac a ganiattasom trwy ein hamryw Lythyrau Patent dan ein Sêl fawr* Loegr, *un a roddwyd y Deuddegfed dŷdd o* Ebrill *diweddaf a'r llall y pummed dŷdd ar hugain o* Fehefin *yno nesaf yn canlyn, Ryddid, Cennad, Gallu, ac Awdurdod gyfiawn, rŷdd, a chyfreitblawn i'r dywededig Arglwydd Esgob* Llundain *Rhaglaw y Gymmanfa ddywededig, ac i'r Esgobion eraill, Deoniaid, Arch-diaconiaid, Siapteri, a Cholegau, a'r lleill o'r rhag-grybwylledig Eglwyswŷr y ddywededig Dalaitb, fel y gallent bwy o amser bwygilydd, tra parbao ein Parliament cyntaf a brorogwyd yn awr, ymresymmu, trin, ymddadleu, cyd-ystyried, ymgyngbori, a chyttuno am, ac ar y fath Ganonau, Trefnau, Ordinbadau, a Gosodedigaethau, fel y tybient y byddai 'n angenrheidiol, gweddus, a chymwys, er Anrhydedd a Gwasanaetb yr Holl-alluog Duw, Daioni a Llonyddwch yr Eglwys a'i Llywodraetb, yn well o amser bwygilydd i'w cynnal, cyfiawni, cwplâu, a'u cadw, yn gystal gan Arch-esgobion* Caer-gaint, *yr Esgobion, a'u Gwrtbrycbiaid, a'r lleill o boll Eglwyswŷr di wededig Dalaith* Caer-gaint, *yn eu hamryw Alwedigaethau, Swyddau, Gwasanaetbau, Gweinidogaethau, Graddau, a Gweiryddiaetbau, ac befyd gan oll a pbob Deon yr Archau, a Barnwr arall Llysoedd yr Arch-esgob, Gwarcheidwaid yr Ysbrydolion, Cangbellorion, Deonau, a Siapteri, Arch-diaconiaid, Commissariaid, Swyddwŷr, Cofiaduriaid, ac oll a pbawb o'r Swyddogion Eglwysig eraill a'u bîs Weinidogion pa rai bynnag, o ddywededig Dalaith* Caer-gaint, *yn oll a pbob un o'u Llysoedd gwabanedig, ac yn Nbresn a Dull eu boll a pbob un o'u Herlyniadau: a chan bawb eraill o fewn y Deyrnas bon, cybyd ag y gall yn gyfreitblon, gan fod yn Aelodau 'r Eglwys, berthyn iddynt, megis yn ein dywededig Lythyrau Patent ym mŷsg Gorpbennodau eraill y mae 'n ymddangos yn belaetbach. Yn gymmaint ag i'r dywededig Esgob* Llundain, *Rhaglaw y Gymmanfa ddywededig, ac eraill y dywededig Esgobion, Deoniaid, Arch-diaconiaid, Siapteri, a Cholegau, gyd â'r Eglwyswŷr eraill, wedi cŷd-ymgynsarfod wrth yr Amser a'r lle a grybwyllwyd o'r blaen, a'r prŷd bynny, ac yno, trwy Rŷm ein Hawdurdod ddywededig a ganiattäwyd iddynt, drin, dibennu, a chyttuno ar ryw Ganonau, Trefnau, Ordinbadau a Gosodedigaethau i'r diben a'r amcan a drefnwyd ac a osodwyd gennym Ni iddynt, ac ar bynny a gynnygiasant ac a gytswynasant y rbeini i ni, gan ddymuno 'n ostyngeiddiaf arnom roi ein Cŷd-fyniad Frenbinol i'w Canonau, Trefnau, Ordinbadau a'u Gosodedigaethau dywededig, a yn ol Ffurf rhyw Statut neu Act Parliament a wnaetbpwyd er mwyn bynny yn y Bummed flwyddyn ar hugain o Deyrnasiad Brenbin* Harri *'r Wytbfed, a tbrwy ein dywededig Ragorfraint Frenbinol a'n goruwch Awdurdod ym Matterion Eglwysig, eu ficrbâu trwy ein Llythyrau Patent dan Ein Sêl fawr* Loegr, *a'u cadarnbâu: eu Titl a'u Dull fy air yn air fel y canlyn.*

Gosо-

Goſodedigaethau a Chanonau Eglwyſig.

Am Eglwys *Loegr.*

1. *Uchafaeth y Brenbin ar Eglwys* Loegr *mewn Matterion Eglwyſig, i'w chynnal.*

MEgis y mae ein Dyled i Odidoccaf Fawredd y Brenbin yn gofyn, Yr ŷm ni'n gyntaf yn goſod ac yn ordeinio i Archeſgob *Caer-gaint* (o amſer bwygilydd) holl Eſgobion y Dalaith hon, heſyd Deonau, Archdiaconiaid, Perſoniaid, Ficeriaid, a'r holl Eglwyſwŷr eraill gadw ac ufuddhâu 'n ffyddlon, ac (hŷd y bo ynddynt) beri i eraill ufuddhâu a chadw oll, a phob un o'r Cyfreithiau, a'r Deddfau a wnaethpwyd i edfryd i Goron y Deyrnas hon, yr hen Ben-rheolaeth ar Yſtâd yr Eglwys, a diddymmu pob Eſtron Awdurdod wrth hŷnebus i'r unrhyw: Ac ymmhellach, bod i'r holl Eglwyſwŷr y ſŷ a Gofal Eneidiau arnynt, a'r holl Bregethwŷr eraill, a Darllenwŷr Lecturau Difinyddiaeth, hŷd eithaf eu Synwyr, eu Gwybodaeth, a'u Dyſgeidiaeth, yn eu Pregethau, Lecturau a'u Cynghorion eraill, yn bûr ac yn ddiffuant (heb na ffug na fledrith) bedair gwaith (o'r lleiaf) bob blwyddyn, ddyſgu, gyhoeddi, egluro a datgan ddarfod ar Achoſion cynnawnaf ddileu a diddymmu pob gormeſol ac eſtronol Awdurdod (gan nad oes i'r cyfryw ddim ſail na Sicrwydd wrth Gyfraith Dduw) ac wrth hynny na ddylir dim Ufudd-dod nac Ymddaroſtyngiad o fewn Teyrnaſoedd ac Arglwyddiaethau 'r Brenhin i ddim o'r cyfryw Awdurdod eſtronol, eithr mai Uchafiaeth y Brenhin o fewn ei Deyrnaſoedd, *Lloegr, Scotland*, a'r *Iwerddon*, a'i holl Arglwyddiaethau eraill a'i Wledydd eſ, ſy dan Dduw yn oruchaf Awdurdod i'r hwn y dylai pawb o'r Trigolion a'r Priodorion ſwyaf Ffyddlondeb ac Ufudd-dod, o flaen ac uwch law pob Awdurdodau a Phennaethiaid eraill ar y Ddaear.

2. *Cosbi Gwrthwynebwŷr Uchafaeth y Brenbin.*

PWy bynnag o hyn allan a haero nad oes gan Râs y Brenhin yr un lath Awdurdod mewn Achoſion Eglwyſig ag oedd gan y Brenhinoedd Duwiol ym mhlith yr Iuddewon, a'r Ymerodron Criſtianogol yn y Brît-Eglwys, neu a feio ar un rhan o'i Frenhiniol Uchafiaeth eſ yn yr Achoſion rhag-ddywededig a adferwyd i'r Goron, ac a ſefydlwyd arni trwy Gyfreithiau 'r Deyrnas hon: Yſgymmuner eſ *ipſo facto*, ac na chymmoder eſ, oddi eithr gan yr Arch-eſgob yn unig, wedi iddo edifarhâu a thynnu 'n ôl yn gyhoedd ei Amryfuſeddau annuwiol hynny.

3. *Eglwys* Loegr *yn Eglwys wir ac Apoſtolig.*

PWy bynnag o hyn allan a haero nad yw Eglwys *Loegr* a ſefydlwyd trwy Gyfraith dan Fawredd y Brenhin, yn Eglwys wir ac Apoſtolig, yn dyſgu ac yn cynnal Athrawiaeth yr Apoſtolion; Yſgymmuner eſ *ipſo facto*, ac na chymmoder eſ, ond gan yr Arch-eſgob yn unig, wedi iddo edifarhâu a galw yn ôl yn gyhoedd ei Amryfuſeddau annuwiol hynny.

4. *Barnu Gwrthwynebwŷr cyhoeddi Addoliad Duw, a ſefydlwyd yn Eglwys* Loegr.

PWy bynnag o hyn allan a haero, fod Ffurf Addoliad Duw yn Eglwys *Loegr*, a ſefydlwyd trwy Gyfraith, ac a gynhwyſwyd yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, yn llygredig, ofer-goelus, neu yn anghyfreithlon Addoliad Duw, neu fod ynddo ddim a'r y ſydd yngwrthwyneb i'r Yſgrythyrau: Yſgymmuner eſ *ipſo facto*, ac na chymmoder eſ ond gan Eſgob y lle, neu 'r Arch-eſgob, wedi iddo edifarhâu a dadfarnu ar gyhoedd ei gyfryw Amryfuſeddau annuwiol.

5. *Cosbi Gwrthwynebwŷr Erthyglau Creſydd, a ſefydlwyd yn Eglwys* Loegr.

PWy bynnag a haero o hyn allan, fod un o'r namyn un deugain Erthyglau Creſydd a gyttunwyd arnynt gan Arch-eſgobion ac Eſgobion y ddwy Dalaith, a'r holl Eglwyſwŷr yn y Gymmanfa a gynhaliwyd yn *Llundain*, yn y Flwyddyn o oedran ein Harglwydd Dduw, Un mil pum cant a dwy a thrugain, er mwyn gochel amrafael Opiniynau, a chadarnhâu cyſſondeb ynghŷlch gwir Greſydd, mewn un rhan yn goel-greſyddol neu 'n gyfeiliornus, neu yn gyfryw na ddichon eſe â Chydwybod dda ddodi ei law wrthi; Yſgymmuner eſ *ipſo facto*, ac na chymmoder eſ, ond gan yr Arch-eſgob yn unig, wedi iddo edifarhâu a dadfarnu 'n gyhoedd ei gyfryw Amryfuſeddau anwireddus.

6. *Cosbi Gwrthwynebwŷr y Cynheddfau a'r Seremoniau, a ſefydlwyd yn Eglwys* Loegr.

PWy bynnag o hyn allan a haero, fod Cynheddfau a Seremoniau Eglwys *Loegr*, a ſefydlwyd trwy Gyfraith, yn annuwiol, yn anghriſtianogol neu 'n goel-greſyddol, neu 'n gyfryw a hwy 'n orchymynedig trwy Awdurdod gyfreithlon, na all rhai difrifol a duwiol-fryd â Chydwybod dda eu derbyn, eu harfer, neu ddodi (pan ſo achos) eu dwylaw wrthynt: Yſgymmuner eſ *ipſo facto*, ac na chymmoder eſ hŷd onid edifarhao a dadfarnu 'n gyhoedd ei Amryfuſeddau anwireddus hynny.

7. *Cosbi Gwrthwynebwŷr Llywodraeth Eglwys* Loegr, *trwy Arch-eſgobion, Eſgobion, &c.*

PWy bynnag o hyn allan a haero, fod Llywodraeth Eglwys *Loegr* dan y Brenhin trwy Arch-eſgobion, Eſgobion, Deonau, Arch-diaconiaid, a'i Swyddogion eraill hi, yn anghriſtianogol, neu 'n wrthwyneb i Air Duw: Yſgymmuner eſ *ipſo facto*, ac felly arhoſed, hŷd onid edifarhao, ac ymwadu â'i Amryfuſeddau anwireddus hynny ar gyhoedd.

8. *Cosbi Gwrthwynebwŷr Ffurf cyffredin ac urddo Arch-eſgobion, Eſgobion, &c. yn Eglwys* Loegr.

PWy bynnag o hyn allan a haero neu a ddyſgo, fod Ffurf a Dull gwneuthur a chyflegru Eſgobion, Offeiriaid, a Diaconiaid, yn cynnwys ynddi ddim yngwrthwyneb i Air Duw, neu nad yw 'n gyfreithlon y rhai a wnaed yn Eſgobion, yn Offeiriaid neu 'n Ddiaconiaid wrth y Ffurf honno, ac na ddylent hwy eu hunain, nac eraill eu cyfrif yn wir, yn Eſgobion, yn Offeiriaid, neu 'n Ddiaconiaid, nes y caffont ryw alwad arall i'r Swyddau duwiol hynny: Yſgymmuner eſ *ipſo facto*, ac na chymmoder eſ hŷd onid edifarhao, a galw 'n ôl ar gyhoedd ei gyfryw Amryfuſeddau anwireddus.

9. *Cosbi Anodwŷr Sîm yn Eglwys* Loegr.

PA rai bynnag o hyn allan a ymneillduant oddi wrth Gymmun y Saint, ſel y mae 'n brofadwy wrth Reolau 'r Apoſtolion yn Eglwys *Loegr*, ac a gŷd-ymgyfyllduant yn Frawdoliaeth newŷdd, gan gyfrif y Criſtianogion a gŷd-ymffurfiant ag Athrawiaeth, Rheolaeth, Cynheddfau, a Sermoniau Eglwys *Loegr*, yn halogedig, ac yn anaddas iddynt gŷd-uno â hwynt mewn proffes Griſtianogol: Yſgymmuner hwynt *ipſo facto*, ac na chymmoder hwynt, ond gan yr Arch-eſgob, wedi iddynt edifarhâu, a throi 'n ôl at gyhoedd eu Hamryfuſeddau annuwiol hynny.

10. *Cosbi Coleddwŷr Sismaticiaid yn Eglwys* Loegr.

PA rai bynnag o hyn allan a haerant fod yn iawn i'r cyfryw Weinidogion a wrthodant ddodieu dwylaw wrth Ffurf a Dull Addoliad Duw yn Eglwys *Loegr*, a ofodwyd yn Llyfr y Cymmun, a'u Canlynwŷr hefyd gymmeryd iddynt Enw Eglwys arall na ſefydlwyd trwy Gyfraith, ac a ryfygant gyhoeddi ddarfod i hon eu heſgus Eglwys hwy ocheneidio dros hîr amſer dan Faich amryw Orthrymderau a ofodwyd arni, ac ar ei Haelodau rhaggrybwylledig, gan Eglwys *Loegr*, a'r Trefnau a'r Gofodedigaethau a ſefydlwyd ynddi trwy Gyfraith; yſgymmuner hwynt, ac na chymmoder hwynt nes edifarhaont, ac y dadfarnont eu Hamryfuſeddau anwireddus hynny ar gyhoedd.

11. *Cosbi Amddiffynwŷr Ymgyfarfodau.*

PWy bynnag o hyn allan a haero, neu a amddiffyno, fod o ſewn y Deyrnas hon Ymgyfarfodau, Ymgymmanfeydd neu Gynnulleidfaoedd eraill o briodorion Ddeiliaid genedigol y Brenhin, amgen nâ'r cyfryw a gynhalir ac a gymmeradwyir wrth Gyfreithiau 'r Deyrnas hon, a allant yn gyfiawn eu galw eu hunain yn wîr a chyfreithlon Eglwyſau: yſgymmuner, ac na chymmoder ef, ond gan yr Arch-eſgob, wedi iddo edifarhâu a dadfarnu yn gyhoeddus ei Amryfuſeddau annuwiol hynny.

12. *Cosbi Coleddwŷr Gofodedigaethau a wneler mewn Ymgyfarfodau.*

PA rai bynnag o hyn allan a haeront fod yn gyfreithlon i un math o Weinidogion, a gwŷr llyg, nac i un o honynt, heb Awdurdod y Brenhin, gydymgyfarfod, a gwneuthur Rheolau, Trefnau, neu Ofodedigaethau mewn Achoſion Eglwyſig, ac ymoſtwng i'w rheoli a'u llywodraethu wrthynt: Yſgymmuner hwynt *ipſo facto*, ac na chymmoder hwynt nes iddynt edifarhâu, a chyhoeddus ddadfarnu eu hanwir a'u Hail-ſefyddiol Amryfuſeddau hynny.

Am Waſanaeth Duw a Gweiniidogaeth y Sacramentau.

13. *Iawn gadw Suliau a Gŵyliau.*

CYnhalied a chadwed pob rhyw ddŷn, o ſewn Eglwys *Loegr*, o hyn allan, Ddydd yr Arglwydd, a elwir yn gyffredin Dydd Súl, yn ŵyl, a'r Gŵyliau eraill, yn ol Rheol glân Ewyllys Duw a'i Orchymmyn, a Threfnau Eglwys *Loegr* a ofodwyd allan ar fedr hynny, ſef, yn gwrando, darllain, a dyſgu Gair Duw, yn gweddîo yn ddirgel ac ar gyhoedd, yn cyfaddef ei Feiau i Dduw, ac yn gwellhâu o'u plegid, yn ymgymmodi yn gariadus â'i Gymmydogion lle bu anfoddlondeb, yn mynych dderbyn Cymmun Corph a Gwaed Criſt, yn ymwneled a'r Tlodion a'r Cleiſion, gan arfer pob Duwiol a ſobr Ymarweddiad.

14. *Rhag-bennedig Ffurf Gwaſanaeth Duw i'w harfer ar Suliau a Gŵyliau.*

Y Weddi Gyffredin a ddywedir neu a genir yn eglur ac yn barchedig, ar y cyfryw Ddyddiau ag fy'n ofodedig i'w cadw 'n ŵyliau wrth y Llyfr Gweddi Gyffredin, a'u Noſweithiau, ac ar brydiau cymheſur ac arferedig o'r dyddiau hynny, ac yn y cyfryw fân o bob Eglwys, ag a farno Eſgob yr Eſgobaeth, neu Ordinari Eglwyſig y lle, yn gymmwys o ran ei helaethrwydd neu ei gyfyngder, ſel y caffo 'r bobl fwyaf Adeiladaeth. Pob Gweinidog hefyd a geidw y Trefnau, y Cynheddfau a'r Seremoniau a orchymmynir yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, yn gyſtal wrth ddarllain y 'Sgrythur Lân, a dywedyd y Gweddiau, ag wrth weini y Sacramentau, heb na byrhâu dim o ran pregethu, nac o ran rhyw beth arall, na chwaith ychwanegu dim at ei ddefnydd neu ei ffurf ef.

15. *Y Litani i'w darllain ar Ferchurau a Gwenerau.*

Y Litani a ddywedir neu a genir, y prŷd a'r modd y treſnwyd yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, gan y Perſoniaid, y Ficeriaid, y Gweinidogion neu 'r Curadiaid, ym mhob Eglwys Gadeiriol, Golegol, Blwyfol, a Chapel, mewn rhyw fân cyfleus, ym marn doethineb Eſgob yr Eſgobaeth, neu Ordinari Eglwyſig y lle. Ac i hysbyſu yn fwy pennodol, ar Ferchurau a Gwenerau bob wythnos, er na bônt Wyliau, aed y Gweinidog ar arferedig oriau Gwaſanaeth i'r Eglwys neu 'r Capel; ac wedi rhybuddio 'r bobl trwy ganu Clôch, dyweded y Litani ofodedig yn y Llyfr Gweddi Gyffredin: lle yr ewyllyſiem i bob pen Teulu, a ſo'n byw o ſewn hanner milldir i'r Eglwys, ddyfod, neu yrru un o leiaf o'i Dylwyth a ſo 'n addas i weddîo gyd â'r Gweinidog.

16. *Colegau i arfer y Ffurf rag-bennedig o Waſanaeth Duw.*

YN holl Waſanaeth Duw, a Gweinidogaeth y Cymmun cyſſegr-lân ym mhob Coleg a Neuadd yn y ddwy Brif-Yſgol, y cedwir yn ddyladwy y Dreſn, y Ffurf, a'r Seremoniau, megis y maent wedi eu goſod i lawr yn orchymynedig yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, heb ſaddeu na newid dim.

17. *Aſtudwŷr mewn Colegau i wiſgo Gwên-wiſgoedd ar brŷd Gwaſanaeth Duw.*

YR holl Feiſtriaid a Chyfeillion Colegau neu Neuaddau, a'r holl Yſgolheigion a'r Aſtudwŷr yn y ddwy Brif-Yſgol, yn eu Heglwyſau a'u Capeli, ar bob Sûl, Gŵyl, a'i noſwyl, ar brŷd Gwaſanaeth Duw, a wiſgant Wên-wiſgoedd, yn ôl Trefn Eglwys *Loegr*, a gwiſged y Graddolion yn gyſtattebol gyd â'u Gwên-wiſgoedd, y cyfryw Hydiau ag a berthyn i'w hamryw Raddau.

18. *Parch a Dyſal-ymwrandawiad i'w arfer o ſewn yr Eglwys ar brŷd Gwaſanaeth Duw.*

AR amſer Gwaſanaeth Duw, a phob rhan o hono, arferer pob dyledus Barch; canys Rheol yr Apoſtol yw, *Gwneler pob peth yn weddaidd, ac mewn trefn*: Cyfattebol i ba weddeidd-dra a Threfn, y barnwn ein Rheolau hyn ſy'n canlyn; Bydded pob Gwrryw yn bennoeth yn yr Eglwys neu 'r Capel ar brŷd Gwaſanaeth Duw, oddi eithr bod arno ryw wendid, ym mha achos gwiſged Gap nôs, neu Goiff. Pawb a fônt yn breſennol y prŷd hynny, a ymoſtyngant yn barchedig ar eu gliniau pan ddarllenir y Gyffes Gyffredin, y Litani, a'r Gweddîau eraill, ac a ſafant wrth ddywedyd y Credo, yn ôl y Rheolau a ofodwyd er mwyn hynny yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. Ac hefyd ar brŷd Gwaſanaeth Duw, pan grybwyller yr Arglwydd Ieſu, pawb a fônt yn breſennol a wnânt barch dyledus a goſtyngedig, ſel y bu 'r arfer hŷd yn hyn; gan dyſtiolaethu wrth y Seremoniau a'r ymddygiadau hyn oddi allan, eu Goſtyngeiddrwydd oddi ſewn, eu Llawnfryd Criſtianogol, a'u hiawn Gyſaddefiad mai 'r Arglwydd Ieſu Criſt, gwir a thragywyddol Fâb Duw, yw unig Iachawdwr y Bŷd, yn yr hwn ei hunan y cynhwyſir yn gyflawn ac yn gwbl holl Drugareddau, Graſuſau ac Addewidion Duw i Ddŷn am y Bywyd hwn a'r Bywyd a ddaw. Na fid neb, na Gŵr, na Gwraig, na Phlentyn, ſo ba alwad bynnag y bo, a'i fryd ar ddim arall ar yr amſerau hynny yn yr Eglwys, ond ar ddy-

ia

ſal wrando 'n llonydd, dàl ſylw ar, a deall yr hyn a ddarllenir, a bregethir, neu a weinir; gan ddywedyd â lleferydd eglur yn eu hiawn leoedd gyd â'r Credo; a rhoi 'r cyfryw attebion eraill i'r Gweddiau Cyhoedd, megis y treſnwyd yn y Llyfr Gweddi Gyffredin: Ni chânt chwaith rodio na ſiarad, na gwneud dim arall i anoſtegu 'r Gwaſanaeth neu 'r Bregeth, na myned allan o'r Eglwys tra parhao 'r Gwaſanaeth a'r Bregeth, heb ryw achos angenrheidiol, neu reſwm da yn peri.

19. *Na adawer Segurwŷr yn agos i'r Eglwys ar brŷd Gwaſanaeth Duw.*

NA oddefed y Wardeniaid neu 'r Ymofynwŷr, a'u Cynnorthwywŷr i ddim Oferwŷr aros nac yn y Fynwent nac ym mhorth yr Eglwys ar brŷd Gwaſanaeth Duw neu 'r Bregeth; eithr parent iddynt naill ai dyfod i mewn neu ymadael.

20. *Bara a Gwîn i'w darparu erbyn pob Cymmun.*

WArdeniaid pob Plwyf, erbyn prŷd pob Cymmun, wrth Hyfforddiad a Chyngor y Gweinidog, a ddarparant ar gôſt y Plwyf, gymmaint ag a waſanaetho 'n ddigonol o Fara gwyn mânbaill, ac o Wîn da a iachus, i'r nifer o Gymmunwŷr a gymmunant yno o brŷd bwygilydd: yr hwn Wîn yr ym yn gofyn ei ddwyn i Fwrdd yr Arglwydd mewn Talbot glân a pheraidd, neu Wnn o bewter o's nid o ſettel purach.

21. *Y Cymmun i'w dderbyn deirgwaith yn y ſtwyddyn.*

YM mhob Eglwys blwyf a Chapel, lle mae Sacramentau i'w gweini o fewn y Deymas hon, gweined y perſon, y Ficer, neu 'r Gweinidog, y Cymmun bendigaid, cyn ſynyched, ac ar y cyfryw amſerau, ag y gallo pob Plwyfol gymmuno, o leiaf, deirgwaith yn y ſlwyddyn (a gŵyl y Paſg i fod yn un o honynt) megis ag y gorchymynir gan y Llyfr Gweddi Gyffredin. Darparer fod i bob Gweinidog, cynnifer gwaith ag y gweinio efe 'r Cymmun, dderbyn y Sacrament hwnnw 'n gyntaf ei hunan. Ac ymmhellach, na arferer dim bara a Gwîn newŷdd ddyfod: eithr yn gyntaf arferer geiriau 'r Ordeiniad, pan fo 'r bara a'r Gwîn dywededig yn breſennol ar y Bwrdd cymmuno. Hefyd y Gweinidog a ddyry 'r Bara a'r Gwîn i bob un o'r Cymmunwŷr yn bennodol.

22. *Rhybudd am y Cymmun i'w roi ym mlaen llaw.*

LLe mae pob gŵr llŷg yn rhwyn i dderbyn y Cymmun bendigaid deirgwaith bob blwyddyn, a llawer er hynny heb dderbyn y Sacrament unwaith yn y ſlwyddyn; yr ŷm yn erchi i bob Gweinidog rybuddio ei Blwyfolion ar oſteg yn yr Eglwys ar y Foreuol Weddi, y Sûl o flaen pob prŷd ag y gweino efe 'r Sacrament Cyſſegrlân hwnnw, er mwyn iddynt ymbarottôi yn well. Ac yr ŷm yn gorchymmyn i'r Plwyfolion dywededig, gymmeryd ac ufuddhâu y Rhybudd hwnnw, dan boen a pherygl y Gyfraith.

23. *Aſtudwŷr mewn Colegau i dderbyn y Cymmun bedair gwaith yn y ſtwyddyn.*

YM mhob Coleg a Neuadd o fewn y ddwy Brif-Yſgol, y Meiſtriaid a'r Cyfeillion, y cyfryw 'n mwedig ag ſy a Diſgyblion ganddynt, a ofalant ar i'w holl ddywededig Ddiſgyblion, ac i'r lleill a fo 'n achos yn eu mŷſg hwynt, gael dygiad da i fynu, a'u dyſgu 'n hollol ym Mhyngciau Crefydd, ac ar iddynt fyrchu yn ddieſgeulus i'r Gwaſanaeth a'r Pregethau cyhoedd, a derbyn y Cymmun ſanctaidd, yr hwn yr ŷm yn ordeinio ei weini ar y Sûl cyntaf neu ail o bob mîs ym mhob cyfryw Goleg a Neuadd, gan ofyn i'r holl ddywededig Feiſtriaid a Chyfeillion, ac Yſgolheigion a'r holl Aſtudwŷr eraill cymmain un, Swyddogion, a'r holl Weiſion eraill yno ymdrefnu felly, ſel y cymmuno pob un o honynt bedair gwaith o leiaf yn y ſlwyddyn, gan oſtwng yn barchedig ac yn weddaidd ar eu gliniau, yn ôl y Dreſn a oſodwyd yn Llyfr y Cymmun er mwyn hynny.

24. *Copau i'w gwiſgo mewn Eglwyſi Cadeiriol, gan y rhai a weiniant y Cymmun.*

YM mhob Eglwys Gadeiriol a Cholegol, y gwaſanaether y Cymmun bendigaid ar Wyliau arbennig, weithiau gan yr Eſgob, o's bydd efe yn breſennol, ac weithiau gan y Deon, ac weithiau gan Ganon, neu Brebendari, y Gweinidog pennaf gan arfer Côp gweddus, a gynnorthwyir gan yr Efangylwr a'r Epiſtolwr yn gyfattebol yn ol y Rhybuddion a gyhoeddwyd *An. 7. Eliz.* Y Cymmun dywededig i'w waſanaethu ar y cyfryw amſerau ac wrth y cyfryw derfynau ag a bennodwyd yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. Darparer, na ddealler mewn un modd, ac na dderbynier dim Terfyn, amgen nâ bod ar yr holl Ddeonau, Wardeniaid, Meiſtriaid, neu Bennaduriaid, Eglwyſau Caderiol a Cholegol, Prebendariaid, Canoniaid, Ficeriaid, Atcanoniaid, Cantorion, a phawb eraill o'r Adeilad-lwyth, dderbyn y Cymmun bedair gwaith o leiaf bob blwyddyn.

25. *Gwîn-wiſgoedd a Hydiau i'w gwiſgo mewn Eglwyſi Cadeiriol prŷd na bo Cymmun.*

AR brŷd Gwaſanaeth Duw, a Gweddiau, ym mhob Eglwys Gadeiriol a Cholegol, prŷd na bo Cymmun, digon fydd gwiſgo Gwên-wiſgoedd; ond bod ar bob Deon, Meiſtr, a Phennadur Eglwyſi Colegol, Canon a Phrebendari, o's Graddolion, wiſgo beunydd ar brŷd Gweddi a Phregethu, gyd â'u Gwên-wiſgoedd, y cyfryw Hydiau ag a fo cyfaddas i'w Graddau.

26. *Na dderbynier Drwg-weithredwŷr hynod i'r Cymmun.*

NA ollynged un Gweinidog mewn un modd i dderbyn y Cymmun bendigaid un o'i Gur neu o'i Braidd, a ŵyper yn hyſbys ei fod yn byw mewn Pechod hynod heb edifarhâu; na neb a'r a fu 'n faleiſus ac yn gyhoeddus yn ymryſon â'u Cymmydogion, nes iddynt ymgymmodi: na chwaith ddim Wardeniaid neu Gynnorthwywŷr, y rhai wedi cymmeryd eu Llwon i breſentio i'w Hordinariaid bob cyfryw Gamweddau cyhoeddus a'r a orchymmynwyd yn bennodol arnynt ymorol am danynt yn eu hamryw Blwyfau, y ſy (er eu llwon dywededig, ac er mai cwplâu 'n ffyddlon eu dyled, ydyw 'r modd pennaf i ddiwygio a chooſbi pechodau a chamweddau cyhoeddus) o'r gwaith goddeu yn ddibris ac yn ddigrefydd yn rhedeg i'r pechod echryſlon o Anudonedd, wrth eſgeuluſo neu ommedd preſentio y dywededig gyfryw Afreolaethau a Beiau cyhoeddus a ŵyddant hwy eu hunain ddarfod eu gwneuthur yn eu Plwyfau dywededig, neu y ſydd Rwyſtrau amlwg i'r Gynnulleidfa yno: er eu cymmell gan rai o'u Cymmydogion, neu gan eu Gweinidog, neu gan eu Hordinari ei hunan, i ryddhâu eu Cydwybodau trwy eu preſentio hwynt, yn lle rhedeg mòr ddibris i'r Pechod dywededig o Anudonedd.

27. *Na chymmerer Siſmaticiaid i'r Cymmun.*

AR uchel-waſanaeth y Cymmun, na weined un Gweinidog mo hono trwy ŵybod i neb ond a fo ar ei liniau dan boen Gorſodogaeth, na chwaith dan yr un boen i neb a ommeddo fod yn breſennol ar y Gweddiau Cyffredin yn ôl Treſnau Eglwys *Loegr*,

nac

nac i neb a fo 'n arfer yn amlwg ac yn gyhoeddus ddïyſtyru y Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, a'r Trefnau, y Cynheddfau a'r Seremoniau gosodedig ynddo, neu ddim a gynhwyſir yn un o'r Erthyglau a gyttunwyd arnynt yn y Gymmanfa yn y flwyddyn, Un mil pum cant a dwy a thriugain, neu ddim a'r y ſy 'n gynnwyſedig yn Llyfr Urddo Offeiriaid ac Eſgobion; nac i neb a fu 'n dywedyd yn erbyn neu 'n diyſtyru Goruchaf Awdurdod y Brenhin mewn Achoſion Eglwyſig; oddi eithr i bob cyfryw un yn gyntaf gyfaddef ei Edifeirwch am yr unrhyw, wrth y Gweinidog ger bron y Wardeniaid, ac addo ar ei air (oni fedr yſgrifennu) na's gwnâ felly mwy, ac oddi eithr iddo (o's medr yſgrifennu) yn gyntaf addo hynny mewn yſgrifen dan ei law, i'w thraddodi i'r Gweinidog, a'i hanfon ganddo yntau i Eſgob yr Eſgobaeth, neu i Ordinari 'r lle. Darparer fod i bob Gweinidog, felly yn gwrthod neb (fel yr amlygir yn yr Oſodedigaeth yma neu 'r neſaf o'r blaen) ar Achwyn neu Orchymmyn yr Ordinari, hyſbyſu iddo ef yr achos, ac ufuddhâu i'w Dreſn a'i Gyngor ef yn y peth.

28. *Na dderbynier Dieithriaid i'r Cymmun.*

Y Wardeniaid neu 'r Ymoſynwŷr, a'u Cynnorthwywŷr, yn gyſtal a'r Gweinidog, a graffant, a yw pawb a phob un o'r Plwyfolion yn dyfod i'r Cymmun bendigaid cyn fynyched bob blwyddyn ag y mae 'r Cyfreithiau a'n Goſodedigaethau ni 'n gofyn: ac a oes dim dieithriaid yn dyfod yn fynych ac yn gyffredin, o Blwyfau eraill i'w Heglwys hwynt, ac a'i hyſbyſant i'w Gweinidog, rhag ofn ond amtur eu gollwng i Fwrdd yr Arglwydd ym mhlith eraill; y peth a ddylent ei wahardd, ac anfon y cyfryw adref i'w Heglwys blwyf at eu Gweinidog eu hunain, yno i dderbyn y Cymmun gyd a'r lleill o'u Cymmydogion eu hunain.

29. *Nad oes i fod yn Dadau-bedydd, na'r Tadau, na Phlant na buont yn cymmuno.*

NA chymheller un Tâd i fod yn breſennol, ac na dderbynier ef i atteb megis Tâd-bedydd dros ei blentyn ei hun; ac na adawer i un Tâd-bedydd neu Fam-fedydd roi un atteb nac adlais arall, amgen nag a bennodwyd i hynny yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. Ac na adawer chwaith i neb fod yn Dâd-bedydd neu 'n Fam-fedydd i un Plentyn wrth ei fedyddio neu ei gonfirmio, nes darfod i'r cyfryw Fach dderbyn y Cymmun bendigaid.

30. *Deongli cyfreithlon arfer Arŵydd y Grŏg yn y Bedyddfa.*

Y Mae 'n ddrwg gennym ddarfod i ardderchoccaf Ofal a Phoen Gras y Brenhin, yn yr Ymddiddan yn *Llŷs-Hampton* ym mhlith amryw bynciau eraill, ynghŷlch yr un yma am y Grŏg yn y Bedydd, fod mŏr ddiaffaith ar lawer, a'u bod byth mŏr wrthwynebus yn rhuſio ac yn fefyll yn erbyn ei harfer yn y Bedydd. Er hyſbyſu gan hynny ym mhellach wîr arfer y Seremoni hon: ac er mwyn tynnu ymaith bob cyfryw Amheuaeth a'r a allai 'n un modd ſlino Cydwybodau y rhai ſy 'n wîr yn iawn-grefyddol, yr ym ni (gan ddilyn Tywyſogol Gamrau ein Godidoccaf Frenhin, am ei fod yntau 'n dilyn Rheolau 'r Yſgrythur, ac arfer y Brif-Eglwys ynddynt;) yn gorchymmyn i holl wîr Aelodau Eglwys *Loegr* ein Hyfforddiadau a'n Rheolau hyn ſy 'n canlyn.

Yn gyntaf, dalier ſulw, er darfod i'r *Iuddewon* a'r *Taganiaid* watwar yr Apoſtolion a'r Criſtianogion eraill, am bregethu a chredu yn on a groeshoeliwyd ar y Groes; etto 'r oeddynt oll, yr Apoſtolion a'r Criſtianogion, cyn belled oddi wrth lwfrhâu yn eu Proffes trwy waradwydd y Groes, a'u bod yn hytrach yn ymlawenhâu ac yn ymorfoleddu ynddi. Ie yr Yſbryd glân trwy enau 'r Apoſtolion a anrhydeddodd Enw 'r Grŏg, (a oedd gâs ym mhlith yr *Iuddewon*) cyn belled, a'i fod ete 'n cynnwys dani, nid yn unig Criſt yn groeshoeliedig, eithr hefyd rŷm, nerthoedd, a haeddedigaethau ei Angau a'i ddioddefaint ef, ynghŷd â'r holl Gyſſuron, y ffrwythau, a'r addewidion yr ŷm ni'n eu derbyn neu 'n eu diſgwyl oddi wrthynt.

Yn ail, ſe ynnillodd Anrhydedd a Braint Enw 'r Grŏg, ïe yn amſerau 'r Apoſtolion, (am ddim a'r a wyddir i'r gwrthwyneb) Fri parchedig i Arŵydd y Grŏg, yr hon yn fuan wedyn a arferai y Criſtianogion yn eu holl weithredoedd, gan amlygu wrth hynny 'n eglur i'r bŷd, eu Proffes hŷd yn oed er Syndod i'r *Iuddewon*, nad oedd yn gwyllydd ganddynt gydnabod hwnnw 'n Arglwydd ac yn Iachawdwr iddynt, â fuaſai farw droſtynt ar y Groes. A'r Arŵydd yma nid arferaſant yn unig eu hunain mewn math o Orfoledd, pan gyfarfyddent â neb o'r *Iuddewon*, eithr a nodaſant eu Plant â hi wrth eu bedyddio, i'w cyſſegru â'r nôd hwnnw i'w waſanaeth ef, yr hwn y mae Enw y Groes yn arddangos ei ddoniau a roddwyd iddynt yn y Bedydd. A'r arfer yma o arŵydd y Grŏg wrth fedyddio, a gynhalwyd yn y Brif Eglwys, yn gyſtal gan y *Groegiaid* a'r *Lladinwŷr* yn unfryd, ac â mawr orfoledd. Ym mha amſer pe ſafaſai neb yn gwrthwyneb iddi, diau y barnaſid hwy 'n elynion i Enw 'r groes, ac yn ganlynol i Haeddedigaethau Criſt, gan fod mŏr wrthwynebus ganddynt yr arŵydd o honynt. Y mae 'r arfer gwaſtadol a chyffredin yma o Arŵydd y Grŏg yn hyſbys wrth amryw o Dyſtiolaethau 'r hên Dadau.

Yn drydydd, y mae 'n rhaid cyfaddef ddarfod ym mhen Talm o amſer, gam-arfer arŵydd y Grŏg yn fawr yn Eglwys *Rufain*, yn enwedig wedi darfod i Lygredigaeth Pabyddiaeth unwaith ei gorefgyn hi. Ond nid yw cam arfer peth yn diddymmu 'r iawn arfer o hono. Ie, yr oedd cyn belled oddi wrth fyd Eglwys *Loegr* wrthod a llyfu Eglwyſau 'r *Ital*, *Ffraingc*, *Hiſpaen*, a'r *Ellmyn* na 'r un o'r cyfryw Eglwyſau, ym mhob peth a ddalient ac a arferent, a'i bod (fel yr addef *Diffyniad Ffydd Eglwys Loegr*) yn cynnal yn barchedig y Seremoniau hynny fy heb wneud na niweid i Eglwys Dduw, na rhwyſtr i feddyliau Gwŷr ſobr; ac a ymadawodd yn unig â hwy yn y Pyngciau neillduol hynny, ym mha rai 'r oeddynt hwy wedi fyrthio oddi wrthynt eu hunain yn eu hên Burdeb ac oddi wrth yr Eglwyſi Apoſtolaidd, y rhai oedd eu Planwŷr cyntaf. Yn yr hon Yſtyriaeth, ym mhlith rhai Seremoniau eraill hên ddihenydd, Arŵydd y Groes yn y Bedydd a gadwyd yn yr Eglwys yma, wrth farn ac arfer y Tadau parchedig, a'r Difinyddion enwog hynny yn nyddiau Brenhin *Edward* y Chweched, rhai o honynt a ddioddefaſant yn ddianwadal am broffeſu 'r gwiriodedd; ac eraill a ddeolwyd yn amſer y Frenhines *Mari*, wedi eu dychwelyd adref yn nechreu Teyrnaſiad ein diweddar Ardderchog Frenhines, a amddiffynnaſant ac a arferaſant yr unrhyw yn gyfannedd. Yr hwn Lawn-fryd ar arfer ein Heglwys, a ganiattäwyd ac a gymmeradwywyd gan y Farn ar y Llyfr Cymmun yn nyddiau Brenhin *Edward* y Chweched, a Chyſondeb Cyffeſau blynyddoedd diweddarach: o blegid i ni 'n wîr arfer yr Arŵydd hwn yn y Bedydd yma erïoed trwy ddigon o gyfryw rag-ocheliadau ac eithradau rhag pob Coel-grefydd ac Anrywſuſedd Pabaidd, ag ſy gymmwys a chyflëus yn y cyfryw achoſion; canys,

Yn gyntaf, er pan ddiddymmwyd Pabyddiaeth, ſe ddaliodd ac a ddyſgodd Eglwys *Loegr* erïoed, ac y mae hi byth felly 'n dâl ac yn dyſgu nad yw Arŵydd y Grŏg a arferir yn y Bedydd, yn ddim rhan o Sylwedd y Sacrament hwnnw. Canys wedi i'r Gweinidog

nidog wrth drochi 'r Plentyn yn y Dwfr, neu ddodi Dwfr ar ei ŵyneb ef (ſel y mae 'r arfer hetyd) ddywedyd y geiriau hyn, *Yr ŵyf fi yn dy fedyddio di yn Enw'r Tâd, a'r Mâb a'r Yſbryd glân*, dyna 'r Plentyn wedi ei fedyddio 'n gyflawn ac yn berffaith, fel nad yw Arŵydd y Grôg a arferir wedi, yn 'chwanegu dim at rinwedd a pherffeithrwydd y Bedydd, na'i gadael heibio 'n lleihâu dim o'i nerth a'i fylwedd ef.

Yn ail y mae 'n hysbys yn y Llyfr Cymmun, fod y Plentyn a fedyddiwyd wedi ei dderbyn trwy rym y Bedydd i Gynnulleidfa Defaid Criſt, megis Aelod bywiol o'r unrhyw, cyn ei nodi ag arŵydd y Grôg, ac nid trwy ddim rhinwedd a gyfrifir i Arŵydd y Grôg. Fel mai o wîr goffadwriaeth am y Groes, y ſy dra gwerthfawr gan bawb ag ſy'n iawn gredu yn *Iefu Criſt*, ac o herwŷdd yr Yſtyriaethau cry-bwylledig eraill, y cadwodd Eglwys *Loegr* yr arŵydd o honi yn y Bedydd, gan ddilyn yn hynny y Prif Eglwyſi Apoſtolig, a'i chyfrif yn Seremoni gyfreithlon oddi allan, ac yn Nôd anrhydeddus, wrth ba un y cyflegrir y plentyn i'w Waſanaeth ef a drengodd ar y Groes, ſel y dengys y Geiriau a arferir yn y Llyfr Gweddi Gyffredin.

Yn ddiweddaf, wedi puro arfer arŵydd y grôg yn y bedydd, fel hyn oddi wrth bob Coel-grefydd ac Amryfuſedd Pabaidd, a'i dychwelyd yn Eglwys *Loegr* i'w Hordinhâd cyntaf, ar y gwir Reolau Athrawiaeth hynny ynghŷlch pethau canolig, ac y ſy'n gyſſon â Gair Duw, ac a Meddyliau 'r holl hên Dadau: Ein Barn ni yw mai rhan pob gŵr neillduol, Gweinidog ac arall, ydyw cadw 'n barchus y gwîr arfer o honi, a orchymynir trwy Awdurdod gyffredin; gan yſtyried fod pethau a fo canolig ynddynt eu hunain mewn rhyw fodd yn newid eu natur, pan y gorchymyner neu y gwahardder hwy gan Ben-ſwyddog cyfreithlon, ac na all pawb eu heſgeuluſo wrth eu hewyllys yngwrthwyneb i'r Gyfraith, pan orchymyner hwynt, nâu harfer chwaith pan wahardder hwynt.

Am Weinidogion, eu Hurddau, eu Swydd, a'u Gofal.

31. *Pedwar amſer arbennig pennodol i wneuthur Gweinidogion.*

YN gymmaint a darſod i hên Dadau 'r Eglwys wedi eu tywys wrth Samplau 'r Apoſtolion, appwyntio Gweddiau ac Ymprydiau i'w harfer wrth barchedig urddo Gweinidogion, a gofod amſerau pennodol i hynny, ar ba rai 'n unig y gellid rhoi Urddau Sanctaidd; Ninnau, gan ddilyn eu Sampl ſanctaidd a chrefyddol, ydym yn gofod ac yn ordeinio, na wneler ac na Urdder dim Diaconiaid nac Offeiriaid; ond yn unig ar y Suliau neſaf ar ôl *Yejunia quatuor temporum*, a elwir yn gyffredin *Wythnoſau 'r Cŷd-dâiau*, appwyntiedig yn yr hên amſer i ymprydio a gweddio, (yn bendant er mwyn yr achos hyn, wrth eu hordeiniad cyntaf) ac a gedwir ſelly hyd heddyw yn Eglwys *Loegr*: a bod gwneuthur hyn yn yr Eglwys Gadeiriol neu Blwyfol, lle bo 'r Eſgob yn drigiannol, ac ar amſer Gwaſanaeth Duw yngŵydd nid yn unig yr Arch-diacon, eithr y Deon a dau (o leiaf) o'r Prebendariaid, neu (o's digŵydd bod arnynt ryw rwyſtr neu achos cyfreithlon) yngŵydd pedwar eraill o wŷr pwyllog; a ſyddont o'r hyn lleiaf yn Athrawon Celfyddydau, ac wedi eu cymmeradwyo 'n Bregethwŷr cyhoedd.

32. *Na wneler neb yn Ddiacon ac yn Offeiriad yn yr un dydd.*

GAn mai cam neu râdd i'r Offeiriadaeth yw Swydd Diacon, yn ôl barn yr hên Dadau, ac arfer y Brif-Eglwys; yr ym yn ordeinio ac yn goſod, na wnelo un Eſgob o hyn allan, neb o ba gyn-heddfau neu ddoniau bynnag y bo, yn Ddiacon ac yn Offeiriad hefyd yn yr un diwrnod: eithr cadwed yn ddieſgeulus y Dreſn a bennwyd i hynny yn y Llyfr urddo a chyſſegru Eſgobion, Offeiriaid, a Diaconiaid. Nid o herwŷdd y dylid bob amſer gadw pob Diacon oddi wrth yr Offeiriadaeth flwyddyn gyfan pan welo 'r Eſgob achos da i'r gwrthwyneb; eithr gan fod yr awrhon ym mhob blwyddyn bedwar amſer goſodedig i Urddo Diaconiaid ac Offeiriaid, ſel y bo byth rywfaint o amſer i broſi eu hymddygiad yn Swydd Diacon, cyn eu derbyn i Urdd Offeiriaid.

33. *Titlau 'r ſawl a wnelir yn Weinidogion.*

DArbodwyd er yr hîr amſer gan amryw o Oſodedigaethau 'r hên Dadau, na dderbynid neb yn Ddiacon nac yn Offeiriad oni fai 'n gyntaf ganddo ryw le pennodol i arferu ei Swydd. Wrth ba Eſamplau yr ŷm yn ordeinio, na dderbynier neb o hyn allan i Urddau Cyſſegredig, oddi eithr iddo ddangos y prŷd hynny i'r Eſgob y bo 'n ceiſio Arddodiad dwylaw ganddo, ei Breſentiad i ryw Ddyrchafiad Eglwyſig y prŷd hynny 'n wâg yn yr Eſgobaeth honno, neu a ddygo i'r dywededig Eſgob wîr a diamhëus Sicrwydd o ſod ganddo naill ai rhyw Eglwys o fewn yr Eſgobaeth ddywededig, lle y gallo wilied ar ofal Eneidiau, neu le rhyw Weinidog yn wâg, naill ai yn Eglwys Gadeiriol yr Eſgobaeth honno, neu ryw Eglwys Golegol arall ynddi, lle y gallo waſanaethu ei Swydd; neu ei fod eſe 'n Gyfaill, neu mewn hawl megis Cyfaill, neu ei fod yn Arweinydd neu Gaplan yn rhyw Goleg yng *Ngbaer-Grawnt* neu *Rydychen*; neu oddi eithr ei fod yn Athraw Celfyddydau, er ys pum mlynedd, yn byw arno 'i hun yn un o'r Prif-Yſgolion; neu oddi eithr bod yr Eſgob ei hun ſy'n ei Urddo 'n Weinidog, i'w gymmeryd ef ar fyr wedi i ryw Eglwys neu Guradiaeth a fo 'r pryd hynny 'n wâg. Ac o's derbyn un Eſgob ryw un i'r Weinidogaeth, a ſo heb un o'r Titlau hyn a grybwyllwyd, yna eſe a'i ceidw ac a'i cynnal ef â phob Angenrheidiau, hyd oni ddyrchafo eſe ef i ryw Fywioliaeth Eglwyſig. Ac o's pall y dywededig Eſgob wneuthur ſelly, gorfodoger ef gan yr Arch-eſgob, trwy gymmorth Eſgob arall, rhag urddo dros flwyddyn gyfan.

34. *Cynbeddfau 'r ſawl a wneler yn Weinidogion.*

NA dderbynied un Eſgob neb o hyn allan i Urddau Cyſſegredig, a'r na bo o'i Eſgobaeth ei hun, oni bydd naill ai o un o Brif-Yſgolion y Deyrnas hon, neu ddwyn ganddo Lythyr a elwir Llythyr Gollyngiad oddi wrth ei Eſgob ei hun, a'i ſod yn deirblwydd ar hugain oed, o's Diaconiaeth a gaiſ, ac o's Offeiriadaeth yn llawn bedair ar hugain, ac wedi cymmeryd rhyw râdd Yſgol yn un o'r Prif-Yſgolion dywededig, neu o leiaf, yn medru rhoi hanes ei Ffydd yn *Lladin*, yn ol Erthyglau Creſydd a gymmeradwywyd yng Nghymmanfa Eſgobion ac Eglwyſwŷr y Deyrnas hon, yn y flwyddyn, Un mil pum cant a dwy a thriugain, a ſicrhâu 'r unrhyw trwy ddigon o Dyſtiolaethau o'r Yſgrythur lân; ac oddi eithr iddo 'r prŷd hynny 'n ychwaneg ddangos Llythyr tyſtiolaeth ei Fuchedd a'i Ymarweddiad da, dan Sêl rhyw Goleg yng *Ngbaer-Grawnt* neu *Rydychen* lle y bu 'n byw o'r blaen, neu dri neu bedwar Gweinidog pwyllog, ynghŷd a Thyſtiolaeth a Dwylaw Dynion credadwy eraill, a adnabuant ei fuchedd a'i ymarweddiad ef y tair blynedd ddiweithaf.

35. *Holiad y ſawl a wneler yn Weinidogion.*

YR Eſgob cyn y derbynio neb i Urddau cyſſegredig, a'i hola ef yn fanwl yngŵydd y Gweinidogion a'i cynnorthwyo ef yn yr Arddodiad dwylaw;

law: ac o bydd rhyw rwyſtr cyfreithlon ar y dywededig Eſgob, eſe a bâr i'r Gweinidogion hynny holi 'n ofalus bob cyfryw un a'r a ſo felly i gael Urddau. Darparer, ſod y ſawl a gynnorthwyant yr Eſgob, wrth holi, ac arddodi dwylaw, o'i Eglwys Gadeiriol ef; o's gellir yn gyfleus eu cael, neu Bregethwŷr profadwy eraill o'r un Eſgobaeth, hŷd yn nhri o'r lleiaf. Ac o's dyry un Eſgob neu Suffragan Urddau ſanctaidd i neb a'r ni bo wedi ei gymhwyſo felly, a'i holl, megis yr ordeiniaſom o'r blaen, Arch-eſgob ei Dalaith ef, pan hysbyſer hyn iddo, ynghyd ag un Eſgob yn gynhorthwy iddo, a orfodoga 'r Eſgob neu 'r Suffragan, a droſeddo felly, rhag gwneuthur na Diaconiaid nac Offeiriaid dros ddwy flynedd gyfan.

36. *Pethau a ofynnir i'r ſawl a urdder yn Weinidogion ddoli eu dwylaw wrthynt.*

NA dderbynier neb o hyn allan i'r Weinidogaeth, na'i gymmeryd trwy Ordeiniad neu Gyfiead i unrhyw Fywioliaeth Eglwyſig, na goddef iddo bregethu, cateciſo, nac i ſod yn Lecturwr, neu 'n Ddarllenwr Difinyddiaeth yn un o'r ddwy Brif-Yſgol, nac mewn un Eglwys Gadeiriol neu Golegol, Dinas neu Dref-farchnad, Eglwys Blwyf, Capel, nac yn un lle arall o fewn y Deyrnas hon, oddi eithr cael o hono Gennad naill ai gan yr Arch-eſgob, neu Eſgob yr Eſgobaeth (lle y bo i gael lle) dan eu dwylaw a'u Selau, neu gan un o'r ddwy Brif-Yſgol dan eu Sêl yr un ffunud; ac oddi eithr iddo 'n gyntaf ddodi ei law wrth y tri Erthygl hyn ſy'n canlyn yn y cyfryw fodd a dull ag yr ordeiniaſom yma.

I. Mai Grâs y Brenhin, dan Dduw, y ſydd yn unig oruch Lywiawdwr ar y Deyrnas hon, ac ar holl Arglwyddiaethau eraill a Gwledydd ei Râs ef, yn gyſtal ym mhob rhyw bethau a dadleuon ysbrydol, neu Eglwyſig a bydol: ac nad oes ac na ddylai fod i un Eſtron Dywyſog, Dŷn, Prelad, Yſtâd, neu Bennaeth, ddim Beirniadaeth, Gallu, Goruchafiaeth, Rhagoriaeth neu Awdurdod Eglwyſig neu Yſbrydol o fewn dywededig Deyrnaſoedd, Arglwyddiaethau, a Gwledydd ei Fawrhydi.

II. Nad yw 'r Llyfr Gweddi Gyffredin, ac Urddo Eſgobion, Offeiriaid a Diaconiaid, yn cynnwys ynddo ddim yngwrthwyneb i Air Duw, ac y gellir yn gyfreithlon ſelly ei arfer, ac yr arfera eſe ei hun y ffurf a ofodwyd yn yr unrhyw Lyfr, mewn Gweddi gyhoedd a Gweinidogaeth Sacramentau, ac nid arall.

III. Ei fod eſe 'n cymmeradwyo Llyfr Erthyglau Crefydd a gyttunwyd arnynt gan Arch-eſgobion ac Eſgobion y ddwy Dalaith a'r holl Eglwyſwŷr yn y Gymmanſa a gynhaliwyd yn *Llundain* yn y flwyddyn o oedran ein Harglwydd Dduw, Un mil pum cant a dwy a thriugain: a'i fod eſe 'n cydnabod fod oll a phob un o'r Erthyglau cynnwyſedig ynddo, y ſy yn namyn un deugain o rifedi, heb law y Sicrhâd, yn gyttunol â Gair Duw.

Pwy bynnag a ddodo ei law wrth y tri Erthygl yma, er gochel pob ammwyſedd, doded hi yn y Dreſn a'r Ffurf hon o Eiriau gan roi i lawr ei Enw bedydd a'i Gyfenw, *ſef*, *Yr wyſi*, N. N. *yn ewyllyſgar ac* ex animo *yn rhoi fy llaw wrth y tri Erthygl crybwylledig hyn, ac wrth bob peth ag ſy'n gynnwyſedig ynddynt.* Ac o's un Eſgob a urdda, a dderbyn neu a gennada un-dyn fel y dywedwyd uchod, oddi eithr iddo 'n gyntaf ddodi ei law yn y Dreſn a'r Ffurf a bennodaſom yma; gorſodoger ef rhag rhoi Urddau na chenhadu neb i bregethu dros flwyddyn gyfan. Eithr o's troſedda un o'r ddwy Brif-Yſgol yn hynny, yr ydym yn eu gadael hwy i berygl y Gyfraith, a Barnedigaeth y Brenhin.

37. *Dodi llaw yngŵydd yr Eſgob.*

PAn ddêl un i fyw mewn rhyw Eſgobaeth, er ei fod yn genhadol, fel y rhag-ddywedwyd, i bregethu, darllain Lectur, neu gateciſo, na adawer iddo yno bregethu, ddarllain Lectur, gateciſo, neu weini 'r Sacramentau na gwaſanaethu un Swydd Eglwyſig arall (trwy ba Awdurdod bynnag y caniattaer ef i hynny) oddi eithr iddo 'n gyntaf gŷdſynio, a dodi ei law wrth y tri Erthygl uchod, yngwydd Eſgob yr Eſgobaeth, lle y bo i bregethu, darllain Lectur, gateciſo, neu weini 'r Sacramentau, ſel y dywedwyd o'r blaen.

38. *Cosbi Gwrth-gilwŷr wedi dodi eu dwylaw.*

O'S paid un Gweinidog, wedi y dodo ei law unwaith wrth y tri Erthygl crybwylledig, ac arfer y Ffurf Gweddi, neu un o'r Trefnau neu 'r Seremoniau a oſodwyd yn y Llyfr Cymmun, gorſodoger ef; ac oni wellhâ eſe ac ymoſtwng ym mhen mis, yſgymmuner ef: ac yna oni ymoſtwng eſe ym mhen mis arall, diſwydder ef o'r Weinidogaeth.

39. *Gochelladau wrth ordeinio Gweinidogion i Eglwyſi.*

NA ordeinied un Eſgob neb i Eglwys a'r a urddwyd gan ryw Eſgob arall oni ddengys eſe 'n gyntaf iddo ei Lythyrau Urddau, a dwyn iddo Dyſtiolaeth ddigonol o'i Fuchedd a'i Ymarweddiad da o'r blaen, o's yr Eſgob a'i gofyn: ac yn ddiwaethaf, oni ymddengys wrth ei holi 'n ddyladwy, ei fod yn deilwng o'i Weinidogaeth.

40. *Llw yn erbyn Simoniaeth wrth ordeinio i Fywioliaethau.*

I Ochel ffiaidd Bechod Simoniaeth o waith bod prynu a gwerthu Gweinidogaethau, Swyddau, Dyrchafiaethau, Breiniau, a Bywioliaethau Ysbrydol ac Eglwyſig yn felldigedig ger bron Duw, am hynny rhaid i'r Arch-eſgob, ac oll a phob Eſgob neu Eſgobion, neu un Gŵr neu Wŷr eraill a fo ganddynt Awdurdod i dderbyn, Ordeinio, Cyflëu, Graddio, neu ſicrhâu Dewiſiad un Arch-eſgob, Eſgob, neu ryw un neu rai eraill, i un Gwaſanaeth, Braint, Dyrchafiaeth, Titl, Swydd, Llywodraeth, Lle neu Fywioliaeth ysbrydol neu Eglwyſig, gyd â Chur, neu heb Gur, nac i un Rhent Eglwyſig pwy bynnag, cyn pob cyfryw Dderbyniad, Ordeiniad, Cyfiead, Graddiad, neu Sicrhâd Dewiſiad, roi yn bennodol i bob cyfryw un a fo ar ôl hyn i gael ei dderbyn, ei Ordeinio ei Gyflëu, ei Raddio, neu ei Sicrhâu yn neu i un Arch-eſgobaeth, Eſgobaeth, neu Weinidogaeth, Braint, Dyrchafiaeth, Titl, Swydd, Llywodraeth, Lle, neu Fywioliaeth ysbrydol neu Eglwyſig arall, gyd â Chur, neu heb Gur: nac yn neu i un Fywioliaeth Eglwyſig pwy bynnag, y Llw hwn, yn y modd a'r ffurf ſy'n canlyn, y mae 'n perthyn i bob un ei gymmeryd ef ei hunan, ac nid trwy Broctor: *Yr wyf ſi* N. N. *yn tyngu na wnaethum un Toledigaeth, Cyttundeb, nac Addewid Simoniaidd yn gam nac yn union, trwoſ fy hun, na thrwy neb arall, i'm Gŵybodaeth, na thrwy 'm Cŷdſyniad, i un matb o ddŷn neu ddynion pwy bynnag, um nac ynghŷlch ceiſio na chael yr Urddau, y Lle, y Dyrchafiaeth, y Swydd, neu 'r Fywioliaeth Eglwyſig yma,* (gan enwi 'n wahanredol ac yn bennodol y Lle y bo i gael ei dderbyn, ei Ordeinio, ei Gyflëu, ei Raddio, neu ei Sicrhâu iddo) *ac na wnâf ſi bytb o hyn allan na chyflawni na boddloni dim o'r fatb Daledigaeth, Cyttundeb, neu Addewid, a wnaed gan neb arall heb fy ngŵybodaeth neu 'm cŷdſyniad i: felly y'm cynnorthwyo Duw trwy Iesu Criſt.*

41. *Tor-*

41. *Terfynu Cenhadau i gadw mwy nag un Eglwys, a gorchymmyn bod yn drigiannol yn honno.*

NA chaniattaer Cennad neu Ryddid i neb i gadw mwy nag un Eglwys â Chur, ond i'r cyfryw'n unig ag a farner i'w haeddu yn dda wrth ei ddŷſg, ac yn ddigon abl a chymmwys i gwplâu ei Ddyledſwydd; hynny yw, a fo wedi cymmeryd grâdd Athraw Celfyddydau o leiaf yn un o ddwy Brifyſgol y Deyrnas hon, a'i fod yn Bregethwr cyhoedd ac abl wedi ei genhadu. Darparer bob amſer, iddo ymrwymo mewn digon o ŵyſtl ar fod ei hun ym mhob un o'i ddyweddedig Eglwyſi, dros ennyd weddol o amſer bob blwyddyn; Ac na bo 'r Eglwyſydd hynny oddi ar ddeng milltir ar hugain oddi wrth eu gilydd: Ac yn ddiweddaf, bod ganddo yn y lle na bo 'n drigianol, dano Bregethwr cyfreithlon a phrofadwy, a waſanaetho i addyſgu a hyfforddi 'r bobl yn ddigonol.

42. *Trigiannoliad Deonau yn eu Heglwyſau.*

POb Deon, Meiſtr, neu Warden, neu ben Rheolwr rhyw Eglwys Gadeiriol neu Golegol, a drigfanna yn ei ddyweddedig Eglwys Gadeiriol neu Golegol, bedwar ugain a deg o ddyddiau o leiaf, *conjunctim* neu *diviſim* bob blwyddyn, ac yna a fydd yno 'n pregethu Gair Duw, ac yn dylyd Lletteugarwch da, oni bydd arno rwyſtr yn amgenach trwy ddirfawr achoſion pwyſfawr, a farner eu bod felly gan Eſgob yr Eſgobaeth, neu gael o hono Ryddid yn rhyw fodd cyfreithlon arall. A phan fo 'n breſennol, efe ynghŷd â'r Canoniaid neu 'r Prebendariaid trigiannol eraill a ofalant yn bendifaddeu fod cadw 'n ddieſgeulus Ordinhadau a Defodau canmoladwy eu Heglwys (cyd na bônt wrthwyneb i Air Duw, neu 'r Rhagor-traint Frenhinol) Y ſtatutau 'r Deyrnas hon ſy mewn grŷm ynghŷlch Treſn Eglwyſig, a phob Goſodedigaethau eraill, a oſodwyd allan yn awr ac a gadarnhäwyd trwy Awdurdod y Brenhin, a'r cyfryw a orchymynir yn gyfreithlon gan Eſgob yr Eſgobaeth yn ei ymweliad, yn ôl Statutau a Defodau 'r un Eglwys, neu Gyfreithiau Eglwyſig y Deyrnas hon, a chymmell yr Adcanoniaid, Ficeriaid Côr, a Gweinidogion eraill eu Heglwys, i aſtudio 'r yſgrythur lân, a bod gan bob un o honynt y Teſtament Newŷdd nid yn unig yn *Gymraeg*, eithr yn *Lladin* heſyd.

43. *Deonau a Phrebendariaid i bregethu tra bônt yn drigiannol.*

Y Deon, Meiſtr, Warden, neu Ben-rheolwr, Prebendariaid a Chanoniaid ym mhob Eglwys Gadeiriol a Cholegol, a bregethant eu hunain, nid yn unig cyn fynyched ag y maent yn rhwym wrth Gyfraith, Statut, Ordinhâd neu Ddefod, eithr heſyd a bregethant mewn Eglwyſi eraill o'r un Eſgobaeth lle bônt yn byw, ac yn enwedig yn y lleoedd hynny o ba rai y dêl iddynt hwy neu i'w Heglwys ryw Rent neu Gynnyrch blynyddol: ac o's byddant hwy eu hunain yn gleiſion, neu ar achos cyfreithlon yn abſennol, hwy a oſodant y cyfryw Bregethwŷr cenhadol i'w dirprwyo ag a dybio Eſgob yr Eſgobaeth yn addas i bregethu mewn Eglwyſydd Cadeiriol. Ac o's neb yn amgen a eſgeuluſa neu a baid â chyflawni ei gylch fel y rhag-ddywedwyd, cosber y Camweddwr gan yr Eſgob, neu gan y ſawl y perthyn Llywodraeth yr Eglwys honno iddo, yn ôl anſawdd y Camwedd.

44. *Prebendariaid i fyw yn eu Heglwyſi.*

NI chaiff na Phrebendariaid na Chanoniaid, mewn Eglwyſi Cadeiriol neu Golegol, a chanddynt un neu 'chwaneg o leoedd â Chûr (ac heb fod yn cartrefu yn yr Eglwyſydd Cadeiriol neu Golegol hynny) dan eſgus eu Prebendau hynny, fod allan o'u Lleoedd â Chûr, yn hwy nâ miſgwaith yn y flwyddyn, oddi eithr ar ryw achos angenrheidiol a thros amſer pennodol, boddlon gan Eſgob yr Eſgobaeth. A'r cyfryw o'r unrhyw Ganoniaid a Phrebendariaid, ag y ſy wrth Ordinhadau eu dywededig Eglwyſau Cadeiriol neu Golegol yn rhwym i fyw ynddynt, a rannant ac a ddosbarthant ſelly rhyngddynt amſerau 'r flwyddyn, ynghŷlch Trigiannoliad yn yr Eglwyſi hynny, ſel y bo rhai o honynt hwy eu hunain yn byw yno bob amſer: a phawb a'r y ſydd neu a fydd drigiannol mewn rhyw Eglwys Gadeiriol neu Golegol, wedi y darffo dyddiau eu Trigiannoliaeth rhag-derfynedig wrth Statutau a Defodau eu lle, a gyrchant yn ebrwydd i'w Heglwyſi, neu i ryw un o honynt, neu at ryw Ofalaeth arall, lle mae 'r Gyfraith yn gofyn iddynt fod, yno i gyflawni eu Dyledſwyddau yn ôl y Cyfreithiau a oſodwyd ar fedr hynny. A mynned Eſgob yr Eſgobaeth weled cyflawni a chwplâu hynny 'n ddyladwy.

45. *Pregethwŷr meddiannol yn byw yn eu Heglwyſi i bregethu bob Sul.*

POb Gŵr meddiannol cymmeradwy i bregethu, ac yn byw yn ei Feddiant, heb ddim rhwyſtr cyfreithlon, a bregetha yn ei Gûr ei hun, neu mewn rhyw Eglwys neu Gapel arall cyfagos, lle y gallo 'n gyfleûs (lle ni bo Pregethwr) un Bregeth bob Sul yn y flwyddyn, a chyfranned ynddi Air y Gwirionedd yn bûr ac yn bwyllog, er Gogoniant Duw, a mwyaf llês ac adeiladaeth i'r bobl.

46. *Gwŷr meddiannol ni bônt yn Bregethwŷr i fynnu Pregethau bob mis.*

MYnned pob Gwr meddiannol ni chymmeradwywyd i bregethu, Bregethwr a genhadwyd yn gyfreithlon, i bregethu yn ei Gûr unwaith o leiaf ym mhob mîs, o's gall ei le ef ym marn yr Ordinari oddef hynny. Ac ar bob Sûl na bo un Bregeth yn ei Gûr ef, darllened efe neu ei Gurad ryw un o'r Homiliau a oſodwyd, neu a oſodir trwy Awdurdod i'r dibenion rhag-ddywededig.

47. *Abſen Gwŷr meddiannol i'w gyflawni gan Guradiaid cymmeradwy i bregethu.*

MYnned pob Gŵr meddiannol, a genhadwyd trwy Gyfreithiau 'r Deyrnas hon, ar achoſion Gwaſanaeth arall yn gwaſgu arno, i fyw allan o'i le, Gurad i'w ddirprwyo, a fo 'n Bregethwr abl a chenhadol, o's cyrrhaedd ei Rent i hynny. Ond pwy bynnag ſy ganddo ddwy Eglwys, cadwed Bregethwr cenhadol yn yr Eglwys nad yw efe 'n drigiannôl, oni bydd yn gynnefin o bregethu yn y ddwy ei hunan.

48. *Dim Curadiaid ond a Gymmeradwyir gan yr Eſgob.*

NI chaiff un Curad na Gweinidog waſanaethu mewn un lle, heb gael ei holi a'i dderbyn gan Eſgob yr Eſgobaeth, neu gan Ordinari 'r lle, ag Awdurdod Eſgob ganddo, a chael o hono heſyd Dyſtiolaeth yn 'ſgriſennedig dan Law a Sêl yr Eſgob neu 'r Ordinari hwnnw, gan yſtyried maint y Cûr, a chyfaddaſrwydd y dŷn. Ac ni oddefir i'r Curadiaid a'r Gweinidogion hynny, o's ſymmudant o'r naill Eſgobaeth i'r llall, er dim waſanaethu heb Dyſtiolaeth Eſgob yr Eſgobaeth, neu Ordinari 'r lle y daethant o hono, fel o'r blaen, mewn yſgrifen, o'u Honeſtrwydd, eu Gallu a'u Cŷd-ymffurfiad â Chyfreithiau Eglwyſig Teyrnas *Loegr*. Ac ni chaiff neb chwaith waſanaethu mwy nag un Eglwys neu Gapel yn yr un dydd, oddi eithr bod y Capel

hwnnw

hwnnw yn aelod o'r Eglwys Blwyf, neu 'n gyfſylltedig wrthi; ac oddi eithr na bo 'r ddywededig Eglwys neu Gapel lle y gwaſanaetho 'r cyfryw Weinidog ddau le, yn abl i gadw Curad, ym marn yr Eſgob neu 'r Ordinari, ſel y dywedwyd.

49. Na chaiff Gweinidogion, heb eu cymmeradwyo 'n bregethwŷr, esbonio.

NId oes i un Dŷn pwy bynnag, heb ei holi a'i gymmeradwyo gan Eſgob yr Eſgobaeth, neu heb ei genhadu, ſel y dywedwyd, i fod yn Bregethwr abl ac addas, gymmeryd arno eſbonio yn ei Gûr ei hun, nac yn un lle arall, un Yſgrythur neu fatter o Athrawiaeth, ond ceiſio 'n unig ddarllain yn eglur ac yn gymmwys (heb na deongli na 'chwanegu) yr Homiliau a oſodwyd eiſioes allan, neu a oſoder rhag llaw trwy Awdurdod gyfreithlon, er cadarnhâu y wir ffydd, ac er Athrawiaeth dda, ac Adeiladaeth y Bobl.

50. Na adawer i Ddieithriaid bregethu heb ddangos eu Cennad.

NA adawed na 'r Gweinidog, y Wardeniaid, na neb arall o Swyddogion yr Eglwys, i un Gûr bregethu yn eu Heglwyſydd neu eu Capeli, ond y cyfryw a ddangoſo iddynt, (ſel y dywedwyd uchod) eu Cennad, a'u bod mewn cyflawn Awdurdod i bregethu.

51. Na adawer Dieithriaid i bregethu mewn Eſlwyſs Cadeiriol heb ddigon o Awdurdod.

NA ddioddefed Deoniaid, Rhaglawiaid, a Thrigiannolion un Eglwys Gadeiriol neu Goleg˘ol i un gûr dieithr bregethu i'r bobl yn eu Heglwyſau, oddi eithr ei fod wedi ei gymmeradwyo gan Arch-eſgob y Dalaith, neu gan eſgob yr un Eſgobaeth, neu gan un o'r Prif-Yſgolion. Ac o's cyhoedda un yn ei Bregeth ryw Athrawiaeth, naill ai dieithr neu anghyttunol â Gair Duw, neu ag un o'r Erthyglau Creſydd a gyttunwyd arnynt yn y Senedd-dy, *Anno* 1562. neu â'r Llyfr Gweddi Gyffredin; y Deon, neu 'r Trigianolion wrth eu Llythyrau oddi tan ddwylaw rhai a'i clywſant ef, cyn gynted ag aller, a rybuddiant Eſgob yr Eſgobaeth o'r peth, ſel y gallo eſe ddibennu a threfnu 'r matter ſel y gwelo 'n gymheſur.

52. Enwau Pregethwŷr dieithr i'w nodi mewn Llyfr.

FEl y deallo 'r Eſgob (o's bydd achos) pa Bregethau a wneler ym mhob Eglwys o'i Eſgobaeth, a phwy ſy 'n rhyfygu pregethu heb Gennad, edryched y Wardeniaid a'r Cynnorthwywŷr am yſgrifennu Enwau 'r holl Bregethwŷr a ddêl i'w Heglwys o un lle arall, mewn Llyfr, a ddarparant i hynny; ym mha un yſgrifenned pob Pregethwr ei Enw, y dŷdd y pregethodd, ac Enw 'r Eſgob a roes iddo Gennad i bregethu.

53. Dim Gwrthwyneb cyhoedd rhwng Pregethwŷr.

O'S â un Pregethwr yn y Pulpyd yn bennodol, neu 'n enwedigol o'r gwaith goddeu, i wrthddadleu neu ddiſprofi un Athrawiaeth a draddodwyd gan unrhyw Bregethwr arall yn yr un Eglwys, neu mewn un Eglwys gyfagos, cyn iddo hyſbyſu 'r peth i Eſgob yr Eſgobaeth a chael ei Hyfforddiad ef beth i'w wneuthur yn yr achos hwnnw, o herwŷdd y dichon y cyfryw wrth-reſymmu, ac anghydſynniad cyhoedd godi llawer o rwyſtr ac aflonyddwch i'r bobl; y Wardeniaid, neu 'r hwn a fliner, a hyſbyſant y peth yn ebrwydd i'r Eſgob dywededig, ac ni ollyngant y dywededig Bregethwr mwy i'r lle hwnnw a gam-arferodd eſe unwaith, oddi eithr iddo addo 'n ffyddlon beidio â phob cyfryw ddeunydd Ymrafael yn yr Eglwys, hŷd oni threfno 'r Eſgob y peth ym mhellach, yr hyn a wnâ eſe yn gyntaf ag allo byth yn gyfleus, ſel y gwneler boddlondeb cyhoedd yn y Gynnulleidfa lle y rhoifid y rhwyſtr. Darparer, o's appêla un o'r ddwy blaid, na chaiff eſe bregethu, *pendente lite.*

54. Cenhadau Pregethwŷr anghydffurfiol i fod yn ddirym.

O'S rhyw un a genhadwyd cyn hyn i bregethu, gan ryw Arch-eſgob, Eſgob, neu gan un o'r Prif-Yſgolion, a ommedd un amſer o hyn allan gŷd-ymffurfio a Chyfreithiau, Ordinhadau a Chynheddfau Eglwyſig, a ſeſydlwyd yn Eglwys *Loegr*, rhybuddier ef gan Eſgob yr Eſgobaeth, neu Ordinari 'r lle i ymoſtwng i wneuthur ac arfer yr unrhyw yn ddyladwy. Ac o's eſe, wedi 'r cyfryw rybudd, ni chŷd-ymffurfia o fewn yſbaid un mis, yr ym ni 'n trefnu ac yn ordeinio fod Cennad pob cyfryw Bregethwr yn llwyr oferwag a dirym.

55. Ffurf Gweddi i'w harfer gan Bregethwŷr o flaen eu Pregeth.

O Flaen pob Pregeth, Lectur, a Homili, y Pregethwŷr a'r Gweinidogion a gynhyrfiant y Bobl i gŷd-uno â hwy mewn Gweddi, yn y Ffurf hon, neu 'r cyffelyb, cyn fyrred ag y gallont yn gyflëus. *Gweddiwch dros Eglwys lân Gatholig Criſt, hynny yw, dros holl Gynnulleidfa 'r Bobl Griſtianus ſy ar waſgar trwy 'r holl Fŷd, ac yn enwedig dros Eglwyſs* Lloegr, Scotland, *a'r* Iwerddon. *Ac yn hyn yr ŵyf yn gofyn i chwi yn enwedicca ſ weddio dros Arddercboccaſ Fawrhydi 'r Brenhin, ein Goruchaf Arglwydd* IAGO, *Brenhin* Lloegr, Scotland, Ffraingc *a'r* Iwerddon, *Amddiffynnydd y Ffŷdd, a Goruch-Benllywiawdr yn ei Deyrnaſoedd hyn, a'i holl Arglwyddiaethau a'i Wledydd eraill, dros bawb ym mhob Achoſion, yn gyſtal Eglwyſig ac amſerol. Gweddiwch hefyd dros ein graſuſol Frenhines* ANN, *yr Arddercbog Dywyſog* HARRI, *a'r relyw o Frenhinol Eppil y Brenhin a'r Frenhines. Gweddiwch hefyd dros Weinidogion Cyſſegr-lân Air Duw a'i Sacramentau, yn gyſtal Arch-eſgobion ac Eſgobion, a Bugeiliaid, a Churadiaid eraill. Gweddiwch hefyd dros anrhydedduſaf Gynghor y Brenhin, a thros holl Fonedd a Phen-ſwyddogion y Deyrnas hon, ſel y gwaſanaetho pawb a phob un o'r rhain yn eu hamryw Alwedigaethau yn gywir ac yn boenus er Gogoniant Duw, ac er adeiladu ac iawn lywodraethu ei bobl, gan gofio 'r Cyfrif a orfydd iddynt roddi. Gweddiwch hefyd dros holl Gyfredin y Deyrnas hon, ar iddynt fyw yngwîr Ffŷdd ac Ofn Duw, mewn goſtyngedig Ufudd-dod i'r Brenhin, a Chariad brawdol tu ag at eu gilydd. Yn ddiweddaf, Clodforwn Dduw am y rhai oll a ymadawſant â'r Bywyd hwn yn Ffŷdd Griſt, gan weddio ar i Dduw roi i ninnau Râs i gyfeirio ein Buchedd au yn ôl eu Sampl dda hwy: ſel pan ddaniô 'r bywyd hwn y caſom ſod yn gyfrannogion gyd â hwynt o'r Adgyfodiad gogoneddus yn y Fuchedd dragywyddol*; Gan ddiweddu 'n waſtad â Gweddi 'r Arglwydd.

56. Pregethwŷr a Lecturwŷr i ddarllain Gwaſanaeth Duw, a gweini 'r Sacramentau o leiaf ddwy waith yn y flwyddyn.

POb Gweinidog a ſo berchen Eglwys â Chûr a Gofal Eneidiau, er ei fod yn bennaf yn gwilio ar bregethu, a chanddo Gurad dano i gyflawni 'r Dyledſwyddau eraill ſydd i'w cwplâu droſto eſ yn yr Eglwys, ac hefyd pob Pregethwr cyflogedig arall a ddarlleno un Lectur, neu a Gateciſo, neu a bregetho mewn un Eglwys neu Gapel, a ddarllyn ei hunan Waſanaeth Duw, ddwywaith o leiaf, bob blwyddyn, ar ddau Sûl gwahanredol, ar gyhoedd,

ac ar yr amſerau arferedig, fore a phrydnhâwn hefyd yn yr Eglwys y mae efe ſelly yn ei pherchenogi, neu lle y mae efe 'n darllain, yn Cateciſo, neu 'n pregethu, (fel y dywedwyd) ac hefyd a weina, cyn ſynyched bob blwyddyn y Sacramentau, Bedydd (o's bydd neb i'w fedyddio) a Swpper yr Arglwydd, yn y cyfryw ddull a ffurf, a chan gadw pob rhyw Gynheddfau a Seremoniau ar y ſy 'n oſodedig i hynny yn y Llyfr Gweddi Gyffredin: yr hyn oni chwplâ efe 'n ddyladwy, yna 'r ſawl a ſo 'n berchennog o Le, (fel o'r blaen) a orſodogir: a'r hwn nad yw ond Darllenwr, Pregethwr neu Gateciſwr, a droir allan o'i le gan Eſgob yr Eſgobaeth, nes iddo efe neu hwynt ymoſtwng i gyflawni 'r holl Ddyledſwyddau hynny, yn y fath ddull a modd ag y ſy 'n rhag-derfynedig.

57. *Na wrthoder y Sacramentau o ddwylaw Gweinidogion na bônt yn pregethu.*

LLe mae amryw ddynion wedi eu hudo gan gau Athrawon, yn llyſu bedyddio eu plant gan Weinidog na bo 'n Bregethwr, na derbyn y Cymmun bendigaid o'i ddwylaw ef ar yr un achos, mal pe ſafai rhinwedd y Sacramentau hynny ar ei allu ef i bregethu: yn gymmaint a bod Athrawiaeth Bedydd a Swpper yr Arglwydd wedi ei rhoi i lawr mòr ddigonol yn y Llyfr Gweddi Gyffredin ſydd i'w arfer wrth waſanaethu 'r Sacramentau hynny, fel na ellir ychwanegu dim atto a'r y ſy 'n ddefnyddiol ac yn angenrheidiol: Yr ŷm yn erchi ac yn gorchymmyn i bawb a'r a hudwyd fel y crybwyllwyd, wellhâu eu cyndynrwydd hwnnw, ac ymoſtwng i dreſn yr Eglwys yn hynny, gan fod y ddau Sacrament crybwylledig o'r un grŷm, pa un bynnag ai Gweinidog a ſo 'n Bregethwr, neu ynte un na fyddo 'n Bregethwr a'i gweinio. Ac o's troſedda rhai yn hyn rhag llaw, neu adael eu Heglwys Blwyf eu hunain o achos hynny, a Chymmuno neu beri bedyddio eu plant allan mewn Plwyfau eraill, ac ni chyffroant wrth hynny i wellhâu eu Hamryfuſedd, a'u ffordd anghyfreithlon honno: Preſentier hwynt i Ordinari 'r lle gan y Gweinidog, y Wardeniaid, y Cynnorthwywŷr, neu Ymoſynwŷr eu plwyfau trigiannol, ac yno derbynient y fath gôſb trwy farnau Eglwyſig, ag a haeddai 'r cyfryw yſtyfnigrwydd yn deilwng: hynny yw, o's parhânt yn eu Pen-galedwch, gorſodoger hwynt, ac yna ym mhen mîs ym mhellach o Gyndynrwydd, yſgymmuner hwynt. Ac hefyd, o's un Perſon, Ficer, neu Gurad, wedi cyhoeddi hyn, naill ai a dderbyn i'r Cymmun neb o'r cyfryw ddynion nad ŷnt o'i Eglwys a'i Blwyf ei hun, neu a fedyddia un o'u plant, i'w cadarnhâu ſelly yn eu Hamryfuſeddau crybwylledig: gorſodoger, ac na ryddhaer ef oddi wrtho, nes iddo addo 'n ffyddlon na throſeddo yn hynny mwy.

58. *Gweinidogion wrth ddarllain Gwaſanaeth Duw, a gweini 'r Sacramentau, i wiſgo Gwîn-wiſgoedd, a'r rhai Graddol Hydiau hefyd.*

POb Gweinidog yn dywedyd y Gweddiau cyhoedd, neu yn gwaſanaethau 'r Sacramentau neu Gynheddfau eraill yr Eglwys, a wiſg Wen-wiſg â llewys hardd a gweddaidd, i'w darparu ar goſt y Plwyf. Ac o's cyfyd un ddadl ynghŷlch ei deunydd, ei gweddeidd-dra, neu ei harddwch hi, terfyner hynny trwy ddoethineb yr Ordinari. Ym mhellach y cyfryw Weinidogion ag ydynt Raddolion, a wiſgant y cyfryw amſerau ar eu Gwenwiſgau y cyfryw Hydiau ag y ſy wrth dreſnau 'r Prif-Yſgolion yn berthynol i'w graddau, y rhai ni wiſg un Gweinidog (na bo graddol) dan boen Gorſodogaeth. Er hynny, bid rŷdd i'r cyfryw Weinidogion a'r nad ŷnt Raddolion, wiſgo ar eu Gwenwiſgau, yn lle Hydiau, ryw dipped gweddus o ddu, tra na bo 'n Sidan,

59. *Gweinidogion i Gateciſo bob Sûl.*

HOled pob Perſon, Ficer neu Gurad, ar bob Sûl, a Gwyl, cyn Goſber, y rhai ieuainge ac anwybodus o'i Blwyf, dros hanner awr neu ychwaneg, yn y deg Gorchymmyn, Pyngciau 'r Ffydd, ac yng Ngweddi 'r Arglwydd: a gwrandawed, hyfforddied, a dyſged yn ſanwl iddynt y Catechiſm a oſodwyd allan yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. A phared pob Tâd, Mam, Meiſtr a Meiſtres, i'w Plant, eu Gwaſanaeth-ddynion, a'u Prentiſiaid, ſy heb fedru eu Catechiſm, ddyfod i'r Eglwys ar yr amſer pwyntiedig, i wrando 'n ufudd, ac i'w treſnu gan y Gweinidog, hŷd oni ddyſgont eu Catechiſm. Ac o's eſgeuluſa un Gweinidog ei Ddyled yn hyn, ceryddер ef yn llŷm ar yr Achwyn cyntaf, a rhodder hysbyſrwydd cywir o hono i Eſgob neu Ordinari 'r lle. O's efe, wedi ymoſtwng, a droſedda eilwaith o'i ſodd yn hynny, gorſodoger ef. O's ſelly y drydedd waith, gan nad oes nemmawr o obaith y gwellhâ efe yn hynny, yna yſgymmuner ef, ac arhoſed ſelly hŷd oni wellhao. Ac hefyd, o's eſgeuluſa un o'r dywededig Dadau, Mammau, Meiſtri neu Feiſtreſi, Plant, Gwaſanaeth-ddynion neu Brentiſiaid, eu Dyledſwyddau, megis y naill fath, trwy beidio peri iddynt ddyfod, a'r llall trwy ommedd dyſgu, fel y dywedwyd; gorſodoger hwynt gan eu Hordinariaid (tra na bônt blant) ac o's parhânt ſelly dros fis, yna yſgymmuner hwynt.

60. *Bedydd Eſgob i ſod unwaith bob tair blynedd.*

YN gymmaint ag mai hên Arfer arbennig a chanmoladwy yn Eglwys Dduw, a bu hâwyd er amſer yr Apoſtolion, oedd bod i bob Eſgob ddodi ei ddwylaw ar blant wedi eu bedyddio a'u dyſgu yng Ngwyddorion y Grefydd Griſtianogol, gan weddio droſtynt, a'u bendithio, yr hyn a alwn ni 'n gyffredin *Bedydd Eſgob* neu *Confirmaſwn*; ac yr arferid cyflawni y weithred ſanctaidd hon yn yr Eglwys yn y cyn-oeſoedd, ar Ymweliad yr Eſgob, bob tair blynedd: Yr ydym yn erchi ac yn gorchymmyn, i bob Eſgob, neu ei Suffragan ar ei ddefodol Ymweliad, gadw 'n ofalus ei hunan y ddefod ddywededig. Ac oni ddichon efe 'r flwyddyn honno o achos rhyw wendid, ymweled ei hunan, yna na eſgeuluſed gyflawni 'r Ddyledſwydd honno o *Confirmaſwn* y flwyddyn neſaf wedi, fel y gallo yn gyflëus.

61. *Gweinidogion i barottôi plant i'w Confirmio.*

CYmmered pob Gweinidog a ſo a Chûr a Gofal Eneidiau ganddo, er mwyn cwplâu 'n well y Treſnau a oſodwyd yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, ynghŷlch Bedydd Eſgob, ofal yn enwedig na chyflwyner neb i'r Eſgob i ddodi ei ddwylaw arnynt, ond a fedro roi cyfrif am eu ffŷdd yn ôl y Cateciſm a gŷnhwyſir yn y Llyfr hwnnw. A phan bennodo 'r Eſgob ryw brŷd i gyflawni y rhan honno o'i Ddyledſwydd, pob cyfryw Weinidog a wnâ ei oreu er parottôi a chymhwyſo, a'r un ffunud er mynnu cynnifer ag a allo i'w dwyn y tro hwnnw i'w confirmio gan yr Eſgob.

62. *Gweinidogion i beidio priodi neb rhai beb Oſlegion neu Gennad.*

NA phrioded un Gweinidog, dan boen Gorſodogaeth *per triennium ipſo facto*, neb heb gael Gallu neu Gennad, gan rai o'r Gwŷr a hysbyſir yn ein Goſodedigaethau hyn, oddi eithr cyhoeddi 'n gyntaf y Goſtegion Priodas ar dri Sûl gwahanredol neu Wyliau ar brŷd Gwaſanaeth Duw, yn yr Eglwyſi Plwyfol, neu 'r Capeli lle bo 'r dywededig bleidiau yn byw, yn ôl y Llyfr Gweddi Gyffredin. A than yr un perygl, na chyſſyllted

un

un Gweinidog, dan un lliw nac eſgus pwy bynnag, neb mewn Prïodas a genhader felly mewn un anamſer, ond yn unig rhwng yr oriau o wyth a deuddeg y boreu, nac mewn un lle neillduol, eithr yn un o'r Eglwyſi neu 'r Capeli dywededig lle bo un o honynt yn byw, ac hefyd ar brŷd Gwaſanaeth Duw: na chwedi goſyn eu Goſtegion deirgwaith (ac am hynny heb raid wrth un Gennad) cyn i Rieni neu Lywodraethwŷr y rhai a ſo i'w priodi (o's byddant dan un mlwydd ar hugain oed) naill ai eu hunain, neu trwy ddigon o dyſtiolaeth, hysbyſu iddo eu cŷd-ſyniad i'r ddywededig Brïodas.

63. *Gweinidogion Eglwyſi rhydd i beidio prïodi heb Oſtegion neu Gennad.*

POb Gweinidog a brïodo neb rhag llaw yng ngwrthwyneb i'n Goſodedigaethau crybwylledig, neu un rhan o hynynt, dan eſgus rhyw hyſbyſol Ryddid neu Ragor-ſraint a gleimir fod yn perthyn i rai Eglwyſydd a Chapeli, a orfodogir *per triennium*, gan Ordinari y lle y gwneler y Camwedd. Ac o's ſymmud un Gweinidog wedyn o'r lle y gwnaeth eſe 'r bai hynny, cyn ei orfodogi, fel y dywedwyd, yna Eſgob yr Eſgobaeth, neu Ordinari 'r Lle y bo 'n byw, ar Hysbyſrwydd o dan law a Sêl yr Ordinari arall, o Lywodraeth yr hwn y ſymmudodd eſe, a gyflawna 'r Gôsb honno arno ef.

64. *Gweinidogion i rybuddio Gŵyliau yn barchus.*

POb Perſon, Ficer neu Gurad yn ei wahanredol ofalaeth, a fynega i'r bobl bob Sûl, ar y prŷd goſodedig yn Llyſr y Cymmun o bydd na Gŵyliau na dyddiau Ympryd yn yr wythnos rhag ŵyneb. Ac o's gwnâ neb ar fai yn hyn rhag llaw o'i wirfodd, ac wedi ei rybuddio unwaith o'i blegid gan ei Ordinari, a eſgeuluſa eilwaith y Ddyledſwydd honno, cosber ef yn ôl Cyfraith, hŷd oni ymoſtyngo i'w chwplâu 'n ddyladwy.

65. *Gweinidogion i gyfredin gyhoeddi Ymwrthodwŷr ac Yſgymmunwŷr.*

GOfaled a threſned yr holl Ordinariaid yn eu hamryw Swyddogaethau, yn gyſtal i'r rhai am naccau 'n gyndyn gyrchu i Waſanaeth Duw a ſefydlwyd trwy Awdurdod gyhoedd yn y Deyrnas hon o *Loegr*, a'r ſawl hefyd (yn enwedig o'r fâth a'r cyflwr goreu) y ſy am Yſtyfnigrwydd rhempus, neu ryw feiau hynodol eraill dan gyfreithlon Yſgymmundod (oni wellhânt o fewn tri mis neſaf ar ôl datcan y ddywededig farn Yſgymmundod i'w herbyn, a chael o honynt fuddiant Gollyngdod) gael bob chwê mis wedi, yn gyſtal yn yr Eglwys Blwyf, ag yn Eglwys Gadeiriol yr Eſgobaeth y maent yn byw, gan y Gweinidog ryw Sûl ar brŷd Gwaſanaeth Duw ar gyhoedd eu datgan a'u cyhoeddi 'n yſgymmunedig, fel y rhybuddier eraill ſelly i ymwrthod â'u Cyfeillach a'u Cymdeithas, a'u cyffrôi 'n hytrach i geiſio Gwrit *De Excommunicato Capiendo* i'w dwyn trwy hynny a dyfod â hwy 'n ôl i iawn dreſn ac ufudd-dod. Hefyd Cofiadur pob Llŷs Eglwyſig, bob blwyddyn rhwng gŵyl *Fibangel* a'r *Nadolig*, a hysbyſa 'n ddyladwy i Arch-eſgob y Dalaith, y cwbl a phob un o'r pethau rhag-ddywededig uchod.

66. *Gweinidogion i ymreſymmu ag Ymwrthodwŷr.*

POb Gweinidog a fo 'n Bregethwr, a chanddo Ymwrthodwr neu ymwrthodwŷr Pabaidd yn ei Blwyf, ac a dybir yn addas gan Eſgob yr Eſgobaeth, a ymboena 'n ddiwyd wrthynt o amſer bwygilydd, ar eu troi ſelly oddi wrth eu Hamryfuſeddau. Ac oni bydd eſe 'n Bregethwr, neu 'n gyfryw Bregethwr, yna eſe a gais o bydd boſſibl, rai a fo 'n Bregethwŷr wedi eu cymhwyſo ſelly, i ymboeni wrthynt er mwyn hynny. Yna, oni fedr gael neb, hysbyſed y peth i Eſgob yr Eſgobaeth, yr hwn nid yn unig a bennoda ryw Bregethwr neu Bregethwŷr o'r Gymmydogaeth, i gymmeryd y poen hynny wrthynt, eithr eſe ei hunan hefyd (ſel y bo ei Fatterion pwysfawr yn caniattâu iddo) a ymegnïa i wneud ei oreu trwy gynghori ac eiriol a thrwy bob moddion da a fedro ddychymmyg, i'w troi hwy a phawb o'r cyffelyb feddwl a ſo yn ei Eſgobaeth.

67. *Gweinidogion i ymweled â'r cleiſon.*

PAn fo rhyw un mewn rhyw Blwyf yn glaf enbyd, aed y Gweinidog neu 'r Curad (wedi cael rhybudd) atto ef neu hi, (onid yw 'n hysbys neu 'n dra-thybygol fod y Clefyd yn lynol) i'w cynghori a'u diddanu yn eu cyfyngder, yn ôl Trefn Llyſr y Cymmun, oni bydd eſe 'n Bregethwr: neu o's bydd eſe 'n Bregethwr, yna yn y modd y gweló eſe 'n fwyaf angenrheidiol a chymmwys. A phan fo un yn ymadael â'r bywyd hwn, caner Clôch, ac yna na eſgeuluſed y Gweinidog wneud ei Ddyledſwydd olaf. Ac wedi marwolaeth y claf (o's ſelly y digwydd) ni chenir ond un Gnùl ſêr, ac un arall cyn y Gladdedigaeth, ac un arall wedi 'r Gladdedigaeth.

68. *Gweinidogion i beidio pallu bedyddio neu gladdu.*

NA phalled ac nac oeded un Gweinidog ſedyddio un Plentyn yn ôl ffurf y Llyſr Gweddi Gyffredin, a ddyger i'r Eglwys atto ar Suliau neu Wyliau i'w ſedyddio, neu gladdu un Corph a ddyger i'r Eglwys neu 'r Fynwent (wedi cael digon o rybudd o'r blaen) yn y cyfryw dreſn a dull ag a oſodwyd yn y dywededig Lyſr Gweddi Gyffredin. Ac o's pall eſe ſedyddio 'r naill neu gladdu 'r llall, oddi eithr bod y ſawl a fu farw wedi ei gyhoeddi 'n yſgymmun *Majori Excommunicatione*, am ryw fai gorthrwm a gwaradwyddus (ac heb neb a ddichon dyſtiolaethu iddo edifarhâu) gorſodoger ef o'i Weinidogaeth dros dri mis gan Eſgob yr Eſgobaeth.

69. *Gweinidogion i beidio oedi bedyddio, o's bydd y Plentyn mewn perygl.*

O'S un Gweinidog wedi cael rhybudd dyladwy a dinam, fod gwendid a pherygl marwolaeth ar un Plentyn a ſo heb ei ſedyddio yn ei Blwyf, a dymuno arno ar hynny fyned neu ddyfod i'r lle y bo 'r dywededig Blentyn, i'w ſedyddio ef, naill ai a ommedd o'i lwyr fodd, neu o'r gwaith goddeu, neu o wir ddiofalwch a oeda ſelly 'r amſer cyhyd ag y darfyddai iddo 'n gyflëus gyrchu i'r fan a hedyddio 'r dywededig Blentyn, ac iddo farw trwy 'r cyfryw ei fai ef heb ſedydd; y cyfryw Weinidog a orfodogir dros dri mis, a chyn ei gymmod a gydnebydd ei fai, gan addo ger bron ei Ordinari, na rêd o'i fodd i'r unrhyw mwy. Darparer, lle y bo Curad, neu un dan arall, na chyrhaedd yr Oſodedigaeth yma mo 'r Perſon neu 'r Ficer ei hun, ond y Curad a ſo dano ef yn breſennol.

70. *Gweinidogion i gadw Côf-lyſr Bedyddiau, Prïodaſau, a Chladdedigaethau.*

YM mhob Eglwys Blwyf a Chapel o fewn y Deyrnas hon, darparer un Llyſr memrwn ar gôſt y Plwyf, yn yr hwn yr yſgrifennir y dydd a'r flwyddyn y bu pob Bedydd, Priodas a Chladdedigaeth yn y Plwyf hwnnw er y prŷd y gwnaed y Gyfraith gyntaf ynghŷlch hynny, cyn belled ag y galler cael ei hên Lyſr hi, eithr yn enwedig er de-

chreu

chreu Teyrnaſiad ein diweddar Frenhines. Ac er cadw y dywededig Lyfr yn ddiogel, y Wardeniaid ar gôſt y Plwyf a ddarparant un Coffr cadarn, â thri Chlo ac agoriadau arno, un o honynt i fod gyd â'r Gweinidog, a'r lleill, un gyd â phob Warden; modd na allo na 'r Gweinidog heb y ddau Warden, na 'r Wardeniaid heb y Gweinidog un amſer gymmeryd y Llyfr hwnnw allan o'r Coffr dywededig. Ac ar bob Sul o hyn allan, yn ddiannod ar ôl y Foreuol neu 'r Brydnhawnol Weddi, y Gweinidog a'r Wardeniaid a gymmerant y dywededig Lyfr niemrwn allan o'r Coffr dywededig, a'r Gweinidog yngwydd y Wardeniaid a 'ſgrifenna ac a gôffa yn y Llyfr dywededig Enwau pawb a fedyddiwyd, yng-hŷd ag Enwau a Chyfenwau eu Rhieni, ac hefyd Enwau pawb a briodwyd, ac a gladdwyd yn y Plwyf hwnnw, yn yr wythnos o'r blaen, a'r Dydd a'r Flwyddyn y bu pob cyfryw Fedydd, Priodas a Chladdedigaeth: A phan ddarffo hynny, dodant y Llyfr hwnnw yn y Coffr fel o'r blaen: A 'ſgrifenned y Gweinidog a'r Wardeniaid eu Henwau wrth bob tu dalen o'r Llyfr hwnnw, pan y llanwer â'r Coffeſtri hynny. A'r Wardeniaid unwaith bob blwyddyn, o fewn un mis ar ôl y pummed ar-hugain o *Fawrth*, a anfonant i Eſgob yr Eſgobaeth, neu i'w Ganghellor Gopi cywir o Enwau pawb a fedyddiwyd, a briodwyd, neu a gladdwyd yn eu Plwyf yn y flwyddyn o'r blaen (a ddiweddodd ar y dywededig bummed dydd ar hugain o *Fawrth*) a'r dyddiau a'r miſoedd pennodol, y bu pob cyfryw Fedydd, Priodas a Chladdedigaeth, i'r dywededig Weinidog a'r Wardeniaid roi eu dwylaw wrtho; er mwyn cadw 'r unrhyw yn ddiogel yng Nghoſdy 'r Eſgob dywededig, yr hon Hyſbyſrwydd a dderbynir yn ddi-ffi. Ac o's eſgeuluſa 'r Gweinidog neu 'r Wardeniaid gyflawni dim a'r y ſydd yma 'n ſynnwyſedig, bid rydd i'r Eſgob neu i'w Ganghellor eu cyrchu, ac erlyn pob un o honynt oll fel Dirmygwŷr ein Goſodedigaeth hon.

71. *Gweinidogion i beidio pregethu na gwaſanaethu 'r Cymmun mewn tai neilldnol.*

NA phregethed un Gweinidog, ac na weined y Cymmun bendigaid mewn tŷ neilldnol, oddi eithr bod hynny ar amſeraŭ Anghenraid, pan ſo un naill ai mòr wàn nâ's gall ddyfod i'r Eglwys, neu mewn clefyd tra pheryglus, yn chwennych bod yn gyfrannog o'r Sacrament ſanctaidd hwnnw, dan boen Goſodogaeth am y Bai cyntaf, ac Yſgymmundod am yr ail. Darparer, y bernir yma 'n Dai priod, ym mhâ rai nid oes dim Capeli wedi eu cyſſegru a'u cymmeradwyo gan Gyfreithiau Eglwyſig y Deyrnas hon. A darparer hefyd, na bo i un Caplan, dan y boen rag-ddywededig, bregethu na gweini 'r Cymmun mewn dim lleoedd eraill, onid yng Nghapeli y tai hynny, ac hefyd na wnelont hynny yno ond yn anfynych, ar Suliau a Gŵyliau: Modd y gallo Perchennogion, a Meiſtraid y Tai hynny, a'u Teuluoedd, ddyfod ar amſerau eraill i'w Heglwyſi Plwyfau eu hunain, a derbyn y Cymmun ſanctaidd yno unwaith o leiaf bob blwyddyn.

72. *Gweinidogion i beidio pwyntio Ymprydiau cyhoedd na neilldnol, na Phrophwydoliaethau, na Thyngbedau, ond trwy Awdurdod.*

NA ryfyged un Gweinidog neu Weinidogion heb gael yn gyntaf Gennad a Hyfforddiad Eſgob yr Eſgobaeth, oddi tan ei law a'i sêl, bwyntio na chadw dim Ymprydiau ar gyhoedd nac mewn tai priod, amgen nag ſy trwy Gyfraith, neu a ſydd trwy Awdurdod gyhoedd yn ordeiniedig, na bod o'i fodd yn breſennol yn un o honynt, dan boen Goſodogaeth am y bai cyntaf, Yſgymmundod am yr ail, a'i ddiſwyddo o'r Weinidogaeth am y trydydd. Ac na ryfyged un Gweinidog heb ei Genhadu, fel y dywedwyd, bennodi na chynnal dim Cyfarfodau i bregethu, a elwir yn gyffredin gan rai yn Brophwydoliaethau, neu 'n Dynghedau, mewn Trefi-marchnad neu leoedd eraill, dan yr un poenau: Na chynnyg heb y cyfryw Gennad ar un eſgus pwy bynnag, naill ai Meddiant neu Berchennogaeth, trwy Ympryd a Gweddi i fwrw allan un Cythraul neu Gythreuliaid, dan boen ei farnu 'n dwyllwr neu 'n hudolwr, a'i ddiſwyddo o'i Weinidogaeth.

73. *Gweinidogion i beidio cynnal Cyfarfodydd neilldnol.*

YN gymmaint a darfod erioed farnu 'n gyfion fod pob mân Gyfarfodau, a dirgel Ymgaſgliadau Offeiriaid a Gweinidogion, yn niweidiol iawn i Stâd yr Eglwys y maent yn byw ynddi; yr ydym yn awr yn ordeinio ac yn goſod, na chaiff neb rhyw Offeiriaid, neu Weinidogion Gair Duw, na neb arall ymgyfarfod mewn un tŷ priod, nac un lle arall, i ymgynghori ynghŷlch un deſnydd neu ffordd i gymmeryd ganddynt hwy, neu gan neb arall ar eu hannogaeth a'u Hyfforddiad hwynt, a dueddo mewn un wêdd i gablu neu ddiſtadlu Athrawiaeth Eglwys *Loegr*, neu 'r Llyfr Gweddi Gyffredin, nac un rhan o'r Rheolaeth a'r Ddiſgyblaeth ſy'n ſefydledig yr awrhon yn Eglwys *Loegr*, dan boen Yſgymmundod *ipſo facto*.

74. *Harddwch mewn Dillad yn orchymynedig i Weinidogion.*

GAn ddarfod i wîr, hên, a blodeuog Eglwyſi Criſt erioed ewyllyſio bod i'r Preladiaid a'u Heglwyſwŷr gael parch oddi allan yn gyſtal a Brifordd arall o ran teilyngdod eu Gweinidogaeth, hwy a dybiaſant yn gymmwys trwy ffurf oſodedig o Wiſgiad hardd a gweddaidd eu hamlygu i'r bobl, fel y derbynient wrth hynny y parch a'r anrhydedd dyledus i hyſbyſol Genhadau a Gweinidogion yr Holl-alluog Dduw: Yr ydym nimau wrth hynny, gan ddilyn eu barn ſynhwyrol hwy, a hên ddefod Eglwys *Loegr*, a chan obeithio y diflanna 'r dull newŷdd-goeg ſy yngwiſgoedd rhai Dynion terfyſgus, o hono, i hun mewn amſer, yn goſod ac yn ordeinio na pheidio Arch-eſgobion ac Eſgobion ag arferu y gwiſgiad ſy'n gynnefin i'w Graddau. Hefyd yr holl Ddeonau, Pen Colegau, Arch-diaconiaid, a Phrebendariaid mewn Eglwyſydd Cadeiriol a Cholegol, a hwy 'n Offeiriaid neu 'n Ddiaconiaid, Doctoriaid Difinyddiaeth, Cyfraith a Phyfygwriaeth, Baglorion Difinyddiaeth, Athrawon Celfyddydau, a Baglorion Cyfraith y bo ganddynt Fywioliaeth Eglwyſig, a wiſgant yn arferol Ynau â Cholerau 'n ſefyll, a llewis cynnwys wrth eu dwylaw, neu lewis helaeth fel yr arferir yn y Prif-Yſgolion, â Hydiau neu Dippedau Sidan neu Sarſned a Chappiau pedwar ochrog. A'r holl Weinidogion eraill a dderbyniwyd, neu a dderbynier i'r Alwedigaeth honno, a wiſgant hefyd yr un Gwiſgiad, fel y dywedwyd, oddi eithr Tippedau 'n unig. Yr ym ni ym mhellach yr un ffunud yn ordeinio fod i'r holl Eglwyſwŷr crybwylledig uchod, arfer gwiſgo yn eu Teithiau, Glogau a Llewis a elwir yn gyffredin Clogau Offeiriaid, heb na Gardiau, Weldiau, Bottymmau hirion na Thorriadau. Ac na wiſged un Gŵr Eglwyſig un Coiff, neu Gap nôs brodiedig, ond yn unig Gapiau-nôs ſyml, o Sidan du, neu Satten, neu Felfed. Ynghŵbl o ba Reolau gwahanredol a oſodwyd yma ynghŷlch Dillad, ein meddwl yw peidio cyfrif dim ſanctteiddrwydd, neu hyſbyſol haeddiant i'r Gwiſgoedd dywededig, onid o ran Harddwch, Sobrwydd, a Threfn, megis y rhag-ddywedwyd. Mewn tai gartref ac yn eu Stafelloedd, fe all y dywededig Eglwyſwŷr arfer un math o Wiſgiad gweddaidd ac yſgolheigaidd, tra na bo gwedi ei dorri neu ei bing-

eio, ac nad elont allan ar gyhoedd yn eu dwhledau a'u hoſanau, heb Gotau neu Gaſſogau, ac heſyd na wiſgont hoſanau o liw goleu. Yr un ffunud rhai tlodion o ychydig Fywioldeth, a Churadiaid (na allent ddarparu iddynt eu hunain ynau llaeſion) a allant wiſgo Gynau cwttaon, o'r dull a ddywedwyd uchod.

75. *Gofyn Ymarwaddiad ſobr mewn Gweinidogion.*

NI chaiff un Gŵr Eglwyſig un amſer, amgen nag er mwyn ei angenrheidiau gweddus tyned i ddim Tafarnau neu Ddiottai, na chwaith fyrddio na llettya yn un o'r cyfryw leoedd. Ym mhellach ni chant ymrôi i weithio un math o waith brwnt neu wael, nac i ddiotta na gloddeſt, na threulio eu hamſer yn ofer ddŷdd na nôs, na chwarae Diſiau, Cardiau, neu Dawlbwrdd, nac mewn un Chwaryddiaeth anghyfreithlon arall: ond ar bob amſer cyfaddas, gwrandawant neu ddarllenant ryw beth o'r Yſgrythur lân, neu gadwant eu hunain ar ryw aſtudwaith neu ymarfer oneſt arall, gan wneuthur bob amſer y pethau a berthyn i oneſtrwydd, ac ymegnïo i wneud llês i Eglwys Dduw, gan gofio 'n waſtad y dylent hwy ragori ar bawb eraill mewn purdeb buchedd, a bod yn Eſamplau i'r bobl i fyw 'n dda ac yn Griſtianogol, dan boen Coſbedigaethau 'r Eglwys i'w rhoi'n doſtlym arnynt, yn ôl y modd y bo eu beiau.

76. *Gweinidogion i beidio ymwrthod un amſer â'u Galwedigaeth.*

NA ymwrthoded neb a wneler yn Ddiacon neu 'n Offeiriad, byth o hynny allan o'i wir fodd â'r unrhyw, ac nac ymddyged gwedyn fel Gŵr lŷg yn chŵyl ei fywyd, dan boen yſgymmundod. A Wardeniaid y Plwyf lle bo 'r cyfryw rai a fo'n y mwrthod felly â'u Galwedigaeth, a breſentiant eu Henwau cymmain un i Eſgob yr Eſgobaeth, neu i Ordinari 'r lle, ſy ag Awdurdod Eſgob ganddo.

Am Yſgol-feiſtraid.

77. *Neb i gadw Yſgol heb Genad.*

NI chaiff neb ddyſgu nac mewn Yſgol gyhoedd nac mewn Tai neillduol, ond y fath a genhader gan Eſgob yr Eſgobaeth, neu Ordinari 'r lle dan ei Law a'i Sêl, wedi ei farnu 'n addas yn gyſtal o ran ei ddyſg, a'i ddeheudra yn athrawiaethu, ac o ran Ymarweddiad ſobr ac oneſt, ac hefyd am iawn ddeall gwîr Grefydd Dduw, ac hefyd oddi eithr iddo ddodi ei law yn gyntaf wrth y cyntaf a'r trydydd Erthygl rhag-grybwylledig yn gyfan, ac wrth y ddau wahannod cyntaf o'r ail Erthygl.

78. *Curadiaid yn chwennych dyſgu, i'w cenbadu o ſaeth eraill.*

YM mha Eglwys blwyf neu Gapel bynnag y bo Curad ag y ſy'n Athraw Celfyddydau, neu Faglawr Celfyddydau, neu 'n amgen yn abl ddigon i ddyſgu Ieuengctid, ac yn ewyllyſio gwneud hynny, er ychwanegu ei Fywioliaeth yn well, a hyfforddi plant ym mhrif Seiliau gwir Grefydd: yr ydym yn mynnu ac yn ordeinio, na chaniattao Ordinari 'r lle hwnnw Gennad i neb ond yn unig i'r Curad dywededig i ddyſgu plant y Plwyf y bo 'n ei waſanaethu: Darparer yn waſtad, na chyrhaeddo 'r Oſodedigaeth yma un Plwyf neu Gapel mewn Trefi yn y Wlad, lle mae Yſgol gyhoedd wedi ei ſeilio eiſioes: ym mha achos nid cymheſur gennym ganiattâu i neb ddyſguGrammadeg ond hwnnw 'n unig a genhadwyd i'r ddywededig Yſgol gyhoedd

79. *Dyled Yſgol-feiſtraid.*

DYſged pawb o'r Yſgol-feiſtraid yn *Gymraeg* neu 'n *Lladin*, ſel y bo 'r plant yn gallu, y Cateciſm hwyaf neu 'r byrraf a roddwyd allan gynt trwy gyfredin Awdurdod. A chyn fynyched ag y bo un Bregeth ar Wyliau neu Uchelgu, o fewn y Plwyf lle maent yn dyſgu, hwy a ddygant eu hyſgolheigion i'r Eglwys lle bo 'r cyfryw Bregeth, ac yno a edrychant ar iddynt ymddŵyn yn llonydd ac yn ſobr, ac a'u holant ar amſer cyfaddas, wedi eu dyfod yn ôl, beth a ddygaſant gyd â hwy o'r cyfryw Bregethau. Ar ddyddiau ac amſerau eraill hwy a'u hyfforddant hwy â'r cyfryw werſi o'r Yſgrythur lân, ag a fo rhwydda i'w tueddu i bob duwioldeb: a hwy a ddyſgant y Grammadeg a oſodwyd allan gan y Brenhin *Harri* 'r Wythfed, ac a barhäwyd, yn amſeroedd y Brenhin *Edward* y Chweched, a'r Frenhines *Eliſabeth* o ardderchog goffadwriaeth, ac nid un arall. Ac o's un Athraw-yſgol, wedi cael cennad, a dodi ei law, ſel y crybwyllwyd, a wnâ ar fai yn un o'r pethau rhag-ddywededig, ac naill ai a lefara, a 'ſgriſenna, neu a ddŷſg yngwrthwyneb i ddim a'r a ddododd eſe ei law wrtho gynt, o's eſe ni wellhâ, a diwygio ei fai ar rybudd yr Ordinari, gorſodoger ef rhag cadw Yſgol mwy.

Am Bethau 'n perthyn i Eglwyſi.

80. *Y Bibl mawr a'r Llyfr Gweddi Gyffredin i ſod ym mhob Eglwys.*

WArdeniaid neu Ymofynwŷr pob Eglwys a Chapel a ddarparant ar gôſt y Plwyf, y Llyfr Gweddi Gyffredin, a eglurwyd yn ddiweddar mewn rhai ychydig bynciau trwy Awdurdod y Brenhin wrth y Cyfreithiau, a Rhagor-fraint ei Oruchelder ef yn hynny, a hynny 'n gyntaf ag aller yn gyflëus, ond o'r pellaf o fewn deu-fis wedi cyhoeddi ein Hordinhadau hyn. Ac od oes dim Plwyfau etto heb y Bibl o'r Plŷg mwyaf, neu Lyfr yr Homiliau a gymmeradwywyd trwy Awdurdod, mynned y Wardeniaid dywededig hwynt mewn gweddeidd-dra o amſer, ar gyfflelyb gôſt y Plwyf.

81. *Bedydd-faen i ſefyddio ym mhob Eglwys.*

YN ôl hên Oſodedigaeth, rhy ddïyſtyr yn amryw leoedd, yr ŷm yn gorchymmyn ſod Bedydd-fan maen ym mhôb Eglwys a Chapel, lle 'r arferir bedyddio: i'w goſod yn yr hên leoedd arferedig; ac na fedyddied y Gweinidog ar gyhoedd ond yn yr unrhyw Fedydd-faen yn unig.

82. *Bwrdd Cymmun gweddaidd ym mhob Eglwys.*

GAn nad ŷm yn ammeu nad oes ym mhob Eglwys yn Nheyrnas *Loegr*, Fwrdd cymmwys a gweddus wedi ei ddarparu a'i oſod i waſanaethu 'r Cymmun bendigaid, yr ŷm yn ordeinio cadw a chyweirio o amſer bwygilydd yr unrhyw Fwrdd mewn treſn weddus a chyflëus, a'i hulio brŷd Gwaſanaeth Duw â Charped Sidan, neu 'Stwff arall gweddus a threſnus, a farno Ordinari 'r lle yn addas, o bydd ddim dadl ynghŷlch hynny, ac â lliain têg ar brŷd y Weinidogaeth, ſel y gweddai i'r Bwrdd hwnnw, ac felly fefyll, oddi eithr pan weiner y dywededig Gymmun bendigaid. Y prŷd hynny cyflëir ef mor gymmwys o fewn yr Eglwys neu 'r Gangell, ag y gallo 'r Cymmunwŷr glywed y Gweinidog yn well yn ei Weddi a'i Weinidogaeth, a'r Cymmunwŷr hefyd yn gymhwyſach ac yn amlach gymmuno gyd â'r dywededig Weinidog; a bod y deg Gorchymmyn wedi eu goſod ar y dwyrein-barth i bob Eglwys a Chapel, lle bo hawſaf i'r bobl eu gweled a'u darllain, a gwerſi dewiſol eraill yn yſgri-

ſenedig ar Furiau 'r Eglwyſi a'r Capeli dywededig, mewn lleoedd cyfleus: ac felly hefyd bod eiſteddfa gyfaddas wedi ei gwneuthur i'r Gweinidog i ddarllain y Gwaſanaeth ynddi. Y rhai 'n oll i'w gwneuthur ar gôſt y Plwyf.

83. *Pulpyd i'w ddarparu ym mhob Eglwys.*

Y Wardeniaid neu 'r Ymofynwŷr, ar gyffredin gŷd-goſt y Plwyfolion, ym mhob Eglwys a ddarparant Bulpyd hardd a gweddus i'w oſod mewn lle cyfleus ynddi, wrth gyngor Ordinari 'r lle, o cyfyd dim dadl, ac i'w gadw yno 'n drefnus i bregethu Gair Duw.

84. *Elwſen-giſt ym mhob Eglwys.*

Y Wardeniaid a ddarbodant ac a ſynnant o fewn tri mis wedi cyhoeddi 'r Goſodedigaethau hyn, Giſt gref, a thwll yn ei chaead, i'w darparu ar gôſt y Plwyf (oni ddarparwyd un o'r fath eiſioes) ac iddi dri Agoriad, un o honynt a fydd ynghadwraeth y Perſon, y Ficer, neu 'r Curad, a'r ddau eraill ynghadwraeth y Wardeniaid a ſo 'r pryd hynny: yr hon Giſt a oſodant ac a ſicrhânt yn y lle cyfleuſaf, ag y gallo 'r Plwyfolion fwrw ynddi eu Heluſenau i'w Cymmydogion tlodion. A'r Perſon, Ficer, neu 'r Curad, yn ddieſgeulus o bryd bwygilydd, ac yn enwedig pan ſo rhai 'n gwneud eu Llythyrau Cymmyn, a annogant, a gynghorant, ac a gynhyrfant eu Cymmydogion i gyfrannu a rhoddi fel y gallont yn dda hebgor i'r Giſt ddywededig, gan ddatgan iddynt, lle y buont ddiwyd gynt i roi llawer o'u cynnyrch, yn amgen nag y gorchymynodd Duw, i Achoſion oſer-goelus, y dylent bellach fod y pryd hyn yn barottach o lawer i helpu 'r tlawd a'r anghenus, gan wybod fod cynnorthwyo 'r tlawd yn Aberth boddlon gan Dduw: ac hefyd, mai i Griſt ei hun y rhoir beth bynnag a roddir er diddanwch iddynt hwy, ac y cymmerir felly ganddo ef, mor garedig ag y bydd iddo ei obrwyo 'n raſuſol â thrugaredd. Y cyfryw Eluſenau a Deſoſiwn y bobl, Ceidwaid yr Agoriadau a'u cymmerant allan o'r Giſt bob blwyddyn, bob chwarter neu 'n fynychach (fel y bo 'r angen yn gofyn) ac a'u cyfrannant yngwŷdd y rhan fwyaf o'r Plwyf, neu chwêch o'r rhai pennaf o honynt, i'w roddi yn gywir ac yn ffyddlon i'r tlottaf a'r angenrheittiaf o'u Cymmydogion.

85. *Eglwyſi i'w cadw mewn adgyweiriad dawall.*

Y Wardeniaid neu 'r Ymofynwŷr a ymofalant ac a ddarparant am fod yr Eglwyſau wedi eu hadgyweirio 'n dda ac yn ddiwall, a'u cadw a'u cynnal felly o amſer bwygilydd, y ffeneſtri wedi eu gwydro 'n dda, a chadw 'r lloriau wedi eu palmentu, yn waſtad ac yn llyſn, a phob peth yno yn y fath wêdd drefnus, a thrwſiadus, heb na llwch na dim a'r a ddichon fod naill ai yn ddrygſawrus, neu 'n anhardd, fel y gweddai i Dŷ Dduw oreu fod, ac y goſodwyd i lawr mewn Homili i'r perwyl hynny. Y cyffelyb ofal a gymmerant am fod y Fynwent wedi ei chyweirio 'n dda, ac yn ddiogel, ei chau a'i chadw 'n ddiwall â Chaerau, Canllawiau neu Bolion, megis y bu 'r arfer ym mhob rhyw le, ar gôſt y ſawl y perthyn iddynt wrth Gyfraith; ond yn enwedig goſalant am gadw 'r heddwch yn dda bob tro y cyfarfyddo 'r Gynnulleidfa, ac am gadw allan o'r Eglwys bob rhai a yſgymmunwyd, ac a gyhoeddwyd felly.

86. *Eglwyſi i'w golygu, a'r adfeiliau i'w hyſbyſu i'r uchel Gommiſiynwŷr.*

POb Deon, Deon a Siapter, Arch-diacon, ac eraill ſy ag Awdurdod i gadw Ymweliadau Eglwyſig, trwy Gyttundeb, Cyfraith, neu Ddefod, a olygant Eglwyſau ei Lywodraeth ef, neu hwy, unwaith bob tair blynedd eu hunain, neu a barant wneud hynny, ac o amſer i amſer o fewn y dywededig dair blynedd, a hyſbyſant i'r uchel Gommiſiynwŷr ar Fatterion Eglwyſig, bob blwyddyn, y cyfryw ddiffygion a fo yn un o'r dywededig Eglwyſydd, a welo eſe neu hwy yn aros heb gyweirio, ac Enwau a Chyfenwau y ſawl y bo 'r bai hwnnw arnynt. Ar ba Hyſbyſiad yr ŷm yn dymuno ar yr uchel Gommiſſiynwŷr dywededig *ex officio mero* gyrchu y cyfryw rai beius, a'u cymmell i ufuddhâu i ordinhadau cyfiawn a chyfreithlon y cyfryw Ordinariaid Eglwyſig, ag a wnêl y cyfryw Hyſbyſiad.

87. *Tir-lyſr Eglwyſdir, a meddiannau eraill perthynol i Eglwyſydd.*

YR ŷm yn ordeinio i'r Arch-eſgobion, a'r holl Eſgobion yn eu hamryw Eſgobaethau, ſynnu (hŷd ag y bo ynddynt) Rentrol a Thir-lyſr cywir o holl Lebau, Tiroedd, Gweirgloddiau, Gerddi, Perllannau, Tai, Storau, Offer, Tyddynnau, a darnau o Ddegymmau allan o'u plwyfau (a ſo 'n perthyn i un Berſoniaeth, Ficeriaeth, neu Brebendiaeth wledig) i'w gwneuthur ar olygiad gwŷr oneſt ym mhob Plwyf a bennodo 'r Eſgob, a'r Gweinidog i fod yn un o honynt, a'i roi i gadw ynghoſdy 'r Eſgob i fod yno 'n Goffadwriaeth dragŷwyddol o hono.

88. *Na haloger Eglwyſydd.*

NA oddefed y Wardeniaid neu 'r Ymofynwŷr, a'u Cynnorthwywŷr gadw dim Chwareuon, Gwleddau, Cyfeddach, Swpperau, Gwirodau, Llyſoedd neu Gyrtiau bydol, Cweſtau llŷg, Mwſtrau, nac un arfer halogedig arall yn yr Eglwys, y Capel neu 'r Fynwent, na chanu 'r Clŷch o goel-grefydd ar Wyliau ac Ucherau a ddiddymmwyd trwy y Llyfr Gweddi Gyffredin, nac ar un amſer arall, heb achos da a ſoddlono Weinidog y lle, a hwythau eu hunain.

Am Wardeniaid neu Ymofynwyr a Chynnorthwywyr.

89. *Dewiſiad Wardeniaid, a'u cyfrif.*

YR holl Wardeniaid neu Ymofynwŷr ym mhob Plwyf, a ddewiſir trwy gŷd-gyttundeb y Gweinidog, a'r Plwyfolion, o'r gellir: eithr oni allant gyttuno ar y cyfryw ddewiſiad, yna dewiſed y Gweinidog un, a'r Plwyfolion un arall: ac heb y cyfryw gŷd-unol neu wahanol ddewiſiad, na chymmered neb rhai arnynt fod yn Wardeniaid, ac ni pharhânt ond dros un flwyddyn yn y Swydd honno, oddi eithr yſgatfydd eu dewis drachefn yn yr un modd. A'r holl Wardeniaid ym mhen eu blwyddyn, neu o fewn mis wedi o'r pellaf, ger bron y Gweinidog a'r Plwyfolion, a rônt uniawn gyfrif o'r Arian a dderbyniaſant, ac hefyd beth yn neilldual a roiſant allan tu ag at gyweirio, ac hefyd tu ag at Achoſion eraill yr Eglwys. Ac yn ddiwaethaf oll, wrth ymadael â'u Swydd, hwy a rônt i fynu 'n gywir i'r Plwyfolion pa Arian neu bethau eraill bynnag a berthyno i'r Eglwys neu 'r Plwyf, a ſo 'n aros yn eu dwylaw hwy, fel y traddoder hwy i'r Wardeniaid neſaf, trwy Fil cyfylchiog.

90. *Dewiſiad Cynnorthwywŷr, a'u Cŷd-ſwydd hwynt â'r Wardeniaid.*

EDrycheд Wardeniaid neu Ymofynwŷr pob Plwyf, a dau neu dri ne ychwaneg o wŷr deallus ym mhob Plwyf, i'w dewis yn Gynnorth-

wyw ŷr, neu Gŷd-Bleidwŷr, gan y Gweinidog a'r Plwyfolion, o's gallant gyttuno (ac onid ê, i'w pennodi gan Ordinari 'r Eſgobaeth) yn ddieſgeulus ar ſod y Plwyfolion cymmain un yn dyſod yn gyfannedd i'w Heglwys bob Sul a Gŵyl, ac yn arhos yno tra parhao Gwaſanaeth Duw: ac na bo neb yn rhodio, neu 'n ſefyll yn ofer, neu 'n ſiarad yn yr Eglwys, nac ym mhorth yr Eglwys, nac yn y Fynwent, trwy gydol yr amſer hynny. A'r ſawl oll a gaffer yn ddifraw neu 'n eſgeulus am ddyfod i'r Eglwys (heb fod ganddynt ddim achos mawr na durfing i fod yn abſennol hwy a'u gwahoddant yn ddifrifol: ac ar ôl eu rhybuddio 'n ddyladwy (oni wellhânt) a'u preſentiant i Ordinari 'r lle. Dewiſer y rhain, ſef Wardeniaid neu Ymofynwŷr, Cŷdbleidwŷr neu Gynnorthwywŷr, bob blwyddyn yn wythnos y *Paſg*.

Am Glochyddion.

91. *Clochyddion i'w dewis gan y Gweinidog.*

NA ddewiſer un Clochydd neu Glerc-Plwyf i wagle o fewn Dinas *Lnndain*, nac yn un lle arall o fewn Talaith *Caer-gaint*, ond gan y Perſon neu 'r Ficer; neu lle ni bo na Pherſon na Ficer, gan Weinidog y lle a fo 'r amſer hynny: Yr hon Ddewiſiad a hyſbyſer i'r Plwyfolion gan y dywededig Weinidog, Ficer, neu Berſon, y Sul neſaf wedi, ar bryd Gwaſanaeth Duw. A rhaid i'r unrhyw Glochydd fod o leiaf yn ugain mlwydd oed, ac yn adnabyddus i'r dywededig Berſon, Ficer neu Weinidog ei fod yn oneſt ei Ymarweddiad, ac yn medru darllain, yſgrifennu ac hefyd (o's gellir) yn gymhedrol am gyfarwyddyd i ganu. A'r Clochyddion dywededig a ddewiſwyd felly a gânt ac a dderbyniant eu hên Gyflogau, heb na thwyll na thawl, naill ai o ddwylaw 'r Wardeniaid ar y prydiau arferedig, neu o'u caſgliad eu hunain, yn ôl yr arfer hynaf ym mhob Plwyf.

Am Lyſoedd Eglwyſig perthynol i Lywodraeth yr Arch-eſgob.

92. *Na wŷſer neb i amryw Lyſoedd i broſ 'r un Ewyllys.*

YN gymmaint ag i lawer gynt rhwng Rhingyllod Llyſoedd îs, a rhai Llyſoedd Rhagor-fraint yr Arch-eſgob gael eu trallodi 'n fiin, a'u galw 'n anwadal a'u croeſ-wŷſio i broſi Llythyrau Cymmyn, neu i dynnu Adminiſtraſiynau ar Ddâ rhai 'n meirw 'n ddi Lythyr Cymmyn, ac wrth hynny 'n cael eu blino a'u gofidio â llawer o helbulon, blinderau a choſtau afreidiol a diachos: Yr ŷm yn gofod ac yn ordeinio i bob Canghellor, Commiſſari neu Swyddwr, neu pwy bynnag arall a fo 'n-trin Awdurdod Eglwyſig, roi llw ar y cyntaf i bawb a alwer ger eu bron, neu a ymddangoſo o'u gwîr fodd i broſi rhyw Ewyllys, neu i adminiſtrio rhyw ddâ, a wyddant, neu a ydynt hwy (wedi eu cynhyrfu ar un achos hyſbyſol) yn credu 'n ſicr, fod gan y Marw (y mae 'r ddadl yn awr ynghŷlch ei Ewyllys neu ei ddâ) ar amſer ei farwolaeth eſ neu hi, ryw ddâ bydol, neu Ddyledion da mewn un Eſgobaeth neu Eſgobaethau eraill, neu o fewn rhyw wahanredol Lywodraeth yn y Dalaith honno, amgen nag yn yr hon y bu 'r gŵr dywededig farw ynddi, hŷd yngwêrth Pum Punt. Ac o's y ſawl a wŷſiwyd, neu a ymddangoſodd o hono ei hun ger ei fron eſ, a ettyb a'r ei lw, y gŵyr eſe, neu (ſel y dywedwyd) ei fod eſe 'n credu 'n ſicr, fod gan y marw dywededig Ddâ neu Ddyledion da, mewn rhyw Eſgobaeth neu Eſgobaethau eraill, neu wahanredol Lywodraeth yn y Dalaith ddywededig, hŷd yngwêrth a ddywedwyd, a hyſbyſu 'n bennodol a mynegi hynny: Yna gollynged ef ymaith chwippyn, heb ryfygu ymyrru â phroſiad yr Ewyllys dywededig, na rhoi Adminiſtraſiwn ar Ddâ 'r ſawl a fu farw felly yn ddi Lythyr-Cymmyn; ac ni chaiff ofyn na chodi ar y Pleidiau dywededig, ddim Coſtau eraill yn amgen nag a ddylid am y Gwŷs un unig, a pha Broſes arall a gaed ac a waſanaethwyd yn erbyn y Pleidiau dywededig o blegid eu Cyndynrwydd ym mhellach: eithr a ddatgan ac a addef yn eglur ac yn groyw, fod yr Achos dywededig yn perthyn i Ragor-fraint Arch-eſgob y Dalaith honno, gan annog a chynghori 'r blaid i broſi 'r Ewyllys dywededig, neu geiſio Adminiſtraſiwn, ar y Dâ dywededig yn Llŷs y ddywededig Ragor-fraint, a rhoi ger ei fron eſ y dywededig Farnwr, y Probat neu 'r Adminiſtraſiwn dan Sêl y Rhagor-fraint, o fewn y deugain niwrnod neſaf wedi. Ac o's un Canghellor, Commiſſari, Swyddwr, neu un gŵr arall a fo 'n trîn Awdurdod Eglwyſig pwy bynnag, neu Gofiadur un o honynt, a gamwedda yn hyn, gorfodoger eſ *ipſo facto* o waſanaethu ei Swydd, ac na chaed ollyngdod na rhyddhâd, nes iddo dalu 'n ôl i'r blaid y cwbl a goſtiodd iddo yngwrthwyneb i fwriad y pethau rhag-ddywededig: a phob cyfryw Brobat un Ewyllys, neu Adminiſtraſiwn Dâ a ganiattaer felly, a gyfrifir yn gwbl ddirym ac yn llwyr ofer i bob Affaith Cyfraith pwy bynnag. Ym mhellach yr ydym yn erchi ac yn gorchymmyn i Gofiadur pob îs Farnwr yn ddirwyſtr ac yn ddioed, hyſbyſu a ſicrhâu i Ringyll Llys y Rhagor-fraint, a ddaw atto unwaith bob mîs, ac nid yn fynychach, pa Secutorion neu Adminiſtratorion a ollyngodd ei ddywededig Farnwr eſ o ran anghymmeſurwydd ei Reolfraint ei hun ymaith i ddywededig Llŷs y Rhagor-fraint yn y mîs neſaf o'r blaen, dan boen mîs o Orfodogaeth o waſanaethu eî Swydd am bob cyfryw droſedd yn hynny. Darparer na chaffo 'r Ganon yma na dim a'r y ſy 'n gynwyſedig ynddi, fod yn un wêdd yn niweidiol i un Cyttundeb rhwng yr Arch-eſgob ac un Eſgob, neu Ordinari arall, nac i un îs Farnwr a ganiattao un Probat Ewyllys, neu Adminiſtraſiwn ar ddâ i'r ſawl a'i dymuno o'i wir fodd o'r îs Llŷs dywededig, ac o'r Rhagor-fraint hefyd. Darparer hefyd, o's bydd marw ungwr *in itinere*, na phâr y Dâ ſo ganddo yn ei gylch y pryd hynny, i'w Lythr Cymmyn neu ei Adminiſtraſiwn fod yn attebol yn un wêdd i Llŷs y Rhagor-fraint.

93. *Gwerth y* Bona notabilia *attebol i Lys y Rhagorfraint.*

YM mhellach yr ŷm yn gofod ac yn ordeinio, na wŷſio un Barnwr Rhagor-fraint yr Arch-eſgob, ac na pharo *ex officio* wŷſio un dŷn o hyn allan, pwy bynnag, i un o'r amcanion rhag-ddywededig, oni wŷr eſe fod y marw ar amſer ei ymadawiad yn meddu dâ a chatteloedd mewn rhyw Eſgobaeth neu Eſgobaethau eraill, neu Reolfraint wahanredol o fewn y Dalaith honno amgen nag yn yr hon y bu eſe farw ynddi, a dalai hŷd yngwêrth Pum Punt o leiaf: gan ordeinio a chyhoeddi, na chyfrifir fod *Bona notabilia* gan neb, ond a fo a gwerth y Swm dywededig iddo mewn amryw Eſgobaethau. Darparer bob amſer, na rwyſtra 'r gwahannod hwn yma, nac yn yr Oſodedigaeth a grybwyllwyd o'r blaen, mo 'r Eſgobaethau, lle wrth gyttundeb neu ddefod y priſiwyd *Bona notabilia* i uwch Swm. Ac o's un Barnwr Llŷs y Rhagor-fraint, neu un Dirprwywr iddo, neu ei Gofiadur, neu ei Ringyll, a wŷſia, neu a bair wŷſio un dŷn i'w Lŷs yngwrthwyneb i fwriad y pethau rhag-ddywededig, taled yn ôl i'r

neb

neb a wŷſiwyd ei holl goſtau a'i draul, a'r gweithredoedd a'r erlyniadau a wnaed yn hynny a fernir yn wâg ac yn oſer. Pa Goſtau, o's y dywededig Farnwr, neu Gofiadur, neu Ringyll a ball eu talu, 'n gyfattebol, gorfodoger ef o waſanaethu ei Swydd, hŷd oni ymroddo i'w cyflawni.

94. *Neb i'w gwŷſio i'r Archau neu i'r Gwrandawle, and Trigolion o fewn Eſgobaeth, neu wahan-lyſoedd yr Arch-eſgob.*

NI cheiff un Deon yr Archau, neu Swyddwr yng Nghorſedd yr Arch-eſgob, nac un Iuſtus y Gwrandawle, o hyn allan yn ei enw ei hunan, nac yn enw 'r Arch-eſgob, naill ai *ex officio*, neu ar ddiriad un blaid, ddechreu dyfyn, gwŷſio, nac yn un modd gymmell, neu beri dyfyn, gwŷſio, neu gyrchu un dŷn na bo 'n byw yn Eſgobaeth bennodol, neu yngwahan-fraint y dywededig Arch-eſgob, i ymddangos o'i flaen ef, nac un o honynt, am un achos neu fatter pwy bynnag a berthyn i wybyddiaeth Eglwyſig, heb gael yn gyntaf Gennad yr Eſgob i hynny, oddi eithr yn y cyfryw achoſion neilldiol yn unig a achubwyd yn eglur, ac a gadwyd allan yn, a thrwy 'r Yſtatut, *Anno* 23. *H.* 8. *Cap.* 9. Ac o's gwnâ un o'r Barnwŷr dywededig ddim ar fai yn erbyn hyn, gorfodoger ef am bob cyfryw fai, dros dri mîs cyfain.

95. *Attal dwbl Gwerylon.*

ER hod wrth hên Oſodedigaethau Eglwys *Loegr*, gan bob Eſgob ddeufis o amſer i ymofyn ac i ymhyſbyſu yngŷlch abledd a chynheddfau pob Gweinidog, wedi ei breſentio iddo ef i'w ordeinio i un Fywioliaeth, etto i ochel rhai anghymmwyſderau, yr ŷm ni 'r awr hon yn byrhâu ac yn dwyn y ddeufis hynny hŷd yn wyth niwrnod ar hugain yn unig, o herwŷdd pa fyrhâd, yr ŷm yn ordeinio ac yn trefnu na chaniattaer un dwbl gweryl o hyn allan o un o Lyſoedd yr Arch-eſgob, ar gŵyn un Gweinidog pwy bynnag, oddi eithr iddo 'n gyntaf gymmeryd ei lŵ ei hunan, fyned o'r wyth niwrnod ar hugain hynny o leiaf heibio, er pan gynnygiodd eſe gyntaf ei Breſentaſiwn i'r Eſgob, ac i'r Eſgob ommedd ar hynny ei ordeinio ef, neu ymrwymo mewn Bond â meichiau dilys er profi fod y peth yn wir, dan boen gorfodogi ei Ganiattâwr o waſanaethu ei Swydd dros hanner blwyddyn *toties quoties*, i'w ddatgan gan y dywededig Arch-eſgob, a gwneuthur y dwbl gweryl crybwylledig, a gam-geiſiwyd felly, yn llwyr ddirym i bob rhyw amcanion a bwriadau beth bynnag. Darparer yn waſtad, na ordeinio 'r Eſgob o fewn yr wyth niwrnod ar hugain hynny neb arall er niweid i'r hwn a breſentiwyd o'r blaen *ſub pœna nullitatis.*

96. *Na chaniattaer Gwahardd iad heb fod llaw Dadleuwr wrthi.*

IGadw Rheol-fraint Eſgobion (yn neſaf ag y galler) yn gyfan ac yn ddiragfarn, ac i wneuthur gwell parottoad er llês Deiliaid y Deymas hon, fel na phoener mo honynt rhag llaw ag ofergŵynion a blinderau camweddus; ordeiniwyd a darparwyd na chaniattaer un Gwahardd iad allan o un llŷs, perthynol i Arch-eſgob *Caer-gaint*, ar ymbil neb, heb law Dadleuwr ymarferol yn y dywededig Lŷs wrthi: yr hon a rŷdd y dywededig ddadleuwr yn rhâd, heb godi dim ffi am dani, oddi eithr i'r Canlynwr a ſo 'n erlyn y Cŵyn roddi iddo o'i wir fodd ryw Rôdd am ei Gyngor a'i Gyfarwyddyd yn yr achos dywededig. Y cyffelyb drefn a arferir gan yr Eſgob neu ei Ganghellor wrth ganiattâu allan un Gwahardd iad ar daerni neb pwy bynnag, yn erbyn un Arch-diacon, neu neb arall a ſo 'n arfer Llywodraeth Eglwyſig: ac o bydd Llŷs neu Orſedd rhyw Eſgob heb un Dadleuwr oll, yna ſe waſanaetha bod wrthi law Proctor a ſo 'n ymarſer yn y Llŷs hwnnw.

97. *Na chaniattaer Gwahardd iad nes dangos yr Appêl i'r Barnwr.*

ORdeiniwyd a lluniaethwyd ym mhellach, na chanitattaer un Gwahardd iad o hyn allan o achos un Farn-gyfrwng, nac mewn un achos ceryddus pwy bynnag, oddi eithr dan y ffurf ragddywededig: ac heſyd cyn yr êl un cyfryw Waharddiad allan, doder yr Appêl ei hun, neu Gopi o honi (profedig trwy lŵ ei fod yn gywir ac yn union) ger bron y Barnwr, neu ei gyfreithlon Ddirprwywr, fel y caffo wrth hwnnw lawn hyſbyſrwydd, am natur y bai, ac heſyd âm achos y Cŵyn, cyn rhoi allan y dywededig Waharddiad. A phob Appelydd, neu ei gyfreithlon Broctor, cyn cael dim o'r fath Waharddiad, a ddengys ac a gyfiwyna i'r Barnwr, neu i'w Ddirprwywr, Gopi cywir yn yſgrifenedig o'r Actau hynny y mae 'n ac hwyn rhagddynt, ei fod yn cael cam, ac oddi wrth ba rai y mae 'n appelio, neu cymmered ei lŵ corphorol wneuthur o hono ei oreu 'n wîr ddieſgeulus ar gael yr unrhyw, ac na allai ei chael o law 'r Cofiadur yn y Wlâd, neu ei Raglaw er cynnyg ei ffi iddo. Ac o's un Barnwr neu Gofiadur naill ai a bâr neu a âd ſelio un Waharddiad, fel y dywedwyd, yngwrthwyncb i'r wêdd a'r terfyn uchod, gorfodoger ef dros dri mis rhag gwaſanaethu ei Swydd. O's un Proctor, rac un gŵr arall pwy bynnag wrth ei orchymmyn ef, a wnâ ar fai yn un o'r pethau rhag-draethedig, naill ai wrth wneuthur neu yrru allan un Waharddiad, yn groes i feddwl y pethau rhag-ddywededig uchod, tröer ef ymaith o waſanaethu ei Swydd dros flwyddyn gyfan, heb obaith rhyddhâd na chymmod.

98. *Na chaniattaer Gwahardd iad i Appelwŷr cynbennus, oni ddodant eu dwylaw 'n gyntaf.*

OHerwŷdd nad oes reſwm i'r rhai a dorrant y Cyfreithiau geiſio dim llês na nodded oddi wrthynt: Yr ŷm yn ordeinio ac yn lluniaethu, wedi i un Barnwr Eglwyſig yrru 'r farn ym mlaen yn erbyn rhai yſtyſnig a chynhennus, a dirmygwŷr Seremoniau, am beidio cynnal Cynheddfau a Threſnau Eglwys *Loegr*, neu am ddirmygu Gweddi gyhoedd, na dderbynio un Iuſtus *ad quem*, ac na chynhwyſo mo 'i Appêl ef neu hwy, oddi eithr wedi iddo weled yn gyntaf yr Appêl dechreuol, i'r Appelydd ei hun yn gyntaf addo ac addunedu 'n ſicr, y ceidw ac y cynnal eſe 'n ffyddlon holl Gynheddfau a Seremoniau Eglwys *Loegr*, ac heſyd yr oſodedig Ffurf Gweddi Cyffredin: ac heſyd dodi ei law wrth y tri Erthygl a bennodaſom ac a hyſbyſaſom gynt.

99. *Neb i briodi o fewn y Graddau gwaharddedig.*

NA phrioded neb o fewn y Graddau a waharddwyd gan Gyfreithiau Duw, ac a bennodwyd mewn Tabl a oſodwyd allan trwy Awdurdod ym mlwyddyn ein Hargiwydd Dduw 1563. A'r hoil Briodafau a wnelor ac a briodor felly, a fernir yn halog ac yn anghyfreithlon, ac yn ddilynol a ddattodir, megis diddym o'r dechreuad; a'r rhai a briodwyd felly a yſgerir trwy reol Cyfraith. A'r Tabl rhag-ddywededig a oſodir i fynu ar gŷhoedd ym mhob Eglwys ar gôſt y Plwyf.

100. *Neb i briodi dan un mlwydd ar hugain oed, heb gyd-ſynniad eu Rhieni.*

NI chaiff dim Plant dan unmlwydd ar hugain oed llawn, ymgredu na phriodi, heb gydſynniad eu Rhieni, neu eu Harffedogion a'u Llywodraethwyr, o's meirw ſu eu Rhieni.

101. *Gan ba rai y rhoir Cennad i briodi heb Oſtegion, ac i ba ſath ddynion.*

NA chaniattaer o hyn allan na Rhyddid na Chennad i briodi neb heb ofyn eu Goſtegion deirgwaith ar gyhoedd, yn ôl y Llyfr Gweddi Gyffredin, gan un-gwr â ſo a Rheolaeth Eglwyſig ganddo, neu a rhagor-glaim ym mraint eu Heglwyſau: eithr yn unig gan y rhai ſy ag Awdurdod Eſgob ganddynt, neu gan Gommiſſari y Cenhadau, Ficeriaid Cyffredinol yr Arch-eſgobion a'r Eſgobion, *ſede plenâ*; neu *ſede vacante*, gan Warcheidwaid yr Yſbrydolion, neu Ordinariaid ſy o iawnder yn arfer Rheol-ſraint Eſgob, bawb yn eu hamryw Swyddogaethau, ac i'r fath rai yn unig a ſo o'Stâd a Braint da, a hynny hefyd wedi cael ganddynt Wyſtl â Meichiau gweddus.

102. *Meichiau i'w ſynnu wrth roi 'r cyfryw Genhadau, a than ba ammodau.*

YN y Meichiau crybwylledig y cynhwyſir yr Ammodau hyn: Yn gyntaf, Nad oes y pryd y rhoer pob cyfryw Gennad, un anach o Gyngrêd, Carennydd, Cyfathrach, nac un achos cyfreithlon arall i rwyſtro 'r ddywededig Briodas. Yn ail, Nad oes un ddadl na chŵyn yn ymddibynnu mewn un Llŷs ger bron un Barnwr Eglwyſig, ynghŷlch na chred na phriodas rhwng un o'r ddwylyw a neb arall. Yn drydydd, gael o honynt fôdd eu Rhieni 'n eglur (o's byw ydynt) neu o's amgen, fôdd eu Harffedogion neu eu Llywodraethwŷr. Yn ddiweddaf, y cadwant y ddywededig Briodas ar gyhoedd yn yr Eglwys blwyf neu 'r Capel lle bo un o honynt yn byw, ac nid yn un lle arall, a hynny yn yr oriau rhwng wyth a deuddeg ar y gloch y boreu.

103. *Llwon i'w cymmeryd am yr Ammodau.*

I Ochel pob twyll a hocced wrth gael y cyfryw Ryddid neu Gennad; yr ŷm yn gofod ac yn ordeinio ym mhellach, cyn cael na rhoi un Gennad i briodi heb gyhoeddi Goſtegion, fod hysbyſrwydd gan y Barnwr trwy lwon dau Dŷſt digonol, un o honynt i fod yn adnabyddus naill ai i'r Barnwr ei hunan, neu i ryw un cymmeradwy arall yna 'n gydrychiol, ac yn adnabyddus i'r Barnwr dywededig hefyd, fod Rhieni, neu un o honynt o's marw 'r llall, neu Arffedog, neu Arffedogion y rhai fo i'w priodi yn foddlon ddigon i hynny. Ac yn ychwaneg dyngu o un o'r rhai ſo i'w priodi ei hunan, nad yw efe 'n credu fod un anach na rhwyſtr o Gyn-grêd, Carennydd, na Chyfathrach, nac un math o achos cyfreithlon arall pwy bynnag, nac un Gyfraith ar droed mewn un Llŷs Eglwyſig, i attal neu rwyſtro 'm mlaen y ddywededig Briodas, yn ol meddwl y Gennad rag-ddywededig.

104. *Eithrad am y Gweddwon.*

O'S gweddwon yw 'r ddwylyw ſydd i'w priodi, yn ceiſio Cennad i ochel Goſtegion, yna y gellir gadael heibio y dosbarth-nodau hynny ſy 'n gofyn Cŷd-ſyniad Rhieni: ond hysbyſer yn y Gennad y Plwyfau y mae 'r ddau 'n byw, ac enwer hefyd y Plwyf lle y cedwir y Briodas. Ac o's un Commiſſari y Cenhadau, Ficeriaid Cyffredinol, neu arall o'r dywededig Ordinariaid, a wnâ ar fai yn y pethau rhag-ddywededig, nac yn un rhan o honynt, efe a orfodogir o wafanaethu ei Swydd dros chwê mîs am bob gwaith y gwnelo ar fai felly; a phob cyfryw Gennad neu Ryddid a fernir yn gwbl ddirym i bob deunydd ac amcan mal pe na chaniattafid un erioed o'r cyfryw, a'r rhai yn priodi trwy ei grŷm hi, a fyddant dan y Cosbedigaethau gofodedig i Briodaſau gwŷllion.

105. *Nr roer un Llythyr yſgar ar Gyffes y Pleidiau 'n unig.*

GAn ddarfod cyſrif a bwrw Dadleuon Priodaſau erioed gyd â'r rhai mwyaf pwyſawr, ac am hynny'n gofyn mwy o rag-ofal pan ddelont i'w teimlo a'u holi mewn barn, yn enwedig mewn achoſion pan geiſier ar un annogaeth neu rith pwy bynnag ddattod neu ddiddymmu Priodas a iawn gyflawnwyd yn yr Eglwys; yr ŷm yn erchi ac yn gorchymmyn yn gaeth arfer pob callineb a phwyll da ym mhob Erlyniad i yſgar a diddymmu Priodas, a chwilio allan y gwir (hyd ag ellir) trwy lŵ Tyſtion, a phrofiadau ac eglurhadau cyfreithlon eraill, ac na choelier Cyffes unig y pleidiau eu hunain, er cymmeryd o honynt eu llw naill ai yn neu allan o'r Llŷs.

106. *Dim Barn Yſgar i'w rhoi ond mewn Llŷs ar oſteg.*

NA rodder un farn yſgar *â thoro & menſâ*, neu i ddiddymmu eſgus Priodas, ond mewn Llŷs ar oſteg, ac yn y Frawdle, a hynny trwy wybodaeth a chŷd-ſynniad naill ai'r Arch-eſgob o fewn ei Dalaith, neu 'r Eſgob o fewn ei Eſgobaeth, neu Ddeon yr Archau, Barnwr Gwrandawle *Caergaint*, neu r' Ficer Cyffredinol, neu brif Swyddwŷr eraill, neu Olygwŷr yr Ysbrydolion *ſede vacante*, neu Ordinariaid eraill i ba rai o gyfiawnder y mae 'n perthyn, yn eu hamryw Swydd-freiniau a'u Llyſoedd, ac yn unig o blegid y rhai a ſo 'n byw o fewn eu Rheol-gylch hwy.

107. *Ym mhob barn Yſgar, Rhwymau i'w cymmeryd na phriodont ym mŷw eu gilydd.*

YM mhob barn a draethir yn unig am yſgar ac ymwahaniad *a thoro & menſâ*, doder gocheliad ac attaliad yng Ngweithred y farn ddywededig ar i'r rhai a yſgarer felly fyw yn ddiwair ac yn oneſt; ac ni chânt briodi arall ym myw eu gilydd. Ac fel y bônt ſicrach o gadw 'r Dosbarthnod diweddaf hwn, na thraether y ddywededig Farn Yſgar, nes i'r blaid neu 'r pleidiau a ſo 'n ei cheiſio, roi meichiau a ſicrwydd da a digonol i'r Llŷs, na thorrant ac na throſeddant yn un wêdd mo 'r attaliad neu 'r waharddiad grybwylledig.

108. *Cosbedigaeth Barnwŷr a wnelont ar fai yn y pethau rhag-ddywededig.*

AC o's un Barnwr, wrth roi barn Yſgar neu Ymwahaniaeth ni cheidw a gwneuthur yn gyfiawn y pethau rhag-draethedig, efe a orfodogir o wafanaethu ei Swydd dros flwyddyn gyfan gan Arch-eſgob y Dalaith, neu gan Eſgob yr Eſgobaeth, a'r farn yſgar a rodder felly yngwrthwyneb i'r ffurf rag-ddywededig, a fernir yn oſer ac yn ddirym i bob bwriad a Deunydd yn y Gyfraith, fel pe na roiſid ac na thraethaſid hi erioed.

Am Lyſoedd Eglwyſig perthynol i Reol-fraint Eſgobion ac Arch-diaconiaid, a'r Erlyniadau ynddynt.

109. *Beiau anfad a Rhwyſtrau i'w hysbyſu i Lyſoedd Eglwyſig trwy Breſentiad.*

O'S rhwyſtra rhai eu brodyr, naill ai trwy odineb, putteindra, ymloſgach, neu feddwdod, neu trwy Dyngu, ſerthedd, occraeth neu un fath arall o frynti, ac annuwioldeb buchedd, y Wardeniaid neu 'r Ymofynwŷr, a'r Cynnorthwywŷr, yn eu Preſentiad neſaf i'w Hordinriaid, a breſentiant yn ffyddlon bawb a phob un a o'r Troſeddwŷr hynny, i gael wrth greulondeb y Gy-

Gyſraith, eu cosbi oll a phob un o honynt yn ôl eu haeddiant, ac na dderbynier y cyfryw Droſeddwŷr hynod i'r Cymmun ſanctaidd nes gwellhaont.

110. *Siſmaticiaid i'w preſentio.*

O'S gŵyr neu o's gŵybydd y Wardeniaid, a'r Ymofynwŷr neu 'r Cynnorthwywŷr, oddi wrth un dŷn yn eu Plwyf, neu le arall, ag y ſy 'n rhwyſtro darllain, neu bregethu Gair Duw yn bur, neu wneuthur ein Goſodedigaethau hyn, neu yn gefnwr neb rhyw Awdurdod ormeſol neu eſtronol, a wrthodwyd ac a ddiddymmwyd yn gyfiawn trwy Gyfreithiau y Deyrnas hon, neu yn ddiffynnwr Athrawiaeth Babaidd a chyfeiliornus: hwy a ddadguddiant ac a breſentiant y rhai hynny i Eſgob yr Eſgobaeth neu Ordinari 'r lle, i'w hargyoeddi a'u cosbi yn ôl y ſath Gyfreithiau Eglwyſig a oſodwyd ar ſedr hynny.

111. *Terfyſgwŷr Gwaſanaeth Duw i'w preſentio.*

YN holl ymweliadau Eſgobion ac Arch-diaconiaid, y Wardeniaid neu 'r Ymofynwŷr a'r Cynnorthwywŷr, a breſentiant yn gywir ac yn berſonol Enwau 'r holl rai ſy 'n ymddŵyn yn afreolus ac yn anweddus yn yr Eglwys, neu trwy ganu clŷch mewn anamſer, trwy rodio, ſiarad, neu drwſt arall, a rwyſtrant y Gweinidog neu 'r Pregethwr.

112. *Yſawl ni chymmunant y* Paſg *i'w preſentio.*

GWeinidog, Wardeniaid, Ymofynwŷr, a Chynnorthwywŷr pob Eglwys Blwyf a Chapel, bob blwyddyn o fewn deugain niwrnod ar ôl y *Paſg* a gyflwynant i'r Eſgob, neu el Ganghellor Enwau a Chyfenwau 'r holl Blwyfolion yn wrrywod ac yn fenywod, a fo 'n un mlwydd ar bymtheg oed heb dderbyn y Cymmun y *Paſg* o'r blaen.

113. *Gall Gweinidogion breſentio.*

ORan digŵydd yn fynych bod y Wardeniaid, y Cynnorthwywŷr, yr Ymofynwŷr, a'r cyfryw wŷr llŷg eraill ag ſy i ofalu (hyd y bo yndd-ynt) am gosbi pechod ac anwiredd yn eu hamryw Blwyfau, trwy rybuddio, ceryddu, a chyhuddo i'w Hordinariaid, yn peidio a chyflawni eu Dyledſwyddau yn hyn, naill ai rhag ofn eu Huchafiaid, neu trwy eſgeuluſdra, mwy nag a weddai, gan yſtyried pen-rhyddid yr amſeroedd hyn: yr ŷm yn goſod ac yn ordeinio o hyn allan y gall pob Perſon a Ficer, neu ynghyfreithlon abſen rhyw Berſon neu Ficer, yna y gall eu Guradiaid, a'r rhai a fo tanynt, gŷd-uno ym mhob preſentiad, â'r dywededig Wardeniaid, Cynnorthwywŷr a'r lleill a grybyllwyd uchod ar y prydiau a bennodir yn ôl hyn o's hwynt-hwy y dywededig Wardeniaid, Cynnorthwywŷr a'r lleill a breſentiant y cyfryw afreolaeth ag ſy 'n amlwg yn y Plwyf: neu oni's preſentiant, pob cyfryw Berſon neu Ficer, neu yn eu habſen, fel uchod, eu Curadiaid a allant eu hunain breſentio i'w Hordinariaid ar y cyfryw amſerau, a phryd arall y gwelont yn gymmwys, bob cyfryw feiau ag a fo dan eu gofal, neu amgen, a'r a farnont hwy (y ſy wŷr a ddylai fod fwyaf eu Gofal am gosbi pechod ac annuwioldeb yn eu Plwyfau) fod eiſiau eu hiawn wellhâu. Darparer bob amſer, o's cyffeſſa un ei bechodau dirgel a chuddiedig wrth y Gweinidog er mwyn dadlwytho ei Gydwybod, a derbyn Cyſſur ysbrydol, ac Eſmwythâd meddwl ganddo ef, Nid ŷm yn un wedd wrth ein Goſodedigaeth hon, yn rhwymo 'r dywededig Weinidog, eithr yn gorchymmyn yn gaeth ac yn ei rybuddio na ddadguddio ac na hysbyſo un amſer i neb byth pwy bynnag, un Baj neu Gamwedd a ymddirieder ſelly i'w gêl a'i gyfrinach ef (oddi eithr eu bod yn gyfryw feiau, ag y gall eſe fod, wrth Gyfreithiau 'r Deyrnas hon, mewn perygl am ei fywyd ei hun, am eu celu) dan boen afreolaeth.

114. *Gweinidogion a breſentiant Ymwrthodyddion.*

POb Perſon, Ficer, neu Gurad, a ymofynnant yn ofalus bob blwyddyn o hyn allan, pa nifer o Ymwrthodyddion Pabaidd, yn Wŷr, yn Wragedd, ac yn Blant, dros deirblwydd ar ddeg oed, a pha nifer o rai yn tueddu at Babyddiaeth (y rhai er eu bod yn dyfod i'r Eglwys, etto a wrthodant dderbyn y Cymmun) ſy 'n drigiannol, neu 'n cartrefu naill ai megis Ymdeithyddion, neu Weſteion cyffredin yn un o'u hamryw Blwyfau, ac a roddant eu Henwau 'n gywir i lawr mewn yſgrifen (o's gallant eu gŵybod) neu o's amgen y cyfryw enwau ag a font yn ddŵyn dros y tro, gan wahanu rhwng y cyfan-gwbl a'rhan ner Ymwrthodyddion: a'r rheini hŷd ag y maent yn gŵybod ac yn credu, wedi eu dosbarthu a'ugofod i lawr felly 'n yſgrifennedig dan eu dwylaw, a'u preſentiant yn gywir i'w Hordinariaid cyn Gŵyl y *Nadolig* neſaf, dan boen Gorfodogaeth i'w roi arnynt gan eu dywededig Ordinariaid: ac felly bob blwyddyn rhag llaw dan yr un perygl; cyn Gŵyl S. *Ioan Fedyddiwr.* Yr ŷm yn ordeinio hefyd, i bawb o'r cyfryw Ordinariaid, Canghellorion, Commiſſariaid, Arch-diaconiaid, Swyddŵyr â'r holl Swyddogion Eglwyſig eraill, i'r rhai y cyflwynir y Preſentiadau hynny, eu traddodi neu beri eu traddoddi hefyd i'w priod Eſgob, o fewn mis wedi eu derbyn, dan boen eu gorfodogi gan yr Eſgob dros chwê mîs o waſanaethu eu Swyddau (cyn fynyched ag y troſeddont yn hyn) a'r Eſgob hefyd a'u cyflwyna i'r Arch-eſgob o fewn chwêch wythnos, a'r Arch-eſgob i'r Brenhin o fewn chwêch wythnos arall, wedi y derbynio y dywededig Breſentiadau.

115. *Na chŵyner ar Weinidogion a Wardeniaid am breſentio.*

GAn fod llŵ, er gwellhâu dynion beius ac anllywodraeth ym mhob Plwyf, ar Wardeniaid, Ymofynwŷr, Cynnorthwywŷr, a'r cyfryw Swyddogion Eglwyſig eraill, a Gorchymmyn ar y Gweinidog, am breſentio 'r Beiau a'r Afreolaeth a wnelo 'r Drwg-ſucheddwŷr hynny, ynghŷd â'r gair cyffredin a ſo ar hŷd y bŷd iddynt, trwy 'r hyn y maent yn cael yn fynych eu drygu a'u blino weithiau gan y Troſeddwŷr hynny neu eu Cyfeillion: yr ŷm yn rhybuddio ac yn cynghori 'r holl Farnwŷr Eglwyſig ac Amſerol, fel y maent yn priſio ac yn arſwydo Brawdle ofnadwy y Barnwr goruchaf, na dderbynionț yn un o'u Llyſoedd un Achwyn, Dadl, Cŵyn, neu Gŵynion yn erbyn neb o'r cyfryw Wardeniaid, Ymofynwŷr, Cynnorthwywŷr, neu Swyddogion Eglwyſig eraill am wneuthur un o'r cyfryw Breſentiadau, nac yn erbyn un Gweinidog am un Preſentiad a wnelo yntau: gan fod yr holl ddywededig Breſentiadau yn tueddu i attal Annuwioldeb digywilydd, a chan yſtyried y meddylid wrth Reolau Cariad a Llywodraeth, na wnaethant hwy ddim yn hyn o ſalais, ond er rhyddhâu eu Cydwybodau.

116. *Nid yw Wardeniaid yn rhwym i breſentio 'n fynychach nâ dwywaith yn y flwyddyn.*

NI pherir i Wardeniaid, Ymofynwŷr, neu Gynnorthwywŷr un Plwyf i gyflwyno eu Preſentiadau i ungwr a ſo ag Awdurdod Eglwyſig ganddo oddi ar unwaith bob blwyddyn, lle nid arferid dim yn fynychach nag oddi ar ddwywaith mewn unrhyw Eſgobaeth pwy bynnag, oddi eithr ar Ym-

weliad yr Eſgob. Am ba Breſentiadau pob Eglwys Blwyf neu Gapel, ni chaiff Coſiadur un Llŷs lle y cyflwyner hwy dderbyn oddi ar Rôt mewn un flwyddyn, dan boen, am bob troſedd yn hynny, Gorſodogaeth o waſanaethu ei Swydd dros fis *toties quoties*. Darparer bob amſer, y bydd yn rhŷdd fel y bo achos da 'n gofyn i bob Gweinidog, Wardeniaid a Chynnorthwywŷr breſentio Troſeddwŷr cyn ſynyched ag y gwelont ſod yn addas. Ac helyd i bob dŷn duwiol fryd, neu ryw Farnwr Eglwyſig, pan roer gŵybod iddo ef neu hwy am ryw fai mawr o fewn ei Reol-fraint, i annog y Gweinidog, y Wardeniaid, neu Gynnorthwywŷr fel y maent yn caru Gogoniant Duw a chosbi drygioni, i'w gyhuddo ef, lle y gwelont ddigon o achos i'w breſentio, fel y cosber ac y diwygier mewn prŷd ac amſer. Darparer hefyd am y Preſentiadau gwirfodd hyn, na ſynner ac na chymmerer dim ffi, dan y boen rag-ddywaededig.

117. *Na ſiner Wardeniaid eiſiau preſentio n ſynychach nâ dwywaith yn y flwyddyn.*

NI ddyfynnir ac ni wŷſir neb rhyw Wardeniaid, Ymofynwŷr na Chynorthwywŷr, ond yn unig a y prŷd neu 'r prydiau rhag-derfynedig i atteb ger bron neb un Barnwr Eglwyſig pwy bynnag, am ballu brŷd arall breſentio dim beiau a wneler yn eu Plwyfau, a chosbadwy wrth Ddeddfau Eglwyſig. Ac ni ſinir hwy, na neb o honynt, ym mhellach wedyn, am eu Preſentiadau a gyflwyner ar un o'r prydiau hynny, oddi eithr ymddangos ar brawf amlwg ac eglur ddarfod iddynt y prŷd hynny yn ewyllyſgar a thrwy ŵybod beidio a phreſentio 'r cyfryw fai neu feiau cyhoedd a'r a ŵyddent ddarfod eu gwneud, neu na allant fod heb ŵybod nad oedd y pryd hynny sôn cyffredin am danynt, neu oddi eithr bod achos tra chyfiawn i'w galw i egluro eu Preſentiadau o'r blaen, ym mha achos o eſgeuluſdra gwirfodd, erlyned eu Hordinariaid hwynt yn y cyfryw ddull ag a ddarparwyd eiſioes trwy Gyfraith yn achoſion anudonedd gwirfodd mewn Llyſoedd Eglwyſig.

118. *Yr bin Wardeniaid i breſentio cyn tyngu 'r rhai newŷdd.*

SWydd yr holl Wardeniaid a'r Cynnorthwywŷr a gyfrifir byth o hyn allan i barhâu, nes tyngu y rhai newŷdd a ddêl ar eu hôl, yr hyn a fydd yr wythnos neſaf ar ôl y *Paſg*, neu ryw wythnos ddilynol a benno 'r Ordinari. Pa amſer pennodol felly, a fydd yn waſtad un o'r ddeu-bryd ym mhob blwyddyn, y cyflwyna Gweinidog neu Wardeniaid a Chynnorthwywŷr pob plwyf i'w hamryw Ordinariaid, Breſentiadau y cyfryw Afreolaeth a ddigŵyddodd yn eu Plwyfau er eu Preſentiadau diwaethaf. A'r Ddyledſwydd hon a gyflawnant cyn tyngu'r Wardeniaid a'r Cynnorthwywŷr newŷdd-ddewis, ac ni adewir iddynt droſglwyddo y dywededig Breſentiadau i'r rhai a fo newŷdd ddyfod i'r Swydd, ac a ſeddylir na ŵyddant oddi wrth y cyfryw feiau, dan boen y Cosbedigaethau a drefnwyd i wellhâu 'r fath a r yfygant fel hyn ſiommi a gwatwar eu Cydwybodau a 'u Llwon eu hunain.

119. *Pennu am'er cymbeſur i wneud Preſentiadau.*

ER mwyn gochel y cyfryw anghymmwyſderau a ddigŵyddaſant cyn hyn wrth wneud Bilau Preſentiadau ar ffrŵſt, ar ddyddiau 'r Ymweliad a'r Seneddau: ordeiniwn y bydd byth o hyn allan, i bob Canghellor, Arch-diacon, Comiſſari a Swyddwr, a phob un arall a fo a Rheol-fraint Eglwyſig ganddo ar yr amſer arferol pan dynger y Wardeniaid: ac i'r Arch-eſgob a'r Eſgobion, wrth iddo ef neu hwy wŷſio eu Hymweliad, draddodi neu beri traddodi i Wardeniaid, Ymofynwŷr, a Chynnorthwywŷr pob Plwyf, neu i rai o honynt, y cyfryw Lyfrau Erthyglau, ag a ofynnont hwy neu rai o honynt am y flwyddyn rhag ŵyneb, i'r dywededig Wardeniaid, Ymofynwŷr, a Chynnorthwywŷr, i ſeilio eu Preſentiadau arnynt, y cyfryw brydiau y bônt i'w cyflwyno. Ym mha Lyfr bid ffurf y Llw yn gynnwyſedig i'w gymmeryd, yn ddiannod cyn pob cyfryw Breſentiad: fel gan gael digon o amſer ym mlaen llaw, nid yn unig i ddarllain, ac yſtyried beth fydd eu Llŵ dywededig, ond yr Erthyglau hefyd ar ba rai y mae iddynt ſeilio eu Preſentiadau, y gallont yn wîr ac yn gŷd-yſtyriol eu llunio gartref, i ryddhâu eu Cydwybodau eu hunain, pan y tynger, fel y gweddai i wŷr oneſt a duwiol.

120 *Neb i'w wŷſio i Lyſoedd Eglwyſig trwy Broſes* quorum nomina.

NA adawed un Eſgob, Canghellor, Arch-diacon, Swyddwr, neu Farnwr Eglwyſig arall, yrru dim Proſeſau cyffredinol *quorum nomina* o'i Lŷs: oddi eithr bod enwau 'r rhai oll y ſydd i'w gwŷſio wrthynt yn gyntaf ar lawr yn eglur â llaw 'r Cofiadur, neu ei Raglaw dan y Proſeſau dywededig, a llaw a Sêl y Barnwr neu ei Raglaw yn gyntaf wrth y Proſeſau a'r Enwau dywededig.

121. *Neb i'w wŷſio i amryw Lyſoedd am yr un Bai.*

MEwn mannau lle mae 'r Eſgob, a'r Arch-diacon wrth Ddefod neu gyttundeb yn ymweled amryw weithau yn yr un a'r unrhyw flwyddyn, fel na holer ac na ffiner neb o Ddeiliaid y Brenhin mewn amryw Lyſoedd Eglwyſig am yr un a'r unrhyw fai: Yr ym yn ordeinio ac yn trefnu i bob Arch-diacon, neu ei Swyddwr, o fewn un mîs ar ôl darfod Ymweliad y flwyddyn honno, a derbyn y Preſentiadau, hyſbyſu dan ei law a'i Sêl i'r Eſgob neu ei Ganghellor Enwau a Beiau y fawl oll a gyhuddir ac a breſentir yn ei ddywededig Ymweliad ef, fel y peidio 'r Canghellor o hynny allan a chyrchu undyn am un Bai neu Achos a gyhudder neu a breſentier felly i'r Arch-diacon. A'r Canghellor o fewn y cyflelyb amſer ar ol darfod Ymweliad yr Eſgob, a derbyn y Preſentiadau, a fynega dan ei Law a'i Sêl i'r Arch-diacon neu i'w Swyddwr, Enwau a Beiau 'r holl rai a gyhuddir neu a breſentir iddo yn yr Ymweliad honno i'r un Perwyl ag a rag-draethwyd. Ac os y Swyddogion hyn ni hyſbyſant i'w gilydd, fel y trefnir yma, neu wedi 'r cyfryw hyſbyſiad, a drawſ-ymyrrant â'r Beiau neu'r Dynion cyhuddedig a phreſentiedig yn Ymweliad y naill a'r llall; Yna pob un o honynt a wnelo ar fai felly, a orfodogir o gwbl ymarfer ei Reol-fraint, gan Eſgob ei Eſgobaeth, hŷd oni thalo 'n ôl y gôſt a'r draul a aeth ar y fawl a orthrymmwyd trwy'r blinder hynny.

122. *Dim Barn Difuddiad neu Ddiſwyddiad i'w thraethu yn erbyn Gweinidog ond gan yr Eſgob ei hun.*

PAn achwyner ar un Gweinidog, mewn un Llŷs Eglwyſig perthynol i un Eſgob o'r Dalaith hon am ryw Fai, y Canghellor, Commiſſari, Swyddwr, neu ryw un arall a fo a Llywodraeth Eglwyſig ganddo (i'r hwn y perthyn) a bryſura 'r matter trwy Broſeſau, ac Erlyniadau eraill yn ei erbyn ef: ac ar ei Gyndynrwydd yn peidio ag atteb, yn gyntaf a'i gorfodoga, ac wedyn, o's pery yn ei Gyndynrwydd, a'i hyſgymmuna ef. Ond o's eſe a ettyb ac a ymoſtwng i reol y Gyfraith, yna pan fo 'r matter yn addfed i farn, a haeddiant ei Fai, wrth y Gyfraith yn gofyn naill ai ei ddifuddio o'i

Eglwys

Eglwys, neu ei ddiſwyddo o'r Weinidogaeth, na thraethed neb pwy bynnag y cyfryw Farn, ond yn unig yr Eſgob, trwy Gymmorth ei Ganghellor, y Deon (o's gellir yn gyflëus eu cael hwynt) a rhai o'r Prebendariaid, o's cedwir y Llŷs yn agos i'r Eglwys Gadeiriol, neu 'r Arch-diacon o's gellir yn gyflëus ei gael ef) a dau eraill o leiaf o Weinidogion pwyllog, a Phregethwŷr, i'w galw gan yr Eſgob, pan gadwer y Llŷs mewn lleoedd eraill.

123. *Ni thelmir un Weithred ond mewn Llŷs ar oſteg.*

NI chaiff un Canghellor, Commiſſari, Arch-diacon, Swyddwr, neu neb arall ag ſy 'n arfer Awdurdod Eglwyſig pwy bynnag dalmu un Weithred o Farn, naill ai o ymryſon, neu o wirfodd Reolaeth, oddi eithr bod gantho Gofiadur cyffredin y Llŷs hwnnw, neu ei Raglaw cyfreithlon; neu o's eſe neu hwy ni fynnant, neu ni allant fod yno, yna'r cyfryw rai ag a awdurdoda 'r Gyfraith yn hynny i 'ſgrifennu a dibennu 'r unrhyw, dan boen Gorfodogaeth *ipſo facto*.

124. *Ni chaiff un Llŷs fwy nag un Sêl.*

NId oes i un Canghellor, Commiſſari, Arch-diacon, Swyddwr, na neb arall ag ſy 'n trîn Awdurdod Eglwyſig, heb Gŷd-fynniad yr Eſgob, gadw mwy nag un Sêl, i ſelio pob matterion digwyddol i'w Swydd ef: yr hon Sêl bid bob amſer yn ei gadwraeth ef ei hun, neu ei Raglaw cyfreithlon, a ſo 'n llywodraethu dano ef, ac yn byw o fewn Swydd-fraint y Barnwr dywededig, neu yn Ninas neu Dref bennaf y Wlâd. Y Sêl hon a gynnwys ditl y ſeirniadaeth honno y bo pob un o'r dywededig Farnwŷr neu eu Rhaglawiaid yn ei thrîn.

125. *Cyſleoedd cymmwys i'w dewis i gadw Llyſoedd.*

YR holl Ganghellorion, Commiſſariaid, Arch-diaconiaid, Swyddwŷr, a phawb eraill ag ſy 'n trîn Rheol-fraint Eglwyſig, a bennodant y ſath Gyf-leoedd cymheſur i gadw eu Llyſoedd trwy dref-niad neu fodd Eſgob yr Eſgobaeth, ag a ſo cyfaddas i roeſawu 'r ſawl a fo'i atteb yno, a mwyaf canolig o bellder. Ac hefyd hwy a gadwant ac a ddibennant eu Llyfoedd yn y ſath brŷd cymheſur ag y gallo pob un ddychwelyd adref mòr brydlawn ag y galler.

126. *Gwaban ac Is-Lyſoedd i gyfrwyno Cyn-gopïau Llythyrau-Cymmyn i Gof-dŷ'r Eſgob.*

LLe mae Deoniaid, Arch-diaconiaid, Prebendariaid, Perſoniaid, Ficeriaid, ac eraill ſy 'n trîn Llywodraeth Eglwyſig, yn cleimio Rhyddid i brofi Llythyrau Cymmyn ac Ewyllyſion diweddaf rhai yn meirw yn eu hamryw Swyddogaethau, heb ganddynt ddim Cofiaduriaid adnabyddus a ſicr, nac un lle cyhoedd i gadw eu Côf-lyfrau ynddynt, o ba achos collwyd, a darfu llawer Ewyllys, Hawlion, a Rhoddion, ar farwolaeth, neu ſymmudiad y cyfryw rai, a'u 'Sgrifenyddion prïod, er mawr niweid a rhwyſtr i Ddeiliaid y Brenhin: yr ŷm ni gan hynny 'n trefnu ac yn gorchymmyn i bob cyfryw ag ſy 'n meddu ac yn arfer Awdurdod wahanredol, unwaith bob blwyddyn gyfliwyno i Côf-dŷ cyhoedd Eſgob yr Eſgobaeth, neu 'r Deon a'r Cabidwl, y bo 'r mân Lyſoedd hynny dan eu Llywodraeth, bob Cyn-ſgrif Ewyllys pob un a fu farw yn hynny o amſer, ac a brofwyd ganddynt yn eu hamryw Reol-freiniau gwahanredol, neu Gopi cywir o bob cyfryw Ewyllys, wedi i'r Barnwr gwahanredol a'i 'Sgrifennydd ei holi, a dodi eu dwylaw a'u Sêl wrtho. Yn amgen, O's metha un o honynt wneud felly, Eſgob yr Eſgobaeth, neu 'r Deon a'r Siapter, i ba rai y mae 'r Rheol-freiniau dywededig yn perthyn yn wahanredol, a orfodogant y pleidiau dywededig, a phob un o honynt rhag arfer yr holl gyfryw Reolaeth wahanredol, hŷd oni chyflawnont ein Goſodedigaeth hon.

Am Farnwyr Eglwyſig a'u Dirprwywyr.

127. *Cynbeddfau a Llwon Barnwŷr.*

NI chaiff neb o hyn allan ei gymmeryd yn Ganghellor, yn Gommiſſari, neu 'n Swyddwr i drîn un Rheolaeth Eglwyſig, oni bydd efe 'n llawn chwe blwydd ar hugain oed o leiaf, ac yn wŷr dyſgedig yn y Cyfreithiau Bydol ac Eglwyſig, ac o leiaf yn Athraw Celfyddydau, neu Faglawr Cyfraith, ac yn grŷn gyfarwŷdd yn yr ymarfer o honi, ac hefyd yn dda ac yn gynnes ei dueddiad at Grefydd, heb roi un Siampl ddrwg yn ei Fuchedd a'i Foeſau: ac oddi eithr iddo cyn dechreu ar ddim o'r ſath Swydd, gymmeryd Llw Uchafiaeth y Brenhin, yngŵydd yr Eſgob, neu ar oſteg yn y Llŷs, a dodi ei law wrth yr Erthyglau Cretydd a gyttunwyd arnynt yn y Gymmanfa, yn y flwyddyn, Un mil pum cant a dwy a thrugain, a thyngu hefyd y gwnâ efe gyfiawnder ac uniondeb yn ei Swydd, hŷd eithaf ei ddealltwriaeth, heb dderbyn wyneb, na ffafr na gwobr: y dywededig Lwon a'i law ef wrthynt i'w rhoi ynghoff-adwriaeth gan Gofiadur yno 'n breſennol. Ac hefyd pob Canghellor, Commiſſari, Swyddwr, Cofiadur, a phawb eraill ag ſy 'r awr hon yn meddu neu 'n gwaſanaethu rhyw leoedd o Awdurdod neu Waſanaeth Eglwyſig, cyn y *Nadolig* neſaf, yngŵydd yr Arch-eſgob, neu yn wyneb y Llŷs y maent yn gwaſanaethu eu Swyddau ynddo neu dano, a gymmerant yr un Llwon, ac a ddodant eu dwylaw wrthynt, ſel y dywedwyd o'r blaen; neu o's pallant wneuthur felly, gorfodoger hwynt o waſanaethu eu Swyddau, hŷd oni chymmeront y Llwon dywededig a dodi eu dwylaw wrthynt, ſel y rhag-ddywedwyd.

128. *Cynbeddfau Dirprwywŷr.*

NI chaiff un Canghellor, Commiſſari, Arch-diacon, Swyddwr, nac un gwr arall yn trîn Awdurdod Eglwyſig, roi neb danynt yn eu habſen un amſer, i gadw un Llŷs droſtynt, ond naill ai Gweinidog pwyllog a Graddol, neu Bregethwr cenhadol cyhoedd, ac yn berchen Lle yn gyfagos i'r ſan y cadwer y Llyſoedd, neu Faglawr Cyfraith neu Athraw Celfyddydau o leiaf, a pheth cyfarwyddyd ganddo yn y Gyfraith fydol ac Eglwyſig, ac yn hoffigwîr Grefydd, ac yn wr o ymarweddiad lednais ac oneſt, dan boen Gorfodogaeth, am bob prŷd y gwnelont ar fai, o waſanaethu eu Swyddau dros dri mis *toties quoties*. A'r Dirprwywr hefyd ac efe 'n anghymmwys, wrth a rag-draethwyd, ac etto a ryfygo ddirprwyo un Barnwr, a chadw un Llŷs, fel y crybwyllwyd, a gaiff fyned dan yr un gôsb yn y modd a'r dull rhag-nodedig.

Am Broctoriaid.

129. *Ni chaiff Proctoriaid gynnal Matterion heb gyfreithlon bennodiad y Pleidiau.*

NA oruchwilied neb un Matter Cyfraith pwy bynnag, oni bydd wedi ei awdurdodi a'i bennodi i hynny gan y blaid ei hun, naill ai o flaen y Barnwr, a thrwy Weithred yn y Llŷs, neu

neu oddi eithr cael o hono yn nechreu 'r Cŵyn warantrwydd a gallu i hynny trwy oruchwiliwr cywir a dilyſiant: Goruchwiliwr dilys y galwn ni hwnnw a ſicrhäir ac a gyſnerthir â rhyw Sêl awdurdodol, ynghŷd a chymmodlonedd, neu o leiaf ſicrhâd y pleidiau. Yr holl Oruchwilwŷr hyn, cyfiwyned y Proctoriaid i'r Llŷs yn ebrwydd, a chadwed y Llŷs dywededig. Ac o's troſedda na Chofiadur na Phroctor yn hyn, eſe a gedwir allan o wafanaethu ei Swydd dros ddeufis, heb obaith cymmod na rhyddhâd.

130. *Ni chaiff Proctoriaid gynnal Matterion heb Gyngor Dadleuwr.*

ER mwyn toli a lleihâu Llïoſowgrwydd Cŵynau ac Ymryſonau, ac hefyd i rag-achub achwynion Hawlwŷr mewn Llyſoedd Eglwyſig, y ſy 'n colli 'n fynych trwy wall ac eſgeuluſdra, neu trwy anŵybodaeth ac anallu Proctoriaid, ac hefyd er amlhâu a chynnyddu Dyſgeidiaeth, a dyrchafiad y Gyfraith fydol a Chanonaidd, gan ddilyn yr Arferion canmoladwy a gynhaliwyd gynt yn y Llyſoedd perthynol i Arch-eſgob *Caer-gaint*: yr ŷm yn goſod ac yn erchi, na ryfygo un proctor, yn gwaſanaethu yn un o honynt, dderbyn un Matter pwy bynnag, a'i gadw ar ei law dros ddau Lŷſ-ddŷdd, heb Gyngor ac Addyſg Dadleuwr, dan boen blwyddyn o orſodogaeth o'i ſwydd; ac ni bydd yngallu 'r Barnwr ryddhâu nac eſmwythâu 'r ddywededig Gôsb, heb Orchymmyn eglur ac Awdurdod y dywededig Arch-eſgob.

131. *Ni chaiff Proctoriaid ddibennu un Matter heb ŵybod i Ddadleuwr.*

NA dderbynied un Barnwr yn un o ddywededig Lyſoedd yr Arch-eſgob un Libel, nac un Matter arall heb Gyngor Dadleuwr a ſo wedi ei dderbyn i oruchwilio yn yr un Llŷs, neu heb ei law ef wrtho: Ac na ddibenned un Proctor un Matter a ſo 'n ymddibynnu, heb ŵybod i'r Dadleuwr cyflogedig a ffiedig yn yr Achos: ac o's un Proctor a wnâ, neu a bair wneud hynny, neu trwy un lliw pwy bynnag a dwylla 'r Dadleuwr am ei gyflog neu ei ffi, neu a eſgeuluſa fyned at y Dadleuwr, am ei Gyngor, pa ffordd i gymmeryd yn yr Achos, eſe a orfodogir o'i holl Swydd, dros chwê mis heb obaith dychwelyd nes cwbl gyflawni hynny o amſer.

132. *Gwahardd i Broctoriaid y Llw* in animam Domini ſui.

YN gymmaint a gweled wrth brofi Ewyllyſion a Chŵynion am adminiſtrio Dâ rhai 'n meirw 'n ddi Ewyllys, bod y Llw a arferai Proctoriaid gymmeryd mewn Llyſoedd *in animam conſtituentis*, yn anghymmwys: yr ŷm ni gan hynny 'n goſod, ac yn gorchymmyn i bob Secutor neu Holwr Adminiſtraſiwn, fyned ei hun yn yr achos hynny at y Barnwr neu ei Ddirprwywr, a chymmeryd ei hunan (ac nid trwy Broctor) y Llw arferedig yn yr Achoſion hyn. Eithr oni all eſe o ran clefyd neu oedran, neu ryw luddias a rhwyſtr cyfion arall, ymddangos yn gorphorol ger bron y Barnwr: bid rŷdd i'r Barnwr (ar ſiecrwydd tyſtiolaeth un credadwy 'n gyntaf fod y Lluddias neu 'r Rhwyſtr hwnnw arno 'n wîr) roi Commiſſiwn i ryw Eglwyſwr pwllog a ſo 'n byw 'n agos i'r blaid ddywededig, ac wrth hynny roi gallu ac awdurdod i'r dywededig Eglwyſwr i weini droſto ef y rhag-ddywededig Lw arferol i Secutor neu Holwr y cyfryw Adminiſtraſiwn, gan beri i'w Ddirprwywr dywededig trwy gennad ffyddlon ac oneſt roi iddo hyſbyſrwydd cywir a ffyddlon o'r hyn a wnaeth eſe yn hynny. Ac yn ddiweddaf, yr ŷm yn goſod ac yn ordeinio, na dderbynio un Barnwr na Chofiadur yn un modd am yſgrifennu, gwneud a ſelio un cyfryw Gommiſſiwn, oddi ar chwê-ſwllt ac wyth geiniog; y naill hanner o hynny i'r Barnwr, a'r llall i Gofiadur y Llŷs dywededig.

133. *Proctoriaid i beidio bod yn ſtoedd-ſawr mewn Llyſoedd.*

YN gymmaint a chael trwy brawf fod crochlefau a chymmyſg-ſloeddiau y Proctoriaid yn Llyſoedd yr Arch-eſgob, nid yn unig yn flinderus ac yn rhwyſtrus i'r Barnwŷr ac i'r Dadleuwŷr, eithr hefyd yn rhoi achlyſur i'r rhai a ſo 'n ſefyll ger llaw, ddirmygu a chablu'r Llŷs ei hun: fel y bo mwy o Fri i Uchel-fraint y Barnwr nâ chynt, ac fel y trinier ac y dibenner Achoſion yn haws ac yn hwyluſach, yr ŷm yn erchi ac yn gorchymmyn i'r holl Broctoriaid yn y Llyſoedd dywededig wilied yn bendant ar i'r Cofiadur nodi a rhoi ar lawr yn ffyddlon y Gweithredoedd, wrth Gyngor ac Addyſg y Dadleuwr, ac i'r dywededig Broctoriaid ymattal oddi wrth bob uchel-ddadwrdd ac ymdaeru, ac ymddŵyn yn llonydd ac yn llednais, a phan ddigŵyddo naill ai i'r Barnwŷr neu 'r Dadleuwŷr, neu i un o honynt lefaru, tawent hwy 'n ebrwydd, dan boen cael cau eu Safnau dros y ddau Derm cyfan neſaf i ddyfod ar ôl pob cyfryw Droſedd a wnelont. Ac o's troſedda neb o honynt yn hyn eilwaith, ac ni wellhâ er ei rybuddio 'n ddyladwy, diſwydder ef dros fyth.

Am Gofiaduriaid.

134 *Cam-arferion i'w diwygio mewn Cofiaduriaid.*

O'S derbyn un Cofiadur, neu ei Raglaw, neu pwy bynnag a ſo dano, Hyſbyſrwydd heb ŵybod a bodd Barnwr y Llŷs, neu a eſgeuluſa o'i wîr fodd beri galw rhyw un a wŷſiwyd i atteb ar ryw Ddŷdd Llŷs, neu a gam oeda, a bwrw heibio holi tyſtion a ſo i'w holi ar ryw ddŷdd pennodol goſodedig gan y Barnwr, neu ni ufuddhao a chadw Rhybudd barnedigol a chyfreithlon y Barnwr dywededig, neu a eſgeuluſo yſgrifennu, neu beri 'ſgrifennu y cyfryw Wŷſiau a Gorchymynion ag a ſo i'w cyflawni a'u rhoi allan cyn y dŷdd Llŷs neſaf, neu ni pharo goffhâu mewn pryd cyfaddas bob Llythyr Cymmyn a gyfiwyner i'w Swydd-dŷ, neu a rŷdd ar lawr ac a enaćtia megis yn oſodedig gan y Barnwr, ryw beth gau, neu o'i feddwl ei hun, na ordeiniwyd ac na phennodwyd gan y Barnwr felly, neu wrth droſglwyddo Proſeſau at y Barnwr *Ad quem*, a angwanega neu a ddodo i mewn ryw ffügneu anwiredd, neu a ado allan ddim o honynt, naill ai o gyfrwyſdra, neu o hurtrwydd anŵybodaeth, neu mewn achoſion erlyniad, plaid, neu ddyrchafiad Swydd, a dderbynio ryw wobr yn ffafr i un o'r ddwy blaid neu gŷd-ymgynghoro yn gam nac yn union, ag un o'r pleidiau mewn dadl, neu yn nhriniad eu Swydd, a wnelo ddim arall, o falais na thwyll, a allo beri anglod na drygair i'r dywededig Farnwr Eglwyſig na'i Weithredoedd: Yr ŷm yn erchi ac yn ordeinio i'r dywededig Gofiadur, neu ei Raglaw, neu ei Ddirprwywr, a dramgwyddo yn oll neu yn un o'r pethau rhag-draethedig, gael ei orfodogi gan Eſgob yr Eſgobaeth o drin ei Swydd, dros fis, neu ddau, neu dri, neu ychwaneg, yn ol anfodd ei fai, ac i'r dywededig Eſgob bennodi rhyw 'Sgrifennydd cyffredin arall i wneuthur a chyflawni pob peth a berthyn i'w Swydd ef, dros amſer ei ddywededig Orſodogaeth.

135. *Swm ſafadwy o ſtoedd dyledus i bob Swyddog Eglwyſig.*

NI chaiff un Eſgob, Suffragan, Canghellor, Commiſſari, Arch-diacon, Swyddwr, nac un gŵr arall pwy bynnag a ſo 'n trîn Awdurdod Eglwyſig,

Eglwyſig, nac un Coſiadur dim Llyſoedd Eglwyſig, nac un Gweinidog yn perthyn i un o'r dywededig Swyddogion neu Lyſoedd, o hyn allan dderbyn na chymmeryd, am un achos digŵyddol I'w hamryw Swyddau, ddim amgen na mwy Ffioedd, nag a hyſbyſwyd i'r Anrhydedduſaf Dâd yn Nuw, *Ioan* diweddar Arch-eſgob *Caer-gaint*, ym mlwyddyn ein Harglwydd Dduw, Un mîl pum cant a dwy ar bymtheg a phedwar ugain, ac a ſicrhäwyd ac a gymmeradwywyd ganddo ef, dan boen, bod i bob cyfryw Farnwr, Swyddog, neu Weinidog, a dramgwyddo, yn hyn gael eu gorfodogi o drîn eu hamryw Swyddau, dros chwê mis am bob cyfryw dramgwydd. Darparer yn waſtad, o's cyfyd un ddadl o blegid ſicrwydd y Ffioedd dywededig, nac un o honynt; yna 'r Ffioedd hynny a gyfrifir yn gyfreithlon, a gymmeradwyo Arch-eſgob *Caer-gaint*, a ſo yn yr amſer, dan ei Law, oddi eithr bod Deddfau 'r Deyrnas hon a wnaethpwyd gynt, yn rhyw achos neillduol yn hyſbyſu rhyw Ffioedd amgen, yn ddyledus. Darparer ym mhellach, na chymmero na 'r Arch-eſgob, nac un Eſgob na Suffragan, yn gam nac yn union, ddim Ffi nac arian am roi urddau cyſſegredig i undyn, ac na chymmero un dŷn arall na dynion dan y dywededig Arch-eſgob, Eſgob, neu Suffragan, am Femrwn, Yſgrifen, Cŵyr, Selio, neu am ddim arall perthynol i hynny, oddi ar chweugain, dan y cyfryw boenau a bennodwyd eiſioes trwy Gyfraith.

136. Tabl o Swm y Ffioedd i'w oſod i fynu mewn Llyſoedd a Chof-dai.

YR ŷm ni hefyd yn goſod ac yn appwyntio i'r Coſiaduriaid perthynol i bob cyfryw Farnwr Eglwyſig oſod dau Dabl yn cynnwys yr amryw briſiau a Symmau 'r holl ddywededig Ffioedd: un yn y ſân arferedig neu 'r Orfedd, lle y cedwir y Llŷs, a'r llall yn ei Gôf-dŷ; a phob un o honynt yn y cyfryw fodd ag y gallo pawb yn perthyn iddynt, yn hawdd ac yn rhwydd eu gweled a'u darllain, a'u copio: y Tablau hyn i'w goſod i fynu felly cyn Gwyl *Nadolig* neſaf i ddyfod. Ac o's palla un Coſiadur a goſod y dywededig Dablau yn ôl y dreſn hon, efe a orfodogir o waſanaethu ei Swydd, hŷd oni pharo eu goſod yn ddyladwy. Ac wedi goſod y Tablau hyn i fynu unwaith, o's efe un amſer a'u ſymmud, neu a âd eu ſymmud, eu cuddio, na'u celu yn un wêdd yngwrthwyneb i wîr feddwl yr Oſodedigaeth hon, efe a orfodogir o waſanaethu ei Swydd dros chwê mis am bob cyfryw Fai.

137. Y Ffioedd cyfain am ddangos Llythyrau urddau a Chenhadau eraill, yn ddyledus ond unwaith yn amſer pob Eſgob.

GAn mai prif achos a deunydd pennaf Ymweliad yw, cael o'r Eſgob, Arch-diacon, neu arall a drefnir i ymweled, ryw hyſbyſrwydd da am 'Stad, Cyfaddaſrwydd a Gallu 'r Eglwyſwŷr, ac eraill y bônt i ymweled â hwy: Yr ŷm yn tybied yn gymmwys i bob Perſon, Ficer, Curad, Yſgol-feiſtr, neu bwy bynnag arall Cenhadol ar Ymweliad cyntaf yr Eſgob, neu 'r Ymweliad neſaf ar ôl ei ddyfod i mewn, ddangos a chyflwyno iddo ei Lythyrau urddau, ei Ordeiniad, a'i Oreſgyniad, a'i holl Ryddid, Cenhadau, neu Rŷdd-freiniau eraill pa rai bynnag, i gael gan y dywededig Eſgob naill ai eu cymmeradwyo, neu (o's bydd achos cyfiawn) eu llyſu a'u gwrthod: ac wedi cael eu cymmeradwyo ganddo, i'r Coſiadur eu hinſelio yn ôl yr arfer, ac na thaler y Ffioedd cyfain arferedig i'w talu yn yr Ymweliadau, o herwŷdd y pethau rhag-draethedig, ond unwaith yn unig yn holl amſer pob Eſgob, ac wedyn, ddim ond hanner y dywededig Ffioedd arferol ym mhob Ymweliad arall tra parhao 'r Eſgob hwnnw.

Am Ringyllod.

138. Attal rhifedi Rhingyllod.

OHerwŷdd yr ewyllyſiem ddiwygio y fath gam-arferion a blinderau a ddywedir iddynt dyfu trwy Ddyfynwŷr neu Ringyllod; yr ydym yn gweled yn gymmwys leihâu neu attal (gymmaint ag aller) y lliaws Rhingyllod. O herwŷdd pa ham yr ŷm yn goſod ac yn ordeinio, na chaiff un Eſgob, neu Arch-diacon neu eu Ficeriaid, neu Swyddwŷr, neu îs Ordinariaid eraill, awdurdodi, na chadw ychwaneg o Ringyllod i waſanaethu yn Rheol-gylchau pob un yn wahanredol, nag a arferent naill ai hwy, neu eu Hynafiaid gael ddeng mlynedd ar hugain cyn cyhoeddi ein Goſodedigaethau preſennol hyn. Yr holl Ringyllod hyn a waſanaethant eu Swyddau eu hunain yn ffyddlon, ac ni chânt trwy un lliw nac eſgus pwy bynag, beri na gadael dim Cenhadon na dirprwywŷr i waſanaethu eu Mandatau, oddi eithr ar ryw achos da, a ŵyddo ac a gymmeradwyo Ordinari 'r lle yn gyntaf. Hefyd ni chânt gymmeryd arnynt Swydd Dyrchafwŷr a Hysbyſwŷr dros y Llŷs, na chwaith ofyn mwy neu amgen ffioedd nag a oſodwyd gynt yn ein Goſodedigaethau hyn. Ac o's â naill ai rhif y Rhingyllod awdurdodedig dros y terfyn rhag-nodedig, neu droſeddu o un o'r dywededig Ringyllod mewn un o'r pethau rhag-ddywededig, y rhai a'u hawdurdododd, o's Eſgobion ŷnt, ar rybudd eu Huwch, a ddiſwyddant y rhai a ſo dros ben y rhif terfynedig felly. O's îs Ordinariaid, gorfodoger hwy o waſanaethu eu Swydd, hŷd oni ollyngont ymaith y Rhingyllod a awdurdodwyd felly ganddynt: a'r rhai eu hunain a awdurdodwyd felly, a droir allan o Swydd Rhingyllod dros fyth; ac oni pheidiant â gwaſanaethu eu ſwyddau dywededig, wedi eu troi allan felly, cosher hwy â Barnau Eglwyſig megis rhai yſtyfnig. Darparer, o's gwêl Arch-eſgob *Caer-gaint*, a ſo 'n yr amſer, wrth brawf fod rhifedi 'r dywededig Ringyllod yn ormod yn yr Eſgobaeth, y gall eſe eu lleihâu felly, fel y gwelo 'n addas ac yn gymmwys.

Am Awdurdod Seneddau.

139. Senedd Deyrnaſol yw Adgynnyrcholdeb yr Eglwys.

PWy bynnag o hyn allan a haero, nad yw Senedd gyſſegredig y Deyrnas hon ymgynnulledig yn enw Criſt, a thrwy Awdurdod y Brenhin, yn wîr Eglwys *Loegr* trwy adgynnyrcholdeb, yſgymmuner, ac na chymmoder ef, nes iddo edifarhâu a dadſarnu 'n gyhoedd ei amryfuſedd drygionus hwnnw.

140. Seneddau 'n cŷd-rwymo 'r abſennol yn gyſtal a'r preſennol.

PWy bynnag o hyn allan a haero nad yw neb, na Gŵr Eglwyſig na Gŵr llŷg, heb fod eu hunain yn gynnulledig yn bennodol yn y ddywededig Senedd gyſſegredig, yn rhwym i'w Hordeiniadau hi ym Matterion Eglwyſig (a wnaethpwyd ac a ſicrhäwyd trwy oruwch Awdurdod Grâs y Brenhin) megis heb gŷd-leiſio â hwynt: Yſgymmuner, ac na chymmoder ef, hŷd onid edifarhao, a chyhoedd ddadſarnu ei ddrygionus amryfuſedd hwnnw.

141. Cosbi Diſtadlwŷr y Senedd.

PA rai bynnag o hyn allan a haeront mai Cymdeithas o Gyd-fradwŷr yn erbyn duwiol a Chreſyddol Broffeſiwŷr yr Eſengyl ydoedd y Senedd Gyſſegredig,

Gyſſegredig, ymgynnulledig fel y crybwyllwyd: ac y dylid am hynny eu dirmygu a'u diyſtyru hwy a'u herlyniadau yn gwneuthur Canonau a Goſodedigaethau ym Matterion Eglwyſig trwy Awdurdod y Brenhin, fel y rhag-ddywedwyd, a'r Rheini wedi eu ſicrhâu, eu cadarnhâu, a'u gorchymmyn, trwy allu, Awdurdod, ac Uchafiaeth ddywededig y Brenhin; Yſgymmuner, ac na chymmoder hwy, hŷd oni edifarhaont a dadfarnu 'n gyhoeddus eu Hamryſuſedd annuwiol hynny.

NYni, o'n Tueddiad Tywyſogol, a'n Gofal Brenhinol i faentumio Yſtâd breſennol a Llywodraeth Eglwys Loegr, *wrth Gyfreithiau ein Teyrnas hon, a ſefydlwyd ac a gadarnhäwyd yr awr hon, wedi darllain yn ddiwyd trwy ſoddlonrwydd a diddanwch mawr, ac yſtyried y rhai hyn oll ei dywededig Canonau, Trefnau. Ordinhadau a'i Goſodedigaethau a gyttunwyd arnynt, fel yr amlygwyd o'r blaen; ac wedi cael y rheini yn gyfryw ag ydym yn coelio a fyddant yn fuddiol iawn, nid yn unig i'n Heglwyſŵŷr, eithr i holl Eglwys ein Teyrnas hon, ac i'w holl wir Aelodau (o's cedwir hwy 'n dda) A roiſom gan hynny droſom ein hunain, ein Hetifeddion, a'n Gwrthrychiaid cyfreithlon o'n Grâs hyſbyſol, ein Gŵybodaeth ſicr, a'n Gwir Gynnwrf, ac wrth hyn, ydym yn rhoi ein Brenhinol Gŷdſyniad, yn ôl ffurf y Statut ddywededig, neu 'r Act o Barliament rag-ddywededig, i oll a phob un o'r Canonau, Trefnau, Ordinhadau a'r Goſodedigaethau dywededig, ac i oll a phob peth ag ſy ynddynt yn gynnwyſedig, fel y maent wedi eu 'ſgrifennu o'r blaen.*

Ac ym mhellach, nid ydym yn unig trwy ein dywededig Ragor-fraint Frenhinol, a'n Goruch Awdurdod ym Matterion Eglwyſig, yn cadarnhâu, cryfhâu, a ſicrhâu trwy y rhain ein Llythyrau Patent, y Canonau, Trefnau, Ordinhadau, a'r Goſodedigaethau dywededig, ac oll a phob peth ag ſy ynddynt yn gynnwyſedig, megis ag y dywedwyd o'r blaen; eithr yr ŷm hefyd yn goſod, yn cyhoeddi, ac yn erchi 'n gaeth, ac yn gorchymmyn trwy ein dywededig Awdurdod, a thrwy y rhain ein Llythyrau Patent, yr unrhyw i'w cynnal yn ddieſgeulus, eu gwneuthur a'u cadw 'n ogyfurdd gan ein holl Ddeiliaid ſerchog o'n Teyrnas hon, o fewn Talaith Caer-gaint, *a* Chaer-efrog, *ym mhob peth ag y maent, neu y gallant fod yn perthyn i oll neu un o honynt, yn ol hyn ein Hewyllys a'n Gorchymmyn, a ddangoſwyd ac a eglurwyd yn hyn; ac hefyd, er mwyn eu cadw 'n well, bid i bob Gweinidog, wrth ba enw neu deitl bynag y gelwir ef, yn yr Eglwys Blwyf, neu 'r Capel, lle bo ganddo ofal, ddarllain yr holl Canonau, Trefnau, Ordinhadau, a'r Goſodedigaethau dywededig, unwaith bob Blwyddyn, ar ryw Suliau neu Wyliau, wedi hanner dŷdd, o flaen Gwaſanaeth Duw, gan eu rhannu yn y fath wêdd ag y galler darllain y naill hanner un dŷdd, a'r llall ddiwrnod arall; Llyfr y Canonau dywededig i'w ddarparu ar goſt y Plwyf, rhwng hyn a Gŵyl* Genedigaeth *ein Harglwydd Duw neſaf yn dyfod: gan erchi 'n gaeth a gorchymmyn i'r holl Archeſgobion, Eſgobion, a phawb eraill ag ſy 'n trin un Rheol-fraint Eglwyſig o fewn y Deyrnas hon, bob un yn ei le fynnu gweled, a pheri (bŷd ag y mae ynddynt) cadw oll a phob un o'r Canonau, Trefnau, Ordinhadau a'r Goſodedigaethau hyn, ym mhob pwnge yn iawn, heb arbed goſod y Cosbedigaethau a grybwyllir ym mhob un o honynt yn neilldiol, ar bob un a'i torro o' wirfodd ac yn ewyllyſgar, neu a eſgeuluſo eu cadw, fel y maent yn gofalu am Anrhydedd Duw, Heddwch yr Eglwys, Llonyddwch y Deyrnas, a'u Dyledſwyddau a'u Gwaſanaeth i Ni, eu Brenhin a'u Harglwydd.*

Yn Dŷſt, &c

TABL.

TABL
Y
Gosodedigaethau a'r Canonau Eglwysig.

Am Eglwys *Loegr*.

1 *Uchafaeth y Brenbin ar Eglwys* Loegr *mewn Matterion Eglwysig i'w clymnal. Cosbi Gwrthwynebwŷr Uchafaeth y Brenbin.*

3 *Eglwys* Loegr, *yn Eglwys wîr ac Apostolig.*

4 *Barnu Gwrthwynebwŷr cyhoedd Wasanaeth Duw a sefydlwyd yn Eglwys* Loegr.

5 *Cosbi Gwrthwynebwŷr Erthyglau Crefydd a sefydlwyd yn Eglwys* Loegr.

6 *Cosbi Gwrthwynebwŷr y Cynheddfau a'r Seremoniau a sefydlwyd yn Eglwys* Loegr.

7 *Cosbi Gwrthwynebwŷr Llywodraeth Eglwys* Loegr *trwy Arch-esgobion Esgobion,* &c.

8 *Cosbi Gwrthwynebwŷr Ffurf cyssegru ac urddo Arch-esgobion, Esgobion,* &c. *yn Eglwys* Loegr.

9 *Cosbi Awdwŷr Sism yn Eglwys* Loegr.

10 *Cosbi Coleddwŷr Sismaticiaid yn Eglwys* Loegr.

11 *Cosbi Amddiffynwŷr Ymgyfarfodau.*

12 *Cosbi Coleddwŷr Gosodedigaethau a wneler mewn Ymgyfarfodau.*

Am Wasanaeth Duw a Gweinidogaeth y Sacramentau.

13 *Iawn gadw Suliau a Gwŷliau.*

14 *Rhag-bennedig Ffurf Gwasanaeth Duw i'w barfer ar Suliau a Gwŷliau.*

15 *Y Litani i'w darllain ar Ferchurau a Gwenerau.*

16 *Colegau i arfer y Ffurf rag-bennedig o Wasanaeth Duw.*

17 *Astudwŷr mewn Colegau i wisgo Gwîn-wisgoedd ar brŷd Gwasanaeth Duw.*

18 *Parch a Dyfal-ymwrandawiad i'w arfer o fewn yr Eglwys ar brŷd Gwasanaeth Duw.*

19 *Na adawer Segurwŷr yn agos i'r Eglwys ar brŷd Gwasanaeth Duw.*

20 *Bara a Gwin i'w darparu erbyn pob Cymmun.*

21 *Y Cymmun i'w dderbyn deirgwaith yn y Flwyddyn.*

22 *Rhybudd am y Cymmun i'w roi ym mlaen llaw.*

23 *Astudwŷr mewn Colegau i dderbyn y Cymmun bedair gwaith yn y Flwyddyn.*

24 *Côpau i'w gwisgo mewn Eglwysau Cadeiriol gan y rhai a weiniant y Cymmun.*

25 *Gwîn-wisgoedd a Hydiau i'w gwisgo mewn Eglwys Cadeiriol pryd na bo Cymmun.*

26 *Na dderbynier Drwg-Weithredwŷr bynôd i'r Cymmun.*

27 *Na chymmerer Sismaticiaid i'r Cymmun.*

28 *Na dderbynier Direitbriaid i'r Cymmun.*

29 *Nad oes i sod yn Dadau-bedydd na 'r Tadau, na Phlant na buont yn cymmuno.*

30 *Deongli cyfreithlon arfer Arfwydd y Grèg yn y Bedydd.*

Am Weinidogion, eu Hurddau, eu Swydd, a'u Gofal.

31 *Pedwar Amser arbennig pennodol i wneuthur Gweinidogion.*

32 *Na wneler neb yn Ddiacon ac yn Offeiriad yn yr un dŷdd.*

33 *Titlau 'r sawl a wnelir yn Weinidogion.*

34 *Cynheddfau 'r sawl a wnelir yn Weinidogion.*

35 *Holiad y sawl a wnelir yn Weinidogion.*

36 *Pethau a ofynnir i'r sawl a urddir yn Weinidogion ddoddi eu dwylaw wrtoynt. Erthyglau i ddodi Dwylaw wrthynt. Ffurf dodi Dwylaw.*

37 *Dodi Llaw yngwŷdd yr Esgob.*

38 *Cosbi Gwrth-gilwŷr wedi dodi eu Dwylaw.*

39 *Gochcliadau wrth ordeinio Gweinidogion i Eglwysi.*

40 *Llw yn erbyn Simoniaeth wrth ordeinio i Fywiolaethau.*

41 *Terfynu Cenhadau i gadw mwy nag un Eglwys, a gorchymmyn bod yn drigianol yn honno.*

42 *Trigiannoliad Deonau yn eu Heglwysi.*

43 *Deonau a Phrebendariaid i bregethu tra bônt yn drigiannol.*

44 *Prebendariaid i fyw yn eu Heglwysi.*

45 *Pregethwŷr meddiannol yn byw yn eu Heglwysi i bregethu bob Sûl.*

46 *Gwŷr meddiannol ni bônt yn Bregethwŷr i fynnu Pregethau bob Mis.*

47 *Absen Gwŷr meddiannol i'w cyflawni gan Guradiaid cymmeradwy i bregethu.*

48 *Dim Curadiaid ond a gymmeradwyir gan yr Esgob.*

49 *Na chaiff Gweinidogion, heb eu cymmeradwyo 'n Bregethwŷr, esponio.*

50 *Na adawer i Ddieithriaid bregethu heb ddangos eu Cennad.*

51 *Na adawer Dieithriaid i bregethu mewn Eglwys gadeiriol heb ddigon o Awdurdod.*

52 *Enwau Pregethwŷr dieithr i'w nodi mewn Llyfr.*

53 *Dim Gwrthwyneb cyhoedd rhwng Pregethwŷr.*

54 *Cenhadau Pregethwŷr angbydffurfiol i fod yn ddirym.*

55 *Ffurf Gweddi i'w barfer gan Bregethwŷr o flaen eu Pregeth.*

56 *Pregethwŷr a Lesiurwŷr i ddarllain Gwasanaeth Duw, a gweini 'r Sacramentau o leiaf ddwywaith yn y Flwyddyn.*

57 *Na wrthoder y Sacramentau o ddwylaw Gweinidogion na bônt yn pregethu.*

58 *Gweinidogion wrth ddarllain Gwasanaeth Duw, a gweini 'r Sacramentau, i wisgo Gwîn-wisgoedd, a Graddolion Hydiau hefyd.*

59 *Gweinidogion i Gatecisio bob Sûl.*

60 *Bedydd-Esgob i fod unwaith bob tair blynedd.*

61 *Gweinidogion i barottôi Plant i'w confirmio.*

62 *Gweinidogion i beidio prïodi neb rhai heb Ostegion neu Gennad.*

63 *Gweinidogion Eglwysi rhŷdd i beidio prïodi heb Ostegion neu Gennad.*

64 *Gweinidogion i rybuddio Gwŷliau yn barchus.*

65 *Gweinidogion i gyffredin gyhoeddi Ymwrthodwŷr ac Ysgymmunwŷr.*

66 *Gweinidogion i ymresymmu ag Ymwrthodwŷr.*

67 *Gweinidogion i ymweled â'r Cleifion.*

68 *Gweinidogion i beidio pallu Bedyddio neu Gladdu.*

69 *Gweinidogion i beidio oedi Bedyddio, o's bydd y Plentyn mewn Pergyl.*

70 *Gweinidogion i gadw Côf-Lyfr Bedyddiau, Prïodasau, a Chladdedigaethau.*

71 *Gweinidogion i beidio pregethu na gwasanaethu 'r Cymmun mewn Tai neillduol.*

72 *Gweinidogion i beidio 'pwyntio Ymprydiau cyhoedd na neillduol, na Phropbwydoliaethau, na Thynghedu, ond trwy Awdurdod.*

73 Gweinidogion i beidio cynnal Cyfarfodydd neilldnol.
74 Harddwch mewn Dillad yn orchymynedig i Weinidogion.
75 Gofyn Ymaruweddiad fobr mewn Gweinidogion.
76 Gweinidogion i beidio ymwrthod un amfer â'u Galwedigaeth.

Am Yfgol-feiftriaid.

77 Neb i gadw Yfgol heb Ganiad.
78 Curaniaid yn chwennych dyfgu, i'w cenbadu o flaen craill.
79 Dyled Yfgol-feiftriaid.

Am Bethau 'n perthyn i Eglwyfi.

80 Y Bibl mawr a Llyfr Gweddi gyffredin i fod ym mhob Eglwys.
81 Bedydd-faen i fedyddio ym mhob Eglwys.
82 Bwrdd cymmun gweddaidd ym mhob Eglwys.
83 Pulpyd i'w ddarparu ym mhob Eglwys.
84 Eluſen-Gift ym mhob Eglwys.
85 Eglwyfi i'w cadw mewn adgyweiriad diwall.
86 Eglwyfi i'w golygu, a'r Adfeiliau i'w bysbyfu i'r uchel Gommiſyniwŷr.
87 Tir-Lyfr Eglwyſdir a meddiannau craill perthynol i Eglwyſydd.
88 Na balogir Eglwyſydd.

Am Wardeniaid neu Ymofynwyr a Chynnorthwywyr.

89 Dewiſiad Wardeniaid, a'u Cyfrif.
90 Dewiſiad Cynnorthwywŷr, a'u Cŷd-ſwydd bwynt â'r Wardeniaid.

Am Glochyddion.

91 Clochyddion i'w dewis gan y Gweinidog.

Am Lyfoedd Eglwyfig perthynol i Lywodraeth yr Arch-eſgob.

92 Na wŷfier neb i amryw Lyfoedd i brofi'r un Ewyllys.
93 Gwerth y Bona notabilia attebol i Lŷs y Rhagorfraint.
94 Neb i'w gwŷfio i'r Archau neu 'r Gwrandawle ond Trigolion o fewn Eſgobaeth neu uwchan-lyfoedd yr Arch-eſgob.
95 Attal dwbl Gwerylon.
96 Na chaniattaer Gwahardd diadau heb fod Llaw Dadleuwr wrthynt.
97 Na chaniattaer Gwahardd diadau nes dangos yr Appêl i'r Barnwr.
98 Na chaniattaer Gwahardd diadau i Appelwŷr cynbennus, oni ddodant eu Dwylaw 'n gyntaf.
99 Neb i Briodi o fewn y Graddau gwahardd edig.
100 Neb i Briodi dan un mlwydd ar hugain oed, heb Cŷd-fynniad eu Rhieni.
101 Gan ba rai y rhoir Cenbadau i Briodi heb Oſtegion, ac i ba fath Ddynion.
102 Meichiau i'w fynnu wrth roi'r cyfryw Genbadau, a than ba Ammodau.
103 Llwon i'w cymmeryd am yr Ammodau.
104 Eithrad am y Gweddwon.
105 Na roer un Llythyr-Yſgar ar Gyffes y Pleidiau yn unig.
106 Dim Barn yſgar i'w rhoi ond mewn Llŷs ar Oſteg.
107 Ym mhob Barn yſgar Rhwymau i'w cymmeryd na phriodont ym mhlwy eu gilydd.
108 Cosbedigaeth Barnwŷr a wnelont ar fai yn y pethau rhag-ddywededig.

Am Lyfoedd Eglwyfig perthynol i Reolfraint Eſgobion ac Arch-diaconiaid, a'r Erlyniadau ynddynt.

109 Beiau anfad a Rhwyſtrau i'w bysbyfu i Lyfoedd Eglwyfig trwy Breſentiad.
110 Simoniciaid i'w preſentio.
111 Terfyſgwŷr Gwaſanaeth Duw i'w preſentio.
112 Y fawl ni chymmunant y Paſg i'w preſentio.
113 Gall Gweinidogion breſentio.
114 Gweinidogion a breſentiant Ymwrthodyddion.
115 Na chŵyner ar Weinidogion a Wardeniaid am breſentio.
116 Nid yw Wardeniaid yn rhwym i breſentio 'n fynychach nâ dwy waith yn y Flwyddyn.
117 Na finer Wardeniaid eiſiau preſentio 'n fynychach nâ dwywaith yn y Flwyddyn.
118 Yr bin Wardeniaid i breſentio cyn tyngu 'r rhai newŷdd.
119 Pennu Amſer cymbeſur i wneud Preſentiadau.
120 Neb i'w wŷfio i Lyfoedd Eglwyfig trwy Broſes Quorum nomina.
121 Neb i'w wŷfio i amryw Lyfoedd am yr un Bai.
122 Dim barn difuddiad neu ddifwyddiad i'w thraethu yn erbyn Gweinidog ond gan yr Eſgob ei hun.
123 Ni thelmir un Weithred ond mewn Llŷs ar oſteg.
124 Ni chaiff un Llŷs fwy nag un Sêl.
125 Cyfeoedd cymmwys i'w dewis i gadw Llyfoedd.
126 Gwahan ac Is-Lyfoedd i goſtwyno Cyn-gopïau Llythyrau Cymmyn i Gôf-dŷ 'r Eſgob.

Am Farnwyr Eglwyfig a'u Dirprwywyr.

127 Cynbeddfau a Llwon Barnwŷr.
128 Cynbeddfau Dirprwywŷr.

Am Broctoriaid.

129 Ni chaiff Proctoriaid gynnal Matterion heb gyfreitblon Bennodiad y Pleidiau.
130 Ni chaiff Proctoriaid gynnal Matterion heb Cyngor Dadleuwr.
131 Ni chaiff Proctoriaid ddibennu un Matter heb wybod i Ddadleuwr.
132 Gwabardd i Broctoriaid y Llw In Animam Domini ſui.
133 Proctoriaid i beidio bod yn ſceddfawr mewn Llyfoedd.

Am Gofiaduriaid.

134 Cam-arferion i'w diwygio mewn Cofaduriaid.
135 Swm ſafadwy o Ffioedd dyledus i bob Swyddog Eglwyfig.
136 Tabl o Swm y Ffioedd i'w ofod i fynu mewn Llyfoedd a Cbôf-dai.
137 Y Ffioedd cyfain am ddangos Llythyrau-Urddau a Chenbadau craill, yn ddyledus ond unwaith yn amſer pob Eſgob.

Am Ringyllod.

138 Attal Rhifedi Rhingyllod.

Am Awdurdod Seneddau.

139 Senedd deyrnafol yw Adgynnyrcholdeb yr Eglwyſ.
140 Seneddau 'n cŷd-ewyllo 'r abſennol yn gyſtal a'r preſennol.
141 Cosbi Diſtadlwŷr y Senedd.

Y Graddau

Y Graddau Carennydd a Chyfathrach, *gwahardd*dig yn yr Yſgrythur ac wrth ein Cyfreithiau ninnau, i neb *Briodi* ynddynt.

Nid oes i Fâb briodi	Nid oes i Ferch briodi
1 *EI Nain,*	1 *EI Thaid,*
2 *Gwraig ei Daid,*	2 *Gûr ei Nain,*
3 *Nain ei Wraig.*	3 *Taid ei Gûr.*
4 *Chwaer ei Dâd,*	4 *Brawd ei Thâd,*
5 *Chwaer ei Fam,*	5 *Brawd ei Mam,*
6 *Gwraig Brawd ei Dâd.*	6 *Gûr Chwaer ei Thâd.*
7 *Gwraig Brawd ei Fam,*	7 *Gûr Chwaer ei Mam,*
8 *Chwaer Tâd ei Wraig,*	8 *Brawd Tâd ei Gûr,*
9 *Chwaer Mam ei Wraig.*	9 *Brawd Mam ei Gûr.*
10 *Ei Fam,*	10 *Ei Thâd,*
11 *Ei Lyſfam,*	11 *Ei Llyſdad,*
12 *Mam ei Wraig.*	12 *Tâd ei Gûr.*
13 *Ei Ferch,*	13 *Ei Mâb,*
14 *Merch ei Wraig,*	14 *Mâb ei Gûr,*
15 *Gwraig ei Fâb.*	15 *Gûr ei Merch.*
16 *Ei Chwaer,*	16 *Ei Brawd,*
17 *Chwaer ei Wraig,*	17 *Brawd ei Gûr,*
18 *Gwraig ei Frawd.*	18 *Gûr ei Chwaer.*
19 *Merch ei Fâb,*	19 *Mâb ei Mâb,*
20 *Merch ei Ferch,*	20 *Mâb ei Merch,*
21 *Gwraig Mâb ei Fâb.*	21 *Gûr Merch ei Mâb.*
22 *Gwraig Mâb ei Ferch,*	22 *Gûr Merch ei Merch,*
23 *Merch Mâb ei Wraig,*	23 *Mâb Mâb ei Gûr,*
24 *Merch Merch ei Wraig.*	24 *Mâb Merch ei Gûr.*
25 *Merch ei Frawd,*	25 *Mâb ei Brawd,*
26 *Merch ei Chwaer,*	26 *Mâb ei Chwaer,*
27 *Gwraig Mâb ei Frawd.*	27 *Gûr Merch ei Brawd,*
28 *Gwraig Mâb ei Chwaer,*	28 *Gûr Merch ei Chwaer,*
29 *Merch Brawd ei Wraig,*	29 *Mâb Brawd ei Gûr,*
30 *Merch Chwaer ei Wraig.*	30 *Mâb Chwaer ei Gûr.*

TERFYN.